
This is a reproduction of a library book that was digitized by Google as part of an ongoing effort to preserve the information in books and make it universally accessible.

Google™ books

<https://books.google.com>



102

102

1509/3316.

TRAETHAWD
AR
GREFYDD NATURIOL.

▲
DATGUDDIEDIG:

YN CYNWYS

PROFION O DDWYFOLDEB Y BIBL

A'R

Grefydd Crist'nogol;

**YN NGHYD A CHYFARWYDDIADAU I DDARLLEN A DEALL YR
YSGRYTHYRAU, &c.**

GAN Y PARCH. W. REES,

DINBYCH.

'Glyn wrth ddarllen.' Paul.
'A ddarlenco, ystyrled.' Crist.

CLWYD-WASG;

DINBYCH, ARGRAFFWYD A CHYHOEDDwyD GAN THOMAS GEE.

MDCCCXLI.



ENTERED AT STATIONERS' HALL.

REIAGDRAITH.

WELB fi o'r diwedd yn cyflwyno hyn o lyfr wedi ei orphen, i eich dwylaw a'ch ystyriaeth. Drwy ddaionus law rhagluniaeth ddwyfol arnaf, cefais arbediad bywyd ac iechyd i'w ddwyn i ben, fel y mae. Buasai yn dda genyf allu eich anrhegu â thraethawd trefnusach a rhagorach ar y materion mawrion a theilwng y ceisir ymdrin â hwy ynddo. Nid oes genyf ond hysbysu ei fod cyn gystal ag y gallaswu ei wneuthur, yn ol fy ngalluoedd, fy manteision, a'm hamgylchiadau. Ni chefais i amser i'w gyfansoddi a'i ysgrifenu, ond ychydig oriau yn awr ac eilwaith a ladratwn megis oddiar orchwylion a galwedigaethau lluosog a phwysig y swydd weinidogaethol. Gallasai fod yn llawer mwy cryno, trefnus, a theilwng, pe cawswn amser a hamdden i'w gyfansoddi a'i ddiwygio. Gallaf ddywedyd ddarfod i mi edifarhau lawer gwaith ar ol ei ddechreu, ddarfod i mi erioed anturio ar y fath waith; ond wedi cychwyn, ni allaswn droi yn ol, wrth weled fod yn wiw gan fy nghydfenedl hawddgar roddi cefnogaeth gref, drwy dderbyniad lluosog o'r gwaith er eu holl anmherffeithderau. Yn awr, yr wyf yn cymeryd fy nghanad a'm cyfleusdra i gyflwyno fy niolchgarwch iddynt, wrth estyn y llyfr i'w dwylaw, dan fantell yr esgusawd uchod dros y gwallau a'r diffygion a ganfyddant ynddo.

Nid oeddwn yn meddwl, wrth gymeryd y gwaith mewn llaw, nad oedd llaweroedd yn Nghymru yn gymwysach a galluocach na mi at y gorchwyl ; rhai, pe cydiasent ynddo a allasant wneyd mwy o gyfiawnder a'r testun. Yr oeddwn wedi bod yn meddwl er ya blynyddoedd fod angen traethawd o'r natur yma yn yr iaith Gymraeg, ac wedi cyfarfod â llaweroedd ereill o'r un meddwl ; ac wrth weled nad oedd neb yn cymeryd arno y gwaith o gyflawni y diffyg hwn, anturiais arno : a gobeithiaf y gall fod o ryw gymhorth a chyfarwyddyd yn neullduol i athrawon a dysgyblion yr Ysgolion Sabbothol, y rhai nad yw manteision yr iaith Saesoneg yn eu cyrhaedd, er yr holl ddiffygion sydd ynddo.

Yr wyf yn rhwym o arddel y gwaith fel yr eiddof fy hun, fel y mae o ran ei drefn, ei ddull, a'i faterion. Ymdrechais fod yn ofalus i nodi pob awdwr y cymerais gymhorth oddiwrtho—ni fenthygaisfwy oddiar awduron Saesonig nag a wna pob un o honynt hwythau oddiar eu gilydd ac oddiar ereill, mewn gweithiau o'r un natur. Ni chrybwyllaswn hyn, oni bai ddywedyd o rai mai cyfieithiad yw y llyfr drwyddo oll. Gwel pob darlennydd cyfarwydd ei fod gymaint yn eiddo ei awdwr ag unrhyw lyfr o eiddo unrhyw awdwr, ac nad wyf yn euog o gyhoeddi gweithiau ereill fel yr eiddof fy hun.

Heblaw gwallau a diffygion y gwaith, y rhai sydd i'w priodoli i'r awdwr, y mae ynddo rai gwallau o eiddo y wasg, y rhai ydynt i'w priodoli i'r argraffydd. Dymunir i'r darlennydd eu diwygio â'i bin fel y cyfarfyddo â hwynt. Ar y cyfan, gallaf hyderu y bydd y papur a destusrwydd yr argraffwaith yn rhoddi boddlonrwydd cyffredinol i'r derbynwyr : a gallaf sicrhau, hyd eithaf fy sylw a'm gwybodaeth, na roddwyd mwy, os cymaint, o ddefnydd am yr

arian, ar gystal papur a gwaith mewn un llyfr Cymreig a ddygir allan.

Darfu i mi ddwyn rhai pethau i mewn a fwriadwn eu gadael allan, a gadael amryw bethau allan a fwriedwn eu doddi i mewn wrth gychwyn y gwaith, ymhelaethu fwy ar rai pethau ereill nag oeddwn yn amcanu y pryd hyny: ac os byddaf byw i weled galwad ac angen ail argraffiad, ymdrechwn wneuthur amryw ddiwygiadau.

Fy nymuniad a'm gweddi ydyw ar fod yr ymgais amherffaith hwn i ryw fesur yn effeithiol i ddyrchafugwerth, gogoniant, a theilyngdod yr unig lyfr perffaith, a dwyfol, yn ngolwg ei ddarllenyddion, i'w sefydlu yn y gred o'i awdurdod fel gair Duw, eu cynhyrfu i'w chwilio yn ddyfalach ac i ymdrechu ei ddeall yn well, a byw yn fwy cydffurfiol a'i egwyddorion a'i reolau sanctaidd: a chyda'r dymuniad hwn y terfyna

Eich annheilwng, ond diffuant ewyllysiwr da,

W. REES.

Dinbych, Gorphenaf 15fed, 1841.

DANGOSEG.

- ABBOT**, y Parch. J. yn sylwi ar yr hoffder a ymddengys oedd gan Iesu Grist yn ngwaith natur, 18, 19.—ei sylwadau ar nodwedd a chynwysiad yr Ysgrythyrau, 107—109.
- Actau** yr Apostolion, ei amcan, 342.
- Addison**, J. Ysw. yn profi anfarwoldeb yr enaid oddiwrth ei gynydd parhaus, 28, 29—marwolaeth Addison, 254.
- Adenedigaeth**, ei natur, 321.
- Adgyfodiad** y meirw, yn athrawiaeth guddiedig a dyeithr i'r doethion paganaidd, 60, 61.—bod goruchwyliaethau natur yn rhoddi math o awgrymiadau o, *ibid.*—y buasai er hyny yn aros yn guddiedig, pe na chwaisid datguddiad goruwch-naturiol o honi, 62.
- Altamont**, ei farwolaeth druenus, 240, 241.
- Amos**, y prophwyd a'i brophwydoliaeth, 366.
- Anaxagoras**, y cyntaf o'r doethion paganaidd a ddysgai mai Yspryd yw y Duwdod 43.—Socrates yn ei feio am na wnaethai well defnydd o'r athrawiaeth, *ibid.*
- Anerchiad** Cymdeithas Genhadol Llundain, dyfyniad o, 293.
- Anfarwoldeb** yr enaid, petrusder a dryswch amryw o'r doethion yn nghylch yr, 55-57.—tystiolaeth eglur a phendant y Bibl am, 94—97.
- Anffyddiaeth**, dylanwad niweidiol ei hegwyddorion ar gyflwr gwladwriaethol a moesol y byd, 186-197.—ar nodwedd personol, 209—212.
- Anffyddiaid** diweddar, yn ddynion o gyfoeth, dysg, a thalentau, 125.—anghysonderau amryw o honynt, 126-128.—esiemplau hynod o ddychweliad rhai, 222.—marwolaethau arswydus nifer, 234—254.
- Antitheus**, ei farwolaeth druenus, 242.
- Antoninus Marcus**, yr ymerawdwr, yn dal cyfreithlondeb hunanladdiad, 209.
- Argraffu**, dechreuad y gelfyddyd, 291—ei defnyddioldeb i daenu gwybodaeth, *ibid.*
- Aristotl**, yr athronydd Groegaidd, a disgybl Plato, yn addef un Duw, 44.
- Athanagoras**, yr athronydd, ei dröedigaeth at Grist'nogaeth, 232.
- Athen**, yn brif eisteddle doethineb a gwybodaeth y byd Paganaidd, 61—cyffro o herwydd athrawiaeth yr adgyfodiad yn, *ibid.*

BARNWYR, cynwysiad ac amcan y llyfr, 258.

Bibl, yr unig ddatguddiad dwyfol, 80. *Proffon mewol o ddwyfoldeb y*—ei gysondeb a natur, 81-91—ei fod yn llefaru gydag eglurder a siqrwydd am bethau amhëus o'r blaen, 94-102—oddiwrth nodwedd goruchel y brif athrawiaeth a gynwys, 106-111—oddiwrth burdeb moesol ei egwyddorion ymarferol, 112-120—yn cyflwyno esiampl o berffaith burdeb moesol, 129. *Y proffon allanol o ddwyfoldeb y Bibl*, 144—cyflawniad ei brophwydoliaethau, 145-159—gwyrrthiau, 159-170—cwmp pob un a gymerai arno fod yn Fessia, heblaw Iesu Grist, 170-178. *Y proffon ymarferol o ddwyfoldeb y Bibl*, 179—oddiwrth y drefn ragorach sydd ar nodwedd a moesau y cenedl-oedd sydd yn ei feddu ar y rhai sydd hebddo, 180-185—cyferbyniad o nodweddau duwiolion y Bibl a'r eiddo y doethion Paganaid 198-208—Anffyddiaid a Christ'nogion, 208-213. Ei effeithioldeb er cyfnewid calonau a bucheddau dynion yn brawf ymarferol o'i ddwyfoldeb, 213, esiamplau o—troseddwr yn ngharchar, 213-216—carcharorion Charlestown, 217-222—yn nychweliad Anffyddiaid, 222-234—oddiwrth dystiolaethau Anffyddiaid a Christ'nogion ar wely angeu, 233-255. **Y BIBL**, yn llyfr o egwyddorion moesol, 313-315—rhai o'i brif egwyddorion, 316—cyfarwyddiadau i ddeall y, 296—hanes y, 251—ei ddosparthiad, 252-253—yn unig réol ffydd a buchedd, 379.

Bolingbroke, Arglwydd, Anffyddiad—yn diystyru y dyb am wobr a chosp mewn byd i ddyfod, 101—yn gosod hunan-gariad yn egwyddor sylfaenol rhinwedd, 120—yn diystyru priodas, 124—yn haeru bod goleuni natur yn ddigonol gyfarwyddyd mewn dyledswydd, 126—yn gwrth-ddywedyd hyny drachefn, 127—ei dystiolaeth hynod o blaid Crist'nogaeth, *ibid*.

Brenhinoedd, nodiadau ar lyfrau y, 359, 360.

CANIAD SOLOMON, sylwadau ar, 376.

Cato, y Stöiciad, ei hunan-laddiad, 204.

Chesterfield, Iarll, ei gyffes bruddaidd yn ei ddyddiau diweddf, 237.

Chillingworth, yr esgob, yn condemnio pob arosodion dynol mewn crefydd, 396.

Cicero, yr ymresymydd cadarnaf dros anfarwoldeb yr enaid o'r doethion Paganaid, 55—eto yn cyfrif y dyb am wobr a chosp mewn byd arall yn un hollol ynfyd a disail, 57.

Confucius, moes-athraw China, yn canmol galar anghymedrol ar ol y marw, 207.

Coran, ei egwyddorion, 268, 269.

Crefydd, darnodiant cyffredinol o honi, 1, 2—sylfeini, 3-6—naturiol a datguddiedig, 13.

Crefyddau y byd, 262.

Crist'nogaeth, yn un o brif grefyddau y byd, 270.

Croniclau y llyfrau Ysgrythyrol, 360.

DAEARGOELAEATH, anffyddiaid yn ceisio defnyddio y gelfyddyd yn erbyn dwyfoldeb yr Ysgrythyrau, 88, 89.

Daeargrynfâu, 33, 34.

Daniel, sylwadau arno, a'i brophwydoliaeth, 363, 364.

Datguddiad, llyfr y, ei gynhwysiad, 343.

Datguddiad dwyfol, mawr angen y byd am dano, 48—nodweddau y, 74—y gallasai Duw roddi y cyfryw ddatguddiad o'i ewyllys i ddynion gyda llawn sicrwydd i feddyliau y dynion a'i derbynient mai ei yspydoliaeth ef ydoedd, *ibid.*—anffyddiaid yn caniatáu hyn, ond yn haeru na allai y dynion a'i derbynient roddi sicrwydd i ereill o hyny, 77—atebiad i'r wrthddadl, 78—nad yw y dyb ddarfod i Dduw roddi y cyfryw ddatguddiad yn cynwys ynddi ddim ag sydd yn annheilwng o hono, *ibid.*—bod tebygolrwydd y cawsai ei roddi, 79—ac os rhoddwyd ef, pa un ydyw, *ibid.*

Declarasiwn y brenhin, sylwadau ar, 384.

Deuteronomium, ei gynhwysiad, 357.

Diarhebiion, eu nodwedd.

Dick, Dr. T. ei sylwadau ar fawredd Duw yn y grëadigaeth, 24—26.

Doethion y Paganïaid, dadl yn nghylch y modd y cawsent wybodaeth o'r egwyddorion a ddysgent, 44—yn ddiffygiol yn eu hegwyddorion a'u hymarferion, 45—dysgrifiad yr apostol o honynt, 46.

Douglas, J. Ysw. dyfyniad o ar adfywiadau crefyddol, 291, 292.

Dwight, Dr. T. sylwadau o'i eiddo ar fucheddau anffyddiaid, 209.

Dykern, maes-lywydd, hanes ei dröedigaeth a'i farwolaeth, 233.

EFENGYLAU, yr, amser eu hysgrifeniad, 156, 157—eu hamcan a'u nodweddau, 342—344.

Epictetus, athronydd Stöicïaidd, ei dýb uchel am allu dynol, 199—ei ddymuniad nodedig, 205.

Epicurius, sylfaenydd plaid yr Epicuriaid, 198.

Esaia, ei nodwedd, a chynwysiad ei brophwydoliaeth, 360, 361.

Eera, sylwadau ar ei lyfr, 372—yn casglu, cyhoeddi, ac yn dosparthu llyfrau yr Hen Destament, 252.

Esther, 374.

Enlun-addoliaeth, ei dechreuad a'i chynydd, 3—y doethion paganïaidd oll yn euog o, 45, 46—ei dadymchweliad yn Ewrop, 184.

Euthydemus, dysgybl Socrates, 37.

Exodus, ei gynwysiad, 355.

Esaciel, y prophwyd a'i brophwydoliaeth, 362.

Ffrainc, hanes y chwildröad yno, 186—189.

Ffwler, y Parch. A., ei wrthbrawf i dŷb Bolingbroke yn nghylch egwyddor sylfaenol moesoldeb, 120, 121—yn dangos nad oedd gan yr Anffyddiaid unrhyw brawf-rëol foesol ond eu tueddiadau eu hunain, 124, 125—yn dangos nad ydyw drygau Crist'nogion i'w priodoli i Grist'nogaeth, 185, 186—ei farwolaeth, 254.

HABBACUC, sylwadau ar, 368.

Haggai, sylw ar, 369.

Hall, y Parch. R. ei ddynoethiad grymus o echryslonrwydd egwyddorion Anffyddiaeth, 195, 196—eu bod yn hollol ddigymhelliad i'r radd uchaf a phuraf o rinwedd, 212, 213.

Harris, Dr. J. dyfyniadau o, 72, 394, 397, 399.

Heraclitus, Stöiciad, ei ymfrost hunanol, 201.

Herbert, Arglwydd, ei dŷb am grefydd, 15—am athrawiaeth gwobr a chosp mewn byd i ddyfod, 101—am brïodas, 124—ei dwyll a'i ragrith, 209.

Hervey, y Parch. J., sylwadau ar farwolaeth boneddwr anffyddiog, 244.

Hindŵaeth, tystiolaeth Bramin am y grefydd hono, 182.

Hoadley, yr esgob, yn wrthwynebwr i bob trais ac arosodiadau dynol mewn crefydd, 400—404.

Hobbes, anffyddiad, yn haeru mai y gyfraith wladol yw unig brawf-rëol drwg a da, 122—ei ragrith brwnt, 209—ei ddiwedd truenus, 246.

Hosea, nodwedd ei brophwydoliaeth, 365, 366.

Howe, y Parch. J., ei ddysgrifiad nerthol o drueni dynoliaeth drwy y cwmp, 30—32.

Hume, yr anffyddiad, ei egwyddorion penrydd, 124—ei farwolaeth drist, 247.

IESU GRIST, mai efe oedd y cyntaf a ddygodd anfarwöldeb a byd i ddyfod i lawn eglurdeb, 96—ei briod-ddull o lefaru, 97—ddysgrifiad mawreddig o'r farn olaf, 98, 99—ei ragoroldeb ar bob dysgawdwr arall, 100—ei holl athrawiaeth o duedd ymarferol, 102, 103—purdeb moesol dybenion ei ddysgeidiaeth, yn brawf o'i dwyfoldeb, 103, 104—na allasai fod yn dwyllwr, 105—ei esponiad o'r gyfraith, 114. *Iesu Grist yn unig esiampl o berffaith burdeb moesol*, 129, 130—tystiolaeth hynod yr anffyddiad Rosseau am ei fuchedd a'i athrawiaeth, 130-132—cariad, cyflawnder y gyfraith, yn egwyddor lywodraethol ei fywyd, 133—ei gariad at Dduw, 133-135—at ei gymydog, 135—137.

Jenyngs, Soame, Ysw., ei ymwrthodiad ag anffyddiaeth, 232.

Jeremia, ei nodwedd a'i brophwydoliaethau, 361, 362.

- India, dyladwad niweidiol ei chrefydd ar foesau ei thrioglion, 181.
 Job, nodiadau ar lyfr, 370, 371.
 Joel, 365.
 Jona, 367.
 Josephus, cyfatebolrwydd manwl ei hanesyddiaeth am ddinystyr Jerusalemllem & rhagfynegiadau Crist, 158.
 Joshua, sylwadau ar lyfr, 358, 359.
 Irenæus, ei dystiolaeth am y pedwar efengylwr, 156, 157.
 Iuddewig, y grefydd, ei hegwyddorion, 263, 264.
 Iuddewon, eu hymlyniad wrth ddefodau goruchwyliaeth Moses, 265—eu parhâd fel cenedl yn wyrth, 265, 266—eu rhifedi, 267.
- LEPITICUS**, sylw ar y llyfr, 356.
 Leland, Dr. J., ei ddarnodiant o grefydd, 13—yn dangos bod haeriadau anffyddiaid am ddigonolrwydd goleuni natur yn groes i ffeithiau, 15, 16—bod y doethion Paganaid oll wedi methu cael allan y gwirionedd, 50—y gallai Duw roddi datguddiad o'i feddwl mewn modd goruwch-naturiol i ddynion, gwel *Datguddiad*—ei farwolaeth, 254.
 Littleton, Arglwydd, yn ymwrthod ag Anffyddiaeth, ac yn ysgrifenu o blaid Crist'nogaeth, 232.
 Locke, yn sylwi bod holl rym doethineb a rheswm dynol wedi bod yn aneffeithiol i oleuo y byd, 49.
 Llyfrau yr Hen Destament, eu dosparthiad, gwel *Bibl.*
 Llosg-fynyddau, 33.
- MAHOMET**, yn rhoddi i fynu hōni ei hun yn Fessia, ac yn cyhoeddi ei hun y penaf o'r prophwydi, 172—ei amcan professedig, 266.
 Mahometaniaeth, gwel *Coran*.
 Malachi, y prophwyd diweddaf, 370.
 Micha, ei brophwydoliaethau, 367.
 Moesol, ystyr yr ymadrodd.
 Moesoldeb, rhagoroldeb yr eiddo'r efengyl ar ddim a ddysgid gan neb arall, 115—119.
 Morafiaid, ychydig o hanes eu llafur a'u llwyddiant yn taenu yr efengyl, 275—279.
- NAHUM**, sylw ar ei brophwydoliaeth, 368.
 Nehemia, sylwadau ar ei nodwedd personol, ei lyfr, 373.
 Newport, yr anrhydeddus Ffrancis, ei farwolaeth arswydus, 245, 246.
 Newton, yr esgob, dyfyniadau o'i waith, 145—147.
 Numeri, sylw ar, 356.
- OBADIA**, ei brophwydoliaeth, 367.
 Oliver, Mr. meddyg ac anffyddiad, ei dröedigaeth, 233.

PABELL Y CYFARFOD, y siars a dderbyniodd Moses yn nghylch ei gwneuthuriad, 318.

Pabyddiaeth, byr olwg ar ei nhodwedd, ei hyspryd, a'i gweithrediaeth, 271—y gwledydd y mae yn grefydd sefydledig ynddynt, 272.

Pabyddion, eu rhifedi yn ngwahanol ranau y byd, 272, 273.

Paganïaeth, ei dylanwad niweidiol, 255—yn ddosparthedig i dair cangen, 263.

Paganïaid, eu rhifedi, 263.

Paine, Mr. T. yr anffyddiad, ei gredo, 101—ei ofnau, 102—ei ffloneb 125—ei haeriad gwag, 209—ei fuchedd ddrygionus, 211—ei addefiad o blaid Crist'nogaeth, 127—ei ymfrost falch, 142—ei ddiwedd truenus, 247.

Paley, Dr. dyfyniadau o, ar foesoldeb yr efengyl, 115-119—ar brophwydoliaeth Esaia, 150—154.

Plato, un o'r doethion Paganïaidd, yn cydnabod un gwir a goruchaf Dduw, ond nad yw yn gofalu dim am lywodraeth y byd hwn, 42—na all creaduriaid a breswylant mewn enawd gyflwyno gwasanaeth ac addoliad iddo, 42—yn dysgu mai gwell yw anog dynion i addoli duwiau arferedig eu gwlad, 42—yn dal gwobr a chosp mewn byd i ddyfod, 43—yn addef angen y byd am ddysgawdwr, 52—ei ragfyngiad hynod am ymddangosiad dysgawdwr goruwch-naturiol, 71.

Plotinus, Stöiciad, a ddysgai nad oes dim o holl drallodau y bywyd hwn yn deilwng o unrhyw sylw, 202—ac eto bod yn gyfreithlawn i ddyn roddi terfyn ar ei fywyd i gael ymwared oddiwrthynt, 203.

Pregethwr, sylwadau ar y llyfr, 375.

Prophwydoliaethau, eu cyflawniad yn brawf o ddwyfoldeb y Bibl, 144—am wledydd a chenhedloedd, 145—am Grist fel Hâd y wraig, 147—prophwydoliaeth Jacob am, 148, 149—Esaia am, 150, 151—cyfberbyniad yr hanesyddiaeth efengylaidd a, 152, 153—sylwadau ar amryw ereill, 154, 155.

RHUFENIAID, amcan yr epistol at, 345, 346.

Rhydychain, Pabyddiaeth yn, 159.

Rochester, Iarll, ei fuchedd ddrygionus a'i anffyddiaeth, 222, 223—ei dröedigaeth, 224—ei gystudd diweddaf, a'i farwolaeth ddedwydd, 225—227.

Rose, William, ei fuchedd halogedig, 227—ei ddychweliad hynod, 228, 229—ei farwolaeth gysurus, 231, 232.

Rosseau, Anffyddiad nodedig, yn haeru mai y teimladau yw rhöol buchedd, 123—ei dystiolaeth hynod am burdeb a dwyfolder yr efengyl a nodwedd Iesu Grist, 130-132—pigion o'i gyffesion, 132—sylvnôd.

Ruth, sylwadau ar lyfr, 358.

- SALMAU**, sylwadau ar y, 374, 375.
- Secharia**, nodiadau ar brophwydoliaeth, 369, 370.
- Seneca**, ei olygiadau ar farwolaeth, 55, 56.
- Sephania**, 360.
- Shaftesbury**, Iarll, ei ddarnodiant o rinwedd, 124.
- Simpson**, y Parch. D. dyfyniadau o, 237—240.
- Smith, Dr. J. P.**, ei sylwadau ar angenrheidrwydd crefydd er iawn drefn a dedwyddwch gwladwriaethol, 189—194.
- Socrates**, y penaf o'r doethion Pagonaidd, 34—ychydig o'i hanes a'i nodwedd fel dysgawdwr, 36, 37—ei sylwadau ar ragluniaeth, 37—39—ar anfarwoldeb yr enaid, a byd i ddyfod, 40, 41—ei farwolaeth, 41—yn eulun-addolwr, 45.
- Sykes, Dr.** yn barnu yn rhy uchel am y doethion Pagonaidd, 44—dyfyniad o yn dangos angen y byd am ddatguddiad goruwch-naturiol, 52
- TINDAL**, Dr. yn haeru fod goleuni natur yn ddigonol gyfarwyddwr mewn crefydd, 15.
- VOLTAIRE**, Anffyddiad hynod, effeithiau niweidiol ei ysgrifeniadau yn Ffrainc, 186—ei dwyll a'i ragrith, 211—ei farwolaeth druenus, 234—236.
- WILLIAMS**, y cenhadwr, dyfyniadau o'i waith, 85, 86.
- Witaius**, ei ddarnodiant o brophwydoliaeth, 144.
- ZENO**, sylfaenydd plaid y Stöiciaid, ei hunan-laddiad, 204.

GWALL.

Yn ngwaclod *tu dal.* 225, y mae llinell a ddylasai fod yn ngwaclod *tu dal.* 226.

CREFYDD

NATURIOL A DATGUDDIEDIG.

PENNOD I.

NATUR CREFYDD.—EI SYLFEINI.

Y MAE y byd wedi bod yn mhob oes yn orlawn o grefyddwyr ac yn ymddifad o grefydd, mewn cydmariaeth. Nif u dim erioed yn achlysur o gymaint terfysg ac ymryson yn mhlith dynion a chrefydd. Mynych y 'gosodwyd troell naturiaeth yn fflam' gan bleidwyr gwahanol gyfundraethau o grefydd, wrth wrthwynebu eu gilydd. Yn yr ymrysonfa hon y gweithiwyd allan holl nwydau y galon ddynol i'w heithafion pellaf. Os mynem weled perffeithrwydd dallineb ac ynfedrwydd moesol dynolryw, rhaid i ni chwilio i'r egwyddorion crefyddol a ddychymygodd dynion. Os mynem weled dyfnder llygredigaeth y natur ddynol, pa le yn fwy amlwg y mae i'w ganfod nag yn ngwasanaeth ac addoliad crefyddol duwiau y cenedloedd? Ac os mynem wybod i ba raddau o ddideimladrwydd a chreulondeb y mae yn bosibl i'r galon ddynol gyrhaeddyd, i ba le yr edrychwn, ond i hanes y rhyfeloedd, yr ymladdau, a'r erlidiau a fu yn y byd o herwydd crefydd! Mewn gair, y mae crefydd wedi andwyo y byd, ac nid oes ond crefydd a'i meddyginiaetha—y mae wedi ei dafu i annhrefn, ac nid oes ond y hi a'i dwg i drefn—y mae crefyddau yn ei ddinystrio, a chrefydd yn unig a'i iacha.

Gan fod crefydd yn achlysuro cymaint o derfysg ac ymryson yn mhlith dynion, a'i bod yn dy'anwadu mor effeithiol

arnynt, naturiol iawn fyddai gofyn, *Pa beth gan hyny yw crefydd?* Ac nid oes un dyn, pa mor ddifeddwl a dideimlad bynag y gallo fod yn y mater, nad yw yr ymfyniad yn perthyn, ac o'r pwys mwyaf, iddo; ag nad yw cael iawn syniad ar y pwngc o werth annhraethol, ac o ganlyniadau tragwyddol iddo hefyd. Fy narllenydd, A ddarfu i chwi sefyll yn ddifrifol uwch ben y gofyniad uchod? A ellwch chwi ei ateb? Nid wyf yn gofyn pa un a ellwch chwi roddi disgrifiad philosophaidd o grefydd, ond a ydych yn 'gwybod y pethau a berthynant i'ch heddwch' rhyngoch a Duw? A oes genych ofal am y pethau hyn, ynte ai diystyr ydynt yn eich golwg—ai difeddwl fuoch ar hyd eich oes yn eu cylch, ac yn 'ofalus a thrafferthus yn nghylch llawer o wasanaeth' arall, gan adael yr 'un peth angenrheidiol' hwn hyd ryw amser eto i ddyfod? A fuoch chwi yn gofyn, *Pa beth yw crefydd?*—yn chwilio i'w hegwyddorion, ei hawliau goruchel, ei chymwysder i'ch cyflwr, nes eich dwyn i'w chofleidio ac ymasyd ynddi, fel ag y gwyr eich profiad ac y dywed eich bywyd *Pa beth yw crefydd*; er, fe allai, nad allech roddi unrhyw ddarnodiad cywrain ac eglur o honi mewn geiriau? Dylai pob un a broffeso grefydd fod yn barod, ar yr un pryd, 'bob amser i roddi ateb am y gobaith sydd ynddo, gyd ag addfwynder ac ofn.'

Pa beth gan hyny yw crefydd? A chymeryd golwg gyffredinol, Crefydd yw teimlad calon y creadur rhesymol o'i ddybyniad ar, a'i rwymedigaeth i'w, Dduw, o barch a chariad tuag ato; a'i ymgais i'w wasanaethu a rhyngu ei fodd. Pwy, neu pa beth bynag a fyddo ei Dduw, gwneir ei grefydd i fynu o'r elfenau hyn—addolwr y gwir a'r gau dduw, y Cristion a'r Pagan. Yr Annuwiad ynfyd a geisia ymryddhau o'r rhwymau hyn, ac alltudio y teimladau yma o'i galon, ac arbed iddo ei hun yr holl drafferth o addoli, trwy ddywedyd yn ei galon, 'Nid oes yr un Duw.'

O'r darnodiad cyffredinol uchod o grefydd, yr ydym i dynu allan ei hegwyddorion sylfaenol. Gellid ei arall-eirio, fel y canlyn—'Crefydd yw cydgyfeillachaeth rhwng Duw a dyn; yn cynnwys o du Dduw, amlygiadau o hono ei hun, ei nodwedd a'i berffeithiau, ac o'i ewyllys mewn perthynas i'r dyledswyddau a'r gwasanaeth a ofyna; ac o du dyn, cymwys-

der a pharodrwydd meddwl i dderbyn a defnyddio yr amlygiadau hyny, a chydymffurfio â'r ewyllys ddwyfol.' *Dr. Leland.*

Sylfeinir crefydd, Yn gyntaf, Ar y grediniaeth fod Duw. 'Rhaid i'r hwn sydd yn dyfod at Dduw gredu ei fod ef.' Ar y grediniaeth, neu y gydnabyddiaeth hon, y mae pob peth a berthyn i grefydd yn sefyll: dinystrier hon, a dilëir crefydd ar unwaith allan o'r byd: ymddengys ar unwaith yn hollol ddiangenrhaid ac ynyfyd. Y mae y gydnabyddiaeth hon yn un gyffredinol ynmysg dynolryw, yn holl oesau a chenhedlaethau y byd. Oddiar hyn y tardd cyffredinolrwydd crefydd yn y byd; nid oes ond ychydigiawn mewn cydmariaeth, o eithriadau wedi bod erioed, oddiwirth yr egwyddor hon: cytuna dynolryw i'w haddef, glynant wrthi, ac effeithir hwy ganddi. Ond yn y cychwyniad cyntaf mewn crefydd, 'dyfod at Dduw;' gwelir dynolryw yn ymranu, yn troi eu cefnau ar eu gilydd, 'bob un i'w ffordd ei hun—pob cenedl yn enw ei duw ei hun.' 'Chwiliasant allan lawer o ddychymygion' am Dduw. Gollyngodd rheswm ac ystyriaeth awenau dychymyg ar ei war, a 'chydynfydasant ac anmhwylasant,' gan 'goffeidio pob athrawiaeth oferedd.' Wedi dechreu dychymygu am wrthrych addoliad, ni bu diwedd ar y gwaith; arweiniai y naill ddychymyg i'r llall, cenhedlai hono un arall; dychymygion yr oes flaenorol a amlhaent yn yr oes bresenol, a'r rhai hyny drachefn a esgorent ar gruglwyth yn yr oes nesaf. Wedi i ddynolryw ddechreu cilio oddiwirth y gwir a'r bywiol Dduw, ni bu byth ddiwedd ar eu henciliad; suddasant ddyfnach ddyfnach i bydew a thywyllwch dychymygion, crwydrasant bellach bellach yn anialwch ofergoelion: wedi dechreu gosod rhyw wrthrych gweledig yn gynnrychiolydd o'r Duwdod anweledig, a chyflwyno eu haddoliad iddo yn hwnw fel ei gynnrychiolydd, aethant yn fuan i addoli y gwrthrych hwnw ei hun, gan lwyr golli golwg ar Dduw—disgynwyd o'r naill beth i beth arall, nes yr aethpwyd i wneuthur duwiau o bob peth, a phob peth yn dduwiau: ac yn mbellach, aed i ffurfio duwiau gan 'gelfyddyd a dychymyg dyn.' Ni feddai y nefoedd ddigon o ser a phlanedau, na'r ddaear ddigon o fynyddau, afonydd, creaduriaid, bwystfilod, xmlusgiaid, a phryfed, i ddiwallu dychymyg y galon ddynol a duwiau! Gweithiwyd aur, arian, pres,

haiarn, maen, a choed, yn dduwiau ! Ac amlhaoedd duwiau y ddaear fel hyn yn fuan tu hwnt i rifedi ei thrigolion ! Ac oddiyma y tardd yr holl amrywiaeth mewn cyflawniadau a gwasanaeth crefyddol sydd yn y byd ; y cwbl yn gorphwys ar yr ystyriaeth o fôd Duw fel sylfaen : perswadier addolwyr yr holl luaws delwau a duwiau, fel ag yr ymdrechai Paul berswadio yr Atheniaid i gredu, ‘ nad yw dduwiau y pethau a wneir a dwylaw,’ a pheidiant a’u haddoli yn y fan : perswadier dynolryw i gredu nad oes un Duw, a diflana pob son a meddwl am grefydd yn fuan allan o’r byd.

Yr ail egwyddor sylfaenol mewn crefydd, ydyw, bod perthynas rhwng y dyn a’i Dduw : fel y dywedodd un o botetau y Groegiaid, ‘ Ynddo ef yr ydym ni yn byw, yn symndac yn bod—canys ei hiliogaeth ef ydym ni.’ Oddiar y berthynas yma ag ef, y ddybyniaeth yma arno, y cyfyd y rhwymedigaethau iddo ; y priodoldeb a’r rhesymoldeb o’i barchu, ei addoli, ac ufuddhau iddo yn mhob peth, mor belled ag y byddo y creadur yn alluog i adnabod ei ewyllys ef. Y mae yr ymsyniadau hyn o berthynas, dybyniad, a rhwymau, rhyngddynt a’r peth neu y pethau a gydnabyddant yn dduw neu yn dduwiau, yn dylanwadu ar feddyliau Paganiaid yn eu cyflawniadau crefyddol, yn gystal ag addolwyr y gwir Dduw. Ystyriant eu bod yn dal perthynas a hwynt, eu bod yn ddybydol arnynt, gan hyny cyflwynant eu deisyfiadau atynt ; a’u bod yn derbyn o’u cymmwynasgarwch, gan hyny, cyflwynant eu hebyrth a’u diolchgarwch iddynt. Byddai dinystrio y gydnabyddiaeth gyffredinol hon eto yn meddyliau dynion, sef, perthynas, dybyniad, a rhwymau creadur a, ar, ac i’w Dduw, yn llwyr ddymchweliad i grefydd : gan hyny, y mae yn un o’i hegwyddorion sylfaenol. Dealler, na wnelai dilëu y dybiaeth neu y gred o’r peth unrhyw wahaniaeth yn y ffaith ei hun, yr un yw ffaith, pa un bynag ai ei chredu a’i chydabod, ai ei hameu a’i gwadu a wnelo dynion : ond golygir yma yr effaith ymarferol a gaffai y peth ar feddyliau, teimladau, ac agweddau cyhoeddus dynolryw. Os edrychwn ar hanesyddiaeth gyffredinol y byd, gwelwn yn amlwg nerth dylanwad yr egwyddor hon ar galonau ac ymarferiadau plant dynion. Ni chynhygiai y Paganiaid ar unrhyw anturiaeth o bwys mewn masnachaeth, neu alwedigaethau cyffredin

bywyd, un hynt filwraidd, heb ymgynghori a'u horaclau, gweddïo ar, ac aberthu i'w duwiau. Pan yn aflwyddiannus mewn rhyfel, neu pan oddiweddïd hwy gan unrhyw drychineb, megis haint neu newyn, effeithiai y pethau hyn ddiwygiad uniongyrchol mewn crefydd; llenwid temlau y duwiau ag addolwyr; llwythid eu hallorau ag aberthau; cyhoeddïd dyddïau i ymgystuddio, ymostwng a gweddïo ger eu bronau; cyfrïfid yr holl aflwyddiant i'w hanfoddlonrwydd hwy, ac arferent pob moddion i heddychu eu digofaint, ac ail enill eu ffafran: a phan y byddent lwyddiannus a dedwydd, iddynt hwy y priodolent yr achos, a hwy a gaent y diolchgarwch a'r clod. Priodolent eu holl aflwydd i'w soriant, a'u holl lwyddiant i'w hewyllys da. Hyn oll sydd yn weithiad allan yn ymarferol o'r egwyddor o ddybyniad a rhwymedigaeth.

Yn drydydd, Sylfeinir crefydd ar y gred y sylwa Duw ar, ac y derbynia wasanaeth ac addoliad gan, ei greaduriaid. Gweddïa pob un ar ei Dduw, oddiar y dybiaeth 'yr ystyr y Duw hwnw' wrth ei weddi. Cyflwynna pob un addoliad ac aberth, gan dybied y derbynia ac y cymeradwya ei Dduw ei wasanaeth; 'ei fod yn wobrwyr y rhai sydd yn ei geisio.' Heb yr egwyddor hon, gadawai y lleill y byd yn hollol ddi-gymhelliad at bob ymdrech a gwasanaeth crefyddol. Y dybiaeth, 'Gadawodd yr Arglwydd y ddaear, nid yw yn ein gwyled mwy. Ni wna yr Arglwydd dda, ac ni wna ddrwg,' &c. a rydd glwyf marwol i bob teimlad ac ymdrech crefyddol. I ba ddyben y gweddïa neb ar unrhyw Dduw, pan y tybia na wrendy? I ba beth yr adeilada deml, y cyfyd allor, ac y dwg ei aberth, pan yn credu na sylwa ei Dduw arno, ac na dderbynia ei wasanaeth? Ond oddiar y gred, neu o leiaf y gobaith y gwrendy ei Dduw ei weddi, y cyfeiria y dyn ei weddi ato: oddiar y gobaith hwn y cyfyd ei deml, ei allor, ac y dwg ei aberth. Tybia a gobeithia pob addolwr bod ei Dduw yn 'wobrwyr i'r rhai sydd yn ei geisio:' y dyb a'r gobaith yma a gadwant grefydd yn fyw, neu ydynt un o'r rhanau hanfodol a bywydol. Fel ag y mae rhai rhanau o'r corph dynol, ac y gellir eu tori ymaith a chadw y bywyd; felly mae i grefydd: ac fel y mae rhanau eraill o'r corph, na ellir cymeryd yr un o honynt ymaith heb gymeryd ymaith y bywyd yr un pryd, felly mae i grefydd yr un modd.

Yn bedwerydd, Sylfeinir crefydd ar alluoedd a chymwysder y creadur i gyflwyno y fath wasanaeth i'w Dduw, ac a fyddo gymeradwy yn ei olwg. Rhai o'r dysgawdwyr cenhedlig a ddysgent am yr Yspryd Mawr, fel y galwent ef, ei fod yn rhy oruchel a sanctaidd i bryfed y ddaear nesau ato : na allai dynion gyflawni un math o wasanaeth a fyddai cymradwy ganddo ef; y buasai yn ddarostyngiad i'w fawrhydi anfeidrol i gymeryd unrhyw sylw o honynt hwy na'u gwasanaeth : ac fel hyn y cauent i fynu pob cymundeb rhyngddo a dynion, a gosodent ryw is-dduwiau yn ei le, y rhai y gallai dynion ddal cymundeb a hwy, a'r rhai a allent dderbyn a chymeradwyo eu gwasanaeth. Rhaid y cyfyd cydwbybodolrwydd o'i rwyman i addoli, ufuddhau, a gwasanaethu ei Dduw, oddiar ymsyniad o'i gymwysderau a'i alluoedd fel creadur i hyny, yn gystal ag oddiar yr egwyddorion blaenorol. Y mae yn amlwg fod pob ymsyniad a berthyn i grefydd yn hollol estronol i fynwes pob creadur ar y ddaear ond dyn ; ac na ellir eu cenhedlu na'u heffeithio trwy unrhyw foddion ychwaith. Y mae crefydd, gan hyny, yn beth na pherthyna i un creadur yn y byd hwn ond dyn. Nid oes yr un o'i rhwymedigaethau ar yr anifail, nid oes ganddo feddwl a all eu hystyried a'u deall ; nid oes ganddo galon a all eu teimlo, na galluoedd a chymwysderau i gyflawni ei dyledswyddau. Felly, er bod Duw, a bod perthynas rhwng y creadur a Duw, ac er mai 'Efe sydd yn rhoddi i'r anifail ei borthiant,' felly yn ddybydol arno yn gystal a dyn, ni ofynir addoliad crefyddol, ufudd-dod moesol, na gwasanaeth o'r natur yma oddiwrth yr anifail, oddiar y rheswm amlwg na dderbyniodd y galluoedd a'r cymwysderau angenrheidiol i hyny : nid oes berthynas foesol rhyngddo â Duw, oblegid nad oes ganddo alluoedd moesol ; felly nid yw ddeiliad deddf a llywodraeth foesol, ni all gyflawni rhinwedd na bai moesol : ' Ond y mae yspryd mewn dyn, ac ysprydoliaeth yr Hollalluog sydd yn gwneuthur iddynt hwy ddeall.'

Y bumed, a'r olaf a gawn nodi o egwyddorion sylfaenol crefydd (neu, se allai y byddai mor briodol ei hystyried fel egwyddor ag y sydd yn arddangos annhraethol bwys a gwerth crefydd) ydyw anfarwoldeb yr enaid, cyfrifoldeb, a gwobr a chosb mewn byd i ddyfod. Cadw yr egwyddor hon o'r go-

lwg, neu ei gwadu, a dorai ewynau crefydd, a'i gwanychai ac ai gwnelai yn ddinerth a diwerth i'r graddau y caffai y peth ei gredu fel gwirionedd. 'Os yn y byd yma yn unig y gobeithiwn yn Nghrist,' ebe Paul, 'truanaf o'r holl ddyinion ydym ni: bwtawn ac yfwn, canys y foru, marw yr ydym;' neu, darfod bodoli yr ydym. Ar y dybiaeth bod angan yn rhoddi terfyn ar fodoliaeth dyn, y mae grym a gwerth crefydd bron yn cael ei hollol guddio o'r golwg.

Nid oes nemawr genedl i'w chael, os oes un, nad oes ganddynt ryw dybiaeth am anfarwoldeb yr enaid a byd i ddyfod; ac felly y mae yn un o elfenau crefydd y Pagan yn gystal a chrefydd y Cristion.

Fe wel y darlennydd mai golwg gyffredinol ar grefydd a gymerwyd yn y tu dalenau blaenorol, ac nad oeddynt yn gymwysiadol at unrhyw gangen neillduol mwy na'i gilydd o honi: bellach, yr ydym i wneuthur rhai casgliadau cymwysiadol.

Ymddengys, yn gyntaf, Os ydyw yr egwyddorion a grybwyllwyd yn ffeithiau, neu yn wirioneddau, sef, Os oes Duw, —os oes perthynas rhyngom a Duw—os 'ei hiliogaeth ef ydym ni'—ac os mai o'i law ef yr ydym yn cael 'bywyd ac anadl, a phob peth oll'—os cymer sylw o honom, ac y derbynna ein gwasanaeth a'n haddoliad—os oes genym y galluoedd a'r cymwysderau angenrheidiol i rodidi iddo y fath addoliad a gwasanaeth—ac os ydyw yr enaid dynol yn anfarwol, yn ddeiliad barn, gwobr neu gosb, mewn byd i ddyfod, yn ol yr hyn a wnaethpwyd 'yma yn y corph'—os yw y pethau hyn felly, ymddengys, meddaf, bod crefydd yn achos anfeidrol bwysicach a gwerthfawrocach na dim arall a berthyn i ddyn: mai y 'penaf peth' ydyw: 'yr un peth angenrheidiol;' ac y dylai gael y lle blaenaf ar feddwl pob dyn. Rhaid bod ganddi yr hawliau cryfaf i'r holl feddwl, yr holl galon, yr holl enaid, a'r holl fywyd; a bod ei cheisio yn gyntaf, a gofalu am dani yn benaf yn rhwymedigaeth anwadadwy ar bob dyn yn gystal a'u gilydd. Os yw y pethau hyn felly, y mae y dyn difeddwl a diymofyniad yn ei chylch yn ymddwyn yn ynyd ac afresymol i'r eithaf. Pa beth, fy narlennydd, a welwch chwi eich wynepryd eich hun yn y llinellau hyn? Arafwch, na adewch i'ch llygad lithro dros y geiriau hyn,

heb adolygu y rhan a aeth heibio o'ch bywyd gyda golwg ar y mater hwn. A ydyw yn bosibl ddarfod i chwi dreulio cynnifer o ddyddiau a blynyddoedd eich oes drancedig yn ddi-grefydd a diofal yn ei chylch? Os felly, yn sicr, rhaid i chwi naill ai ymosod i dreiglo ymaith holl sylfeini crefydd, fel y galloch ymryddhau oddiwrth ei holl hawliau arnoch, 'dryllio ei rhwymau,' a thafu yn gyfreithlon hefyd ei holl 'reffynau oddiwrthych,' neu ynte ei gwneyd yn brif fater eich bywyd o'r awr hon allan. Nid oes lle i ddianc y naill a'r llall; ni ellwch barhau mewn difaterwch yn ei chylch heb fod yn euog o'r ynfyrdrwydd a'r rhyfyg mwyaf: ni all eich tawelwch fod yn sylfaenedig ar dir rhesymol, tra y byddoch yn cau eich llygaid rhag gweled ac edrych i'r pethau hyn. Pa un a ddewiswch? Naill ai gwadau holl egwyddorion a hawliau crefydd, a'ch rhwymau i ymostwng a chyddfurfio a hi, ynte plygu i'w hawdurdod, a'i chymeryd fel prif achos a dyben eich bywyd—'dewiswch iwch heddyw.'

Os nad yw yr egwyddorion yn feithiau, os dychymygon ofer ydynt, dangoser hyny, a hwtier crefydd allan o'r byd. Oblegid, os felly, nid oes dim yn y byd mor ddiwerth a diangenrhaid a hi: y mae yr holl amser a gollir gyda hi yn wastraff, yr holl aberthau a wneir yn ei hachos yn ddifrod, ei holl gyflawniadau yr oferedd mwyaf, a'r rhai a drafferthant fwyaf yn ei chylch yw y 'truanaf' a'r ffolaflaf 'o'r holl ddyinion.' Y mae rhyw dâl ac elw i bob llafur arall, ond fel hyn nid yw crefydd ond gwynt dychymyg, 'a pha fudd sydd iddo ef a lafuriodd am y gwynt?'

Yn awr, gan hyny, rhaid ystyried crefydd yn werth pob peth, neu ynte yn werth dim—y peth penaf, neu y peth dystadlaflaf a mwyaf dirmygus a gynhygiwyd erioed i sylw ddyinion. Y mae ganddi yr honiadau uchelaf, a'r hawliau cryfaf ar feddyliau, teimladau, cyrph, amser, a meddiannau ddyinion; neu, nid oes ganddi yr un hawl na honiad oll. Rhaid y dylai fod yn brif ddyben a gorchwyl bywydau ddyinion, neu na ddylai fod yn un rhan na dyben o'u bywydau. Y cwbl neu ddim ydyw. Os gwirioneddau yw ei seiliau, yna y rhai hyny ag nad ydynt 'yn gwneuthur cyfrif o ddim, ac nad yw werthfawr ganddynt eu heinioes eu hunain,' mewn trefn i wasanaethu ei ddybenion, yw y rhai a ymddygant yn briodol

a doeth ; os nad ydynt, y rhai sydd yn ei diystyru ac yn ei gwadu ydynt yn ymddwyn yn eu lle ac yn rhesymol. Ar y naill neu y llall o'r ddwy dybiaeth, nid yw y bobl sydd a'u calonau yn rhanedig, yn anmhenderfynol, yn gwneyd crefydd yn rhyw beth, nid yn beth penaf, ac nid yn ddim ; nid yw y rhai hyn, meddaf, yn ymddwyn gyd ag un gradd o gysondeb : nis gellir cysoni a chymodi eu hymddygiad ag unrhyw egwyddorion sydd mewn bod. Rhaid fod yr egwyddorion y sylfeinir crefydd arnynt yn wir neu yn dwyll, a rhaid o ganlyniad anocheladwy bod crefydd, fel y sylwyd, yn werthfawrocach a phwysicach na phob peth, neu yn hollol amddifad o unrhyw werth na phwys. Y mae yr ymddygiad y cyfeiriwyd ato yn hollol anghyson a phob un o'r ddwy dybiaeth.

Ond, pa beth yw tystiolaeth cydwybod ? A ellir ei llwyr berswadio i fod yn hollol dawel ac esmwyth i dafu a bwrw ymaith bob meddwl am grefydd—nad yw ei hegwyddorion ond breuddwydion twyllodrus, a ffrwyth dychymygion ofer-goelus penboethni ? Gall y tafod haeru hyny, gall y llaw ddefnyddio ysgrifell i ddadleu dros hyny, gall y galon ddy-muno ei bod felly, ond a ellir cael llawn gydsyniad y gydwybod a hyny ? Nid wyf yn tybied. Crefydd, wedi cael o honi ei hymlid o galonau a geneuau y dynion truenus hyn, a gaiff ddinas noddfa yn eu cydwybodau : rhyddheir hi yno o'r holl gyhuddiadau a ddygir yn ei herbyn : ac yn y diwedd syrth y trueiniaid annedwydd yn aberthau i ddialedd eu cydwybodau eu hunain, fel y cawn ddangos mewn rhan arall o'r gwaith hwn.

Yn ail, Mai crefydd yw gobaith a noddfa olaf plant dynion. A'u Duw yr ymofyn pobl bob amser pan elo yn gyfyng arnynt. At gyrrn yr allor y mae y Pagan a'r Cristion yn ffoi mewn trallod. Y mae elfenau crefyddolder wedi eu hysgrifenu yn annilëadwy ar lechau y galon ddynol. Ni all dyn mo'r bod yn ddedwydd a thawel hebddi ryw fodd : er cymaint o duedd bod yn eiddo iddo ei hun, a honi annibyniaeth, sydd ynddo, rhaid iddo gael Duw i nesau ato, ac i ffoi oddiwrtho ei hunan i'w nodded. Y mae amgylchiadau yn ei yru o hono ei hun. 'Y Pagan,' truan, 'a gymyna bren o'r coed,' a'i llunia yn eulun 'yn ol prydferthwch dyn, i aros

mewn ty.' Rhagddarpariaeth (un dlawd yn wir) erbyn y daw cyfyngder arno: a'r pryd hyny, 'gweddiâ arno, gan ddywedyd, Gwared fi, canys fy Nuw ydwyd!' A phobl y Goruchaf, 'pan fyddo adfyd arnynt, a'i bore geisiant.' Yr ydym yn gweled dynion yn cael eu dwyn i amgylchiadau, y trôant eu cefnau ar bawb ac ar bob peth, gan ymaffyd mewn crefydd fel eu gobaith a'u noddfa ddiweddaf. Wedi bod yn ofer chwilio am sylwedd mewn teganau, yn ymborthi ar ludw a gwynt, yn dywedyd wrth 'aur coeth, Fy ymddiried wyt;' y mae nodedd yn pallu yn mhob man ac yn mhob peth; mynwes crefydd yw y fan y ceisia yr enaid ffoi iddi am ymwared a dedwyddwch: ac os metha yma, 'ei ddiwedd fydd darfod am dano byth.'

Yn drydydd, Na all fod ond un grefydd wirioneddol. Gan nad oes, ac na all fod ond un gwir a bywiol Dduw, ni all fod ond un gwir a bywiol grefydd. Nid dychonadwy bod y grefydd hono yn wir a sylweddol ac y byddo eulunod mudion a meirwon yn wrthrychau iddi, celain fud a marw ydyw y gyfryw. 'Os gwynt a gwagedd yw tawdd ddelwau,' os 'oferedd ydynt, a gwaith cyfeiliorni,' &c. gwynt, gwagedd, oferedd a siomedigaeth yw yr holl grefydd a berthyna iddynt; oblegid 'fel hwynt y mae'r sawl a'u gwnant, a phob un a ymddirieda ynddynt.'

Yn bedwerydd, Na all ond gwir grefydd roddi gwir ddedwyddwch. Yr hyn a gais pob eiddunydd (*votary*) crefyddol, yn ei Dduw a'i grefydd, ydyw gorphwysfa i'w enaid: ac anmhosibl i dduwiau na allant waredu eu hunain rhag myned i gaethiwed, waredu eu haddolwyr o gaethiwed: ni allant byth berffeithio yr addolwyr. Ni all yr enaid deimlo gwir fwynhad a bod yn ddedwydd wrth eu gwasanaethu; oblegid anmhosibl i ffug a dychymyg roddi yr hyn sydd sylweddol a gwirioneddol. 'Hyn yw y bywyd trag'wyddol,' ebe Crist, 'iddynt dy adnabod di yr unig wir Dduw; a'r hwn a anfon-aist ti Iesu Grist.' *Ioan xvii. 3.* Fel pe dywedasai, bod llawer o dduwiau gau a meirwon yn cael eu cydnabod a'u gwasanaethu gan ddynion, ond y bywyd trag'wyddol neu y grefydd ac y mae dedwyddwch i'w gael a'i fwynhau ynddi, ydyw yr hon y mae y gwir a'r bywiol Dduw yn wrthrych a chanolbwyntiddi. Trefnodd y Creadwr anfeidrol ddoeth a daionus

fod mwynhad a daioni pob creadur yn yr elfen a'r sefyllfa y gosododd ef ynddi. Ni ellir yn briodol ddywedyd am un creadur di-enaidd ei fod yn ddedwydd, nag yn druenus; y mae dedwyddwch a thrueni yn gyssylltedig yn unig ag ymddygiadau moesol—nid oes ond deiliaid deddfa llywodraeth foesol a'u profa. Y mae y creadur mud gan hynny mewn cylch na bu dedwyddwch a thrueni erioed o'i fewn. Ni chyflawnodd erioed rinwedd na bai moesol, felly ni phrofodd fias dedwyddwch na thrueni: oblegid cyssylltedig a rhinwedd yw y naill, fel y mae y llall yn gyssylltedig anwahanol ag euogrwydd. Ond y mae ei fwynhad yn ol ei natur gan bob creadur; ac y mae mwynhad pob un yn yr elfen y gosododd y Crëwr ef. Yr asyn gwyllt a drig yn yr anialwch, ac yno y mae ei fwynhad; 'efe a chwarrd am ben lluaws tref, ac ni wrendy ar lais y geilwaid,' na neb a geisiant ei hudo oddiyno; ac nid ydyw wrth ei fodd mewn un lle na chyfiwr arall. Y lefiathan a chwery yn y dyfroedd: pe gosodid ef ar dir sych, ni allaf chwarae na byw yno. Yr adar 'a leisiant oddi rhwng cangau' y coed; ymddyfyrant yn yr awyr: pe troid hwy o'u helpen naturiol hon, darfyddai eu cân a'u mwyniant: fel hyn yr ydym yn gweled 'pob peth wedi ei wneuthur yn deg yn ei amser,' pob creadur wedi ei osod yn ei le priodol; mwyniant pob un yw yr elfen y gosodwyd ef ynddi. Cyfansoddwyd a bwriadwyd dyn i lenwi cylch ehangach, ac i ateb dybenion uwch na hwynt oll; gosodwyd ef dan ddeddf gyfaddas i'w natur a'i alluoedd meddyliol; ac yn ei gydffurfiad yntau a'r ddeddf hono y mae ei ddedwyddwch—ei anghydfurfiad a'i drosedd o honi yw ei drueni. 'Wrth ddyn, efe a ddywedodd, Wele, ofn yr Arglwydd, hynny ydyw doethineb, a chilio oddiwrth ddrwg sydd ddeall.' 'Ofna Dduw, a chadw ei orchymynion ef, canys hyn yw holl ddyled dyn.' Fel ag mai crefydd yw dyben penaf dyn, fel creadur rhesymol, felly crefydd a'i gwna yn ddedwydd: y mae ei ddedwyddwch yn ei ddyledswydd; 'efe a fydd dedwydd yn ei weithred;' ac yn ofer y crwydra i ymofyn am dano yn un lle arall. Gwnaeth Solomon brawf manwl a theg o bob peth i chwilio am ddoethineb neu ddedwyddwch, crwydrodd ar hyd holl faesydd natur, casglodd holl flodeu pleserau y byd, gwywasant oll yn ei ddwylaw; troisant yn siomedig bob un. Wedi myfyrio a 'chwilio o'r naill

beth i'r llall i gael y rheswm,' 'Profi llawenydd'—'Ymroddi i win,' gan 'arwain ei galon mewn doethineb'—gwneyd 'gwaith mawr' mewnplanu ac adeiladu'—cynull 'cantorion a chantoresau a phob offer cerdd dyfyrwch meibion dynion'—casglu 'arian ac aur a thrysor penaf brenhinoedd a thaleithiau, &c. ac erbyn troi i adolygu yr holl lafur, mewn trefn i sugno y mwynhad o hono.—'WELE, HYN OLL OEDD WAG-EDD, GORTHRYMDER YSPRYD, A GOFID BLIN,' a phenderfynodd 'NAD OES DIM BUDD DAN YR HAUL!' Ac wedi llwyr ddiffygio yn ymboeni ar hyd meusydd gwagedd yn chwilio am sylwedd, yn ofer ymofyn dedwyddwch yn elfenau gorthrymder, a dychwelyd o'i lafur blin a chaled yn siomedig, y mae yn y diwedd yn agor ffynon dedwyddwch; a'r olwg ddiweddaf a gawn ar y Pregethwr, (neu Yr enaid a gasglwyd, fel y mae yr enw yn arwyddo) ydyw, yn 'eistedd felly ar y ffynon hon.' Amcanasai o'r blaen gau i fynu yr holl bydewau y buasai ynddynt, ac y cawsai ei siomi, a pherswadio pawb a ddelai ar ei ol, na byddai iddynt fyned byth yno i godi dwfr, gan ddadleu oddiar ei brofiad ei hun, bod y dyfroedd twyllodrus hyn yn ychwanegu syched yn hytrach na'i dori, yn ychwanegu trueni yn hytrach nag yn rhoddi dedwyddwch: gan hyny, efe a dreigla y gareg fawr hon ar enau yr holl bydewau, 'Gwagedd—Gorthrymder Yspryd—Gofid blin—Dim budd!' Ac yn y diwedd, dengys ac egyr y ffynon, ac unig 'ffynon y dyfroedd byw'—'Ofna Dduw a chadw ei orchymnion ef, canys hyn yw holl ddyled dyn.' Ein Hiachawdwr bendigedig yn 'ddiffygiol gan y daith, a eisteddai felly' ar ffynon Jacob, ac yno agorai ffynon iachawdwriaeth o'r hon y dylifa dyfroedd dyddanwch i adfywio a disychedu eneidiau blinderog a sychedig.—'Pwy bynag a yfo o'r dwfr hwn, efe a sycheda drachefn; ond pwy bynag a yfo o'r dwfr a roddwyf fi iddo, ni sycheda yn dragywydd; eithr y dwfr a roddwyf iddo, a fydd ynddo yn ffynon o ddwfr yn tarddu i fywyd trag'wyddol.' Mewn gwir grefydd y mae gwir ddedwyddwch.

PENNOD II.

DOSP II.

EGLURHAD O'R YMADRODDION—GOLEUNI NEU Y DATGUDDIAD A RYDD NATUR O DDUW A CHREFYDD, &c.

' ARFERIR dosparthu crefydd,' medd Dr. Leland, ' dan ddau ben cyffredinol, naturiol a datguddiedig. Nid ydynt yn ddwy hanfodol wahanol, llawer llai yn wrthwynebol y naill i'r llall: oblegid megis y golygir bod y naill a'r llall yn deilliaw oddi wrth Dduw, yr hwn yw y gwirionedd ei hunan, rhaid eu bod yn gyson a'u gilydd: ac eto, nid yr un yn hollol ydynt, ac yn unig yn gwahaniaethu ynydull o'u datguddio. Oblegid, er y rhaid i wir grefydd ddatguddiedig fod yn hollol gyson a ac heb gynwys dim yn groes i oleuni eglur natur a rheswm, eto, gall amlygu a datguddio llawer o bethau perthynol i wirionedd a dyledswydd, na ddatguddia y goleuni hwnw ei hunan mo honynt yn gwbl, neu na amlyga gyda digon o oleuni a sicrwydd. Nid ydynt, gan hyny, i'w gosod mewn gwrthwynebiad i'w gilydd; ac ni fwriadwyd y naill i gymeryd lle y llall. Mewn ffaith, amlygai Duw ei hun yn y ddwy ffordd yma o'r dechreuad; fel y gellir dywedyd gyda't priodoldeb mwyaf, na adawodd efe mo hono ei hunan yn ddi-dyst yn mhlith dynion. Da fuasai iddynt hwy, pe buasant wedi gofalu am wneyd iawn ddefnydd o'r amlygiadau hyn!'

Y ddwy ffordd ag y mae Duw wedi ei ddatguddio ei hun i ddynion ydynt, drwy ei weithredoedd a thrwy ei air ysgrif-

* Leland—' On the Advantage and Necessity of the Christian Revelation.

Vol. i. p. 1, 2.

enedig. Gelwir y cyntaf yn ddatguddiad naturiol o Dduw ; a'r llall yn un goruwch-naturiol. Y wybodaeth a gesglir am Dduw a dyledswydd yn ngoleuni y blaenaf, a elwir yn grefydd natur ; a'r eiddo yr olaf yn grefydd ddatguddiedig.

Gellid gwneyd y gwahaniaethiad hwn rhwng goleuni natur â chrefydd natur: *Goleuni* natur ydyw yr amlygiadau a wna y Duw anweledig o hono ei hun drwy ei weithredoedd, yn nghrëad a llywodraethiad pob peth : yr hyn a ellir ei wybod am Dduw, am ei anweledig bethau ef, wrth eu 'hystyried yn y pethau a wnaed ;' y moddion a'r manteision naturiol sydd gan y creadur rhesymol i ddyfod i wybodaeth o hono, ac o'i ddyledswyddau tu ag ato, yn annibynol ar y datguddiad ysgrifenedig neu oruwch-naturiol o'r pethau hyn. *Crefydd* natur ydyw cydymffurfiad calon a buchedd o du y creadur a'r goleuni a'r wybodaeth yma. Ei waith yn 'ystyried anweledig bethau Duw yn y pethau a wnaed,' er cyrhaedd yr hyn a ellir ei wybod am dano, ac yn dwyn y wybodaeth hon allan i ymarferiad, drwy fyw dan ei dylanwad. Fel hyn, moddion gwybodaeth yw *goleuni* natur, a'r wybodaeth a gasglwyd drwy y moddion yma yn cael eu gosod mewn ymarferiad ydyw *crefydd* natur. Gan hyny, y mae goleuni natur yn helaethach ei derfynau na chrefydd natur. Y mae y *goleuni* yn ei lawn nerth, lle nad oes nemawr o ddim o'r *crefydd*. Moddion a manteision gwybodaeth o Dduw a dyledswydd (cyn belled ag y mae natur yn amlygu) lle nad oes un defnydd yn cael ei wneuthur o honynt ; ond dynion yn byw ac yn ymagweddu yn hollol groes i'r egwyddorion a argymbella goleuni natur i'w sylw. Llewyrcha y goleuni hwn yr un fath ar bawb yn mhob man, ar bob amser, ond y tywyllwch hwnw a orchuddia y ddaear, 'nid yw yn ei amgyffred ef.'

Gyda golwg ar yr hyn a elwir yn oleuni a chrefydd natur, diameu ei bod yn cael ei chodi yn rhy uchel gan rai, a'i darostwng yn rhy isel gan eraill. Gwna rhai lawer gormod, a'r lleill lawer rhy fychan. Peth anhawdd yw dysgu ein dwylaw ni plant dyuion, i adael pethau yn eu lleoedd eu hunain : llusgasom y greadigaeth allan o'i lle !

Y rhai sydd yn dyrchafu goleuni natur yn rhy uchel ac yn gwneyd gormod o hono, ydyw y rhai a heurant ei fod yn ddiagonol i arwain dyn at Dduw ac i ddedwyddwch : ac felly, nad

oes eisïau unrhyw ddatguddiad arall; o ganlyniad, gwrthyd y rhai hyn yr ysgrythyrau, a gwadant eu dwyfoldeb. Dyma gred yr Anffyddïaid (*Infidels*). Dyma yr unig wir grefydd, meddant hwy; yr unig ddatguddiad o wirionedd a dyledswydd y gellir pwysu yn ddyogel arno; ag y sydd yn cynwys yr oll ag sydd yn angenrheidiol i'w wybod a'i wneuthur mewn trefn i fwynhau ffafr Duw a gwir ddedwyddwch.

Y mae rhai o'r dadlenwyr galluocaf dros grefydd natur, ac yn erbyn crefydd ddatguddiedig, yn sicrhau ei bod yn berffaith amlwg ac eglur i'r holl hîl ddynol, a'i bod yr hyn y mae gan bob dyn wybodaeth naturiol o honi. Dadleuant, gan fod crefydd o'r un pwys i holl ddynolryw, bod doethineb a daioni Duw yn gofyn bod iddi gael ei gwnenthur yn gydradd adnabyddus iddynt oll. Gan ddarfod i Dduw roddi greddfau anïanol i'r creaduriaid, y rhai sydd yn gyfarwyddyd sicr ac anffaeledig iddynt, er ateb dyben eu créad, llawer mwy gallwn dybied ei fod wedi cynhysgaeddu holl ddynolryw â moddïon anffaeledig i'w cyfarwyddo mewn crefydd, ac i ddedwyddwch. Fel hyn yr ymresymai Arglwydd Herbert yn fynych; ac oddiar yr egwyddor hon, sicrhâ ef, bod Duw wedi argraffu ar galon pob dyn ddrychfeddyliau greddfôl am brif egwyddorïon crefydd a moesoldeb. Dr. Tindal a heura yn fynych, bod goleuni eglur a chyffredinol yn tywynu i feddwl pob dyn ac yn amlygu iddynt y cwbl sydd yn angenrheidiol iddynt wybod, credu, a chyflawni; a'r hyn na ellir ei wneyd yn eglurach i un dyn drwy unrhyw ddatguddiad allanol a goruwch-naturiol, nag ydyw yn naturiol i bawb heb y cyfryw ddatguddiad. Dyma'r egwyddor y sylfeinir y llyfr hynod hwnw, 'Crist'nogaeth mor hena'r Greadigaeth,' arni: a'r rhon sydd yn rhedeg drwy yr holl waith bostgar hwnw. A hon yw yr unig egwyddor, yn wir, ar yr hon y gellir amddiffyn dyfais y boneddïon hyny a heurant bod datguddiad goruwch-naturiol yn hollol ddiangenrhaid ac ofer, gyd âg un math o gysondeb.

'Yr awdwr diweddaf a enwyd a fynych heura, bod yr hyn a elwir yn gyfraith a chrefydd natur yn ddyfais gyflawn o grefydd a moesoldeb, wedi ei hysgrifenu ar feddwl pob dyn, yn y fath fodd, fel nad yw yn bosibl i neb ei chamgymeryd. Ac â mor belled a heuru, bod hyd yn ôd y mwyafriddysg

o'r hîl ddynol, a'r hwn na all gymaint a darllen iaith ei fam, yn meddu o angenrheidrwydd wybodaeth eglur a chyflawn o grefydd ac o'i dyledswydd. Cydnabyddir yn hawdd, gan hyny, nad oes angen datguddiad goruwch-naturiol i ddysgu dynion yn yr hyn o angenrheidrwydd naturiol a wyddant eisoes. Ac yn wir, ar y dybiaeth hon, nid oes yr angenrheidrwydd lleiaf am un math o addysg mewn cyngor nac ysgrifen: a'r ffordd oreu, fel y dywed y pendefig a enwyd, fyddai gadael pob dyn yn hollol iddo ei hun, ac i gyfarwyddiadau natur. Gall y dull hwn o lefarn ymddangos yn deg ar y golwg cyntaf: y mae yn ddarluniad hardd-deg o fawrwychder y natur ddynol, a daioui cyffredinol Duw i holl ddynolryw. Ond pan ddyger ef at y prawf o ffaith a phrofiad, ni ymddengys ddim amgen na gweledigaeth ddychymygol, heb gyfateb mewn un modd i wir sefyllfa pethau yn nghyflwr presenol y natur ddynol. A gallem ryfeddu pa fodd y gallai y fath ddisgrifiad gael ei roddi gan unrhyw ddyna wyddai ddim am agwedd y byd, neu hanesyddiaeth plant dynion. Y mae yn golygu bod crefydd yn ei gwir natur, a phob peth a berthyn iddi, yn naturiol adnabyddus i bob dyn; fel na all neb gamgymeryd mewn perthynas iddi: ac eto, nid oes dim yn fwy eglur ac anwadadwy oddiwrth hanesyddiaeth dynolryw yn mhob oes, na'i bod wedi ei chamgymeryd yn ei hegwyddorion pwysfawr, a'i dyledswyddau: a'u bod yn sefyll mewn angen mawr am addysg a chyfarwyddyd mewn trefn i gael iawn syniadau am y pethau hyn.*

Dyna o ran sylwedd yw golygiadau y rhai sydd yn gwneuthur gormod o oleuni natur, ac yn ei ddyrchafu yn rhy uchel—pe buasai rhyw estron i'r byd hwn, rhyw un hollol anadnabyddus o hanesyddiaeth plant dynion, yn gwneyd y fath haeriadau, ni buasai yn gymaint syndod, ond bod rhai o honnynt hwy eu hunain, yn nghanol anhrefn a thrueni; a hanesyddiaeth y byd Paganaid ger bron eu llygaid, yn dangos iddynt fel yr oedd y byd yn mhob oes wedi bod yn ymbalfalu, yn ymdroi ac yn ymddwyn gyda golwg ar grefydd, sydd yn syndod ac yn ddiareb.

* Leland—'Advant. and Necess. of Christ. Rev.' Vol. i. p. 5, 6.

Y mae rhai eraill yn euog o ddarostwng y datguddiad naturiol o Dduw a chrefydd yn rhy. isel : meddyliant bod gogoniant yr ysgrythrau yn gofyn llwyr-ymwrthod a phob ymchwiliad am wybodaeth o Dduw yn ngwaith natur. Ond y mae yn eithaf amlwg yn wyneb y Bibl, fod hyn yn gamsyniad mawr; y mae y Bibl, nid yn unig yn peidio gwahardd sylw ar weithredoedd natur, ond yn ein gorchymyn i wneyd : yn ein hanfon at ei gweithredoedd hi i gael profion o'i dystiolaethau ef am Dduw mewn llawer o bethau. Geilw arnom i 'ddyrchafu ein llygaid tua'r nefoedd uchod, ac edrych ar y ddaear isod,' ac ystyried 'pwy a grëodd y rhai hyn, a ddwg eu llu hwynt allan mewn rhifedi?' Par i ni ofyn am ddysg 'i'r ddaear'—i'r anifeiliaid—y pysgod—a'r ehediaid—'cofia fawrhau ei waith ef, ar yr hwn yr edrych dynion; pob dyn a'i gwel, a dyn a'i cenfydd o bell.' Ac am nad ystyriant weithredoedd yr Arglwydd y dinystria efe lwynt.' Arweinai yr Arglwydd Job drwy y greadigaeth, ac at yr holl greaduriaid, i'w ddysgu am ei fawredd, a'i ddyledswydd yntau tu ag ato. HOLA ef am hyd a lled a sylfeini y ddaear, —am y mor, ei derfynau, ei gilfachau a'i ddeddfau—am y cymylau, y mellt, a'r taranau, y gwynt a'r gwllaw—y goleuni a'r tywyllwch—y ser a'r bodau wybrenol. Dengys iddo y behemoth a'r lefiathan, yr anifeiliaid a'r adar, mewn trefn i ddysgu crefydd iddo; ac nid yn ofer : oblegid yn yr olwg ar fawredd Duw yn yr holl bethau hyn, daeth Job i'r 'llwch a'r lludw, i ffeiddio ei hun ac edifarhau.'

Mewn ffaith, gweithredoedd natur mewn creadigaeth a rhagluniaeth yw prif destun yr ymddyddanion yn y gyfran hono o'r gair sanctaidd. Cymerai y Salmydd duwiol bleserdaith yn fynych ar hyd y meusydd blodeuog a ffrwythlawn hyn: fel yr ymddengys wrth lawer o'i gyfansoddiadau, megis *Salmau* viii. civ. cxlvii, ac amryw ereill. Tremiai ei feddwl ar weithredoedd y Duw mawr, ei ddoeth a'i oruwchlywodraeth ddaionus dros y cyfan, nes ei llenwid ag yspryd addoli, rhyfeddu, diolch, a chlodfori, gan y golygfeydd gogoneddus; a'r amlygiadau mawreddawg o Dduw a ganfyddai yn mhob rhan o'i waith : a galwai mewn gwresog-frydedd sanctaidd ar bawb ac ar bob peth drwy y nef a'r ddaear i gyd-lawenhau a chyd-foliannu. Gosodai natur fawr fel telyn,

ei holl elfenau fel tannau ynddi, a galwai ar angelion a dynion i chwarae eu bysedd arnynt, nes yr adseiniai clodforedd Iehofa drwy holl ororau bodoliaeth. Ac nid oedd byth yn ymddigoni a'r myfyrdod hwn:—addunedai ei wneuthur yn destun myfyrdodau a chaniadau newyddion eilwaith: 'Myfyriaf hefyd ar dy holl waith, ac am dy weithredoedd y chwedleuaf.'

Yr oedd prydferthwch a gogoniant gwaith natur yn hoff destun gan feddwl y Cyfryngwr bendigedig i sefyll arno. Y Parch. Jacob Abbott, yn y gwaith digymar hwnw a elwir '*Y Gongl Faen*,' a wna y sylwadau prydferth a ganlyn ar hyn. 'Y mae yn amlwg y sylwai Iesu Grist, ar, ac y mwynhäi natur. Y mae llawer o gyfeiriadau at ei rodiadau unigol yn y meusydd ac wrth lan y mor: ond y tystiolaethau cryfaf o'i hyfrydwch sydd i'w gweled yn y modd y llefarai am ei dilynion (*beauties*). Tyna dyn ei draws-fudiadau (*metaphors*) oddiwrth y pethau mwyaf adnabyddus iddo, neu y pethau a'i heffeithiant fwyaf; fel y gallwn farnu yn bur gywir pa fath ydynt feddyliau a theimladau cyffredinol yr ysgrifenydd, wrth sylwi pa ddelweddau a godant i'w feddwl pan effeithir ef wrth ysgrifenu neu ymddyddan.

'Yr ydym yr un modd yn deall pa mor ddynodol oedd yr argraffiadau o brydferthwch natur ar y Gwardwr, wrth y dull y cyfeiria atynt. Er engraifft, cymerwch yr achlysur pan y llefarai am brydferthwch y lili. Pa mor gyffrös! Y rydym mor gydnabyddus o'r darluniad a rydd, fel y mae wedi colli ei ddylanwad arnom; ond pe galledd ddynesu ato o newydd megis, gorchfygid ni gan ei ogoniant a'i brydferthwch. Efe a ymdrechai berswadio ei ddysgyblion i beidio a bod yn bryderus yn nghylch ymborth a dillad, canys os gwnant ewyllys Duw, y cymerai efe ofal am danynt—'Edrychwch ar lili y maes,' medd efe, 'nid ydynt yn llafurio, nac yn nyddu, ac eto dywedaf i chwi na wisgwyd Solomon yn ei holl ogoniant fel un o'r rhai hyn.' Dyn oeraidd, hwyrdrwm ei feddwl, heb chwaeth neu deimladrwydd, ni ddywedasai fel hyn! Ni allasai chwaith; a gallwn fod yr un mor sicr bod Iesu Grist yn gorhoffi hawddgarwch a phrydferthwch y planhigyn, a lliwiad tra chelfydd y blodeuyn, a phe buasem yn ei weled ef a'n llygaid, yn plygu ato, neu yn ei ddangosi'w ddysgyblion.

'Y cyffredin o ddynion, nid ydynt byth yn sylwi ar y dilynion a'r rhyfeddodau sydd bob amser o'u hamgylch. Yn mhllith cannoedd a rodiant mewn gerddi, ychydig iawn a sylwant ar y gwrthrychau o syndod a hyfrydwch sydd yn llawn yno. Y mae amryw brysgwydd ochr yn ochr. Tyfant o'r un ddaear, cynhesir hwy gan yr un haul, adfywir hwy gan yr un cawodau; ac eto yr un noddau yn tyfu i fynu yn yr un gorsen a drefnant eu hunain yn ronynau ar y pen. Gwir hoffwr natur a saif i adfyfyrio, fel y gwel yr amrywiol ffrwythau a blodeu hyn, pa mor syn ydyw, y gellid trefnu llaw-weithfa mor dra chywraint yn y corsenau hyny, fel ag i ddwyn y fath amrywiol ganlyniadau rhyfeddol allan o'r un ystor gyffredin o ddefnyddiau. Y cyffredin, nid ydynt yn meddwl dim oll am hyn. Y maent yn ei ystyried fel peth o angenrheidrwydd, fod i ffigys dyfu ar y ffigysbren, a grawnwin ar y winwydden, a hyny ydyw y cwbl a feddyliant hwy am dani.

'Dyma ronyn bychan hefyd. Ymddengys i'r llygad yn ddifywyd a dibeiriannau, yn hollol ddiwahaniaeth oddiwrth ronyn o dywod. Ond, pa gyfundrefn gymhlethedig sydd wedi ei chrynhoi yn ei orchudd-wisg! Dodwch ef yn y ddaear, a dychwelwch i'r lle yn mhen ychydig fisoedd, a chwi a welwch bren bychan yn orchuddiedig gan ddail a blodeu, ac yn rhoddi i amryw adar ac ednogiaid gysgod a char-tref.

'Yn awr, sylwai Iesu Grist ar y pethau hyn. Gwelai ef eu prydferthwch, a mwynhäi ef. Yr oedd ei galon yn llawn o ddarluniau, y rhai a achlysurid gan y cyfryw sylwadau. Heb hyn, ni allasai gydmaru cynnydd ei deyrnas i dyfiant y cyfryw bren. Ni allasai draethu dameg yr heuwr, pe na sylwasai gyda manylwch ar bob peth cysylltedig â diwylliad tir. Ei gyfeiriadau prydferthion at y winwydden a'r ffigysbren, y gwenith a'r efrau, adar yr awyr, a diadellau y maes, a brofant oll yr un peth. Y mae, nid yn unig darfod iddo lefaru am y pethau hyny, ond y cyfeiriai atynt mewn modd mor brydferth, cynhyrfus, a gwreiddiol, yn brawf bod ganddo lygad craffus a chalon wresog at ragoriaethau a gogoniant y greadigaeth.*

* 'Y Gongl-Faen'—tu dal. 51, 52.

Cyn gadael y ddwy ochr gamsyniol a nodwyd, gosodaf i lawr yma ychydig o ymadroddion awdwr enwog ar y mater.

‘Mae dynolryw wedi bod yn mhob oes yn dueddol i redeg i eithafion mewn perthynas i grefydd. Tra y byddai rhai yn gwyro i briodoli gormod i ymdrechiadau galluoedd rheswm dynol, ac i ddychymygu bod dyn yn alluog, drwy oleuni rheswm yn unig, i gael allan wir ddoethineb a dedwyddwch—y rhan amlaf o grefyddolion, ar y llaw arall, a fuant dueddol i edrych ar wybodaeth athronyddol, yn ei pherthynas a chrefydd, gyda gradd o ddifaterwch yu ymylu ar ddirmyg. Y mae y ddwy ochr hyn yn gyfartal ynfyd a chamsyniol. Oblegid efe, yr hwn a ddyrchafa reswm dynol, fel yr unig gyfarwyddwr diogel i ddoethineb a gwynfyd, a anghofia bod dyn yn ei gyflwr presenol, yn greadur llygredig, ac o ganlyniad yn agored i gyfeiliorni; a bod yr holl rai hyny a adawyd yn hollol i gyfarwyddiadau eu deall eu hunain, wedi hollol fethu yn eu cais i gyrhaeddyd y gwrthrychau dymunol hyny. Yn ystod yr amser o fwy na 5,800 o flynyddau, gadawyd y rhan fwyaf o’r hll ddynol yn hollol i gyfarwydddyd eu galluoedd rhesymol, mewn trefn i gyfeirio eu ffordd i deml gwybodaeth a phyrth anfarwoldeb. Ond, pa mor hollol y methasant! * * * Ond, ar y llaw arall, er bod goleuni natur o hono ei hun yn gyfarwyddwr gwan ac annigonol i’n harwain yn ein golygiadau am y Bôd Goruchaf, a’n sefyllfa drag’wyddol, eto y mae yn gamsyniad peryglus i dybied y dylid cau rheswm a myfyrio natur allan o’n crefydd. Y dyn a gaua allan ymdrechiadau y deall dynol, a myfyrio natur, mewn crefydd, a anghofia mai efe yr hwn yw awdwr y brynedigaeth, ydyw Creawdwr allywodraethwr holl gyfundraeth y greadigaeth naturiol—mai un o ddybenion yr adferiad a effeithia yr efengyl, ydyw ein cymhwyso i iawn fyfyrio a defnyddio yr amlygiadau o’r perffeithrwydd dwyfol yr hwn a ddatguddia gweithredoedd anian—mai gweithredoedd gwel-edig Duw ydynt y prif gyfryngau drwy y rhai yr amlyga efe berffeithrwydd ei natur i fodau deallawl—bod myfyrio a chwilio i mewn i’r gweithredoedd hyn yn rhoddi gwaith i ddealldwriaethau o radd uwch (sef angelion)—y buasai dyn, pe arosasai yn ei gyflwr o ddiniweidrwydd, yn gweithredu o ran ei feddwl yn benaf ar y pethau hyn—ei bod yn un o

ddybenion mawrion y datguddiad dwyfol i egluro gweithred-
iadau rhagluniaeth, a gwaith Duw, yn lluniad a chadwraeth
pob peth—a bod yr ysgrythyr yn llawn o ddsgrifiadau ys-
plenydd o'r greadigaeth weledig, ac o gyfeiriadau grymus at
amrywiol wrthrychau, y rhai a addurnant arolygfa (*scenery*)
natur.*

DOSP. II.

YR ydym, bellach, i fyned yn mlaen i gymeryd golwg ar y
pethau ag y mae natur yn eu dysgu i ni am Dduw, a'n dy-
ledswyddau tu ag ato. Y mae yr holl egwyddorion sylfaenol
crefydd, ag y sylwyd arnynt o'r blaen, yn cael eu datguddio,
neu i'w casglu gan reswm a deall y creadur rhesymol, yn
nrych gweithredoedd a gweinyddiadau y Duwdod mewn cre-
adigaeth a rhagluniaeth. Nid yw holl fethiant a dyrswch
dynion yn eu hymchwiliadau i ddyfod i gyrhaeddyd yr eg-
wyddorion hyn yn un prawf nad ydynt i'w cael yno, ac erbyn
i oleuni y datguddiad goruwch-naturiol lewyrchu ar y llall,
yr ydym yn eu gweled yn hawdd a naturiol. Y mae bod un
'gwir a bywiol Dduw' yn cael ei ddatgan yn uchel ac amlwg
gan lais natur yn mhob 'iaith,' ac yn mhob ymadrodd. At
waith natur y cyfeiria y Biblam brawf y bod o Dduw; Canys
ei anweledig bethau ef er creadigaeth y byd, wrth eu hystyr-
ied yn y pethau a wnaed, a welir yn amlwg, sef ei drag'-
wyddol allu ef a'i Dduwdod, hyd onid ydynt yn ddiesgus.
'Bachgen a adwaenir wrth ei waith,' medd Solomou, felly
hcfyd, Duw a adwaenir wrth ei waith. Y mae efe ei hunan
yn anweledig, 'Yr hwn nis gwelodd un dyn ac nis gall ei
weled;' ond y mae wedi gweithio ei hunan i'r golwg, megis,
yn ei weithredoedd. Drwy gyfrwng y rhai hyn, y mae ei
briodoliaethau naturiol a hanfodol yn cael eu harddangos yn
y modd mwyaf amlwg a gogoneddus. Os ystyriwn y dyb-
iaeth a ffurfiodd dynion doethion am y Bod Dwyfol,' medd-
Addison, 'y mae yn cynwys hyn; ei fod yn meddu ar bob

* 'Dr. Dick's Christian Philosopher,' p. 19—24.

perffeithrwydd natur ysbrydol; ac fel nad oes genym ni unrhyw ddirnadaeth am un math o berffeithrwydd ysprydol, ond yr hyn a ganfyddwn yn ein heneidiau ein hunain, ni a gysylltwn anfeidroldeb a phob un o'r perffeithiau hyn, a'r hyn sydd yn gynheddf mewn enaid dynol sydd yn briodolled yn Nuw. Yr ydym ni yn hanfodi mewn lle ac amser—lleinw y Bod Dwyfol y gwagle a'i bresenoldeb, a phreswylia drag'wyddoldeb. Yr ydym ni yn meddu ar ychydig allu, ar ychydig wybodaeth—y mae yntau yn hollalluog a hollwybodol. Mewn gair, drwy ychwanegu anfeidrolled at unrhyw alluoedd a feddwn ni, a thrwy gyd-gysylltu yr holl wahanol amrywiaethau hyn o berffeithiau mewn un bod, y ffurfiwn ein tyb am Lywydd mawr natur.

'Er y rhaid i bob un roddodd ei feddwl ar waith, fod wedi gwneyd y sylwad hwn, caf ddwyn yn mlaen awdurdod Mr. Locke i'r un dyben, allan o'i draethawd ar y meddwl dynol. Os bydd i ni chwilio i mewn i'r dyb sydd genym am y Bod Goruchaf ac anamgyffredadwy, ni a gawn ein bod yn ei ffurfio yr un modd; a bod yr amrywiol ddrych-feddyliau sydd genym am Dduw ac ysprydion yn cael eu gwneyd i fynu o'r tybiau symlion a dderbyniwn mewn adfyfyrdod: *A. y.* oddiwrth yr hyn a brofwn ynom ein hunain, yn cael y tybiau am hanfodaeth, gwybodaeth a gallu, o bleser a dedwyddwch, ac o amrywiol ansoddau ereill, y rhai y mae yn fwy dymunol eu mwynhau na bod hebddynt—pan fyddom yn ffurfio y meddwl mwyaf priodol a allom am y Bod Goruchaf, yr ydym yn helaethu pob un o'r rhai hyn a'r drychfeddwl o anfeidroldeb, ac felly drwy eu gosod yn nghyd, yn gwneyd i fynu ein tybiaeth am Dduw.'

Yn awr, y mae yr egwyddor gyntaf mewn crefydd, sef bod un gwir a bywiol Dduw, yn cael ei phregethu a'i datgan, fel y dywed yr ysgrythyr, yn 'mhob iaith ac yn mhob ymadrodd: hyd onid ydynt yn ddiesgus.' Y mae yn 'amlwg i'w gweled wrth ystyried y pethau a wnaed.'

Y mae yr Annuiad yn wrthrych truan, ac y mae holl natur yn 'curo ei dwylaw arno i'w hysio a'i hwtio! Y mae ei holl ddefnyddiau, ei helfenau, a'i chreaduriaid, yn ei gyd-watwar. 'Pwy ni wyr yn y rhai hyn oll, mai llaw yr Arglwydd a wnaeth hyn?'

Gofynwch i'r Duw-wadwr, Pa fodd y daeth y pethau sydd yn bod i fodoliaeth ar y cyntaf? A chewch atebion teilwng o'r ynyd. Trwy ddamweiniad neu ddygwyddiad, medd un ffwl—Yr oeddynt yn bod er trag'wyddoldeb, medd ffwl arall—Yr oedd y defnyddiau mewn bod yn fan ronynau gwasgaredig erioed, medd y trydydd; a daethant at eu gilydd ac ymfurfiasant yn eu hagweddau presenol drwy rym rhyw gynhyrriad cyffredinol ryw bryd. Digon, digon! Cymhwyser y tybiau hyn at unrhyw beth arall a pha mor wrthun i reswm yr ymddengys? Cymerwn lyfr er esiampl. Pa fodd y daeth y llyfr hwn i fod ar y cyntaf?—gofynawn. Daeth trwy ddamweiniad neu ddigwyddiad. Yr oedd mewn bod fel y mae er trag'wyddoldeb, medd un arall. Yr oedd y defnyddiau, y papur, yr inc, a'r llythyrenau, yn fan ronynau gwasgaredig erioed, a daethant at eu gilydd ac ymfurfiasant yn llyfr, fel y gwelir hwynt yn eu trefn bresenol, drwy rym ac effaith rhyw gynhyrriad, ryw bryd. Pa glust na ferwinid gan y fath ffolineb! Pa fodd y gallai creadur rhesymol gynyg gosod y fath drais ar ei natur erioed? Yn hytrach, onid yw rheswm pob dyn yn ei ddyngu i ofyn neu edrych pwy oedd awdwr y llyfr? mae yn golygu awdwr iddo fel peth o angenrheidrwydd. Felly, pan edrychom ar waith mawr natur, pan safo y meddwl i'w adolygu, y mae yn cael ei arwain i benderfynu bod dechreuad wedi bod ryw bryd i'r holl fodoliaeth aruthfawr hon—bod rhaid i ryw un roddi bodoliaeth iddi. Rhaid fod hwn yn Fod annibynol a thrag'wyddol, anfeidrol mewn gallu a doethineb.

Y mae nodwedd neu briodoliaethau naturiol y Duwdod yn cael eu gosod allan yn ogoneddus ac amlwg yn ngweithred-oedd natur. Wrth briodoliaethau naturiol Duw, yr ydym yn deall yr hyn ydyw o angenrheidrwydd fel Duw, yn annibynol ar ei ewyllys: megis, trag'wyddol, annibynol, hollalluog, hollddoeth a gwybodol, hollbresennol, &c. Pe cyfyngem ein myfyrdod o fewn cylch y belen fechan (mewn cydmariaeth) yr ydym ni yn ymsymud ar hyd-ddi; pe cyfeiriem ein gofynion am addysg yn unig ati hi, pa gynnifer o brofion o allu, doethineb, cymwynasgarwch, a phresenoldeb y Duwdod a ddylifent i'n meddwl oddiwrth yr oll a ganfyddwn o'n deutu! Y mae y belen ddaearol agos i wyth mil o filldroedd o

dryfesur, ac yn bum mil ar hugain o gylch fesur ; o ganlyniad, y mae ei harwyneb yn cynnwys agos i ddau can miliwn o filldiroedd ysgwâr : pe meddyliem am yr holl amrywiogaethau diddiwedd yn mron o goedydd, planhigion a llyisiau, y gwahanol rywiau, ffurfiau, a lliwiau, a ganfyddir ar hyd ei hwyneb, y tylwythau aneirif o fywiolion a'i cyfaneddant, pob rhan o honi yn llwythog o fywyd a darpariadau ar ei gyfer ; a'r mor mawr llydan a'i fwystfilod mawrion a bychain, lluosog ac heb rifedi, pa mor 'ardderchog yw enw yr Arglwydd ein Ior ni ar yr holl ddaear !' Pa mor rhyfeddol y gallu, y doethineb, a'r daioni a'u lluniai, a'u cynhalia, ac a ddarpara iddynt 'eu bwyd yn ei bryd.' A phan ddyrchafom ein llygaid i fynu, ni a welwn hefyd ei ogoniant wedi ei osod uwch y nefoedd.' 'Cyfrifir,' medd Dr. Dick, 'bod yn agos i gan miliwn o ser yn weledig drwy yr offerynau goreu, pe cyfarchwyliid holl ororau y ffurfafen ; ac eto, yr holl luaws yma o heuliau a bydoedd, pan ei cydmerir a'r hyn sydd tu hwynt i derfynau gwelediad dynol, yn eangderau anfesurrol y greadigaeth, a all fod dim amgen na'r dyferyn lleiaf mewn cydmariaeth i'r eigion mawr. Y mae gororau anfesurrol o çangder yn gorwedd tu hwnt i derfynau eithaf golwg dynol, i'r rhai na all hyd yn od dychymyg ei hunan ond yn brin ymwithio, a'r rhai, yn ddiameu, ydynt yn llwythog o weithrediaidau doethineb a hollalluogrwydd dwyfol. Oblegid ni ellir tybio, i fod mor ddyddim a dyn, yr hwn na fesura uwchlaw chwech troedfedd, yr hwn a ddiflana o'r golwg yn y pellder o ddwy neu dair milldir oddiwrtho, yr hwn y mae ei holl drigfa ddaearol yn anweledig o'r seren agosaf, yr hwn y mae ei alluoedd i ganfod mor amherffaith, a'r hwn y mae ei alluoedd meddyliol mor derfynol—ni ellir tybied bod dyn, yr hwn sydd yn 'trigo mewn ty o bridd, yr hwn a falurir yn gynt na gwyfyn,' ac wedi ei gadwyno i lawr gan rym cyfraith cyd-dyniad, wrth ar-wyneb planed fechan, fod yn alluog i chwilio allan derfynau eithaf ymerodraeth yr Hwn sydd yn llenwi anfeidroldeb, ac yn 'trigo yn y goleuni, ni ellir dyfod ato.' Y rhanau hyny o'i lywodraeth, pa fodd bynag, ag ydynt o fewn cylch ein sylw ni, ydynt yn arddangos y fath olygfeydd o fawreddigrwydd a gogoniant ag a raid lenwi meddwl pob dyn ystyriol gyda syndod a pharch ; 'Pan

edrychwyf ar dy nefoedd, gwaith dy fysedd, y lloer a'r ser, y rhai a ordeiniaist: pa beth yw dyn i ti i'w gofio?' 'Mi a glywais a'm clustiau son am danat ti;' bum yn gwranddo ar ddysgrifiadau cywrain o'th nodwedd a'th berffeithiau, gyd ag ychydig effeithioldeb; 'ond yn awr, fy llygaid a'th welodd di: ac y mae yn ffaidd genyf fi fy hun, ac yr wyf ya edifar-hau mewn llwch a lludw.'

'Mewn trefn i deimlo llawn nerth yr argraffiad a wneir gan y fath adolygiad, rhaid i'r meddwl arafu ar bob gradd, yn ei fynediad yn mlaen drwy annherfynol fröydd bodoliaeth: oblegid nid drwy sylwi yn unig ar y ffugurau a'r lluaws drwy y rhai y mae maintiolaeth a rhif y cyrph mawrion wybrenol yn cael eu gosod allan, yr ydym yn dyfod i feddu syniadau dynodawl a llawn am wrthrychau mor sawreddog a rhyfeddol. Rhaid i'r meddwl, yn ei daith fyfyrïawl, aros ar bob golygfa bennodol a genfydd, ac ar y gwahanol wrthrychau perthynol iddi: rhaid iddo ychwanegu golygfa at olygfa, maintiolaeth at faintiolaeth, a chydmaru gwrthrychau llai â rhai mwy, rhes o fynyddau â'r holl ddaear, y ddaear â'r blaned Iau, Iau â'r haul, yr haul â mil o ser, mil o ser â phedwar ugain miliwn, a phedwar ugain miliwn â'r holl ängder diderfyn a orwedd tu hwnt i derfynau golygon marwolion; a rhaid can-iatau amser priodol wrth fyned yn mlaen, i'r dychymyg weitharedu ar y gwrthrychau fyddo o'i flaen, nes y delo y drychfeddwl mor agos at y gwirionedd ag y byddo bosibl. Mewn trefn i ffurfio amgyffrediad helaethlawn o ängder y hellen ddaearol, rhaid i'r meddwl aros ar ddarn helaeth o wlad, a'r gwrthrychau y byddo wedi ei haddurno: rhaid iddo ymdrechu i dafu golwg dros yr amryw filoedd o'r cyfryw fröydd a gynnwysa y ddaear—y brynïau a'r dyffrnoedd, y llynau a'r afonydd, a'r mynyddau, y rhai a ymestynant mewn amrywiaeth diddiwedd dros ei harwyneb: rhaid iddo suddo i äng gilfachau yr eigion, treiddio i barthau tanddaearawl y hellen, ac ehedeg ei ffordd yn mysg cymylau a thymhestloedd, drwy yr awyrgylch gylchynol. Rhaid iddo, yn nesaf, gyfeirio ei hediad drwy fröydd helaethach y trefniant heulaidd, gan gymeryd i mewn i'w ddychymyg y golygfeydd ysplenydd hyny na ellir eu canfod gan y llygad noeth, na thrwy yspiadur; a chydmaru maintiolaeth ein byd isod ni a'r

planedau mwy helaeth-fawrion hyny a gylch-droant o'u ham-gylch. Gan adael yr haul a'i osgorodd blanedau o'r neilldu, nes y byddont yn diflanu i faintiolaeth seren fechan, rhaid iddo yn nesaf gyfeirio ei lwybr i fröydd y ser, a myned heibio o'r naill drefniant o fydoedd i'r llall; o'r naill gyd-seryddiad i un arall, nes y cyrhaedda gyffiniau pellaf y greadigaeth, y rhai y gallodd medrusrwydd dynol eu cael allan. Rhaid iddo hefyd ymdrechu i ymestyn yn mlaen tu hwnt i'r hyn oll sydd weledig drwy yr yspiaduron goreu, a helaethu ei sylw ar y gwrthrychau yn yr ängle diderfyn, i'r hwn ni threiddiodd llygad dynol erioed eto, a'r hwn yn ddiau sydd wedi ei ddodrefnu a bydoedd eraill, a chyfundraethau, ffurfafenau, manau y mae gweithrediadau gallu a chymwynasgarwch anfeidrol yn cael eu hamlygu, mewn amrywiaeth diddiwedd, drwy holl ororau annherfynol yr ängder.

'Yma, gan hyny, bydded i ni arafu a rhyfeddu! Dros yr holl liaws aneirif hyn o fydoedd, llywydda Duw! Yn mhlith yr amrywiaeth dirfawr o wrthrychau a dealltwriaethau y maent yn gynwys, y mae efe o angenrheidrwydd fyth yn bresenol. Gan ei ddoethineb digyfeiliorn ef y cyfarwyddir eu holl symudiadau. Drwy ei anfeidrol rym ef y daethant allan o ddim i fodolaeth, ac eu cynhelir hwy o oes i oes—'Efe a ddywedodd ac felly y bu; efe a orchymynodd a hyny a safodd.'†

Yn mhob man fel hyn, ni a welwn allu, doethineb, cymwynasgarwch anfeidrol y Duwdod ar waith—efe ei hun yn anweledig; ac eto ei bresenoldeb i'w deimlo yn mhob lle bob amser; a'r holl greadigaeth fel hyn, megis, 'yn byw, yn symud, ac yn bod ynddo.'

Y mae goleuni natur, nid yn unig yn amlygiad o'r bod o Dduw ac o'i nodwedd a'i berffeithiau naturiol, ond yn dangos nad oes ond UN Duw. Tra yn gwrthateb haerriad calon yr ynfyd, a ddywed, 'Nid oes un Duw,' y mae yn condemnio amldduwiaeth y cenhedloedd ar y llaw arall. Ynfydrwydd amlwg yw tybio am fwy nag un Trag'wyddol, Perffeithrwydd, Anfeidrol, Hollalluog, Hollbresenol, &c. Er fod amrywiaethau diddiwedd i'w gweled rhwng gwahanol wrthrychau

† 'Dick's Christian Philosopher'—p. 53—5.

natur a'u gilydd, eto y mae y fath unrhywiaeth, unffurfaeth, a chysondeb i'w gweled, ag sydd yn profi yn eglur mai yr un Cynlluniwr mawr a ddyfeisiodd y cwbl—mai dwylaw yr un pen saer celfydd a'u gosododd oll wrth eu gilydd—mai yr un llywodraeth a gofal sydd yn gorchwylio drostynt oll. Y mae yr holl luoedd ancirif o fydoedd a gylchdroant yn yr eangder mawr mewn perffaith heddwch a'u gilydd : er eu bod ar amserau yn croesi llwybrau eu gilydd yn eu teithiau, nid ydynt byth yn rhuthro y naill yn erbyn y llall, yn dyrysu ac yn dryllio eu gilydd ; rhaid fod y cwbl yn ddyfais a gwaith yr un peirianydd anfeidrol. Ac nid yn unig y maent yn heddychlawn, heb un traws-ymruthriad o'r naill yn erbyn y llall, mewn heddwch a chysondeb o ran trefn, &c. ond y maent yn gwasanaethu eu gilydd hefyd ; y maent fel cynnifer o olwynion yn gwneuthur i fynu un peiriant mawr. Y naill blaned yn peri dylanwadau gwasanaethgar ar y llall. Y mae dylanwadau yr haul, y lloer, a'r planedau, yn cael eu tēimlo, megis, yn wastadol gan y ddaear, ac y mae hithau yn effeithio dylanwad gwasanaethgar arnynt hwythau. Yr ydym, mewn gair, yn gwled pob peth yn gwasanaethu eu gilydd o'n hamgylch : bwria y ddaear allan ei chnwd o laswellt er gwasanaeth a chynhaliaeth y teulu mawr a'i preswylia—rhydd y bywyd llysieuaidd gynhaliaeth i'r bywyd anifeilaidd ; a gwasanaetha yntau y bywyd rhesymol. Y mae yr holl amrywiaethau dirif o fodau a gwrthrychau fel hyn, megis yn cydgyhoeddi, 'Yr Arglwydd ein Duw sydd un Arglwydd.'

Y mae ein perthynas â Duw, ein dybyniad arno, a'n rhwymau iddo, o ganlyniad, yn cael eu gosod allan yn amlyg ger ein bron yn yr holl bethau hyn. Pan y'n sicrheir o hanfodiad awdwr gan ei waith, fel y mae natur yn sicrhau bod Duw ; ac yn dangos ei fod yn anfeidrol mewn gallu, doethineb, cymwynasgarwch ; a'i fod bob amser yn bresenol yn mhob rhan ar unwaith—ei fod, megis, yn preswyllo ac yn cartrefu yn nghanol ei greaduriaid, yn gofalu ac yn trefnu holl achosion ac amgylchiadau y cyfan ; y mae ein perthynas ag ef, ein dybyniad gwastadol arno, a'n rhwymau iddo, yn cael ei ddysgu i ni megis yn angenrheidiol. Y mae y naill egwyddor yn arwain, ac megis yn rhedeg yn naturiol i'r llall. Y mae yr ystyriaethau hyn drachefn

yn dysgu un arall; sef, os ydyw fel hyn yn sylwi ar, yn gofalu am ei holl greaduriaid, yn cyfranu ei roddion a'i gymwysau iddynt, ei fod yn dysgwyl cydnabyddiaeth ddiolchus a gwasanaeth ymarferol gan ei greaduriaid rhesymol, ac y derbynia y fath gydnabyddiaeth a gwasanaeth oddiwrthynt; gan ei fod yn cyfranu iddynt, y derbynia ganddynt—mai eu 'rhesymol wasanaeth' ydyw ei gydnabod a'i addoli, ufuddhau iddo yn mhob peth mor belled ag y byddo ei ewyllys yn amlygedig iddynt.

Drachefn, pan dry dyn ei olygon oddiwrth bawb a phob peth, a chyfyngu ei sylw ato ef ei hun yn unig; pan gyfeirio ei lygad i graffu ar elfenau ei natur a'i gyfansoddiad, caiff fod yn ei fynwes ryw alluedd neu egwyddor a fedr ymestyn i ryw eithafion tu hwnt i angeu ac amser; a fedr gynwys rhyw ddirnadaeth am anfarwoldeb a byd trag'wyddol—ie, y mae y drychfeddwl o syrthio i ddiddymdra yn angeu y corph yn ddychrynlyd iddo: pan y nesao yn ei ddychymyg at y geulan hon, y mae yn pensesyfrdanu ac yn arswydo; yn cilio yn ei ol mewn dychryn ac ofn. Ni all lai na dymuno byw a pharhau yn ddiddiwedd. Pa beth a rag-arwydda y fath egwyddor, y fath ddymuniad! Nid yw yn gydwedol a doethineb y Creawdwr i dybied ddarfod iddo blanu y fath egwyddorion yn y cyfansoddiad dynol i ddim dyben; bod y fath un ag sydd yn naturiol yn dymuno anfarwoldeb a bythol barhad i syrthio eto i ddiddymdra fel y creadur mud, yr hwn na all synied dim am y pethau hyn. Onid oes yn y ffaith hon, bod y meddwl dynol yn alluog i ffurfio dirnadaeth a dymuniadau am anfarwoldeb, ei fod yn ofni ac yn dychrynu rhag syrthio i ddiddymder, sail i dybiaeth gref fod y cyfryw gyfansoddiad wedi ei amcanu i fywyd anfarwol? Y mae bod y llinellau hyn, sef cydwybodolrwydd o gyfrifoldeb, a dymuniad am anfarwoldeb, &c. wedi eu hysgrifenu'ar lech y galon, yn awgrymu yn gryf bod yr hwn a'u hysgrifenodd yn bwriadu i'r llen hon fod mewn bythol barhad a choffadwriaeth.

'Gyda mawr hyfrydwch,' medd Addison, 'y byddaf bob amser yn myfyrio ar y mater hwn, sef anfarwoldeb yr enaid. Yr oeddwn yn rhodio ddoe ar fy mhen fy hun, yn un o goedwigoedd cyfaill i mi, a chollais fy hun yn y testun, yn dra phleserus—yr oeddwn yn rhedeg yn fy meddwl dros yr am-

rywiol resymau sydd yn profi y mater hwn, yr hwn ydyw sail moesoldeb, a ffynhonell pob gobaith dymunol a llawenydd dirgelaidd a ddichon calon creadur rhesymol fwynhau. Ystyriais bod yr amrywiol brofion hyny yn tarddu, yn gyntaf, Oddiar natur yr enaid ei hunan, ac yn neullduol ei anefnyddiaeth (*immateriality*), yr hyn, er nad yw yn anhebgorol angenrheidiol i'w drag'wyddol barhad, sydd, yr wyf yn meddwl, wedi ei brofi hyd lawn sicrwydd yn mron. Yn ail, Oddiwrth ei reddfau a'i dueddiadau; yn neullduol, ei gariad at fodoldeb a pharhad; ei ddychryn rhag syrthio i ddiddymdra; ei obeithion am anfarwoldeb, gyda'r dirgel hyfrydwch a brofa mewn ymarferiad o rinwedd, a'r anesmwythdra hwnw a'i dylina mewn canlyniad i gyflawniad trosedd. Yn drydydd, Oddiwrth natur y Bod Dwyfol; cyfiawnder, daioni, doethineb, a gwirionedd yr hwn sydd oll yn dal perthynas a'r achos mawr hwn.

'Ond yn mhlith y rhai uchod, a llawer o resymau ardderchog ereill dros anfarwoldeb yr enaid, y mae un a ellir dynu oddiwrth gynydd gwastadol yr enaid, a'i fynediad rhagddo at ei berffeithrwydd, heb bosiblwydd byth iddo ei gyrhaeddyd: yr hwn sydd grybwylliad nad wyffi yn cofio ei weled yn cael ei gymeryd i fynu a'i ddefnyddio gan ereill a ysgrifenasant ar y mater hwn; er yr ymddengys i mi ei fod yn un o bwys mawr.

'Pa fodd y gall meddwl dyn dybied y bydd i'r enaid, yr hwn sydd alluog o'r fath berffeithiau mawrion, ac o gynhyddu yn barhaus i drag'wyddoldeb, syrthio ymaith i ddim agos mor gynted ag y creasid ef? A wnaed y fath alluoedd i ddim dyben? Y mae yr anifail yn cyrhaedd nod o berffeithrwydd yr hwn na all efe byth fyned drosto; mewn ychydig flynyddau y mae wedi cyrhaedd yr holl urdduniant y mae yn alluog o hono, a phe byddai efe byw ddeng mil o flynyddoedd yn hwy, yr un peth a fyddai ef ag ydyw yn bresenol. Pe byddai yr enaid dynol fel hyn ar sefyll o ran ei ragoriaethau—pe byddai ei alluoedd wedi cyrhaeddyd llawn llonaid, ac yn analluog o helaethiad pellach—mi a dybiwn y gallai efe syrthio ymaith yn ddiarwybod, a disgyn ar unwaith i ddiddymdra. A allwn gredu am fod meddyliol, ag sydd ar gynydd gwas-

tadol, ac yn teithio o'r naill radd o berffeithrwydd i'r llall, wedi dechreu edrych yn mron i mewn i weithredoedd ei Greawdwr, a gwneyd ychydig o ddarganfyddiadau o'i anfeidrol ddaioni, doethineb, a gallu, y bydd raid iddo drengu ar ei fynediad cyntaf allan, ac yn nghychwyniad cyntaf ei ymofynion.'

Ond cyn terfynu ar y pen hwn, angenrheidiol sylwi, bod goruchwyliaethau rhagluniaeth y Goruchaf tu ag at ein byd ni, yn awgrymu, i.e., yn uchel gyhoeddi, bod cwyn rhyngddo ag ef: bod ymrafael ac anghydfod rhwng y Crëwr a'r creadur, bod drwg moesol wedi dyfod i'r byd ryw amser drwy ryw ffordd. Ni chydasaif a nodwedd y Creawdwr fel Bod anfeidrol ddoeth a daionus, i dybio ddarfod iddo ddwyn y byd hwn i fodoliaeth yn y drefn sydd arno yn bresenol. Y mae y byd moesol, yn ei gyflwr presenol, yn gyffelyb i hen balas ardderchog wedi adfeilio a malurio: arwyddion ddarfod iddo fod unwaith yn adeiladaeth harddwych, ond yn awr yn garnedd ddinystriol. Ni allaf ymattal rhag cyfleu y deryn cyffrös a ganlyn o waith yr anghydmorol Howe, yn y lle hwn.

'Y mae genym lawer o brofion trist ac eglur ddarfod i'r Duwdod gefnu a gadael ei deml yn anghyfanedd; y mae yr adfeiliau gorwych yn weledig i bob llygad, y rhai y mae yr arysgrifen alaethus hon yn ddarllenadwy eto ar eu talwyneb—YMA UNWAITH Y PRESWYLIAI DUW! Y mae digon o brofion yn nghyfansoddiad ac ansawdd enaid dyn i ddangos ddarfod i'r presenoldeb dwyfol unwaith drigo ynddo; mwy na digon o anhrefn a halogrwydd, i ddatgan ei fod yn awr wedi cefnu ac ymadael. Y mae y lampau wedi diffoddi, yr allor wedi ei dymchwelyd, y goleuni a'r cariad ydynt yn awr wedi diflanu, y rhai unwaith fuant, un yn llewyrchu gyd a'r fath ddysgleirdeb nefol, a'r llall yn cyneu gyd a'r fath angerdd duwiolfrydig; y mae y canwyllbren auraidd wedi ei symud, a'i dasu ymaith fel peth diwerth, i roddi lle i orseddfaingc tywysog y fagddu; yr arogl-darth sanctaidd, yr hwn a anfonai i fynu mewn cymylau colofnog ei beraroglan gwerthfawr, sydd wedi ei newid am dawch gwenwynllyd ac uffernol, ac wele yma 'yn lle perarogl ddrewi.' Y mae hardd-drefn yr hell dy hwn wedi ei droi i anhrefnusrwydd;

'prydfertwch sancteiddrwydd' i anmhuredd adgas; 'ty gweddi yn ogof lladron,' a'r rhai hyny o'r rhywogaeth waethaf a chreulonaf; oblegid y mae pob chwant yn lleidr, a phob lladrad yn gyssegr-ysbeiliad: y mae trais gwastadol yn cael ei wneyd ar bethau sanctaidd. Y galluoedd ardderchog y rhai a amcenid ac a gyssegrid i arfyfyriad a mwynhad dwyfol, ydynt wedi eu dyeithro at wasanaeth yr eulunod mwyaf dirmygus, ac yn cael eu defnyddio i goffeidio y pethau gwaelaf a ffeiddiaf, i edrych ac ymhoffi yn y gwageddau oferaf, i achlesu a meithrin gwyn a drygioni. Pa ddrwg na wnaeth y gelyn yn y cyssegr? Pa fodd y darfu iddynt ddryllio y cerfiadau â bwyll ac â morthwylion. Edrychwch ar ddarnau y cerfwaith harddwych yma, yr hwn a addurnai unwaith balas y Brenhin mawr; gweddillion yr egwyddorion cyffredin; olion eglur rhyw wirionedd heb eu dileu; tybiau teg am bethau, y rheolau eglur perthynol i ymarferiad yn aros eto. Craffwch! Mor gywir y mae y darnau drylliog yn dangos fod y rhai hyn wedi eu cerfio gan fys Duw, ac fel y maent yn awr yn gorwedd yn ddrylliau gwasgaredig, un yn y gongl dywell hon, a'r llall mewn un arall, wedi eu claddu mewn carneddau o laid ac adfeilion! Nid oes un trefniant yn awr, un lech gyfan o wirionedd di-fwlch i'w cael, neu ffurf o sancteiddrwydd, ond rhyw olion gwasgaredig. A phe byddai i ryw un, drwy fawr drafferth a llafur, ymroddi i gasglu darn oddi yma ac arall oddi acw, a'u gosod yn nghyd, gwasanaethant yn hytrach i ddangos pa mor ardderchog oedd y llaw-gelfyddwaith ddwyfol yn y cyfansoddiad gwreiddiol, nag ydynt o ddefnydd presenol er ateb y dybenion goruchel yr amcanwyd hwy. Rhai darnau a gymharant eu gilydd, ac a adnabyddant y naill y llall: ond pa mor fuan y drysir ac yr hurtir ni yn ein hymdrechion! Pa gynhifer o gynhygion a wnaed, er syrthiad a dinystr arswydus yr adeilad hon, i ail drefnu y gwirioneddau o amrywiol rywiogaethau i'w lleoedd priodol, a gwneyd i fynu gylchau trefnus, neu wybodaeth ddefnyddiol; ac wedi cynifer o oesau, nid oes dim wedi ei berffeithio. Weithiau, camosodir gwirioneddau, a'r hyn a berthyn i un rhywogaeth, a drosglwyddir i'r llall, lle na chydmaru yn briodol—weithiau, gosodir twyll i fynu, a hwnw

a ddyrysa ac a annhrefna yr holl gysawd. A'r hyn a wneir gyda llawer o boen ddiffwrwyth ag un llaw a ddryllir yn chwilfriw a'r llall; a gwaith yr oes hon ydyw ysgubo ymaith gopyn-wëoedd nyddedig yr oes o'r blaen. A'r gwirioneddau hynny ag ydynt fwyaf defnyddiol, ac heb fod yn anhawddaf eu canfod, y gwneir lleiaf o gyfrif o honynt; edrychir dros eu tuedd a'u hamcan ymarferol, neu y maent yn cael eu gollwng a'u tori ymaith, fel na ellir eu dwyn i mewn yn y fath fodd ag i gymeryd gafael yn yr enaid, neu chwyfiant fel tybiau llesg ac aneffeithiol, nad ydynt o nemawr ddefnydd. Y galluoedd sylfaenol a ysgydwyd ac a ddadymchwelwyd, a'u trefn gyd-gysylltiol a ddryswyd ac a ddrylliwyd, fel nad ydyw yr hyn sydd o bwys yn cael ei ystyried yn bwysig; yr hyn sydd ganmoladwy a hawddgar yn cael ei hoffi a'i ddewis. Iê, nid yw y gwirionedd sydd yn ol duwioldeb yn cael ei anghredu yn gymaint ag y mae yn cael ei gasau, a'i atal mewn anghyfiawnder; a thywyna gyda llewyrch rhy wanaidd yn y tywyllwch uthrol hwnw nad yw yn ei amgyffred. Yr ydych yn dyfod i mewn i ganol yr annhrefn yma, megis i balas dinystriol rhyw dywysog mawr, yn yr hwn y gwelwch ddarnau colofn ardderchog yn y fan hon, a drylliau toredig rhyw gerfwaith cywrain yn y fan arall, i gyd yn gorwedd yn anghofedig a diddefnydd yn nghanol tomenydd o laid. Yr hwn a'ch arweinia i gymeryd golwg ar enaid dyn, ni ddyry i chwi ond golygfa fel hon; ac a ddywed wrthy ch, megis, 'Wele y dinystr.' Pob peth yn ddirrefn ac yn ddiffaethwch! Fel os oes rhyw arwydd o'r presenoldeb dwyfol, gellid gofyn, Os ydyw Duw yma, pa fodd y dygwyddodd fel hyn? Y gogoniant gwywedig, y tywyllwch, yr annhrefn, yr amhuredd, y sefyllfa resynol yn mhob ystyriaeth ar y deml hon a ddengys yn rhy amlwg bod y preswylydd mawr wedi ymadael.*

Y mae genym brofion ereill o'r dyrywiad a'r dinystr cyffredinol; y maë rhagluniaeth yn ei bregethu mewn llais croch yn mhob oes a gwlad.

Y mae y drygau naturiol a dorant allan yn fynych drwy weithrediad elfenau y greadigaeth, yn arwyddo gwng y llyw-

* Howe's Works, complete in one Volume.—p. 75, 76.

odraethwr Goruchaf tuag at y dalaeth hon o'i lywodraeth. Cymerodd cyfnewidiad anianyddol, cyfatebol i'r cyfnewidiad moesol yn nghyfiwr a buchedd dyn, le yn ngweinyddiad rhagluniaeth ddwyfol tuag at y byd hwn. Y mae y farwolaeth naturiol a deyrnasa ar bob dyn, yn profi bechu o bawb. Y mae gwahanol elfenau natur hefyd wedi bod fel peiriannau dinystr, a chenhadau anfoddlonrwydd y Duwdod tuag at ddynion, i raddau mwy neu lai, yn mhob oes o'r byd. Chwydodd llog-fynydd eiriasboeth Etna afon berwedig allan o'i goluddion tanllyd yn y flwyddyn 1669, yr hon a ddinystriodd mewn llai na deugain niwrnod, breswylfeydd 27,000 o ddynion; ac o drigolion Catania, yr hon a gynwysai 20,000 o eneidiau, 3,000 yn unig a ddiangasant. Yn y flwyddyn 79, llwyr orchuddiwyd a dyfngladdwyd y dinasoedd enwog Pompeii a Herculaneum gandân-chwydiad allan o losg-fynydd Vesuvius, ac ni chafwyd allan y llanerchau y safent am 1,600 o flynyddau! Achosodd toriad allan o losg-fynydd Pichincha yn agos i Quito farwolaeth 35,000 o bersonau ar unwaith. Dystrywiodd toriad llog-fynydd yn ynys Java, yn y flwyddyn 1772, ddeugain o bentrefi ac amryw filoedd o'r trigolion; ac yn yr un ynys, yn y flwyddyn 1822, dinystrwyd 88 o breswylfeydd, a 2,000 o fywydau gan ymagoriad llog-fynydd newydd. Yr oedd ymholliad mynydd tanllyd Tomboro yn ynys Sumbawa, yn 1815, mor arswydus fel ag yr oedd holl Moluccas, Java, Sumatra, a Borues, hyd y pellder o fil o filldiroedd oddiwrth y mynydd, yn teimlo crynfâau echrys; a chlywid y swm yn Java, y pellder o 340 o filldiroedd. Bernir fod 205 o losg-fynyddau yn y byd, 14 yn Ewrop—114 o'r holl rif ydynt yn y gwahanol ynysoedd, a 98 ar y cyfan-diroedd.

Daeargrynfâau hefyd a fuant yn beiriannau dychryn a dinystr i filoedd lawer o ddynion. Y mae y trychineb a achoswyd ganddynt yn ddychrynlyd tu hwnt i ddsgrifiad; a chymer le weithiau mewn moment. Yn y flwyddyn 1692, dinystrwyd dinas Port Royal yn Jamaica, mewn ysbaid dau funud gan ddaeargryn; suddodd yr adfeilion i agendor o ddeugain gwrhyd o ddyfnder! Dygwyddodd daeargryn yn Sicily yn 1693 yr hon a ddystrywiodd neu a fawr niweidiodd bedair ar ddeg a deugain o ddinasoedd, a nifer fawr iawn o

bentrefi ; llwyr ddystrywiwyd dinas Catania. Dywed Pliny i ddeuddeg o ddinasoedd yn Asia leiaf gael eu llyngcu mewn un noson. Yn y flwyddyn 115, llyngewyd dinas Antioch gan ddaeargryn. Yn mhen o ddeutu 300 mlynedd wedi hyny, dymchwelwyd hi yr ail waith, a cholodd 40,000 o'r trigolion eu bywydau. Ac wedi ysbaid byr o 60 mlynedd gwnaed hi yn garnedd y drydedd waith gyda cholled o ddim llai na 60,000 o fywydau. Yn 1755, dinystrwyd Lisbon, prif-ddinas Portugal, a cholodd 50,000 o ddynion eu hoedlau. Teimlid effeithiau y ddaeargryn ddychrynlyd hon, dros y rhan fwyaf o Ewrop ac Affrica ; ac hyd yn od yn nghanol Mor y Werydd, a chyfrifid ei bod yn cyrhaeddyd dros ystod pedair miliwn o filldroedd ysgwar ! Yn Awst 1822, dinystrwyd dwy ran o dair o ddinas Aleppo, yr hon a gynwysai 40,000 o dai, a 200,000 o drigolion, gan ddaeargryn, a chladdwyd agos 30,000 o'r preswylwyr dan yr adfeilion. Ystormydd o wyntoedd, mellt a tharanau hefyd, ydynt yn eu tro wedi bod yn ddinystri i fyrddiynau o fywydau.

Pa beth a ddywedwn ni wrth y pethau hyn ? Pa gasgliad a dynem oddiwrthynt ? Naill ai nad oes gan y Creawdwr unrhyw lywodraeth na gofal dros y pethau hyn, na all ddim oddiwrthynt, neu ei fod yn hollol ddiogol yn eu cylch ; nad yw yn prisio dim yn ninystr a thrueni ei creaduriaid, gan iddo adael cynnifer o gyflegrau dinystr yn eu cyrhaedd i'w dyfetha : neu ynte bod dynolryw wedi ei anfoddloni a'i ddigio drwy droseddu yn ei erbyn. Ni allwn ganiatau y tyb flaenaf, rhaid gan hyny i ni syrthio i'r olaf—ei fod yn ateb yn ei gyfiawnder trwy yr holl bethau ofnadwy hyn—eu bod oll yn cyd-gyhoeddi yr anfoddlonrwydd dwyfol, a'r euogrwydd dynol. 'Pechod ac anghyfiawnder dynion,' a barodd hyn oll : y cwbl ydynt i ddeffroi ac argyhoeddi dynion o'u heugrwydd moesol : i bregethu eu llygredigaeth a'u gwrthryfel mewn iaith groch yn eu clustiau ; i argraffu yr anfoddlonrwydd dwyfol yn erbyn eu troseddau mewn llythyrenau tanllyd ger bron eu llygaid. Pa fodd yr aeth dynion i'r sefyllfa hon, pa fodd neu pa bryd y daeth drwg moesol i'r byd, sydd fater na rydd holl oruchwyliaethau rhagluniaeth esponiad arno : ni theif chwydion tanllyd y llosg-fynyddau ddim go-

leuni arno. Tra yr ysgydwa y ddaeargryn wledydd cyfain dan draed eu preswylwyr, y pâr iddi agoryd ei safn a llyngu miloedd o'r golwg mewn mynodyn, gedy hwynt dan eu dwylaw am hyn. Tra dywed y gwynt, y mellt a'r taranau fod pechod yn y byd, ni ddywedant pa fodd y daeth, na pha fodd y glanheir ef o hono ac ei gwaredir oddiwrtho. Rhaid cael goleuni datguddiad arall i amlygu y pethau hyn, neu rhaid iddynt aros yn y tywyllwch byth.

PENNOD III.

YN DANGOS PA MOR BELL Y LLWYDDODD Y DOETHION CEN-
HEDLIG I GYNULL EGWYDDORION CREFYDD DRWY RYM
RHESWM A GOLEUNI NATUR—DYFYNIADAU O SOCRATES,
PLATO, ARISTOTLE, ANATAGORAS—EU DIFFYGIION—DYS-
GRIFIAD YR APOSTOL O HONYNT—SYLWIADAU.

WEDI gosod crynodeb o egwyddorion crefydd i'lawr yn y pennodau blaenorol, cynhygiwn yn bresenol arwain y darllynydd i fysg pen campwyr y byd Paganaid, i wrando ar eu doethineb, ac i weled pa mor lwyddiannus a fuont yn eu hymchwilion am y ffordd i ddedwyddwch, i gasglu egwyddorion crefydd, gwybodaeth am Dduw a dyledswydd, heb lusern y datguddiad ysgrythyrol yn eu dwylaw i'w cyfarwyddo.

Cydnabyddir Socrates, gan bawb yn mron, yn Dachmoniad y byd Paganaid: y teilyngaf a'r harddaf o blant natur: a'r hwn a fu fwyaf llwyddiannus i resymu allan egwyddorion crefydd yn gogleuni ei chanwyll hi.

Ganwyd Socrates yn Athen, yn y flwyddyn *O.B.* 3533, a 471 o flynyddau cyn Crist. Nid oedd ei rieni ond isel eu hamgylchiadau, ond yn y fath ddinas flodeuog mewn dysg a gwybodaeth ag ydoedd Athen, ni bu y cyfryw dalentau dysglær a'r eiddo Socrates yn hir cyn dyfod i sylw cyffredinol. Ymroddai y dyn hynod hwn i fod mor ddefnyddiol ag y gallai drwy addysgu yr ieuentid a phawb y caffai gyfleustra, yn egwyddorion rhinwedd a moesoldeb. Arferai ddull hollol wahanol i'w ragflaenoriaid i drosglwyddo ei addysgiadau. Yn hytrach na llefaru mewn iaith dywell a chyfrinol, yr hon na allai neb ond dynion o ddydg ei dirnad, dysgai ef ei egwyddorion mewn iaith eglur a seml, hawdd i'r gwanaf ei ddeall

a'i amgyffred ei dirnad. Cyfranai a thaenai ei addysgiadau yn mhob man ac ar bob achlysur; yn ei dy ei hun, yn nhai ei gyfeillion, ar yr heol, yn y fyddin, &c. Cymaint oedd serch yr Atheniaid ieuainc tu ag ato, fel yr edrychent arno fel eu tad; i.e., llawer a adawent dad a mam ac a llynent wrtho: a chyrchai llawer o bersonau o ddinasoedd a thaleithiau ereill i wrando ar ei ddoethineb ac i gael eu dysgu ganddo: mewn gair, yr oedd yn gyfryw un mewn gwybodaeth, tymeŷ, ac ymddygiad, ag y gallesid tybio ddarfod i natur gynull ei holl alluoedd a'i doniau yn nghyd, i wneuthur ei hymdrech olaf i gynhyrchu ei hoff blentyn hwn: ac os metha ef osod allan, a dysgu, a bod yn gynllun o berffaith burdeb moesol, ofer fydd dysgwyl am y cyfryw mwyach yn mhlith holl feibion a dysgyblion natur a doethineb!

Ystyrir yr ymddyddan ar ragluniaeth a gymerodd le rhyngddo ag Euthydemus fel y dernyn goreu o ysgrifeniadau yr henafiaid.

'A fuoch chwi erioed yn meddwl ynoch eich hun,' meddai Socrates, 'pa gymaint o ofal mae y duwiau yn gymeryd i gyfranu i ddyr yn hyn sydd angenrheidiol iddo?'

'Naddo, erioed, yr wyf yn addef i chwi!'—atebai Euthydemus.

'Chwi a welwch,' ebai yntau, 'pa mor angenrheidiol yw goleuni, a pha mor werthfawr y dylai y rhodd hon o eiddo y duwiau fod yn ein golwg.'

'Hebdo,' atebai Euthydemus, 'byddem oll fel deillion, a holl natur fel yn farw: ond o herwydd bod angen arnom am yspeidiau o orphwysiad, hwy a drefnasant y nos i ni hefyd er ei fwynhau.'

'Yr ydych yn eich lle,' ebai Socrates, 'ac am hyn y dylem gyflwyno iddynt fawl a diolchgarwch gwastadol. Hwy a ordeiniasant bod i'r haul, y seren ddysglaer a goleu acw, i lywodraethu y dydd, a dynodi ei wahanol ranau, a bod i'w oleuni wasanaethu nid yn unig i ddatguddio rhyfeddodau natur ond i wasgaru trwy bob rhan wres a bywyd; ac hefyd, trefnasant y lleuad a'r ser i oleuo y nos, yr hon nad yw ynddi ei hun ond corph tywyll. A oes un peth teilyngach o sylw a syndod na'r amrywiaeth a'r cylch-gyfnewidiad hwn o ddydd a nos, o dywyllwch a goleuni, o lafur a gorphwysiad; a hyn oll

er daioni a chyfleustra dyn?' Elai yn mlaen yn yr un dull, gan ddangos y manteision gwerthfawr oddiwrth y tân a'r dwfr, &c. a gofal manwl rhagluniaeth am bob peth a berthyn i ni.

'Pa beth meddych chwi,' dywedai ef, 'am ddychweliad yr haul i ail-ymweled a ni ar ol y gauaf? Ac fel y byddo ffrwythau un tymor yn gwywo ac yn pallu, efe a addfeda rai neyddion yn eu lle hwy; ac wedi gwneuthur y gwasanaeth hwn i ddyn, efe a gilia rhag iddo beri anghyfleustra i ni trwy ormod o wres; ac yna, wedi iddo encilio i fan nodedig, yr hwn na allai fyned tu hwnt iddo heb ein gosod mewn perygl o drengu gan oerfel, efe a ddychwel ar hyd yr un llwybr i gymeryd ei le yn y parthau hyny o'r ffurfafen ag y byddo ei bresenoldeb fwyaf buddiol a gwasanaethgar i ni: ac o herwydd na allem ni oddef yr oerni na'r gwres, pe buasem yn cael ein tafu o'r naill i'r llall yn ddisymwth—a ydych chwi ddim yn cael eich taro â syndod wrth fod y goleuad hwn yn agosau ac yn pellhau mor raddol ac arafaidd, fel ag y mae y ddau eithafiad yn dyfod mewn graddau agos anhysbys i ni? A ydyw yn bosibl peidio canfod yn y cyfansoddiad hwn o dymhorau y fwyddyn ragluniaeth a daioni yn gofalu, nid yn unig am ein hangenrheidiau, ond hyd yn nod am ein cysuron a'n mwynhad?'

'Yr holl bethau hyn,' ebai Euthydemus, 'a barant i mi ameu pa un a oes gan y duwiau unrhyw waith arall heblaw gwlawio i lawr eu rhoddion a'u cymwynasau ar ddynolryw: ond y mae un peth, pa fodd bynag, yn peri i mi betruso; sef, bod yr anifeiliaid mudion yn cyfranogi o'r bendithion hyn yn gystal a ninnau.'

Ydynt—ond a ddarfu i chwi ddim sylwi bod yr holl anifeiliaid hyn yn cael eu cynnal yn unig er gwasanaeth dyn? Efe a blyga y cryfaf a'r mwyaf anwaraidd o honynt yn ol ei ewyllys. Gwna hwynt yn ddofaidd a llywaith, ac a'u defnyddia er ei fawr fantais mewn rhyfel, i drin ei dir, ac achlysuron eraill bywyd. Oddiwrth hyn oll, y mae'n hawdd canfod bod duwiau yn bod, a bod dyn ganddynt dan eu gofal a'u sylw neullduol. A ydym ni yn gweled y daran, tra y mae yn dryllio pob peth a'i gwrthsafo? A ydym ni yn canfod y gwyntoedd, pan y maent yn gwneuthur y fath ddifrod alaethus

ger bron ein llygaid? Ein henaid ein hunain, yr hwn sydd mor gydnabyddus gysylltedig a ni, yr hwn a'n symuda ac a'n heffeithia—a ydyw yn weledig? Y mae yr un modd gyda golwg ar y duwiau, o'r rhai nid oes un yn weledig yn nghyfraniad eu rhoddion—Y DUW MAWR HWN EI HUN, yr hwn a luniai y bydysawd, ac y sydd yn cynnal y gwaith aruthrfawr i fynu, pob rhan o'r hwn sydd wedi ei orphen a'i berffeithio gyda'r dationi a'r cysondeb mwyaf: Efe, yr hwn a'u ceidw mewn bywyd a pharhad, ac a bâr i bob peth ufuddhau iddo gyda byth-ddi-ball fanylrwydd, a chyflymdra na all ein dychmyg ganlyn—y Duw hwn a wna ei hunan yn ddigon amlwg drwy y rhyfeddodau diddiwedd y rhai y mae efe yn eu gwneuthur, ond a erys yn wastad yn anweledig ei hunan. Na foed i ni gan hyny wrthod credu yr hyn na welwn; ond boed i ni gyflenwi diffygion ein llygaid corphorol drwy wneyd defnydd o eiddo yr enaid: ac yn neullduol bydded i ni ddysgu rhoddi y deyrnged gyfiawn o barch ac addoliad i'r Duwdod, ewyllys yr hwn fe ymddengys yw, na byddo i ni gael unrhyw olwg arall arno ond a gawn yn ngweinyddiad ei gymwynasau i ni. Yn awr, yr addoliad a'r parch yma sydd yn gynwysedig mewn rhyngu ei fodd ef; a thrwy wneuthur ei ewyllys ef yn unig y gallwn rhyngu ei fodd.'

Gallasai llai o lawer ateb y dyben mewn golwg yn y lle hwn; ond cyfieithais yr holl ymddyddan, fel y mae ar lawr gan yr hanesydd Rollin, o herwydd, hyd y gwn i, nad oes nemawr ddim o syniadau y dyn hynod dan sylw wedi ymddangos erioed yn Gymraeg. Oddiwrth yr ymadroddion uchod, y mae yn amlwg y cydnabyddai Socrates Un gwir, bywiol, a goruchaf Dduw: mai efe yw Creawdwr, Cynhaliwr, a Llywodraethwr mawr pob peth: bod ganddo sylw ar, a gofal am, yr oll a grëai; a bod dyn yn wrthrych neullduol ei ofal a'i gymwynasgarwch: ei fod yn Fod ysprydol ac anweledig, i'w adnabod yn unig drwy ei weithredoedd: a'i fod yn ymddangos ynddynt yn anfeidrol ddoeth a da: bod y *Duw mawr* hwn i'w addoli a'i wasanaethu: ein bod bob amser dan rwymau i'w foliannu a bod yn ddiolchgar iddo, a rhyngu ei fodd drwy wneuthur ei ewyllys ef.

Pwy a ddysgwyliasai gael y fath ymadroddion auraid allan o enau Pagan? Pa mor gywir a chyson y golygiadau! Y

gresyni yw bod cymaint o sawyr Paganiaeth ar yr ymadroddion rhagflaenol. Perlau ydynt ynmysg llwch a llaid. Sonia am y duwiau, wrth y rhai y golygai, tebygol, ryw oruchwylwyr neu is-weinyddion i'r *Duw mawr* yn eilywodraeth—rhai wedi eu gwneuthur ganddo yn gyd-gyfranogion o'i natur a'i deyrnas, ac felly yn wrthrychau addoliad.

Cyn gadael y dyn hynod hwn, detholwn rai o'i ymadroddion mewn perthynas i anfarwoldeb yr enaid a byd i ddyfod. Rhydd ei ddysgybl, Plato, yn y cynhadleddiad ardderchog a elwir '*Y Phædon*,' ddysgrifiad o oriau diweddaf Socrates, cyn iddo yfed y gwpanaid wenwyn, yn ol y ddedryd anghyfiawn a roddasid arno gan senedd Athen, fel ad-daliad am ei holl wasanaeth a'i rinweddau. Dedyrd a gondemnid ac a ffieiddid gan bob oes a chenedl wareiddiedig o hyny hyd heddyw. Testun yr ymddyddan oedd anfarwoldeb yr enaid, a byd i ddyfod.

'Pan gyrhaeddo y meirw,' meddai efe, 'at gynhullfan yr eneidiau ymadawedig, lle yr arweinia eu hangel hwynt, hwy a fernir oll. Y rhai hyny a dreuliasant fywydau ag nad oeddynt hollol halogedig, na chwbl ddiniwed, a anfonir i le yn yr hwn y dyoddefant boenau cyfartaledig i'w ffaeiddau, hyd nes eu purir ac eu glanheir oddiwrth eu heuogrwydd; ac yna, adferir hwy i ryddid, a derbyniant wobr y gweithredoedd da a wnaethant yn y corph. Y rhai hyny a fernir yn anfeddyginiaethol, ar gyfrif mawredd eu troseddau, y dynged drag'wyddol yr hon a rydd farn arnynt, a'u chwyrn yra i Tartarus, o'r hwn le ni chant byth ollyngdod. Y rhai hyny a geffir yn euog o droseddau mawrion yn wir, ond teiwlwng o faddeuant, y rhai a gyflawnasant weithredoedd o greu-londeb, dan gynhyrriad gwylltnawsedd tuag at dad neu fam, neu a laddasant ryw un yn y gyfryw dymher, ac a edifarhasant wedi hyny, a ddyoddefant y cyffelyb boenau i'r rhai o'r blaen, ond dros amser yn unig, hyd nes y llwyddont i gael pardyniad gan y rhai hyny a niweidiasant, drwy weddiau ac ymbiliau. Ond y rhai hyny a dreuliasant eu bywydau mewn neullduol sancteiddrwydd moesau, a dderbynir fry i wlad bur, lle y byddant byw heb eu cyrph mewn didranc lawenydd a phleserau annysgrifiadwy i drag'wyddoldeb.'

Oddiwrth y cyfryw ystyriaethau, terfynai Socrates, gan ddywedyd, 'Os ydyw yr enaid yn anfarwol, dylai gael ei ddiwyllio gyda phob gofal, nid yn unig er mwyn yr hyn a alwn ni yn dymor bywyd, ond hefyd er mwyn yr hyn sydd i ganlyn, trag'wyddoldeb wyf yn feddwl; a'r diofalwch lleiaf yn yr achos hwn a all achlysuero canlyniadau diddiwedd. Pe byddai angeu yn hollol derfyniad ar fodoliaeth, byddai y rhai drygionus yn ennillwyr mawrion drwyddo, trwy gael eu gwaredu ar unwaith oddiwrth eu cyrph, eu heneidiau, a'u beiau; ond, fel ag y mae yr enaid yn anfarwol, nid oes ganddo unrhyw foddion ereill i ymryddhau oddiwrth ei ddrygau, nag un math o ddyogelwch, ond trwy ddyfod yn dda ac yn ddoeth: oblegid nid yw yn dwyn dim gydag ef o'r byd, ond ei weithredoedd da neu ddrwg, ei rinweddau a'i feiau—y rhai yn gyffredin ydynt ganlyniadau yr addysgiadau a gafodd, ac ydynt achosion dedwyddwch neu drueni trag'wyddol.'

'Wedi llefaru yn y modd uchod wrth ei gyfeillion,' medd yr hanes, 'cadwai yn ddystaw am beth amser, ac yna yfai i fynu y gwpanaid farwol, a roddasid yn ei law gyda rhyfeddol dawelwch meddwl, a sirioldeb edrychiad annysgrifiadwy, fel un a fuasai ar newid bywyd byr a thruenus am sefyllfa fendigedig a thrag'wyddol.'

Fel hyn y machludodd haul y byd Paganaid; y doethaf a'r goreu o holl athronyddion y cenhedloedd.

Mewn atebiad i'r rhai a wadent neu a amheuent yr athrawiaeth o anfarwoldeb yr enaid, a gwobr a chosp mewn byd i ddyfod, dywedai, 'O ddau beth a fyddont yn ymddangos yr un mor ansicr a'u gilydd, ein doethineb ydyw dewis yr un mwyaf manteisiol a lleiaf ei berygl. Yna, os bydd i'r hyn a draddodais i ar anfarwoldeb yr enaid droi allan yn wirionedd, da yw ei gredu ef; ac os wedi angeu y try yn siomedig, caf, er hyny y fantais hon oddiwrtho yn y bywyd hwn, sef bod yn llai teimladwy o'r drygau cysylltedig a'r bywyd dynol. Os ydyw yr hyn a ddywedais yn wir, yr wyf yn enill llawer, tra nad wyf yn colli dim; ac os ffugiol, nid wyf yn colli dim, ond yr wyf fyth yn enillwr.'

Y cyfryw oeddynt yr egwyddorion a ddysgai Socrates; ond rhaid addef mai pigion o'i oreuon ydynt, bod pethau ereill mwy tywyll a phruddaidd i'w cael yn eu plith, y rhai

dynt fel 'gwybed meirw, yn gwneyd i enaint yr apothecari ddrewi;' a'r rhai y mae cyfiawnder yn gofyn i ni wneuthur sylw o honynt eto wrth fyned yn mlaen.

Un o'r rhai penaf yn mysg dysgyblion Socrates oedd Plato. Ysgrifennodd ef lawer iawn o lyfrau ar wahanol bethau; ond ni lefara mor eglur a syml a Socrates; a chydnebydd ei hoffwyr penaf, ac efè ei hun hefyd, yn wir, bod yn anhawdd iawn i neb ddeall ei feddwl mewn llawer o fanau, ac mai dynion dysgedig yn unig a allent wneuthur unrhyw ddefnydd o'i waith. Dywed weithiau yn lled eglur am 'Un Gwir a Goruchaf Dduw,' yr hwn a eilw yn 'Wneuthurwr a Thad y bydsawd;' a dysgrifia ef mewn amryw ranau o'i waith & chyfenwan goruchel, megis, 'Y Duw sydd uwchlaw pawb—Adeiladydd a Chynlluniwr natur—Yr Achos o bob peth—Y Bod,' mewn ffordd o ragoriaeth—'Y daioni penaf.' Gyda golwg ar gyflwyno addoliad i'r hwn a ddarluniai fel hyn mor ardderchog, nid oedd Plato mor gyson a goleu a'i athraw. Haerai ef, 'Nad oes gan y Duw hwn ddim a wnelo âg achosion a llywodraeth y byd; ei fod yn gadael hyny i'r îs-dduwiau; ac mai hwyntwy ydyw gwrthrychau addoliad. Ei fod ef, yr hwn sydd Yspryd pur, digymysg, ac anweledig, yn rhy fawr a gogoneddus i dderbyn addoliad a gwasanaeth gan ddyinion—na all creaduriaid preswylledig mewn cnawd gyflwyno unrhyw addoliad a gwasanaeth a fyddai briodol i'r cyfryw Fod. Na allant ymddyddan, nag hyd yn od meddwl amdano—a bod yn beryglus son am dano wrth y werin yn gyffredinol; ac mai gwell oedd eu hanog hwy i addoli duwiau arferedig eu gwlad.'

Dysgai Plato, fel Socrates, yr athrawiaeth o anfarwoldeb yr enaid, a gwobr a chosp mewn byd i ddyfod.

Yn ei lyfr a elwir '*Theactetus*,' wedi sylwi y dylem ymdrechu am fod mor debyg i Dduw ag y mae yn bosibl, a bod y tebygolrwydd yma i Dduw yn grynwsydedig mewn bod yn gyfiawn a sanctaidd; ac mai yr hwn sydd gyfiawnaf yn mysg dynion yw y tebycaf i Dduw, efe a chwanega, 'Os dywedwn gyda golwg ar ddyinion drwg, os na ryddheir hwy oddiwrth eu llygredigaethau yn y byd hwn, na dderbyn y lle hwnw ag sydd yn bur oddiwrth ddrygioni mohonynt pan fyddont feirw

ac y dygant gyda hwy gyffelybrwydd eu bywydau a'u moesau blaenorol; ac y gyrrir hwy i gymdeithas rhai drygionus fel hwy eu hunain—y dichellgar a'r maleisus pan glywant y pethau hyn, a'u trinant fel pen-wendid dynion gorphwyllog.' Gellir ychwanegu at hyn yr hyn a ddywed mewn lle arall, 'Y bydd, yn ol gwahanol ragoriaethau a gweithrediadau eneidiau dynion, wahanol drigfanau yn cael eu pennodi iddynt, ac yr ânt drwy amrywiol gyfnewidiadau, yn ol cyfraith a rheol tynged. Na bydd i'r rhai hyny na buasant yn euog ond o bechodau bychain, suddo mor isel, ond y crwydrent o amgylch yn agos i wyneb bro trueni: ond hwyntwy a bechasant yn fynychach a mwy ysgeler, a suddant i'r dyfnder, ac i'r lleoedd iselion hyny a elwir Hades, ac enwau ereill o'r cyffelyb, y rhai y mae ar y byw, a'r rhai a ymadawsent o'r corph ofn meddwl am danynt.' Ac wedi rhai pethau ereill i'r un pwrpas, efe a chwanega, 'Hyn, o ddyn ieuanc, yr hwn a feddyli nad ydyw y duwiau yn cymeryd un sylw o honot, hyn ydyw barn y duwiau a breswylant yn y nefoedd, bod iddo ef, ag sydd ddrygionus, fyned at eneidiau y drygionus; ac efe, yr hwn sydd ddaionus, fyned at eneidiau y daionus yn y bywyd hwn, ac yn angeu. Yna, na ddysgwyl di, na neb arall, fod mor ffodus a dianc rhag y farn hon o eiddo y duwiau; oblegid ni chei byth dy anghofio, neu dy basio heibio yn ddisylw: pe medrit guddio dy hun yn iselder dyfnaf y ddaear, pe cymerit dy hedfan mor uchel a'r nefoedd, cei ddyoddef dy gospedigaeth briodol, naill ai tra yn aros yma yn y corph, neu pan elych i Hades, neu pan y'th alltudier i ryw le mwy anwaraidd ac arswydus.'

Anaxagoras, meddir, oedd y cyntaf o'r athronyddion Groegaidd a ddysgai mai Yspryd anfeidrol yw Duw, hollol bur a digymysg, digysylltiad â mater neu ddefnydd; am yr hyn yr alltudiwyd ef o Athen. Darluniai Anaxagoras y Duwdod fel yr unig 'Fod syml, pur, a digymysg;' ond ni ymddengys ddarfod iddo gynyg yr egwyddor ardderchog hon i un dyben ymarferol trwy ddysgu gwersi moesol oddiwrthi er cyfarwyddo ei ddysgyblion yn eu dyledswyddau tuag at y Bod Goruchel a ddarluniai fel hyn, ac am hyny y mae Socrates yn ei ddwys feio.

Aristotl ydoedd ddysgybl Plato; ac ystyrir ef y rhagoraf oll o'r doethion Paganaidd mewn rhai pethau, eto yn ddi-flygiol i rai o honynt mewn pethau ereill. Y mae yn beio y rhai hyny a briodolent gyntefigrwydd bodolaeth i ddamweiniad neu ddygwyddiad; ac addefai Un trag'wyddol Ysgogydd cyntaf, yr hwn a eilw efe 'Y Duw Goruchaf.' Efe a'i cyfenwa, 'Y Trag'wyddol, Anranadwy, Anghyfnewidiol, hebgorph, heb ranau,' &c. Ond wedi hyny y mae yn myned yn dra chymysglyd, ac yn gwneuthur yr haul, y lleuad, a'r ser, yn dduwiau. Ymddengys y gwadai anfarwoldeb yr enaid, a gwobr a chosp mewn byd i ddyfod; neu o leiaf, llefarai yn dra amheüus am danynt.

Heb luosogi rhagor o dystion a thystiolaethau o'r natur yma, caiff yr hyn a gofnodwyd yn barod wasanaethu ein hamcan yn y lle hwn i osod ger bron y darllenydd fyr grynodedb o'r egwyddorion a ddysgai rhai o oreuon y byd Paganaidd, heb gynhorthwy yr Ysgrythyrau i'w cyfarwyddo, o leiaf nid oeddynt hwy yn profesu gwybod dim am yr ysgrythyrau Hebraidd. Y mae yn wir yn fater dadl yn mhlith dysgedigion, pa un a'i rhesymu yr egwyddorion hyn allan yn ngoleuni natur a wnaethant, ai ynte gweddillion hen draddodiadau gwir grefydd er amser Noa oeddynt; neu ynte a gawsai yr athronyddion hyn, ac ereill o'u cyffelyb, gyfle i weled ysgrythyrau yr Hen Destament, a chael yr egwyddorion oddi-yno, gan eu cydblethu a'u dych'mygion eu hunain. Y mae y dysgedig Dr. Sykes yn cymeryd trafferth fawr i geisio profiad oeddynt yn gwybod dim am yr ysgrythyrau, nag wedi cael un cynhorthwy oddiwrthynt i ffurfio yr egwyddorion a ddysgasant. Y mae ereill yn ameu hyn yn fawr, ond os cawsant ryw radd o gydnabyddiaeth a'r ysgrythyrau, ac os oddiar ryw wybodaeth o honynt y dysgasant yr hyn a lefarent am Un Duw Goruchaf, ymddengys bod hyny yn berffaith gyson â datguddiad natur yn eu golwg, oblegid yn ddiameu mai anian oedd eu Bibl profsedig hwy. Ymddengys pa fodd bynag na theithiodd Socrates, y prif athraw, erioed allan o derfynau tir Groeg i ymofyn am wybodaeth o egwyddorion cenedloedd ereill; ond am Plato, ymddengys iddo ymdeithio trwy Palestina, Syria, a'r Aipht, i gasglu hufen gwybodaethau, ac i ddysgu traddodiadau ac egwyddorion yr amrywiol

wledydd a chenhedlaethau hyny, a digon tebygol ydyw ddarfod iddo gael cyfleusterau i ymddyddan a rhai Iuddewon ag oeddynt yn lliosog yn y gwledydd hyny, ac yn tynu sylw cyffredinol o herwydd eu defodau a'u harferion crefyddol, gwa-hanol i bob cenedl arall; a darfod iddo wneuthur ei hun yn hysbys o'u hegwyddorion crefyddol, er nad yw yn gwneyd un crybwylliad pennodol am hyny.

Ond wedi y cwbl, amlwg yw bod y goreuon o honynt yn dra diffygiol yn eu hegwyddorion a'u harferion; tywyll a chymysglyd oedd eu golygiadau. Yr oeddynt yn asio celwyddau ac yn cydblethu dychymygion ofer gyda dysgëidiaeth: meddygon dyddim oeddynt; wrth gynyg arwain y byd o dywyllwch, yn ei gau mewn tywyllwch, ac yn ei adael yn nghysgod angeu fel o'r blaen. Ni wnaeth yr un o honynt briodol ddefnydd o hyny o wirionedd a ddysgasant eu hunain, ac ni roddasant eu dysgyblion ar y ffordd i hyny chwaith. Dygent rhai gwirioneddau pwysig megis i'r golwg, ond ymddygent fel rhai heb wybod pa beth i wneyd a hwy. Crybwyllasom am Plato, yr hwn er ei fod yn addef Un Gwir a Goruchaf Dduw, a wadaid ei fod yn wrthrych addoliad, ac a anogai y bobl i gydymffurfio a chrefydd a defodau y wlad, ac addoli y duwiau a osodid i fynu gan y llywodraeth, ac felly y gwnel-ai ef ei hun. Socrates, er ei fod yn dysgu bod Un Duw mawr, ac y dylid ei addoli, &c. a addolai y duwiau er hyny; ac a orch'mynai cyn marw i'w gyfaill aberthu ceiliog drosto, yr hwn a addunedasai i dduw dychymybol. Tra y rhoddent rai moes-wersi rhagorol, gan eu cymhell a'r rhesymau grymusaf ar y bobl; caniaent a dadleuent hefyd dros gyflawniad rhai o'r drygau gwaethaf a ffeiddiaf, a chydgyfranogent eu hunain yn y cyflawniad o honynt. Diameu mai atynt hwy y cyfeiria yr apostol pan y dywed, 'O herwydd yr hyn a ellir ei wybod am Dduw, sydd eglur ynddynt hwy, canys Duw a'u heglurodd iddynt; Canys ei anweledig bethau ef er creadigaeth y byd, wrth eu hystyried yn y pethau a wnaed, a welir yn amlwg, sef ei dragywyddol allu ef a'i Dduwdod hyd onid ydynt yn ddiesgus.

'Oblegid a hwy yn adnabod Duw, ni's gogoneddasant ef megys Duw, ac na buant ddiolchgar iddo; eithr ofer fuant yn eu rhesymau, a'u calon anneallus hwy a dwyllwyd. Pan

dybient eu bod yn ddoethion, hwy a aethant yn ffyliaid; ac a newidiasant ogoniant yr anllygredig Dduw, i gyffelybiaeth llun dyn llygredig, ac ehediaid, ac anifeiliaid pedwar carnol, ac ymlusgiaid. O ba herwydd, Duw a'u rhoddes hwynt i fynu yn nhrachwantau eu calonau i aflendid, i anmherchi eu cyrph eu hunain yn eu plith eu hunain: y rhai a newidiasant wirionedd Duw am gelwydd, ac a addolasant ac a wasanaethasant y creadur yn fwy na'r Creawdwr, yr hwn sydd fendigedig yn oes oesoedd, Amen. Oblegid hyn y rhoddes Duw hwynt i fynu i wyniau gwarthus; canys eu gwragedd hwy a newidiasant yr arfer anianol, i'r hon sydd yn erbyn anian; ac yn gyffelyb y gwyr hefyd, gan adael yr arfer naturiol o'r wraig, a ymlosgent yn eu hawydd i'w gilydd: y gwyr yn nghyd a gwyr yn gwneuthur brynti; ac yn derbyn ynddynt eu hunain y cyfryw dal am eu cyfeiliorni ag ydoedd raid. Ac megis nad oedd gymeradwy ganddynt gadw Duw yn eu gwybodaeth, Duw a'u rhoddes i fynu i feddyliau anghymeradwy, i wneuthur pethau nid oedd weddaidd. Wedi eu llenwi a phobanghyfiawnder, godineb, arwiredd, cybydd-dod, drygioni; yn llawn cenfigen, llofruddiaeth, cynnen, twyll, drwg-anwydau; yn hustyngwyr, yn athrodwyr, yn gas ganddynt Dduw, yn drahaus, yn feilchion, yn ffrestwyr, yn ddychymygwyr drygioni, yn anufudd i rieni, yn anneallus, yn dorwyr ammod, yn angharedig, yn anghymodlawn, yn annhrugarogion: y rhai yn gwybod cyfiawnder Duw, (fod y rhai sydd yn gwneuthur y cyfryw bethau yn haeddu marwolaeth) ydynt nid yn unig yn gwneuthur y pethau hyn, eithr hefyd yn cydymfoddloni a'r rhai sydd yn eu gwneuthur hwynt.'†

Wrth adael y byd Paganaid, nis gallwn lai nag ychwanegu, bod yn ofidus gorfod cefnu arno yn y fath sefyllfa, o dan y fath nodwedd! Y mae pob gobaithe am dano wedi gwywo, a'r olwg arno yn alaethus a gresynol! Wrth ei ddarlunio, bu raid i'r apostol drochi ei bwyntel yn holl ffosydd budron trueni pechod, i gael cyfliwiau priodol i dynu darlun teg o'i nodweddau. Hacrach, ond ar yr un pryd, cywirach darlun ni allesid ei dynu. Edrychwch arno, y mae drygioni a llygredigaeth yn mhob ffurf a dull ag y gallasai dori allan

† Rhuf. i. 19—32.

ac ymweithio, i'w canfod ynddo. Y mae yn gyd-gasgliad o bob peth sydd adgas, gwrthun, erchyll, a ffaidd. Gallwn weled ynddo lygredigaeth y galon ddynol wedi tyfu i'w lawn nerth—y trefniant o bechod a gwrthryfel yn erbyn Duw wedi ei weithio i'r perffeithrwydd uchaf. Rhaid i ni gofio hefyd, mai nid y werin anwybodus yn unig a olygir yma, ond eu doethion a'u dysgawdwyr yn gystal a hwythau; ac ni cheir cymaint ag un o honynt nad yw yn dyfod dan y naill neu y llall o'r llinellau yn y darlun. Rhaid i ni bellach gymeryd ein cenad ymadawol, gyda gobaith siomedig a chalon drom, gan ddywedyd, 'NID ADNABU Y BYD TRWY DDOETHINEB MO DDUW.' Dylem gofio mai at y Groegiaid a'r Rhufeiniaid doethion a dysgedig y cyfeiriai yr apostol, y rhai a wnaent fôst fawr o'u doethineb a'u rhinwedd. Ac och! Os ydoedd ffynhonau doethineb, dysgeidiaeth, a chrefydd y byd fel hyn, pa obaith sydd bellach i gyfarfod a gwreichionen byth o'i fewn.

PENNOD IV.

ANGEN Y BYD AM DDATGUDDIAD GORUWCH-NATURIOL O DDUW A' CHREFYDD, O HERWYDD EI SEFYLLFA DDYRYWIEDIG—NA CHYNYGIODD Y DOETHION PAGANAIDD ERIOED DDYCHWELYD Y BYD ODDIWRTH EULUN-ADDOLIAETH—PAUL, Y CYNTAF A BREGETHODD YN ERBYN EULUNOD YN ATHEN—ADDEFIADAU RHAI O'R DOETHION O'R ANGEN AM DDYSGAWDWR ODDIWRTH DDUW I DDYSGU EI EWYLLYS I DDYNION—Y DRYSWCH A'R PETRUSDER A AMLYGAI Y DYSGAWDWYR CENHEDLIG MEWN PERTHYNAS I ANFARWOLDEB YR ENAID—GWOBR A CHOSP MEWN BYD ARALL YN AMLYGIAD PELLACH O ANGEN Y BYD AM Y CYFRYW DDATGUDDIAD—GOLEUNI NATUR, PE CAWSAI EI IAWN DDEALL A'I DDEFNYDDIO, YN ANNIGONOL I ARWAIN BYD EUOG YN OL AT DDUW.

Y DDRYCH arswydus a welsom ar y byd, yn y fras olwg a gymerasom arno, sydd yn ddigon i'n hargyhoeddi fod ei gyflwr yn anfeddyginiaethol a hollol anobeithiol o'i ran ei hun. Os gwaredir ef o'i drueni, rhaid i'r 'esmythder a'r ymwar-ed godi o le arall.' Cafodd ddigon o amser i ddangos pa beth a allasai wneuthur. Cafodd 'yr holl genhedloedd eu goddef am oesoedd i fyned yn eu ffyrdd eu hunain.' Ac i ba le yr aethant? Pa fath oedd eu ffyrdd? 'Distryw ac aflwydd oedd arnynt; ffordd heddwach nid adnabuant; nid oedd uniondeb yn eu llwybrau; ofer fuant yn eu rhesymau.' Edrychwch ar y byd Paganaid, dros yspaid pedair mil a rhagor o flynyddau, cyn i oleuni crefydd ddatguddiedig drywynu arno, a gwelwch ef yn gorwedd mewn drygioni: ei 'anwireddau a'i bechodau arno, ac yntau yn dihoeni ynddynt,' yn suddo ddyfnach ddyfnach mewn llygredigaeth; ac yn

ymwthio bellach bellach i dywyllwch; a 'pha wedd y bydd efe byw? Pa le y mae'r doeth? Pa le y mae'r ysgrifenydd? Pa le y mae ymholydd y byd hwn?' Deuant yn awr, a safant uwch ben y byd, cymerant olwg fanwl ar ei agwedd a'i gyflwr moesol, gwelant ef yn gorwedd yn ei waed, tosturiant wrtho; atebant y gofyniad, A fydd byw y byd? A ellir ei iachau o'i bla—ei lanhau oddiwrth ei afendid? Ond, wedi treigliad miloedd o flynyddau, pa le y mae y doeth? Pa le y mae ei ol ar y byd? Pa le y mae y wlad, y ddinas, neu y person a feddyginiaethwyd ganddo? 'Meddygon diddim!' 'Treuliodd philosophyddiaeth ei nerth, ac ymegniodd ei heithaf,' medd Mr. Locke, 'a methodd wneuthur dim.'

Er fod goleuni natur yn llewyrchu ar bawb yn gyffredinol, ei thafodau yn llefaru wrth bawb yn mhob man, ac nad oes 'iaith nac ymadrodd lle ni chlybuwyd ei lleferydd;' er i'w 'llinyr fyned trwy yr holl ddaear, a'i geiriau hyd eithaf-oedd y byd,' eto y mae ei datguddiad a'i gweinidogaeth yn hollol aneffeithiol ac analluog i arwain byd dyrywiedig yn ol at Dduw, at ei ddyledswydd, ac i ddedwyddwch. Y mae cyflwr y byd allan o gyrhaedd ei braich—ei dywyllwch yn gyfryw ag nad all goleuni ei haul hi ei ymlid ymaith: a'i bla yn gyfryw ag nad oes ganddi un Gilead, a thriagl, a physygwr a ddichon ei wella. I ddyn, fel creadur perffaith a dilwgr, buasai datguddiad natur yn gyflawn a digonol fel ei gyfarwyddwr at ac am Dduw, gyda y datguddiad hwnw o'i ewylllys a roddasai y Creawdwr i'r dyn cyntaf mewn perthynas i reol a phrawf ei ufudd-dod. Ond, wedi ei ymadawiad a Duw, llygredigaeth dynoliaeth drwy bechod; wedi i 'farwol-aeth fyned ar bob dyn yn gymaint a phechu o bawb,' i ymddyeithriad cyffredinol 'oddiwrth fuchedd Dduw trwy yr anwybodaeth sydd ynddynt' gymeryd lle, ni ddaw, ac ni all y byd gael ei ffordd yn ol at Dduw byth trwy gymhorth rheswm yn ngoleuni natur a rhagluniaeth. Y mae hanesyddiaeth pedair mil o flynyddau yn brawf o hyn. 'Y mae yn beth hawdd,' medd Dr. Leland, 'llefaru mewn iaith ffrostus am ddigonolrwydd goleuni natur a rheswm i arwain dynion, yn awr, wedi iddynt gael eu coethi a'u cynnorthwyo gan y goleuni a defir arnynt drwy y datguddiad Crist'nogol. Dynion a addysgwyd dan yr efengyl, a'r rhai y mae ganddynt

rydd fwynhad o'r datguddiedigaethau a wneir yno, a allant ddylyn a defnyddio y manteision hyn, ac yna ymfrostio o'r pethau mawrion a allant hwy wneuthur drwy nerth eu rheswm a'u craffineb eu hunain. Ond, y ffordd briodol i adnabod gwir werth rheswm naturiol, a pha beth a ellir ei ddysgwyl oddiwrtho pan adawer ef iddo ei hun, yn sefyllfa bresenol dynolryw, ydyw, ystyried yr hyn a wnaed gyda golwg ar grefydd o dan gyfarwyddyd ac arweiniad rheswm dynol yn unig, yn y cenedloedd a'r oesoedd hyny a'i diwyllient yn fanol a gofalus, a phan yr oedd dysgeidiaeth a'r celfyddydau yn eu rhwysg a'u gogoniant uchaf. Dangosai goegfalchedd mawr ynom ni i dybio bod genym gryfach meddyliau, mwy o graffder ac o nerth rheswm, na'r enwogion uchel-wychion hyny a suant yn wrthrychau o syndod a chlod yr holl oesau dyllynol iddynt. Gan eu bod hwy, gan hyny, gyda'u holl ddysgeidiaeth a'u galluoedd cryfion, yn gymaint ar goll mewn tywyllwch ac anwybodaeth gyda golwg ar y pethau a berthynent i wasanaeth ac addoliad yr unig wir Dduw, mewn gwrthwynebiad i bob eulun-addoliaeth ac aml-dduwiaeth, y mae sail gyfiawn i farnu, pe buasem ninau wedi ein gadael i ni cin hunain, a phe na chawsem y fantais o fwynhau y datguddiad dwyfol, y buasem fyth yn crwydro yn anialwch cyfeiliornadau, gyda golwg ar y pethau mwyaf eu pwys a'u canlyniadau.'

Y mae yn wir, fel y sylwyd yn barod, bod natur yn dysgu bod Duw, a bod ei 'drag'wyddol allu ef a'i Dduwdod, wrth eu hystyried yn y pethau a wnaed, i'w gweled yn amlwg, hyd onid ydynt yn ddiesgus.' Y mae yn wir hefyd ei bod yn dysgu mai un Duw sydd, a bod helyntion ac amgylchiadau y byd hwn yn uchel gyhoeddi ei lygredigaeth a'i ddyrywiad; ond pwy erioed a resymodd y ffeithiau mawrion hyn allan, ac a'u dysgodd yn eu symledd a'u dylanwadau priodol drwy nerth rheswm dynol yn unig, heb gynhorthwy y datguddiad efengylaidd? Neb! Yr unig rai y gellir disgwyl y cyfryw beth oddiwrthynt oedd y doethion Groegaidd a Rhufeinaidd. Ni ellir cymaint a gobeithio y byddai i'r offeiriaid, dysgawd-wyr crefyddol proffesedig y cenedloedd hyny, wneuthur un ymgais at arwain y bobl oddiwrth eu heulunod a'u haml-dduwiaeth at un gwir a bywiol Dduw. Yr oeddynt yn cael

eu cynhaliaeth, eu helw, eu hawdurdod, a'u hanrhydedd, a phob peth ag oedd anwyl a gwerthfawr yn eu golwg, oddfwrth demlau, allorau, a gwasanaeth yr eulunod. Byddent hwy yn fwy selog a gwresog dros eulunod ac eulun-addoliaeth na neb. Y llywodraethwyr gwladol a'r deddf-roddwyr a gydblethent eulun-addoliaeth a'u ffurfiywodraethau a'u deddfau gwladol. Yr oedd eulun-addoliaeth yn sefydledig trwy gyfraith yn mhob gwlad a dinas: a gwelsom o'r blaen bod y goreuon o'u doethion hwythau yn cefnogi ac yn cymhell eulun-addoliaeth, ac yn eulun-addolwyr eu hunain. 'Gan hyny, o ba le y daw doethineb, a pha le y mae trigle deall?' Pwy a ddysg wir ddoethineb a gwybodaeth i fyd wedi anmhwyllo ac ynfydu gydag 'athrawiaeth oferedd cyff?' Y mae brenhinoedd a llywodraethwyr gwladol, deddf-wneuthurwyr, offeiriad, a dysgawdwyr crefyddol; y doethion eu hunain, ysgolheigion goreu natur a rheswm, yn cyd-ateb, gan ddywedyd, 'Nid ydyw gyda nyini—ni cheir hi yn nhîr y rhai byw—hi a guddied oddiwrth lygaid pob dyn byw. Duw sydd yn deall ei ffordd hi, ac efe a edwyn ei lle hi; efe a'i parotodd hi.' A rhaid iddo ef ei 'mynegi a'i chwilio allan' hefyd, a dywedyd wrth ddyn, a'i chyfleu ger ei fron mewn ffordd a dull goruwch-naturiol, neu bydd yn y tywyllwch yn drag'wyddol am dani.

Nid mor briodol ydyw dywedyd ar y cyfan ddarfod i'r doethion *fethu* diwygio a dychwelyd y byd: y gwir yw, na ddarfu i un o honynt erioed *gynyg* gwneyd hyny. Ni phregethodd un o ddoethion Athen erioed, yr hon ydoedd gardd flodeu natur a dysgeidiaeth, ar i bobl y ddinas hono 'droi oddiwrth y pethau gweigion yma at Dduw byw,' cyn i Paul, apostol Iesu Grist, fyned yno. Ni chynhyrfodd yspryd yr un o honynt o'i fewn, 'wrth weled y ddinas wedi ymroi i eulunod.' Pen campwr Crist'nogaeth oedd y cyntaf erioed a feddai ar ddigon o wrolfrydedd i wneyd rhuthr-ymgyrch cyhoeddus ar ddelwau a delw-addoliaeth o fewn muriau Areopagus! Efe oedd y cyntaf a gyhoeddai ryfel yn erbyn eulunod ar hëol marchnad Athen. Y goreuon o'r doethion a gydymfoddlonent a'r rhai oedd yn gwneuthur ac yn addoli eulunod. Y dysgedig Dr. Sykes, yr hwn a lefarai yn rhy

uchel o bosibl weithiau am alluoedd rheswm, ac a ddangosai ormod o bleidgarwch i'r doethion Paganaid, a wna y sylwadau canlynol ar yr angenrheidrwydd am ddatguddiad dwyfol.

'Drwy bentyrn llawer iawn o bethau gwrthun ac ynfyd, ac o herwydd yr eulun-addoliaeth dirfawr a sefydlasant yn mhob man, a'r cyflawnder o ffug ehwedlau a gymysgasenta'r gwirionedd; y celwyddau anfert a goffeidiasant; ac hefyd, o blegid y perygl a dynai pob dyn da arno ei hun, os meiddiai geisio dangos iddynt y gwirionedd pur; yr oedd mawr angen am ddiwygiad, a galw dynion yn ol at wir rëol buchedd. Pa fodd i symud ymaith y llwythi o falurion a daflesid o radd i radd ar y gwirionedd nes ei lwyr gladdu, oedd fwy nag a allai y marwol-ddyn doethaf ddywedyd, nag a feiddiai gymeryd arno i'w wneyd. Yr oedd pob rhigol drwy yr hwn y gallai y gwirionedd ddyfod i mewn wedi ei gauad i fynu; a hyn a wnaeth hyd yn od i Socrates ddatgan ei fod yn barnu mai gwell oedd bod yn llonydd, a dysgwyl, nes y deuai rhyw un a symudai y tywyllwch, oedd yn dallu llygaid dynion, drwy ddysgeidiaeth ac awdurdod dwyfol.' A dywedasai yr un awdwr o'r blaen, y 'buasai raid i gyfeiliornad a thrueni y byd ffyna am byth, pe na chawsid allan ffordd i ledaenu y gwirionedd. er gwaethaf holl alluoedd, awdurdod, a dylanwad dynion y byd hwn.'

Er mor uchel y moddyliai yr athronyddion cenedlig am danynt eu hunain a'u doethineb, addefai aml un o honynt yr anhawsdra a'r anmhosiablwydd o gael allan i eglurdeb bodd-âol y pethau perthynol i Dduw a chrefydd; ac y buasai yn ddymunol iawn cael datguddiad dwyfol ac amlwg o'r pethau hyn. Y dyfyniad uchod a ddengys y gobeithiai Socrates y buasai i ryw ddysgawdwr oddiwrth Dduw i ddyfod i'r byd, i oleuo ei dywyllwch a symud ei amheuo a'i gyfeiliornadau ryw bryd: ac wrth hyn yr oedd yn addef diffyg ei ddysgeidiaeth a'i egwyddorion ei hun. Gwna Plato, ag amryw ereill o honynt, addefiadau cyffelyb. Addefa Arglwydd Bolingbroke bod Plato, mewn llawer o fanau o'i waith, yn tybied bod datguddiad dwyfol yn angenrheidiol, er y myn ef nad oedd opiniynau Socrates, Plato, ac ereill, yn un prawf o hyn. Y mae genym fel hyn addefiadau pen campwyr doeth-

ineb y byd hwn o'r angenrheidrwydd am ddatguddiad pellach o ewyllys Duw nag a allasai rheswm dynol dynu a chasglu allan am dano yn ngoleuni natur.

DOSP. II.

YMDDENGYS mawr angen y byd am ddatguddiad uniongyrchol o feddwl ac ewyllys Duw yn wyneb yr ystyriaeth o'r petrusder a'r amheuaeth ag yr oedd ynddynt, mewn perthynas i'r pethau mwyaf eu pwys iddo gael gwybodaeth eglur a sicr o honynt. Dysgai y doethion amryw wirioneddau pwysig, ac ymddangosent ar yr un pryd yn dra amheus eu hunain gyda golwg arnynt. Weithiau, llefarai rhai o honynt gyda chryn eglurder a hyder am anfarwoldeb yr enaid, gwobr a chosb mewn byd i ddyfod—bryd arall, ymddangosent fel yn amheus o honynt. Rhai o honynt a hōnent nad oedd y tybiau hyn ond breuddwydion disail—traddodiadau ofer—eu bod yn unig yn ddefnyddiol i'w dysgu i'r bobl mewn trefn i gadw ofn arnynt rhag cyflawni drygau anferth; a'u bod yn wasanaethgar i'r llywodraeth wladol, er cynhorthwy i gadw iawn drefn yn mhllith y deiliaid. Yr oeddynt 'fel deillion yn palfalu a'r pared!'—pan gynhygient edrych tu hwnt i gyffiniau y bywyd hwn; pan geisient gyfarchwilio glyn cysgod angau, diffoddai eu canwyll 'yn y tywyllwch du.' Rhaid y teimla pob meddwl ystyriol y byddai cael tystiolaeth eglur a ddiymod am y pethau hyn o annrhaethol bwys a gwerth. Os ydyw ei enaid yn anfarwol—os ydyw yn ddeiliad cyfrifol am ei ymddygiadan yn y bywyd hwn—os ydyw rhinwedd i gael ei wobrwyo, a bai ei gosbi, rhaid y byddai cyfrwng i roddi gwybodaeth sicr o hyny y trysor gwerthfawrocaf a ellid ei roddi yn nwyllaw dyn. Ond, i ba le y try y meddwl petrusgar ac anesmwyth am y wybodaeth hon? Pwy a'i cyfarwydda, a etyb ei ymholion pryderus, ac a lonydda ei fynwes anesmwyth? Ni wiw i chwi gynyg y llyfrau a ysgrifenydd gan ddoethineb ddynol, gan feddwl i'r rhai hyny ateb y dyben—ni wnant ond ychwanegu ei bryder, a'i wneuthur yn fwy anesmwyth ei feddwl—mewn gwirionedd, ni chaiff ddim

ond tybiau amheus; yr un ysgrifenydd, weithiau, yn ymddangos yn dra hyderus bryd arall, yn dra ansicr ei feddwl; un yn adeiladu, ac un arall yn tynnu i lawr—un am ei ber-swadio i gredu yn hanfodiad y pethau yr ymofyna yn eu cylch; arall am beri iddo eu hameu; a'r trydydd, fe allai, am eu hollol wadu. Ac nid oes gam yr un o'r tri unrhyw brawf mwyna'ugilydd o'u bod yn ysgrifenu dan gyfarwyddyd ddwyfol; felly, ni wyr yr ymofynydd pa un o honynt sydd i'w gredu; y mae wedi ei ddrysu rhyngddynt, ac nid oes ganddo ond teithio yn mlaen tuag angydd dan ei ddwyllaw, a rhwygiad llen marwoldeb a rydd derfyn ar ei amheun. Gellid yn naturiol dybied y byddai teimlad y cyfryw ymofynydd pryderus yn debyg i hyn;—'Wele, fy nymuniad yw, am i'r Hollalluog fy ateb; ac ysgrifenu o'r Goruchaf lyfr. Diau y dygwn ef ar fy ysgwydd; a rhwymwn ef yn lle coron i mi. Mynegwn iddo rifedi fy nghamrau; fel tywysog y nesawn ato—ond nid felly y mae gyda myfi.' Er pob peth a allai rheswm dynol wneyd yn ngoleuni natur, yr oedd y pethau hyn yn aros mewn niwl a thywyllwch; wedi 'toi trostynt a chysgod angydd.' 'Deillion oedd gwyliedyddion y byd; ni wyddent hwy oll ddim gyda sicrwydd ac eglurder ar y matter. Tywyllwch a orchuddiai y ddaear, a'r fagddu y bobloedd.' Y cwbl oedd ganddynt i'w wneyd a'r traddodiadau oedd yn eu plith yn nghylch y matter, oedd tynu casgliadau a thebygoliaethau: a dealldwriaethau 'wedi tywyllu, ac wedi ymddyeithro oddiwrth fuchedd Dduw, trwy yr anwybodaeth oedd ynddynt, trwy ddallineb eu calon,' ni allent lai 'na chyfeiliorni fel meddwyn' neu 'ymbalfalu fel deillion' ar barwydydd natur, wrth geisio dad-ddrysu y gorchestbwngc caled hwn! Yn wyneb hyn, pa mor fawr yr ymddengys bod angen y byd am ryw gyfarwyddwr digyfeiliorn—am hysbysiaeth sicr a goleu ar y matter pwysfawr—am dystiolaeth a ddygai gyda hi brawfnodau eglur o'i dwyfoldeb, i symud ymaith y niwl a'r amheun a amgylchynent ddiwedd gyrfa ddaearol dyn?

Er fod rhyw dybiau gan y rhan fwyaf o genhedloedd Paganidd y byd, am anfarwoldeb yr enaid, a sefyllfa o wobr a chosp mewn byd i ddyfod, eto, ni allai y cyfryw dybiau fod o nemawr werth ymarferol er peri unrhyw ddylanwad effeith-

iol ar gyflwr moesol y byd, o herwydd nad ydynt ddim amgen na breuddwydion nos; olion hen wirioneddau megis heb eu llwyr ddileu, a'r rhai hyny wedi eu dwbio a llwch a llaid dychymygion a thraddodiadau dynol.

Fel profion o wirionedd y nodiadau uchod, cymerer y pigion canlynol allan o luaws mawr o'r cyffelyb o ddywediadau rhai o'r enwocaf o'r doethion. Socrates, y penaf o honynt, yn ei amddiffyniad ger bron ei farnwyr, a gysurai ei hunan a'r ystyriaeth hon, sef, 'Bod sail dda i obeithio bod marwolaeth yn fendith; oblegid rhaid ei bod yn un o ddau beth: naill, ai y mae y marw yn syrthio i ddim; neu, y mae yn symudiad yr enaid i le arall. Os nad oes dim yn bod wedi angeu, ac os yw marwolaeth yn gwsg bythol, yna y mae'n syndod i feddwl pa fath elw yw marw; ond os yw y pethau a ddywedir wrthym yn wirionedd, mai symudiad i le arall ydyw, yna y mae yn llawer mwy o enill'—a therfyna yn y geiriau nodedig a ganlyn; 'Yr wyf fi yn myned i farw, chwithau a barhewch am ysbaid yn y bywyd hwn; ond pa un o honom a fydd yn y sefyllfa oreu, Duw yn unig a wyr.'

Addefir mai Cicero a ymresymodd oreu a chryfaf am anfarwoldeb yr enaid, o'r holl ddoethion; ond efe a ddywed ei fod yn dadleu dros y mater oddiar debygoliaeth, ac mai tebygoliaeth yn unig oedd y cwbl a allai gyrhaeddyd, ond na chymerai arno ei gadarnhau fel peth sicr. Wedi crybwyil am lawer o wahanol dybiau yn nghylch yr enaid, pa un a ydyw yn marw gyda y corph, neu a ydyw yn ei or-fyw; ac os ydyw, pa un a ydyw yn parhau mewn bodoliaeth a bywyd gwastadol, neu yn unig am ryw dymor wedi ei ymadawiad o'r corph, &c. efe a ddywed, 'Pa un o'r tybiau hyn sydd wirionedd, rhaid i ryw dduw benderfynu. Pa un yw y mwyaf tebygol, sydd ymofyniad pwysig.' 'Ac,' meddai yn mhellach, 'os na bydd i ddydd ein marwolaeth ddwyn gydag ef ddyddymiad ar ein bodolaeth, ond yn unig gyfnewidiad lle a dull o fodoli, ni all dim fod yn fwy dymunol; ond os bydd yn llwyr ddinystr ar ein hanfodaeth, pa beth all fod yn well, yn nghanol trallodau a gofalon y bywyd hwn, na'r meddwl am orphwys mewn gorddwfn a thrag'wyddol gwsg.'

Yn gyffelyb yr ymresymai Seneca, un arall o'r enwogion hyn. Wrth gysuro Polybius, yr hwn oedd yn galaru am

farwolaeth ei frawd, efe a'i dysg ef i ymresymu ag ef ei hŷn fel hyn, 'Os nad oes gan y meirw unrhyw deimlad, y mae fy mrawd wedi dianc oddiworth holl ofidiau bywyd, ac wedi ei adferu i'r sefyllfa hono ag yr oedd ynddi cyn ei eni; ac wedi ei ryddhau oddiworth bob drwg, nid yw yn ofni dim, yn dymuno dim, nac yn dyoddef dim. Os oes gan y meirw unrhyw deimlad, y mae enaid fy mrawd wedi ei ollwng yn rhydd megis o hir gaethiwed, yn hollol dan ei lywodraeth ei hun, yn ymddyrchafu ac yn mwynhau golwg eglur ar natur pethau, ac yn edrych i lawr, megis o sefyllfan oruchel, ar holl bethau y byd hwn gyda diystyrwch; ac y mae yn cael dirnadaeth amlycach o bethau dwyfol, yr hyn y bu efe am hir amser yn ei geisio yn ofer. Pa ham gan hyny y galaraf am dano, yr hwn sydd naill ai yn ddedwydd, neu nad yw yn bodoli? Galaru ar ol un sydd yn ddedwydd, sydd genfigen; ar ol un nad yw yn bodoli mwyach, sydd wallcofrwydd.'

Ni a gawn yr un rhai weithiau yn addef ac yn dal allan athrawiaeth cosp mewn byd i ddyfod; bryd arall, yn ei gwrthod gyda dirmyg. 'Ni a ddylem bob amser gredu,' medd Plato, 'yr hen draddodiad cyssegredig, yr hwn sydd yn dangos bod yr enaid yn anfarwol, a bod iddo farnwyr, ac y bydd i'r drygionus ddyoddef y cospau trymaf pan ymadawo a'r corph.' Ac mewn lle arall, 'Pe byddai i angeu roddi diweddiad ar y cyfan, byddai yn ddaioni mawr i ddynion drygionus i gael terfyniad ar eu cyrph, eu llygredd, a'u he-neidiau; ond, gan yr ymddengys bod yr enaid yn anfarwol, nid oes ond un ffordd arall i ochelyd trueni, un ffordd ddyogel, ond trwy ddyfod mor ddoeth a da ac y byddo bosibl.'

Dadleua yr un gwr mewn lle arall yn *erbyn* y dybiaeth a gymeradwyai fel uchod. 'A ydych chi yn meddwl,' medd efe, 'y gall dyn wynebu angeu gyda gwrolder, a dewis marw mewn brwydr yn hytrach na byw mewn caethiwed, a chredu fod yr hyn a ddywedir mewn perthynas i sefyllfa y meirw yn wirionedd, ac mor ofnadwy ac y mae yn cael ei osod allan?' Ac yna, y mae yn beio y rhai a wnant ddarluniadau pruddion o'r byd anweledig; y dylent yn hytrach ei osod allan yn gyflwr dedwydd a dymunol; ac onide, 'nad ydynt yn dywedyd yr hyn sydd wirionedd, nag yn addas i ddynion milwraidd ei glywed. 'O ganlyniad,' medd efe, 'dylid llwyr wrthod yr

enwau dychrynlyd hyny, Cocytus, Styx, a'r Inferi, ac Ys-
 prydoedd y Meirw, a phob enwau o'r fath, y rhai a barant i
 bawb a'u clywo arswydo a chrynu.' Fel hyn yr ymddryasai
 ei hunan, ac y drysai ereill, drwy haeru weithiau bod yr un
 pethau yn wirionedd, a phrydiau ereill yn ffugion disail:
 weithiau, nad oeddynt yn bethau addas i'w cyhoeddi i'r bobl,
 a phryd arall, eu bod yn ddefnyddiol iawn er atal y bobl i
 gyflawni drygau, ac yn annogaethol i rinwedd.

Cyfrifir Cicero, fel y sylwyd o'r blaen, yr ymresymydd
 cadarnaf dros anfarwoldeb yr enaid a sefyllfa ddyfodol, o'r
 holl athronyddion; ac eto, yn y traethawd a ysgrifennodd ar
 y mater hwn y mae yn llwyr ymwrthod a'r dyb o gospedig-
 aeth mewn byd arall, ac yn ei difrio fel peth ynyfd a disail.
 Wedi crybwyll am y cospau a dybid eu bod yn cael eu gwei-
 nyddu ar ddynion drygionus wedi angeu, y mae yn dwyn ei
 ddarllenydd yn mlaen megis, yn dywedyd, 'A ydych yn
 tybio fy mod mor ffol a chredu pethau fel hyn?' A thrachefn,
 'Pwy sydd mor ynyfd ac y cymer ei ddychrynu ganddynt?'

Pa mor lleied o gred a roddai Cicero, a'r Rhufeiniaid yn
 gyffredinol, i'r athrawiaeth hon, sydd eglur oddiwrth ran o
 araeth a draddodai ger bron y barnwyr ar ddydd cyhoeddus.
 Llefara yno am un, Oppianicus, yr hwn a ddarlunia fel y
 gwaethaf o ddynion, yn euog o'r creulonderau bryntaf—o
 lofruddio ei wragedd a'i berthynasau agosaf, a chyflawniadau
 echrys ereill, am yr hyn y cafodd o'r diwedd ei gondemnio i
 alltudiaeth. Efe a ddywed, pe buasai yn ddyn calonog, y
 dewisasai yn hytrach roddi terfyn ar ei hoedl, na dyoddef
 trueni alltudiaeth. Ac fel yr oedd wedi marw cyn yr amser
 yr oedd Cicero yn traddodi yr araeth dan sylw, efe a ofyn,
 'Pa ddrwg a ddygodd marwolaeth arno, os na thueddir ni i
 gredu y ffug-chwedlau gwrachiaidd ei fod yn dyoddef cosped-
 igaeth y drygionus yn y bröydd uffernol, a'i fod wedi cyfarfod
 a mwy o elynion yno nag a adawodd ar ei ol yma—a'i fod,
 fel cospedigaeth am yr hyn a wuaethai i'w fam yn nghyfraith,
 ei wragedd, ei frawd, a'i blant, yn cael ei hyrddio bendra-
 mwnwgl i drigfanau y drygionus? Os dychymygion disail
 ydyw yr holl bethau hyn, fel y mae pawb yn deall mai ie, pa
 beth a gymerodd marwolaeth oddi arno ond yn unig teimlad
 o boen?'

Gellid llenwi cyfrol helaeth & dyfyniadau cyffelyb, allan o draethodau ac areithiau y doethion Paganaid. Cymerais y pigion uchod allan o waith Dr. Leland ar y 'Datguddiad Crist'nogol;' a gwasanaetha yr ychydig esiamplau a nodwyd y dyben i ddangos angen y byd am well dysgawdwr a chyfarwyddwr am fyd arall na'r lladmeryddion dyrus a thywyll hyn.

Gallem gasglu y pethau canlynol oddiwrth yr ymadroddion o'u heuddo a gofnodwyd—

Yn gyntaf, Eu bod yn gyffredin yn cytuno i ddal yr hen draddodiad i fynu am anfarwoldeb yr enaid, er y llefarai ambell un gyda gradd o amheuaeth, weithiau; eto, a chasglu y cwbl yn nghyd, ymddengys mai y dyb addefedig a ffynadwy yn eu plith oedd bod yr enaid yn anfarwol. Ac, yn wir, nid oes nemawr genedl Baganaid i'w chael, hyd yn od y rhai sydd wedi suddo ddyfnaf i dywyllwch anhrefn ac anwar-eidd-dra, nad oes ganddynt ryw draddodiad am anfarwoldeb yr enaid: ond, yn nghylch pa beth a ddeuai o hono wedi ei ymadawiad o'r corph, hwy a 'chwiliasant allan lawer o ddychymygion.' Yr enaid truan, heb ganwyll datguddiad dwyfol yn ei law i'w oleuo a'i gyfarwyddo, pan edrychai allan o'r corph, pan elai i geisio dyfalu pa beth a ddeuai o hono wedi gadael ei drigfa bresenol, a deithiai dan ei ddwyllaw drwy anialdiroedd meithion a dilwybr bröydd y tywyllwch. Yr oedd y dybiaeth o drawsfudiad eneidiau i gyrph ereill wedi angeu yn cael ei dal gan yr henafiaid oll yn mron. Gwnaent wahaniaeth rhwng y naill a'r llall; sef, y byddai i'r rhai a fusent yn ddoeth a rhinweddol gael eu trosglwyddo at y duwiau, a'u derbyn i'w cymdeithas—y byddai i ereill, y rhai na buasant na drygionus na rhinweddol iawn, gael eu trosglwyddo i gyrph creaduriaid diniweid: a'r rhai a fusent greulon a gwaedlyd, eu mudo i gyrph llewod a bleiddiaid, &c. ac felly y byddent yn symud yn barhaus, nes myned trwy bob dosparth o creaduriaid; ac yr unid hwy, yn y diwedd, ag enaid y bydysawd. Deilliodd athrawiaeth y trawsfudiad o'r Aipht, a chafodd dderbyniad cyffredinol, yn mron, gan y Groegiaid a'r Rhufeiniaid.

Yn ail, Ymddengys y defnyddient y traddodiad am sefyllfa o gosp mewn byd i ddyfod yn unig er ateb rhyw ddybenion

gwladwriaethol. Byddai yn fuddiol, weithiau, i'w dysgu i'r werin, er eu cadw mewn ofn ac mewn ufudd-dod i'r deddfau gwladol. Bryd arall, pan yn myned allan i ryfel, byddai yn fwy manteisiol ei guddio o'r golwg, neu ei osod ger bron y bobl fel tybiaeth ynfyd a disail; rhag y buasai ofn cosp ddyfodol yn effeithio ar wroldeb y milwyr—a hyn sydd yn rhoddi cyfrif am eu hanwadalwch, yn haeru ac yn gwadu yr un pethau. Pa mor bell oeddynt o ddwyn bywyd ac anllygredigaeth i oleuni! Ië, yr oeddynt yn hytrach yn tywyllu ac yn drysu y mater fwy-fwy yn mhob ymdriniaeth a wnelent ag ef: fel yn y pen draw na wyddent am well dyben i'w wneuthur o hono, na'i droi yn beiriant gwladwriaethol, er ateb dybenion deddf-roddwyr a blaenoriaid milwraidd.

Yn drydydd, Yr ydym yn gweled nad yw y Paganiaid presenol ronyn nes i ddyfod i'r gwirionedd nag oedd y Paganiaid gynt, ond yn hytrach yn myned yn mhellach oddiwrtho; oblegid nid oes yn yr oesoedd diweddaf esiamplau o ddynion wedi eu cyfodi yn eu plith, teilwng o'u cystadlu a'r doethion Groegaidd a Rhufeinaidd gynt. Eisteddant yn mro tywyllwch a chysgod angeu. Cyfoded dirmygwyr crefydd ddatguddiedig, mawrygwyr goleuni natur a rheswm dynol, eu golygon; boed iddynt gymeryd golwg ar agwedd dynolryw yn yr holl wledydd y cawsant eu gadael iddynt eu hunain hyd heddyw—tramwyant trwy y ddaear, ac 'ystyriant yn ddiwyd—A newidiodd un genedl ei duwiau, a hwy heb fod yn dduwiau?' A ymuniawnodd un genedl, un llwyth, neu un dyn, oddiwrth wyrni cyffredin dychymygion ffolion ei henafiaid, drwy rym ei reswm naturiol yn ngoleuni natnr? Y boneddigion hyn eu hunain a gondemniant eulun-addoliaeth y Paganiaid, ac a broffesant barch mawr i Dduw natur, a haerant yn ffrostgar mai y greadigaeth yw eu Bibl hwy, eu hunig gyfarwyddwr am ac at Dduw, ei fod yn arweinydd digyfeiliorn iddynt hwy ac i bawb, y gall rheswm gael holl egwyddorion crefydd allan i berffeithrwydd yn ei oleuni, bod datguddiad goruwch-naturiol o Dduw yn gwbl ddiangenrhaid, ac mai twyll-honiad ydyw fod y cyfryw wedi ei roddi. Gofynnwn i'r gwyr hyn, Pa fodd y daethant hwy i ragori ar bawb ereill ag ydynt yn amddifaid o oleuni y datguddiad ysgrifenedig? Pa fodd y daethant hwy i weled ynfydrwydd

eulun-addoliaeth ac aml-dduwiaeth, mwy na holl ddoethion oesau y byd, y rhai ni chawsant y fantais o wybod am egwyddorion y llyfr hwnw! Ai nid y llyfr a wadant, a ddirmygant, ac yr ymdrechant a'u holl egni i'w godi i fod yn wrthrych diystyrwch cyffredinol, ai nid hwnw meddaf a wnaeth y gwahaniaeth rhyngddynt hwy ag ereill? Ynte, ai doethach ydynt hwy na holl ddoethion Groeg a Rhufain a China? Ai dyfod o hyd i'r wybodaeth hon a wnaethant o honynt eu hunain? Ai allan o lyfr natur y dysgasant y wers hon? Os felly, pa beth yw y rheswm na buasai rhyw un mewn rhyw wlad, mewn rhyw oes, lle nad yw y Bibl, wedi cael y peth allan? Ië, rhyw un o'r doethion hyny a gyssegrasant eu holl amser, eu galluoedd a'u doniau i ymfyn gwybodaeth? A feiddiant briodoli y rhagoriaeth hwn sydd rhyngddynt ag ereill i'w doethineb rhagorach a'u rheswm cryfach eu hunain? A feiddiant haeru y buasent y peth ydynt, neu y buasent yn rhagori ar y doethion Paganauidd gynt, pe buasent yn yr un sefyllfa, ac o dan yr un anfanteision a hwy? Os meiddiant wneuthur y fath honiad, na ddysgwylant yn amgen na bydd i'r 'forwyn merch Sion eu dirmygu a'u gwatwor; ac ysgwyd pen ar eu hol.' Os na honant hyny, Pa reswm sydd ganddynt dros eu gelyniaeth a'u hymdrech yn erbyn y llyfr a ddysgodd yn amgenach iddynt? Y maent hwy yn ddyledwyr iddo, ac onid boneddigaidd fyddai iddynt gydnabod eu rhwymau? Na, nid allwn lai na sicrau y buasai y beilchion ffrostgar hyn, pe yn amddifaid o gynhorthwy goleuni y grefydd a ddirmygant, mor flaenllaw a neb yn 'ymegnio yn mysg prenau y coed'—yn llunio eu duwiau—yn ymgrymu iddynt ac yn eu haddoli—pob un yn gweddio ar ei ddelw gan ddywedyd, 'Gwared fi, canys fy Nuw ydwyd'—ac na buasai yr un o honynt 'yn meddwl yn ei galon'—na buasai 'gwybodaeth na deall' ganddynt hwy mwy nag ereill i ddywedyd, 'Llosgais ran o hono yn tân, ac ar ei farwor y pobais fara, y rhostiais gig, ac y bwyteis; ac a wnaif fi y rhan arall yn sfiidd-beth—a ymgrymaf fi i foncyff o bren?' 'Edrychwch, O ddirmygwyr! a rhyfeddwch, a dislenwch.'

Yn bedwerydd, Nad ymddengys ddarfod i un genedl, nag un o ddoethion unrhyw genedl, ffurfio y dybiaeth leiaf erioed am adgyfodiad y corph o'r bedd. Felly, rhaid fod yr athr-

awiaeth hon naill ai yn un hollol oruwch-naturiol, nad oes un awgrym i'w gael o honi o fewn anian, neu eu bod hwy yn ddiffygiol iawn o ddeall ei llais a'i dysgeidiaeth. Yn mysg yr hyn oll a lefarasant ac a ysgrifenasant am anfarwoldeb yr enaid a byd i ddyfod, ni chrybwyllodd yr un o honynt air am adgyfodiad i'r corph: a'r cyffro a achlysuroidd y pregethiad o'r athrawiaeth hon gan Paul yn Athen, lle yr oedd hufen gwybodaeth, dysgeidiaeth, a chelfyddydau y byd wedi ei gasglu, sydd yn brawf amlwg na fuasai gan y byd Paganaid gymaint a breuddwyd erioed am dani: neu, os buasai traddodiad am dani, ei fod wedi ei lwyr golli. Pan glywsant sôn am adgyfodiad y meirw, rhai a watwarasant; a rhai a ddywedasant, 'Ni a'th wrandawn drachefn am y peth hwn.' Rhai o'r philosophyddion o'r Epicureaid, ac o'r Stoiciaid, a ymddadleasant ag ef; a rhai a ddywedasant, 'Beth a fynai y siaradwr hwn ei ddywedyd! A rhai, 'Tebyg yw ei fod yn mynegi duwiau dyeithr—am ei fod yn pregethu yr Iesu a'r adgyfodiad iddynt.'

Gellir tybio, pa fodd bynag, bod goruchwyliaethau natur yn taflu math o awgrymau am oruchwyliaeth yr adgyfodiad. Y mae rhyw fath o ddelw o honi yn nhymorau y flwyddyn. Llysiau a blodeu y meusydd a'r gerddi ydynt megis yn marw ac yn diflanu ar ddynesiad y gauaf: gwelir natur oll megis yn nychu mewn darfodedigaeth, heneiddia ei gwedd, gwywa ei phrydferthwch; ei nerth a'i hoewder a raddol wisgant ymaith, nes o'r diwedd y gwelir yr holl greadigaeth ysieuaidd yn gogwyddo ei phen ac yn'trengu, a marwolaeth gyffredinol a deyrnasa drosti oll. Ond ar ddynesiad yr haul, estyniad y dydd, a thymheriad yr hîn, adfywia eto: gwelir llysiau a blodeu y meusydd yn dyfod allan o'u beddau megis, a marwoldeb y gauaf wedi ei lyncu gan fywyd drachefn, fel ag nad oes dim ag oedd ar gael y llynedd ar goll eleni. Dyma bryfyn bychan hefyd, yr hwn a ymddengys am dymor yn brysur iawn yn gweithio math o gell iddo ei hun, yr hon sydd i wasanaethu yn lle arch a bedd iddo. Wedi gorphen ei waith, ymlecha ynddi, a threnga. Yma y dadgysodir ei ffurf, a bydd am rai wythnosau a misoedd yn hollol amddifad o unrhyw briodoledd na delw creadur; a'i fodolaeth, yn ol pob golwg, wedi terfynu. Ond wedi bod o hono am ryw dymor

pennodol yn farwol a chladdedig fel hyn, adfywia ei sylwedd drachefn, dryllia ei garchar-gell, a daw allan ar agwedd hollol wahanol i'r hyn oedd o'r blaen. Gynt, nid oedd ond trychfil eiddil a salw, yn ymwingo ar wyneb y ddaear; yn awr, y mae yn bryf hardd ac adeiniog, yn meddu ar briodoliaethau cyfaddas i fwynhau bywyd hollol wahanol i'r hyn oedd ei fywyd gynt. O'r blaen, yr oedd megis yn rhwymedig wrth y ddaear—yn bresenol, wedi ymgodi oddiarni, a gwneuthur ei lwybr a'i drigfa yn mysg y rhai a gyfaneddant yr awyr. Yr esiampl olaf hon sydd ddarluniad bywiog o adgyfodiad y meirw. Ond, er bod y ffeithiau hyn ger bron llygaid y byd, ni feddyliodd neb eu bod yn dysgu yr athrawiaeth o adgyfodiad cyrph y meirw. Gadewid y bedd mewn llawn a thawel feddiant o'i ysglyfaeth am byth gan holl ddysgawdwyr natur—ni feddyliodd yr un o honynt am ameu ei hawl; ac ni thadlodd yr un o'r lampau a oleusant y llewyrch lleiaf o oleuni i'w diriogaethau. Ni ddylem dybied, er hyny, mai amcan neullduol trefn natur, yn yr esiamplau y cyfeiriwyd atynt, ydyw dysgu athrawiaeth yr adgyfodiad; ond crybwyllwyd hwynt yn unig i ddangos nad oes dim annaturiol yn yr athrawiaeth ysgrythyrol hon; ac, fe allai na byddem yn myned yn rhy bell pe dywedem nad ydyw ychwaith o'r fath nodwedd oruwch-naturiol a rhai o athrawiaethau ereill y datguddiad ysgrythyrol. Y ffaith, pa fodd bynag, ydyw, iddi fod erioed, a sier yw y buasai byth, yn guddiedig oddiwrth wybodaeth pob dyn byw, pe na chawsai ei datguddio mewn modd arall.

DOSP. III.

CYN dwyn mater y bennod hon i derfyniad, dylid dangos bod datguddiad goruwch-naturiol o Dduw a'i ewyllys yn hanfodol angenrheidiol er adferiad byd wedi ei 'werthu dan bechod,' hyd yn od pe cawsai goleuni natur ei iawn ddefnyddio, pe deallesid ei holl leferydd, a phe chwiliasid allan yr holl egwyddorion crefyddol sydd i'w cael ynddi i'r perffleithrwydd uchaf, a phe gosodasid hwynt ger bron y byd yn eu symledd a'u purdeb, heb y cymysgedd lleiaf o ddychymygiion ac ofer-

goelion. Dangoswyd o'r blaen pa mor afwyddiannus a fu goreuon doethineb y byd yn hyn, pa mor amherffaith y dellent iaith natur, a pha mor 'ofer a fuont yn eu rhesymau,' wrth geisio casglu yn nghyd a gosod allan yr egwyddorion a ddysga. Ond, golygwn *fod* yr holl egwyddorion hyn yn *cael* eu dwyn allan a'u dysgu i'r byd—golygwn fod y byd wedi ei ddysgu am unig wir wrthrych addoliad a gwasanaeth crefyddol—y drwg a'r ffolineb o addoli eulunod o waith dwylaw a dychymyg dyn—am ei gyflwr dirywiedig a phechadurus—ei fod dan anfoddlonrwydd a barn Duw—yn euog ac anghymeradwy ger ei fron, &c. i ba le y try ei wyneb? Pwy a ddengys iddo y ffordd yn ol at Dduw i'w gymod a'i heddwch?

Pe meddyliem am fyd euog a phechadurus wedi ei oleuo a'i argyoeddi fel hyn dan weinidogaeth natur, yr ymofynion mawrion a phwysig a godent yn naturiol oddiar y fath argyoeddiad a gyd-dorent allan oddiar bob gwefus a fyddent, 'Pa fodd y cyfiawnheir dyn gyda Duw? Pa fodd y bydd yr hwn a aned o wraig yn lan? A pha beth y deawn ger bron yr Arglwydd, ac yr ymgrymwn o flaen yr uchel Dduw?' Ond, pwy a all eu hateb? Gwelwch fyd wedi ei gyd-gau dan bechod, wedi ei gyd-argyoeddi o'i sefyllfa a'i berygl, wedi ei gyd-ddeffroi i ystyriaeth a theimlad priodol o'i gyflwr, byd o ddynion yn edrych ar eu gilydd mewn pryder anobeithiol—pawb yn ymholi, heb neb yn gallu ateb—holl ddoethineb y doethion yn pallu—nid oes ond mudandod marwol ar wefusau y greadigaeth—nid oes gan natur, yn lle atebiad, ond taflu y gofyniad yn ol mewn adsain athrist ar glustiau byd truenus a diobaith! Gall y pechadur, druan, fyned a chasglu ynghyd ei 'filoedd o feheryn,' i ymofyn 'myrddiwn o ffrydiau olew,' dwyn yn mlaen ei gyntaf-anedig, a chynyg 'firwyth ei gorph dros bechod ei enaid;' ond y dyrysbwnc mawr a erys heb ei egluro wedi hyny ydyw, 'A *foddlonir* yr Arglwydd a'r pethau hyn?' Ni rydd natur unrhyw oleufynag iddo ar y mater—nid oes ganddo le i gasglu cymaint a'r dybiaeth leiaf y bydd ei aberth yn gymeradwy; ond yn hytrach mwy rhesymol iddo farnu na fyddai y fath offrwm ond ofer a gwrthodedig. Pa anrhydedd a boddlonrwydd a allai gwaed creaduriaid mudion a di-enaid roddi drosto i Dduw? Pa gyfaddasrwydd a allai fod mewn myrddiwn o ffrydiau olew, pe gellid eu cael, i

wneuthur cymod dros ei anwiredd? Pa deilyngdod a haeddiant a allai fod yn ngwaed ei gyntaf-anedig, pe tywalltid ef, i bwr casu heddwch a maddeuant ei farnydd? Onid ei eiddo ef oedd yr holl bethau hyn? Pe meddylIASAI am edifeirwch a diwygiad, er adenill y ffafr ddwyfol, y dryswch o hyd a erys, A dderbynir edifeirwch a diwygiad fel sail cymradwyaeth—A weinydda Duw faddeuant, ac a *all* ef yn gyfiawn weinyddu maddeuant, am y troseddau a aethant heibio ar y sail yma? ‘Pwy a dreigla ymaith y maen hwn?’ Yma y diweddir geiriau natur—hyd yma, ac nid yn mhellach, y gall rheswm dynol deithio. Etyb natur lawer o ymofynion ereill, pe deallid ei hiaith—cyflawna ei holl angenrheidiau naturiol, fel creadur—dwg y ddaear fara a llyisiau cymwys at ei gynhaliaeth—gyr allan ei ffynhonau a’i ffrydiau dyfroedd, i’w ddisychedu a’i lóni—darpara ei llaeth a’i gwin, i fod yn faeth a meddyginiaeth iddo—cynhyrcha ddefnyddiau gwisgoedd, i’w gynhesu a’i harddu—ymddengys fel pe mai ef a fyddai ei hoff blentyn, etifedd ei holl gyfoeth a’i thrysorau—abertha ei helfenau a’i holl greaduriaid at ei ewyllys a’i wasanaeth—y maent oll dan deyrnged a threth iddo; ‘defaid ac ychen oll, ac anifeiliaid y maes hefyd; adar yr awyr, a physgod y mor, ac y sydd yn tramwyo llwybrau y moroedd.’ ‘Canys holl natur, anifeiliaid a gwylltfilod, a’r pethau yn y mor, a ddofwyd ac a ddofir gan y natur ddynol.’ Cynhysgaedd ef hefyd a llawer o elfenau gwybodaeth, y cwbl ag oedd yn angenrheidiol iddo fel creadur, er ei ddedwyddwch yn y cyflwr y daeth oddidan ddwylaw Duw. Y nefoedd, y ffurfafen, y dydd, a’r nos, a ddatganant, a fynegant, a draethant, ac a ddangosant iddo ogoniant, mawredd, daioni, a theilyngdod Duw, fel gwrthrych anfeidrol ei addoliad, ei ufudd-dod, ei gariad, a’i wasanaeth, a ffynhonell fawr a diyspydd ei ddedwyddwch. Wedi troseddu o hono drwy anufudd-dod a gwrthryfel yn erbyn ei Greawdwr a’i lywodraethwr, trowyd ei goruchwyliaethau i ddwyn yn gymysg a thrugareddau arwyddion o’r anfoddlonrwydd dwyfol yn ei erbyn, i rododi ar ddeall ac i ddwyn ar gof iddo ei fod yn droseddwr; y truepi, y dyoddefiadau, y damweiniau, a’r gwasgfeuon, y mae yn agored iddynt, ac ydynt mor gyffredinol yn y byd, a’r farwolaeth a deyrnasa ar bob dyn, a gydgyhoeddant hyn. Y mae

llinyn y rhai hyn yn myned trwy yr holl ddaear, a'u geiriau yn adseinio hyd eithafoedd y byd: ond yma y dybenant—yn y cyflwr hwn y gadawant ef, heb ddywedyd gair am lwybr na threfn i'w adferu. Y mae y '*Dirgelwch mawr hwn yn guddiedig yn Nuw.*' Nid yw y byd yn gyfrifol nag yn cael ei feio am ei anwybodaeth o gynllun mawr ei iachawdwriaeth cyn iddo gael datguddiad goruwch-naturiol o hono. Y mae y doethion Paganaid yn cael eu beio yn drwm, o herwydd na buasant yn adnabod y gwir Dduw fel unig wrthrych addoliad; ac y mae yr holl genhedloedd eulun-addolgar yn cael eu beio yr un modd; o herwydd bod 'anweledig bethau Duw, wrth eu hystyried yn y pethau a wnaed i'w gweled yn amlwg, hyd onid ydynt yn ddiessgus:' beïr hwy am beidio ei ogoneddu ef 'yn unig megis Duw,' ac am eu hanwybodaeth o'r holl bethau ag y mae deddf natur yn eu dysgu iddynt; ond, nid ydynt byth yn cael eu cyhuddo o herwydd anwybodaeth am drefn cymod drwy Gyfryngwr; o herwydd nad oes datguddiad o honi i'w gael 'wrth ystyried y pethau a wnaed.' Peth newydd ydyw—peth na allasai un creadur yn y nef na'r ddaear byth ffurfio tybiaeth am dani—dyeithr weithred y Duwdod; a rhaid cael dull a threfn newydd i roddi datguddiad o honi.

Y mae cyfrifoldeb ac euogrwydd yn gysylltedig ag anufudd-dod ac anwybodaeth. Y mae anufudd-dod, bob amser, dan bob amgylchiad, yn drosedd; ond nid yw anwybodaeth felly. Y mae anufudd-dod yn cynnwys bod y ddyledswydd wedi ei gorchymyn, bod y person yn adnabyddus o honi, ei fod yn gwybod ewyllys ei Arglwydd, &c. Y mae yn gyfrifol am ei anwybodaeth yn unig mor belled ag yr oedd ganddo foddion a manteision gwybodaeth. Os ydyw yn 'ddiarwybod o'i wirfodd' o'i ddyledswydd, yna y mae yn gyfrifol, yn feius, ac yn haeddu ei gospi o'r herwydd. Ond os na bydd ganddo foddion gwybodaeth, os na allasai wybod yn well, yna, nid oes arno bechod, 'oblegid ni chyfrifir pechod pryd nad oes deddf' neu reol ymddygiad wedi ei gwneyd yn adnabyddus. Delir Paganaiad yn gyfrifol am eu hanwybodaeth o Dduw fel unig wrthrych addoliad, o herwydd bod moddion gwybodaeth o hono yn eu dwylaw—gallant wybod yn well. Ond, ni chyhuddir hwynt byth o anufudd-dod i, ac anwyb-

odaeth o efengyl Crist, o herwydd nas gallant ei gwybod : nid yw y weinidogaeth y maent hwy dani yn dywedyd dim wrthynt yn ei chylch. Y maent yn esgusodol a dïeuog ger bron Duw yn hyn. Ni chollfernir hwy y dydd diweddaff am anufuddhau i'r efengyl, am wrthod Ceidwad, am garu y tywyllwch Paganaid yn fwy na'r goleuni efengylaidd. Rhoddir 'dïal ar y sawl nid adwaenent Dduw,' ac ar y sawl nid 'ufuddhasent i efengyl Crist;' ond, 'fe wna Barnydd yr holl ddaear farn : oblegid, cynnifer ag a bechasant yn ddi-ddeddf a gyfrgollir hefyd yn ddi-ddeddf; a chynnifer ag a bechasant yn y ddeddf, a fernir wrth y ddeddf.*'

Wrth derfynu y bennod hon, gosodwn fyr grynhodeb o'r materion cynwysedig ynddi eto ger bron y darllenydd, mewn trefn i roddi gwell mantais i'r ieuanc a'r anghyfarwydd i ddeall yn well yr hyn a amcenid ei brofi.

Yn gyntaf, Dangoswyd bod cyflwr moesol ac ysprydol y byd yn hollol anobeithiol o'i ran ei hun—iddo gael ei adael iddo ei hunan am filoedd o flynyddau i 'ymflino yn amllder ei gelwyddau, ac nad aeth ei yscum mawr allan o hono,' er ei ferwi yn holl beiriau gweinidogaethau rhagluniaeth ddwyfol. —na ddarfu i lywodraethwyr gwladol, offeiriaid crefyddol, nag hyd yn od dysgawdwr doethineb, erioed gymaint a chynnyg ei adferu a'i buro oddiwrth lygredigaeth delw-addoliaeth, a'i ddysgu am yr unig wir wrthrych i'w addoli—bod ei holl gyfreithiau, ei grefyddau, a doethineb ei ddoethion, yn tueddu yn hytrach i'w gadw a'i gloi yn ei dywyllwch a'i drueni nag i'w oleuo, ei ddiwygio, a'i feddyginiaethu : ac, o ganlyniad, bod rhaid cael rhyw ddysgawdwr a dysgeidiaeth goruwch-ddynol a naturiol ato ; 'haul o'r uchelder, a meddyginiaeth yn ei esgyll,' i gyfodi arno, ynte, na oleuid ei dywyllwch, ac na wellheid ei bla a'i afiechyd byth.

Yn ail, Bod methiant rheswm a doethineb ddynol drwy gymhorth goleuni natur i gyrhaedd llawn sicrwydd deall o'r pethau mawrion eu pwys y sylwyd arnynt, yn gwasanaethu i ddangos a llawn argyoeiddi pob meddwl ystyriol o werth a dymunoldeb datguddiad newydd a goruwch-naturiol oddiwrth Dduw ; ac o ganlyniad, nad oes dim yn anheilwng o Dduw,

* Rhufeiniad li. 12.

fel y cawn sylwi eto, yn yr haeriad fod y cyfryw ddatguddiad wedi ei roddi. Pe buasai yr holl wirioneddau hyny yn llawn eglur a dealladwy i'r byd; pe cawsent eu dysgu yn eu purdeb a'u symledd, diangenrhaid fuasai datguddiad goruwch-anianol, gyda golwg ar y pethau hyny. Ond, gwelsom nad felly yr oedd; ac, o ganlyniad, pa mor ofer a direswm raid fod yr haeriad a grybwyllwyd o'r blaen, 'Bod holl egyptydorion crefydd a moesoldeb, y cwbl angenrheidiol i'r byd ei wybod, yn cael eu dysgu a'u gosod allan yn amlwg i bob dyn, ie, yn y fath fodd ag na ellir ei wneyd yn eglurach drwy unrhyw ddatguddiad allanol a goruwch-naturiol,' &c. Hyn a fynych daerid gan amddiffynwyr diweddar anffyddiaeth; ond, tystiolaeth unleisiol hanesyddiaeth, doethineb, profiad, ac ymarferiad y byd, drwy holl oesoedd ei dywyllwch, a wrthetyb y fath haeriad yn effeithiol, ac a ddengys fod y fath haerwyr wedi eu llwyr ddallu gan ragsfarn, eu syfrdanu gan eu hysprydoedd beilchion ac ystyfnig, eu haiarneiddio mewn hyf-dra digywilydd, cyn y gallent redeg yn y gwddf i bob ffaith adnabyddus—prawf wirionedd yr hen ddywediad, 'Nad oes neb mor ddall a'r hwn ni fyno weled.'

Yn drydydd, Dangoswyd bod y prif beth angenrheidiol ei wybod, mewn trefn i adferu a gwellau cyflwr ysprydol y byd, yn gorwedd tu hwnt i gyrhaeddiad galluoedd rheswm a doethineb ddynol i gael gafael arno—nad yw creadigaeth na holl weinidogaethau rhagluniaeth ddwyfol yn rhoddi y fantais leiaf i ddyfod o hyd iddo; sef, Pa fodd y cyfawnheir troseddwr gyda Duw, ei farnwr—yr adferir ef yn ol i heddwch a ffafr ei Greawdwr? Pa un a ydyw yn beth posibl, ai nad yw, sydd yn 'ddoethineb guddiedig' oddiwrth lygaid pob dyn byw. Ac od oes y fath drefn a darpariaeth yn bod—os meddyliodd ac os bwriadodd Duw ddwyn y fath beth oddi-amgylch, rhaid bod cael datguddiad llawn ac amlwg o honi yn anheggorol angenrheidiol i'r byd, mewn trefn iddo dderbyn a mwynhau y lleshad oddiwrthi. Ni buasai o un lleshad i'r byd ddarfod i Dduw ei bwriadu a'i chael allan, pe na roddasai ddatguddiad o honi iddo. Ni buasai yn bosibl iddo deimlo ei dylanwad, cydffurfio a'i hegwyddorion, mwynhau ei bendithion, a chael ei feddyginiaethu trwyddi, heb iddi gael

ei hamlygu a'i chyhoeddi: a rhaid cael rhyw drosglwyddfa newydd oddiwrth Dduw i roddi yr amlygiad o honi ger bron y byd.

CYSSEGRWN ychydig dudalenau eto, mewn ffordd o arweiniad i mewn i'r hyn sydd i ganlyn yn nesaf yn y gwaith hwn.

Yn awr, yr ydym yn troi ein golwg oddiwrth fyd 'yn gorwedd mewn drygioni,' tua Judea, yr ardd a gauodd, a'r winllan a blannodd deheulaw y Goruchaf; at y 'winwydden a fuddodd efe o'r Aipht,' yr hon yr 'arloesodd efe y cenhedloedd o'i blaen,' ac y 'planodd hithau yn eu tir hwynt.' Neullduodd Duw Abram, pan y galwodd ef allan o'i wlad, i fod yn dyst, a'i had ar ei ol, i fod yn dystion drosto, yn erbyn eulunod ac eulun-addoliaeth y byd. Hysbysodd ei hunan, a chyhoeddodd ei gyfraith iddynt, gan wahardd pob math o eulun-addoliaeth yn y gorchymyn cyntaf o honi: sefydlodd ei dabernacl yn eu mysg, a phreswylodd yn eu canol, aeth yn Dduw iddynt i'w gwaredu drwy lawer o nerthoedd a rhyfeddodau mawrion. Gwnaeth y genedl yn wrthrych neullduol ei ofal a'i ffafr, ceryddodd frenhinoedd a chenhedloedd o'i phlegid, dygodd hi o'r diwedd 'i oror ei sancteiddrwydd'—i'r wlad a addawsai trwy lw ar ei rhoddi iddynt. Wedi bod o hono megis pererin yn y tir am ryw gynifer o oesau, dewisodd Jerusalem i fod yn breswylfa ei enw, ei addoliad, a'i ogoniant; a gwysiai bob gwryw o'r genedl, a fyddai o oedran priodol, i ymddagos yno dair gwaith bob blwyddyn ger ei fron. Adeiladodd ei dy fel 'llys uchel,' a dywedodd 'Dyma fy ngorphwysfa yn dragywydd; yma y trigaf, canys chwennychais hi.' Hon oedd unig 'ddinas y Brenhin Mawr o holl ddinasoedd y byd. Ymerodraeth Satan oedd yr holl ddaear; dinasoedd ar enwau y lleoedd yr addolied eulunod a delwau ynddynt, oedd ei holl ddinasoedd ond hon. Yma yr oedd gan y gwir Dduw ei gastell a'i amddiffynfa, yr unig un a feddai y pryd hwnw ar y ddaear; amgylchodd y lle a chaerau a rhagfuriau, ac yn gerfiedig arnynt. 'Na fydded i ti dduwiau eraill ger fy mron i—nag ymgryma iddynt, ac na wasanaetha

hwynt, &c.' Yr oedd Jerusalem a'r deml yn golofnau tystiolaeth yn erbyn holl ddinasoedd a themlau y cenedloedd. Yr oedd gwaith y genedl yn cyrchu i Jerusalem i addoli yr unig wir Dduw dair gwaith bob blwyddyn yn wrthdystiad i arferion yr holl genhedloedd ereill yn eu gwaith yn addoli delwau o gerfiad eu dychymyg a'u dwylaw eu hunain. Jerusalem a'r deml oeddynt unig loches a noddfa y gwirionedd, yn nghanol byd ag oedd wedi syrthio yn aberth i dwyll a chelwydd; a'r genedl Iddewaidd oedd yr unig dyst dros Jehofa, mai efe oedd Dduw. Yma y gwelwn y Duw a wnaeth y byd wedi ei warchae gan alluoedd y tywyllwch am lawer o oesau; yn cael ei amgylchu gan dduwiau y cenedloedd; a gwirionedd lawer gwaith, megis, mewn perygl o gael ei gymeryd yn garcharor gan dwyll a chelwydd. Jerusalem, a'r deml, a'r genedl, oeddynt wrthrychau neullduol cynddaredd Satan—'duw y byd hwn.' Ymdrechodd yn ddiffino am lawer o oesau i gymeryd meddiant o'r unig wlad, dinas a llyddy, a feddai Duw y nefoedd ar y ddaear, a bu agos iawn iddo lwyddo aml waith. Medrodd ffynya cyn belled aml dro ac i gael allor i Baal yn nghyntedd ty yr Arglwydd, ac aberthau i eulunod ffaidd y cenedloedd yn mhresenoldeb allor Duw Israel. Yr oedd yn fwy awyddus i hudo y genedl i eulunaddoliaeth nag i unrhyw bechod arall, oblegid mai yn ngwrthrych a threfn ei haddoliad yr oedd yn gwahaniaethu yn benaf oddiwrth holl genhedloedd ereill y ddaear; a gwyddai, ond llwyddo i enill y genedl hon drosodd at eulunod, na buasai gan Dduw mwyach neb i dystio drosto ar y ddaear yn erbyn egwyddorion ei deyrnas ef, ac y buasai raid, o ganlyniad, i'w goffadwriaeth hollol ddarfod o'r byd. Cafodd Satan y fantais lawer gwaith o gael rhai gweision ffyddlawn iddo i eistedd ar orseddfainc Dafydd ac i sefydlu eulun-addoliaeth yn Juda a Jerusalem. Drachefn, cyfodai yr Arglwydd brophwydi, ac ambell frenhin fel Hezecia a Josia, i wneuthur rhuthr-gyrch yn erbyn y gelyn, a'i yru yn ol i wledydd tywyllion y cenedloedd, ac i lanhau y wlad oddiwrth ei holl ddodrefn, sef yr eulunod; ond buan iawn yr adnewyddai yr ymgyrch drachefn, yr adgyweirid yr allorau, y llwyni, a'r delwau; nes o'r diwedd, wedi oesoedd o ymdrechiau gorchestol, y rhoddodd Jehofa, mewn ymddangosiad, yr ymdrech

i fynu; ac, yn bytrach na gadael Jerusalem, ei ddinas sanctaidd, i fod yn gyfaneddle i eulunod y cenedloedd, a'r deml, lle y buasai ei enw, ei addoliad, a'i ogoniant yn aros, i fyned at wasanaeth ac yn ysglyfaeth i gythreuliaid, cynhyrfodd yspryd y Caldeaid i ddinystrio a llosgi y ddinas a'r deml a thân. Anfonai y genedl i Babilon am ddeng mlynedd a thriugain, i ganol eulunod, fel y caffai ddigon am byth ar eulun-addoliaeth, ac y llwyr iacheid hi oddiwrth y pla hwn a syrthiasai mor fynych yn ysglyfaeth iddo yn yr yspaid o amser wedi eu dychweliad o'r Aipht hyd y caethgludiad hwn: ac y mae yn deilwng o sylw, na syrthiodd yr Iuddewon byth i eulun-addoliaeth, o'r pryd hwnw hyd y pryd hwn.

Wedi eu dychweliad, buant yn dystion flyddlonach dros eu Duw yn erbyn delw-addoliaeth, nag y buasent erioed o'r blaen. Wedi eu puro fel hyn yn mhair cystudd y caethiwed, eu dychwelyd adref i'w bro eu hun, ac ail adeiladu Jerusalem a'r deml, ac adsefydlu defodau y gwasanaeth dwyfol yn eu plith, gorphenwyd y cyntedd cyntaf o deml gwirionedd datguddiedig, ar ol bod o hono uwchlaw mil o flynyddoedd wedi ei gychwyniad yn Moses cyn ei berffeithiad yn Malachi. Perthynai y 'rhagoriaeth i'r Iuddew,' a deilliai y 'budd o'r enwaediad,' i fod o hono yn ymddiriedolwr ar 'ymadroddion Duw'—yr unig geidwad a goruchwyliwr ar y gwirionedd dwyfol ar y ddaear. 'Y mae efe yn mynegi ei eiriau i Jacob, ei ddeddfau a'i farnedigaethau i Israel: ni wnaeth efe felly ag un genedl,' &c. Wedi gorpheniad tystiolaeth Malachi, a pherffeithiad y rhan gyntaf o'r datguddiad dwyfol, ymadawodd yspryd prophwydoliaeth o'r eglwys, ac ni fu neb mwyach yn llefaru dan ysprydoliaeth anffaeledig am yspaid mwy na phedwar can mlynedd; sef, hyd amser cyflawniad prophwydoliaeth olaf yr hen Destament yn ymddangosiad Ioan Fedyddiwr a Christ. Yn yr ystod maith hwn o ddystawrwydd, pan nad oedd brophwyd mwy yn llefaru dan gynhyrriad ac yn awdurdod ysprydoliaeth dwyfol, aeth Judea ei hunan yn gyffelyb iawn ei drych i wledydd ereill y ddaear, ond yr eithriad o eulun-addoliaeth yn unig. Tyfodd chwyn niweidiol ofergoelion cyfeiliornus i fynu yn llwyni tewyn, nes claddu y gwirionedd yn mron yn llwyr o'r golwg. Ychwanegwyd traddodiadau dynol ato, a chymysgwyd hwynt ag

ef nes ei ddefinio a'i ddirymu bron yn gwbl. Dynion o galonau a bucheddau llygredig a ddygid i fynu yn ysgrifenyddion ac yn esponwyr cyfraith Duw i'r bobl; a chymerent ofal i'w deongli yn y fath fodd ac a atebai eu dybenion, ac a gyfiawnâai eu harferion a'u hegwyddorion halogedig ac uchelgeisiol eu hunain. Fel hyn yr oedd cyfraith a gwirionedd Duw wedi eu gwrthdroi o'u dybenion priodol—eu symledd, eu purdeb, a'u tuedd ymarferol wedi eu hollol gymylu, a hwythau wedi eu traws-gymwyso gan ddyfeisiau calonau cnawdol a llygredig, i fod yn beiriannau trawsder, gorthrymder, twyll, a dichell offeiriadol. Ystwythent Moses a'r prophwydi i ateb eu dymuniadau eu hunain; gwnaent iddynt lefaru yr hyn a ewyllysient; gosodent eu geiriau eu hunain yn eu geneau, a rhoddent esponiadau yn ol eu harchwaeth eu hunain ar eu hymadroddion. Felly, yr oedd gwirionedd bron wedi hollol adael y ddaear, a thwyll a thrawsder agos wedi enill buddugoliaeth a llywodraeth gyffredinol ar y byd. I'w adferu i drefn, yr oedd raid i wirionedd ddisgyn iddo wedi ymgnawdoli, a chymeryd y gwaith i'w law neuillduol ei hun. A hyn oedd swm mawr datguddiad y gyfraith a'r prophwydi—gwirionedd mewn addewidion a phrophwydoliaethau am dano, a chysgodau o hono, oedd sylwedd datguddiad y Testament cyntaf. Am gyflawniad o'r addewidion, y rhagfyngiadau a'r cysgodau hyn, yn ymddangosiad personol gwirionedd a bywyd mewn cnawd, y dysgwyliai ac yr hiraethai yr eglwys gynt. Ac yn wir fe ymddengys bod rhyw rag-ddysgwyliad hiraethlawn gan rai o'r doethion Paganaid am y fath ddysgawdwr. Cynghorai Socrates Alcibiades i oedi ei ebyrth hyd nes y deuai dysgawdwr oddi uchod i'w gyfarwyddo. Dywedai Plato, pan yn llefaru am y fath ddysgawdwr dwyfol, 'y byddai yn angenrheidiol iddo fod yn dlawd ac yn ymddifad o bob gwycheder a rhagoriaethau ond yr eiddo rhiuwedd yn unig; na oddefai y byd drygionus hwn ei athrawiaeth, a'i geryddon; ac, o ganlyniad, y byddai iddo, yn mhen tair neu bedair blynedd wedi iddo ddechreu pregethu, gael ei erlid, ei garcharu, ei fflangellu, ac yn y diwedd ei osod i farwolaeth.' 'Yn yr ymadroddion nodedig uchod,' medd Dr. Harris, 'y gwelwn y doethwr hynod hwn yn cyfodi, wedi cymeryd golygfa alarus ar auwybodaeth dynolryw,

ac yn troi gydag agwedd anobeithiol oddiwrth bob cymhorth dynol, ac eto yn sychedu yn ddwys am wybodaeth o Dduw a rhinwedd a dedwyddwch; hyd nes ydyw ei awydd yn codi i ddymuniad am gynhorthwy nefol, a'i ddymuniad yn aeddfedu i rag-ddysgwyliad, ac hyd yn od i ragfynegiad o'r hyn yr oedd Duw mewn gwirionedd yn bwriadu gyflawni. Hwyrach, yn wir, ein bod yn camsynio drwy beidio cydnabod ysprydoliaeth ddwyfol yn ei ymadroddion. Yn y dymuniad a amlygir yn ei eiriau, gallwn gymeryd yn ganiataol ei fod yn gosod allan deimladau miloedd o galonau, yn amlygu dirgelion cuddiedig aneirif fynwesau. Os ydym ni, y rhai a safwn yn nghanol goleuni yr 'Haul,' yr hwn wedi hyny a gyfododd ar y byd, yn teimlo anhawsderau, ac yn achwyn o blegid ansicrwydd, rai prydiau, pa fath oedd raid bod dymuniadau ac awyddfrydiau y rhai hyny, gyda chraff syniad o'u diffygion, a eisteddent yn y tywyllwch a chysgod angen.*

Yr oedd Moses a'r prophwydi wedi myned yn nwylaw yr Iuddewon yn gyffelyb ag yr oedd goleuni natur wedi myned yn nwylaw y cenhedloedd. Yr oedd yr ysgrifenyddion Iuddewig mor belled oddiwrth iawn ddeall ac iawn ddysgu egwyddorion y gair ysgrifenedig ag oedd y doethion cenhedlig o iawn ddeall ac iawn ddysgu egwyddorion crefydd natur.

'Great Teacher'—p. 3.

PENNOD V.

NODWEDDAU DATGUDDIAD DWYFOL—Y POSIBLRWYDD A'R TE-BYGOLRWYDD Y BUASAI IDDO GAEL EI RODDI—Y DULL Y BYDDAI DEBYCAF O GAEL EI RODDI—Y GALLAI DUW RODDI SICRWYDD I'R PERSONAU A'I DERBYNIENT YN UNIONGYRCHOL MAI EFE A LEFARAI WRTHYNT, A'U HAWDURDŊDI I'W GYHOEDDI I'R BYD YN EI ENW YN Y FATH FODD AG A SYMUDAI BOB SAIL RESYMOL I AMEU DWYFOLDEB EU CENHADWRI—ANFFYDDIAID YN ADDEF Y CYNTAF, OND YN GWADU YR OLAF—BOD Y BIBL YN GYFRYW DDATGUDDIAD DWYFOL—Y PROFION MEWNOL O DDWYFOLDEB YR YSGRYTHYRAU—

Yn gyntaf, Eu cysondeb â llais natur—na all Duw ddywedyd dim yn ei air yn groes i'r hyn a ddatguddia yn ngwaith natur—bod gwirionedd yn berffaith gyson ag ef ei hun yn ei holl ranau—y gall, a bod yn aml, anghysondau ymddangosiadol mewn tystiolaeth wirioneddol gyson—cynnydd gwybodaeth anlanyddol yn egluro dwyfoldeb yr Ysgrythyrau fwy-fwy—dyfyniad o waith y cenhadwr Williams—nad amcan yr Ysgrythyrau ydyw egluro egwyddorion anlanyddol, ond moesol, y greadigaeth—hyny yn rheswm am y dull y llefara am ei gwrthrychau a'r digwyddiadau—Daeargoelaeth (*Geology*)—yr anlanyddion penaf yn gredinwyr yn nwyfoldeb yr Ysgrythyrau—cymhwysiadau.

Yn ail, Dwyfoldeb yr Ysgrythyrau yn cael ei brofi oddiwrth y dystiolaeth sicr a phenderfynol a roddant am anfarwoldeb yr enaid, gwobr a chosp byd arall—mai Iesu Crist a ddaeth a'r athrawiaeth hon i law'n amlygrwydd—y dull y llefara Iesu Crist am y pethau hyn—ei ragoroldeb fel dysgawdwr ar dawb arall—dyfyniad o T. Paine, yr anffyddiad, a sylw arno—na allasai Crist fod yn dywllwr.

Yn drydydd, Dwyfoldeb yr Ysgrythyrau yn cael ei brofi yn inbellach oddiwrth nodwedd y brif athrawiaeth a gynnwysant—mai prynedigaeth y byd drwy aberth ac iawn Crist ydyw yr athrawiaeth hono—dyfyniadau o Abbott—dyeithrwrch a newydd-deb y fath athrawiaeth i'r byd—ei chymhwysder, &c.

Yn bedwerydd, Prawf mewnol o ddwyfoldeb yr Ysgrythyrau—eu hegwyddorion moesol yn eu symledd a'n purdeb—y ddau orchymyn mawr—cariad yw cyflawnder y gyfraith—egwyddorion yr anffyddiaid yn cael eu cyferbynu a'r eiddo yr Ysgrythyrau.

TREFNIANT BOLINGBROKE A VOLNEY YN SYLFAENU RHINWEDD AC IAWN-DREFN AR HUNAN-GARIAD—DYFYNIAD O FFWLER MEWN ATEBIAD I—SYLWADAU YCHWANEGOL—EGWYDDORION HOBBS, A SYLWADAU—ROSSEAU—SYLWADAU CYFFREDINOL—ADDEFIADAU GELYNION Y BIBL O RAGOROLDEB EI EGWYDDORION, &c.&c.

WEDI i ni geisio dangos anhebgorol angen y byd am ddatguddiad goruwch-naturiol oddiwrth Dduw, mewn trefn i'w

adferu o'i gyflwr dyrywiedig a thruenus, yr ydym yn troi ein golwg i ymofyn am y cyfryw ddatguddiad, a ydyw i'w gael— yn mha ddull y rhoddwyd ef—a pha brofion a raid iddo eu dwyn gydag ef, i enill ein cred a'n hymddiried yn ei gywirdeb a'i ddwyfolder? Y mae pob peth a berthyn i'r fath drysor anmhrisiadwy ac a fyddai y cyfryw ddatguddiad i ddynion o'r pwys mwyaf i ymofyn yn eu cylch. Y mae i gynwys doethineb na cheir 'yn nhŷr y rhai byw;' yr hon y mae y dyfnder, y mor, a holl gilfachau natur yn cyd-ddywedyd, 'Nid yw ynom ni:' a'r hon y mae ei chaffaeliad yn well na'r gemau,' ac nad yw 'yr holl bethau dymunol yn gyffelyb iddi.' Cyfrwng i ddatguddio y gwirionedd, i'w drosglwyddo yn ol, megis, i fyd ag yr oedd wedi ffoi allan o hono, a'i adael yn aberth i hudoliaeth ei gelwyddau; i symud ei amheuan a'i ddryswch yn nghylch y pethau mawrion eu pwys ag yr oedd meibion doethineb yn methu eu penderfynu; i.e., i ddwyn i'r golwg bethau newydd a chuddiedig, ag na ddaethai 'i galon dyn erioed' i feddwl am danynt; ac eto yn bethau anhegorol iddo eu gwybod er adferiad ei gyflwr euog—i dastu goleuni ar ei dramwyfa a llewyrch ar ei lwybr, i ddangos iddo ffordd dealltwriaeth, a'i dywys yn ol i deml gwirionedd, anfarwoldeb, a dedwyddwch.

'Y gall Duw,' medd Leland, 'os ewyllysia, roddi datguddiad o hono ei hun a'i ewyllys i ddynion mewn ffordd anghyffredin a gwahanol i'r hyn a gânt hwy eu hunain allan drwy ymarferiad naturiol yn unig o'u cynheddfau a'u galluoedd rhesymol, sydd yn ymddangos mor naturiol i mi, fel na allaf wybod pa fodd y gall un dyn, ag sydd yn credu bod Duw a rhagluniaeth, ei wadu gydag un math o resymoldeb. Oblegid os ydyw gallu Duw yn anfeidrol, rhaid iddo gynwys pob peth a'r nad ydyw yn anghysondeb; yr hyn nid yw yn dyfod i mewn i'r achos hwn. Ni allwn lawn egluro ffynhonell wreiddiol ein drychfeddyliau, neu y modd y maent yn cael eu cynhyrfu neu eu hargraffu ar y meddwl dynol—ond, gwyddom fod y moddau hyn yn dra amrywiol. Ac a ellir tybied na all awdwr ein natur gyflwyno drych-feddyliau i ni er ein haddysg a'n hyfforddiad yn y pethau a berthyanant i ni, ag y mae o bwys i ni eu gwybod? Nid ydyw ein bod ni yn analluog i lawn egluro y modd y gwneir hyn yn un prawf teg

yn ei erbyn. Y mae genym gydnabyddiaeth ysgrifenydd medrus, ac un o radd uchel yn mysg gwrthwynebwyd crefydd ddatguddiedig, ar y mater hwn. Sylwa Arglwydd Bolingbroke 'Nad yw gweithrediad goruwch-naturiol o eiddo Duw ar y meddwl dynol, yr hwn yr arferir y gair ysprydoliaeth yn awr i'w osod allan, yn fwy annirnadwy na gweithrediad cyffredinol meddwl ar gorph, neu gorph ar feddwl; ac y mae yn haerllugrwydd i wadu bodoliaeth unrhyw beth, yn unig o herwydd na allwn roddi cyfrif am dano.'

Nid oes neb o wadwyd dwyfoldeb yr Ysgrhythrau, hyd y gwn i, wedi bod mor hyf, er cymaint eu hyfdra, a cheisio haeru ei fod yn anmhosibl i Dduw roddi amlygiad goruwch-naturiol ac anghyffredinol o hono ei hun a'i ewyllys i ddynion: ond addefa y rhan fwyaf o honynt, gydag Arglwydd Bolingbroke, ei fod yn beth dichonadwy, er yr ymdrechant yn egniol i geisio profi na roddwyd erioed y fath ddatguddiad.

Yn awr, gallem osod i lawr dair neu bedair o ystyriaethau ar y mater.

Yn mlaenaf, Y mae *angen* anwadadwy ar y byd am y fath ddatguddiad—dymuniant yr holl genhedloedd a fyddai.

Yn nesaf, *Gall* Duw ei roddi—hyn eto nis gellid ei wadu gydag un math o reswm a chysondeb, heb wadu Duw a'i lywodraeth.

Drachefn, Nid oes dim yn anheilwng o Dduw yn y dybiaeth y gwna roddi y cyfryw ddatguddiad o hono ei hunan a'i ewyllys i ddynion.

Yn olaf, A chymeryd yr holl ystyriaethau blaenorol yn nghyd, y mae sail i ddisgwyliad hyderus y *rhydd* efe ef, neu ddarfod iddo ei roddi.

Gallem feddwl hefyd y byddai raid iddo gael ei gyflwyno mewn un o ddwy ffordd, naill ai i bob dyn yn bersonol ar ei ben ei hun, neu i ryw bersonau neullduol i'w draddodi gydag awdurdod ddwyfol i'r byd. Yn ol y dybiaeth flaenaf, buasai raid i bob dyn dderbyn ysprydoliaeth anffaeledig—ni buasai dim anghyffredinol ynddo—buasai raid i'r datguddiad hwn fod mor gyffredin a goleuni natur. Eglur yw na thraddodwyd ef yn y dull hwn; oblegid, fel y dywed Leland, 'Pe buasai pob dyn wedi ei gynhysgaeddu â gwybodaeth ysprydoledig o grefydd mewn ffordd uniongyrchol ac anffael-

edig, ni buasai yn bosibl iddi ddygwydd bod y rhan fwyaf o ddynolryw, yn yr holl oesau, wedi eu cau mewn tywyllwch a chyfeiliornad, ac wedi syrthio i anwybodaeth ddofn o wir grefydd, ac i'r ofergoelion a'r eulun-addoliaeth ffieiddiaf. O ganlyniad, os oes y fath beth a chrefydd ddatguddiedig—os rhyngodd bodd i Dduw wneuthur amlygiadau o'i ewyllys i ddynolryw mewn perthynas i grefydd a dyledswydd, mewn modd goruwch-naturiol, y ffordd fwyaf naturiol, a'r hon sydd yn fwyaf cymhwysiadol at sefyllfa bresenol dynolryw, fe ymddengys, fyddai hon—Bod i'r datguddiad gael ei wneuthur i ryw berson neu bersonau, i gael ei amlygu i eraill ganddynt hwy yn ei enw ef; gan eu cynhysgaeddu ar yr un pryd a phroffion a thystiolaethau digonol i ddangos eu bod wedi eu hysprydoli a'u hanfon ganddo ef, a bod yr athrawiaethau a'r deddfau a gyhoeddant i'r byd yn ei enw wedi deilliaw mewn gwirionedd oddiwrtho ef. Oblegid, yn y modd hwn y mae prawf digonol yn cael ei roddi i foddioni meddyliau diragfarn, a darpariaeth yn cael ei chyfleu er addysgu dynion mewn gwybodaeth o grefydd, a'u rhwymo i ymarferiad o'r dyledswyddau a ofyna: ac ar yr un pryd y mae lle yn cael ei adael i weithrediad rheswm mewn ymchwil ac ymfyniad yn nghylch natur y dystiolaeth, ac i brofi cywirdeb a pharodrwydd dynion i garu a derbyn y gwirionedd.'

. Yr oedd yn llwyr angenrheidiol i'r personau a dderbynient ddatguddiad uniongyrch oddiwrth Dduw, i gael llawn sicrwydd ynddynt eu hunain o'i ddeilliad dwyfol; na buasai ganddynt y lle na'r rheswm lleiaf i betruso yn nghylch pa un ai ysprydoliaeth Duw ai rhyw ysprydoliaeth arall a'u cynhyrfai: heb y sicrwydd hwn, ni allsent roddi cred na hyder eu hunain yn y datguddiedigaethau hyny. Y mae y cyfryw sicrwydd o angenrheidrwydd yn beth i ganlyn y datguddiad, i'r holl bersonau y gwneir ef: ac eglur yw, fod yr un môr bosibliddo gyflwyno y sicrwydd hwn i'r meddwl, mai efe fyddai yn llefaru, a throsglwyddo y meddwl, neu y peth a leferid ei hunan. Gall y naill ddyn roddi y fath sicrwydd i'r llall; ac oni all y Creawdwr roddi i'r creadur lawn sicrwydd meddwl mai efe ac nid neb arall a lefara wrtho? Caniata anffyddwyr y gosodiad hwn eto; ond hyd yma, ac nid yn mhellach, y daw rhai o honynt. Hwya wadant y gosodiad sydd yn canlyn,

sef, Y gall Duw awdurdodi y personau hyny, y rhoddo efe ddatguddiad goruwch-naturiol o'i feddwl iddynt, i'w gyhoeddi i ereill yn y fath fodd ac a roddo sicrwydd iddynt hwythau hefyd fod y genadwri yn ddwyfol. Addefant, fely sylwyd, y gall Duw amlygu ei feddwl mewn modd goruwch-naturiol i ddynion—y gall wneyd yn amlwg i'r dynion hyny eu hunain mai efe a lefarai wrthynt, neu a roddai ddatguddiad iddynt; ond haerant bod yn anmhosibl i'r sicrwydd hwn gyrhaedd yn mhellach na'r personau hyny a dderbynient y datguddiad yn uniongyrchol oddiwrth Dduw: felly, ni allai y datguddiad fod yn ddaioni cyffredinol, nag o wir werth i'r byd, wedi y cwbl: rhaid iddo aros mewn petrusder ac amheuaeth fyth.

Un o gampwyr anffyddiaeth a addefa gymaint a hyn, 'Pan y byddo dynion wedi syrthio i ddwfn anwybodaeth a cham-syniad, ac wedi myned yn llygredig iawn yn eu serchiadau a'u nwydau, gall Duw, o ran dim a allaf fi ei weled i'r gwrthwyneb, gyfryngu yn dirion drwy gymhwysiad neullduol o'i allu a'i ragluniaeth, a datguddio i ddynion y fath wirioneddau defnyddiol ag y buasant heb hyny yn anhysbys o honynt, neu heb dalu sylw iddynt: a gosod hefyd y fath reolau buchedd ger eu bronau ac y dylent rodio wrthynt; ac yn mhellach, wasgu ufudd-dod arnynt drwy gymhelliadau priodol, fel ag i'w harwain i edifeirwch a diwygiad. Ond,' medd efe wedi hyny, 'a ydyw y peth felly—a pha bryd y gwneir hyny—a fydd o angenrheidrwydd natur y peth, yn fater amheuaeth a dadl. Yn mha ffordd bynag,' medd efe drachefn, 'y cyflwyna Duw wybodaeth i ddynion, rhaid y bydd bob amser yn beth amheus ac ansicr pa un a fydd y datguddiad yn ddwyfol ai ni bydd: ac ni allwn gael un reol i farnu neu i wahaniaethu rhwng gwir ddatguddiad dwyfol a thwyll.'

Y mae yr ymadroddion yn cynnwys cystal ag addefiad bod angen ar ddynolryw am ddatguddiad goruwch-naturiol, ac y gall Duw roddi y cyfryw ddatguddiad iddynt; ond ar yr un pryd na all roddi iddynt hysbysiaeth ddigonol ei fod yn ei roddi: o ganlyniad, y mae yma osod terfyn i hollalluogrwydd a doethineb yr Anfeidrol gan ei greadur, a chystal a dywedyd wrtho na all, gwnaed a fyno, fyned tros y terfyn gosodedig hwn; ac na waeth iddo gadw ei feddwliddo ei hun, er y gallai

ewyllysio ei ddatguddio, gan na all ei amlygu yn y fath fodd ac y gallai dynion fod yn sicr o'i ddeilliad oddiwrtho.

Ai ni fyddai yn rhesymol i dybied y dygai y fath ddatguddiad oddiwrth Dduw brawf hunan-gymhelliadol i gydwybod pob un a'i clywai ac a'i hystyriai ei fod wedi deilliaw oddiwrtho—y byddai o'r fath nodwedd o ran ei gynwysiad, o'r fath arucheledd o ran ei egwyddorion, ac y byddai cymeriad cyffredinol ei dystiolaethau o'r fath, a ragorai gymaint ar bob peth o eiddo dyfais a dychymyg ddynol, ac a rwymai bob calon agored i dderbyn argyoeddiad i dori allan uwch ei ben, 'Gwir eiriau Duw yw y rhai hyn.' Oni ellid disgwyl i feddyliau Duw fod gymaint uwchlaw meddyliau dyn ag ydyw 'y nefoedd uwchlaw y ddaear,' ac y byddai cynwysiad y datguddiad ynddo ei hun yn ddigonol brawf o'i darddiad dwyfol? Ac, heblaw hyny, ai ni allai awdwr a llywodraethwr mawr natur awdurdodi y personau y rhoddai y datguddiad iddynt, i gyflawni gwyrthiau, a rhyfeddodau, ac arwyddion nerthol, i fod yn brofion digonol a dïymwad o'u bod yn llefaru ei eiriau a'i feddwl ef wrth eu cyd-ddynion? Pwy a all wadu neu ameu hyn, ac ar yr un pryd addef hollalluogrwydd y Duwdod? Ond, gan fod y profion i'w hystyried mewn lle arall, wrth fyned yn mlaen, gadewir y mater ar hyn yn y lle yma.

Ystyriaeth arall berthynol i'r achos hwn, a ragnodwyd, ydoedd, Nad ydyw y dyb y bydd neu ddarfod i Dduw roddi datguddiad goruwch-naturiol o hono ei hun a'i ewyllys i ddynion yn cynwys ynddi ddim ag sydd yn anheilwng o Dduw—nid yn unig y *gall* ei roddi, ond y *gall* ei roddi heb fod hyny yn un darostyngiad iddo. Pe byddai i dalaeth berthynol i unrhyw deyrnas godi mewn gwrthryfel yn erbyn y brenhin a'r llywodraeth, ni byddai dim yn anheilwng i nodwedd ac urddas y brenhin yn ei waith yn anfon cenhadau ac yn arfer moddion i'w hadferu yn ol i ufudd-dod, eu galwa'u cymhell i barchu ac ymostwng i'r cyfreithiau, yn hytrach nag anfon byddinoedd i'w dinystrio yn eu gwrthryfel; ond, byddai hyny yn fwy o ogoniant ac o glod iddo. Talaeth wrthryfelgar yn llywodraeth foesol Duw ydyw y ddaear; ac os oedd yn weithred deilwng o Dduw iddo greu dyn yn greadur rhesymol ac anfarwol, yr oedd yr un mor deilwng o

hono i ddal llywodraeth foesol dros ei feddwl a'i ymddygiad—gosod deddf a-rheol iddo i ymagweddu yn ei hol. Ac os ydyw y pethau hyn yn deilwng o hono, byddai drachefn yr un mor deilwng o hono i arfer moddion i'w adferu yn ol i ufudd-dod, wedi iddo droseddu a gwrthryfelu i'w erbyn. A chan ei bod yn ffaith anwadadwy, bod y byd 'wedi ymddy-eithro oddiwrth fuchedd Dduw,' a chan fod hir-amynedd Duw yn cael ei arddangos tuag ato yn ei arbediad, heb weinyddu mewn cyfiawnder tuag ato yn ol ei haeddiant, y mae sail gref i dybied bod ganddo 'feddyliau o heddwch, ac nid niwed,' tuag ato; bod ganddo fwriad i arfer moddion i'w ddychwelyd a'i adfer o'i drueni: a chan fod datguddiad goruwch-naturiol o hono ei hunan a'i gynghor yn anheborol angenrheidiol er ei ddychweliad a'i adferiad, y bydd iddo gael, neu ei fod wedi cael ei roddi. Eilwaith, os ydyw y cyfryw ddatguddiad byth i gael ei roddi i'r byd, rhaid i ni gredu ei fod wedi ei roddi. Ni byddai yn deilwng o ddoethineb a daioni Duw i dybied ei fod wedi gadael i gynnifer o oesau a chenhedlaethau fyned heibio—mwy na haner oes y byd, ond odid, i basio heibio mewn tywyllwch ac anwybodaeth—cyn gwneuthur o hono y fath gymwynas werthfawr iddo. Rhaid i ni, gan hyny, gymeryd yn ganiatâol fod y datguddiad yma wedi ei roddi, neu ynte na roddir byth mohono.

Yn awr, os rhoddwyd ef, yr ymfyniad pwysfawr ydyw, Pa le y mae? Pa un ydyw? Casgler holl lyfrau y byd yn nghyd at'eu gilydd, megis y galwodd Jesse ei feibion i sefyll ger bron Samuel, fel y caffer gwybod pa un ydyw enei niog yr Arglwydd! Cyrcher holl lyfrau doethineb yr Aipht, Caldea, Groeg, Rhufain, China, ac India—gelwch yn mlaen Alcoran—prophwyd Meca—a Shaster, offeiriad Hindwstan—Ha, nac edrychwch ar eu 'taldra, nag ar uchder eu corpholaeth;' y mae twyll eu honiadau o ddwyfoder yn argraffedig ar bob tudalen. Gosodwch holl ysgrifeniadau doethion Groeg yn nghyd yn bentwr—ni lefarodd yr Arglwydd hwn chwaith. Dyger y cwbl oll i'r prawf—'Ni lefarodd yr Arglwydd yr un o'r rhai hyn.' Ha! fyd tlawd!—Ai dyma dy holl ddysgawdwy? Ai nid oes i ti arweinydd o'r holl feibion a feigaist? Ai nid oes a 'ymeifl yn dy law' o'r holl blant a feithrinaist? 'Mae eto un'—anfoner am dano—galwer ef

ger bron; y mae yn wrthrych mwy o ddirmyg a dygasedd nag un llyfr arall; y mae rhan helaeth o ddoniau, dysgeidiaeth, a chyfrwysedd y byd wedi eu troi yn saethau a phicellau i'w hergydio ato: ond, 'Cyfod, eneinia, canys dyma efe.' Os oes llyfr ar y ddaear wedi deilliaw oddiwrth Dduw, yn cynwys ei feddwl a'i ewyllys, y Bibl yw hwnw. Ond, os gellir profi mai twyllwr yw hwn hefyd, yna, yn iach byth i'r byd am un gobaith o ymward, na llewyrch o oleuni ar ei gyflwr yn dragywydd.

DOSP. II.

Gosodwyd i lawr yn y dosparth blaenorol luaws o haeriadau, na chynhygiwyd eu profi a'u cyfnerthu gyda manylwch: rhai o honynt a brofesid yn y bennod o'r blaen, ac amcenir profi y lleill wrth fyned yn mlaen. Dangoswyd mai yr ymofyniad cyntaf mewn perthynas i ddatguddiad goruwch-naturiol oddiwrth Dduw, ydyw, 'A oes angen amdano? A ydyw cyflwr y byd yn sefyll mewn eisiau anhebgor o hono?' Hyn a brofwyd i foddlonrwydd y darlennydd, hyderwn: yn wir y mae yn hunan-brofedig yn mhob mynwes. Yr haeriad nesaf a ddylyna ydyw, 'Y *gall* Duw roddi y cyfryw ddatguddiad i ddynion, gyda sicrwydd dïymod i feddyliau y personau a ysprydolid ganddo fel llestri i'w dderbyn, mai Efe, ac nid neb arall, a fyddai yn llefaru wrthynt, yn dangos iddynt, neu ynte yn eu cynhyrfu hwy i lefaru neu ysgrifenu; a'u hawdurdodi i gyhoeddi y pethau hyny i ereill hefyd yn y fath fodd ac a ddygai sicrwydd iddynt hwythau, neu a roddai iddynt brofion digonol i symud pob rheswm i ameu dwyfoldeb eu cenhadwraeth a'u cenhadwri.' Gosodwyd ystyriaeth neu ddwy mewn ffordd o eglurhad ar hyn, a dygir y profion yn mlaen eto. Gosodiad arall ydoedd, 'Nad oes dim anheilwng o Dduw yn y dybiaeth fod iddo roddi datguddiad goruwch-naturiol o egwyddorion crefydd a dyledswydd i ddynion; ond yn hytrach y byddai trwy hyn yn gogoneddu goludoedd ei ddoethineb a'i rasol gymwynasgarwch; ac felly, bod sail i ddysgwyliad hyderus am y fath 'roddiad perffaith a daionus.

oddiwrtho.' A thrachefn, 'Os ydyw y fath ddatguddiad anghyffredinol wedi ei roddi i'r byd, mai y Bibl, Ysgrythyrau yr hen Destament a'r newydd, a raid ei fod : ac os gwrthodir hwn, mai ofer ydyw myned i ymofyn na dysgwyl am un arall. Ein gwaith, bellach, fydd dwyn yn mlaen ychydig, allan o'r llawer, o brofion o ddwyfoldeb yr Ysgrythyrau. Safwn yn unig ar y rhai hynny a orweddant yn fwyaf naturiol ar y rhan flaenorol o'r gwaith hwn.

I. Profir dwyfoldeb yr Ysgrythyrau oddiwrth eu cysondeb â natur, a'r eglurhad moesol a roddant ar ei gweithredoedd a'i goruchwyliaethau.

II. Y llefarant gyda sicrwydd ac eglurdeb am y pethau pwysig ac angenrheidiol i ddynolryw i *gael* y fath dystiolaeth am danynt, ag yr oedd dryswch ac amheuaeth yn eu cylch, er pob ymdrech o eiddo rheswm a doethineb ddynol i'w cael allan.

III. Y datguddiant dystiolaethau o'r fath nodwedd wahanol i bob peth a ddygwyd ger bron y byd gan ei ddoethion a'i ddysgawdwyd; sef, trefn i adferu dyn euog a llygredig drwy aberth ac iawn Mab Duw—trwy hyn yr amlygant y prif beth angenrheidiol, ac y symudir y dryswch mawr ag oedd yn aros ar ffordd iachawdwriaeth a dedwyddwch dyn.

IV. Symledd a phurdeb yr egwyddorion moesol a ddysgant ac a gymhellant, a'u rhagoroldeb ar bob rhyw drefniant arall o foesoldeb a gynhygiwyd i'r byd.

V. Y mae y nerthoedd a'r rhyfeddodau a amlygwyd yn y gwyrthiau a gyflawnwyd mewn cysylltiad a'u cyhoeddiad i'r byd yn brofion cedyrn a chyhoeddus o'u dwyfolder.

VI. Eu buddugoliaeth ar eulun-addoliaeth, rhagfarnau, a llygredigaethau y byd.

I. Rhaid y bydd datguddiad oddiwrth Dduw yn berffaith gyson a llais eglur natur a rheswm, yn yr hyn oll a draetha am y pethau y dwg hithau dystiolaeth am danynt. Rhaid ei *gael* yn un-farn un-llais a natur ar bob mater a drina, ag y sydd yn cael ei amlygu a'i ddatguddio ganddi hi. Digon o reswm i wrthod unrhyw beth a hōnai ddwyfoldeb, fyddai cael allan ei fod yn gwrthddywedyd llais eglur natur : byddai un esiampl o hyn yn ddigon i'w gondemnio am byth; oblegid, byddai yn dybiaeth anheilwng ac isel am Dduw i ganiatau

bod yn bosibl iddo ddywedyd un peth yn y lle hwn, a dywedyd peth cwbl groes iddo mewn lle arall. Efe ydyw awdwr natur, a'i leferydd ef yw lleferydd natur, a rhaid i'r hyn a'hóna ei fod yn cynwys datguddiad o feddwl ac ewyllys Duw natur, fod mewn perffaith gysondeb a chydgoradiad a'i hiaith hi. Hi a ddengys ac a esyd allan fawredd a gogoniant ei hawdwr; neu yn hytrach amlyga efe ei fawredd a'i ogoniant, ei 'drag'wyddol allu a'i Dduwdod' drwyddi hi—gwna i'w holl elfenau a'i chreaduriaid i dystiolaethu am dano, a rhoddi gwybodaeth o hono. Rhaid i'r dystiolaeth hon fod yn un berffaith gywir a didwyll, cyn belled ac y cyrhaedda: yr hyn a ellir ei wybod am weithydd oddiwrth ei waith ydyw; am ddyfais, doethineb, gallu, a medr peiriannydd oddiwrth y peiriant a luniai; hyny yw, mor belled ag yr ydym ni yn alluog i ddeall y gwaith, i ddirnad offerynau a dybenion y peiriant. Gall peiriant gynwys amlygiadau llawer helaethach o gywrein-ddyfais a doethineb ei gynlluniwr, nag a fyddo yr edrychwyr arno yn alluog i'w canfod a'u gwerthfawrogi; oblegid na byddont yn llawn ddeall ac yn amgyffred ei holl ranau, yn dirnad ei wahanol gysylltiadau a'i offerynau, eu gwasanaethgarwch y naill i'r llall, a'u cydgysylltiad a'u gilydd fel cynnifer o aelodau i wneuthur i fynu gorph y peiriant, a gwasanaethgarwch neullduol pob rhan er ateb yr un dyben. Cymaint a welont o harddwch a threfnusrwydd yn ngwneuthuriad y peiriant ac mor belled y gallont ganfod ei briodoldeb i ateb yr amcan mewn golwg gan ei ddyfeisydd, cymaint a hyny a fydd ganddynt o adnabyddiaeth o nodwedd a theilyngdod yr awdwr. Edrychwyr fel hyn ydym ni ar waith y Duwdod: yr ydym yn edrych ar beiriant mawr natur, yn canfod aneirif ranau ac olwynion ynddo, oll yn troi ac yn gweithio—y mae rhanau o hono allan o gyrhaeddiad ein golygon; a'r rhanau sydd o fewn cyrhaedd ein sylw a gynwysant ddirgel-edigaethau doethineb fel ag y mae y naill oes ar ol y llall yn dwyn allan o'u trysorau bethau newydd yn barhaus; fel ag y mae natur yn parhau yn ffynhonell ddiyspydd gwybodaeth, i gyflwyno addysgiadau am fawredd, doethineb a daioni Duw. Y mae y greadigaeth yn gyfrol fawr o wirioneddau dwyfol, neu o wirioneddau am Dduw. Yr oll a lefara ac a ddysgysydd wiredd pur a digymysg; oblegid nid yw amgen na noeth

amlygiad o ffeithiau, neu, ffeithiau yn llefaru drostynt eu hunain—priodoliaethau y Duwdod yn cael eu gweithio allan i olwg, a'u cymhell i sylw y creadur rhesymol. Yn awr, rhaid i'r hyn a gynhygier fel datguddiad goruwch-naturiol oddiwrth Dduw fod yn hollol gyson a thystiolaeth a rydd y datguddiad naturiol am dano ef a'i briodoliaethau, ac am bob peth arall ag y mae natur yn dystiolaethu yn ei gylch; neu, rhaid ei wrthod fel twyll a ffalsedd. Gwyddom mai Duw ydyw awdwr natur, ac na allai efe roddi y datguddiad hwnw, a gynwysai ynddo wrth-ddywediad i'r hyn a gyhoeddasai o'r blaen mewn lle arall: felly, byddai y naill yn milwrio yn erbyn y llall—teyrnas wedi ymranu yn ei herbyn ei hun—dau ddatguddiad yn milwrio yn erbyn eu gilydd; a nodwedd Duw yn cael ei osod allan mewn goleu tra anffafriol ger bron deiliaid ei lywodraeth foesol.

Gosodwn ddwy neu dair o ystyriaethau yn y fan hon eto, cyn gadael y mater hwn.

Iaf, Rhaid i ni ystyried bod yr hyn oll a ddywedo Duw, ac a ddeillia oddiwrtho, yn wirionedd. Meddwl y gallai ddywedyd anwiredd a thwylo, a ddinystriai bob hyder ynddo a pharch iddo yn ein mynwesau. Y mae dyn neu angel celwyddog a thwyllodrus yn adyn digymeriad ac adgas; ond Duw felly a fyddai yn anfeidrol fwy i'w arswydo a dychrynu rhagddo. Pe meddylid am fawredd ei weithredoedd, he-laethrwydd ei lywodraeth, lluosogrwydd aneirif ei greaduriaid rhesymol, ag ydynt oll yn ddybydol arno fel eu Cynhalydd, yn ddeiliaid iddo fel eu Brenhin, yn dysgwyl wrtho am eu dedwyddwch a'u happusrwydd. Ymddengys ei nodwedd o anfeidrol werth yn y llywodraeth, ei fod yn gyfryw ag y gellir ymddiried ynddo—yn un na all fod yn gelwyddog—ei fod yn Dduw'r gwirionedd, ac heb anwiredd. Dinystrier neu wanhâer yr hyder hwn, a dyna ysigfa ar unwaith i holl lywodraeth Duw. Rhyw oruchwyliaeth tuag at ryw dalaeth o'r ymerodraeth, a fyddai yn dwyn nodau o ymddygiad ffuantus a thwyllodrus; rhyw dystiolaeth neu ddatganiad anghyson a gwirionedd adnabyddus a datguddiedig o'r blaen, a ddinystriai yr hyder yn mhurdeb ei nodwedd a geirwiredd ei dystiolaethau, yn mynwesau yr holl rai y byddai y peth yn adnabyddus iddynt, a'i gwnelai yn ddibarch yn nheimladau

dyfnaf eu calonau, a roddai gefnogaeth effeithiol i gelwydd a thwyll yn mysg ei ddeiliaid, ac a roddai iddynt reswm teg dros wrthryfelu i'w erbyn ac anufuddhau i'w gyfreithiau. Oddi yma y tardd bod cymaint o ofal yn cael ei gymeryd yn yr Ysgrythyrau i osod allan ei nodwedd fel Duw y gwirionedd—nad 'dyn ydyw i ddywedyd celwydd, na mab dyn i edifarhau—na all efe fod yn gelwyddog'—mai 'Duw y gwirionedd ac heb anwiredd ydyw'—ei fod yn ffeiddio anwiredd a thwyll, &c. Gosodir ei nodwedd gyda golwg ar hyn uwchlaw pob amheuaeth, drwy ddangos, nid yn unig na all fod yn gelwyddog nag ymddwyn yn ffuantus a thwyllodrus ei hun, ond na all oddef anwiredd yn un o luestai ei lywodraeth fawr heb ei ffeiddio a'i gospi.

2il, Rhaid bod perffaith gyd-darawiad rhwng gwirionedd a'i gilydd yn ei holl ranau. Ni all y fath beth fod ag i'r naill wirionedd groesi y llall. Gall y naill gelwydd, ac y mae yn fynych yn gwrthdaro yn erbyn un arall; ond unfurf yw gwirionedd, ei holl ranau mewn heddwach a'u gilydd, ac yn cadarnhau y naill y llall. Ni ddatguddia natur un gwirionedd, a'r Bibl wirionedd arall croes iddo—hyny sydd amhosibl.

3ydd, Y gellir cyfarfod ag anghysonderau ymddangosiadol mewn tystiolaeth wirioneddol, a chyfarfod hefyd yn fynych a'r cyfryw beth, er y bydd perffaith gysondeb yn hanfodi ar yr un pryd. Y mae felly yn yr achos hwn—anghysonderau ymddangosiadol rhwng yr Ysgrythyrau a natur; a'r rhai hyny wedi cael ymaflyd ynddynt gydag awydd gwancus gan elynion crefydd ddatguddiedig, i wneuthur eu goreu a'u gwaethaf o honynt, er ceisio dirymu awdurdod ddwyfol yr Ysgrythyrau. Ond, er galw holl rym dysg, dichell, cyfrwysedd, twyll, a malais, at y gwaith, methodd yr ymgais. Y mae gelynion y Bibl wedi esgyn i'r nefoedd i chwilio am brofion yn mysg y sêr a'r planedau yn erbyn y llyfr a gasânt—y maent wedi bod am oesau yn diwyd gloddio i ymysgaroedd y ddaear, gan astudio Daeargoledd (*Geology*) i edrych a fedrant gael gan y ddaear godi yn dyst yn erbyn yr Ysgrythyrau—gwnant eu heithaf o bob ymddangosiad bychan o anghysonedd a fedrant gael gafael arno: ond, wedi oesoedd o ymdrech, pa mor afwyddiannus! Gair ein Duw ni a saif byth, gan watwar eu cynddaredd. Pa fwyaf a geir allan o

wybodaeth naturiol, mwyaf i gyd a welir o gysondeb natur a'r Bibl a'u gilydd. Pa uchaf yr ymgodo yr astronomydd mewn gwybodaeth o'r bydoedd uchod—pa ddyfnaf y treiddio y daeargoelydd (*geologist*) i gilfachau y bellen isod—dysgyna y naill i lawr o'r uchelder, ac esgyna y llall i fynu o'r dyfnder, a phroffion ychwanegol gan bob un mai y Duw a wnaeth y nefoedd a'r ddaear a lefarodd yr Ysgrythyrau hefyd; gan fod mwy o'u cysondeb a'u gilydd i'w weled o hyd, fel y cynhydda gwybodaeth o'r celfyddydau.

Gyda mawr hyfrydwch yr ydwyf yn cyfleu ger bron y darlennydd, yn y fan hon, y sylwadau canlynol o eiddo yr enwog genhadwr, y Parch. J. Williams, o Ynysoedd Môr y Deheu.

'Y gwrthrych mawr, er mwyn yr hwn y dylid ymofyn am bob gwybodaeth, ac y dylid ei defnyddio hefyd, ydyw, i egluro a gosod allan ddoethineb a daioni y Creawdwr mawr a haelionus. Ac os deurn i fyfyrion gwrthrychau natur, gyda meddyliau heb eu crebychu gan amheugarwch ac anffyddiaeth, arweinir ni i fyfyrdodau crefyddol gogoneddus; a pha un bynag a wnelom ai sylwi ar yr ednogyn bychan ai ar fwystfil cawrfilaidd y goedwig; pa un bynag a wnelom ai syllu ar y fagïen (*glow-worm*) a belydra ar ochr y clawdd, ynte ar oleuadau mawrion y nefoedd yn cyflawni eu chwyldroion appwyntiedig mewn dystawrwydd mawreddig yn nghanol ängander diderfynau; cynhyfir ni i dori allan gyda Dafydd, 'Mor lluosog yw dy weithredoedd, O Arglwydd! Gwnaethost hwy oll mewn doethineb.'

'Yn ein holl ymchwiliadau am wybodaeth, y mae yn angerheidiol i'r meddwl gael ei sefydlu yn gadarn mewn dau beth—y grediniaeth o weithrediad gallu dwyfol yn y greadigaeth, ac yn awdurdod ddwyfol yr Ysgrythyrau sanctaidd; gan feddu llawn argyoeiddiad o wirionedd y ffeithiau a gofnodir a chywirdeb yr egwyddorion a osodir i lawr. Heb hyn, arweinir ein meddyliau i dîr tywyllwch a dirgelwch, yn lle eu codi i fynu at Dad goleuni a bywyd.

'Gyda'r egwyddorion hyn fel ein balastr, gallwn, heb ofni perygl, hwylio ein llestr bychan allan i gefnfôr äng y celfyddydau, gan chwilio ei lanau a phlymio ei ddyfnderau; ond hebddynt, bydd ein llong mewn tymhestl barhaus, yn nghanol creigiau a thraethydd, heb na llyw, na chwmpas, na chyfarwyddlen.

H

'Wedi eich rhagbarotoi fel hyn, gellwch ganlyn y daeargoelydd i ymysgaroedd y ddaear, a chwilio allan ddull rhyfeddol ei gosodiad; a chwi a ddychwelwch wedi eich llawn argyoeiddi mai y 'Duw trag'wyddol a wnaeth y ddaear, ac mai ei eiddo ef ydyw ei cholofnau, ac iddo osod y byd arnynt.' Gellwch esgyn i'r ffurfafen gyda'r seryddwr, ac edrych gyda hyfrydwch ar symudiadau y cyrph nefol, a thorwch allan gyda y Salmydd celfyddgar, 'Y nefoedd sydd yn datgan gogoniant Duw, a'r ffurfafen sydd yn mynegi gwaith ei ddwyllaw ef.' Gellwch, gyda'r morwr, ymweled a gwledydd pellenig, a gweled dyn yn holl amrywiaethau ei nodwedd, ac argyoeddir chwi ddarfod i 'Dduw o un gwaed wneyd pob cenedl o ddynion i breswyllo ar holl wyneb y ddaear.' Ac fel hyn, yn mhob oes, y mae y tystiolaethau o blaid crefydd ddatguddiedig yn amlhau gyda chynnydd gwir wybodaeth. Ac yn wir, ni all ond bod felly; oblegid, Duw natur, gweithredoedd yr hwn sydd gan gelfyddyd i'w chwilio a'u cael allan, ydyw Duw y Bibl: ac, fel Duw y gwirionedd, ni all efe osod allan yn ei air egwyddorion gwrthwynebol i'r rhai, fel Duw natur, a sefydlaasai efe o'r blaen yn y byd defnyddiol (*material world*). Y ddwy drefniant yma o wybodaeth, yn tarddu fel hyn o'r un ffynhonell, a raid fod mewn perffaith gysondeb a'u gilydd. Y mae y Bibl yn argraffiad newydd o lyfr natur, megis, gydag atddodiad ardderchog, yr hwn sydd yn datguddio dyfais ogoneddus prynedigaeth dyn. Os oes unrhyw anghysonderau ymddangosiadol yn y ddau argraffiad hyn o'r un gwaith mawr yma, y maent yn cyfodi oddiar ein hanallu ni i ddëall yn gywir y llythyrenau a arferir.*

Rhaid i ni ddal mewn cof hefyd, er fod y Bibl yn mynych gyfeirio llygaid ei ddarlleneydd at waith natur, yn mynych sôn am ei gwrthrychau; a bod nodau cyfeiriol megis o hono iddi hi, i ddangos profion o lawer o wirioneddau; rhaid i ni gofio, meddaf, nad amcan y Bibl ydyw egluro egwyddorion natur—nid ei ddyben yw ein gwneyd yn seryddwyr neu anianyddion; ac felly, ni chymer arno egluro egwyddorion y celfyddydau hyn i ni. Ond, ei amcan ydyw gwneyd dyn yn

* 'Missionary Enterprises in the South Sea Islands,' by the Rev. J. Williams of the London Missionary Society.—p. 21, 22.

ddoeth i iachawdwriaeth; ei adferu yn ol at Dduw: o ganlyniad, pan lefara am natur a'i gwrthrychau, y mae yn llefaru yn ol y dull cyffredin, ac nid yr un celfydddar; fel y mae y pethau yn ymddangos i olwg dynion, ac fel y llefara dynion cyffredin am danynt, a dynion celfydddar hefyd yn eu siarad cyffredin. Felly dywed bod yr haul a'r lleuad wedi sefyll yn amser Joshua—yr haul wedi dychwelyd ddeg o raddau yn ei ol ar ddeial Ahaz, yn amser Hezecia—yr haul megis 'gwr priod yn dyfod allan o'i ystafell, ac yn ymlawenhau fel cawr i redeg gyrfa,' &c. Y mae yn eglur brofedig er ys cannoedd o flynyddau, bellach, mai canolbwynt sefydlog yw yr haul, a bod y ddaear a'r planedau ereill yn cylchdroi o'i ddeutu—felly, mewn ystyr briodol, nid yr haul, ond y ddaear a safodd yn amser Joshua; a'r ddaear a drodd yn ol yn amser Hezecia, &c. Ond yr ystyriaeth a osodwyd i lawr uchod a wasanaetha i symud ymaith yr anghysonder ymddangosiadol hwn. Ac yn mhellach, hanesyddiaeth o ddygwyddiadau anghyffredinol sydd mewn tair o'r amgylchiadau y cyfeiriwyd atynt; ac â yr hanesydd yn mlaen, heb dori edef yr hanes, i roddi eglurhad o'r egwyddorion ac o'r modd yr oeddynt yn cymeryd lle. A phe cymerai yr unrhyw ddygwyddiadau le eto y foru, cofnodid hwy yn gyffelyb i'r un dull gan y rhan fwyaf ond odid o'r rhai a gymerent y gwaith arnynt.

Fe ddywed yr Ysgrythyrau am Dduw—ei sawredd, ei allu, ei ddoethineb, a'i ddaioni—yr hyn oll a ddengys natur am dano yn y pethau hyn: ond dywed fwy am dano a datguddia fwy o hono. Neu, y mae Duw yn tystiolaethu am dano ei hun yn ei air ysgrifenedig, yr hyn oll a ddengys o hono ei hun yn ei weithredoedd, fel Creawdwr a Chynhaliwr y byd—oedd; ac yn dangos y pethau hyn yn eglurach a llawnach: 'Mawrhaodd ei air uwchlaw ei enw oll.' Y mae ei air yn cadarnhau, yn egluro, ac yn ychwanegu at y datguddiad a rydd natur o hono; ac felly am bob peth arall yr un modd ag sydd yn gynnwysedig yn natguddiad natur. Yn y Bibl y cawn awdwr natur yn rhoddi esponiad moesol ar ei weithredoedd a'i oruchwyliaethau ei hun. Esponiad moesol, meddaf, nid anianyddol, fel y crybwyllwyd o'r blaen; ond, dysgu i'w greaduriaid ddeall lleferydd ei weithredoedd, iaith a dyben ei oruchwyliaethau, fel y llenwid eu calonau a'r dylanwad

moesol hwnw a'u dygai i iawn deimlad ac agweddiad tuag ato ef, eu Brenhin a'u Deddfwr. Am egwyddorion celfyddydol neu anianyddol y greadigaeth, rhifedi a maintioli y bydoedd, trefn, dull, a chyflymdra eu hysgogiadau, achosion diffyg-iadau yr haul a'r lleuad, llanw a thrai y mor, anianaeth y mellt a'r taranau, &c. ni ddywed air. Gedy y maes hwn yn agored i'r anianydd fyned iddo—caiff ef chwilio allan ac olrhain y pethau hyn—ond dwg y Bibl allan o gelloedd natur yr holl bethau priodol i beri dylanwad ar gyflwr moesol y byd: o ganlyniad, llefara bob amser am ei gwrthrychau yn y dull mwyaf syml a dealladwy i'r cyffredin, er ar yr un pryd yn y dull mwyaf cyffrös ac effeithiol. Gesyd Greawdwr mawr natur allan yn holl ogoniant ac urddas y priodoliaethau hyny a ddygwyd i amlygrwydd yn eu gweithrediadau yn adeiladaeth teml y bydysawd—geilw holl elfenau a bodolion y greadigaeth i dalu teyrnged o ymostyngiad ac addoliad iddo. Rhan o bregeth yr angel efengylaidd a eheda yn nghanol y nef, wrth bob llwyth, ac iaith, a phobl, ydyw, 'Addolwch yr hwn a wnaeth y ddaear, y môr, a'r ffynhonau dyfroedd.'

Pe buasai yr Ysgrythyrau, wrth lefaru am Dduw, yn ei osod allan fel Bod terfynol o ran ei allu a'i ddoethineb—yn llefaru am fwy nag un Duw, &c. buasai y fath dystiolaeth yn anghyson a llais y greadigaeth; yr hon a ddengys 'dragwyddol allu a Duwdod yn amlwg'—anfeidrol allu a doethineb y gweithydd a fydd yr ystyriaeth gyntaf a ddaw i'r meddwl am dano, wrth edrych ar ei waith. Pe tystient am gyflwr dyn, ei fod yn ddiëuog a diniwed, buasai y gyfryw dystiolaeth yn wrthatebedig yn mhrofiad a chydwybod pob dyn; a holl oruchwyliaethau ceryddol a gwngus rhagluniaeth gyffredinol a fuasent fyth yn anghysonadwy a'r fath ddysgrifiad. Ond, y mae dysgrifiad yr Ysgrythyrau o nodwedd Duw, ac o gyflwr dyn yn gyfryw ag a wel rheswm eu bod yn berffaith gydunol a llais natur am danynt.

Y lle y meddyliodd gelynyon y Bibl y caent eu gwynfyd arno, yn benaf, yn yr oes hon, ydyw hanes Moses am y greadigaeth. Y mae rhai daeargoelyddion diweddar yn hóni bod y ddaear, erbyn chwilio i mewn iddi, yn dangos y profion egluraf o'i bod yn hanfodi filoedd lawer o flynyddau cyn amser gwaith y chwech diwrnod a grybwylla Moses: a gwna

anffyddiaid ddefnydd mawr o hyn, a thybiant enill buddugoliaeth rwydd ar eu gelyn, drwy gael mantais fel hyn i fyned dan ei wadn, a chodi ei sawdl yn ei gychwyniad cyntaf allan, a dangos mai twyll a chamhysbysiad ydyw y geiriau cyntaf a lefara; a bod hyn yn ddigon i ysigo awdurdod yr holl lyfr. Ond, a chaniatau bod profion eglur ac anwadadwy i'w cael yn nghorph y ddaear o'i bod wedi hanfodi floedd o flynyddau cyn y cyfnod y cyfeiria hanesyddiaeth Moses ato. A pha beth wedi hyny? Onid allai hyny fod, er dim a ddywed Moses i'r gwrthwyneb? 'Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear,' medd Moses: ac ni ddywed mai y pryd hwnw oedd y dechreuad. Oni all ei fod ef yn cyfyngu ei hanes yn unig at barotôad y ddaear i fod yn breswylfa dyn? Gallasai ei bod yn breswylfa i greaduriaid rhesymol cyn creu Adda erioed, a bod diwedd wedi bod arni lawer gwaith o'r blaen; iddi gael ei gollwng yn garnedd o annhrefn, a'i hail ffurfio drachefn, a'i chyfaddasu i fod yn gartref-le creaduriaid eilwaith. Gallai fod rhywogaeth ar ol rhywogaeth o greaduriaid rhesymol ac afresymol wedi bod yn ei chyfan-eddu; diwedd ar ol diwedd wedi bod arni; barn ar ol barn wedi bod ar ei thrigolion, cyn iddi gael ei dwyn i'w sefyllfa bresenol. Gall yr holl bethau uchod fod, er dim a ddywed yr hanesyddiaeth sanctaidd i'r gwrthwyneb. Hyn a esyd i lawr fel ffaith, pa fodd bynag, bod dechrenad wedi bod i'r nefoedd a'r ddaear, ac mai Duw a'u creodd â gair ei nerth; ond am y pryd y bu hyny y mae yn ddystaw.

Ond, tra y mae un daear-dybiwr yn llefaru fel hyn, ac yn sicrhau yn y modd mwyaf penderfynol bod oedran y ddaear yn fyrddiwn neu fyrddiynau o flynyddau, dyma un arall newydd ddychwelyd o'i daith ymchwiliadol, yn haeru yn wyneb y llall, bod haenenau cyfansawdd corph y ddaear, a'r holl arwyddion a geir ynddi, yn profi yn y modd amlycaf nad ydyw uwchlaw pum niwrnod hân nag Adda! Ac felly, hyd yma, nid oes nemawr o goel i'w roddi ar ddaeargoelaeth—ond gellir dysgwyl rhyw amlygiadau o bwys yn fuan oddiwrth y gelfyddyd hon. Y mae sylw llawer o'r dynion craffaf a mwyaf gwybodus wedi ei gyfeirio ato yn y blynyddoedd diweddaf. Ond, pa fodd bynag y penderfynir y ddadl hon rhwng y dysgedigion hyn a'u gilydd, y mae Moses yn ddyogel, a'r

hancesyddiaeth sanctaidd gymaint uwchlaw perygl dadymchweliad ag ydyw gorseddfainc Duw ei hun. Cymerer y llyfr dwyfol, a darllener ef lle y clywo holl naturiaeth, 'A'r holl bethau yn y nefoedd, ac ar y ddaear, a than y ddaear, a'r holl bethau yn y mor, a ddywedant, Amen.'

Digon priodol hefyd ydyw crybwyll yn y lle hwn, bod y dynion a ragorasant fwyaf mewn gwybodaeth o natur a'r celfyddydau, yn gredinwyr diymod yn nwyfoldeb yr Ysgrythyrau. Ysgrifennodd rhai o honynt esboniadau ar ranau o'r Bibl, ac eraill draethodau mewn atebiad i wadwyr ei awdurdod ddwyfol. Yr oedd y personau caulynol, Bacon, Newton, Locke, Boyle, Addison, Hartley, Pringle, Haller, Sir William Jones, Boerhaave, Grotius, Paschal, ac Euler, a llawer eraill o'u cyffelyb, hufen y natur ddynol o ran gwybodaeth, dysgcidiaeth, a grym meddyliawl, oll yn barchwyr diffuant o'r Ysgrythyrau, fel gwir a phur air Duw. Nid oedd helaethrwydd eu gwybodaeth o natur, a'r celfyddydau, yn gwanhau dim ar eu cred yn y datguddiad dwyfol. Nid oeddynt yn gweled un anhawsdra i dderbyn y Bibl fel gair a thystiolaeth Duw, wedi bod yn darllen ac yn myfyrio llyfr natur, fel y gelwir ef. Er nad yw bod y fath ddynion yn gredinwyr yn un prawf nag awdurdod ynddo ei hun o'r mater dan sylw, ag nad allai eu crediniaeth na'u hangrediniaeth effeithio dim ar yr achos ynddo ei hun; eto, y mae yn dangos cymaint a hyn, na welodd y dynion hyny a chwiliasant i mewn fwyaf i ddirgelion natur, ddim yn tueddu i wanhau eu meddyliau yn y grediniaeth o ddwyfoldeb y Bibl; ond yn hytrach i'r gwrthwyneb. Gall crefydd ddatguddiedig ddangos fel hyn brif ddysgawdwyr y celfyddydau anianyddol yn mysg ei chredinwyr a'i phleidiwyr.

Yn awr, fy narllenydd, gellwch, gan hyny, gymeryd eich Bibl yn eich llaw, ei ddarllen a'i chwilio yn ngoleuni haul natur; nid yw yn cynwys dim ag sydd yn wrthwynebol i'r athrawiaeth ag y mae 'dydd i ddydd' yn ei thraethu, er ei fod yn cynwys athrawiaeth *nad* ydynt yn ei thraethu. Gellwch droi ei wyneb tua'r nefoedd, at y 'lloer a'r ser;' nid yw yn dangos un wrthwyneb wybodaeth i'r hon a 'ddengys nos i nos,' er ei fod yn dangos gwybodaeth uwch a rhagorach. Gellwch 'ofyn yn awr i'r anifeiliaid, a hwy a fynegant; neu

ddywedyd wrth y ddaear, a hi a'ch dysg.' Ni ddysg yr Ysgrythyrau ddim yn groes—dysgant yr un gwersi, a dysgant wersi ereill hefyd. Gosodwch holl nerth eich enaid a'ch rhe-sw m i weithredu arno, a chewch allan nad oes ynddo ddim sydd yn *groes* i reswm, er bod yno bethau *uwchlaw* iddo. 'Edrychwch ar y nefoedd uchod, ac ar y ddaear isod,' ac ar y Bibl; 'Haws yw i'r nef a'r ddaear fyned heibio, nag i un iod nag un tipyn' o'i eiriau ef ballu. Ic, 'Nef a daear aânt heibio, ond gair ein Duw ni a saif byth.' Bydd yn llefaru, wedi i'r nefoedd dewi a natur fyned yn fud. Ei eiriau a benderfynant dynged drag'wyddol dynolryw yn y dydd diweddaf, a byddant oll yn gydwybodol a theimladwy o'i awdurdod ddwyfol yn oes oesoedd.

Y mae yr ystyriaethau blaenorol yn dangos hefyd, bod cyflwr yr anghrediniwr yn un dychrynlyd i'r graddau eithaf—ei unig loches a'i noddfa ydyw y gobaith pwdr y try allan yn y diwedd fel y dymuna ac yr haera ef; sef, mai twyll yw y Bibl—nad gair Duw yw yr Ysgrythyrau: ond druan! ar ba beth y seilia y fath obaith? Pwy a gyfnertha ei haeriadau? Ni wiw iddo droi at natur: y mae y greadigaeth yn gwrthod ei hyder: ni chaniata iddo gymaint o dŵr ac a wasanaetha iddo i adeiladu ei dy copynaidd arno. Y mae holl felldithion y Bibl yn gorwedd arno, ac y mae ei gyflwr, ei obaith, ei egwyddorion, a'i ymddygiad dan esgymundod y bydoedd. 'Y nefoedd a ddatguddia ei anwiredd ef, a'r ddaear a gyfyd yn ei erbyn.' Cafodd llawer o honynt deimlo pwys a nerth y gwirionedd a wadasent, yn eu dal ac yn eu gwasgu â thrymach dialedd na phe buasent yn cael eu llethu dan holl bwysau y greadigaeth, fel y cawn ddangos eto.

Ond, odid y daw y llyfr hwn i ddwyllaw nemawr, os neb, o'r rhai hyny. Chwytchi, fy narllenydd, ydych grediniwr profsedig yn ngwirionedd a dwyfoldeb yr Ysgrythyrau—gwyliwch rhag eich bod yn wadwr ymarferol o hyny. Pa reswm a chysondeb ydyw hŏni bod y Bibl yn air Duw, a byw yn groes i'w orchymynion a'i egwyddorion? 'Paham,' medd Crist, 'yr ydych yn fy ngalw i yn Arglwydd, Arglwydd, ac nad ydych yn gwneuthur y pethau yr wyf yn eu dywedyd?' Oni all y Bibl ofyn yr un peth i gannoedd o ieuenticid ysgolion Sabbathol Cymru? Pa un oreu—neu, pa un waethaf,

yn hytrach—ai yr hwn a wado ei ddwyfoldeb yn gyhoeddus mewn profes, ai yr hwn a gydnabyddo ei grediniaeth o'r peth, ac y byddo ei holl fuchedd yn wadiad ymarferol o hyny? Gallai mai rhyw beth tebyg i hyn ydyw y gwirionedd—y mae bywyd y cyntaf yn gyson a'i broffes a'i ddymuniad, tra y mae yn anghyson a thystiolaeth a barn ei gydwybod. Ac y mae profes y llall yn gyson a thystiolaeth ei gydwybod, a'i fuchedd yn anghyson a'r naill a'r llall. Rhoddwyd y Bibl, i fod yn arglwydd a chyfarwyddwr eich bywyd yn gystal a'ch cred: a chofiwch, na lesâ crediniaeth o'i ddwyfoldeb a'i wirionedd ddim, heb roddi ufudd-dod hefyd i'w orchymynion a'i reolau. Geilw Iago y fath grediniaeth yn 'ffydd farw,' am ei bod yn 'ffydd heb weithredoedd.' Cofiwch, tra byddo eich cydwybod yn wyneb gair Duw yn eich condemnio fel un anufudd i'r gwirionedd, eich bod dan yr un ddamnedigaeth a'r anghredwr profsedig. Ac os yw y Bibl yn eich erbyn, pwy a saif drosoch? Yr ydych mewn rhyfel a holl natur—ei byd-oedd, ei helfenau, a'i chreaduriaid, ac â'i Hawdwr hefyd. Wrth ddarllen ei bygythion, a'r gwaeau a gyhoedda yn erbyn yr annuwiol, yr ydych yn darllen eich tynged drag'wyddol eich hunan. Wrth drysori ei eiriau yn eich cof, yr ydych yn parotoi yr arfau mwyaf miniog i'ch cydwybod eich trywanu a hwynt byth bythoedd, tra yn byw heb roddi ufudd-dod iddynt. Y mae rhanau helaeth o'r Bibl yn argraffedig a phin o haiarn ac a phlwm ar gôf miloedd yn uffern o'r rhai a feithrinwyd ar fronau yr ysgol Sabbathol; a byddai yn haner ymwared iddynt allu eu cuddio allan o'u golwg eu hunain. 'Plant y deyrnas a defir i'r tywyllwch eithaf. Y gwas a wybu feddwl ei Arglwydd, ac nid ymbarotodd, ac ni wnaeth, a gurir a llawer ffonod:' a'r cyffelyb, ydynt ddatganiadau ys-grythyrol, teilwng o'ch ystyriaethau mwyaf difrifol.

O'r tu arall, y mae cyfiwr a sefyllfa y crediniwr yn ddedwydd a gwynfydedig: 'Heddwch mawr sydd i'r rhai a gadwant y gyfraith;' y maent mewn cyngair a heddwch a natur oll—'Pob peth yn cydweithio er daioni' iddynt. Y rhai a fendithio y Bibl, bendigedig ydynt ac a fyddant; y mae holl natur megis yn codi i'w galw yn wynfydedig—cerig a bwystfilod y maes ydynt mewn cyfammod a hwynt—nis 'tery yr haul y dydd, na'r lleuad y nos,' hwy—gallant orwedd, gorphwys, a

huno, yn dawel, yn nghanol tymhestloedd a therfysgoedd elfenau y greadigaeth; nid oes ganddynt ddim i'w ofni oddiwrthynt: a 'Duw trostynt, pwy a all fod i'w herbyn?' Yr hwn nid yw ei 'galon yn ei gondemnio' yn wyneb gair Duw, yr hwn y mae gan y 'gwirionedd ei hun air da' iddo, nid oes ganddo ddim i'w arswydo oddiwrth holl alluoedd y greadigaeth; 'Canys pa un bynag ai byd, ai bywyd, ai angeu, ai einioes, ai pethau presenol, ai pethau i ddyfod; y mae pob peth yn eiddo' ef. Y mae hyn yn ganlyniad angenrheidiol i'r hyn y buwyd yn cymeryd golwg arno yn y tudalenau blaenorol; sef, perffaith gysondeb yr Ysgrythyrau a holl iaith anian: gan hyny, ni chlyfiawnha ac ni amddiffyn y naill yr hwn a gondemnia y llall. Y maent yn anrhydeddu eu gilydd, ac a gydanrhydeddant yr hwn a'u hanrhydeddo hwythau.

Gwelsom hefyd bod y datguddiad goruwch-naturiol, nid yn unig yn gyson a chydunol a'r llall, ond ei fod hefyd yn oleuni ac yn eglurhad arno; sef, ar yr egwyddorion moesol a chrefyddol cynwysedig ynddo. Ni wiw i neb i droi i'r Bibl, gan ddysgwyl iddo ei wneuthur yn ddeallus yn egwyddorion anianyddiaeth: rhaid iddo ddarllen a myfyrio Newton a'r cyffelyb, i ddysgu y rhai hyny. Ond, os myn ddeall egwyddorion crefydd natur, os mynai ddeall ei lleferydd am Dduw, os mynai ddeall amcan moesol gweinidogaethau rhagluniaeth ddwyfol tuag at y byd, &c. y Bibl yw y llyfr iddo; yr hwn a gynnwys esponiad awdwr mawr natur ei hun ar ei waith. Nid oes dim, y mae yn wir, yn fwy effeithiol i fagu archwaeth at fyfyrion egwyddorion a deddfau natur, na darllen y rhanau hyny o'r Bibl a gyfeiriant at ei gwrthrychau. Rhaid mai calon anifeilaidd iawn yw hono, na theimla ei hun yn cynhyrfu ac yn gwresogi wrth ddarllen neu wrando ymadroddion Job, y Salmydd, Esaia, a Christ, am wahanol brydfertion a gwrthrychau anian. Ond cedwir yr un amcan mewn golwg gan bob un o honynt—y mae rhyw wers foesol a chrefyddol yn gysylltedig a holl grybwylliadau yr Ysgrythyrau am greadigaeth a rhagluniaeth. Job, wedi sôn am sawrion weithredoedd natur yn y dull mwyaf nerthol a bywiog, a derfyna gan ddywedyd, 'Wele, dyma ranau ei ffyrdd ef; ond, mor fychan ydyw y peth yr ydym ni yn ei glywed am dano ef! Ond pwy a ddeall daranau ei gadernid ef?' Areithiau ei dri

chyfaill, ac Elihu yn neullduol, ydynt yn llawnion o'r cyfeiriadau hyn at natur; a holl areithiau Duw ei hun hefyd wrth Job ydynt o'r un nodwedd a'r un amcan: felly y Salmydd a'r prophwydi, ac Iesu Grist yn neullduol, fel y crybwyllwyd eisoes yn y gwaith hwn. Trwy gymhorth goleuni yr Ysgrythyrau, gallwn fel hyn grynhoi yn nghyd yn ddifeth holl egwyddorion crefydd natur yn eu purdeb a'u symledd; yr hyn a fethodd rheswm dynol ei wneyd erioed yn ngoleuni natur ei hun. Gan hyny, pe na chynwysai yr Ysgrythyrau un gwirionedd nag egwyddor nad yw yn gynwysedig yn natguddiad natur, dylem eu gwerthfawrogi fel llusern i'n goleuo i'r ystafelloedd tywyllion hyny, fel cyfarwyddwr i'n dysgu i gael yr egwyddorion a'r gwirioneddau yma allan; oblegid methu o dywyllwch natur ddynol lygredig amgyffred y goleuni a deifl natur ei hunan arni. 'Y mae gwerth a phwysfawredd Cristionogaeth,' medd y dysgedig Butler, 'yn ymddangos wrth ei hystyried, yn gyntaf, fel ail gyhoeddiad a sefydliad cyhoeddus o grefydd natur, wedi ei chyfaddasu at amgylchiadau presenol dynolryw, ac i ddwyn yn mlaen rinwedd a duwioldeb naturiol: ac yn ail, fel y mae yn cynwys hanes datguddiad o bethau, na allesid eu cael allan gan reswm dynol,' &c.

Y mae Crist'nogaeth yn ail gyhoeddiad o grefydd natur. Y mae yn dysgu dynolryw yn nhrefniant moesol y byd—ei fod yn waith Bod anfeidrol berffaith, ac o dan ei lywodraeth; ac y bydd iddo yn y diwedd ei farnu mewn cyfiawnder, a rhoddi i bob un yn ol ei weithredoedd mewn byd i ddyfod. Ac hefyd, yr hyn sydd o fawr bwys, y mae yn dysgu crefydd natur yn ei symledd gwreiddiol, yn rhydd oddiwrth yr holl ofergoelion a'r rhai yr oedd wedi ei hollol lygru, ac yn y rhai yr oedd mewn ystyr wedi ei cholli.'

DOSP. III.

CRYBWYLLWYD y gallesid yn naturiol ddysgwyl y buasai llyfr neu ddatguddiad oddiwrth Dduw, yn cynwys hysbysiad a thystiolaeth amlwg a sicr am y pethau ag yr oedd amheu-

aeth ac ansicrwydd yn eu cylch, ac oeddynt o bwys, ac yn angenrheidiol i'r byd gael gwybodaeth o honynt; megis, anfarwoldeb yr enaid, a gwobr a chosb mewn byd i ddyfod. Ar yr un pryd, nid ydym i farnu y cyfryw ddatguddiad wrth y pethau y gallem ni feddwl a dysgwyl iddo gynwys: ond, dylem ei chwilio fel y mae yn cael ei gynyg i ni; ac nid penderfynu yn mlaen llaw y rhaid iddo gynwys y peth hyn a'r peth arall, a dybiwn ni yn angenrheidiol. Ond er hyny, ni allesid lai na thybied y buasai y fath hysbysiaeth yn un o elfenau angenrheidiol y datguddiad, oddiar yr ystyriaeth o hollol fethiant doethineb ddynol i roddi boddlonrwydd ar y mater; ac mai 'ie a nage' oedd eu holl athrawiaeth ar y pwnc—hefyd, gan fod y mater yn dal y fath berthynas ag ymarferiad, ac o'r fath duedd i beri dylanwad daionus ar agwedd foesol y byd.

Yr hyn oedd gan ddoethion a chenedloedd Paganaid y byd gynt, ac sydd ganddynt eto, am anfarwoldeb yr enaid, ydoedd weddillion o hen draddodiadau oddiwrth Noa, y mae yn debygol. Soniant bob amser am y pethau hyny fel traddodiadau, a ddelid gan 'eu henafiaid er ys amser anadnabyddus: ond yr oedd pob un yn mron a elai i ymresymu ar y mater yn ei gymysgu â rhyw ddychymygion o'i eiddo ei hun, ac yn ei adael yn y diwedd fel peth hollol ansicr, fel y dangoswyd o'r blaen—tybiai y naill fel hyn, ac arall fel arall; a thybiai yr un un weithiau fel yma, ac weithiau fel acw. Ac yn wir, yr oedd yn anmhosibl iddi fod yn amgen. Ymresymu ar, a thynu eu casgliadau oddiwrth, eu traddodiadau, oedd y cwbl a allent. Traddodiad yn dywedyd bod enaid dyn yn anfarwol, ei fod yn cael ei symud i sefyllfa arall o fodoli yn anghydwed, fod gwobr neu gosp yn ol yr hyn fuasai ei nodwedd yn y corph yn ei aros yn y byd hwnw, &c. Yn awr, nid oedd ganddynt ond gosod eu beneidiau i weithredu ar y traddodiadau hyn, a thynu eu casgliadau oddiwrthynt. Wrth ymdeimlo ynddynt eu hunain, caent bod awyddfryd a dymuniad yn y meddwl dynol at fodoliaeth a pharhad anfarwol—bod gwrthneidiad greddfól ynddo oddiwrth ddifodiad a diddymdra—gan hyny, bod y traddodiad am ei anfarwoldeb yn gydunol ag archwaeth a theimlad yr enaid ei hun; a bod hyny yn sail i dybied, neu i obeithio, o leiaf, fod y peth felly mewn gwirionedd. Yr un

modd am wobr a chosp drachefn—y mae rhyw fath o synied greddf, hwyrach y gellid ei alw, am gyfrifoldeb, gan yr enaid dynol—rhyw ymwybodolrwydd o'r hyn sydd yn ei le, ac allan o'i le—rhyw ragdybiaeth bod bai i gael ei gospi, a rhinwedd ei wobrwyo, yn dirgel lechu yn y fynwes, fel y sylwa yr apostol, 'Canys pan yw y cenedloedd, y rhai nid yw y ddeddf ganddynt, wrth naturiaeth yn gwneuthur y pethau sydd yn y ddeddf, y rhai hyn, heb fod y ddeddf ganddynt, ydynt ddeddf iddynt eu hunain: y rhai sydd yn dangos gweithred y ddeddf yn ysgrifenedig yn eu calonau, a'u cydwybod yn cyd-dystiolaethu, a'u meddyliau yn cyhuddo eu gilydd neu yn esgusodi.*

Oud, wedi yr holl ymresymu a chasglu ar y materion hyn, yr oedd raid eu gadael—'Rhaid i ryw dduw eu penderfynu,' meddai Cicero. Yn awr, y mae 'Duw ysprydion pob cnawd' wedi rhoddi datguddiad, yn cynwys ynddo lawn benderfyniad yn y modd mwyaf amlwg a phennodol ar y dyrys-bynciau hyn—Creawdwr enaid dyn wedi amlygu ei feddwl a'i ewylllys mewn perthynas i'w barhad a'i gyflwr wedi ei ymadawiad o'f corph.

Bod yr athrawiaeth o anfarwoldeb yr enaid, cyfrifoldeb, gwobr a chosp dragywyddol, yn un o elfenau credo eglwys yr hen Destament, sydd ddiddadl. Y mae amrywiol grybwyll- iadau eglur am dani yn ymadroddion Job, y Salmydd, a'r prophwydi. Eto, ni sefir arni fel mater neullduol yn un lle yn yr hen Destament. Iesu Grist a ddaeth a'r pwnc i lawn amlygrwydd: efe a 'ddyddymodd angeu, ac a ddaeth a bywyd ac anllygredigaeth i oleuni trwy yr efengyl'—efe, yn ei athrawiaeth, ei farwolaeth, a'i adgyfodiad, a rwygodd y llen dew hono a gysgodai y byd arall o olwg y byd hwn, yr hon y methasai y llygad cryfaf ganfod cymaint a'r llwyd oleuni gwanaf trwyddi erioed. Daeth a goleuni gydag ef, a chwalodd ymaith y tywyllwch oesol hwnw a orchuddiasai ddyffryn angeu. Daeth a'r ddau fyd, y byd hwn a'r byd a ddaw, i olwg eu gilydd. Dysgodd y pethau hyn gyda'r fath hyfdra ag awdurdod, y fath burdeb a symledd, sydd o'r fath nodwedd gwahanol i'r hyn a lefarai ac a ddysgai doethion y byd

* Rhufeinaid li. 14, 15.

am danynt, nes y tueddai pob un ystyriol uwch ben ei ymadroddion i ddywedyd wrtho yn ngeiriau Nicodemus, 'Ni a wyddom mai dysgawdwr ydwyt ti wedi dyfod oddiwrth Dduw.'

Nid yw Iesu Grist byth yn cymeryd y pwnc i fynu mewn ffordd o ymresymu er ei brofi. Ond ei ddatgan y mae bob amser, megis pe na buasai angen am ddwyn yn mlaen unrhyw brofiadur o hono, ac na buasai na dyrysych nac amheuaeth wedi bod erioed yn nghylch y peth. Y mae ei ddull yn hollol briodol i 'ddysgawdwr wedi dyfod oddiwrth Dduw,' i 'lefaru geiriau Duw'—ymwisgai âg awdurdod ddwyfol, ymddangosai bob amser fel un llawn ymwybodol o gywirdeb a didwylledd ei genhadwriaeth, a bod ei air a'i ddatganiad ef yn well prawf na dim arall ar bob mater, ac i fod yn derfyn bythol ar bob amheuaeth ac ansicrwydd mewn perthynas iddo. Nid yw byth yn cysylltu 'os ydyw' neu 'os nad ydyw' y peth yn bod fel y gosodai ef allan, fel y llefarai pen dysgawdwr y byd Paganaid, sef Socrates, ar y mater hwn: nid 'ie' a 'nage' ydyw ei ddysgeidiaeth ef—nid oes nac 'os' nag 'onid' ynnddi, ond 'ie ac amen' ydyw drwyddi oll. Gesydd allan yn y modd egluraf a mwyaf dibetrus bod yr enaid, yn ei fynediad o'r corph, yn cael ei drosglwyddo yn ddiatreg i sefyllfa o ddedwyddwch neu drueni. Y mae dameg y goludog a Lazarus yn esiampl nodedig o hyn. Yma y gesydd dau gymeriad ger bron, darlunia hwy yn byw yn nau eithaf iad amgylchiadau bywyd; y naill yn cael mynedfa esmwyth ac ysplenydd drwy y byd, mewn helaethwch a pharhau wynhad o hufen ei fwynderau, a'r llall yn ymlusgo yn drallodus drwy ei ddrain a'i ofdiau—dengys y naill a'r llall yn amgylchiad diweddaf gyrfa ddaearol dyn; ac yn y fan hon, lle y buasai raid i bawb o'r blaen sefyll a myned yn fud, lle y diffoddasid holl lampau doethineb ddynol gan awelon treiddiol y dyffryn tywyll, o'r lle y troisai pob dysgawdwr ac athronydd yn ol wedi ei hurtio a'i orthrechu, a ef y'mlaen yn eon, gwahoddai ni i'w ganlyn ar hyd y llwybr disathr hwn, ei ddysgeidiaeth a dry 'gysgod angeu yn oleu ddydd' o'n blaenau, cymer agoriadau y byd anweledig yn ei law, a datglöa ei ddoran, ac egyr byrth marwolaeth, symuda o'r nenlldu y llen wahan, a dengys y ddwy sefyllfa drag'wyddol yn y

byd dirgeledig, dengys i ni enaid y goludog yn codi ei olwg yn nghanol poenau diddiwedd, ac enaid y cardotyn wedi ei letya yn ddiddos am byth yn mynwes Abraham.

Mewn lle arall, pan yn anfon allan ei ddeuddeg dysgybl i bregethu yr efengyl, dywedai, 'Nac ofnwch y rhai a laddant y corph, ac ni allant ladd yr enaid; eithr yn hytrach, ofnwch yr hwn wedi darffo iddo ladd, sydd ag awdurdod ganddo i fwrw enaid a chorph i uffern; ïe, meddaf i chwi, hwnw a ofnwch.'

Fel hyn, dygai Iesu Grist athrawiaeth cyfrifoldeb, a gwobr a chosb mewn byd i ddyfod, i lawn oleuni ac eglurdeb, mewn ymadroddion na ellir eu camddeall. Mynych gyfeiria at y farn ddiweddfaf a chyffredinol—rhydd ddarluniad manol o'i dull, ei goruchwyliaeth, a'i chanlyniadau. Pwy a ddysgodd y pethau hyn erioed fel efe? Y mae awdurdod yn ei ddysg-cidiaeth ef. 'Yr oedd yn eu dysgu gyd a'r fath awdurdod,' fel yr oedd yr holl 'dorfeydd yn synu wrth ei athrawiaeth;' awdurdod ddwyfol ydoedd. Gwyddai ei hunan, a gwnelai i'w wrandawyr deimlo ei fod yn llefaru geiriau Duw. Yr oedd yn 'Grist gallu Duw, ac yn ddoethineb Duw,' yn eu cydwybodau.

Y mae mawreddigrwydd dwyfol digyffelyb yn ei ddarluniad o'r farn ddiweddfaf yn y rhan olaf o'r bumed-bennod-arhugain o Mathew. Y mae ein cynhefndod a'r dysgrifiad wedi hen gymeryd ei effaith oddiar ein meddyliau—pe gall-em newid safle ein meddyliau, megis, a chymeryd golwg newydd arno, ni allem lai na gweled a theimlo. 'Mab y dyn yn dyfod yn ei ogoniant, a'i holl angelion sanctaidd gyd ag ef—yn eistedd ar orseddfainc ei ogoniant—yr holl genhedloedd yn cael eu cydgasglu ger ei fron ef.' Meddyliwch am yr olygfa, nefoedd a daear yn cydgyfarfod, y nefoedd megis yn ymddywallt i'r ddaear, a'r ddaear yn ymgodi tuag ati hitheu; Mab y dyn, a'i holl angelion sanctaidd gydag ef, yn dyfod i waered, a holl genhedloedd oesau y byd yn dyfod i fynu; gorseddfainc ei ogoniant yn cael ei sefydlu yn nghanol-barth y nefoedd, ac yntau yn ei chymeryd ac yn eistedd arni yn mhresenoldeb y bydoedd, i weinyddu terfyn tragwyddol ar yr holl ddadleuon ac ymrafaelion a fuasai rhwng y ddwy wlad. Pa fath olygfa! Ar y Barnwr! Ar ei osgordd

o fil filoedd a myrdd myrddiwn o angelion fflamlyd! Ar y bydoedd yn ffoi o'i wydd, 'alle ni cheir iddynt!' Ary dyrfa aneirif o ddynolryw, holl feibion a merched Adda, a safant ger ei fron, llygad pob un wedi ei sefydlu arno ef, a'i lygaid yntau ar bob un o honynt hwythau, a thynged pob un o honynt yn crogi ar ei wefus. 'Efe a'u didola hwynt, megis y didola y bugail y defaid oddiwrth y geifr,' &c. Pa ymadr-odd a darluniad! Didoli a threfnu y fath gynulleidfa anifeiriol oddiar ei orsedd, ei annaid a'i awgrym yn cyfleu pob un i'w sefyllfan briodol i wraudo y ddedryd a rydd sel fythol ar ei gyflwr a'i gartref. Y mae'r dyrfa yn ymranu yn ddwy—holl raddau, amgylchiadau, a nodweddau, heb ond dau gyflwr—y naill ar ei ddeheulaw, a'r llall ar yr aswy—y defaid oll un tu, a'r geifr oll y tu arall. Gosodwch eich hun yn eich dychymyg ar sefyllfan o'r neulldu, lle y gallech wedled a chlywed yr oll a gymer le. Gwelwch y Brenhin, y Barnwr, Mab Duw, Mab y dyn, yn eistedd ar yr orsedd ogoneddus hono, ag y buasai yn gweinyddu ei lywodraeth oddiarni, yn awr i weinyddu y farn olaf ar y deiliaid. Gwrandewch! 'Yna y dywed y Brenhin wrth y rhai ar ei ddeheulaw'—try atynt a'r llygaid hyny ag ydynt megis fflam dân yn saethu allan belydrau o addfwynder, serchogrwydd, a chariad—y wyneb, yr hwn a ddysgleiria fel yr haul yn ei nerth, wedi ymwisgo a holl hawddgarwch tangnefedd, llarieidd-dra, a charedigrwydd, yn arwyddo iddynt ar unwaith pa fath yw teimladau ei galon tuag atynt; trosglwydda deimladau ei enaid ei hunan drwy ei olygon a'i wedd i'w heneidiau hwy, nes y dysgyn arnynt y fath bwys o ogoniant a llawenydd, a'u teifi oll i berlewygfa drag'wyddol! Ond, 'Y Brenhin a ddywed'—a ddywed yr hyn sydd yn ei galon ei hun, ac wrth fodd eu calonau hwythau—ese a ddywed deyrnas iddynt—i bob un—teyrnas drag'wyddol o ogoniant, anllygredigaeth, anfarwoldeb, a llawenydd: gwahodda hwynt oll gydag ef i'w meddiannu a myned i mewn iddi. 'Yna y dywed y Brenhin wrth y rhai a fyddant ar y llaw aswy'—yn awr, try ei olwg at y dyrfa druenus, a'i lygaid yn enynu gan anfoddlonrwydd sanctaidd, ei wedd yn gwrido gan soriant cyfiawn, a'r olwg arno yn taro y miliynau a llewygfeydd o anobaith a dychryn. Efe a ddywed, a tharanau damnedig-

aeth yn ei lais, a phob gair yn diewynu pob enaid ; yn dysgyn fel dyferion tanllyd ar deimladau tyneraf y galon, 'Ewch ymaith oddiwrthyf!—A'r rhai hyn a ânt!'—I ba le? Canlyned eich golwg hwynt.

Y mae pob peth a lefarwyd ac a ddysgwyd am gyfrifoldeb, gwobrau a chosbau byd arall, gan bob athraw a dysgawdwr dynol yn gymaint is-law i'r hyn a lefarodd ac a ddysgodd Iesu Grist am danynt, mewn mawreddusrwydd, symledd, grymusder, ac eglurdeb, ag ydyw y ddaear islaw y nesoedd. Gofynwn i'r rhai a wadant ddwyfoldeb ei athrawiaeth, 'O ba le y daeth y doethineb hyn a'r gweithredoedd hyn i'r dyn hwn?' Pa gyfrif a allant roddi am yr anrhaethol ragoriaeth a berthyn i'w ddysgeidiaeth (gyda golwg ar y mater dan sylw yn unig) ar ddysgeidiaeth pob athraw arall? 'Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn,' a bydded eingelynion yn farnwyr. A oes rhyw gyfrif i'w roddi am y ffaith hon, amgen, na'i 'fod o Dduw ac yn llefaru geiriau Duw?' Deuwch yn nes a'ch cwyn, cyd-ydddadleuwn, dygwch eich rhesymau cadarnaf—Ha! Ni buoch yn ol o chwilio am danynt, ond pa le y maent? A ddarfu i chwi fedru dangos dysgawdwr cyffelyb i Iesu Grist, a dysgeidiaeth a ddeil gystadleuaeth a'r eiddo ef? 'Wele, peth heb ddim ydych chwi—ffiaidd yw y gwr a'ch dewiso chwi.' Nyni a allwn yn hawdd roddi cyfrif am y rhagoriaeth hwn, drwy fabwysiadu credo Nicodemus, 'Ni a wyddom mai dysgawdwr ydwyt ti wedi dyfod oddiwrth Dduw.' Ond pa fodd yr atebwch chwi y gofyniad a roddodd Iesu Grist i'r Phariseaid yn nghylch bedydd Ioan, pe cymhwysid ef atoch? Dysgeidiaeth Iesu Grist, 'ai o'r nef yr oedd, ai o ddynion? Os o'r nef, paham gan hyny na chreddech iddo?' Ond chwi a wadwch hyny. O'r goreu ynte, 'Os o ddynion'—os dywedwch wrthym mai twyllwr ydoedd, ac mai twyll oedd ei ddysgeidiaeth, dangoswch paham neu pa fodd y gallasai dwyllo yn anfeidrol ragorach nag un twyllwr arall? Paham y mae yn sefyll ar ei ben ei hun oddiwrth bawb? Ni chynhygiwch chwi ddywedyd, fel yr Iuddewon, ei fod dan ddyllanwad Beelzebub; oblegid, chwi a wedwch ddyllanwad a bodoliaeth y gwr hwnw: hwyrach y buasai cystal i chwi beidio, y gallasai ei addef fel un o bynciau credo anghrediniaeth fod yn gymhorth i'r achos. Ni wiw i chwi

chwaith gynyg ei osod ef fel dysgawdwr ar yr un tir a'r doethion—un yn llefaru yr hyn a dybiai oedd wirionedd, gyda chywirdeb, mor belled ag yr oedd yn alluog i'w gael allan. Ni saif Iesu Grist ar y tir hwn; dywedodd ef am dano ei hun yr hyn na feiddiodd un doethwr erioed ei ddywedyd, 'Oddiwrth Dduw y deilliais ac y daethum i;' a llefara am y pethau yr oeddynt hwy yn ymddyrysu mewn ansicrwydd yn eu cylch gan gymeryd arno ei fod yn berffaith hysbys o honynt. Felly, rhaid naill ai ei fod mewn gwirionedd yr hyn y gosodai ei hun allan, yn 'ddysgawdwr oddiwrth Dduw, yn llefaru geiriau Duw,' &c. neu y twyllwr mwyaf ofnadwy a ymddangosodd erioed. Wrth edrych ar ei holl fywyd, a chwilio i mewn i natur ei ddysgediaeth, y mae credu yn nwyfoldeb ei anfoniad a'i athrawiaeth yn waith hawdd ac esmwyth mewn cydmariaeth i'w ameu, ei anghredu, a'i wadu. Ond, 'os ewyllysia neb wneuthur ei ewyllys ef, efe a gaiff wybod am y ddysgediaeth, ai o Dduw y mae,' ai nad ê.

Y mae athrawiaeth barn, gwobrwyd y rhinweddol a chospriad y drygionus yn y byd a ddaw, yr hon a ddysgwyd gyda'r fath oleuni a nerth goruwch-ddynol gan Iesu Grist, fel y sylwyd, yn codi cnofeydd ar anffyddiaid weithiau. Ni chytunent a'u gilydd yn nghylch pa beth oedd i wneyd o honi.

Ystyriai Arglwydd Herbert ei bod yn un o elfenau hanfodol crefydd natur, a phrin y gellid ystyried yr hwn a'i gwadai yn greadur rhesymol, yn ei farn ef. A Volney heibio yn ddystaw, heb ddywedyd dim ar y mater. Bolingbroke a Hume a addefant ddefnyddioldeb yr athrawiaeth at wasanaeth rhinwedd, ond a fawr amheuant ei gwirionedd. Shaftesbury a'i gwna yn destun cellwair a dirmyg. 'Yr wyf yn credu bod un Duw, a dim ychwaneg,' medd T. Paine, ac yn gobeithio am ddedwyddwch ar ol y bywyd hwi. 'Y mae y gobaith hwn yn gysur i mi,' medd efe mewn lle arall, 'ac nid wyf yn cymeryd arnaf i fyned yn mbhellach na meithrin y drychfeddwl hyfryd o obaith mewn perthynas i sefyllfa ddyfodol. Yr wyf yn ystyried fy hun yn nwyllaw fy Nghreawdwr, ac y bydd iddo ef wneuthur a mi wedi y bywyd hwn yn unol a'i gyfiawnder a'i ddaioni. Yr wyf yn gadael yr holl bethau hyn iddo ef fel fy Nghreawdwr a'm cyfaill; ac yr wyf yn ystyried mai rhyfyg mewn dyn ydyw iddo wneyd yn un

o urtherglau ei gred, pa beth a wna y Creawdwr o honom wedi y bywyd hwn.' Eto, ' Rhaid i ni wybod hefyd, y dichon y gallu a'n galwodd i fodolaeth, os ewyllysia, a phan ewyllysia, ein galw i gyfrif am y dull y buom byw yma; ac o ganlyniad, heb chwilio am un cymhelliad arall i gredu hyn, y mae yn rhesymol i gredu y gwna efe, oblegid gwyddom yn mlaen llaw y gall efe. Y tebygolrwydd neu'r posiblwrwydd o'r peth ydyw y cwbl a ddylem wybod; oblegid, pe byddem yn sicr o'r peth, gwna'i hyny ni yn gaethweision dychryn drwy ein hoed. Druan oedd yr anghredadyn! Gobeithia am sefyllfa tu hwut i'r bywyd hwn, medd efe; ac y mae y meddwl hwn yn gysur iddo. Mewn lle arall, ' Nid yw yn poeni nemawr arno ei hun yn nghylch y mater '—ei bod yn debygol y geilw y Creawdwr ei greaduriaid i gyfrif—pe byddai yn sicr o hyny, gwnelai ef yn gaethwas dychryn drwy ei fywyd. Y mae yn gobeithio, yn ymgysuro mewn tebygoliaeth o beth—cynhygiwch dystiolaeth sicr iddo o'r peth hwnw, y mae yn cau ei law rhag ei derbyn, ei lygaid rhag ei gweled, a'i galon rhag ei chredu, oblegid y mae yn llenwi ei enaid a dychryn. Gall edrych arni o bell fel tybiaeth yn unig, yn cynwys rhyw beth dymunol ynddo ei hun. Carai ddianc i'r *dedwyddwch* hwnw, ond iddo allu myned heibio i'r *farn* hono; y *galw i gyfrif* yma, nid yw yn beth hyfryd oll. Ond, palam Mr. Paine? Onid ydych ' yn gadael yr holl bethau hyn i'ch Creawdwr a'ch cyfaill?' Onid ydych yn hyderus y cewch gyfiawnder ganddo? Pa beth sydd genych i'w ofni oddiwrth gyfaill cyfiawn? Ha! Y mae rhyw ddrwg yn y gwaelod, ac wrth wraidd y cwbl: y mae'r egwyddorion yn bradychu eu hunain: y mae eu cofeidwyr, pan eu dyger at ymylau byd arall, naill ai yn troi eu cefnau ac yn ceisio dianc ymaith, neu yn ceisio cau eu llygaid a throi i gynyg traisgellwair; neu y maent yn hurtio ac yn siarad ar draws ac ar hyd, fel dynion wedi penfeddwi. Gwael iawn y darfu i lawer o honynt ymdaro yn ymchwyllyd yr Iorddonen.

II. Y mae yr Ysgrythyrau (Iesu Grist yn neullduol, fel ag mai efe yn benaf a amlygodd yr athrawiaeth dan sylw) yn ei dysgu yu ei thuedd a'i defnydd ymarferol. Daeth a'r byd arall gydag ef i'r byd hwn, megis; neu, cododd y byd hwn i olwg y llall. Pan yn gosod ei egwyddorion moesol ger bron

ei wrandawyr, estynai ei law i'r byd anweledig i gyrchu cymhellion i'w gwasgu adref at y galon. Pan yn pregethu diwygiad oddiwrth arferion pechadurus, cymhellai y cyfryw ddiwygiad, drwy ddangos canlyniadau dinystriol pechod; 'Gwell i ti gollu un o'th aelodau, na thafu dy holl gorph i uffern, i'r tân anniffoddadwy, lle nid yw eu pryf hwynt yn marw na'r tân yn diffodd.' Pan yn gosod i fynu rinwedd a duwioldeb i sylw y bobl, amcanai eu henill atynt, drwy gyfeirio eu meddyliau at ddedwyddwch y nefoedd fel yn gysylltedig â hwynt; 'Ti a gei drysor yn y nef.' O fyd arall yr oedd yn wastad yn tynu nerthoedd ei weinidogaeth: yr oedd nerthoedd moesol 'y byd a ddaw' bob amser yn llon'd ei athrawiaeth. Dygai y farn, y nef, ac uffern, i lefaru yn erbyn pechod, ac o blaid sancteiddrwydd a rhinwedd. Ni lefarodd erioed air am y byd anweledig er mwyn boddhau a phorthi cywreinerwydd y galon ddynol. Tröai ymaith bob ymholiad o'r natur hwnw ag atebiad a dueddai i ladd y fath duedd, ac i godi ymdrech yn y cyfryw ymbolydd er sicrhau ei ddedwyddwch personol ei hun. Yr oedd ei athrawiaeth yn ymarferol drwyddi oll, ac yn tynu ei bywyd a'i hanadl o awyrgylch byd arall. Darfu iddo fel hyn, nid yn unig ddwyn y peth dirgel allan i oleuni, rhoddi llawn sicrwydd o bethau ag nad oedd sicrwydd o'r blaen yn eu cylch, ond hefyd amlygu dyben a thuedd ymarferol y pethau hyny, a'r defnydd sydd i'w wneuthur o'r wybodaeth a'r hysbysrwydd hwn am danynt. Y mae fel hyn bob amser yn cadwyno sefyllfa bresenol a dyfodol dyn y naill *wrth* y llall, yn dangos dylanwad y naill *ar* y llall: na all dyn yn ei gyflwr presenol na meddwl na bwriadu, llefaru un gair, na chyflawni un weithred, heb fod y cwbl i roddi argraff a dylanwad ar ei gyflwr trag'wyddol: yr adolygir holl amgylchiadau bywyd yn y byd hwn yn y farn olaf, ac y medir byth yn myd yr ysprydoedd yr hyn a hauir yma yn y cnawd.

Y mae purdeb moesol dybenion ei weinidogaeth yn dwyn tystiolaeth i'w tharddiad gwreiddiol. Y mae yn amlwg nad oedd gan Iesu Grist un budd personol mewn golwg: y mae yr oll a ddysgai yn ddigon o brawf nad oedd ganddo un dyben hunanol i gyrchu ato. Rhoddai y Phariseaid a'r Herodianiaid ddysgrifiad cywir iawn o hono ef a'r athrawiaeth, er mai mewn

malais y llefarent, pan dywedent wrtho, 'Athraw, ni a wyddom dy fod di yn eirwir ac yn dysgu ffordd Duw mewn gwirionedd, ac nad oes arnat ti ofal rhag neb, oblegid nad wyt ti yn edrych ar wyneb dynion.' Ni allesid rhoddi tecach dysgrifiad, er ei fod yn falcibus; y mae yn bortreiad cywir o Grist fel athraw. Nid oedd dim, yn yr oll a ddysgai am wobrau a chosbau byd arall, a dueddai i ryngu bodd dynion, ond yn hollol i'r gwrthwyneb. Y mae yn ymosod yn holl nerthoedd y byd anweledig yn erbyn egwyddorion ac arferion llygredig y byd hwn; yn condemnio y pethau anwylaf gan galonau dynion, yn eu galw i ymadael a phethau mor werthfawr yn eu golwg ac mor hoff ganddynt a llaw, troed, neu lygad dehau, dan boen dialedd tân trag'wyddol. Yr oedd ei weinidogaeth ar y gangen dan sylw yn neullduol yn tueddu yn uniongyrchol i'w wneuthur yn anmhoblogaidd yn y byd, ac yn gas gan ddynion. Gwyddai hyny—yr oedd yu 'gwybod beth oedd mewn dyn'—gwyddai nad oedd y fath athrawiaeth am y farn a byd arall yn dderbyniol, ond eto ni 'chuddiodd y gwirionedd yn ei galon, nid attaliodd ei wefusau yn y gynnulleidfa luosog,' ni cheisiai lyfuhau dim ar noeth-wyneb y gwirionedd, esmwythau dim ar ei bigau: nid oedd ganddo un gofal am dano ei hun, boddlonai i sefyll neu syrthio gyda'r athrawiaeth, gwelai fod pob pregeth yn ychwanegu rhifedi ei elynion ac yn cynhyddu nerth yr elyniaeth i'w erbyn, ond ni chiliai yn ol.

Megis nad oedd yn ei wasanaethu ei hunan, felly nid oedd yn gwasanaethu un dyben bydol neu wladwriaethol. Nid dal anfarwoldeb yr enaid a byd i ddyfod, er mwyn gwasanaethu dybenion llywodraethwyr gwladol a blaenoriaid milwraidd, fel y doethion gynt, yr oedd Iesu Grist. Yr oedd yr amcan bob amser yn codi uwchlaw pob ystyriaeth berthynol i'r byd hwn. Nid dichell offeiriadol na pheiriant gwladwriaethol ydoedd yr athrawiaeth yn ei ddwyllaw ef; y maesymledd ei gosodiad allan ganddo, a'r cysylltiadau y mae yn eu dangos ynddynt bob amser yn ei godi i dir uwchlaw amheuaeth o un dyben twyllodrus nac anheilwng; yr hyn a brawf yn amlwg gywirdeb, gonestrwydd a dwyfoldeb ei genhadaeth a'i genhadwri. Pe twyllwr fuasai, rhaid y buasai ef ei hun yn gydwybodol o hyny; pan osodai ei hun allan fel Mab

Duw, cydradd Duw, ac anfonedig Duw, annychonadwy fua-sai iddo fod yn anhysbys o'r twyll, pe twyllo y buasai: a thrachefn, a'i gymeryd fel twyllwr, y mae yr ynyftaf o bob un a gynhygiodd dwyllo y byd erioed. Dywedasom o'r blaen, a'i ystyried fel twyllwr, ei fod yn anrhaethol ragori ar bawb o'i flaen neu ar ei ol. Y mae hyny yn eithaf gwir, gyda golwg ar yr honiadau uchel a osodai ger bron y byd, a'i fedrusrwydd i gynnal i fynu yr honiadau hyny, heb fradychu un gwendid na methiant mewn dim—ei waith yn llefaru ac yn gosod twyll i fynu, heð gymaint ag un o arwyddion twyll a thwyllwr ynddo. Ond ar yr un pryd, wrth ei ystyried fel twyllwr, mewn golwg arall, y mae yn ymddangos yr ynyftaf o honynt oll, oblegid nad oedd ganddo un *dyben* i'w dwyll. Gwyddai na allasai ddysgwyl enill llawer o ddysgyblion a chanlynwyr i'r fath egwyddorion a gymbellai ar y byd—na allasai enill cariad, anrhydedd, a chlod, wrth argyhoeddi, ce-ryddu, a dynoethi llygredigaethau ac arferion dynion, dwyn barn a chospau byd arall i'w golwg, condemnio crefydd hun-angyfiawnder a rhith sancteiddrwydd y mawrion a'r blaenor-iaid Phariseaidd, gan eu llusgo allan o guddfeydd eu twyll, a dynoethi eu rhagrith ar gyhoedd ger eu bron eu hunain a cher bron y byd, a thywallt holl waeau damnedigaeth a than uffern ar eu penau. A'i ystyried fel twyllwr, yr oedd yn myned o chwith bob cam i ateb unrhyw ddybenion a *allasai* fod gan *dwyllwr* mewn golwg. Yr oedd yn gwrthod pob anrhydedd daearol a gwladol; yr oedd yn hollol farw i'r byd hwn yn ei holl fwynderau—pan gynhygiai y byd ei ffafrau iddo, tröai ei gefn arnynt yn y fan. Rhyw fwynhad, elw, neu anrhydedd presenol a fyddai mewn golwg gan bob twyllwr; i'e, a fyddai yn ddychonadwy fod gan bob un, ac yn cynhyrfu pob un i 'wisgo crys o rawn i dwyllo.' Ond yr oedd Iesu Grist yn berffaith i'r gwrthwyneb yn ei holl ymddygiad—un yn byw uwchlaw i'r byd hwn ydoedd, yn edrych tu hwnt iddo. Mewn gair, y mae ei athrawiaeth ynddi ei hun yn profi na allasai ef fod yn dwyllwr, na'i athrawiaeth fod yn dwyll.

Yn awr, y mae y datguddiad ysgrifenedig yn ateb i angen y byd yn y peth hwn, drwy ddwyn tystiolaeth sicr iddo am bethau yr oedd amheuaeth yn eu cylch; a'r dystiolaeth hono

o'r fath nodwedd ac aydd yn arganmol ei hunan fel un ddwyfol a gwirioneddol, fel na ellir ei hameu ond ei hystyried, heb wneuthur trais a chydwybod a rheswm. Yr oedd yr Iuddewon yn llawn deimladwy o'r mater hwn. Yr oedd natur a nodwedd ei ddysgeidiaeth yn synu y torfeydd, yn drysu ei elynion, fel na wyddent beth i'w feddwl o hono, nag i'w farnu am dano. Yr oedd yn rhagori cymaint ar bob prophwyd a fuasai o'i flaen ef, fel y tueddid rhai i ofyn, 'Onid hwn yw y Crist?' A'r rhai oeddynt benderfynol i'w wrthod er pob peth, a feddylasant y gallent gysoni ei ragoriaethau anarferol fel dysgawdwr â'r haeriad mai twyllwr oedd, drwy daeru ei fod mewn cyfrinach a than ddylanwad Beelzebub yr archdwyllwr. Gwelent bod yn rhaid naill ai addef ei ddwyfol anfoniad, ei fod yn llefaru ac yn gweithredu dan ysprydoliaeth Duw, neu y buasai raid iddynt haeru mai penaeth y cythreuliaid a'i gwnaethai ef yn benaeth y twyllwyr.

DOSP. IV.

ARFERIR dosparthu y tystiolaethau o ddwyfoldeb yr Ysgrythyrau dan dri phen; sef, y tystiolaethau mewnol, allanol, a phrofiadol. Y profion mewnol ydyw natur cynwysiad yr Ysgrythyrau eu hunain, eu hegwyddorion, eu hathrawiaethau, eu hyspryd a'u tuedd ymarferol, eu priodoldeb a'u cyfaddasrwydd at angen ac amgylchiadau cyflwr moesol y byd, eu teilyngdod o Dduw fel Bod anfeidrol ddoeth, cyfiawn, sanctaidd a da.

Y tystiolaethau hanesiol ydynt y prophwydoliaethau, neu ragfynegiadau am bethau, personau, ac amgylchiadau, yn mlaenllaw: a gwyर्थiau. A'r profiadau ymarferol ydynt eu heffeithiau a'u dylanwadau ar gyflwr moesol y byd.

Y profion a gynhygiwyd yn y tudalenau blaenorol ydynt yn perthynu i'r dosparth cyntaf a nodwyd; a'r hyn a ganlyn eto yn y lle hwn a fydd yn ychwanegiad pellach o'r unrhyw o brofion.

III. Y dystiolaeth neu y prawf mewnol penaf o ddwyfoldeb yr Ysgrythyrau sydd i'w thynu oddiwrth y brif athraw-

awiaeth neu y mater penaf a osodir allan ynddynt. Y mae yn anhosibl i neb ddarllen y Bibl gydag un math o ystyr-iaeth bwylllog, heb ganfod bod un athrawiaeth neu fater mawr yn brif destun a dyben iddo; ac mai athrawiaeth prynedig-aeth dyn drwy iawn Mab Duw yw hono. 'Hanesyddiaeth prynedigaeth dyn drwy Iesu Grist,' medd Abbot, 'yw y Bibl, a dim ychwaneg. O'i ddechreu hyd ei ddiwedd, gydag ychydig iawn o eithriadau, os oes rhai, nid yw ddim arall. Dechreuwch yn Genesis, a chanlynwch yn mlaen nes y del-och hyd y fendith-wers derfynol yn niwedd y Datguddiad, y mae oll yn dal perthynas a'r mater hwn. Yn awr, os cyn-lluuniwyd y llyfr hwn gan y Goruchaf, os goruwcholygodd efe drosto yn ystod y pumtheg can mlynedd y bu yn cael ei ddwyn yn mlaen, y mae yn dra hawdd rhoddi cyfrif am hyn. Nid oes dim arall a rydd gyfrif o'r peth.

'Ond rhaid i mi ddangos yn llawnach mai hyn ydyw unig amcan yr Ysgrythyrau. Gadewch i mi dafu golwg yn fyr dros eu cynwysiad. Y mae yn dechreu drwy roddi hanes byr, syml, ac eglur am greadigaeth y byd, a dyben Duw yn ei greu. Ei amcan ydoedd ffurfio un teulu o un galon a dyben, oll i edrych arno ef fel rhwymyn neu ganolbwynt yr undeb cyffredin, a ffynhonell dedwyddwch. 'Ceri yr Arglwydd dy Dduw a'th holl galon, a'th gymydog fel ti dy hun,' yn ddiameu oedd y gyfraith a ysgrifenydd yn wreiddiol ar y galon ddynol.

'Pa fodd bynag, pawb a bechasant, torasant gyfraith Duw, ac y mae y Bibl gan hyn yn dysgrifio arswydus ganlyniadau pechod.

'Y mae yn deilwng o sylw, bod dyfodiad y Gwaredwr yn cael ei ragfynegu yn un o bennodau cyntaf y llyfr; ac o'r amser hwnw y mae yr hanesyddiaeth sanctaidd yn nodi allan ac yn dilyn gyda manylrwydd gofalus y llinell achyddol ag y sydd i'n harwain at y Gwaredwr hwnw. Yr oedd llawer o ghenhedloedd ar y ddaear yr amser yr oedd yr Israeliaid yn yr Aifft; ond y mae yr hanes sanctaidd yn eu hesgeuluso oll, ac yn troi ei holl sylw at gorph o gaethion Hebraidd, oblegid mai yn mysg y caethion hyn yr oedd cyndad y Messia i ddyfod.

‘Gesyd y Bibl allan ddarfod i Jehofa arwain y genedl hon i wlad, yr hon oedd i fod yn gartref iddi, fel y gallai ei chadw ar wahan oddiwrth y rhan arall o ddynolryw, a’i gwneuthur yn geidwad ei ymadroddion a’i oraclau.

‘Y mae llawer iawn o hanesiaeth yr Hen Destament yn cael ei chymeryd i fynu mewn rhoddi dysgrifiad o’r gosodiadau neullduol a sefydlwyd yn mysg y bobl hyn, ac o’u hamgylchiadau neullduol hwythau. Mewn perthynas i’w gosodiadau, ymddengys bod dau amcan dynodol iddynt—un ydoedd i’w cadw ar wahan oddiwrth y cenedloedd eulunaddolgar o’u hamgylch, fel y gellid cadw addoliad y gwir Dduw yn well. Y dyben arall a effeithid drwy osodiad yr aberthau. Dyben Jehofa yn sefydliad y rhai hyn, a’i waith yn cymeryd y fath ofal i sicrau yr arferiad o honynt, fe ymddengys, oedd hyn—i wneuthur yn gydnabyddus i feddyliau dynion y gwirionedd mawr, bod yn rhaid cael rhyw beth mwy nag edifeirwch i wneuthur cymod dros bechod. Yr oedd aberthau wedi eu sefydlu mor foreu, fel ag yr oeddynt yn arferedig yn mhlith pob cenedl dan y nefoedd yn mron. Pa le bynag yr eloch, chwi a welwch fod pawb agos wedi e rhagbarotoi, gan y defodau a dreigliid i lawr o amser Noa, i addef yr angenrheidrwydd o ddyoddefaint lle y cyflawnasid pechod. Dysgai Duw i’r Iuddewon, pan wnelent ar fai, i ddwyn offrwm; nid i’w dysgu i feddwl y gallai gwaed teirw a geifr gymeryd ymaith bechod, ond bod iawn yn angenrheidiol. Rhaid oedd bod gan y ddefod y dylanwad mwyaf nerthol i gynhyrchu argyoceddiad ymarferol bod pechod, wedi unwaith y cyflawner ef, yn anhosibl i’w alw yn ol gan y person euog o hono, ond ei fod yn achosi canlyniadau tu hwnt i’w allu ef eu hatal a’u llywodraethu. A hwn yn hollol ydyw yr argyoceddiad angenrheidiol i’n dwyn ni i werthfawrogi a llesau ein hunain â’r prynedigaeth sydd yn Nghrist. Nyni a bechasom, ac y mae y drwg a wnaethom uwchlaw ein gallu i’w feddyginiaethu. Gallwn ymattal rhag pechu, ond rhaid atal dylanwad niweidiol ein pechodau gynt gan ryw allu arall. Yr oedd y teimlad hwn wedi ei weithio yn llawn i holl feddyliau a chalonau yr Iuddewon mewn perthynas i bechod a maddeuant. Pan ddeuent mewn edifeirwch diffuant

i offrymu yr aberth gofynol gan y gyfraith, a chyda'r fath deimladau ac a ddysgrifiais, derbynient faddeuant yn ddi-ameu, drwy gyfryngdod aberth mwy a pherffeithiach, yr hwn a osodid allan gan yr oen a'r golomen.

'Os edrychwn fel hyn at yr hanesiaeth a'r gosodiadau Iuddewig, ni a welwn eu bod yn cyfeirio oll at Grist. Cyfeirir at un amcan yn y cwbl. Wedi dygiad yr hanesiaeth yn mlaen hyd y dychweliad o Babilon, terfynir hi yn ddisymwth—a phaham? Oblegid bod pob peth yn awr yn barod erbyn i Grist ddyfod. Y mae cyfwng o rai cannoedd o flynyddau, nid o herwydd bod dygwyddiadau yr amser hwnw yn llai pwysig na'r rhai blaenorol, ond oblegid nad ydynt yn dal perthynas ag iachawdwriaeth dynion drwy Iesu Grist, at yr hyn y mae'r holl Fibl yn cyfeirio. Y genedl, yn yr hon y mae y Gwardwr addawedig i ymddangos, a ddylynir yn ei hamrywiol drallodau a'i helyntion, hyd nes o'r diwedd y llawn sefydlir hi yn y wlad ag y mae y Messia i ymddangos ynddi, yna gadewir hi. Ni allasai prawf cryfach fod mai hanes Iesu Grist ydyw dyben mawr y Bibl, a bod y dyben hwnw yn cael ei gadw yn ddiysgog mewn golwg.

'Fel ag yr ydym yn nesau at gynllun mawr iachawdwriaeth, y mae'r hanes yn manylu a'r pwysigrwydd yn cynhyddu. Y Gwardwr mawr o'r diwedd a ymddengys. Cawn hanes ei fywyd gan bedwar o wahanol ysgrifenyddwr—cawn hysbysiaeth seml o'r ymdrechion cyntaf a wnaed i daenu newyddion da yr iachawdwriaeth drwyddo, wedi ei ymadawiad ef o'r byd—cawn ychydig o ysgrifeniadau rhai o'r rhai hyny ag oeddynt gydag ef ac a dderbyniasant ei addysgiadau—yna terfyna y gyfrol gyda datguddiad o'r hyn sydd eto i ddyfod.

'Y mae rhyw sawrwychedd gogoneddus yn yr iaith, gyda'r hon y cyhoeddir terfyniad y llyfr sanctaidd. Yr oedd mater mawr y cwbl yn awr wedi ei osod allan ger bron dynolryw. Natur ac effeithiau pechod, ffordd iachawdwriaeth, a'r amgylchiadau dyfodol sydd i'n cyfarfod oll, a ddysgrifiasid; a therfyna gyda gwahoddiad—O! pa mor groesawus y mae yn cael ei osod allan! 'Ac y mae'r Yspryd a'r briodasferch yn dywedyd, Dyred; a'r hwn sydd yn clywed, dywedded, Dyred; a'r hwn sydd a syched arno, Deued; a'r hwn sydd yn ewyllsio, cymered ddwfr y bywyd yn rhad.'

Yn awr, swm yr athrawiaeth fawr hon ydyw, 'Heb ollwng gwaed nid oes maddeuant—anhosibl yw i waed teirw a geifr dynu ymaith bechod'—bod yr aberth digonol a gofynol wedi ei gael yn Nghrist, 'pan offrymodd ef ei hun unwaith yn aberth difai i Dduw—bod Duw yn Nghrist yn cymodi y byd ag ef ei hun heb gyfrif iddynt eu pechodau,' &c. Y mae yr athrawiaeth fawr a goruchel hon yn rhanu ei hunan i'r gwa-hanol gangenau uchod yn yr Ysgrythyrau. Yr oedd sefydliad yr aberthau dros bechod dan yr oruchwyliaeth batriarchaidd a goruchwyliaeth Moses, yn amlygu y gangen gyntaf—ni fu aberthu erioed, cyn dyfodiad pechod i'r byd; ac ni buasai byth chwaith, oni buasai iddo ddyfod. Tywalltwyd gwaed aberth y diwrnod y troseddodd Adda, ac ni bu byth gyfathrach na chyfamod rhwng Duw a dyn mwyach ond mewn aberth. Yr oedd y mynych offrymu hefyd yn dysgu yr ail gangen o'r athrawiaeth; sef, annigonolrwydd ac aneffeithioldeb yr aberthau hyny i ateb y dybenion gofynol yn llywodraeth foesol Duw, 'Oblegid yna hwy a beidiasant a'u hoffrymu, am na buasai gydwylbod pechod yn aros mwyach yn yr addolwyr'—atebent y dyben i 'adgoffa pechodau bob blwyddyn,' heb eu dileu; ac i ddangos bod aberth mwy a pherffeithiach i ddyfod.

Dangoswyd bod aberthu yn beth cyffredinol yn mhlith y rhan fwyaf o genhedloedd y byd, ag iddynt gael a dysgu yr arferiad oddiwrth Noa, ail dad cyffredinol dynolryw; ond yr oeddynt yn hollol dywyll am wir ystyr a dybenion y gosodiad. Gan yr Iuddewon yn unig, i'r rhai yr ymddiriedasid ymadroddion Duw, yr oedd mantais i ddeall gwir amcanion y sefydliad. Anmherffaith iawn oeddynt hwythau yn y wybodaeth hon. Ymddengys nad oedd ond ychydig iawn o honynt yn llawn ddeall ystyr gysgodol yr aberthau, a lleferydd y prophwydi mewn perthynas i aberthiad y Messia. Hwyr-frydig iawn oedd dysgyblion Iesu Grist ei hun i ddeall a derbyn athrawiaeth yr iawn yn ei farwolaeth ef. Cyfeiriai at amgylchiad ei farwolaeth lawer gwaith yn eu clywedigaeth, 'ond y gair hwn oedd guddiedig rhagddynt—hwythwy ni ddeallasant ddim o'r pethau hyn.' Ceryddai Pedr ef unwaith pan y soniai am ei ddyoddefiadau a'i angyf, nad oedd angenrheidrwydd iddo oddef y fath driniaeth, gan y gallasai yn

hawdd ei waredu ei hunan. Y mae hyn oll yn dangos bod yr oruchwyliaeth hon o'r fath nodwedd, na ddaethai dim o'i chyffelyb i galon dyn erioed. Nid oedd neb ond y Tad, a Christ ei hunan, a'r Yspryd Glan, yn ei llawn ddeall—'ar yr hyn bethau y mae yr angelion yn chwennychu edrych.' Ac er eu datguddio drwy ebyrth cysgodol, drwy brophwydoliaethau a rhagfynegiadau, a rhoddi gwers ar ol gwers i'r byd ar y pwnc, yr oedd o'r fath natur oruchel, fel ag mai anhawdd iawn oedd dwyn y meddwl dynol i unrhyw gydnabyddiaeth a hi. Bod i Fab Duw, y Gair, gael ei 'wneuthur yn gnawd, a thrigo yn ein plith ni—yr hwn nad oedd yn drais iddo dybied ei fod yn ogyfuwch a Duw, i gymeryd arno agwedd gwas a chyffelybiaeth dynion, ac ufuddhau hyd angeu y groes, gan roddi ei hunan yn bridwerth dros bawb, y cyfiawn dros yr anghyfiawn, fel y dygid ni at Dduw,' &c. ydynt bethau na ddaethent byth i feddwl na dychymyg dyn. 'Mawr ddirgelwch duwioldeb' ydyw, 'y dirgelwch oedd yn guddiedig yn Nuw: ni ddaeth dyfais gyffelyb iddi allan o galon dyn erioed; ac nid oedd gweinidogaeth natur yn cyfleu cymaint a'r awgrym lleiaf am dani—'Duw a'i datguddiodd i ni trwy ei Yspryd,' yn ei air: ac y mae y nodwedd yma a berthyn i brif athrawiaeth y Bibl yn brawf grymus o'i ddwyfoldeb.

Gallesid dysgwyl yn naturiol iawn y buasai datguddiad a chyhoeddiad o'r fath athrawiaeth yn cyffroi dirmyg a diystyrwch doethion y byd hwn, o herwydd ei nodwedd ddyethrol a thra gwahanol i bob peth a allai calon dyn ddyfeisio—ac felly y bu. Yr oedd 'pregethu Crist wedi ei groeshoelio, i'r Iuddewon yn dramgwydd, ac i'r Groegwyr yn ffolineb.' 'Doethineb' ydoedd, 'ond nid doethineb y byd hwn, na thywysogion y byd hwn;' ond 'doethineb Duw mewn dirgelwch, yr hon nid adnabu neb o dywysogion y byd hwn:' ac felly, pan ddaeth y doethyn cenhedlig a'r ysgrifenydd Iuddewig i roddi eu barn arni, tramgwyddai a ffromai y naill wrthi, a throai y llall hi yn destun dirmyg a gwatwariaeth. 'Yn ddi-ddadl, mawr yw dirgelwch duwioldeb.'

DOSP. V.

IV. Un arall o brofion mewnol dwyfoldeb yr Ysgrythyrau ydyw purdeb moesol yr egwyddorion ymarferol, neu y rheolau buchedd a gynwysant. Y maent, o ran y sylwedd o honynt, yn gynwysedig yn nghyfraith y deg gorchymyn a gyhoeddwyd ar Sinai: y ddwy lech. Crynhôwyd eu swm i ddau ben, neu ddau orchymyn, gan Iesu Grist. Efe a'u tal-fyrai fel hyn, 'Y cyntaf o'r holl orchymynion yw, Clyw Israel, yr Arglwydd ein Duw, un Arglwydd yw: a châr yr Arglwydd dy Dduw a'th holl galon, ac a'th holl enaid, ac a'th holl feddwl. Hwn yw y cyntaf, a'r gorchymyn mawr:' neu, dyma swm, ystyr, ac arwyddocâd gorchymynion y llech gyntaf. 'A'r ail sydd gyffelyb iddo, Câr dy gymydog fel ti dy hun.' Dyma gynwysiad gorchymynion yr ail lech. 'Ar y ddau orchymyn hyn y mae yr holl gyfraith a'r prophwydi yn sefyll.* Dyma ddwy egwyddor fawr, dwy golofn fawr y llywodraeth foesol. Ni ddysgodd y prophwydi ddim yn amgen na dim yn wrthwyneb i hyn. Ar y seiliau hyn yr oedd-ynt yn adeiladu—yr oedd eu holl athrawiaeth yn eglurhad o'r egwyddorion hyn, yn ddygiad allan o'r hyn sydd gynwysedig ynddynt. Y maent yn cynwys ynddynt eu hunain gorph cyflawn o dduwinyddiaeth ymarferol. Holl ddyled dyn tu ag at Dduw, a thu ag at ei gydgreadur. Ni ddarfu i Iesu Grist eu galw yn ol, na dysgu dim yn groes i hyn. 'Na thybiwch fy nyfod i dori y gyfraith neu y prophwydi,' eb efe, 'ni ddaethum i dori, ond i gyflawni. Haws yw i'r nef a'r ddaear fyned heibio, nag i un iod nag un tipyn o'r gyfraith ballu.' Cawn dalfyriad arall o'r gyfraith neu y rheol hon, gan yr apostol; lle y dywed, 'Cyflawnder y gyfraith yw cariad.' Cariad yw gwregys mawr y llywodraeth foesol, rhwym-yn perffeithrwydd, cyfraith fawr y deiliaid oll. 'Duw, cariad yw;' a'i gyfraith, cariad yw. Y mae efe yn ymlonyddu yn ei gariad; a mynai i'w holl ddeiliaid ymlonyddu yn yr un elfen fendigedig. Egwyddor fawr ei galon ef ydyw; y mae ei holl weinyddiadau yn mhob man o'i lywodraeth, a thu ag at

* Mathew xxii. 37—39.

bawb o'i ddeiliaid, o dan ddylanwad cariad yn cael ei gyfarwyddo gan ddoethineb a chyfiawnder: ac ewyllysiai fod ei holl greaduriaid rhesymol o dan oruwchrëolaeth yr un elfen ogoneddus.

Y mae purdeb, priodoldeb, a hawddgarwch moesol yr egwyddorion hyn yn ymddysgleirio yn dra gogoneddus, pan edrychom ychydig i mewn iddynt. Y maent fel yn cadwyno holl fodau deallawl y greadigaeth wrth Dduw ac wrth eu gilydd. Nid â chyfraith pwys a thyniad, yr hon a rwyma y bydoedd ynghyd—ac nid cyfraith greddf, yr hon a lywodraetha yr anifeiliaid, yr adar, a'r pysgod; ond 'rhwymau cariad.' Yma y gwelwn y Jehofa bendigedig yn gosod ei hunan megis haul yn nghanolbarth y cyssawd mawr—yr holl fodau rhesymol drwy yr holl lywodraeth, megis, i gylchdroi o'i ddeutu, yn ddybynol arno am eu goleuni, eu gwres, eu cynhaliaeth, a'u dedwyddwch. Y mae yn fan cyfarfod i'w meddyliau, eu calonau, a'u serchiadau, o wahanol barthau a thaleithiau yr ymerodraeth anamgyffredadwy äang. Y maent i fod oll yn un ynddo ef, oll i feddu yr un teimladau—pob calon yn cyd-daro ei holl nerth mewn cariad ato. Y maent yn cael eu cyfansoddi yn un teulu mawr—yr holl luaws o wahanol ansoddau a graddau, i yfed eu dedwyddwch o'r un ffynon, i gael eu llywodraethu gan yr un elfen fawr, ac i wasanaethu yr un dyben goruchel. Dyma y 'gorchymyn cyntaf a mawr.' 'Yr ail sydd gyffelyb iddo, Car dy gymydog fel ti dy hun.' Rhwymir pob calon wrth Dduw yn y gorchymyn cyntaf—yr holl galon, yr holl feddwl, a'r holl nerth. Yn yr ail, rhwymir calon wrth galon: rhwymir ei holl greaduriaid rhesymol i fynu yn rhwymyn cariad a thangnefedd: bod i berffaith garedigrwydd ac ewyllys da hanfodi rhwng y naill a'r llall. 'Câr dy gymydog fel ti dy hun.' Y mae yr Ysgrythyrau yn seilio eu hegwyddorion moesol yn y galon. Nid yw yn cynyg at wella a rheoleiddio agwedd y fuchedd, cyn trefnu yr agwedd dumewnol. Daw yr holl ymddygiad i'w le o angenrheidrwydd, mewn canlyniad i gael y galon i'w lle; oblegid, 'allan o honi y mae bywyd yn dyfod.' Nid oes neb a niweidia ei gymydog byth, yn ei berson, ei feddiannau, na'i gymeriad, nag a chwennycha iddo ei hunan ddim o'r oll a fedda, tra y byddo yn ei garu fel efe ei hun. Y mae calon

a fyddo dan lawn ddylanwad a rheolaeth yr egwyddor oruchel hon, fel dinas gaerog a chadarn, a gwyliadwriaeth o filwyr arfog wrth ei phyrth ac ar ei thyrau a'i muriau, fel na all un gelyn dori i mewn iddi, i aflonyddu ei heddwch. Ni all malais, cenfigen, dygasedd, bwriad drwg, a'r holl fintai o ellyllon dieffig, sydd yn aflonyddu heddwch y byd, dori i mewn, a chael llety a chartref yn y galon hono a fyddo dan reolaeth y gyfraith hon.

Rhoddodd yr Arglwydd Iesu Grist lawn esponiad ar y gyfraith hon, yn neulduol yr ail lech o honi, yn ei bregeth ar y mynydd. Yno y gwelwn ef yn cymeryd y gyfraith a gyhoeddwyd ar Sinai allan o ddwyllaw yr athrawon anianol a'i comesponiasent ac a'i gwnaethent 'yn ddirym trwy eu traddodiadau' camsyniol, ac yn myned gyda hi i fynydd Tabor, a chan dynu ymaith holl rwd y traddodiadau a'r cam-ddöongliadau, yn ei gosod allan yn ei holl ogoniant a'i phurdeb a'i hawddgarwch gwreiddiol, nes y mae yn tywynu yn ei holl ddysgleirdeb cynhenid. Efe oedd y cyntaf a eglurodd ei hyspryd a'i gwir feddwl: safai yr athrawon a'r dysgawdwy'r Iuddewig yn unig ar y llythyren, a gwnaent lawer o drais arni, drwy ei nyddu yn ol eu teimladau eu hunain; cuddient ei hysprydolrwydd a'i gwir feddwl allan o'r golwg, a gwnaent iddi gynwys a dysgu egwyddorion cwbl wahanol a gwrthwynebol i'w gwir ystyr. Dygai Iesu Grist wir feddwl y gyfraith at feddyliau y bobl. Yr oedd y gyfraith yn ei ddwyllaw ef yn ymddangos yn wahanol iawn i'r hyn oedd yn nwyllaw yr athrawon hyny. Yr oedd hefyd, wrth egluro yspryd ac egwyddorion y ddeddf foesol, yn dangos nad oedd y ddeddf farnol neu wladol a roddasid i Israel drwy Moses, i fod yn gyfraith rwymedig ar ei ddysgybllion ef, nag i gael ei chymeryd i mewn i'r cyfansoddiad o flurf-lywodraeth teyrnas nefoedd, ac yr oedd efe yn ei gosod i fynu yn y byd, 'Llygad am lygad, a dant am ddant,' &c. ond ei fod ef yn dysgu dyoddefgarwch a maddcugarwch, yr hyn a ddangosai ar yr un pryd fod yn gynwysedig yn ngwir yspryd y ddeddf ac athrawiaeth y prophwydi—'Fel yr ewyllysioch wneuthur o ddynion i chwi, felly gwnewch chwithau iddynt hwy; canys hyn yw y gyfraith a'r prophwydi:' a hyn yw Crist a'r apostolion—dyma Grist'nogaeth yn ei rheol auraid, un o egwyddorion

sylfaenol ffurf-lywodraeth teyrnas Crist ydyw, wedi ei chymeryd allan o yspryd a sylwedd yr ail orchymyn mawr o'r ddeddf foesol: ac y mae y rhai a ganlyn o'r un ansawdd a thymber a hi. Neu, hwyrach y gellid dweyd yn atddodiad ati, yn ddygiad yn mlaen o gyfraith cariad i'w heithafion pellaf, 'Cerwch eich gelynion, gweddiwch dros y rhai a'ch mellidhiant, gwnewch dda i'r sawl a wnel ddrwg i chwí,' &c. Y maent oll yn anadlu cariad a heddwach, yn berffaith deilwng o'r hwn y canwyd yn ei enedigaeth i'r byd, 'Ar y ddaear tangnesedd, i ddynion ewyllys da.' Y mae y fath egwyddorion yn myned dan wraidd holl drueni ac annhrefn y byd, ac yn tueddu i osod 'dyddiau y nesoedd ar y ddaear.' Beth pe ymddygai holl lywodraethau a theyrnasoedd y byd tuag at eu gilydd yn ol yr egwyddorion hyn! Ni byddai nag eiddigedd, cynhen, na rhyfel byth rhyngddynt a'u gilydd: gellid 'troi y cleddyfau yn sychau, a'r gwaewffyn yn bladuriau' yn uniongyrchol. Os byddai rhyw deyrnas neu wladwriaeth yn afonyddu yr heddwach cyffredin, gan ymddwyn yn groes i'r rheol o wneuthur i ereill fel yr ewyllysia i ereill wneuthur iddi hi, drwy geisio cyfyngu ar eu hiawnderau, y mae darpariaeth yn lle y cleddyf yn cael ei dwyn yn mlaen yn yr egwyddorion o faddeu cam, talu da am ddrwg, &c. a fyddai yn sicr o fod yn eifeithiol i orchfygu a lladd yr ymryson, a'i henill hithau drwy 'bentyru marwor tanlyd' cariad ar ei phen. Meddyliwch bod egwyddorion bendigaid yr Ysgrythyr sanctaidd yn cael eu cofseidio gan bob calon, yn cael eu llawn ddylanwad yn mhob mynwes, pwy a allai ddarlunio hedd a gwynfydedigrwydd y byd, prydferthwch moesol ei agwedd a'i gyflwr? 'Gollynged asgell angel scrifellyn.' * *

Caf osod i lawr yma ychydig nodiadau o waith y dysgedig Dr. Paley, yn ei draethawd rhagorol ar ddwyfoldeb Crist'nogaeth.

'Dan y pen hwn,' sef moesoldeb yr efengyl, medd efe, 'buaswn gyda hyfrydwch, pe buasai terfynau fy ngwaith yn caniatáu, yn doddi i mewn yn y lle yma yr hyn oll a ddywedir ar foesoldeb yr efengyl gan awdwr y traethawd ar *Brofion mewnol Crist'nogaeth*; oblegid y mae yn berffaith gydunol a'm golygiadau, ac o herwydd bod yn anmhosibl dywedyd y pethau hyn yn well. Y sylwedydd craffus hwn ar natur ddynol,

a chywir grediniwr o'r grefydd Grist'nogol, fel y tybiaf, a brofodd i foddlonrwydd hollol y ddau osodiad canlynol, debygwn i; sef,

'Yn gyntaf, Nad yw yr efengyl yn crybwyll rhai rhagoriaethau, y rhai yn gyffredin a sawrhêir ac a ganmolir gan blant dynion, ond y rhai, mewn gwirionedd, ac yn eu heffeithiau cyffredin, a suant bob amser yn niweidiol.

'Yn ail, Bod yr efengyl yn arganmol rhai rhinweddau ag ydynt yn cynwys ynddynt y rhagoroldeb a'r gwerth mwyaf, ond y rhai yn gyffredin na wneid nemawr o sylw na chyfrif o honynt.

'Y cyntaf o'r gosodiadau a esyd allan yn yr enghreifftiau o gyfeillgarwch, gwladgarwch, dewrder ymladdgar, yn yr ystyr y golygir y rhagoriaethau hyny yn gyffredin, ac yn yr ymddygiad a gynhyrchant yn fynych.

'Yr ail, yn yr enghreifftiau o wrolder goddefol, neu ddyoddefgarwch, amynedd yn wyneb sarhad a niwed, gostyng-eiddrwydd, tawelwch, hynawsedd.

'Y gwir yw—dau ddysgriafiad gwrthgyferbyniol o nodwedd ydynt, o dan y rhai y gellir dosparthu dynolryw yn gyffredinol. Medda un ar rymusder, cadernid, gwrolfrydedd; ac y mae yn öfn a bywiog, yn hawdd ei gyffroi, yn eiddigus dros ei anrhydedd, yn awchus am ei hawliau, yn anmhlygadwy yn ei fwriad, a thanllyd yn ei ddigofaint. Y llall yn addfwyn, plygedig, ymarhöus, maddeugar; yn anmharod i weithredu, ond yn ewyllysgar i ddyoddef, dystaw a llariaidd pan yn cael ei sarhau a'i waradwyddo, ymofyna am gymodiad y lle y gofynai ereill am iawn neu ddigollediad, rhydd y ffordd i ruthrau a haerllugrwydd, y mae yn hawdd ganddo edrych dros a chyd-ddwyn a rhagfarnau, penglogrwydd, ac anynadrwydd y rhai hyny y mae a wnelo a hwynt.

'Y cyntaf o'r nodweddau hyn ydyw, ac a fu erioed, yr un a gâr y byd hwn. Nodwedd dynion mawrion ydyw. Y mae mawrfrydedd ynddo, ac y sydd yn galw am barch ac urddas cyffredinol.

'Yr olaf sydd druanfryd, gwylaidd, ac iselaidd. Eto, er hyn, yr olaf hwn ydyw gwrthrych dewisol sylfaenydd Crist'nogaeth, i'w ganmol, i'w gymhell, ac i osod esiampl o hono; ac nid yw y cyntaf i gael un lle yn nghyfansoddiad ei grefydd.

Dyma y nodwedd a olygir yn yr ymadroddion nodedig a ganlyn, 'Na wrthwynebwbch ddrwg; ond pwy bynag a'th darawo ar dy rudd ddebau, tro y llall iddo hefyd: a phwy bynag a fyno ymgyfreithio â thi, a dwyn dy bais, gâd iddo dy gochl hefyd; a phwy bynag a'th gymhellow un filldir, dos gydag ef ddwy. Cerwch eich gelynyon, bendithiwch y rhai a'ch mell-dithiant, gwnewch dda i'r sawl a'ch casânt, a gweddiwch dros y rhai a wnel niwed i chwi ac a'ch erlidiant.' Yn sicr, nid rhyw foesoldeb isel-wael a chyffredin ydyw hwn. Y mae yn hynod gyntefig a gwreiddiol. O leiaf, y mae yn dangos, a dyna ein dyben yn ei ddwyn i mewn yn y lle hwn, fod y nodwedd gwronaidd a'r nodwedd Crist'nogol yn dra gwahanol.

'Yn awr, y mae yr awdwr, at yr hwn y cyfeiriais, wedi dangos nid yn unig y gwahaniaeth yn eglurach a grymusach nag un ysgrifenydd blaenorol, ond wedi profi, mewn gwrth-atebiad i folawdau areithwyr a beirdd, ac hyd yn nod i bleid-leisiau haneswyr a moes-athrawon, bod y nodwedd olaf a grybwyllwyd yn cynwys mwy o wir werth, fel ag y mae yn anhaws i'w gyrhaedd a'i gynnal, ac fel y mae yn tueddu i ddwyn mwy o ddedwyddwch a thawelwch i fywyd cymdeithasol. Efe a ymresyma fel hyn—

'Iaf, Pe byddai y tueddfryd hwn yn un cyffredinol, y mae yn dra amlwg y byddai y byd yn gymdeithas o gyfeillion. Pan, ar yr un pryd, pe byddai y llall yn un cyffredinol, efe a effeithiai ymryson a therfysg cyffredinol. Ni allai y byd gynnal cenhedlaeth o'r cyfryw ddynion.

'2il, Os, yr hyn yw y ffaith, bydd y nodwedd Crist'nogol yn cael ei wisgo gan rai—os bydd i ychydig gael eu dylanwadu gan yr egwyddorion cynnwysedig ynddo, yn mhlith lluaus o rai gwahanol; i ba radd bynag y bydd iddo ffynu, i'r gradd hwnw y mae yn atal, yn tawelu, ac yn terfynu ymrysonau, cythryblwyr mawrion dedwyddwch dynoliaeth, a ffynhonellau mawrion trueni y byd, mor belled ac y mae dedwyddwch a thrueni y naill ddyn yn dybynu ar y llall. Heb y tueddfryd hwn, bydd cynhenau, nid yn unig yn fynych, ond wedi unwaith ddechreu ni bydd diwedd arnynt; oblegid bydd pob ad-daledigaeth yn peri tramgwydd newydd, ac o ganlyniad yn gofyn ad-daliad newydd; ac ni ellir dysgwyl terfyn ar y

sarhad a chynydd y dygasedd, ond pan derfyna hywydau neu gydgyfathrach y pleidiau.

‘Ni wnaaf ond yn unig ychwanegu hyn at y sylwadau uchod, sef, er y dychon y blaenaf o’r nodweddau a ddysgrifid fod yn ddefnyddiol ar achlysuron; er hwyrach y bydd i faeslywydd enwog, neu wladweinydd (*statesman*) mawr gael ei ffurfio ganddo, ac y gall y rhai hyn fod yn offerynau i ddwyn daioni mawr oddiamgylch: eto, nid yw hyn ddim mwy nag sydd wir am lawer o elfenau, y rhai a gydnabyddir yn gyffredin eu bod yn bechadurus. Y mae cenfigen yn wyn o’r natur yma; ond ni wn am un cynhyrfydd cryfach i ymdrech a llafur: llawer ysgolhaig, llawer celfyddwr, llawer milwr a gynhyrchwyd ganddi; er hyny, tra y mae ei heffeithiau cyffredinol yn niweidiol, y mae yn cael ei chondemnio yn briodol gan bob moes-athraw difrifol.

‘Rhan o’r un nodwedd ac yr ydym yn dadleu drosto, neu yn hytrach ei gariad ato, a ddangosai ein Gwardedwr yn ei waith yn mynych geryddu uchel-gais ei ddysgyblion; ei  aml grybwylliadau o fod mawredd yn eu plith hwy i fod yn gynywysedig mewn gostyngeddwrwydd; ei waith yn beio y cariad at uchafiaeth, a’r awydd awchus am flaenafiaeth, a ddangosai mawrion y genedl ar bob achlysur, mawr a bychan. ‘Y maent yn caru y lleoedd uchaf mewn gwleddoedd, a’r prif gadeiriau yn y synagogau, a chyfarch yn y marchnadoedd, a’u galw gan ddyinion, Rabbi, Rabbi. Ond na alwer chwi, Rabbi, canys un yw eich Athraw chwi, sef Crist, a chwithau oll brodyr ydych. Ac na elwch neb yn dad i chwi ar y ddaear; oblegid un Tad sydd i chwi, yr hwn sydd yn y nefoedd: ac na’ch galwer yn athrawon; oblegid un yw eich athraw chwi, sef Crist. Ond yr hwn sydd fwyaf yn eich plith chwi, bydded weinidog i chwi; a phwy bynag a’i dyrchafo ei hun, a ostyngir; a’r hwn a’i gostyngo ei hun, a ddyrchefir.’ Ni wnaaf un sylw pellach ar yr ymadroddion uchod; oblegid, mewn gwirionedd, nid ydynt ond ail adroddiad o’r athrawiaeth a eglurwyd eisoes, oddigerth bod rhai o’r ymadroddion, ac yn neullduol cyngor ein Harglwydd i wahoddedigion gwleddoedd yn estyn y rheol at yr hyn a alwn ni yn weddeidd-dra, yr hyn oedd yn eithaf priodol a chyson, ac heb fod yn gym-

aint îslaw i urddas cenhadwriaeth ein Harglwydd ac y gellid tybio ar yr olwg gyntaf; oblegid y mae anweddeidd-dra yn anfoeso!deb.*

Y mae ansawdd, purdeb, a gogoniant moesol yr egwyddorion ymarferol hyn yn brawf grymus dros eu dwyfoldeb. Y maent yn anfeidrol deilwng o Dduw, yn berffaith gyson a'r datguddiad neu y dystiolaeth a rydd y Bibl am dano fel Bod anfeidrol o garedigrwydd ac ewyllys da.

Ac fel y maent yn deilwng o hono ef, y maent hefyd yn deilwng o dderbyniad a chroesawiad y creadur rhesymol, y mae ei ddedwyddwch a'i ogoniant ynddynt. Cariad yn ym-dywallt yn fendithion a gwynfydedigrwydd ar y ddaear ydynt—yn anadlu ei dymer garedigol a haelfrydig i bob mynwes—yn amcanu alltudio pob cynhen, gormes, creulondeb, a chen-figen allan o'r byd—dwyn dynion i ymhyfrydu yn llwyddiant a daioni eu gilydd fel yr eiddynt eu hunain, yn lle caru trueni ac adfyd y naill y llall—eu heffeithio i 'edrych bob un, nid ar yr eiddo ei hun yn unig, ond ar yr eiddo arall hefyd'—mewn gair, nodwedd ac ansawdd y brif egwyddor fawr a argymbella y Bibl ar y byd, a'r hon mewn gwirionedd, ydyw hyn, 'Y mae yn hir-ymaros, yn gymwynasgar, nid yw yn cenfigenu, nid yw yn ymfrostio, nid yw yn ymchwyddo, nid yw yn gwneuthur yn anweddaidd, nid yw yn ceisio yr eiddo ei hun, ni chythruddir, ni feddwl ddrwg, nid yw lawen am anghyfiawnder, ond cyd-lawenhau y mae a'r gwirionedd; Y mae yn dyoddef pob dim, yn credu pob dim, yn gobeithio pob dim, yn ymaros â phob dim. Gan hyny, ynte, rhaid fod y galon hono a fedro ymladd yn erbyn y fath egwyddor wedi ei hufferneiddio i'r graddau eithaf. Yn sicr, os nad oedd y Bibl yn air Duw, os nad oedd Iesu Grist yn Fab ac anfonedig Duw, ni all priodoli bod y fath egwyddorion moesol a gyn-wysa y Bibl, ac a ddysgai Iesu Grist, wedi deilliaw oddiwrtho, yn un dianrhydedd iddo; ond yn hytrach, y maent yn gosod allan ei nodwedd yn y ddrych hawddgaraf a mwyaf gogoneddus ger bron ei greaduriaid. Ac os nad ydyw o'r fath nodwedd foesol ac y dywed y Bibl ei fod, ni all fod yn hawddgar a gwir ogoneddus: os nad yr egwyddorion ymarferol a

* 'Paley's Evidences of Christianity.' Edinburgh edition. p. 225—226.

geir yn y llyfr hwn ydyw gwir egwyddorion llywodraeth foesol Duw, i ba le yr edrychwn amdanynt? Ac onid ydyw eu rhagoroldeb, eu purdeb, a'u cymhwysder, yn nghyd a'u hamcan a'u tuedd, &c. yn brofion cedyrn o'u deilliad dwyfol? Daw hyn i'r golwg yn eglurach wrth eu cyferbynu a'r egwyddorion a'r rheolau buchedd a ddeilliodd o ddyfais a dychymyg calon dyn.

Yn awr, gadewch i ni edrych pa beth a gynhygir yn gyfarwyddyd buchedd i ni, gan y rhai hyny a wadent ddwyfoldeb yr Ysgrythyrau, beth yw ansawdd a thuedd ymarferol yr egwyddorion a ganmolant ac a osodant i fynu. Y mae y gwyr hyn wedi bod yn ffrostwyr mawrion o'u cariad at ddynolryw ac at iawn drefn a dedwyddwch y byd, ac oddiar yr egwyddorion a'r teimladau hyn, pwy a feddyliai yr ymgenient i ymlid crefydd allan o'r byd, a dinystrio pob hyder yn yr Ysgrythyrau fel datguddiad goruwch-naturiol oddiwrth Dduw, yn meddyliau dynion.

Gesydd Arglwydd Bolingbroke hunan-gariad fel prif egwyddor moesoldeb ac iawn ymarferiad. 'Nyni a garwn ein hunain,' medd efe, 'ein teuluoedd, a'r cymdeithasau neullduol i'r rhai y perthynwn; a'n cariad a ymestyn o'r diwedd at yr holl hîl ddynol fel cynnifer o forteisiau—canolbwynt y cwbl yw hunan-gariad. Dyma hefyd yr egwyddor a osodai Volney, afffyddiad arall, i lawr: i.e., a dyma hefyd yr egwyddor y sylfaenai Satan, duw y byd hwn, ei lywodraeth arni. Y mae yn cau Duw allan yn hollol o galonau a serchiadau ei creaduriaid—yn dywedyd wrtho, 'Cilia oddiwrthym.' Cynhyrch hon ydyw holl drueni ac annhrefn y byd. Y mae yn sicr nad yw yn bechadurus i ddyn ei garu ei hunan; y mae hyny yn beth naturiol a gweddaidd: ac y mae hunan-gariad yn un o'r elfenau angenrheidiol i'w ddedwyddwch—creadur yn ei gasau ei hun, ni allai ond bod yn druenus ac annedwydd. Ond gosod hunan yn ganolbwynt i'w gariad yw yr hyn y dadleuir i'w erbyn: egwyddor ag y sydd yn difeddiannu y Creawdwr o bob rhan a chyfran yn serch a chalon ei creadur.

'Pe cywir y gosodiad hwn,' medd Mr. Ffwler, 'yn sicr ni buasai y byd yn ddiffygiol mewn moesoldeb. Y mae pob dyn yn meddu yr egwyddor flaenaf o hono, o leiaf, pa un bynag a ydynt yn ei dwyn allan i'r eangder a grybwylla

Arglwydd Bolingbroke, ai peidio : oblegid, er y gall rhai gamsynied yn newisiad eu hamcan, ac ereill yn y moddion i'w gyrhaeddyd, eto, ni bu un dyn erioed yn ei iawn bwyll mor amddifad o ofal amdano ei hun ac y bwriadai ei niwed ei hun. Ond, os profir bod gosod hunan-gariad fel prif egwyddor moesoldeb yr un peth a'i osod ei hunan fel Bod Goruchaf, ac o ganlyniad, bod yr egwyddor hon, yn lle bod yn ffynhonell rhinwedd, yn wir achos o holl ddrygedd ac aflwydd y byd, bydd ein gwrthwynebwyr yn dra annedwydd eu helynt.

'Os bydd i'n hymdrech penaf derfynu ynom ein hunain, ac na byddom yn caru un bod crëedig na digrëedig ond er ein mwyn ein hunain, mae'n amlwg na ddichon bod unrhyw undeb tu hwnt i'r cylch y delo bodau ereill yn ewyllysgar i fod yn îs-wasanaethgar i'n hewyllysiau ni. Bydd y Bod Goruchaf yn wrthwynebwyr gwastadol i ni, os na bydd ein cynllun yn gyd-unol a'r eiddo ef, ac felly byddwn mewn ymryson gwastadol âg ef. A chyda golwg ar gyd-greaduriaid, y mae gan y personau hyny a ewyllysiem ni eu bod yn îs-wasanaethgar i'n dymuniadau ni yr un hawl a'r un tueddfryd i geisio genym ni fod yn îs-wasanaethgar i'r eiddynt hwy : ac felly, byddwn mewn ymryson gwastadol a'n gilydd hefyd. Yn fyr, ni allai dim ond anghydfod a dryswch diddiwedd fod y canlyniad. Pob un yn ymosod am flaenoriaeth, a phob un yn anocheladwy a gyfranai ei ran at ddwyn y wladwriaeth i'r sefyllfa o anhrefn a thrueni y syrthiai iddi. Y cyfryw, mewn ffaith, ydyw sefyllfa y byd dyrywiedig hwn ; ac oni b'ai rhagluniaeth ddwyfol, yr hon a oruwchlywydda ac a fantola holl achosion dynoliaeth—a bâr i un rhyw o ddrygau wrth-weithredu dylanwad un arall, a'r cwbl i ateb dybenion pell oddiwrth fwriad y cyflawnyddion, byddai yn sicr o gael ei ddadymchwelyd gan ei anhrefn ei hunan.'

Y mae mawr ddallineb calon yn cael ei amlygu yn ngwaith y gwyr a nodwyd, yn gosod i lawr fel egwyddor benaf moesoldeb ac iawn drefn yr hyn sydd mor hawdd ei ddangos a'i brofi ei fod yn wreiddyn holl chwerwedd, yn famaeth holl ddrygedd a ffeidd-dra y ddaear—yr egwyddor a chwythodd y sarph a'i hanadl gwenwynig i galonau ein rhieni cyntaf, ydyw, 'Chwi a fyddwch megis duwiau.' Dïcrseddu Duw,

a chodi hunan yn ganolbwynt serch yn ei le ; ac fel hyn, bydd pob un yn ganolbwynt iddo ei hun, cynifer o dduwiau ac o ddyinion, pawb yn llywodraethu a neb yn ymostwng, pob un at ei elw, ei enw, ei eulun ei hun o'r cwr ; ac o ganlyniad anocheladwy, â y naill ar draws y llall, drysant amcanion eu gilydd ; pob un ar ffordd ei gymydog ; myn pob un osod ei ewyllys ei hun yn rheol gyffredinol—tra y byddo hunan-gariad yn brif egwyddor, ni bydd yr un canolbwynt cyffredin i'r gymdeithas yn bod, un man cyfarfod i serchiadau a dymuniadau deiliaid y wladwriaeth foesol i'w gael ; ond pob un o honynt am ei godi ei hunan i'r lle hwnw—ac felly, bydd yn ddadl drag'wyddol rhyngddynt a'u gilydd—a dyma wir fell-dith y byd. Y mae teimlad o gariad ac ewyllys da cyffredinol at ddynolryw yn beth anmhosibl i fod yn y galon ac y byddo hunan yn ganolbwynt ei gofal a'i serchiadau. Cyn y gall cariad ac ewyllys da cyffredinol deyrnasu a chael llawn reolaeth yn y galon ddynol, rhaid iddi gael canolbwynt tu allan iddi ei hunan—rhaid i'r gymdeithas foesol gael ei chlymu yn nghyd wrth un achos mawr a chyffredin, fel y byddo gan bob aelod yr un prif wrthrych serch a chariad, yr un prif ddyben goruchel i amcanu a chyrru ato, achos a dyben ac y byddo pob un yn colli ei hunan ynddo, hunan wedi ei lyncu mewn gwrthrych ac amcan anwylach na hunan. Ar yr egwyddor hon, edrycha pob aelod ar y naill y llall a llygad di-eiddigedd, a mynwes lawn o garedigrwydd ac ewyllys da ; fel cydweithwyr yn yr un achos, cydgynhorthwyr yn nygiad yn mlaen yr un dyben goruchel.

Ond i ddychwelyd, Mr. Hobbes, anffyddiad arall, a haerai mai 'y gyfraith wladol yw unig brawf-reol o ddrwg a da, ac nad ces gan grefydd unrhyw awdurdod ond a rydd y llywodraeth iddi. Yn hyn, y mae y gwr hwn yn dylun amryw o'r hen ddoethion Paganaid ; ond gwrthwynebid a beïd y gosodiad gan ereill o honynt. 'Y mae yn dybiaeth gamsyniol am rinwedd,' medd Seneca, 'i farnu daioni dyn wrth y gyfraith yn unig. Pa gymaint helaethach ei therfynau ydyw rheol dyledswydd neu weithredoedd da na rheol iawnder gwladol ? Pa gynnifer o bethau y sydd, y rhai y mae duw-ioldeb, dyngarwch, haelfrydedd, cyfiawnder, a ffyddlondeb yn eu gofyn, ac nad ydynt o fewn cylch y deddflyfrau

gwladol?' Yn fyr, y mae y fath osodiad yn dwyn gydag ef ei hunan-gondemniad—byddai yr un weithred wobrwyaedwy mewn un oes yn fai cospadwy mewn oes arall, yn ganiataol a chanmoladwy mewn un wlad, yn waharddedig a beiadwy mewn gwlad arall. Mewn gair, ni byddai y fath beth a rhinwedd a bai, moesoldeb nag anfoesoldeb, yn bod, mewn gwirionedd.

Rosseau, un o anffyddiaid hynod Ffrainc yn y ganrif ddiweddaf, a osodai ei deimladau yn brawf-rëol moesoldeb. 'Nid oes genyf ond ymgynghori â mi fy hun,' medd efe, mewn perthynas i'r hyn a ddylwn ei wneuthur; yr hyn oll a deimlwyf fi ei fod yn iawn, *sydd* iawn; a pha beth bynag a ystyriwyf ei fod o'i le, *sydd* o'i le. Y mae holl foesoldeb ein gweithredoedd yn troi ar y farn a ffurfiwn ni ein hunain amdanynt.' Aeth yr adyn hwn i ganlyn ei deimladau i bob trueni a halogedigaeth bywyd, ar draws teimladau ac iawnderau ei gydgreaduriaid; ac yr oedd y cwbl yn iawn ac yn ei le, am y teimlai efe eu bod felly. 'Aethant wrth eu cyngor eu hunain.'

Ond yr hyn y safwyd arno yn benaf gan y frawdoliaeth hon, fel prawf-rëol o foesoldeb, ydyw goleuni a chyfraith natur: ond dangoswyd eisoes bod hŏno yn ddiffygiol ac aneffeithiol i ateb y dyben o adferu y byd i'w le—na ddeallodd ac na ddeallasai y byd byth ei hegwyddorion o hono ei hun, a bod angen anheggorol arno am ryw gyfarwyddwr amgenach i ddysgu iddo 'ffordd dealltwriaeth' a rhinwedd.

Fel hyn, ni a welwn na allai yr apostolion anffyddiaid hyn gyduno a'u gilydd, pan yn ceisio gosod i fynu brawf-rëol o foesoldeb yn lle yr eiddo gair Duw. I ba ddryswch ac anghysonderau y syrthiasant! Wrth gymeryd arnynt ddangos i'r byd y ffordd i rinwedd a dedwyddwch, pa mor amlwg ydyw eu bod yn ei gyfarwyddo ar ei ben i bob trueni, annhrefn, a dystryw! Beth pe byddai y byd wedi ei ollwng yn hollol i ddylanwad y fath egwyddorion? Byddai i gyfiawnder ac uniondeb, daioni a chymwynasgarwch, pob rhinwedd ac iawndrefn, lwyrr ymadael allan o hono—byddai camwedd y ddaear yn drwm arni, 'hi a gyfodai oll megis llifeiriant, ac a foddid megis gan afon yr Aifft.' Y mae yr anffyddiaid crybwyllledig oll, agos, yn esgusodi ac yn cefnogi godineb a thor-priodas,

yn datod holl rwymau cymdeithas a threfn deuluaidd. Edr-ychai y rhai mwyaf cyfrifol o honynt, megis Arglwydd Bolingbroke, Herbert, a Mr. Hume, ar y cyfammod priodasol megis peth hollol ddibwys, a'i fod yn hytrach yn orthrymder ar y natur ddynol i rwymo dyn wrth un wraig, a gwraig wrth un dyn. 'Yr unig ystyriaeth,' medd Bolingbroke, 'a all gymodi meddwl dyn i rwymo ei hunan mewn priodas wrth un wraig, a gwraig wrth un dyn, ydyw hyn, Nad oes dim yn atal iddynt i borthi eu dymuniadau gydag ereill.' 'Yr hyn sydd yr un peth,' medd Ffwler, 'a chyhuddo yr holl hîl ddynol o anniweirdeb, a gwadu nad oes y fath beth a ffyddlondeb priodasol yn bod—prawf eglur nad oedd ef, Arglwydd Bolingbroke, ei hun, beth bynag yn rhydd yn wyneb y cyhuddiad.' 'Rhaid ymarfer godineb,' medd Hume, 'os mynwn fwynhau holl fanteision bywyd; nad yw anniweirdeb gwraig, pan y delo yn adnabyddus, ond peth hollol ddibwys, ond pan yn ddirgelaidd, uad yw ddim yn y byd.' Braidd na welwn wyneb fy narllenydd yn gwrido uwch ben y fath ymadroddion, ond ni phoenaf ei lygaid a'i deimladau a rhagor o honynt.

'Swm y cwbl,' medd Ffwler, 'yw, nad oedd gan yr anffyddiaid diweddar unrhyw brawf-rëol foesol, ond eu tuedd-iadau eu hunain yn unig. Moesoldeb, ganddynt hwy, sydd unrhyw beth, neu ddim yn y byd, fel y byddo cyfleusdra yn gofyn. Ar rai achlysuron, hwy a ganmolant athrawiaeth Iesu Grist; ond cyn y caffom amser i ofyn iddynt, Paham gan hyny nad ymostyngech iddo? ni a'u cawn ar waith yn ei gwrthwynebu. Os sylwch ar eu canmoliaethau cyffredin i rinwedd, argyhoeddir chwi mai hwynt hwy yw cyfeillion gwresocaf rhinwedd: ond dilynwch hwynt, a sylwch ar eu hesboniadau ar rëolau neullduol, ac argyhoeddir chwi mai ei gelynyon penderfynol ydynt, yn arganmol yn y cyfanswm yr hyn y maent bob amser yn cloddio dan ei sylfeini yn ei ranau gwahanol.

'Gallem feddwl, oddiwrth y dysgrifiad ynfyd ac anghyson a rydd yr ysgrifenydd hyn o foesoldeb, na wyddent yn y byd pa beth ydyw. Y mae y naill yn anfoddlon i'r dysgrifiad a rydd y llall o hono, ac yn ymdrechu ei wella. 'Rhinwedd,' medd Arglwydd Shaftesbury, 'ydyw ystyriaeth o brydfferth-

wch, o gysondeb, o drefn, a chydweddeidd-dra—serch tu ag at ein holl gydryw.’ ‘Hunan-gariad yn unig ydyw,’ medd Bolingbroke. ‘Pob peth sydd yn tueddu i gynnal a pherffeithio dyn ydyw,’ medd Volney. ‘Pa beth bynag sydd ddefnyddiol mewn cymdeithas ydyw,’ medd Hume. Ac fel y mae iechyd, glanweithdra, hyawdledd, corph cryf, &c. yn ddefnyddiol, y maent i’w cyfrif yn rhinweddau. At hyn, gellid ychwanegu digywilydd-dra a haerllugrwydd, oblegid y mae yr ysgrifenydd a enwyd ddiweddaf yn sicrau, hwyrach oddiwrth ei brofiad personol ei hun, ‘nad oes dim mor wasanaethgar i ddwyn dyn drwy y byd hwn, na digon o fedr i ddangos haerllugrwydd naturiol.’ Mr. Paine a berffeithia y dysgrifiad, ac a’n dysg, mai ‘gwneuthur cyfiawnder a hoffi trugaredd, ac ymdrechu i wneuthur ein cyd-greaduriaid yn ddedwydd ydyw.’ O Paine! Pe buasid am unwaith yn ym-ostwng i gymeryd addysg gan brophwyd, ac yn dyfynu ei eiriau fel y maent ar lawr, buasit yn ddiameu yn cael yr anrhydedd: ond dewisit yn hytrach ysgrifenu ffolineb na dywedyd dim o blaid duwioldeb.

‘Y mae yn deilwng o sylw, bod yr ysgrifenydd hyn, yn nghanol eu holl anghysonderau, yn cyduno i gau y Bod dwyfol allan o’u dysgeidiaeth foisol. Y maent yn meddwl yn eu dull eu hunain, ond ‘nid yw Duw yn eu holl feddyliau.’ Wrth gydmaru yr athrawiaeth Grist’nogol o foisoldeb, swm yr hon ydyw cariad, a’u cymysgfa annuwiaidd hwy, gallem dybio clywed llais yr Hollalluog yn dywedyd, ‘Pwy yw hwn sydd yn tywyllu cyngor â geiriau heb wybodaeth? Ofna Dduw a chadw ei orchymynion; canys hyn yw holl ddyled dyn.’

Yr anfyddiaid crybwylledig oeddynt ddynion o gyfoeth, dysg, a thalentau helaethion: yr oedd y pla hwn yn fwyaf cyffredin yn y ganrif ddiweddaf yn mhalasau pendefigion a mawrion y deyrnas, fel ac yr ydym yn cael enwau amrywiol ieirll ac arglwyddi, a dysgedigion, yn daenywyr ac amddiffynwyr ei hegwyddorion. Nid oes nemawr un o gyfoeth, dysg, a dylanwad, wedi dyfod yn gyhoeddu o blaid yr egwyddorion hyn er ys llawer o flynyddoedd bellach: ond y mae anffyddiaeth y dyddiau presenol gan mwyaf i’w gael yn mhlith y radd iselaf a gwehilion y wladwriaeth. Archoffeiriad y gred

felldigedig hon yn y dyddiau presenol ydyw un Robert Owen o Lanark; yr hwn sydd yn arfer diwydrwydd, zel, a haelioni yn nhaeniad ei egwyddorion, ac y sydd deilwng o well achos. Yr un egwyddorion, o ran sylwedd, ydyw yr eiddo ef a'r eiddo yr anffyddiaid gynt, gyd ag amryw gyfnewidiadau er gwaeth; ac er eu cyfaddasu at dderbyniad ac archwaeth graddau isaf cymdeithas. Y maent yn gwneyd cryn gynhwrf mewn amryw fanau yn Lloegr y dyddiau hyn. Y mae amryw bethau yn nghyfuondraeth yr anffyddiad hwn, ac y buasai yn gywilydd gan wyr fel Herbert, Shaftesbury, Bolingbroke, ac ereill o'r cyffelyb, eu crybwyll; er pelled dros ben terfynau gweddeidd-dra a dillynfoes y medrent fyned, weithiau. 'Drwg ddynion a thwyllwyr a ânt rhagddynt waeth-waeth!'

Ond cyn terfynu y bennod hon, cawn ddangos anghysonderau ac addefiadau rhai o'r gwyr y crybwyllwyd eu henwau mewn cysylltiad a'r egwyddorion a gynhygid i'r byd fel rheolau rhinwedd a dyledswydd, yn lle yr eiddo y Bibl. Dywed Arglwydd Bolingbroke, bod y 'datguddiad naturiol yn cyfleu gwybodaeth drwyadl a chyflawn o'r egwyddorion cyntaf, hyd y diweddaf—y mae yn ddatguddiad sefydlog a gwastadol, wedi cael ei wneyd, ac yn cael ei wneyd bob amser, i holl blant Adda. Y mae yn ddealladwy bob amser ac yn mhob man yr un fath, ac wedi ei gymhwyso at y deall gwanaf. Y mae llechau deddf natur mor amlwg i olwg pob dyn, fel na all un dyn ag y sydd yn alluog i ddarllen y llythyrenau egluraf, eu camgymeryd!' Caiff Arglwydd Bolingbroke ei hun ei ateb ei hun—nid oes un angen am i neb arall gymeryd y drafferth gydag ef. Sylwch! Fel hyn yr ysgrifennai yr un llaw ag a ysgrifennodd fel uchod. 'Y mae deddf natur yn guddiedig o'n golwg, gan gymylau amrywiog o ddeddfau a defodau gwladol. Gellir caufod rhai pelydrau o wir oleuni trwyddynt; ond y maent yn peri ei fod yn oleu gwanaidd ac ausicr: ac ni all fod yn amgen i'r rhai y mae ganddynt y golygon craffaf, nes y symuder y cyfryngau hyn.' Eto—'Pan yr elom i wneuthur cymhwysiaidau neullduol o ddeddfau cyffredin natur, yr ydym yn agored i gamgymeryd.' Ychwanega—'Bod pethau priodol ac anmhriodol, union a cham, cyfiawn ac anghyfiawn, yn y trefniant dynol, ac y gellir eu

canfod gan reswm dynol, mor belled ag y canjata amherffeithderau ein natur, a addefaf yn rhwydd. Ond o herwydd yr anhawsder sydd i ni i farnu, ac o herwydd ansicrwydd ein barnau mewn lluaws o bethau, y rhai ydynt o fewn ein cyraedd, mi a gyfrifwn yn ynyfyd y rhai a gymerant arnynt wybod am bethau tu hwnt i'r cylch hwn. Y maent yn analluog lawer gwaith i gasglu oddiwrth eu cyfansoddiad eu hunain, a deddfau eu natur, gyda chywirdeb a sicrwydd, pa beth mae y rhai hyn yn ofyn oddiwrthynt, a pha beth sydd iawn, neu feius, cyfiawn, neu anghyfiawn, iddynt wneuthur.' Tarawodd ei drosol dan wadn ei adeilad, a thynodd hi bendramwngl am ben ei glustiau!

Ha! Anffyddiaeth! 'Ansafadwy oeddit fel dwfr—ni ragoni di!'

Clywch leferydd yr un gwr eto. 'Ni ymddangosodd crefydd erioed yn y byd, yr hon y byddai ei thuedd naturiol i daenu heddwch a dedwyddwch yn mhlith dynolryw, fel Crist'nogaeth. Ni all un trefniant fod yn fwy syml ac eglur nag y mae crefydd natur, fel ei gosodir allan yn yr efengyl. Y gyfundrefn o grefydd a gyhoeddai Crist, ac a gofnodai ei efengylwyr, sydd yn un berffaith er ateb holl ddybenion crefydd naturiol a datguddiedig. Crist'nogaeth, fel y mae yn sefyll yn yr efengyl, a gynwysa, nid yn unig drefniant *perffaith*, ond un *tra eglur* o grefydd. Y mae yr efengyl ar bob mater yn cynwys un wers ddiwyrni o'r moesoldeb manylaf o gyfiawnder, o haelfrydedd, ac o garedigrwydd cyffredinol.'

T. Paine, un o brif ddirmygwyr crefydd y Bibl, a ysgrifennai fel hyn. 'Yr oedd Iesu Grist yn ddyn rhinweddol a hawddgar; yr oedd y moesoldeb a bregethai ac a ymarferai o'r fath oreu a phuraf: ac er y pregethid egwyddorion moesoldeb cyffelyb i'r eiddo ef gan Confucius, a chan rai o'r doethion Groegaidd, lawer o flynyddau o'i flaen, a chan lawer o ddynion da yn yr holl oesau, ni ragorodd yr un erioed arno.' Y ffwl! Paham yr ymdrechai ef i ddiwreiddio Crist'nogaeth o'r byd ynte?

Gallesid llenwi tudalenau ag addefiadau cyffelyb, o eiddo Tindal, Toland, Morgan, Chubbe, ac eraill, y rhai oeddynt oll yn anffyddiaid profsedig. 'Caseion' y Bibl 'a gymerasant ymostwng iddo ef.' Enillai Crist'nogaeth fuddugoliaeth

ar eu cydwybodau, er gwaethaf gelyniaeth ymroddedig eu calonau ati, nes y gorfyddid hwy ambell waith i wneuthur addefiadau o'i phlaid. Ond nid yw y rhai uchod, a'r cyffelyb a allesid ychwanegu, ond gweiniaid, mewn cydmariaeth i'r tystiolaethau a wasgwyd oddiwrth lawer o honynt ar wely angeu. Yno y profasant eu bod wedi rhuthro yn erbyn craig anymchweladwy, ac iddynt eu dryllio eu hunain yn chwilfriw yn yr ymgyrch ffol. Y lleoedd tebycaf i uffern a welwyd ar y ddaear erioed oedd claf-ystafellau rhai o honynt. Anhawdd fuasai credu y gallasai iaith marwolion osod allan deimladau damnedigion mor helaeth ac arswydus, pe na chofnodesid eu hymadroddion. Cynhygiwn arwain y darlennydd mewn lle arall o'r gwaith hwn i'r ystafelloedd tywyllion hyn, er eu bod braidd yn rhy ddychrynlyd i fyned tu mewn i'w trothwyau.

PENNOD VI.

PROFION MEWNOL DWYFOLDEB YR YSGRYTHYRAU YN CAEL EU HYSTYRIED YN MHELLACH—

Iesu Grist yr unig esiampl o berffaith burdeb moesol—Tystiolaeth Rosseau, yr anffyddiad, am fywyd, athrawiaeth, a hanes Iesu Grist—bywyd Iesu Grist yn cael ei gyddamaru a'r ddau orchymyn cyntaf a mawr o'r Gyfraith—ei gariad at Dduw a'i gymmydog yn amlwg a diball dan yr amgylchiadau mwyaf anfantaisiol a phrofedigaethus—cymhwysiaidau.

PROFION ALLANOL O DDWYFOLDEB YR YSGRYTHEYRAU—

Prophwydoliaethau a gwyrthiau—bras olwg gyffredinol ar brophwydoliaethau yr hen Destament. a'r cyflawliad o honynt—dyfyniadau o Esgob Newton—Prophwydoliaethau yr hen Destament am Grist, 'Hâd y wraig'—prophwydoliaeth Jacob, sylw o eiddo Jenings—amryw brophwydoliaethau ereill—sylwadau Dr. Paley ar *Essay* llii.—ychwanegiadau—proffion nad banesiaeth wedi ei ffugio gan dwyllwyr yw yr eiddo y pedwar efengylwr—prophwydoliaethau y Testament newydd—yr eiddo Crist ei hun—sylw ar rag-fynegiadau llyfr y Datguddiad—rhai o honynt yn cael eu cyflawni y dyddiau hyn—gwyrtiau—darnodiant o wyrth—sylwadau Dr. Gleig ar wyrthiau—gwrthgyferbyniad y gwyrthiau a hŏna Paganiaeth a Phabyddiaeth i'r eiddo Moses a Christ—atebwn rai gwr.h-ddadleuon yn erbyn gwyrthiau.

PRAWF O DDWYFOLDEB Y GREFYDD GRIST'NOGOL, SYLFAEN-EDIG AR GYNGOR GAMALIEL, *Actau* v. 34.

UN arall o ragoriaethau yr Ysgrythyr, fel cyfarwyddwr dyledswydd ac iawn fucheddiad moesol dyn, ac a ellir ei ystyr-ied hefyd yn un o broffion mewnlol o ddwyfoldeb, ydyw, ei bod yn cyflwyno esiampl o berffaith burdeb moesol ger bron y byd—un wedi byw yr egwyddorion a gynwysa i'r perffeithrwydd puraf ac uchaf. Dangoswyd o'r blaen na chafwyd erioed gynllun perffaith o foesoldeb pur mewn un ysgrifen, ond yr ysgrifen sanctaidd: ond yr oedd y byd yn fwy diffygïol fyth o burdeb moesol mewn esiampl. Ni chafwyd un moes-athraw yn y byd Paganaid na buasai yn gondemna-

iedig yn wyneb yr egwyddorion a'r rheolau a osodai efe ei hunan i lawr—er anmherffeithied y rheolau, ni ddaliasai ymarferiadau eu hawdwyr i gael eu profi yn eu hwyneb. 'Y mae yn beth tra hynod,' medd Abbot, 'yn mhlith holl honiadau a ffugchwedlau diddiwedd yr hen dādau, na cheisiodd un brudiwr, nag offeiriad, prophwyd, nag athronydd, erioed haeru ddarfod iddynt gael allan ddyn difrycheulyd. Yr holl fyd a dyn yn ol ei honiadau. Pob trefniant o grefydd, a phob ysgol doethineb a safant yn ol o'r maes hwn, gan adael Iesu Grist yn unig yn esiampl unigol o berffaith burdeb moesol, yn nghanol byd yn gorwedd mewn drygioni.' Y mae prophwydi, offeiriad, a brenhinoedd yr hen Destament, efengylwyr ac apostolion y Testament newydd, oll yn sefyll yn ol: y mae pob un yn annbraethol bell o hōni perffeithrwydd purdeb bywyd iddynt eu hunain, na'i briodoli y naill i'r llall. Mynych gofnodant eu hanmherffeithrwydd eu hunain, ac anmherffeithrwydd eu gilydd; tra, ar yr un pryd, y cytunant i osod allan Iesu Grist—y prophwydi, fel un a gyflawnai, a'r apostolion a'r efengylwyr, fel un a gyflawnasai, yr orchestgamp ogoneddus o osod esiampl o berffaith burdeb moesol ger bron dynolryw. Y mae hanes bywyd Iesu o Nazareth, gan y pedwar efengylwr, yr hynotaf a welodd y byd erioed: yma gwelir wynebpryd moesol difrychau yn gorddysgleirio gan burdeb, sancteiddrwydd, addfwynder a charedigrwydd; 'diddrwg, dihalog;' ac yn byw mewn byd ac yn mhlith 'cnawd pechadurus,' eto, 'yn ddidoleddig oddiwrth bechuriaid.' Un yn cael ei demtio i bechu, yn gweled pawb o'i ddeutu yn pechu, ac 'wedi ei wneuthur yn bechod,' eto, 'heb adnabod pechod.' Nid 'un yn mhlith mil' ydoedd; ond un ar ei ben ei hunan, yn wahanol i bawb. 'Y CYWIR HWNW.'

Gyda mawr hyfrydwch yr wyf yn cyfleu y dystiolaeth raggorol a ganlyn am fywyd ac athrawiaeth Iesu Grist, o eiddo y gelyn hynod hwnw i Grist a Christ'nogaeth; sef, Rousseau. Y mae yn cynwys ymresymiaid cryfion o blaid dwysoldeb yr Ysgrythyrau, a hyny o dau law un o'u gelynyon mwyaf maleisus a medrus a ymddangosodd yn y ganrif ddiweddaf. 'Mi a gyffesaf i chwi,' medd efe mewn llythyr at gyfaill, 'bod mawrhydi yr Ysgrythyrau yn fy nharo a syndod, yn gymaint ac y mae purdeb eu tystiolaeth yn effeithio ar fy nghalon.'

Chwiliwch weithian ein hathronyddion, gyda'u holl wychedd ymadrodd, pa mor isel, pa mor wael ydynt, mewn cydmariaeth a'r Ysgrythyr! A ydyw yn bosibl bod llyfr ag sydd ar yr un pryd mor syml ac aruchelaidd yn waith dyn yn unig? Y ydyw yn bosibl bod y person hynod, hanes yr hwn a gynwysant, yn ddim amgen na dyn yn unig? A ydym yn canfod un amser unrhyw beth tebyg i benboethedd neu uchel-gais pleidiol ynddo? Pa mor brydferth a phur ydyw ei foesau! Y fath raslondeb ac effeithioldeb sydd yn ei ddull o draddodi ei athrawiaeth! Y fath ogoniant yn ei egwyddorion—y fath orddwfn ddoethineb yn ei bregethau—y fath bresenoldeb meddwl, y fath gallineb, a'r fath wiredd yn ei atebion! Pa mor berffaith ei lywodraeth ar ei nwydau! Pa le y mae y dyn, pa le y mae yr athronydd, a allai fyw fel hyn, a marw fel hyn, heb wendid na gwagogonedd? Pan dynai Plato ei ddysgrifiad dychymybol o ddyn perffaith rhinweddol, dysgrifiai nodwedd Iesu Grist yn gywir. Yr oedd y tebygolrwydd mor hynodol, fel y canfu yr holl hen dadau ef.

'Pa ragfarn a dallineb raid fod, i gydmaru mab Sophronicus â mab Mair?' Y fath anfeidrol anghyfartalwch y sydd rhyngddynt! Bu Socrates farw heb boen na gwaradwydd, ac yr oedd yn beth hawdd iddo gynnal ei nodwedd hyd y diwedd; ac oni buasai i'w farwolaeth (er ei bod yn un esmwyth) goroni ei fywyd, hwyrach y gallesid ameu pa un a oedd Socrates gyda'i holl rinweddau yn ddim amgen na thwyll honwr gwag, ai peidio. Dywedir ddarfod iddo lunio athrawiaeth moesgarwch; ond yr oedd ereill pa fodd bynag, wedi eu gosod mewn ymarferiad yn flaenorol; nid oedd ganddo ef, gan hyny, ond dywedyd yr hyn oedd ereill wedi ei wneyd, a threfnu eu hesiamplau yn rheolau. Buasai Aristides yn gyfiawn, am i Socrates egluro natur cyfiawnder. Rhoddasai Leonidas ei fywyd dros ei wlad, cyn i Socrates ddysgu bod gwladgarwch yn rhinwedd a dyledswydd. Yr oedd y Shartiaid yn ddynion sobron, cyn i Socrates arganmol sobrwydd; ac hyd yn od cyn i Socrates egluro natur rhinwedd, yr oedd gwlad Groeg yn llawn o ddynion rhinweddol. Ond, gan bwy y gallasai Iesu Grist ddysgu y moesoldeb pur a digyffelyb hwnw, o'r hwn y rhoddai efe, ac efe yn unig reolau ac esiampl? Y doethineb oruchaf a wnaed yn hysbys

ganddo, yn mblith y dall-bleidiaid mwyaf penboethion; y rhinweddau mwyaf mawrfrydig a lewyrchent ynddo yn nghanol y bobl waelaf ar wyneb y ddaear. Marwolaeth Socrates, yn athronyddu yn dawel yn nghanol ei gyfeillion, a ymddengys yr un fwyaf cysurus a ellid ddymuno; yr eiddo Iesu, yn trengu mewn poenau arteithiol, yn cael ei watwar, ei ddirmygu, a'i gyhuddo, gan genedl gyfan, ydyw yr un fwyaf dychrynlyd a ellid ofni. Socrates, wrth dderbyn y gwpanaid wenwyn, a fendithiai y dienyddwr wylofus oedd yn ei dwyn iddo, y mae'n wir; ond Iesu yn ei ddirboenau dygnaf, a weddiodd tros ei boenydwyr didrugaredd. Ië, os oedd bywyd a marwolaeth Socrates yn deilwng o wr doeth; yr oedd bywyd a marwolaeth Iesu yn deilwng o Dduw. A dybiwn ni mai ffugchwedl yn unig ydyw yr hanes efengyl-aidd? Yn wir, fy ngbyfaill, nid oes un o nodau ffug a dyfeis-chwedl i'w cael ynddi; yn y gwrthwyneb, hanes Socrates, yr hon nid oes neb yn cymeryd arno ei hameu, nid yw yn cael ei thystio mor dda a hanes Iesu Grist. Mewn gair, ni wnelai y cyfryw haerriad ond yn unig gochelyd anhawstra, heb ei symud: y mae yn fwy annirnadwy i feddwl y gallai nifer o bersonau ysgrifenu y fath hanes, nag y gallai un rodidi y defnyddiau, neu fod yn sylwedd gwirioneddol o honi. Yr oedd yr awduron Iuddewig yn analluog o'r dilyn-waith, ac yn estroniaid i'r moesoldeb cynnwysedig yn yr efengyl; nodau gwirionedd yr hon ydynt mor eglur ac anefelychadwy fel y buasai raid fod y dychymygydd o honi o nodwedd goruwch-ddynol.' Pwy erioed a ymresymodd yn well dros ddwyfoldeb yr efengyl, ac a osododd allan nodwedd difrycheulyd sylfaenydd Crist'nogaeth mewn goleuni mwy ffafriol? Ni ddygodd y lleidr edifeiriol ar y groes dystiolaeth fwy goneddus am Grist, nag a ddygodd y lleidr anedifeiriol ac anffyddiog hwn.*

* Yr oedd Rosseau yn hynod am ei dwyll a'i anonestrwydd. Yn ei gyffesiadau efe a ddywed amdano ei hun, 'Myf a fum yn gyfrwys-ddrwyg, ac yr wyf yn parhau felly weithiau, gyda golwg ar fan betheuach, y rhai y mae yn fwy dewisol genyfeu cymeryd na gofyn am danynt.' Addefa, ddarfod iddo ladrata, pan yn ddyd ieuanc, a chyhuddo gwasanaethferch ieuanc o'r lladrad, yr hyn a fu yn achos iddi gollt ei lle a'i chymeriad. Yr oedd yn gwbl ymroddedig i bob halogrwydd, yn ol ei dystiolaeth am dano ei hun; ac eto, u.eiddlat ddywedyd, Pa bryd bynag y can ffurudgorn diweddas, mi a ymddangosaf ger bron y Barnwr Goruchaf, a'r

DOSP. II.

FEL ag mai 'cyflawnder y gyfraith yw cariad,' felly cyflawnder bywyd a nodwedd Crist ydoedd cariad—cariad wedi ymddangos yn y cnawd. Carodd 'yr Arglwydd ei Dduw a'i holl galon a'i holl nerth;' yn berffaith a chyfan heb ddiffygio mewn dim, heb ballu mewn un amgylchiad yn ei holl fywyd. Mor gynted ag y dechreuodd ei galon ysgogi a gweithredu mewn ystyr foesol, trodd at Dduw fel ei chanolbwynt, yn wahanol i bob calon ddynol ar ol y cwmp. Y geiriau cyntaf a lefarodd, a gofnodwyd i ni, a amlygant hyny; 'Rhaid i mi fod yn nghylch y pethau a berthynant i'm Tad.' Y mae yr ymadroddion hyn yn rhoddi i ni allwedd calon y Gwardwr, yn amlygiad goleu o dueddiad a theimlad ei feddwl. Yma gwelwn ef yn gosod i lawr egwyddorlywodraethol ei fywyd, ei ddewis arwyddair ag yr oedd am sefyll ato a gweithio allan ei gynwysiad drwy holl ystod ac yn holl amgylchiadau ei oes. Deuddeng mlwydd oed ydoedd pan y llefarai y geiriau; am ei fywyd o hyny hyd ddeg ar hugain, y mae yr hanes sanctaidd yn ddystaw, ac yn ei adael gyda'r crybwylliad byr am ei dduwiol ymddygiad tuag at ei rieni, 'Efe a fu ostyngedig iddynt.' Amlwg yw, bod yr holl flynyddau hyn o'i fywyd anghyoeedd wedi eu nodweddu a'r hyn oll a ofynai dyledswydd tuag at Dduw a dynion. Cafodd dystiolaeth gyhoeddus a digyfrwng o foddlonrwydd Duw ar ddechreuad ei fywyd cyhoeddus, am y rhan a aethai heibio; 'Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd.' Dyma ddeg-ar-hugain o flynyddau wedi eu treulio wrth fodd Duw! Pob meddwl, pob gair, pob gweithred, heb nam na diffyg. Yn awr y mae haul y cyflawnder yn dyfod allan o ystafell bywyd anghyoeedd ac 'yn ymlawenhau fel cawr i redeg gyrfa' o fywyd cyhoeddus fel athraw a dysgawdwr. O'r blaen, yr oedd megis dan len

llyfr hwn yn fy llaw, ac a uchel-gyhoeddaf, Fel hyn y darfu i mi fyw—y fath yma oedd fy meddyliaid—y cyfryw un a fum i. Allu trag'wyddol! Cynull o amgylch dy orsedd y llunaw aneirif o'm cydfarwollion, a boed iddynt wrando fy nghyffesion—boed iddynt wrido o herwydd fy halogedigaeth, a chrynu wrth fy nghosp; a boed i bob un yn ei gy'ch osod allan flaeleddau a chwydiadau ei galon gyda'r un gouestrwydd, a haeru, os u eiddia, 'Yr oeddwn i yn well na'r dyn acw.'"

allan o olwg a sylw y byd, ni 'ddaethai ei awr ef eto' i ymaflyd yn ei orchwyl cyhoedd; ond yn awr y mae megis yn dyosg ei gochl, yn ymwregysu ato, ac yn ymaflyd ynddo. 'Yn y byd yr oedd efe, a'r byd a wnaethpwyd trwyddo ef, a'r byd nid adnabu ef.' Ond o hyn allan, caiff gyfie a mantais i'w weled a'i adnabod. Wedi ymaflyd yn ei swydd a'i waith cyhoeddus, llwyr ymroddodd iddo gyda dyfalwch dior-phwys. 'Cerddodd o amgylch, gan wneuthur daioni.' Y dydd, byddai yn athrawiaethu, yn dysgu, yn iachau, ac yn bwrw allan gythreuliaid—y nos, yn cilio o'r neulldu i'r mynydd neu ryw le anghyfannedd i weddio. Gallai ef apelio at Dduw, bob hwyr, wedi gwaith a llafur pob dydd, gan godi ei wyneb yn ddirychau ger ei fron a dywedyd, 'Pregethais gyfiawnder yn y gynulleidfa fawr: Wele, nid ateliais fy ngwefusau: ti, Arglwydd, a'i gwyddost. Ni chuddiais dy gyfiawnder o fewn fy nghalon, traethais dy ffyddlondeb a'th iachawdwriaeth: ni chelais dy drugaredd na'th wirionedd yn y dyrfa luosog.' Yr oedd pob dydd yn llawn ganddo. Yr oedd ei ffyddlondeb yn traethu cyfiawnder, gwirionedd, ac iachawdwriaeth Duw 'yn y gynulleidfa fawr' a'r 'dyrfa luosog, heb eu cuddio o fewn ei galon' nac atal ei wefusau, yn gwneyd hyny yn brif ac unig orchwyl ei fywyd, yn profi ac yn dangos ansawdd ei galon tuag at Dduw. Edrychai i fynu ato bob bore, yn yr ymwybodolrwydd o'i berffaith burdeb, a dywedai, 'Profais fy nghalon, gofwayist fi y nos, chwiliast fi ac ni chei ddim, bwriedais na throseddai fy ngenau.' Achos, gwaith, gogoniant, a chymeradwyaeth Duw, a lanwent ei galon; ac er dwyn y pethau hyn yn mlaen, 'gosododd ei wyneb fel y gallestr.' Yr oedd bob amser yn llariaidd, hyblyg, a dyoddefgar, yn ei achos personol ei hun; ond yn debyg i 'lew cryf yn mhlith yr anifeiliaid, yr hwn ni thry yn ol er neb,' yn mhob peth a berthynai i waith a gogoniant ei Dad. Adnewyddwyd y dystiolaeth ddigyfrwng o foddlonrwydd a chymeradwyaeth Duw iddo, drachefn, yn agos i derfyn ei fywyd cyhoeddus, fel y gwnaethid o'r blaen ar derfyn y rhan anghyoedd o'i fywyd. Pan wedd-newidiwyd ef ar y mynydd sanctaidd, daeth y cyfryw lef oddiwrth y mawr ragorol ogoniant—'Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd.'

Carodd Iesu Grist yr Arglwydd ei Dduw a'i holl galon, mewn amgylchiadau na buasai neb arall erioed ynddynt, dan apfanteision na fuasai neb arall erioed yn caru Duw. Carai angelion ef a'u holl galon, ond y maent bob amser yn gweled ei wyneb ac yn mwynhau ei ffafr a'i foddlonrwydd; ond carodd Crist ef felly pan yr oedd ei wyneb wedi ei guddio oddiwrtho, pan oedd ei 'saethau yn nglyn ynddo,' ei 'holl donau a'i lifeiriant yn myned drosto, a'r dyfroedd yn myned i mewn hyd at yr enaid.' Ni phallodd ei gariad at, na'i ymddiried yn Nuw, am un tarawiad, pan yr oedd yn ei glwyfo ac yn ei ddryllio; ac fel prawf o hyny, gorchymuodd ei yspryd i'w ddwyllaw, pan yn gogwyddo ei ben ac yn trengu ar y groes.

Yn nyfader dyfroedd ei ddyoddefiadau, ni a gawn ymostyngiad tawel i ewyllys Duw yn nodweddu ei holl ymddygiad. Mewn amgylchiad o gyfyngder a chyni enaid, ni a'i cawn unwaith yn terfysgu, nes oedd ei holl natur yn dirgrynu ac yntau fel mewn cyfyng-gyngor, heb wybod pa beth i'w ddywedyd a'i wneuthur: 'Mor gyfyng yw arnaf'—Pa beth a ddywedaf? 'O Dad, gwared fi allan o'r awr hon—er hyny nid fy ewyllys i, ond yr eiddot ti a wneler.' Rhydd y ffordd yn gwbl i ewyllys ei Dad. Yma y tywynodd Haul y Cyfiawnder yn ei lawn rym, nid oedd y brycheuyn lleiaf ar ei wyneb—ni welwyd y fath olwg arswydllawn ogoneddus yn y nef na'r ddaear erioed ac yn Gethsemane, pan oedd y Cyfryngwr ar ei wynebar y ddaear! Ac yn ei adgyfodiad oddiwrth y meirw, rhoddodd y Tad dystiolaeth newydd drachefn o lawn foddlonrwydd ei enaid ynddo.

Gweithiodd Iesu Grist allan i ymarferiad hefyd yr oll a gynwysir yn yr ail lech, neu yr ail orchymyn mawr, 'Câr dy gymydog fel ti dy hun.' Yr oedd ei holl fywyd a'i ymddygiad tuag at ddynion yn berffaith gydffurfiol a'r rheol hon. Pregethodd ac argymhellodd hi ar ei ddysgybillion a'i wrandawyr yn ei phurdeb a'i nerth. Mor brydferth y gesyd allan yn nameg y gwr a syrthiasai yn mysg lladron, a'r ymgeledd garedig a weinyddodd y Samariad daionus iddo! Mor nerthol a bywiog y cymhwysiad byr a dynai oddiwrthi.—'Dos dithau a gwna yr un modd!' Fel ag yr oedd graslonrwydd a char-edigrwydd yn ymdywallt oddiar ei wefusau, ac yn rhoddi y nodwedd o gymwynasgarwch pur i'w holl athrawiaeth, felly

hefyd yr oedd ei holl weithredoedd a'i ymddygiadau. Nid cariad ar 'air ac ar dafod yn unig' oedd yr eiddo ef, ond mewn gweithred a gwirionedd. Yr oedd y byd hwn mewn sefyllfa ac agwedd o'r fath druenusaf, pan yr ymddangosodd ynddo—yr oedd llywodraeth a dylanwad diafol a phechod yn eu llawn rym, yr oedd heintiau naturiol a moesol megis wedi gorlenwi gwlad Judea, yr oedd deillion, byddarion, mudion, cloffion, gwywedigion, rhai lloerig a chythreulig, &c. yn lluosog anghyffredinol, fel pe buasai uffern wedi ymdywallt yn ei holl gynddeiriogrwydd ar y byd! Ond, wele 'ddaioni a chariad Duw ein hachubwr yn ymddangos tuag at ddyn—y mae yn edrych ar drueni byd yn cael ei 'orthrymugau ddiabol,' yn tosturio ac yn ocheneidio yn yr olwg arno, yn 'cerdded oddi-amgylch gan wneuthur daioni' iddo, yn 'cymeryd ei wendid ac yn dwyn ei ddoluriau, yn iachau pob clefyd a phob afiechyd ynmysg y bobl,' yn bwrw allan ysprydion drwg a'i air, yn hau iechyd a bendithion ffordd y cerddai, ac yn esmwythau gofidiau ac yn atal dagrau y gofidus rhag llifo. Nodweddir ei holl wyrthiau gan gymwynasgarwch a charedigrwydd. Ni wnelai un wyrth er dial ar ei elynion, ond y cwbl er symud gofidiau y truenus. Yn hyn yr oedd ei wyrthiau ef o nodwedd wahanol i rai o wyrthiau Moses ac Elias. Ni tharawodd neb erioed a dallineb, byddardod, haint, neu wahanglwyf; ond yn y gwrthwyneb bob amser. Pan ofynai ei ddysgyblion Iago ac Ioan am ei genad i alw am dân o'r nef i losgi y Samariaid anniolchgar a wrthodent iddo lety yn eu dinas, efe a'u ceryddai gan ddywedyd, 'Ni wyddoch o ba yspryd yr ydych chiwi—Ni ddaeth Mab y dyn i ddinystrio eneidiau dynion ond i'w cadw.' Er y ceryddai ei wrthwynebwyr yn llym a didderbyn wyneb, erioed ni ddialai: amcanai yn wastad at eu lleshad. Ymddygai mewn perffaith gysondeb tuag at ei elynion a'r egwyddorion a bregethai—carai ei elynion, gwnai dda i'r sawl a wnelent ddrwg iddo, &c.

Carai ei gymydog fel efe ei hun dan yr anfanteision mwyaf a'r driniaeth chwerwaf. Yn ei ddyoddefsiadau a'i farwolaeth y llewyrcha ei ymddygiad yn ei berthynas a'r egwyddor hon hefyd yn ei gogoniant uchaf. Meddyliwch am un a fuasai byw am dair-ar-dddeg-ar-hugain o flynyddau yn gwneuthur daioni, yn llwyr ymwadu a'i fwynhad personol ei hun, yn

ymroddi i lafur caled bob dydd o'i fywyd er daioni a dedwyddwch ereill yn hollol, un ag yr oedd ei holl fywyd yn cael ei nodweddu ag addfwynder a chymwynasgarwch pur—hwn yn y diwedd yn ad-daledigaeth am ei holl gymwynasau i ddynion, yn cael ei drin ganddynt megis pe buasai y bradwr gwaethaf a'r llofrudd creulonaf a ymddangosasai ar y ddaear erioed; yn cael ei rwymo a'i ddal, ei rwymo fel drwg-weithredwr, a'i ddwyn i brawf am ei fywyd, yn cael ei gondemnio i'r farwolaethi fwyaf poenus a gwarthus. Dyoddefa y cwbl yn ddirwgnach, cymer ei arwain fel oen i'r lladdfa, 'pan ddi-fenwyd ni ddifenwodd drachefn, pan ddyoddefodd ni fygythiodd.' Pan yn mhoethder y terfysg y tynodd un o'i ganlynwyr ei gleddyf, ac y torodd ymaith glust un o'i fradwyr—'Dod dy gleddyf yn y wain,' eb efe, 'a chan gyffwrdd a'i glust ef, efe a'i hiachaodd.' Carodd ei gymydog fel ef ei hun, pan yr oedd ei gymydog yn ei fflangellu, yn poeri yn ei wyneb, yn ei goroni a drain, yn ei hoelio wrth y groes, yn llaesu gwefi arno, ac yn plygu glin mewn dirmyg iddo yn ei boenau dygnaf! A than yr holl boenau a'r dirmyg a allai calonau maleisus ei elynion bentyru arno, efe a weddiai drostynt, gan ddywedyd, 'O Dad, maddeu iddynt, canys ni wyddant pa beth y maent yn ei wneuthur.' Yr oedd ei gariad at ei gymydog yn gryfach na gelyniaeth ei gymydog anniolchgar tuag ato ef: ac yn yr amgylchiad a ddygodd allan gynn-darédd gelyniaeth ddiachos ei gymydogion, ac yr ymddyw-alltodd arno yn ei holl ffyrnigrwydd diarbed, y daeth ei gariad a'i ewyllys da yntau i'r golwg mewn tywalltiad o'i holl galon mewn gweddi ac eiriolaeth drostynt! A thrachefn, wedi ei adgyfodiad o'r bedd, ac ar ei ymadawiad o'r byd, lle y cawsai y fath driniaeth anheilwng a chreulawn, gorchymynai i'r ychydig garedigion oedd ganddo i fyned allan i bob cwr o'r ddaear, a phregethu efengyl, 'newyddion da o lawenydd mawr i bob creadur' ar ei hwyneb, gan ddechreu yn Jerusalem, yn nghanol ei elynion a'i lofruddion. Fel hyn, gadawodd y byd a gwên faddeuol ar ei enau, a chan ei fendithio a'i anrhegu a'r trysor gwerthfawrocaf a feddai. Fel hyn y bu fyw, ac fel hyn y bu farw, ac fel hyn y gadawodd y byd! Erioed ni therfysgai ei galon sanctaidd ef gan nwydau a thymherau digofus. Erioed ni chymysgai ei lygaid colom-

enaidd gan ddrygnawsedd a sarrugrwydd. Erioed ni ergydiodd saethau o eiriau chwerwon a thrahaus at un gelyn. Erioed ni estynodd allan ei law i ddrygu un gwrthwynebwr. Ond yn y gwrthwyneb bob amser, pentyrai farwor tanllyd ar benau ei elynion drwy wneuthur daioni iddynt. Yr oedd ei galon yn hael-frydedd, ei eiriau yn llawn gras, a'i ddwy-law yn llawn bendithion, ei lygaid yn llawn caredigrwydd— 'Ië, y mae efe oll yn-hawddgar. Crist yntau a ddyoddefodd, gan adael i ni esiampl fel y canlynech ei ol ef.'

Y mae yn anhawdd gadael maes mor gynhyrchiog a ffrwyth-lawm ag ydyw nodwedd Iesu Grist, heb aros ac ymdroi ynddo hwyrach beth yn hwy nag a fyddai yn angenrheidiol er ateb y dyben mewn golwg ar y cyntaf wrth ddyfod iddo. Pwy erioed ond efe a allai ofyn a hërio y byd i'w argyhoeddi o bechod: safai ef yn wyneb y rhai oeddynt yn ei wyllo bob dydd, yn sylwi ar bob gweithred a gyflawnai, a phob gair a lefarai, i edrych a allent gael rhyw beth i achwyn arno, a gofynai, 'Pwy o honoch a'm hargyhoedda i o bechod?' Er cael o honynt bob mantais i wybod am dano, drwy ei fod yn treulio bywyd cyhoeddus yn eu plith, yn cyfarfod a'r profedigaethau cryfaf bob dydd, a mil o elynion ar waith yn ei demtio i wneyd neu i ddweyd yr hyn a roddai sail achwyniad iddynt—gofynai, meddaf, i'r bobl hyn, y rhai yr oedd ef yn eu hargyhoeddi ac yn eu ceryddu yn y modd llymaf am lawer o bechodau, 'Pwy o honoch a'm hargyhoedda i o bechod?' Y goreuon yn mhlith dynion bob amser fyddent y parotaf i gyffesu eu beiau a'u colliadau: ac erioed ni allodd hyd yn od un Pharisead hunan-gyfiawn honi y fath burdeb moesol, ac ni feiddiasai un o honynt roddi y fath hër öofn am dano ei hun: ond tafodd Iesu Grist y ddyrnfol (*gauntlet*) i lawr yn ngwydd ei elynion, ond pwy a'i cymer i fynu? Neb! Pan ddygid ef ger bron ei farnwr, ac y deisyfent gael barn angyu arno—pan ofynid iddynt, 'Pa ddrwg a wnaeth efe?' nid oedd un ateb i'w roddi, ond 'Ymaith ag ef, croeshoelie ef.' Wedi'r holl gyd-ymgynghori, cyd-chwilio, a chyd-ddyfeisio yn ei erbyn, nid oedd dim i'w gael. O'r diwedd fe ddaeth ddau gau dyst, ac wedi hyny methwyd clytio unrhyw dystiolaeth gyson. Y barnwr a'i condemniai i farw, a'i cyfiawnhäi ar yr un pryd, gau ddywedyd, 'Nid wyf fi yn cael dim bafi yn-

ddo ef.' Cyhuddwyr heb ganddynt un cyhuddiad; cyhuddedig, heb ddim i'w roddi yn ei erbyn. Herod a Philat, gwraig Pilat, y lleidr, a'r Canwriad, a gyd-dystient nad oedd 'dim bai' ynddo—na wnaethai 'ddim allan o'i le'—ei fod 'yn wir yn wr cyfiawn.'

Ni chafodd Satan, cyhuddwr y brodyr, chwaith yr un cyhuddiad i'w ddwyn yn ei erbyn ef. Cawsai gyhuddiadau yn erbyn holl saint Duw yn mhob oes o'r byd: gwelodd aftenidid ar wisgoedd y rhai glanaf o honynt, a buasai yn edliw eu 'dillad budron' iddynt; ond 'wele oen difeius a difrycheulyd.' 'Nid adnabu bechod.' Bu Satan yn ofer ymdrechu am ddeugain niwrnod i ffurfio cydnabyddiaeth rhyngddo & phechod; ymosododd arno & holl rym ei ddyfais, ergydiodd ei holl bicellau ato; ond gwrthneidient yn ol bob un heb lynu ynddo na mên arno. Yr oedd ei wisg mor lân yn dyfod o'r anialwch ag oedd pan yn myned yno. Erioed cyn hyn ni throisai Satan o faes y frwydr wedi ei lwyr orchfygu. Y fath warth i fuddugoliaethwr Eden, orfod ffoi yn orchfygedig o'r anialwch! Darfu i'r 'ail ddynt' ddial dialeddau y dyn cyntaf. Gwyddai y Cyfryngwr ei fod yn bwriadu ymosodiad arall arno: 'Tywysog y byd hwn sydd yn dyfod, ond nid oes iddo ddim ynof fi.' Ni chawsai ddim ynddo ef y tro o'r blaen, a methasai roddi dim o'i hadau ynddo y pryd hwnw; a pha bryd bynag yr ymosodai eilwaith, cai ef yn barod i'w dderbyn, yn anhyblyg yn wyneb ei holl gynhygion. Ni chollodd y diafol ei adnabyddiaeth ar Fab Duw byth wedi ymdrech yr anialwch; yno medraï ddywedyd wrtho 'Os Mab Duw ydwyt ti.' &c. Ond nid amheudd byth wedi hyny—cydnabydda ef gydag 'Och, mi a'th adwaen pwy ydwyt, Sanct Duw!' Erioed ni phrofasai beth oedd crynu yn mhresenoldeb neb ar y ddaear cyn hyn. Yr oedd yr un cryfach nag ef wedi dyfod arno, a gorchfygu ei holl demtasiynau, 'Wedi ei demtio yn mhob peth yr un ffunud a ninnau, eto heb bechod.'

Fel hyn, ynte, cyflwyno y Bibl berffaith burdeb moesol mewn rhéolau ac esiampyl ger ein bron—pethau nad ydynt i'w cael yn holl ysgrifeniadau a buchdraethodau eraill y byd. Ni allodd neb erioed ddangos diffyg yn y brawf-reol o foesoldeb a dyledswydd a esyd i lawr, nag ychwaith goll na diffyg yn

yr esiampl o berffaith burdeb a arganmola. Y mae y perffaith gysondeb sydd rhwng yr holl ranau o'r Ysgrhythrau a gyfeiriant at nodwedd Iesu Grist yn unig, heb sôn am eu cysondeb yn mhob peth arall—y cysgodau a osodid o hono dan yr hen Destament, a arwyddent ac a osodent allan burdeb ei nodwedd. I'r dyben hwn y trefnwyd glendid ac aflenidid seremonïaidd, ac y trefnwyd y creaduriaid a'r adar yn ddau ddosparth, glan ac aflan, i'w hadnabod wrth nodau y ddeddf honno; ac na dderbynid ond y rhai glan yn unig yn aberthau. Yr oedd eu glendid seremonïaidd hwy i arwyddo ei lendid moesol ef, ag oedd i fod yn sylwedd o honynt. Holl ragfynegiadau y prophwydi am dano hefyd a'u gosodent allan yn berffaith bur a difeius—'Am na wnaethai gam, ac na chaed twyll yn ei enau,' ydyw un allan o lawer o'r cyfryw brophwydoliaethau. Y mae hanesiaeth ei fywyd gan yr efengylwyr yn ei ddangos yn yr un goleuni: cytuna y pedwar buchdraethydd hyn a'u gilydd yn berffaith, i'w ddynodi fel 'oer difeius a difrycheulyd.' Yr holl gyfeiriadau at ei fywyd a'i nodwedd gan yr apostolion hefyd, ydynt yr un modd. Y mae Moses a'r prophwydi, yr efengylwyr a'r apostolion, oll yn dwyn yr un dystiolaeth hon am dano. Pa beth ond dwyfoldeb y llyfr hwn a all roddi cyfrif am hyn? Ai twyll yw y cwbl? Pa fodd y gellid crynhoi y fath dwyll at eu gilydd? Na, dyma un o brif gedyrn y fyddin anffyddiog yn dyfod yn mlaen ac yn dywedyd, 'Yn wir, nid yw yn debyg i dwyll a ffug-ddyfais; y mae yn anhaws credu y gallai nifer o bersonau ysgrifenu y fath hanes, nag y gallasai un roddi y defnyddiau, neu fod yn sylwedd gwirioneddol o honi,' *h. y.* Y mae yn haws credu dwyfoldeb yr hanes, na'i hameu; ac os amheuir neu y gwedir ei gwirionedd, nid oes un lle i ddiange, rhaid gwneyd Duw yn awdwr y twyll; oblegid y mae o'r fath nodwedd wahanol i ddim a ddaeth o dan ddwyllaw dynion erioed, fel na ellir llai na chredu eu bod dan ysprydoliaeth Duw pan yn ei hysgrifenu. Y mae genym dystiolaethau dau o brif-elynyon crefydd ddatguddiedig o blaid ei dwyfoldeb a'i gwirionedd, sef y diafol a Rosseau! Dygai y diafol ei dystiolaeth o'i grediniaeth yn nwyfoldeb person sylfaenydd Crist'nogaeth; a dygai ei was, Rosseau, yntau ei dystiolaeth am wirionedd yr hanes a rydd yr efengylwyr am dano. Y

mae yr hanes a rydd yr efengylwyr, yn dwyn y diafol yn mlaen amrywiol weithiau yn gwneuthur cyffes gwynfanus o'i adnabyddiaeth o Grist, fel 'Sanct Duw,' 'Iesu mab y Duw Goruchaf:' ac y mae Rosseau yntau yn addef, nad oes un o nodau twyll a ffug-ddyfais yn yr hanesiaeth yma; ond i'r gwrthwyneb, bod yn haws credu ei bod yn wirionedd, na chredu ddarfod iddi gael ei dyfeisio: A bydded y diafol a Rosseau yr *infidel* yn farnwyr.

Terfynwn y mater hwn drwy ei symio i fynu yn y pethau canlynol—

Yn gyntaf, Bod purdeb moesol egwyddorion y Bibl fel eu heglurwyd gan Iesu Grist, rhagoroldeb eu hansawdd, eu tuedd a'u cymhwysder i wella cyflwr y byd, ar bob trefniant arall a gynhygiwyd iddo, yn un prawf eglur a chadarn eu bod wedi deilliaw o ffynhonell amgenach na doethineb y cnawd—megis na thyf 'grawnwin ar ddrain, na ffigys ar ysgall,' ac na 'ddichon un ffynon roddi dwfr hallt a chroyw,' na allasai y fath egwyddorion pur a digymysg darddu allan o fynwes lygredig dyn.

Yn ail, Bod purdeb difrycheulyd nodwedd moesol Iesu Grist, yn ei fywyd a'i farwolaeth, ei waith yn 'cadw y gyfraithi gyd oll hebballu mewn un pwngc,' cysondeb ei ymddygiad a'r egwyddorion a bregethai, cysondeb tystiolaethau yr hwn Destament a'r newydd am dano fel yr unig esiampl o berffaith burdeb, &c., yn brawf ychwanegol o ddwyfoldeb y Bibl a'r grefydd Grist'nogol; ac y mae hefyd yn goron perffeithrwydd y datguddiad ysgrythyról, yn gymaint ag y mae yn dwyn yr egwyddorion adref at y meddwl dynol, drwy osod ger bron engraifft fywiol o honynt yn y natur ddynol, a dangos drwy hyny nad ydyw ei egwyddorion yn anymarferadwy. Dengys yn yr egwyddorion yr hyn oll a ofynir oddi wrth, a'r hyn a ddylai y natur ddynol fod; a dengys yn Nghrist yr esiampl nad yw yr egwyddorion hyny yn rhy uchel ac anhawdd i'r natur ddynol eu cyrhaedd a'u hymarfer.

Yn drydydd, Nad oes un math o gyfrif cyson a rhesymol i'w roddi am ragoriaethau mewnol y Bibl, cysondeb ei dystiolaethau, purdeb moesol nodwedd Iesu Grist, os gwedir dwyfoldeb y llyfr, a dwyfoldeb y Person y tystiolaetha am dano.

Yn bedwerydd, Oddiwrth yr amryw addefiadau a grybwyllwyd, o eiddo rhai anffyddiaid, gallwn yn hawdd gasglu eu bod yn gwadu dwyfoldeb yr Ysgrythyrau, nid oddiar farn, rheswm, a chydwybod, ond yn hytrach oddiar clyniaeth calon lygredig at ei egwyddorion. Ei burdeb a'i sancteiddrwydd sydd yn cynhyrfu eu casineb: y mae'r Bibl a Christ'nogaeth ar eu ffordd, yn condemnio eu harferion—y mae yn eugwneyd yn anesmwyth yn eu pechodau—a gwadu ei ddwyfoldeb ydyw y llwybr a gymorant i geisio cael heddwch ac esmwythder i'w meddyliau. Ond wedi chwilio am resymau i gyfnerthu yr hyn y chwenychent ei brofi—wedi ergydio eu holl saethau a'r rhai hynny wedi eu trochi yn mustl chwerwaidd eu malais—wedi tywallt allan eu holl gynddaredd mewn geiriau dirmygus—wedi treulio eu holl nerth mewn ymdrech i dreiglo y Bibl o'u ffordd; yna yr erys yn ddiysgog a chadarn—nid oedd y cwbl ond megis ergydio plyf yn erbyn craig! T. Paine mewn ymchwydd coeg-falch a ymfrostiai yn ei gywilydd, pan ddywedai, 'Mi a aethum drwy y Bibl, fel dyn yn myned drwy goedfa a bwyall ar ei ysgwydd, ac yn cwympto y prenau i lawr o'i flaen: yma y gorweddant, adblaned yr offeiriad hwynt os gallant.' 'Chwi a aethoch yn wir drwy y coed,' ebai yr Esgob Watson wrtho, 'gyda'r bwriad mwyaf cywir yn y byd i'w tori i lawr, ond maglasoch mewn llwyni o ddrysi a danadl; collasoch eich ffordd ar fynydd coedwig Libanus, cedrwydd rhagorol yr hwn a dosturient wrth wallgofrwydd a dallineb eich cynddaredd yn eu herbyn, a wawdient bylni a diawchedd eich bwyall, ac a chwarddent, heb brofi unrhyw niwed, am ben gwendid a methiantwch eich dyrnodiau.'*

Hefyd, Y mae y deyrnged o gydnabyddiaeth o sawrhydi a phurdeb yr Ysgrythyrau a dalodd amryw o'r gelynyion hyn iddynt, fel y rhagnodwyd eisoes, yn dangos anffyddiaeth yn hollol anghyson & hi ei han, a'i phleidwyr yn ymryson yn dost & hwy eu hunain. Os ydyw y Bibl a Christ'nogaeth yr hyn y ceisiant a'u holl egni brofi, rhaid fod y Bibl y llyfr, a Christ y dyn, a Christ'nogaeth y grefydd, waethaf a llawnaf o dwyll a hoced a ymddangosodd erioed ar y ddaear.

* Bishop Watson's apology for the Bible—p. 237.

Ond, os yr addefiadau a'r cydnabyddiaethau a wna't sydd i ddal arnynt, yna gellid barnu nad oes lyfr cyffelyb i'r Bibl, na bu erioed ddynt ar y ddaear cyffelyb i Iesu Grist, na chynhygiwyd crefydd erioed i ddynion mor fendigedig ei hegwyddorion a'r grefydd Grist'nogol! Ai dyma'r bobl a gym-erant arnynt nodi allan anghysonderau yr Ysgrythyrau, a chan orfoleddu yn wallcofus uwch ben pob anghysondeb ymddangosiadol y medfiont gael gafael arno, a'n heriant i ddangos y cysondeb? Cysonant eu hanghysonderau en hunain—rhoddant eu rhesymau i ni, paham a pha fodd y syrthient hwy, pen campwyr rheswm a mawrhwygwyr cysondeb, i'r fath anhrefn ac anghysonderau; neu ynte, caniatant i ni eu helpio allan o'r dryswch hwn. Y mae yr hyn a geisiant ei haeru a'i brofi, yn gosod allan ddymuniadau eu calonau; a'u haddefiadau, o'r tu arall, yn cynwys iaith a thystiolaeth eu cydwybodau. Dymunai eu calonau na byddai y Bibl yn wirionedd dwyfol—dywed eu cydwybodau wrthynt, ei bod bron yn fwy na thebyg ei fod: ac fel hyn, gan eu bod yn rhanedig ynddynt eu hunain, nid rhyfedd eu bod yn eu gwrthddywedyd eu hunain. Ar yr un pryd, y mae eu haerfiadau yn gyson a'u dymuniadau, a'u haddefiadau yn gyson a'u rheswm a'u cydwybod. Enillai y Bibl fuddugoliaeth ar eu cydwybodau, er gwaethaf gelyniaeth eu calonau. Y mae egwyddorion crefydd ddatguddiedig, fel hyn, 'yn eu canmol eu hunain wrth bob cydwybod dynion yn ngolwg Duw.' Yma y terfyna eia sylwadau ar y profion mewnol.

DOSP. III.

DYNODIR yr hyn a gynnwysir yn y sylwadau blaenorol ar ddwyfoldeb yr Ysgrythyrau, dan yr enw 'Profion mewnol:' neu, yr hyn a gesglir oddiwrth natur, ansawdd a thuedd tystiolaethau y llyfr ei hun. Yr hyn a nodwyd ydoedd ei gysondeb a'r datguddiad blaenorol o Dduw—y modd y llefara am fyd a sefyllfa ddyfodol—cymeriad goruchel y brif athrawiaeth a gynnwysa—nodwedd, tuedd, a phriodoldeb yr egwyddorion moesoldeb a gymhella ar y byd—yn nghyd a

phurdeb difrycheulyd yr Arglwydd Iesu Grist, yr hwn a esyd allan fel canolbwynt ei holl dystiolaethau, ac esiامل berffaith o fywyd rhinweddol.

V. Y dosparth nesaf a ddygir yn mlaen ydynt y profion allanol; sef, yr hyn a gesglir oddiwrth amgylchiadau a dygwyddiadau rhyfeddol, na ellid rhoddi cyfrif am danynt heb eu priodoli i gyfryngiad doethineb a gallu dwyfol, ac yn dal perthynas uniongyrchol a'r hyn a hōnir ei fod yn ddatguddiad oddiwrth Dduw, ac yn gadarnhad o wirionedd a dwyfoldeb ei dystiolaethau. Gelwir hwynt yn brofion allanol, am nad ydynt yn rhanau o'r datguddiad, neu o grefydd ddatguddiedig, eu hunain, fel y profion mewdol; ond arwyddnodau o honi ydynt.

Yn gyntaf, Prophwydoliaethau. Prophwydoliaeth, yn yr ystyr briodol, ydyw rhagfynegiad o ddygwyddiadau dyfodol. Witsius a'i darnoda fel hyn—'Gwybodaeth ac amlygiad o bethau cuddiedig, y rhai na allai dyn eu gwybod drwy ei gallineb ei hun, na thrwy adroddiad ereill, ond trwy ddatguddiad goruwch-naturiol o'r nef oddiwrth Dduw.' Y mae ffug-honwyr o'r ddawn brophwydol wedi bod yn lliosog iawn yn mhlith proffeswyr pob trefniant o grefydd a geisiwyd osod i fynu erioed yn y byd. Byddai gan y Paganiaid bob amser eu horaclau, eu daroganwyr, a'u brudwyr; yr eulun addolwyr diweddar, eu dewiniaid a'u coelgyfaredd; a'r Iuddewon, y Crist'nogion, a'r Mahometaniaid, eu prophwydi. Y mae twyll honiadau yn oraclau y brudwyr a'r dewiniaid wedi ei gael allan a'i ddynoethi lawer gwaith—prophwydi Paganiaeth a Mahometaniaeth wedi eu profi yn brophwydi ag ysbryd celwyddog; tra y mae y prophwydoliaethau Iuddewig a Christ'nogol, neu yr eiddo yr hen Destament a'r newydd, yn sefyll ac yn cael eu hegluro fwy-fwy gan dreigliad a dygwyddiadau amser. Nid yw bod y Bibl yn cynwys prophwydoliaeth neu rag-fynegiadau am bethau a fyddant—nid yw hyn ynddo ei hun, meddaf, i'w ystyried yn brawf o'i ddwyfoldeb, ond y cyflawniad o honynt, yn ngweithredol ddefnyddiad o'r pethau rhagfynegedig, ydyw y prawf o'u bod wedi dyfod drwy ysprydoliaeth Duw: a hyn ydyw y peth sydd genym yn awr i edrych am dano. Pa un a gafodd rhai o brophwydoliaethau yr Ysgrhythyr eu heglur gyflawni, ai nad do; ac a oes rhai o

honynt yn cael eu cyflawni yn bresenol; ac os cyflawnwyd rhai o honynt eisoes, ac os oes ereill yn cael eu cyflawni yn awr, y mae hyny yn sicrwydd moesol y bydd i'r gweddill o honynt gael eu cyflawni eto. 'Pwy bynag,' medd Buck, 'a chwiliodd hanesyddiaeth gyffredin y byd gyd ag un gradd o sylw, gan ei chydmaru â rhagfynegiadau yr Ysgrythyr, os na chaledwyd ei galon gan anffyddiaeth, rhaid ei fod yn argyhoeddedig o wirionedd y brophwydoliaeth gan y cyflawniad cywir o honi. Ofer ydyw dywedyd bod y prophwydoliaethau hyn wedi eu clytio i fynu wedi i'r dygwyddiadau hyny gymeryd lle; oblegid yr ydym yn gweled y prophwydoliaethau, y diweddaraf o'r rhai a draddodwyd oddeutu dau-cant-arybymtheg o flynyddau yn ol, yn cael eu cyflawni yr amser presenol; a dinasoedd, a gwledydd, a theyrnasoedd, yn gymwys yn yr un sefyllfa, a'r cwbl yn cael ei ddwyn oddiamgylch yn gymwys yn yr un modd, a chyda'r unrhyw amgylchiadau, ag a ragddywedodd y prophwydi.'

'Yr ydym yn gweled,' medd yr Esgob Newton, 'dysgynyddion Shem a Japheth yn rheoli ac mewn rhyddid yn Asia ac Ewrop, ac hwyrach yn America; a'r felldith o gaethwas-aeth yn dilyn hiliogaeth druenus Ham yn Affrica. Yr ydym yn gweled hiliogaeth Ishmael, sef yr Arabiaid, yn lluosogi yn ddirfawr, yn genedl fawr, ac eto yn byw fel dynion gwylltion, ac yn symud o le i le yn y diffeithwch, a'u 'llaw yn erbyn pob dyn, a llaw pob dyn yn eu herbyn hwythau,' ac eto yn aros yn bobl rydd ac annibynol yn 'ngwydd eu holl frodyr,' ac yn ngwydd eu holl elynion. Yr ydym yn canfod bod teulu Esau wedi llwyr ddarfod, a theulu Jacob yn aros hyd heddyw, 'y deyrnwialen wedi ymadael o Juda,' a'r bobl hyn heb feddu llywodraeth nac awdurdod mewn un lle, ond dan warogaeth yn mhob man. Yr Iuddewon fyth yn aros ar eu penau eu hunain yn nghanol y cenhedloedd, pan y mae coffadwriaeth Amalec wedi darfod o dan y nesoedd. Yr ydym yn gweled yr Iuddewon yn cael eu cospi yn llym am eu hanghrediniaeth a'u hanufudd-dod i'w prophwyd mawr a gyfododd Duw iddynt—wedi eu diwreiddio allan o'u gwlad eu hunain, a'u chwalu ar hyd holl deyrnasoedd y ddaear—yn cael eu gorthrymu a'u hanrheithio yn mhob man, a'u gwneuthur yn 'wawd ac yn ddiareb yn mhlith yr holl genhedloedd.' Yr

ydym yn gweled 'Ephraim wedi ei dori o fod yn bobl,' tra y mae yr holl genedl yn cael ei chynwys dan enw Juda—yr Iuddewon wedi eu cadw mewn modd tra rhyfeddol fel pobl ar eu penau eu hunain, pan y mae eu goresgynwyr mawrion wedi eu dinystrio yn mhob man; eu gwlad yn anghyfanedd, a hwythau wedi eu tori ymaith o fod yn bobl i Dduw, tra y mae y cenedloedd wedi eu cymeryd i mewn yn eu lle. Yr ydym yn gweled bod Ninesfe wedi ei dinystrio mor hollol, fel na ellir adnabod y lle y safai—Babilon wedi ei gwneuthur yn 'ddiffaethwch trag'wyddol,' yn feddiant 'aderyn y bwn ac yn byllau dyfroedd'—Tyrus yn 'gopa craig, ac yn daenfa rhwydau' pysgotwyr—a'r Aifft yn deyrnas wael, yr iselaf o'r teyrnasoedd, a than deyrnged i estroniaid. Yr ydym yn gweled o bedair ymerodraeth fawr y byd, y bedwaredd a'r olaf, yr hon oedd y fwyaf a'r alluocaf o honynt wedi ei rhanu—y parth gorllewinol o honi i ddeg o frenhiniaethau bychain, ac yn eu plith awdurdod gyda choron driphlyg yn gwahaniaethu oddiwrth y cyntaf, a 'genau ganddo yn traethu mawrhydri, yr olwg arno yn arwach na'i gyfeillion, yn llefaru pethau mawrion yn erbyn y Goruchaf, ac yn newid amserau a deddfau.' Yr ydym yn gweled awdurdod yn 'bwrw i lawr y gwirionedd,' ac yn llwyddo, yn ymddyrchafu, ac yn gwneuthur ei ewyllys ei hun, yn erlid ac yn dyfetha y bobl sanctaidd, heb 'ystyried Duw ei dadau, na serch gwragedd,' ond yn 'anrhydeddu duw y nerthoedd,' nawdd-dduwiau a nawdd-seintiau, ac yn peri i offeiriaid ei dduw i 'lywodraethu ar lawer, a rhanu y tir am werth.' Yr ydym yn gweled y Tyrciaid yn 'estyn eu dwylaw dros y gwledydd, dros wlad yr Aifft a Libya,' a'r Arabiaid o hyd yn dianc o'u crafangau. Yr ydym yn gweled yr Iuddewon wedi eu dwyn yn gaethion i blith yr holl genhedloedd, a 'Jerusalem wedi ei mathru gan y cenedloedd,' ac yn debyg o barhau felly hyd oni 'chylawnir amser y cenedloedd,' fel ag y mae yr Iuddewon yn cael eu cadw, drwy wyrth barhaus, yn bobl ar eu penau eu hunain, er cyflawni prophwydoliaethau ereill perthynol iddynt. Yr ydym yn gweled un, yr hwn a wrthwyneba ac a ymddyrchafa goruwch pob cyfreithiau dwyfol a dynol, yn 'eistedd fel Duw yn eglwys Dduw, ac yn ei ddangos ei hun mai Duw ydyw, yr hwn y mae ei ddyfodiad yn ol gweithrediad

Satan, gydag awdurdod, arwyddion, a rhyfeddodau gau, a chyda phob dichell anghyfiawnder.' Yr ydym yn gweled mawr ddyrywiad yn yr eglwys Grist'nogol, yr hwn sydd yn gynwysedig yn benaf mewn addoliad angelion a saint ymadawedig, ac a gynhelir drwy ragrith celwyddwyr, 'yn gwarhadd priodi, ac yn erchi ymatal oddiwrth fwydydd.' Yr ydym yn gweled saith eglwys Asia yn gorwedd yn y cyflwr tlawd ac isel y rhagddywedodd yr angel wrth Ioan am dano, y 'canhwyllbren wedi ei symud o'i le,' eu haddoldai wedi eu troi yn demlau Mahometaidd, a'u haddoliant i wasanaeth coelgrefyddol. Yn fyr, yr ydym yn gweled nodwedd y 'bwystfil a'r gau brophwyd, a phutain Babilon,' yn awr yn cael ei amlygu yn ei holl nodau, ac yn y ddinas y sydd wedi ei gosod ar saith fynydd: pe buasai i esgob Rhufain eistedd i lawr i luniedydd gymeryd ei ddarlun, ni allasai y darlun fod yn berffeithiach.

'Am yr holl bethau hyn y mae genym dystiolaethau yr amserau a aethant heibio, a phrofiadau yr amser presenol; ac ni allwn yn hawdd gael ein twyllo, os bydd i ni ond yn unig gredu golwg ein llygaid ein hunain. Yr ydym yn gweithredol ganfod cyflawniad llawer o'r prophwydoliaethau hyn yn sefyllfa personau a phethau o'n hamgylch; ac y mae y prophwydoliaethau eu hunain genym ar lawr mewn llyfrau, y rhai a ddarllenwyd mewn cymanfaoedd cyhoeddus, o fewn cylch dau-cant-ar-bymtheg neu dwy fil o flynyddau, a daenwyd dros lawer o wledydd, a gyfieithwyd i amrywiol ieithoedd, a ddyfynwyd ac a esponiwyd gan wahanol genhedloedd, fel nad oes un lle i ameu cymaint a dychonedigaeth o ffugiant a thwyll.*

Gellid cofnodi esiamplau ereill o fanwl gyflawniad prophwydoliaethau yr Ysgrythyr, gyda golwg ar genhedloedd, personau, pethau, ac amgylchiadau; ond, gan fyned heibio iddynt oll, ni a gawn edrych i mewn yn fwy neillduol i rai o'r prophwydoliaethau am Grist, sylwedd mawr yr oll o honnnt.

Efe yw gwrthrych yr addewid neu y brophwydoliaeth gyntaf—'Y mae yn ysgrifenedig yn nechreu y llyfr am danaf,' medd

* See Buck's Theological Dictionary under the word 'Prophecy.'

efe. 'Gelyniaeth hefyd a osodaf rhyngot ti a'r wraig, a rhwng dy hâd di a'i hâd hithau, efe a ysiga dy ben di, a thithau a ysigi ei sawdl ef,' ebe Duw wrth demtiwr ein rhieni cyntaf. Y mae hon yn brophwydoliaeth mewn ffurf bygythiad ar y sarph, am ymgnawdoliad Crist, 'hâd y wraig'—am ei ddyoddefiadau, ysigiad ei sawdl—ac am ei fuddugoliaeth ar elyn Duw a dyn, 'Efe a ysiga dy ben di'—pedair mil a phedair o flynyddau cyn i Grist ymddangos yn y cnawd. Y mae prophwydoliaeth Jacob, wrth fendithio Juda, un-cant-ar-bymtheg a chwech-a-phedwar-ugain o flynyddau cyn Crist, yn dra hynod o ran y dynodrwydd a'r hwn y rhagfynege yr amgylchiadau a'r amser yr ymddangosai y Gwaredwr yn y byd—'Nid ymedy y deyrn-wialen o Juda, na deddfwr oddi rhwng ei draed ef, hyd oni ddel y Shilo; ac ato y bydd cynhulliad pobloedd.' Y mae cryn lawer o amrywiaeth barn yn mhlith y beirniaid mewn perthynas i ystyr y gair Shilo. 'Ond,' medd y dysgedig Jennings, 'bydded i wir ystyr y gair Shilo fod y peth y byddo, cydnabyddir bron gan bawb ei fod yn golygu y Messia; yn neuillduol gan bob Targum, a chan lawer ereill o awdwrwyr Iuddewig hen a diweddar, yn gystal a Christ'ngion.'

Y mae y brophwydoliaeth hon yn dynodi, Yn gyntaf, Y byddai llwyth Juda yn llwyth brenhinol, y byddai i'r deyrn-wialen a'r deddfwr ddyfod iddo, neu y byddai yn eisteddle a chanolbwynt llywodraeth a barn. Daeth y deyrn-wialen, neu y llywodraeth, i'r llwyth hwn yn Dafydd, yn mhen chwe chant ag un-a-deugain o flynyddau wedi amser y brophwydoliaeth dan sylw.

Yn ail, Arwydda y brophwydoliaeth yn amlwg bod y Shilo, neu y Messia, i ddyfod o'r llwyth hwn; a hysbys yw mai o Juda y cododd ein Harglwydd ni.

Yn drydydd, Hi a ddywed yn bennodol na byddai i'r deyrnwialen a'r deddfwr, neu y llywodraeth, ymadael o Juda hyd ymddangosiad y Shilo; 'hyny yw,' medd Patrick, 'y byddai naill ai brenhin neu lywodraethwr gan yr Iuddewon hyd ddyfodiad Crist. 'Gall y deyrn-wialen,' medd efe, 'olygu y llywodraeth frenhinol yn nheulu Dafydd; a'r deddfwr, yr hwn sydd air o arwyddocâd is, olygu y ffurfllywodraeth o dan Sorobabel a'r Maccabëaid, &c. hyd oni

wnaed Judea yn dalaeth Rufeinig. Oblegid, er bod rhai o'r llywyddion hyn heb berthynu i lwyth Juda, megis y Macca-bëaid er enghraifft, y rhai oeddynt offeiriaid o lwyth Lëfi, er hyny llwyth Juda oedd canolbwynt yr awdurdod ac eisteddle y llywodraeth.' A sylwa yr un gwr dysgedig yn mhellach, bod y ddwy ffurf olywodraeth a arwyddoceir yn y ddau air, 'teyrnwialen a deddfwr,' wedi rhana rhyngddynt holl ystod amser parhad yr awdurdod yn Juda, o'i ddechreu i'w ddiwedd, yn ddau gyfnod cyfartal, ychydig ragor na phum cant o flynyddau i bob un. Pa fodd bynag, yn union wedi genedig-aeth y Gwardedwr, colodd yr Iuddewon y 'deddfwr,' megis y collasent y 'deyrn-wialen' o'r blaen; ac nid oedd gweinyddiad materion gwladol mwyach yn eu dwylaw eu hunain. Ymddangosodd Iesu Grist yn gymwys yn yr amser a ragfy-nega y brophwydoliaeth hon, pan oedd cenedl yr Iuddewon yn y cyflwr a'r amgylchiad pennodol a ddysgrifir ynddi, pan oedd Judea yn cael ei chyfansoddi yn dalaeth o'r ymerodraeth Rufeinig. Yr oedd wedi ei darostwng ddeugain mlynedd cyn hyn, ond nid oedd wedi ei threfnu yn dalaeth y pryd hwnw, o herwydd bod gan y Rhufeiniaid gymaint ar eu dwylaw i'w wneuthur mewn rhanau ereill o'r byd. Yn bresenol yr oedd ganddynt hamdden i drefnu pethau, gan fod heddwch cyffredinol wedi ei sefydlu: ac yn amser y 'trethiad cyntaf' a wnaeth y llywodraeth Rufeinig ar Judea, yr hyn oedd amlygiad bod y deyrn-wialen a'r deddfwr wedi ymadael, wele, y Shiloh yn ymddangos.

Y brophwydoliaeth a nodwyd a amlyga o ba lwyth y denai y Messia, ac amgylchiadau neullduol y llwyth hwnw pan y denai. Y mae prophwydoliaethau ereill yn manylu yn mhellach mewn perthynas i'r teulu y denai o hono, y lle y genid ef, a phwy a fyddai ei fam ef. Cyfeiriai un brophwydoliaeth ato dan yr enw 'Gwialen o gyff Jesse:' gelwid ef yn 'hâd Dafydd.' Pan ymgynghorodd Herod a'r archoffeiriaid, ac ysgrifenyddion y bobl, yn nghylch pa le y genid Crist, 'hwy a ddywedasant wrtho, Yn Bethlehem Judea; canys felly yr ysgrifenydd drwy y prophwyd, A thithau Bethlehem, tŷr Juda, nid lleiaf wyt yn mhllith tywysogion Juda, canys o honot ti y daw tywysog yr hwn a fugeilia fy mhobl Israel.' Prophwydoliaeth arall a ddywed, 'Wela, morwyn a fydd

feichiog ac a esgor ar fab, a hwy a alwant ei enw ef Emmanuel; yr hyn o'i gyfieithu yw, Duw gyda ni.' Ac felly y dywed yr efengylwyr, ddarfod iddo gael ei eni o forwyn heb adnabod gwr. Y mae ei nodwedd ac amgylchiadau ei fywyd, ei ddyoddefiadau, ei farwolaeth, a'i gladdedigaeth, yn cael eu dynodi gyda'r fath fanylwch a chywirdeb yn *Esay* liiii. saith cant o flynyddau yn flaenorol i'w ddyfodiad i'r byd, a phe buasai y prophwyd yn llygad-dyst o'r cwbl ei hun—ymadroddion na ellir, gydag un math o reswm a phriodoldeb, eu cymhwyso at neb arall. Rhoddaf y twbl i lawr yn ngeiriau Dr. Paley, er dangos i'r darllenydd, nad oes ganddo y fantais o feddu y gwaith hwnw, y llafur caled a gostiodd i ddysgawdwyr Iuddewig i geisio traws-nyddu y brophwydoliaeth hynod hon oddiwrth Iesu Grist, i geisio ganddi gynwys rhyw feddwl arall; ac fel yr oedd yr hen brophwyd mor anhyblyg yn eu dwylaw, ac y methent wneuthur un rheswm o'i ymadroddion heb eu gadael yn eu lle priodol eu hunain. 'Wele fy ngwas a lwydda, a godir, a ddyrchefir, ac a fydd uchel iawn. Megis y rhyfeddodd llawer wrthyt, mor llygredig oedd ei wedd yn anad neb, a'i bryd yn anad meibion dynion; felly y taenella efe genhedloedd lawer; brenhinoedd a gauant eu genau wrtho ef; oblegid gwelant yr hyn ni fynegasid iddynt, a deallant yr hyn ni chlywsant. Pwy a gredodd i'n hymadrodd? Ac i bwy y datguddiwyd braich yr Arglwydd? Canys efe a dyf o'i flaen ef fel blaguryn, ac fel gwreiddyn o dir sych: nid oes na phryd na thegwch iddo: pan edrychom arno, ni bydd pryd fel y dymunem ef. Dirmygedig yw, a dystyraf o'r gwyr; gwr gofidus, a chynefin a dolur; ac yr oeddym megis yn cuddio ein hwynebau rhagddo, dirmygedig oedd ac ni wnaethom gyfrif o hono. Dïau efe a gymerth ein gwendid ni, ac a ddug ein doluriau; eto ni a'i cyfrifasom ef wedi ei faeddu, ei daro gan Dduw a'i zystuddio. Ond efe a archollwyd am ein camweddau ni; efe a archollwyd am ein hauwireddau ni; cospedigaeth ein heddwch ni oedd arno ef; a thrwy ei gleisiau ef yr iachawyd ni. Nyni oll a grwydrasom fel defaid, troisom bawb i'w ffordd ei hun; a'r Arglwydd a roddes arno ef ein hauwiredd ni i gyd. Efe a orthrymwyd ac efe a gystuddiwyd, ac nid agorodd ei enau: fel oen yr arweinid ef i'r lladdfa, ac fel y tau dafad o flaen y rhai a'i

cneifiai, felly nid agorai yntau e: enau. O garchar ac o farn y cymerwyd ef, a phwy a draetha ei oes ef? Canys efe a dorwyd o dir y rhai byw: rhoddwyd pla arno ef am gamwedd fy mhobl. Ac efe a wnaeth ei fedd gyda'r rhai anwir, a chyda'r cyfoethog yn ei farwolaeth, am na wnaethai gam ac na chaed twyll yn ei enau. Eithr yr Arglwydd a fynai ei ddryllio ef, efe a'i clwyfodd, pan osodo efe ei enaid yn aberth dros bechod, efe a wel ei had, efe a estyn ei ddyddiau, ac ewyllys yr Arglwydd a lwydda yn ei law ef. O lafur ei enaid y gwel ac y diwellir: fy ngwas cyfiawn a gyfiawnha lawer drwy ei wybodaeth; oblegid efe a dddwg eu hanwireddau hwynt. Am hyny y rhanaf iddo ran gyda llawer, ac efe a rana'r yspail gyda'r cedyrn, am iddo dywallt ei enaid i farwolaeth. Ac efe a gyfrifwyd gyda'r troseddwyr, ac a ddug bechodau llaweroedd, ac a eiriolodd dros y troseddwyr.*

'Y mae y geiriau hyn mewn llyfr a gynnwys ragddywediadau ysgrifenydd oedd yn byw saith o ganrifau o flaen yr oes Grist'nogol.

'Y rhan bwysig hwnw o bob ymresymiad, a dynir oddiwrth brophwydoliaeth, bod y geiriau a ddefnyddir wedi eu llefaru neu eu hysgrifenu mewn gwirionedd, cyn i'r ffaith y cyfeiriant ati gymeryd lle, neu y gellid drwy unrhyw foddion naturiol ei rhagweled, sydd, yn y mater mewn llaw, tu hwnt i ddadleuaeth. Ceir y gof-ysgrifen allan o gadwraeth gwrthwynebwy. Yr Iuddewon, fel y sylwai un o'r hen dadau yn briodol, ydynt ein llyfr-gellwyr. Y mae y gyfran a nodwyd, yn eu coppiau hwy yn gystal ag yn yr eiddom ninau. Yn mysg llaweroedd o gynhygiadau i'w hesponio ymaith, ni wnaethant gynhygiad erioed i wadu ei hawdurdod. A'r hyn sydd yn ychwanegu grym y gyfran a gofnodwyd yw, ei bod wedi ei chymeryd allan o ysgrifen a arddelir yn brophwydoliaethol—ysgrifenyddiaeth a broffesai ddysgrifio y cyfryw ddygwyddiadau a chyfnewidiadau yn y byd, ag a fyddent yn dal cysylltiad ag achosion a helyntion y genedl Iuddewig. Nid deryn allan o gyfansoddiad hanesyddol neu ddefosiynol ydyw hwn, oblegid dygwydd iddo fod yn gymhwysiadol at ryw ddygwyddiadau dybynol neu i ryw agweid bennodol ar

* Essay III. 13. a liii.

bethau, a dybir ei fod yn rhagfynegiad. Yr oedd geiriau Esay yn cael eu traddodi ganddo o dan nodwedd prophwydoliaeth, gyda'r difrif-ddwysedd perthynol i'r nodwedd hwnw: a'r hyn a draddododd efe felly, a ddeallid bob amser gan y darlennydd Iuddewig fel yn cyfeirio at ryw beth ag oedd i gymeryd lle wedi amser yr awdwr. Y mae barn gyffredin yr Iuddewon, mewn perthynas i amcan ysgrifeniadau Esay, yn cael ei gosod allan yn llyfr Ecclesiasticus—'Trwy yspryd godidog y gwelodd efe y pethau a fyddent yn y diwedd; ac y cysurodd efe y rhai oedd yn galaru yn Sion. Efe a ddangosodd y pethau a ddeuai byth, a phethau dirgel cyn eu dyfod.'*

'Y mae gan y brophwydoliaeth hon hefyd y fantais o fod yn bur a digymysg oddiwrth unrhyw fater arall. Y mae wedi ei chyfeirio yn hollol ac yn unigol at un amgylchiad ar bethau.

'Cymhwysiad y brophwydoliaeth at yr hanesiaeth efengylaidd sydd eglur a phriodol. Nid oes yma un meddwl dyblig, unrhyw iaith ffiguraid, ond yr hyn sydd ddigon dealladwy i bob darlennydd o bob gwlad. Y rhanau tywyll, wrth yr hyn y deallaf yr ymadroddion ag ydynt yn gofyn adnabyddiaeth o ddullweddïad ymadrodd y wlad, &c. ydynt ychydig a dibwys. Ac ni fedrais ganfod bod amrywiaeth darlleniad, neu wahanol ddëongliadau o'r un gwreiddiol yn peri nemawr iawn o wahaniaeth yn ystyr y brophwydoliaeth. Cydmarer y cyfieithiad cyffredin, a'r eiddo Esgob Lowth, ac nid yw y gwahaniaeth yn fawr. Mor belled ag y maent yn gwahaniaethu, y mae diwygiadau Lowth, y rhai oeddynt firwyth ymchwiliad ffyddlon a manwl, yn dwyn y dysgrifiad yn nes at hanesiaeth y Testament newydd nag oeddynt o'r blaen. Yn y bedwaredd adnod o'r drydedd-bennod-ar-ddeg-ar-hugain, yr hyn yn y cyfieithiad cyffredin a ddarllenir, 'Ei daro,' a gyfieitha efe, 'Ei daro yn farnol:' ac yn yr wythfed adnod, y gyfran, 'O garchar ac o farn y cymerwyd ef,' darllena yr esgob, 'Drwy farn dreisiol y cymerwyd ef ymaith.' Y geiriau nesaf at y rhai hyn, 'Pwy a draetha ei oes ef?' ydynt yn llawer eglurach eu hystyr yn narlleniad yr esgob o

* Ecclesiasticus xlviii. 24, 25.

honynt, 'Pwy a ddatganai ei nodwedd ef?' hyny yw, Pwy a ddenai yn mlaen i'w amddiffyn ef? Y rhan gyntaf o'r nawfed adnod, 'Ac efe a wnaeth ei fedd gyda'r rhai anwir, a chyda'r cyfoethog yn ei farwolaeth;' yr hyn sydd yn draws-gyfléad o amgylchiadau dyoddefaint Crist, a ddwg yr esgob allan mewn trefn berffaith gyson a'r dygwyddiad, 'Darparwyd ei fedd gyda'r rhai anwir, ond gyda y cyfoethog y bu ei gladdfa.' Y geiriau yn yr unfed-adnod-ar-ddeg, 'Fy ngwas cyfiawn a gyfiawnha lawer trwy ei wybodaeth,' ydynt yn nghyfieithiad yr esgob, 'Fy ngwas cyfiawn a gyfiawnha lawer drwy y wybodaeth o hono.'

'Y mae yn naturiol gofyn, Pa beth a wna yr Iuddewon eu hunain a'r brophwydoliaeth hon? Y mae digon o broffion yr esboniai yr hen Rabbinaid hi yn gyfeiriad at eu Messia dysgwyliedig: ond eu hesbonwyr diweddaraf a gydunant, fel y tybiaf, i'w gosod allan fel dysgrifiad o sefyllfa adfydus ac adferiad happus y genedl Iuddewig, yr hon sydd yma, meddant hwy, yn cael ei gosod allan fel person unigol. Ni ellaia gael allan bod eu hesboniad yn gorphwys ar unrhyw ymresymyadau beirniadol ond i radd bychan iawn. Y rhan o'r wythfed adnod a ddarllenwn ni, 'Rhoddwyd pla arno ef am gamwedd fy mhobl;' ac ar ymyl y ddalen, 'y tarawyd ef;' a ddarllena yr Iuddewon, 'Am gamwedd fy mhobl y tarawyd hwy.' Y mae eu dadl dros y cyfnewidiad yn dyfod i hyn yn unig, bod y rhagenw Hebraidd yn goddef ei ddeall yn lluosog yn gystal ac unigol; hyny ydyw, y goddefa eu deöngliad hwy yn gystal a'r eiddom ninau. A dyma yr holl gyfnewidiad y dadleuir am dano; y gweddill o'r brophwydoliaeth a ddarllenant yn yr un modd ag y gwnawn ninau. Y tebygolrwydd, gan hyny, o gywirdeb yr esponiad, sydd beth ag yr ydym ni mor alluog i farnu yn ei gylch a hwythau. Y mae y farn hon, yn wir, yn agored i synwyr pob darlennydd ystyriol i'w phrofi. Y mae y cymhwysiad y dadlena yr Iuddewon drosto, yn ymddangos i mi ei fod yn llafurio dan anhawsderau anorfodadwy. Yn neullduol, gellid gofyn ganddynt egluro, yn enw neu yn mherson pwy, os pobl yr Iuddewon oedd y dyoddefydd, yr oedd y prophwyd yn llesaru, pan y dywedir, 'Efe a gymerth ein gwendid ni ac a ddug ein doluriau, ac ni a'i cyfrifasom ef wedi ei faeddu, ei daro gan

Dduw a'i gystuddio. Ond efe a archollwyd am ein camweddau ni, efe a ddrylliwyd am ein hanwireddau ni, cospedigaeth ein heddwch ni oedd arno ef, a thrwy ei gleisiau ef yr iachawyd ni.' Eto, y dysgrifiad yn y seithfed adnod, 'Efe a orthrymwyd, ac efe a gystuddiwyd, ac nid agorai ei enau; fel oen yr arweinid ef i'r lladdfa, ac fel y tau dasad o flaen y rhai a'i cneifiai, felly nid agorai yntau ei enau;' nid ellir ei gymhwyso gydag un math o briodoldeb at un gyfran o'r hanesiaeth Iuddewig a wyddom ni am dani. Y crybwylliad am y bedd, &c. yn y nawfed adnod, nid ydyw yn hawdd iawn ei gymhwyso at amgylchiadau cenedl; a llawer llai, diweddgload y brophwydoliaeth yn y ddeuddegfed adnod, yr hon sydd yn gosod allan y dyoddefiadau yn wirfoddol, a'r dyoddefydd yn eiriol dros y troseddwyd, 'Am iddo dywallt ei enaid i farwolaeth; ac efe a gyfrifwyd gyda'r troseddwyd, ac a ddug bechodau llaweroedd, ac a eiriolodd dros y troseddwyd.'

Byddai yn berffeithrwydd ynfydrwydd ceisio cymhwyso y brophwydoliaeth grybwylledig at unrhyw berson a fu ar y ddaear erioed ond Iesu Grist. Y mae holl amgylchiadau ei fywyd a'i farwolaeth yn ateb yn berffaith i'r darluniad ynddi.

Y mae llawer o brophwydoliaethau ereill yn yr hen Testament am Grist. Y mae holl amgylchiadau ei ddyoddefaint a'i angeu yn cael eu dynodi gyda manylwch anghyffredinol: ei fradychiad gan un o'i ganlynwyr yn *Salm* xli. 9, 'Hefyd y gwr oedd anwyl genyf, yr hwn yr ymddiriedais iddo, ac a fwytaodd fy mara, a gododd ei sawdl i'm herbyn.' 'Ha wyr frodyr,' medd Pedr, 'yr oedd yn rhaid cyflawni yr Ysgrythyr yma, a ragddywedodd yr Yspryd Glan trwy enau Dafydd am Judas, yr hwn a fu flaenor i'r rhai a ddaliasant yr Iesu.' Yr oedd y pris y gwerthid ef wedi ei ragfynegi yn y brophwydoliaeth, 'A dywedais wrthynt, Os gwelwch yn dda dygwch fy ngwerth; ac onide, peidiwch: a'm gwerth a bwysasant yn ddeg-ar-hugain o arian. A dywedodd yr Arglwydd wrthyf, Bwrw ef i'r crochenydd, pris teg a'r hwn y'm prisiwyd ganddynt.*' 'Yna yr aeth un o'r deuddeg, yr hwn a elwid Judas Iscariot, at yr arch-offeiriaid, ac a ddywedodd

* Zecharia xi. 12, 13.

wrthynt, Pa beth a roddwch i mi, a mi a'i traddodaf ef i chwi? A hwy a osodasant iddo ddeg-ar-hugain o ariau.* Yr oedd yr angydd y byddai farw o hono wedi ei ragfynegi yn y brophwydoliaeth—'Trywanasant fy nwyllaw a'm traed.'† Rhan- iad ei ddillad gan y milwyr—'Y maent yn rhanu fy nillad yn eu mysg, ac ar fy ngwisg yn bwrw coelbren.'‡ 'A hwy a ranasant ei ddillad ef, ac a fwriasant goelbren.'§

Y mae y brophwydoliaeth yn rhagfynegi y ddioid ef a'r finegr||—'Rhoddasant hefyd fustl yn fy mwyd, ac a'm di- odasant yn fy syched â finegr.' 'Hwy a roisant iddo, i'w yfed, finegr yn gymysgedig a bustl; ac wedi iddo ei brofi, ni fynodd efe ei yfed.'¶ Y mae yr efengylwr Ioan yn neullduol yn sylwi ar gyflawniad amlwg prophwydoliaeth yr Ysgrythyr hon yn amgylchiadau marwolaeth Crist—'Yna y milwyr a ddaethant, ac a dorasant esgeiriau y cyntaf a'r llall a groeshoeliesid gydag ef. Eithr wedi iddynt ddyfod at yr Iesu, pan welsant ef wedi marw eisoes, ni thorasant ei esgeir- iau ef. Ond un o'r milwyr a wanodd ei ystlys ef â gwaew- ffon; ac yn y fan daeth allan waed a dwfr. A'r hwn a'i gwelodd a dystiolaethodd; a gwir yw ei dystiolaeth; ac efe a wyr ei fod yn dywedyd y gwir, fel y credoch chwi. Canys y pethau hyn a wnaethpwyd fel y cyflawnid yr Ysgrythyr, Ni thorir asgwrn o hono. A thrachefn, Ysgrythyr arall sydd yn dywedyd, Hwy a edrychant ar yr hwn a wanasant.' Mae hanesiaeth yr efengylwyr yn adleisio lleferydd y prophwydi yn mhob peth. Y Testament newydd yn adleis-graig i'r hèn yn mhob dim; fel nad oes le i gam-gymeryd nad Iesu Grist oedd yr hwn y llefarai 'Moses a'r Prophwydi a'r Salmau' am dano. Yr unig ffordd i geisio eu gochelyd ydyw, naill ai heuru mai ffug ydyw y prophwydoliaethau, ar ol marwol- aeth Iesu Grist, i'r dyben o dwyllo y byd; neu mai ffug-waith twyllodrus yw hanes yr efengylwyr wedi ei chywrein-gym- hwyso at brophwydoliaethau yr hen Destament. Dangoswyd eisoes na ellir gyda'r cysgod lleiaf o reswm, wneuthur yr haerriad cyntaf, oblegid bod llyfr ymadroddion y prophwydi

* Matthew xxvi. 14, 15. a gwel xxvii. 3—10.

† Salm xxii. 17.

‡ Salm lxi. 22.

† Salm xxii. 16.

§ Luc xxiii. 34.

¶ Math: xxvii. 34.

wedi eu hymddiried i gadwraeth yr Iuddewon eu hunain, y rhai fel cenedl gyfan dynt wedi bod yn elynion penderfynol Crist'nogaeth, o ddyddiau Crist hyd y dyddiau presennol: y mae y prophwydoliaethau y cyfeirwyd atynt, yn eu copïau hwy o'r Ysgrythyr yn gystal ac yn yr eiddom ninau: buasai yn anmhosibl ychwanegu atynt, tynu oddiwrthynt, na gwneyd un cyfnewidiad ynddynt yn ddiarwybod iddynt: a buasant yn sicr o gymeryd y fantais hono i'w dwylaw yn eu dadl a Christ'nogion, pe buasai i'w chael. Addefant awdurdod yr holl brophwydoliaethau hyny, ond ymdrechant eu traws-esponio a'u cael i feddwl a golygu unrhyw bêth ond eu hystyr eglur a naturiol.

Am yr ail, Sef y gallai bod hanesiaeth y pedwar efengylwr wedi ei dyfeisio a'i gwneuthur i ateb i brophwydoliaethau yr hen Destament gan dwyllwyr, &c. Y mae wedi ei ateb eisoes mewn rhan yn y dosparth olaf ar y profion mewnol, a chan elyn i Grist'nogaeth hefyd, yr hwn a addefai fod yn haws credu fod y fath un a Iesu Grist wedi bod, ac wedi byw y fath fywyd, a marw y fath farwolaeth, ac y gesyd yr hanes allan, na chredu y gallasai dynion ddyfeisio a ffugio y fath hanes. Ond hefyd, Yn gyntaf, y mae genym dystiolaethau digonol bod yr efengylau wedi eu hysgrifenu gan y rhai hyny o ganlynwyr Iesu Grist ac y mae eu henwau wrthynt. Yr oedd y Crist'nogion cyntefig oll yn eu cydnabod felly. Dywed Irenæus, dysgybl Polycarp, yr hwn oedd ddysgybl i'r apostol Ioan, ac oedd yn gydnabyddus a llawer o'r rhai a fuasant yn nghymdeithas yr apostolion ereill, fel hyn, 'Rhoddodd ein Harglwydd awdurdod i'w apostolion i bregethu yr efengyl, drwy yr hyn y mae genym ni wybodaeth y gwirionedd, sef athrawiaeth Mab Duw, wrth y rhai y dywedai ein Harglwydd, 'Yr hwn sydd yn eich gwrando chwi sydd yn fy ngwrando i, a'r hwn sydd yn eich dirmygu chwi sydd yn fy nirmygu i a'r hwn a'm hanfonodd i.' Nid gan unrhyw beresonau ereill y'n haddysgwyd yn ngoruchwyliaeth iachawdwr-iaeth, ond gan y rhai hyny drwy y rhai y traddodwyd yr efengyl i ni; yr hon efengyl a bregethasant mewn geiriau, ond wedi hyny drwy ewyllys Duw a draddodasant i'n dwylaw mewn ysgrifen, i fod yn golofn a sylfaen ein ffydd. Mathew, yn mhlith yr Hebreaid, a gyhoeddodd ei efengyl ysgrifenedig

yn iaith y bobl hyny, yn yr amser ag yr oedd Pedr a Paul yn pregethu yr efengyl ac yn planu yr eglwys yn Rhufain. Ond, wedi eu symudiad hwy o'r byd, Marc, dysgybl ac ysgrifenydd Petr; a draddododd mewn ysgrifen y ffeithiau a dderbyniafai efe gan Petr. A'r un modd, Luc, canlynwr Paul, a gyhoeddodd mewn llyfr yr efengyl a bregethasid gan yr apostol hwnw. Yn ddiweddaf, Ioan hefyd, dysgybl ein Harglwydd, yr hwn a bwysodd ar ei fynwes ar y Swper, a gyhoeddodd ei efengyl yntau pan oedd yn trigo yn Ephesus, yn Asia.' Cyffelyb yw tystiolaeth yr holl dadau boreuol ar y mater. Ni cheisiodd gwrthwynebwyr boreuaf Crist'nogaeth chwaith, megis Celsus yn yr ail ganrif, a Porphyry yn y drydedd, heuru nad hwyntwy oeddynt awdwyr yr efengylau.

Yn ail, Gan hyny, ysgrifenydd yr efengylau yn yr oes ag y dywedant i'r pethau y mynegant am danynt gymeryd lle; ysgrifenasant (Mathew yn neillduol) yr hanesyddiaeth yn ngwydd llygaid y bobl ag oedd a phob mantais ganddynt i'w dynoethi fel twyllwyr, a'u hanesiaeth fel twyll a chelwydd: a phan ystyriom fod y genedl gyfan yn elynion ymroddgar i'r achos a bleidient, onid yw yn eithaf sicr y buasant yn eu dynoethi gyda'r awyddfryd mwyaf, oni buasai eu bod yn gweled eu tystiolaeth yn anwrthbrofadwy, ac nad oedd yn cynwys dim ond pethau ag yr oedd yr holl genedl yn mron yn gwbl hysbys o honynt. Ond pa le y mae y gwrth-broffion i'r efengylau a ysgrifenydd gan gyd-oeswyr yr efengylwyr a'r apostolion? Nid oes un i'w gael: ac y mae yn rhy ddiweddar byth wedi hyny i ddirymu eu hawdurdod. Yr oedd dystawrwydd eu cyd-oeswyr yn brawf nad oedd ganddynt ddim i'w ddywedyd yn erbyn eu tystiolaeth; ac yn gystal ag addefiad o'i gwirionedd.

Yn drydydd, Dewisodd taenwyr cyntaf Crist'nogaeth ddyoddef pob dirmyg, erledigaethau, a marwolaethau, yn hytrach na thynu yn ol a gwadu y dystiolaeth gynwysedig yn hanesyddiaeth yr efengylau am Grist a'i athrawiaeth. Y maent yn ymddwyn bob amser yn mhob amgylchiad fel dynion llwyr argyodeddig yn eu meddyliau eu hunain o wirionedd y dystiolaeth oeddynt yn ei dwyn.

Swm y cwbl, gan hyny, ydyw, Bod yr ystyriaethau hyn oll gyda'u gilydd yn gwneuthur i fynu un prawf mawr, cadarn, ac anwrthwynebol, o ddwyfoldeb Ysgrhythrau yr Hen Destament a'r Newydd—bod yn rhaid i'r fath ragfynegiadau am bethau a fyddent, ac a gawsant eu cyflawni mor eglur a manol, yn mhen cannoedd o flynyddau wedi eu llefariad, ddeilliaw oddiwrth Ysprydoliaeth Hollwybodol.

Y mae prophwydoliaethau y Testament Newydd hefyd yn dwyn yr un nodwedd. Holl ragfynegiadau Crist wrth ei ddysgyblion am yr hyn a ddigwyddai iddynt wedi ei ymadawiad ef oddiwrthynt—y dygid hwy ger bron llywiawdwy'r a brenhinoedd er ei fwyn ef—y fflangellid hwy yn y synagogau—y byddent yn gas gan bawb—y gosodid rhai o honynt i farwolaeth, &c. a gyflawnwyd i'r llythyren. Ei ragfynegiadau am ddinystyr Jerusalem a'r genedl Iuddewig, fel eu cofnodir gan ddau efengylwr, a gyflawnwyd i'r manylrwydd perffeithiaf. 'Pwy bynag,' medd Addison, 'a ddarlleno yr hanes a rydd Josephus i ni am yr amgylchiad hwnw, ac a'i cydmaro a'r hyn a ragfynegodd ein Gwardwr am dano, os na bydd yn adnabyddus o nodwedd Josephus, gallai dybied mai Cristion oedd yr hanesydd, ac nad oedd ganddo ddim arall mewn golwg ond gwneyd y dygwyddiad yn ol y rhagfynegiad.' Pe buasai felly, ni allasai ei gwneyd i ateb un mymryn gwell—pe buasai yn eistedd i lawr uwch ben y bedwaredd-ar-hugain o Mathew, ac yn ei throï yn hanes, ni allasai y fath hanes ateb yn gywirach yn mhob peth i'r dysgrifiad hwnw, na'r hanes a ysgrifennodd yr Iuddew hwn ag oedd yn llygad-dyst o'r trychineb ofnadwy o'r dechreu i'r diwedd.

Ond, heb aros yn hwy ar y mater hwn, y mae genym 'arwyddion yr amserau' presenol ger bron ein llygaid, yn y rhai y cyflawnir rhagfynegiadau y Testament Newydd am y dyddiau diweddaf hyn gyda manylwch perffaith. Pwy mor ddall na wel brophwydoliaethau y datguddiad wedi ac yn cael eu cyflawni yn amgylchiadau diweddar a phresenol Ewrop? A fuasai yn bosibl rhoddi dysgrifiad perffeithiach o gyfodiad cyfeiliornadau, gormes, a chreulondeb, ynghyd a darostyngiad y Pab a Phabyddiaeth, pe buasai i hanes gael ei ysgrifenu gan lygad-dyst o'r holl ddygwyddiadau o'r dechreu hyd

beddyw, na'r brophwydoliaeth am y pethau hyn yn y llyfr hwnw? Pwy ni wel wir ddelw eglwys wladol sefydledig yn cael ei bortreiadu yn y dysgrifiad prophwydoliaethol a ganlyn, am ei chwmp? 'A marchnatâwyr y ddaear a wylant ac a alarant drosti; oblegid nid oes neb mwyach yn prynu eu marsiandiaeth hwynt. Marsiandiaeth o aur, ac arian, a meini gwerthfawr, a pherlau, a lliain main, a phorphor, a sidan glas, ac ysgarlad, a phob coed thynon, a phob llestr o ifori, a phob llestr o goed gwerthfawr iawn, ac o bres, ac o haiarn, ac o faen marmor, a sinnamon, a pheraroglaeu, ac enaint, a thus, a gwin, ac olew, a pheiliaid, a gwenith, ac ysg-rubliaid, a defaid, a meirch, a cherbydau, a chaeth-weision, ac eneidiau dynion.'

Y mae adfywiad sêl a brwdfrydedd Pabyddiaeth Rhufain, a chyfodiad sect newydd o Babyddion yn Rhydychain, un o ffynhonau bywyd eglwys Loegr, yn nghyd ac yspryd Pab-aidd, trahaus, ac annyoddefol, uchel eglwyswyr y deyrnas y dyddiau hyn, ac hefyd, yr adfywiad sydd ar Anffyddiaeth, yn ei ffurf waethaf a gwrthunaf—y pethau hyn oll, meddaf, ydynt yn awgrymu bod rhyw ranau neulduol o'r prophwyd-oliaethau cynnwysedig yn y llyfr hwn i gael eu cyflawni yn fuan—ie, gallem ddywedyd fod y pethau hyn eu hunain yn gyflawniadau prophwydoliaethau, yn gystal ac yn rhag-ar-wyddion o bethau mwy eto. Y mae genym dystiolaeth pob hanesiaeth henafol, bod llaweroedd o brophwydoliaethau yr Ysgrythyrau wedi eu cyflawni. Wrth sylwi ar helyntion ac amgylchiadau y dyddiau presenol, gwelwn bod rhai o honynt yn ac ar gael eu cyflawni. Y ddwy ystyriaeth yn nghyd a rydd i ni sail sicr i gredu y *caiff* y gweddill oll eu cyflawni eto: a chyflawniad ei brophwydoliaethau a eglur brofant. ddwyfoldeb y llyfr a'u cynnwysa.

DOSP. IV.

Y GANGEN arall o'r profion hyn ydyw, Gwyrthiau. Gwyrth ydyw eithriad i drefn gyffredin a sefydlog natur—gwrth-weithrediad i'w deddfau; neu, ataliad mewn rhyw amgylch-

iad a thros ryw yspaid neullduol ar ei gweithrediadau priodol.

'Bod y byd gweledig yn cael ei lywodraethu yn ol rheolau cyffredin a sefydlog,' medd Dr. Gleig, 'neu, bod gosodiad achosion ac effeithiau yn mhob rhan o drefniant anian ac sydd yn dyfod dan ein sylw ni, sydd ffaith nad ellir ei gwadu. Os y Bod Goruchaf, fel y tybiodd rhai, ydyw yr unig wir weithredydd yn y grëadigaeth, y mae genym dystiolaeth profiad ei fod yn gweithio wrth reolau sefydlog yn y rhan o'r trefniant y perthynwn ni iddo. Os ydyw yn defnyddio is-weinyddion i rëoleiddio yr amrywiol ysgogiadau a ganfyddwn, y mae genym yr un dystiolaeth ei fod wedi rhwymo y gweithredyddion hyny wrth reolau pennodol a sefydlog, y rhai a elwir yn gyffredin deddfau natur. Ar un o'r ddwy dybiaeth, yr effeithiau a gynhyrchir gan weithrediad rheolaidd y deddfau hyn, neu y rhai ydynt gydfurfiol a threfn sefydledig dygwyddiadau, a elwir yn briodol yn *naturiol*, a phob eithriad i'r cyfansoddiad hwn o drefn natur, a'r cylch cyfatebol o ddygwyddiadau a berthyn iddo, a elwir yn *wyrth*.

'Os ydyw y darnodiad yma o wyrth yn gywir, ni ellir cyfrif unrhyw ddygwyddiad yn wyrthiol yn unig o herwydd ei fod yn anghyffredinol, neu hyd yn od pe byddai uwchlaw ein gallu ni i roddi cyfrif amdano; pan y dychon nad ydyw ddim mwy nag effaith rheolaidd rhyw ddeddf anadnabyddus yn natur. Y mae yn angenrheidiol, gan hyny, cyn y gallom benderfynu fod unrhyw ddygwyddiad yn wir wyrth, bod yr amgylchiadau dan y rhai y cymerai le yn adnabyddus, a'n bod yn deall trefn gyffredin natur hefyd i ryw raddau: oblegid yn yr amgylchiadau hyny ac y byddom yn hollol anwybodus o natur, y mae yn anmhosibl i ni benderfynu pa beth sydd neu pa beth sydd heb fod yn eithriad i'w threfn. Nid appeliadau at ein hanwybodaeth, gan hyny, ydyw gwyrthiau, fel yr heura rhai. Y maent yn rhagydybied rhyw wybodaeth flaenorol am drefn natur, heb yr hon na ellir ffurfio barn briodol amdanynt; er, gyda y wybodaeth yma y gall eu gwirredd fod mor eglur, ac na byddo un lle i amheuaeth.

'Fel hyn, pe byddai i feddyg iachau golygon dyn dall, drwy eneiio ei lygaid a chyferïau fferyllawl na welsom erioed mo honynt o'r blaen, ac am natur ac effeithiau y rhai y

byddem ni yn hollol anwybodus, byddai y gwelliant yn un rhyfeddol yn ddiameu; ond ni allem ei ddatgan yn wyrthiol, o herwydd, er dim a wyddom ni, dychon ei fod yn effaith naturiol yr enaint ar y llygaid. Ond, pe byddai iddo wella y dioddefydd yn unig drwy orchymyn iddo i weled, neu drwy iro ei lygaid â phoeryn, gallem gyda'r hyder mwyaf ddatgan y cyfryw welliant yn wyrth, oblegid gwyddom yn berffaith hysbys nad oes gan lais na phoeryn dynol, yn ol cyfansoddiad a threfn pethau, ddim o'r fath effaith ar anhwylderau y golwg.

'Os ydyw gwyrthiau yn ddygwyddiadau uwchlaw i gyfansoddiad sefydledig pethau, gallwn fod yn sicr na chyflawnir byth mo honynt ar achlysuron dibwys. Sefydlwyd cyfansoddiad natur gan Grëwr a Chynhaliwr y bydoedd, ac yn ddiau y mae yn ffrwyth anfeidrol ddoethineb er ateb y goreu o ddybenion. Ni all un eithriad oddiwrth y cynllun hwn gael ei wneyd ond gan Dduw ei hun, neu gan ryw fod galluog yn gwaithredu drwy ei awdurdod neu ei ganiatad. Y cynlluniau dyfeisiedig gan ddoethineb ydynt ddianwadal mewn cyfartalech i'w perffeithrwydd, a rhaid fod cynlluniau doethineb anfeidrol yn hollol berffaith. Oddiar yr ystyriaeth hon, heurodd rhai dynion na chyflawnwyd un wyrth erioed, ac na ellir yn rhesymol ddysgwyl y chyflawnir un byth chwaith—ond ystyriaeth briodol a'n boddlonia yn fuan fod y cyfryw gasgliadau yn ddisail.

'Dyn, yn ddiau, ydyw y creadur penaf yn y byd hwn, a'r unig un ynddo, fe ymddengys, ag sydd yn alluog i ddirnad y berthynas sydd rhyngddo â'i Greawdwr. Ni allwn ameu, gan hyny, bod y rhai hyny o ddeddfau natur, ag nad ydynt yn estyn eu dylanwadau tu hwnt i derfynau y ddaear hon wedi eu sefydlu yn benaf, os nad yn hollol, er daioni dynolryw; ac os mewn rhyw amgylchiadau neullduol y gellir dwyn yn mlaen y daioni hwn yn fwy effeithiol drwy wyro yn achlysurol oddiwrth y deddfau hyny, gellir yn rhesymol ddysgwyl y cyfryw beth.

'Gwyddom oddiwrth hanesyddiaeth bod holl ddynolryw agos wedi suddo unwaith i'r anwybodaeth ddyfnaf o'r gwirioneddau mwyaf pwysig—nad adwaenent y Bod a'u creodd, ac a'u cynnalai, ac y talent addoliad dwyfol i goed a cherig,

a'r pryfaid gwaelfaf; a'u bod yn gaethweision i'r ofergoelion creulonaf a mwyaf diraddiol.

'Yn sicr, nid oedd yn anheilwng o'r Bod dwyfol i waredu ei greaduriaid truain o'r sefyllfa lygredig hon; i oleuo eu deall, fel y canfyddant yr hyn sydd uniawn, ac i osod cymhelliadau ger eu bronau a fyddent o rym digonol i'w henill at yr ymarferiad o hono. Ond ni ellir goleuo dealltwriaethau barbariaid anwybodus drwy resymau, oblegid nad ydynt yn alluog i farnu a theimlo pwys rhesymau moesol. Darfu i athronyddion Groeg a Rhufain, y mae yn wir, gyhoeddi llawer o addysgiadau moesol ardderchog, ac weithiau meiddient ddynoethi ychydig ar yr ofergoelion a ffynent yn eu plith, ond ni chafodd eu darlithiau unrhyw ddylanwad ar y lluwys; ac yr oeddynt wedi cofleidian y fath dybiau cyfeiliornus am y Bod Goruchaf ac am natur yr enaid dynol, a chyfansoddi y tybiau hyny yn egwyddorion sylfaenol, y rhai na chaniataent eu chwilio a'u profi, fel nad oedd diwygiad yn beth i'w ddysgwyl oddiwrthynt drwy nerth rhesymau. Y mae yn beth i'w sylwi hefyd, bod llawer o wirioneddau o'r pwys mwyaf i ddynolryw, y rhai nas gallasai rheswm yn ei nerth ei hunan byth eu cael allan. Yn mhlith y rhai hyn, gallwn gyfrif anfarwoldeb yr enaid, trefn Duw i achub pechaduriaid, a'r modd y gellir gwasanaethu y Bod Goruchaf yn gymeradwy. Yn nghylch yr holl bethau hyn, yr oedd y doethion yn y fath ansicrwydd, fel y dywedai Plato, 'Pa beth bynag sydd yn ei le ac fel y dylai fod yn sefyllfa druenus bresenol y byd, bydd felly yn unig drwy gyfryngiad neullduol Duw.'

'Datguddiad uniongyrch o'r nef, gan hyny, oedd yr unig foddion, drwy yr hwn y gallai anfeidrol ddoethineb a daioni perffaith ddiwygio rhywogaeth lygredig a dyrywiol. Pa bryd bynag y rhoddid y cyfryw ddatguddiad, rhaid oedd iddo gael ei roddi yn uniongyrchol i ryw bersonau dewisol awdurdoddedig i addysgu ereill, neu i bob dyn ar ei ben ei hunan. Pe byddai i bob dyn gael ei addysgu yn y wybodaeth o'i ddyledswydd, a'r cymhelliadau i'w hymarfer i gael eu dwyn adref at ei feddwl gan Dduw ei hun, byddai y natur ddynol wedi ei hollol gyfnwid; ni byddai dynion mwyach yn weinyddion moesol, nac o ganlyniad yn wrthrychau priodol gwobr a chosp. Y mae yn canlyn, gan hyny, os rhyngodd bodd i

Dduw i oleuo a diwygio dynolryw, heb ddystrywio y natur foesol a berthyna i ddyn, gall wneuthur hynny yn unig trwy ddatguddio ei wirionedd i bersonau dewisedig, y rhai fyddent yn addysgwyr i'w cyd-oeswyr, a'u hol-oeswyr.

'Tybiwn mai fel hyn y mae y peth yn bod, a meddylw'n pa fodd y gallai y dysgawdwyr ysprydoledig hynny gyflwyno i eraill bob gwirionedd a ddatguddiesid iddynt hwy eu hunain. Gallasant yn hawdd, pe buasai yn rhan o'u dyledswydd, draddodi trefniant ysplenydd o addysg naturiol a moesol, a'i seilio ar sylfaen gyffredin profiad a ffeithiau: ond pa sail a allasant osod i lawr i'r gwirioneddau hynny y rhai na allai rheswm o hono ei hunan eu cael allan, a'r rhai wedi eu datguddier nad yw yn ymddangos eu bod yn dal unrhyw berthynas angenrheidiol â dim ag oedd yn adnabyddus o'r blaen? Ni allesid dysgwyl y buasai un bod rhesymol yn cydsynio â haeriad noeth yn unig eu bod wedi eu derbyn yn uniongyrch oddiwrth Dduw. Gallai y dysgawdwyr fod yn ddyinion o eirwiredd adnabyddus, y rhai y buasai eu tystiolaeth seml yn unig yn cael ei derbyn fel prawf digonol o unrhyw ffaith gydunol a deddfau natur; ond, fel ag y mae gan bob dyn dystiolaeth ei gydwybodolrwydd a'i brofiad ei hun bod datguddledigaethau o'r nef yn eithriadau oddiwrth y deddfau hyr, heuriad o'r fath ymddangosiad dyeithrol a wrthodid fel un twyllodrus, os na byddai yn cael ei gadarnhau gan ryw brawf amgenach na heuriad y dysgawdwr. Yn sefyllfa] bresenol pethau, ni allwn ddyfalu am un prawf digonol i beri i'r cyfryw gael derbyniad fel gwirioneddau dwyfol, ond trwy fod awdurdod i wneuthur gwyrthiau yn cael ei rhoddi i'r hwn a'u dysgai. Hyn yn wir a fyddai yn llawn ateb y pwrpas, oblegid os na fyddai dim yn anfoesol ac annuwiol yn yr athrawiaethau eu hunain, neu yn wrthwynebol i wirioneddau adnabyddus eisoes, yr unig beth a barai fod heuriad y dysgawdwr yn anghredadwy a fyddai, ei fod yn cynnwys y fath gymunedeb uniongyrch â Duw ac sydd yn wrthwynebol i drefn sefydlog pethau, yn yr hon y gadewir dynion i gyraedd eu holl wybodaeth drwy yr ymarferiad o'u galluoedd eu hunain. Tybiwn yn awr bod un o'r dysgawdwyr ysprydoledig hynny yn dywedyd wrth ei gyflwladwyr, nad ydyw yn dysgwyl iddynt, ar ei heuriad noeth ef, i gredu ei fod wedi cael unrhyw gym-

undeb goruwch-naturiol a'r Duwdod, ond er profi gwirionedd ei dystiolaeth, y rhoddai iddynt brawf eu synwyrâu eu hunain; ac wedi y datguddiad hwn, tybiwn ei fod yn ddiatreg yn cyfodi un oddiwrth y meirw yn eu presenoldeb, a hyny yn unig drwy alw arno i ddyfod allan o'i fedd: ai ni fyddai i'r unig wrthddadl ddychonadwy i wiredd y dysgawdwr gael ei symud drwy y wyrth hon, a'i haeriad ddarfod iddo dderbyn y cyfryw athrawiaethau oddiwrth Dduw gael ei gredu mor llawn a phe buasai yn perthyn i'r dygwyddiad mwyaf cyffredin? Dïau y byddai. Oblegid, pan fyddai y fath *awdurdod* oruwch-naturiol mor amlwg wedi ei chyflwyno i'r cyfryw berson, ni fyddai rheswm gan neb i ameu ei fod wedi derbyn gradd gyfartal o *wybodaeth* oruwch-naturiol. Eithriad mor amlwg oddiwrth ddeddfau adnabyddus natur mewn un enghraifft fyddai yn eglur brawf bod y cyfryw beth yn alluadwy mewn un arall, ac yn y fath achos a hwn y mae yn dystiolaeth Duw i wirionedd dyn.

'Gwyrthiau gan hyny ydynt yr unig brofion uniongyrchol a ellir roddi o ysprydoliaeth ddwyfol. Pan y mae crefydd, neu unrhyw wirionedd crefyddol, yn cael ei ddatguddio o'r nefoedd, ymddengys fod gwyrthiau yn anhebgorol angenrheidiol er peri derbyniad iddo yn mhlith dynion; a dyma yr unig achos yn yr hwn y gallwn dybied eu bod yn angenrheidiol, neu y gallwn gredu am foment eu bod erioed, neu y cant byth eu cyflawni.

'Y mae hanesiaeth pob crefydd agos yn llawn o sawreddau a rhyfeddodau, o honiadau cymundeb rhwng dynion a'r duwiau; ond ni wyddom am un trefniant o grefydd, ond yr un Iuddewig a Christ'nogol, a apelia at wyrthiau fel ei mawr brawf o wirionedd a dwyfoldeb. Y gwyrthiau honedig gan haneswyr a beirdd Paganaid ni osodir allan fel yn cael eu cyflawni yn gyhoeddus er cadarnhau gwirionedd crefydd newydd wrthwynebol i'r eulun-addoliaeth arferedig yn eu plith. Gellir profi nad oedd llawer o'r pethau a gyfrifant yn wyrthiau ond dygwyddiadau naturiol yn unig: ereill o honynt a ddywedid eu bod wedi eu cyflawni yn ddirgelaidd ar yr achlysuron mwyaf dibwys, ac mewn oesau tywyllion, lawer o amser cyn dyddiau yr awdwyr a'u cofnoda; a'r cyfryw o honynt ag ydynt ar y golwg cyntaf yn ymddangos fel yn cael

eu tystio yn lled gryf, ydynt, y mae yn amlwg, ddim amgen na chastiau dyfeisiedig er ateb dybenion hunangeisiol, i wenhieithio rhai mewn awdurdod, neu i gynnal i fynu ofergoelion yr oes. Oblegid y rhesymau hyn, yn gystal ag ar gyfrif nodweddau anfoesol y dwyfolion gan y rhai y dywedid y caent eu cyflawni, y maent yn hollol anheilwng o sylw, ac y maent yn dwyn yn eu natur eu hunain y profion cadarnaf o'u twyll a'u hanwiredd.

'Ond y gwyrthiau a briodolir i Moses a Christ ydynt yn dwyn nodwedd tra gwahanol. Ni chrybwyllir ddarfod i'r un o honynt gael ei chyflawni ar achlysuron dibwys. Yr ysgrifenywyr a'u cofnodai oeddynt lygad-dystion o'r ffeithiau, y rhai a dystiant ddarfod iddynt gael eu cyflawni yn gyhoeddus er tystiolaeth i wirionedd yr egwyddorion a ddysgent. Yn wir, y maent wedi eu cydgysylltu yn y fath fodd gyda'r egwyddorion hyn, fel na ellir gwahanu y gwyrthiau oddiwrth yr athrawiaethau; ac os na chyflawnwyd y gwyrthiau mewn gwirionedd, y mae yn anmhosibl i'r athrawiaethau fod yn wir. Heblaw hyn oll, cyflawnwyd hwynt er cyfnerthiad datguddiadau, y rhai a wrthwynebant bob trefniant o grefydd, holl ofergoelion a rhagfarnau yr oes yn yr hon eu rhoddyd; yr hyn sydd o hono ei hun yn eu gosod yn anfeidrol uwch o ran eu hawdurdod, na'r aruthr bethau Paganaid, yn gystal a rhyfeddodau gan yr eglwys Rufeinig.

'Credwn y caniateir yn gyffredinol, bod y gwyrthiau a goffeir yn llyfr Exodus ac yn y pedwar efengylwr, yn dystiolaeth ddigonol o ddwyfol ysprydoliaeth Moses a Christ, i'r rhai a'u gwelsant yn cael eu cyflawni; ond, fe allai y tybir nad ydynt yn unrhyw dystiolaeth i ni, o herwydd rhaid i ni gredu yn y gwyrthiau eu hunain, os credwn ynddynt hefyd, ar awdurdod noeth tystiolaeth ddynol yn unig. Pâham, fe ofynir weithiau, na chyflawnir gwyrthiau yn mhob oes a gwlad? Os ydyw crefydd Crist i barhau yn wastadol, dylai pob cenhedlaeth o ddynion gael tystiolaeth gyflawn o'i gwirionedd a'i dwyfoldeb.

'Y mae yr un rhesymau yn sefyll yn erbyn cyflawniad gwyrthiau yn mhob oes a gwlad, ac yn erbyn ysprydoliad uniongyrchol pob dyn ar ei ben ei hun. Pe byddai gwyrthiau fel hyn yn gyffredinol a gwastadol, gorthrechid dynion gan

eu hamledd yn hytrach na chan rym eu hawdurdod, i'r fath raddau ac y byddai braidd yn anmhosibl iddynt gadw y llywodraeth ar eu nodwedd a'u hymddygiadau moesol eu hunain; ac felly, collid gwir ac unig ddyben gwyrthiau gan eu hamledd. Pa fodd bynag, ymddengys, mai y gwirionedd yw, y collasai gwyrthiau eu grym yn hollol pe cyflawnesid hwynt yn barhaus, na edrychasiid arnynt fel gwyrthiau, oblegid buasai yn anhawdd, ac mewn llawer o amgylchiadau yn anmhosibl i wahaniaethu rhyngddynt â dygwyddiadau naturiol. Pe buasent yn cymeryd lle yn rheolaidd ar amserau pennodol, ni allasem brofi eu bod yn eithriadau oddiwrth ddeddfau cydnabyddus anian, oblegid buasai genym yr un prawf dros y naill gylch o ddygwyddiadau a thros y llall, dros reolaidd ddygwyddiadau gwrthanianol yn gystal a thros bethau a gym-erant le yn ol cyfansoddiad sefydledig trefn pethau.

'Ond beth bynag am hyny, cymerwn y rhyddid i sicra'u, bod genym dystiolaeth mor argyoeiddiol i'r meddwl myfyrgar, er nad mor nerthol i amgyffrediad y werin, am wir-edd y gwyrthiau efengylaidd ag oedd gan y rhai hyny ag oeddynt gyd-oeswyr a Christ a'r apostolion a'r rhai a welsant y gweithredoedd nerthol hyny yn cael eu cyflawni ger bron eu llygaid.

'Ni raid i ni dreulio amser yn y lle hwn i brofi bod y gwyrthiau, fel ac y tystiolaethir am danynt yn y Testament newydd, o'r fath natur, ac wedi eu cyflawni ger bron cynifer o dystion, fel nad oedd bosibl effeithio unrhyw swyn ar synwyrâu y rhai a dystient eu bod yn bresenol. Y mae hyn mor eglur oddiwrth bob tudalen o'r efengylau fel na ddarfu i wrthwynebwyr dysgedig y grefydd Grist'nogol erioed dybied ddarfod i'r apostolion eu hunain cael eu twyllo, ond cyhuddent hwy bob amser o ddwyn tystiolaeth dwyllodrus. Ond os ydyw y cyhuddiad hwn ar sylfaen dda, y mae eu tystiolaeth ei hun yn gymaint gwyrth ag un o'r rhai a briodolant iddynt eu hunain, neu i'w Meistr. Oblegid, os eisteddasant i lawr i ffuglunio eu datguddiad honedig, ac i gynllunio rhes o wyrthiau at y rhai y byddent oll i apelio fel profion o'i wirionedd, y mae yn amlwg gan iddynt lwyddo yn eu hanturiaeth aruthrfawr, y rhaid eu bod wedi rhagweled yn eglur bob amgylchiad a fyddai yn ddychonadwy iddynt gyfarfod, a

darparu atebion cyson i bob gofyniad a ellid ofyn iddynt gan eu gelynion cyfrwysaf a mwyaf penderfynol, gan y gwladwr-iaethwr, y cyfreithiwr, yr athronydd, a'r offeiriad. Yn sicr ni chynhygia neb wadu y buasai y fath ragwybodaeth a hon yn wyrthiol; oblegid y mae yn cynnwys y briodoledd hono ag ydym yn teimlo mwyaf o anhawsder i'w chaniatau hyd yn od i Dduw ei hunan. Ond pa fodd bynag, nid yr unig wyrth ydyw, ac y cymhellid ni gan y dybiaeth yma i'w llyncu. Y mae penderfyniad yr apostolion i daenu crediniaeth o wyrthiau ffugiol, er cynnal i fynu y fath grefydd ac a ddysg y Testament Newydd, yn wyrth mor fawr ac a ddychon dychymyg ddynol feddwl am dano.

'Pan ffurfient yr amcan hwn, rhaid eu bod naill ai yn go-beithio y llwyddent, neu yn rhagweled y methent yn eu cais; ac yn y naill olwg neu y llall, rhaid eu bod yn 'dewis trueni er ei fwyn ei hun.' Os rhagwelant mai methu yn eu cais a wnaent, ni allent edrych na disgwyl am ddim, ond y gwaradwydd, y dirmyg, a'r erledigaeth, ag oeddynt y pryd hyny yn ganlyniadau annocheladwy ymgais aflwyddianus i ddadymchwelyd y grefydd sefydledig. Ac ni allasai eu helynt fod nemawr gwell ar y dybiaeth o lwyddiant. Fel ag y gwyddent eu hunain mai gau dystion a thwyllwyr oeddynt, ni allasent feddu unrhyw obaith tu draw i'r bedd; a thrwy benderfynu gwrthwynebu pob trefniant o grefydd, ofergoelion, a rhagfarnau yr oes ag yr oeddynt yn byw ynddi, gwnaethant eu hunain yn agored yn ewyllysgar i drueni annocheladwy yn y bywyd hwn, i waradwydd a charchariad, i rwymau ac angau. Ni ellir chwaith heuru y gallai eu bod yn edrych at awdurdod a chyfoeth, pan y byddai iddynt, wedi y dyoddefiadau hyn, enill eu cydwladwyr; oblegid yr oeddynt mor awyddus na dderbynient ddim ond trueni, fel tâl eu cenhadaeth, fel ag y gwnaent eu dyoddefiadau eu hunain yn faen prawf o wirionedd eu hathrawiaethau. Dywedent ddarfod i'w Meistr, gan yr hwn yr honent iddynt dderbyn yr athrawiaethau hyn, ddywedyd wrthynt, ei fod yn eu hanfon allan fel defaid yn nghanol bleiddiaid; y rhoddid hwy i fynu i'r cynghorau, y fflangellid hwy yn y synagogau; y byddent yn gas gan bawb er mwyn ei enw ef; y byddai i frawd rod-di brawd i fynu i farwolaeth, a thad ei blentyn; ac nid oedd yr hwn na chym-

erai i fynu ei groes ac a'i canlynai ef, yn deilwng o hono. Gan hyny, yr oedd y trefniant o grefydd, a ddyfeisent, ac y penderfynent i'w thrawsgymell ar y byd, wedi ei threfnu yn y fath fodd, fel ag yr oedd llwyddiant daearol ei chenhadau cyntaf, ac hyd yn od eu diogelwch rhag erledigaethau, yn bethau anghytunol a'i llwyddiant. Pe na buasai i'r rhagfynegiadau eglur hyn, o eiddo awdwr y grefydd, dros yr hwn y gweinyddai yr apostolion fel gweision yn unig, gael eu cyflawni, buasai raid i holl ddynolryw ganfod yn union, bod eu honiad o ysprydoliaeth yn un twyllodrus, a bod Crist'nogaeth yn dwyll gwrthun a chywilyddus. Ni allai yr apostolion lai na rhagweled hyn oll, pan ffurfient eu cynllun i dwyllo y byd. Y mae yn canlyn gan hyny eu bod, pan yn penderfynu cynnal i fynu yr hyn a honent fel datguddiad dwyfol drwy apelio at wyrthiau ffugiol, eu bod, yn ewyllysgar, a chlyda llygaid agored, yn gosod eu hunain yn agored i drueni annocheladwy, pa un bynag a wnelent ai llwyddo neu fethu yn eu hanturiaeth: a'u bod wedi trefnu eu mesurau yn y fath fodd ag nad oedd yn bosibl iddynt gael enill na budd iddynt eu hunain, yn y byd hwn, na'r byd a ddaw. Ond os oes un o gyfreithiau natur ag y mae genym gryfach tystiolaeth o honi, na'r lleill, hon ydyw; sef, na all un dyn 'ddewis trueni er ei fwyn ei hun,' neu wneyd trueni yn ddyben ei fywyd. Yr ydym yn gwybod am fodolaeth deddfau ereill natur drwy dystiolaeth, a'n sylw ein hunain ar eu heffeithiau rheolaidd. Y mae hanfodaeth y ddeddf hon yn adnabyddus i ni, nid yn unig drwy y moddion hyn, ond hefyd drwy dystiolaeth eglurach a chadarnach ein cydwybodolrwydd ein hunain.

'Fel hyn, gan hyny, y mae y gwyrthiau yn cymell eu hunain i'n cymeradwyaeth a'n derbyniad fel tystiolaeth ddiymod yn mhob golygiad a allwn gymeryd ar y mater pwysig hwn. Os ydoedd tystiolaeth cenhadau cyntaf Crist'nogaeth yn wirionedd a'r gwyrthiau a gosnodir yn yr efengylau a gyflawnwyd yn sicr, rhaid fod athrawiaethau ein crefydd wedi deilliaw o'r nefoedd. Ar y llaw arall, os twyll oedd y dystiolaeth hono, yr oedd raid naill ai darfod i Dduw mewn modd gwyrthiol ddileu o feddyliau y dynion hyny yr holl gysylltiadau a hanfodai rhwng eu teimladau naturiol a geiriau iaith, neu rhaid oedd iddo gynhysgaeddu y dynion hyny a'r ddawn o

ragwybodaeth, a'u dirgymhellai hwynt i ffuglunio datguddiad twyllodrus i'r dyben o dwyllo y byd, a dwyn arnynt eu hunain ddinystyr sicr ag oeddynt hwy eu hunain yn ei ragweled.*

Y mae y dystiolaeth dan sylw, sef gwyrthiau, yn un anhyblyg i'r eithaf. Cynhygied yr anffyddiad truan ffordd y myno, nid oes fodd iddo gael gwared o honi. Os gwirionedd yw hanesyddiaeth yr efengylwyr—os cyflawnodd Crist a'r apostolion y gweithredoedd nerthol a briodolir iddynt, yna, rhaid fod Iesu Grist yn Fab Duw, a bod y grefydd a sefydlodd yr unig grefydd ddwyfol; oblegid mai fel profion o hyny yn benaf yr oeddynt yn cael eu cyflawni. Os cynhygir gwadu gwired y hanes, a heuru mai dyfeiswâith twyllodrus ydoedd, yna y mae yr hanesiaeth ei hunan yn ymddangos yn wyrth mor sawr, os nid mwy, nag un o'r pethau y traetha am danynt, a haws ydyw credu gwirionedd yr hanes, na rhoddi cyfrif pa fodd y gallasai creaduriaid terfynol eu deall a'u gwymbodaeth ei ffugio. Os twyll ydyw, rhaid mai Duw oedd y twyllwr; *h. y.* bod y dynion hyny, dan ei ysprydoliaeth ef, wedi eu hanfon ganddo yn bwrpasol i hudo a siomi ei creaduriaid. Gwnewch fel y mynoch â hi, y mae ei dwyfoldeb yn aros. Os gwir yr hanes am y gwyrthiau, y mae y Testament Newydd yn cynwys crefydd wirioneddol a dwyfol; oblegid, ni allasai neb wneuthur y gweithredoedd hyny, oni buasai 'fod Duw gydag ef.' Os dyfeis-waith ffugiol y dywedir ei bod, rhaid mai twyll dwyfol ydyw; oblegid, ni allasai neb ddyfeisio y fath hanesiaeth gyflawn a chyson am bersonau a phethau, mor ddyeithrol a gwahanol i ddim y clybuwyd amdanynt erioed o'r blaen—y fath hanesiaeth ag sydd mor sembl ac ÷ofn, mor hollol lân oddiwrth bob tebygolrwydd i ffug a thwyll, mor debyced drwyddi oll i wirionedd diffuant—ni allasai neb bod creëdigol, meddaf, lunio y fath hanes, 'oni bai fod Duw gydag ef.' Rhaid naill ai bod y *gallu dwyfol* wedi ei estyn allan yn ngwirioneddol gyflawniad y *gweithredoedd gwyrthiol* a gofnoda yr efengylwyr, ac felly fod y sel ddwyfol wedi ei rhoddi er ardystiad o wirionedd Crist'nogaeth; neu, bod *doethineb ddwyfol* wedi cyfarwyddo yr ysgrifenyddwr i un dyben arall ond twyllo dynolryw dan rith y difrifolder

* See Buck's Theological Dictionary under the word 'Miracles.'

mwyaf pwysig. Tuedda y golygiad cyntaf i ogoneddu Duw yn ngolwg ei greaduriaid, fel Bod anfeidrol mewn hawddgarwch, caredigrwydd, a daioni; a'r olaf, i'w osod allan yn wrthrych adgasrwydd a dirmyg ei greaduriaid ei hunan, a'n rheswm a'n cydwybod a ddywed wrthym pa un i'w wrthod a pha un i'w ddewis. Y neb a gymero arno ddirymu y dystiolaeth hon, a ofer gynhygia at weithred oruwch-wyrthiol.

Ewyllysiwn ychwanegu un sylw pellach cyn gadael y *profion allanol*, a hono ydyw yr egwyddor a osodir i lawr gan Gamaliel yn *Actau* v. 34—39, yn ei gynghor yn y gynhadlledd yn Jerusalem mewn perthynas i'r apostolion a'r grefydd Grist'nogol: 'Ciliwch 'oddiwrth y dynion hyn, a gadewch iddynt: oblegid, os o ddynion y mae y cynghor hwn, neu y weithred hon, fe a ddyddymir; eithr os o Dduw y mae, ni ellwch chwi ei ddyddymu, rhag eich cael yn ymladd yn erbyn Duw.' Amlygai y Doctor parchedig fod ei gyngor hwn yn gasgliad a dynasai oddiwrth ddwy ffaith adnabyddus, am ddau rith Fessia a ymddangosasant yn flaenorol, ac a dynasant lwards o ddysgyblion ar eu holau, ond a ddarfuasai amdanynt yn fuan; ac y gwasgaresid eu dysgyblion, ac y syrthiasai eu hachosion i'r llwch. Profai gan hyny, nad oedd eu hachos o Dduw, ond mai peth dynol ydoedd; ac o ganlyniad, na feddai nerth i sefyll: ac os mai peth dynol oedd Crist'nogaeth, y deuai hithau i'r un diwedd, ac na fyddai raid iddynt ymdrafferthu na gofalu yn ei chylch. Ond os oedd o Dduw, mai ofer fuasai iddynt geisio ei dyddymu, a'u bod yn anturio y perygl mwyaf wrth gynyg at hyny. Y mae y cyngor yn llawn o nerth ymresymiad, a'r un goreu yn ddiau a allesid ei rodidi ar y fath achos. Yn awr, yr hyn a fynwn ei ddangos ydyw, bod yr hancsyddiaeth a gawn am yr holl gau-gristiau a ymddangosent erioed yn y byd yn egluro cywirdeb y golygiad a gynwysir yn y cyngor crybwylledig—na allodd un twyll-grist erioed gynnal i fynu ei honiadau a'i achos ond tros ychydig iawn o amser. Gallodd llawer gau brophwyd sefyll ei dir am hir iawn o amser, enill crediniaeth oesau lawer, a chael ei gyfrif gan lawer o genhedloedd a llawer o genhedlaethau yn wir brophwyd, megis ag y mae y twyllwr Mahomed yn un esiampl hynod ger bron llygaid yr holl fyd; ond ni allodd un gau *Grist* sefyll i fynu erioed ond tros ychydig iawn o amser,

cyn i'w dwyll ddyfod i'r amlwg, ac i'w achos syrthio i ddi-nystr—o ganlyniad, y mae bod achos a chrefydd Iesu Grist wedi sefyll ei thir yn y byd dros gynnifer o oesau, ac wedi bod uwchlaw un grefydd arall yn wrthrych casineb a gelyniaeth y byd ; ac yn un y bu holl allu a dylanwad awdurdodau a llywodraethau y byd ar waith hyd eithafion eu grym er ei dyfetha a'i diwreiddio—y mae yr ystyriaethau hyn, meddaf, yn brawf nerthol o'i tharddiad dwyfol ; a pha reswm arall a ellir roddi dros yr eithriad yma a berthyn i Grist a Christ-nogaeth, ond hwn ? Rhagfynegodd Iesu Grist i'w ddysgyblion y cyfodai 'gau gristiau lawer, ac y twyllent lawer ;' a rhoddwn yma grynghodeb byr o'u hanes er egluro yr ymresymiad hwn, a thybïaf na fydd yn annerbyniol gan y darlennydd Cymreig, na chafodd y fantais i wybod dim amdanynt, ac y gwel y gwahaniaeth anfeidrol oedd rhwng y twyllwyr hyny a'r Crist y darllena ei hanes yn y Testament Newydd.

Dywedir na chyfododd dim llai na phedwar-ar-hugain o gau Gristiau yn mhlith yr Iuddewon wedi ymddangosiad y *gwir* Grist.

1. Iuddew o'r enw Caziba oedd y cyntaf o ddim hynod-rwydd. Ymddangosodd hwn yn amser teyrnasiad Adrian, yn yr ail ganrif. Taenodd yn mhlith yr Iuddewon mai efe oedd y Messia yr hir ddysgwyliasant amdano. Gosododd ei hun yn ben ar fintai o yspeilwyr, y rhai a anrheithient Judea, ac a gyflawnt bob math o greulonderau—daeth yn fuan mor alluog, fel y darfu i'r Iuddewon ei ddewis i fod yn frenhin arnynt, a chydabyddent ef fel eu Messia. I'r dyben i wisgo ei anturiaeth âg ymddangosiad gwell, newidiodd ei enw o Caziba i Barchochoba, mewn oyfeiriad at ragfynegiad Balaam am seren Jacob—cymerai arno ei fod yn seren aufonedig o'r nefoedd i adferu ei genedl i'w hanrhydedd a'i gogoniant cyn-tefig. Dewisodd ragredegwr, cynhullodd fyddin, ac eneiwiwyd ef yn frenhin, bathodd arian a'i enw ei hun yn argraffedig arnynt, a chyhoeddodd ei hun yn Fessia a thywysog y genedl Iuddewig. Anfonodd Adrian fyddin yn ei erbyn, ciliodd yntau i dref o'r enw Bither, lle y gwarchaewyd arno—lladdwyd ef yn y gwarchae, a chymerwyd y ddinas, a bu lladdfa echrydus ar ei bleidwyr. Addefa yr Iuddewon eu hunain ddarfod iddynt golli o bump i chwe chan mil o fyw-

ydau yn y rhyfel byr yma a'r Rhufeiniaid, mewn amddiffyniad i'r gau Fessia hwn.

2. Yn nheyrnasiad Theodosius yr icuangaf, yn y flwyddyn 434, cyfododd twyllwr arall o'r enw Moses Cretensis. Cym-erodd arno fod yn ail Foses, wedi ei anfon i waredu yr Iuddewon a breswyliant yn Creta—addawodd agor y môr a rhoddi mynedfa ddyogel trwyddo iddynt. Profodd yr hudoliaeth mor gref a chyfredinol, fel y darfu iddynt esgeuluso eu tiroedd, a'u tai, a phob gofalon eraill, gan gymeryd gyda hwynt yr hyn a allent gario yn gyfleus yn unig o'u meddiannau, a myned ar ei ol ef. Ar y dydd appwyntiedig, arweiniodd y gau Foses hwn hwynt i ben craig, a lluaws mawr o wyr, a gwragedd, a phlant, a dafasant eu hunain i lawr bendramwnwgl i'r môr, ar ei orchymyn, heb ddangos un math o amheuaeth na gwrthwynebiad: ond, wrth weled rhifedi mawr wedi boddi, daeth y gweddill i ganfod y twyll; yna dechreuasant chwilio am y twyllwr, ond yr oedd efe wedi dianc ymaith o'u gafael.

3. Gwnaeth twyllwr arall drachefn ei ymddangosiad yn nheyrnasiad Justin, oddeutu y flwyddyn 520, yr hwn a alwai ei hun yn fab Moses: ei enw oedd Dunaan. Cymerodd feddiant o ddinas yn Arabia Ffelics, a gorthrymodd y Crist'nogion yn y ddinas honno yn dôst. Cymerwyd ef yn garcharor, a gosodwyd ef i farwolaeth gau Elesban, blaenor milwraidd Ethiopaid.

4. Gwrthryfelodd yr Iuddewon a'r Samariaid yn erbyn yr ymerawdwr Justinian yn y flwyddyn 529, a gosodasant i fynu un Julian yn frenhin arnynt, a chyhoeddent ef yn Fessia. Anfonodd yr ymerawdwr fyddin yn eu herbyn, lladdwyd llaweroedd o honynt, cymerwyd eu rhith Fessia yn garcharor, a gosodwyd ef i farwolaeth.

5. Ganwyd Mahomed yn y flwyddyn 571, yn Arabia. Cymerodd yn gyntaf arno mai efe oedd y Messia addawedig i'r Iuddewon, ond yn suan rhoddodd yr honiad hwnw i fynu, a gosododd ei hunan allan fel y penaf o'r prophwydi; a than y cymeriad hwnw y llwyddodd i sefydlu ei au grefydd yn y byd trwy rym twyll ac arfan, yr hon sydd yn taenu ei dylanwad gwenwynig dros lawer o wledydd eang o'r amser hwnw hyd yr amser presenol.

6. Oddeutu y flwyddyn 721, cyfododd gau Fessia arall yn Hispaen, ei enw oedd Serenus. Tynodd luaws mawr o ddysgyblion ar ei ol, er eu mawr siomedigaeth a'u dinystr: syrthiodd ei holl honiadau i'r dim yn fuan.

7. Bu y ddeuddegfed ganrif yn ffrwythlawn o gau Gristiau —ymddangosodd un yn Ffrainc, yr hwn a osodwyd i farwolaeth yn nghyd â lluaws mawr o'i ganlynwyr.

8. Yn y flwyddyn 1138, cyfododd Iuddew yn Persia, yr hwn a alwai ei hun yn Fessia. Cynullodd fyddin luosog; ond efe hefyd a ddaliwyd ac a roddwyd i farwolaeth, a chafodd ei ganlynwyr eu trin yn greulon.

9. Yn y flwyddyn 1157, bu gau Fessia arall yn cynhyrfu yr Iuddewon yn Corduba yn Hispaen. Y rhai doethaf a'r mwyaf cyfrifol o honynt a edrychent arno fel gwallcof-ddyn, ond y rhan fwyaf o'r Iuddewon yn y wlad honno a gredent ynddo. Bu agos i'r holl Iuddewon yn Hispaen gael eu dinystrio o achos hwn.

10. Yn y flwyddyn 1167, cyfododd gau Fessia drachefn yn nheyrnas Fez, yr hwn a ddygodd drallodau mawrion ar yr Iuddewon a breswylent yn y wlad hono.

11. Yn yr un flwyddyn gosododd gwr o Arabia ei hunan i fynu yn Fessia, a chymerai arno wneuthur gwyrthiau. Pan anfonwyd swyddogion i'w ddal, ffodd ei ganlynwyr oddiwrtho a dygwyd ef ger bron brenhin Arabia; ac wrth ei holi o'i flaen, dywedodd ei fod yn brophwyd wedi ei anfon gan Dduw. Gofynnodd y brenhin iddo, pa arwydd a allai ddangos er cadarnhad ei genhadwri? Torwch ymaith fy mhen, eb efe, a dychwelaf i fywyd drachefn. Cymerodd y brenhin ef ar ei air, ac addawai gredu ynddo, os gwelai ei ragfynegiad yn cael ei gyflawni. Ni ddychwelodd yr adyn truan, pa fodd bynag, byth i fywyd drachefn, a daeth ei dwyll felly yn ddi-gon amlwg. Cospwyd ei ddylynwyr twylledig yn dost, a dyfarnwyd y genedl i dalu dirwy drom.

12. Yn fuan wedi hyn darfu i Iuddew trigiannol o'r tu hwnt i Euphrates, osod ei hun i fynu yn Fessia, a thynodd luaws mawr iawn o bobl ar ei ol. Fel arwydd o wirionedd ei honiad, dywedai ddarfod iddo fod yn wahanglwyfus, a'i fod wedi ei feddyginiaethu mewn un noson. Trengodd yntau fel y

lleill yn yr anturiaeth, a thynodd flinderau mawrion ar ei gyd-genedl.

13. Yn y flwyddyn 1174, cyfododd swynwr a gau Grist yn Persia, yr hwn a elwid David Almuser. Dywedai y gallasai wneuthur ei hun yn anweledig; ond cymerwyd ef i fynu yn fuan, a gosodwyd ef i farwolaeth, a rhoddwyd dirwy drom ar ei frodyr yr Iuddewon o'i achos.

14. Yn 1176, cyfododd un arall o'r twyllwyr hyn yn Morafia. Yntau a ddaliwyd ac a roddwyd i farwolaeth, fel ei ragflaenoriaid.

15. Yn y flwyddyn 1199, cyfododd twyllwr a therfysgwr tra hynod yn Persia, a elwid David el David. Yr oedd yn wr o ddysg, ac yn swynwr mawr, a chymerai arno mai efe oedd y Messia. Cyfododd fyddin yn erbyn y brenhin, ond daliwyd a charcharwyd ef; diangodd o'r carchar, a daliwyd ef eilwaith, a thorwyd ymaith ei ben. Dienyddiwyd llauws mawr o'r Iuddewon am bleidio y twyllwr hwn.

16. Crybwylla Maimonides am au Grist arall yn y ganrif hon: ond ni ddywed o ba wlad, nag o ba enw oedd, nag ychwaith air am ei lwyddiant na'i aflwyddiant. Fel hyn, ni fu llai na deg o gau Gristiau yn y ddeuddegfed ganrif, y rhai a ddygasant drallodau a dinystr dirfawr ar yr Iuddewon yn ngwahanol barthau y byd.

17. Yn y flwyddyn 1497, yr ydym yn cael gau Grist arall, enw yr hwn ydoedd Ismael Sophus, yr hwn a hudodd yr Iuddewon yn Hispaen. Yntau hefyd a ddarfu amdano, a chynifer a gredasant ynddo a wasgarwyd.

18. Yn y flwyddyn 1500, Nabli Lemlem, Iuddew o Austria a alwai ei hun yn rhagredegrwr y Messia. Addawodd i'r Iuddewon y caent eu dychwelyd i Ganaan y flwyddyn ganlynol.

19. Yn y flwyddyn 1509, cymerodd Iuddew o Cologne, o'r enw Pfefferkorn arno mai efe oedd y Messia. Cymerodd arno wedi hyny droi yn Gristion.

20. Yn y flwyddyn 1534, rhoddai un Rabbi Salomo Malco allan ei fod yn Fessia, a llosgwyd ef i farwolaeth gan Charles y pumed o Hispaen.

21. Yn y flwyddyn 1615, cyfododd gau Grist yn yr India

ddwyreiniol, a chafodd lawer o'r Iuddewon gwasgaredig yn y wlad hon yn ddilynwyr.

22. Yn y flwyddyn 1624, cyfododd un arall yn yr Iseldir, yr hwn a honai ei fod o deulu Dafydd, ac o linach Nathan. Addawodd ddystrywio Rhufain, a dadymchwelyd teyrnas Anghrist, ac ymerodraeth y Twrc.

23. Yn y flwyddyn 1666, yr ymddangosodd y gau Fessia Sabatai Sefi, un o'r hynotaf o'r twyllwyr oll. Yr oedd 1666 yn flwyddyn ac y dysgwylid amryw bethau rhyfeddol ynddi gan lawer, ac felly yn amser cyfleus i dwyllwr wneyd ei ymddangosiad. Gwnaeth Sabatai ei ymddangosiad cyntaf yn Smyrna, fel Messia. Addawodd waredigaeth a theyrnas lwyddiannus i'r Iuddewon : a chredasant ef yn gyffredinol : gadawsant eu gorchwylion, ac ni sonient am ddim arall ond eu dychweliad i'w gwlad, a chredent mai Sabatai oedd y Messia, mor gadarn ac y creda Crist'nogion unrhyw erthygl o'u ffydd. Gwr parchedig a ddygwyddai fod yn Twrci yr amser hwnw, a ofynai i Iuddew adnabyddus iddo, Beth oedd ei feddwl am Sabatai? Atebai yr Iuddew ei fod yn credu mai y Messia oedd ; a'i fod yn credu hynny mor gryf, fel os troai allan mai twyllwr ydoedd, y troai yntau yn Gristion.

Yr oedd Sabatai yn dra hyddysg mewn dysgeidiaeth Hebraeg. Priododd wraig brydweddol yn Salonichi ; ac ymadawodd a hi yn fuan. Teithiodd wedi hynny i'r Morea, yna i Tripoli, Gaza, a Jerusalem. Priododd drydedd gwraig. Dechreuodd ddiwygio y cyfansoddiad Iuddewig a'r gosodiadau, yn Jerusalem, &c. ac amlygodd ei fwriadau i osod ei hunan i fynu fel Messia, i un Nathan ; yr hwn a cymeradwyodd, ac a gynhygiodd ei hun i fod yn Elias, neu rag-reddegwr iddo, gan gymeryd arno ddyddymu yr holl ymrydiau Iuddewig fel pethau anghymwys i'r amser ag yr oedd y priodfab wedi ymddangos. Prophwydodd Nathan y buasai i'r Messia cyn pen dwy flynedd, ymddangos i'r Sultan, a chymeryd ei goron oddiarno, a'i arwain mewn cadwynau.

Yn Gaza, darfu i Sabatai ddechreu pregethu edifeirwch a ffydd ynddo ei hun mor effeithiol nes y darfu i'r bobl ymroddi i'w defosiynau, ac i wneuthur elusenau. Dechreuodd y sôn am y Messia hwn bellach lenwi pob man. Ysgrifennai Nathan lythyr ato, gan ddechreu fel hyn—'At y brenhin, ein

brenhin, Arglwydd Arglwyddi, yr hwn sydd yn casglu gwasgaredigion Israel, yr hwn a ryddha ein caethiwed, yr hwn a ddyrchafwyd i uchelder eithaf pob ardderchogrwydd, Messia Duw Jacob, y gwir Fessia, y llew nefol, Sabatai Sevi.' Cyfenwai yntau ei hun yn 'Unig a chyntaf-anedig Duw, y Messia, a Gwardwr Israel.' Er iddo gyfarfod a pheth gwrthwynebiad ar y cyntaf, eto llwyddodd o'r diwedd i'r fath radd, fel y dechreuodd rhai o'i ganlynwyr brophwydo, a syrthio i lewygfeydd: pedwar cant o wyr a gwragedd a ragfynegent am gynydd a llwyddiant ei deyrnas: a dysgid babanod ieuaingc, na allent siarad ond ychydig eiriau, y ddywedyd Sabatai Sevi, y Messia, a Mab Duw. Ond diwedd y twyllwr hwn fel y rhan fwyaf o'i frodyr, oedd cael ei gymeryd i fynu fel terfysgwr a bradwr. Galwai Sultan Caercystenyn am dano i ymddangos o'i flaen, a gofynai ganddo gyflawni gwyrth ger ei fron; a rhoddai y cynhygiad iddo i gael ei ddiosg yn noeth, a'i osod yn nod i'w saethyddion, ac os na byddai i'r saethau drywanu ei gnawd, yr addefai efe ef yn Fessia. Ni feddai Sabatai ddigon o ffydd ynddo ei hun i sefyll y prawf. Rhoddodd y Sultan ar ddeall iddo, y gwenid ef a phawl i farwolaeth, a bod yr offeryn wedi ei barotoi ar ei gyfer, os na byddai iddo droi yn Dwrc; ar hyn cydsyniodd i droi yn Fahometan, er mawr siomedigaeth i'r Iuddewon.

24. Y gau Grist diweddaf a lwyddodd i enill unrhyw nifer o ddysgyblion oedd un Rabli Mordecai, Iuddew o'r Almaen. Ymddangosodd hwn yn y flwyddyn 1652. Nid hir y bu ei dwyll heb ddyfod i'r amlwg, a gorfu arno ddiangc am ei fywyd o Itali i Poland. Pa beth a ddaeth o hono wedi hyny ni wyddys.*

Dyma bedwar-ar-hugain o gau Gristiau wedi codi, ac wedi syrthio er amser croeshoeliad ein Messia bendigedig ni. Mor llawn y cyflawnid ynddynt ragfynegiad ein Gwardwr, 'Daw llawer yn fy enw i, ac a dwyllant lawer.' Mor anrhaethol y gwahaniaeth rhyngddynt yn eu bywydau, eu hymddygiadau, eu hathrawiaethau, a'u marwolaethau, i'r eiddo Iesu Grist! 'Mor ddisymwth yr aethant yn anghyfannedd,' ac y darfu amdanynt! Bu pob un o honynt, agos, byw i weled tranc

* Gwel Buck's Theological Dictionary, o dan y gair 'Messia.'

ei achos. Nid oes gan yr un o'r pedwar-ar-hugain ddysgybl na chanlynwr iddo yn y byd ar ei ol, oddieithr Mahomet, ac nid fel Messia, fel y sylwyd, y mae ganddo yntau ganlynwyr chwaith. Gofynwn eto, Pa gyfrif ellir ei roddi am y gwahaniaeth rhwng Messia y Testament Newydd a phob Messia arall yn ei nodwedd a'i athrawiaeth, yn hanes ei fywyd a'i farwolaeth, yn ei ganlynwyr a'i ddysgyblion? O'r holl luaws Cristiau a ymddangosasant yn y byd, nid oes ond ei achos ef yn fyw heddyw; ac y mae hwn wedi byw a dal ei dir yn y byd am gannoedd a channoedd o flynyddau, heb gynhorthwy y cleddyf na gwaewffon; wedi gwrthsefyll ystormydd o erledigaethau, ymosodiadau mwyaf egniol brenhinoedd a llywodraethwyr y ddaear i'w ladd a'i ddyfetha: buddugoliaethodd ar bob ymosodiad a wnaed arno gan alluoedd gwladwriaethol, a galluoedd dysgeidiaeth a doniau ei elynion; ac y mae heddyw yn codi ei ben ac yn dyrchafu ei lygaid ar y byd, ac yn gwneuthur parotöadau mawrion tuag at ei feddiannu yn gwbl iddo ei hun, a dinystrio coffadwriaeth pob crefydd arall oddiar wyneb y ddaear. Y mae yn myned allan 'yn gorchfygu ac i orchfygu.' Nid yw yn gofyn, ond y mae ei egwyddorion yn gwrthod cynhorthwy un math o arfau a grym dynol—y mae yn wynebu y byd yn nerth syml ei dystiolaethau, yn ngrym ei gymhelliadau a'i annogaethau gan hyderu ar ddylanwad dirgelaidd ac effeithiol ei awdwr dwyfol i sicrhau buddugoliaeth gyffredinol iddo ar fyd o elyniaeth a thrueni. Y mae bod Crist'nogaeth yn fyw, wedi yr holl ymdrechion i'w lladd, yn brawf ei bod yn anfarwol. Y mae y buddugoliaethau gogoneddus a ennillodd eisoes yn sicrhau y buddugoliaetha ar y byd oll. Gall ofyn, fel brenhin Assyria gynt, Mae duwiau teyrnasoedd Ewrop, a duwiau ynysoedd Môr y Dehau, lawer o honynt? Y maent wedi cwympto o'i blaen, ac yn eu cwympt a'u llosgiad hwy rhagarwyddid beth a fyddai tynged holl dduwiau y cenhedloedd. Pe buasai Gamaliel yn fyw heddyw, buasai raid iddo, yn ol yr egwyddorion a osodasai efe ei hunan i lawr, ddyfod i'r penderfyniad a'r gred fod y 'cyngor a'r weithred yma o Dduw,' gan ei fod wedi sefyll ei dir cyhyd, ac yn wyneb y fath anfanteision; a bod pob cyngor a gweithred o eiddo pob Messia o flaen ac ar ol Iesu Grist wedi syrthio i'r llwch mewn

ychydig amser, a chan hyny, y rhaid mai pethau o ddynion oedd y cwbl. Gofalodd y Tad am ogoneddu ei Sanct Fab Iesu mewn modd neuillduol yn hyn. Goddefodd i lawer gymeryd arnynt eu bod yn brophwydi, a llwyddo am hir dymor, ond ni oddefodd erioed i un twyllwr gymeryd arno ei hun yr anrhydedd a berthyna yn unig i'r hwn a osododd efe yn unig Gyfryngwr rhyngddo â dynion—ni oddefodd erioed, meddaf, i neb estyn ei law i ymaflyd yn yr urddas goruchel hwn, heb ei ddadymchwelyd i warth a dinystr buan ac amlwg. Ac y mae hyn yma hefyd yn un prawf cadarn dros ddwyfoldeb y Bibl a'r grefydd Grist'nogol: a hèn i holl wadwyr dwyfoldeb Crist'nogaeth roddi un rheswm boddâol iddynt hwy eu hunain yn yr achos hwn, heb gydsynio a'r egwyddorion cynwysedig yn nghynghor Gamaliel, ac yna bydd pob dadl rhyngom ni a hwythau ar ben.

PENNOD VII.

Y PROFION YMARFEROL O DDWYFOLDEB CRIST'NOGAETH—EGLURHAD O HONO—DOSPARTHIAD O—DYLANWAD YMARFEROL CRIST'NOGAETH AR SEFYLLFA WLADWRIAETHOL A CHYMDEITHASOL Y BYD—EI DYLANWAD MEITHRINOL AR GELFYDDYDAU A MOESAU TEYRNASOEDD EWROP, ER DILEU EULUNADDOLIAETH A'I GREULONDERAU—DYLANWAD PAGANIAETH AR ASIA—GWRTHGYFERBYNIAD PRYDAIN AG INDIA—YR ANMHRIDOLDEB O BRIODOLI Y DRYGAU A HANFODANT MEWN GWLEDYDD CRIST'NOGOL, A GYFLAWNIR GAN RAI DAN ENW CRIST'NOGION, I GRIST'NOGAETH EI HUN—DYLANWAD ANFFYDDIAETH AR GYFLWR GWLADWRIAETHOL A CHYMDEITHASOL FFRAINC YN AMSER Y CHWYLDROAD.

YR AIL GANGEN. GWRTHGYFERBYNIAD NODWEDDAU PERSONOL STOICIAID A CHRIST'NOGION, ANFFYDDIAID A CHRIST'NOGION—ESIAMPLAU O DROEDIGAETH (ANFFYDDIAID—IARLL RO-CHESTER, AC EREILL.

V DRYDEDD. MARWOLAETHAU TRUENUS AMRYW ANFFYDDIAID—MARWOLAETHAU DEDWYDD AMRYW GRIST'NOGION.

Y DOSPARTH nesaf, a'r olaf, a ddygwn yn mlaen dros ddwyfoldeb a gwirionedd y Bibl a'r grefydd Grist'nogol ydyw, y profion ymarferol; sef, yr effeithiau a'r dylanwad moesol a welir eu bod yn cael eu dwyn yn mlaen trwyddynt ar gyflwr moesol y byd. Crefydd y Bibl yn ei gwaith ydyw. Hwn ydyw y mwyaf grymus ac argyoeddiadol o'r holl brofion. Gwired na's gellir ei hameu ydyw, mai 'wrth ei ffrwyth yr adwaenir y pren—pob pren.' Yn y profion blaenorol yr oeddym megis yn tiriw at wraidd y pren, mewn trefn i gael allan ei ansawdd a'i nodwedd: yna yr ydym yn dyfod i'w brofi oddiwrth y ffrwyth a dyfa arno, a rhaid i hyn roddi

terfyn ar bob ymryson yn ei gylch, yn mhob meddwl a fyddo yn agored i dderbyn argyhoeddiad. Y mae hwn hefyd yn gyfryw ag a ddaw i gyraedd deall ac amgyffrediad pawb yn gystal a'u gilydd; tra y mae llawer o'r profion ereill yn gorwedd yn rhy ddyfnion, ond yn unig i feddyliau coethedig, i gael gafael arnynt.

Gallem ddosparthu y profion hyn i dair ystyriaeth wrthgyferbyniol.

I. Cydmarer cyflwr ac agwedd y gwledydd a'r teyrnasoedd hyn ag y mae Crist'nogaeth yn blodeuo yuddynt a'r gwledydd a'r rhanau hyn y o'r byd ac y mae yn anadnabyddus ynddynt.

II. Cydmarer bucheddau a bywydau y personau ag ydynt yn dderbynwyr o honi fel crefydd ddwyfol, a'r eiddo y rhai fuant byw dan ddylanwad egwyddorion unrhyw grefydd arall.

III. Cydmarer marwolaethau ei chredinwyr a'r ciddo ei gwadwyr a'i dirmygwyr.

I. Cydmarer cyflwr ac agwedd wladwriaethol a moesol y rhanau hyn y o'r byd ag y mae Crist'nogaeth wedi ei dwyn i mewn iddynt, a'r rhanau ereill o hono ag ydynt amddifaid o honi. Pwy a all wadu nad dylanwad Crist'nogaeth a gododd deyrnasoedd Ewrop i gyflwr uwch o goethni a gwareiddiad, gwybodaeth a dysgeidiaeth, celfyddiaeth a moesgarwch, &c. nag unrhyw ran arall o'r byd? Ai nid oedd cyflwr cenedloedd Ewrop mor isel-raddiol mewn anwybodaeth, mewn athron-ddysg, llywod-ddysg, a moes-ddysg, cyn iddynt gael eu bendithio â gair Duw, ag ydyw y cenedloedd ereill sydd hebdo y dydd hwn? Ai onid i'r graddau y mae y teyrnasoedd hyn yn ymysgwyd oddiwrth iau gorthrymder a chaethiwed, ac yn rhoddi derbyniad i, ac yn chwilio i mewn i, egwyddorion Crist'nogaeth, y maent yn ymddyrchafu o gyflwr barbaraid i enwogrwydd ac urddas gwladwriaethol a moesol? Y mae Crist'nogaeth yn dyrchafu pob cenedl a'i derbynio yn mhob ystyriaeth uwchlaw ei chydgenedloedd, ac uwchlaw i'r peth ydoedd hi ei hun o'r blaen. Y mae pob cangen o ddysg a gwybodaeth fuddiol yn tyfu gyda hi a than ei dylanwad. Y mae yn ymlid ymaith drueni a ffeidd-dra pob gwlad i'r graddau y caffo dderbyniad ganddi. Rhoddodd

glwyf marwol i eulun-addoliaeth teyrnasoedd cred er ys llawer o oesoedd bellach; fel nad oes ond gweddillion o hono i'w ganfod yn nbemlau Pabyddiaeth. Yn mhob rhan arall o'r ddaear, y mae yr eulun-dduwiau mor amled, os nid yn amlach, na rhifedi y trigolion; ac eulun-addoliaeth a'i holl greulonderau yn eu llawn rwysg—y 'tywyll-leoedd hyny ydynt yn llawn o drigfanau trawsder' a thrueni. Cochir afonydd mawrion Asia â 'gwaed eneidiau tlodion diniweid' babanod, yr hwn a dywelltir yn ddi-dod-offrwm i'r eulun-dduwiau dychymygod. Lliwir gwellt y ddaear yno â gwaed y trueiniaid twylledig a daflant eu hunain yn wirfoddol i gael eu dryllio dan olwynion cerbyd, lle y gosodir eulun marw i gael ei lusgo gan addolwyr anwybodus. Melldith a thrueni gwledydd äng a breision Asia ydyw eu crefydd. Hi ydyw mam yr holl greulonderau, yn mron, sydd yn eu mysg. Eu crefydd a foddodd filoedd ar filoedd o'u babanod diniweid—eu crefydd a dwyllodd filoedd ar filoedd o drueiniaid i orwedd o flaen olwynion Moloch Hindostan, i gael eu malurio yn aberthau iddo—eu crefydd a fu yn achos i filoedd ar filoedd o wragedd gweddwon gael eu llosgi yn fyw ar gyrph meirw eu gwyr! Ië, fy narllenydd, hyn oll a gymer le yn mysg deiliaid yr un cyfreithiau a llywodraeth ag yr ydych chwithau yn ddeiliad o honi—ie, deiliaid Prydain Fawr, mewn rhan arall o'r byd, a ddifethir fel hyn wrth y miloedd gan eu coelgrefydd. Gwlad ag y mae natur wedi cynull yn nghyd ei holl alluoedd i'w bendithio mewn ffrwythlondeb a harddwch—yr hon y mae ei daear yn fras, ei choedydd fel coed Eden mewn tyfiant a ffrwythlonrwydd, tywod ei hafonydd yn aur a grisial—y gyfryw wlad a wueir yn anialwch diffaith gan ddylanwad melldithiol ei gau grefydd. Ni allwn feddwl am ddwy wlad mor briodol i'w gwrthgyferbynu i'w gilydd, er dangos y mater dan sylw, nag India a Phrydain, yn gymaint a'u bod yn gydgyssylltedig a'u gilydd dan yr un lywodraeth wladol. Pa beth yw yr achos o'r gwahaniaeth dirfawr sydd rhwng y ddwy wlad hyn yn eu moesau a'u harferion? Nid dim yn ansawdd y tir neu yr awyr ydyw, ac nid dim rhagoroldeb naturiol perthynol i'r naill genedl rhagor y llall ydyw: ond eu crefydd a wnaeth y gwahaniaeth. Rhagoroldeb Crist'nogaeth, crefydd ardeledig Prydain Fawr, ar

Hindwaeth, crefydd ardeledig India, a wnaeth y rhagoriaeth hwn rhwng Prydeiniaid ac Indiaid. Rhoddwch Grist'nogaeth i India a Hindwaeth i Brydain, a buan y gwneid India yn Brydain, a Brydain yn India, yn eu moesau a'u harferion.

Yn adroddiad Cymdeithas Genhadol Llundain, am y flwyddyn 1832, yr wyf yn cael y dyfyniad canlynol o dystiolaeth un o Framiniaid dysgedig India, yr hwn oedd y pryd hyny yn olygydd newyddiadur poblogaidd yn Calcutta: sylwer hefyd nad oedd yr amser honno wedi derbyn Crist'nogaeth. 'Os oes un peth o dan y nefoedd,' medd efe, 'ag yr ydym yn edrych arno gyda sŵeiddiad digymysg, Hindwaeth ydyw. Os oes un peth ag yr edrychwu arno fel y peiriant gwaethaf o ddrygioni, Hindwaeth ydyw. Os oes unrhyw beth ag yr edrychwu arno fel taenydd penaf llygredigaeth, Hindwaeth ydyw. Ac os oes dim a ystyriwn fel y peth *mwyaf niweidiol i heddwch, cysur, a dedwyddwch* cymdeithas, Hindwaeth ydyw. Ac ni all na gweniaith, na ffalsedd, nag ofn, nag erledigaeth, beri i ni newid ein penderfyniad o ddys-trywio y grefydd anghenfilaidd hon.' 'Dyma eiriau,' medd Mr. Buyers, y cenhadwr a anfonai y dystiolaeth uchod, 'dyma eiriau dynion a anwyd mewn teuluoedd, y rhai a gynhaliesid yn anrhydeddus am oesau ar draul coelgreffydd y bobl. Nid ydyw y dynion yn wir yn Grist'nogion, ond ymwrthodasant a chrefydd eu tadau, a galwant eu hunain yn ymofynwyr am y gwirionedd.' Oni allem ni wrthdroi geiriau y Brahmin dysgedig, a'u cymhwyso felly at Grist'nogaeth? 'Os oes un peth o dan y nefoedd ag yr edrychwu arno fel hawddgarwch perffaith, Crist'nogaeth ydyw. Os oes un peth ag yr edrychwu arno fel y peiriant rhagoraf o ddaioni, Crist'nogaeth ydyw. Os edrychwu am yr hyn sydd fwyaf effeithiol i ddwyn yn mlaen burdeb ac iawn drefn, Crist'nogaeth ydyw. Ac os chwiliwn am yr hyn a duedda yn fwyaf at heddwch, cysur, a dedwyddwch cymdeithas, Crist'nogaeth ydyw.' A hyn, mewn gwirionedd, oedd sylwedd y dystiolaeth a ddygodd llawer o elynion a gwadwyr gwirionedd a dwyfoldeb Crist'nogaeth amdani, fel y dangoswyd yn flaenorol mewn lle arall o'r gwaith hwn. Y mae anffyddiaid Hindwaeth yn annhraethol fwy cyson a rhesymol nag anffyddiaid Crist'nogaeth. Y maent hwy yn ymwrthod a'u crefydd hwy

o herwydd ei gwrthuni, ei hafresymoldeb, a'i drygedd—y mae ganddynt eu rhesymau dros eu hymddygiad; tra mae y lleill yn ymwrthod â Christ'nogaeth ac yn gorfod ei chanmol ar yr un pryd.

Er fod camweddau a llygredigaethau ein gwlad ein hunain yn fawrion ynddi ac yn drymion arni, ni all un gelyn, gyda chysgod o reswm a chysondeb, briodoli cymaint ag un o honnynt i ddylanwad Crist'nogaeth, oblegid y mae hi yn eu condemnio ac yn eu gwahardd oll, ac yn argymhell y rhinweddau cyferbyniol iddynt yn y modd grymusaf; ac felly, diffyg y rhai a elwir yn Grist'nogion o gydffurfio ag ewyddorion eu proffes, ydyw eu llygredigaethau a'u beiau, ac nid diffyg a drygedd Crist'nogaeth ei hun—ein trueni ni ydyw, ein *hanghydffurfaeth* ag egwyddorion ein crefydd; pan o'r tu arall, trueni India ydyw ei *chydffurfaeth* ag egwyddorion ei crefydd hi. Y mae yr holl ddrygau y cyseiriasom atynt yn ganlyniadau ac effeithiau uniongyrchol eu crefydd; tra y mae yr hyn oll ag sydd ddymunol, hawddgar a da yn ein plith ninau i'w priodoli i ddylanwad bendithiol Crist'nogaeth ar y genedl. Dan ddylanwad ei gau grefydd y mae India yn addoli eulunod, yn aberthu babanod a dynion, yn llosgi ei gweddwon, ac yn cyflawni myrdd o ysgelerderau cyffelyb: a dylanwad ein crefydd ninau a'n hattaliodd rhag syrthio i'r unrhyw neu gyffelyb amryfusedd. Nid ffrwythau naturiol Crist'nogaeth yw meddwdod, cybydd-dod, balchder, godineb, a phechodau ereill Prydain; oblegid y mae ei holl egwyddorion, ei hathrawiaethau, a'i rheolau, yn eu gwrthdaro.

Y mae y cyffelyb arferion creulawn a thruenus yn mhob gwlad arall, yn gystal ag India, ag sydd fel hithau mewn cyflwr o dywyllwch ac yn meddiant a than ddylanwad coel-grefyddau dychymybol. A'r gwledydd byny ag ydynt wedi eu rhyddhau a'u gwaredu o'r sefyllfa isel a diraddiol yma, ydynt oll yn ddyledus i'r grefydd a ddatguddia y Bibl fel unig foddion eu gwaredigaeth. Yr hyn ydyw gwledydd Pagan-aidd y byd yr awrhon ydoedd gwledydd cred oll gynt; a'r hyn oeddynt gynt a fuasent eto, pe gadewsid hwy iddynt eu hunain.

Meddyliem mai ffaith mor amlyced fel na allodd ac na all un o elynion Crist'nogaeth gynyg ei gwadu, ydyw, mai ei

dylanwad hi a achosodd ddadymchweliad ar eulun-addoliaeth gwledydd Ewrop, a gauodd i fynu demlau yr eulunod, a dynodd i lawr eu hallorau, ac a roddodd attalfa ar y creulonderau a'r halogrwydd cysylltedig a'r addoliad a delid iddynt. Yr oedd cenedloedd a gwledydd Ewrop mor ddwfn lygredig mewn eulun-addoliaeth, ac mor wresog dros eulunod, a neb cenedloedd ar wyneb y ddaear: yr oedd delw-addoliad yn sefydledig trwy gyfraith yn mhob gwlad ac ynys, pan gychwynodd y 'gyfraith allan o Sion, a gair yr Arglwydd o Jerusalem' i wneuthur ymosodiad arno: a llwyddodd i 'newynu holl dduwiau' y gwledydd hyn, er bod holl alluoedd a grym traddodiadau, arferiad, rhagfarn, a dall-bleidiaeth, yn nghyd a chyfansoddiad y ffurf-lywodraethau a'r cyfreithiau gwladol, yn ei herbryn. Ond, pan na all ei gelynyon nacau iddi yr anrhydedd hwn, ymdrechant ei gymylu trwy geisio tadogi arni holl annhrefn y gwledydd hyny ag yr ystyrir Crist'nogaeth fel eu crefydd addefedig. Y maent agos oll, o ddyddiau Voltaire hyd Publicola yn chwarae ar y tant hwn. Ewyllysiant roddi ar ddeall mai i gyfrif Crist'nogion y mae holl dwyll, trais, anghyfiawnder, rhyfeloedd ac erledigaethau, a'r holl ddrygau adwythig a anrheithiant y ddaear, i gael eu bwrw i gyd yn mron. Mynant gyfrwys arwyddo mai crefydd yw gwreiddiol achos y cyfan. Y maent bob amser yn tra mawrhygu yr hen philosophyddion Paganaid fel esiamplan dysglaerwych o rinwedd; ond ni fedrant byth roddi gair da i Gristion. Gadawant heibio bob amser sôn gair am y daioni a wnaeth Crist'nogaeth, a'r hwn y gwyddant nad allant gydag un math o reswm a chysondeb ei briodoli i unrhyw achos arall; ac ymaffiant yn awyddus yn y drygau hyny ag ydynt eto yn hanfodi yn y gwledydd lle y mae Crist'nogaeth, heb gymaint a gwneyd addefiad teg fod y cyfryw ddrygau hefyd i'w cael yn mysg y cenedloedd ag y mae Crist'nogaeth yn anadnabyddus iddynt; er mai y gwirionedd ydyw, eu bod i'w cael yno yn eu ffurfiau gwrthunaf a ffeiddiaf, a lle nad oes un gradd o gywilydd na gwylder yn gwisgo neb o'u herwydd: tra y mae Crist'nogaeth wedi effeithio cymaint a hyny o leiaf ar y farn a'r teimlad cyffredin yn mhob gwlad ag y mae hi yn adnabyddus, fel ag i beri rhyw gymaint o oruchwyledd wyneb ar gyflawnwyr y cyfryw ddrygau ag ydyw

amryw o'r rhai a enwyd, nes y chwiliant am leoedd dirgel a thywyll i'w cyflawni, er nad ydyw wedi llwyddo mor bell ag i effeithio llawn ddiwygiad.

Fel hyn, pe edrychid hyd yn nod ar lygredigaethau y byd, yn y ffurfiau yr ymddangosant yn y gwledydd lle y mae Crist'nogaeth, ac yn y gwledydd Paganaid, gwelid ei bod wedi effeithio o leiaf cyn belled ag i atal drygau y galon ddynol i dori allan yn ei ffurfiau gwrthunaf ac erchyllaf. Er esiامل, edrychwn ar ryfel, fel ei dygir yn mlaen gan y rhai a elwir yn Grist'nogion, mewn cyferbyniad i ryfel yn mysg Paganaiad; er nad yw Crist'nogaeth eto wedi cael ei deall a'i derbyn i'r fath raddau ag i roddi terfyn arno, ac i beri i'r rhai a'i harddelant fel eu crefydd edrych arno fel peth anghyfreithlawn a phechadurus dan bob amgylchiad; eto, y mae wedi ffrwyno llawer ar nwydau drygionus y natur ddynol ddyrywiedig, fel ag i weddeiddio llawer ar yr anweddeiddra dychrynlyd hwn, fel na chyflawnir byth yr echryslonderau hyn ag ydynt ry erchyll i'w hadrodd, y rhai a gyflawnir gan genhedloedd Paganaid yn gyffredin yn eu rhyfeloedd a'u gilydd.

Ond tröer oddiwrth ymddygiadau y rhai a elwir yn Grist'nogion at Grist'nogaeth ei hun, a gwelir yr afresymoldeb dirfawr o geisio priodoli yr un o'r drygau hyn iddi; tra, fel y crybwyllwyd o'r blaen, y mae yn gwahardd oll—'Pob malais a chenfigen, pob *rhith drygioni*'—ac yn 'annog i gariad, heddwch, a phob gweithred dda.' Pethau a gafodd Crist'nogaeth yn y byd ydyw ei holl lygredigaethau a'i ddrygau, ac nid pethau a genhedlodd ac a fagodd ynddo: 'a'r cwbl a ellir ei ddywedyd yn erbyn Crist'nogaeth,' fel y sylwa Mr. Ffwler, 'ydyw, eu bod yn parhau yn y byd, er ei dylanwad hi.' 'A pheth arall,' medd yr un ysgrifenydd, 'A ydyw y rhai hyn ag ydynt euog o'r arferion hyn yn Grist'nogion gwirioneddol, ac a ydyw ein gwrthwynebwyr eu hunain yn eu hystyried felly? Medrant wahaniaethu eu hunain, pan welant yn dda, rhwng Crist'nogion diffuant â rhai mewn enw yn unig—ni raid dywedyd wrthynt bod lluaws mawr yn mhob cenedl o'r grefydd honno a ddygwyddo fod mewn ffafr ar y pryd; neu yn hytrach, y maent heb un math o grefydd. Drachefn, er y gall mai Crist'nogaeth fyddo crefydd arddel-

edig y wlad, ai ni fu llysoedd y tywysogion yn cael eu gweini gan fwy o anffyddiaid nag o Grist'nogion didwyll; ac ai ni byddai mesurau cyhoeddus yn cael eu trefnu yn ol cynghorion y blaenaf yn llawer mwy na'r eiddo yr olaf? Y mae yn eithaf hysbys bod rhifedi mawr yn mhlith mawrion a boneddiion pob cenedl yn ystyried crefydd fel peth addas yn unig i'r werin iselradd; o ganlyniad, naill ai absenolant eu hunain yn hollol o addoliad crefyddol, neu ni ddeuant ond anfynych, a hyny yn unig er cadw ymddangosiad i'r grefydd sefydledig, yn yr hon y mae darpariaeth hwylus iddynt i osod eu meibion ieuangaf mewn bywiolaethau breision. Mewn geiriau ereill, y maent yn anffyddiaid. Dyma'r dysgrifiad o ddynion, gan y rhai y mae achosion cyhoeddus yn cael eu trefnu yn gyffredin, ac i'r rhai y mae y da neu y drwg cysylltedig a hwynt i'w priodoli, mor belled ag y mae gweithrediad dynol yn cyrhaeddyd.'

Gellid meddwl oddiwrth ymffrostion chwyddedig, honiadau uchelion a beiddiadau hyfion anffyddiaid yn gyffredin, pe caent hwy y byd i'w dwylaw ac o dan ddylanwad eu hegwyddorion, yr adferent ei gyflwr i berffaith ddedwyddwch, yr alltudient ei holl ddrygau a'i drueni allan o hono—pe llwyddent unwaith i ddiwreiddio Crist'nogaeth o'r byd, a chael pawb i edrych arni fel ysgymun-beth gwrthodedig, y byddai pob peth yn dda. Gwag ymogoneddant yn eu cariad at ddaioni a lles cyffredinol dynolryw, eu sel dros egwyddorion cyfiawnder a rhyddid, ac ewyllsient bob amser gael eu tybio fel prif ac unig ddyogelwyr rhyddid a breintiau cymdeithas. Caniataodd rhagluniaeth ddwyfol i un wlad syrthio yn aberth i'w crafangau, yr hon a wasanaetha byth fel esiampl druenus, er argyhoeddiad holl oesau dylynol y byd o dwyll a ffalsedd eu honiadau. Aeddfedwyd Ffrainc i ymollwng i ddylanwad egwyddorion anffyddiaeth mewn rhan, drwy ysgrifeniadau Voltaire, a'i gymdeithion Rosseau, D'Alembert, Helvetius, Raynas, a'u cyffelyb; er y cydnebydd pawb yn mron fod llawer o egwyddorion gwladol rhagorol yn ysgrifeniadau y gwyr hyny; eto, yr oeddynt wedi eu cymysgu â hadau anffyddiaeth ac annuwiaeth yn y fath fodd ag oedd yn tueddu i wneyd y wlad yn frwd-wely llygredigaeth a halogrydd, ac i fagu casineb yn meddyliau y bobl at bcb math o

lywodraeth. A pheth arall, yr oedd y fath o Grist'nogaeth, neu yn hytrach yr Anghrist'nogaeth, sef Pabyddiaeth, crefydd wladol y deyrnas, wedi bod yn iau haiarnaidd drom ac anesmwyth ar ei gwar am lawer o oesau, nes oedd meddwl y genedl wedi llwyr alaru arni er ys amser, a chan na wyddent am well Crist'nogaeth na'r hon oedd o dan yr enw yn eu poenydio hwy, yr oedd y bobl wedi eu llawn barotoi i lwyr ymwrthod â hi, ac i'w melldithio fel un o brif achosion eu trueni. Felly, yn ymysgaroedd Pabyddiaeth y magodd y pryfaid a barasant y fath gnofeydd dychrynlyd yn ngholuddion y wlad annedwydd honno.

Wedi bod o'r hadau a heuodd Voltaire a'i gymdeithion am oddeutu deugain mlynedd yn gwreiddio, yn egino, yn tyfu, ac yn ffrwytho, drwy nerth y gwrtaith a roddasai Pabyddiaeth iddynt, aeddfedasant o'r diwedd i'r cynhauaf mawr, yr hwn a ddechreuodd tua'r flwyddyn 1789, pan dorodd y gwrthryfel byth-gofiadwy allan.

Ar yr ugeinfed o Fedi, 1792, dyddymwyd llywodraeth frenhinol Ffrainc, a gosodwyd i fynu werin-lywodraeth yn ei lle. Bienenyddiwyd y brenhin Louis XVI. ar yr unfed-arddeg o Ragfyr yst yr un flwyddyn. Gwnaed cyfnewidiadau yn y llywodraeth yn yr haf canlynol, a dechreuodd gwahanol bleidiau ymryson a'u gilydd am yr awdurdod i'w dwylaw. Cododd amrywiol ddinasoedd a rhanau o'r deyrnas mewn gwrthryfel yn erbyn y llywodraeth, ond darostyngwyd hwy yn fuan gan filwyr y llywodraeth; ac y mae yn debygol na all hanesyddiaeth y byd gyflwyno drych cyffelyb o greulondeb a dystryw mewn cyn lleied o amser. Yn y flwyddyn 1793, wele Ffrainc, megis llong hwyliog ar gychwyn i'w mor-daith, yn codi ei hangorau, ac yn lledu ei hwyliau i'r gwynt, ac yn ymollwng ar unwaith i gefn-fôr tônog anffyddiaeth, heb na llyw, na chwmpas, na breiulen—ymdröa ac ymsymuda fel meddwyn ar frig ei wanegau am ryw gymaint o amser, ac yn y diwedd tery yn erbyn craig, a dirgryna Ewrop yn swm ei drylliad, a dynoliaeth ddychrynedig a ruddfana yn wylofus uwch ben ei dinystr.

Yn y flwyddyn rag-grybwylledig gwnaed rhyw gymysgedd o Baganiaeth, Anffyddiaeth, ac Annuwiaeth, yn anghenfiliaeth, na fedd iaith enw cyfaddas i'w roddi arno, i fod yn

sefydledig trwy gyfraith a deddf y Gymanfa, yn lle crefydd. Dyddymwyd y Sabbath Crist'nogol, a gosodwyd un dydd o bob deg yn ei le yn ddydd o orphwysiad. Newidiasant y cyfrif blynyddol a dechreuad y flwyddyn hefyd. Yr oedd eu blwyddyn i ddechreu yn y Cyhydedd Hydrefol, Medi 22, i gynwys deuddeng mis, a 30 niwrnod yn mhob mis. Neullduwyd pum niwrnod yn y flwyddyn, y rhai a alwent Sans Cullolides, i fod yn ddyddiau cyfeddach a gloddest, yn ol esiampl y Babiloniaid a'r Rhufeiniaid gynt. Yr oedd y dyddiau hyn yn gyssegredig i ryw fath o dduwiau dychymygod yn ol dull y Paganiaid hyny. Y cyssegr-wyliau hyny oedd-ynt yn y drefn a ganlyn, Medi 17, i *Les Virtus*, sef i rinwedd; Medi 18, i *Le Genie*, athrylith; Medi 19, i *Le Travail*, llafur; Medi 20, i *L' Opinion*, mympwy; Medi 21, i *Les Recompenser*, gwobrwyau. Y diwrnod a ychwanegid bob pedair blynedd, hefyd oedd i gael ei alw *La Sans Cullotide*, ar yr hwn yr oeddynt i adnewyddu y llw gwladol, 'i fyw yn rhydd neu farw.'

Gwnaeth y llywodraeth bob ymdrech dychonadwy i ddileu pob argraff grefyddol oddiar feddyliau y bobl. Gwnaed cyfraith i gladdu pob marw cyn pen wyth awr a deugain wedi ei drancedigaeth, heb un math o ddefod neu wasanaeth ar yr achlysur. Yn y fynwent gosodid delw ar ddull cwsig; ar borth y fynwent gosodid yr arysgrifen ganlynol, '*Cwsig trag-wyddol yw Marwolaeth.*'

Yn lle y gwir Dduw, gosodwyd i fynu dan yr enw duwiau—Rhyddid, Rheswm, Natur, Cydraddoldeb, a'r cyffelyb. Perffeithiwyd y cwbl trwy gyssegru gwyl i Reswm, dan yr enw duwies. Ymofynwyd am butain wedi haiarneiddio mewn digywilydd-dra a drygioni, i gynhrychioli duwies Rheswm! ac wedi ei gwisgo a'i haddurno a phob gwychder, arweinwyd hi mewn rhwysg a llawenydd i adeilad ardderchog a alwent Teml Rheswm, lle y cyflawnwyd amrywiol o ddefodau addoliadol iddi! Felly, dan yr enw Rheswm, cyflawnent bob math ar ynfydrwydd a gwallcofrwydd—y dychymygion ffolaf a ffeiddiaf a glybuwyd erioed son am danynt, 'Ofer fuant yn eu rhesymau; a'u calon anneallus hwy a dwyllwyd.' Chwyddodd llygredigaeth a phob math ar halogedigaeth, an-nhrefn, a chreulondeb, fel dylif mawr dros y wlad, nes boddi

a golchi ymaith bob gweddillion o rinwedd a gweddeidd-dra ag oeddynt i'w cael cyn hyny.

Dylynwyd sefydliad y deddfau annuwiad hyny a chreulonderau, barbaredd-dra, a thywalltiad gwaed dynol, nad oes yn holl hanesyddiaeth y byd esiampl o'u cyffelyb. Galesid meddwl bod holl gyndeiriogrwydd ac anhrefn uffern wedi cyd-ymgyfarfod yn y deyrnas annedwydd hono. Eillywodraethwyr o'i mewn oeddynt yn llewod rhuadwy, a'i barnwyr fel bleiddiau yr hwyr; holl ddeddfau a theimladau dynoliaeth a ffoisant megis allan o gyffiniau y wladwriaeth, gan ei gadael yn ysglyfaeth i gael ei malu rhwng cil-ddanedd trais a chreulondeb. Dienyddiwyd lluoedd heb na phrawf na holiad—lluaws mawr o bob rhyw, gradd, ac oedran, a syrthiasant yn aberthau yn y modd hwn i gynddaredd y bwystfilod ag yr oedd y llywodraeth yn eu dwylaw, heb gynyg dwyn cyhuddiad o drosedd i'w herbyn; ond am y tybient yn unig eu bod yn wrthwynebol i'w huchel-geisiau hwy. Parhaodd teyrnasiad dychryn (*reign of terror*) fel y gelwid ef, am o ddeutu tair blynedd. Yn yr ysbaid hyny o amser, pasiwyd 11,200 o gyfreithiau—dienyddiwyd 18,613, drwy yr offeryn a elwid y *guillotine*—collodd 31,000 o ddynion eu bywydau yn y rhyfel cartrefol yn Lyons yn unig, 750 yn Marseilles, 90,000 yn La Vendee—rhoddodd 4,790 derfyn ar eu bywydau a'u dwylaw eu hunain—bu 3,400 o wragedd beichiogion feirw mewn dychryn—tregodd 200,000, drwy newyn—gyrwyd 1,550 yn wallcofaid—dienyddiwyd 184,000, yn ngwahanol barthau pellenig y deyrnas—collwyd 800,000 o filwyr—llosgwyd dwy dref yn llwyr; a chollodd tua 124,000 o ddynion gyda hyny eu bywydau mewn rhyw ddull neu gilydd.

Caf osod i lawr yma ddysgrifiad o wladwriaeth dan lawn ddylanwad egwyddorion Anffyddiaeth a di-dduwiaeth yn ngeiriau oracl mawr yr oes bresenol mewn dysg a gwybod-aeth, sef y Dr. J. Pye Smith, yn ei bregeth ar '*Angenrheidrwydd crefydd er iawn drefn a dedwyddwch cenedl.*' 'Gadewch i ni dybied' medd efe, 'bod y ddysg hon yn cael ei dwyn i ymarferiad cyffredinol. Symuder ymaith rwymau dygiad i fynu, deddfau' cymdeithas, a dylanwad cyffredinol Crist'nogaeth. Gadawer cenedl heb Dduw, yn amddifad,

nid yn unig o'r wir grefydd, ond o'r gosodiad amherffaith hwnw a goder i fynu yn ei lle. sef Mahomedaniaeth, neu hyd yn od paganiaeth eulun-addolgar; oblegid y mae *gau* grefydd yn fwy dewisol nag annuwiaeth. Nid yw yr ofergoelion gwaethaf yn diffoddi yr holl gymhellion a godant oddiar ystyriaeth o gyfrifoldeb, barnwr anweledig, a byd i ddyfod. Pa fath ddylanwad a barai hyny ar sefyllfa y genedl hono? Pa fath fyddai ei chyflwr cymdeithasol mewn bywyd cartrefol, a'i pherthynasau cyhoeddus?

'Os ynghanol pob cymysgedd o ffeidd-dra y byddai i ddeuddyn gyduno i ymgysylltu yn nghyd, ac i ryw areithydd o'r chwareudy, neu y march redeg faes i ddatgan ei araeth goegwech, ar yr hyn a elwid eu priodas, dros ba hyd y byddai eu hundeb yn debygol o barhau? Hyd nes y byddo i'r naill fino ar y llall: hyd nes y byddo pleser anifeiliaid wedi troi yn adgasedd, yr hyn nad yw yn debygol o fod yn hir iawn cyn cymeryd lle: hyd nes y byddo i'r dyn gantod putain decach, neu y wraig daro wrth ordderchwr mwy llwfneiriog.

'Er y byddai i boblogrwydd leihau, byddai i genhedlaeth gyfodi: ond pwy a gymerai ofal am dani? Gall y tad ysgrifenu llyfr ar ddyngarwch cyffredinol, ond efe a gasa yr olwg ar ei blentyn ei hun. A phaham y byddai i'w gri boeni y fam philosophyddaid? Paham y byddai raid iddi hi oddef ei thrallodi a'r fath anghyfleusdra poenus, y fath alwad parhaus ar ei sylw a'i hamser, y fath ataliad ar ei phleserau, a'r fath rwystr iddi ffurfio cysylltiadau newyddion? Y fath bwr priodasol a hyn, a ddyfynant, gyda rhyfeddol gymeradwy-aeth, ddoethineb Groeg gynt, a defod arteredig China: a thafiant eu plentyn i'r ceunant, neu gadawant ef i drengu ar y mynydd.

'Os byddai i deulu gael ei ffurfio ynghanol ymrysonau, yr hyn a fyddai yn beth hynod ddamweiniol, pa fath deimladau a'i llanwant ef—pa fath olygfeydd a geir arno bob dydd—pa fath ddrych a ganfyddir yno bob awr? Gwyr y plant yn eithaf da nad ydynt yn ddyledwyr i'w rhieni o ddim, ond chwerw felldithiad, am fod yn achosion o'u bodoliaeth. Nid oes dim cariad o un tu na dim parch o'r tu arall. Paham, medd y rhieni, y bydd raid i mi ddefnyddio fy llafur, neu wario fy arian, neu ymatal rhag porthi fy nwydau, er mwyn

porthi a gwisgo y bastardiaid nadlyd hyn? Neu, pa ddysg-eidiaeth a allaf fi roddi-iddynt, na bydd yn fy nghondemnio fy hun? Ni addefa un gyfraith o rwymedigaeth foesol. Ei esiampl a gymerir i fynu ac a ddylynir yn ffyddlon gan genawon ieuainc y ffau. Cydfradwriaeth trawsedd cyhoeddus, creulondeb, dïalgarwch, a chwerw ddygasedd, a fydd y nodwedd teuluaid; yn cael eu dilyn, fe allai, gan y troseddau mwyaf arswydus.

‘Y mab, wedi iddo dyfu i fynu, a gerdd yn llwybrau ei dad, a chan bwy y mae hawl i geisio ei atal ef? Y mae angen arian arno i foddhau ei anian afradlonaid, a'i dad a naca-roddi iddo. Y mae cwrs yr erchyll-waith yn dechreu troi—Y tad truenus wedi gwanhau a gwisgo allan ei nerth wrth ddylyn ei lygredigaethau, a brofa yn awr bod ei fab aflywodraethus wedi cael y llaw uchaf arno. Y sam a ffy, neu a gais gyfryngu—ond pa ddadl sydd ganddi i'w chynyg? Ni chafodd cyfiawnder, addfwynder, a charedigrwydd, erioed lety yn ei mynwes, ac ni ddarfu iddi erioed grybwyll eu henwau ond mewn gwawd a dirmyg—terfynir yr ymryson gan naill ai y llaw-ddryll, y ddaigr, neu y gwenwyn.

‘Os na chymer hyn le, y rhai truenus hyn a heneiddiant cyn eu hamser. Y mae eu hesgyrn yn llawn o bechodau eu hieuengetid, ymeifi afechyd ynddynt, dirdynir hwynt gan gystudd, neu gorweddant yn ddigymhorth mewn nychdod a gwendid. Y maent mewn angen am dynerwch a charedig ofal i gael ei ddangos tuag atynt. Pwy a wna? Pwy a gair i gymeryd trafferth gyda hwynt? Golygwch ddyn yn suddo mewn afechyd—gallasai y fenyw goegfalch fod yn ymlenwi o bleserau, oni buasai y dygwyddiad anffodus hwn. Glaf ystafell burddaidd! Ddyn anserchus! Wasanaeth ffaidd! Cymered rhywun arall y gofal! Y mae y Bibl wedi ei losgi er ys talm, neu wedi ei dafu ymaith. Y mae cydwybod yn fud. Yr adyn a'r drengi a adewir i ofal rhyw hur-weinidog estronol, neu ei ordderch-wraig ddideimlad; neu, gadewir ef i'w dynged, megis yr anwar-ddyn methiant yn yr anialwch.

‘Dyma blant amddifaid o dad a mam. Pwy a ofala amdanynnt? Pwy a'u cysgoda? Nid oes neb yn rhwym i wneyd, ac nid oes neb a hoffa gymeryd y fath drafferth. Os bydd

ganddynt ryw gymaint o feddiannau, ymeifi llaw trais ynddynt, a gadewir hwythau i farw ar yr hëol.

' Wedi i wirionedd, cywirdeb, a ffyddlondeb, gael eu troi yn wrthrychau gwawd, ni allai ond ychydig fasnach gael ei gario yn mlaen gan genedl o annuwiad. Pob un a ddywedai gelwydd, a dwyllai, ac arferai bob math o ddichellion, a ffugiai ysgrifau, neu, os ymddangosai hyny yn fwyaf cyfleus, a gymerai ar unwaith trwy drais pa beth bynag y teimlai awydd iddo, ac y gwelai gyfleustra i'w gael. Eäng weithrediadau masnach, y rhai a ofynant dâl-oediad am hir amser, a chydymddiriedaeth pleidiau o'r ddau tu yn eu gilydd, arferion a dyfasant am oesau o dan ddylanwad maethlawn egwyddorion crefyddol—ni ellid eu dwyn yn mlaen. Llafur amaethyddiaeth, a'r trefniadau angenrheidiol er cyfleu lluniaeth a'i wneyd yn gyrhaeddadwy i'r cyffredin, a atelid i raddau mawr. Ychwanegid yr ankawsdra yn fuan gan y prinder, a byddai cyslawni yn anhosibl. Byddai newyn yn ganlyniad anocheladwy. Os na byddai i elyn tramor ddyfod i mewn a'i gorgesgyn, a'i darostwng i gaethwasiaeth, ac felly terfynu y ddrych alaethus: suddai y fath genedl yn fuan i farbariaeth perffeithgwbl. Byddai i effeithiau anianyddol afradlonedd a phenrhyddid raddol leihau ei rhifedi; a throseddau treisiol, yn nghyd a'r teimlad cyffredinol o anymddiried y naill yn y llall, a'i dygai i'r sefyllfa iselaf o resynoldeb.

' Ond, tra y byddai cyfundeb o annuwiad yn cyrchu tua'r sefyllfa hon, gwnelai cyfrwysedd hunan-leisiol gryn lawer er arafu ei gyrfa o euogrwydd a thrueni. Ond mae llywodraeth a chyfreithiau yn mhlith dynion yn gydnabyddiad ac efelychiad o awdurdod a gallu perthynol i Fod Goruchaf: a rhaid mai gwan fydd eu dylanwad, ac mai cyfyng fydd eu terfynau, os na fydd y gydnabyddiaeth o Dduw yn eäng a grymus. Heblaw hyny, fel ag y mae pob deddfau gwladol bob amser yn dwyn i'r golwg y drychfeddwl o rwymedigaeth foesol, ni allant weithredu ond yn dra gwanaidd a methiant, lle nad oes parch cyffredinol i rinwedd a daioni, gan y bobl. Y mae cyfwr presenol Ffrainc yn esiampl alarus o weithrediadau amherffaith deddfau gwladol rhagorol, ag nad ydynt yn cael eu cefnogi gan ansawdd cyfatebol yn egwyddorion moesau y genedl. Yn awr, yn y sefyllfa ragdybiedig bresenol ar

bethau, y mae y weinyddiaeth yn llygredig. Y mae gwneuthurwyr a gweinyddwyr y cyfreithiau eu hunain yn ddysgyblion yr athroniaeth hunanol ac annuwiaidd. Nid oes dim parch i Ddaw, dim gwir gasineb at gamwedd, na gwir gariad at uniondeb yn aros yn eu cydwybodau—‘ Y barnwyr a roddant farn er gwobr : y maent yn caru rhoddion, yn gyfranogion & lladron—yn ysgafn, yn wyr anffyddlawn, yn treisio y gyfraith—fel bleiddiau yr hwyr.’* Eu prif awyddfryd fyddai enill arian, a mwynhau mwythau anianol.

‘ Y mae hunanoldeb y naill ddyn mewn rhyfel marwol a hunanoldeb y llall. Yn y sefyllfa a ragdybir genyf, tybiai pob dyn bod ganddo hawl berffaith i’r hyn oll a allai gael gafael arno trwy unzhyw foddion, cam neu gymwys. Y mae yn cefigenu wrth ac yn casau y rhai hyny ag sydd yn perchonogi mwy nag ef. Cynhyddai twyll a hoced yn ddirfawr—dirgel-lofruddiaeth a dröid yn gelfyddyd, a deuai i arferiad cynhyddol—segurwyr, oférwyr, afradwyr, a holl hiliogaeth trueni, o herwydd gwahanol achosion, a gymerent eu llawddryll ac a safent ar y brif-ffordd i’r dyben o yspeilio a llofruddio eraill, neu lofruddio eu hunain. Y mae y cyfreithiau y pryd hyn yn nghwsg, y mae yr awdurdodau yn weiniaid a drygionus; hwy a edrychant dros y troseddau: hwyrach eu bod yn gyfranogion o’u ffrwythau.

‘ Y mae anhrefn gresynus yn llywodraethu yn holl gylchoedd bywyd; ‘ Y bobl a orthrymir y naill gan y llall, a phob un gan ei gymydog: y bachgen yn erbyn yr henwr, a’r gwael yn erbyn yr anrhydeddus a ymfalchia:’ hwy a gwympasant; ‘ o herwydd eu tafod hwynt, a’u gweithredoedd, sydd yn erbyn yr Arglwydd, i gyffroi llygaid ei ogoniant ef.’† Y meistr, yr echwynwr, y swyddog, a orthrymant y rhai sydd dan eu hawdurdod—y gwas, neu yn hytrach y caethwas, y dyledwr, a’r iselaf yn mhob dosparth ac o bob gradd, a rinciant eu dannedd, ysgydwant eu cadwyni, gan ruddfan mewn cynddaredd ac ymlogi mewn yspryd ymddial. Yr achlysur lleiaf a bâr ymrwygiad yn y fath elfenau o ddrygioni. Cyfyd y werin mewn gwrthryfel—gwerin-dorf anffyddiog, heb ddim ganddynt i’w gollu, dim i’w ofni, y maent yn ffyrnigaidd, di-

* Essay ii. 23. Zeph. iii. 3, 4.

† Essay iii. 5, 8.

deimlad, yn sychedig am bob dinystr. Gelwir y fyddin allan, byddin wedi ei chynhefino â phenrhyddid a chabledau—gall y llywiawdwr feddwl hwyrach y dychon iddo ostegu yr ystom â'r cleddyf a'r crogbren, ac adferu trefn yn ei ymerodraeth ddrylliedig. Gall ddywedyd, megis Ffrederic brenin Prwsia, pan welodd yr anrhaith foesol a gynhyrchasai ei esiamplau a'i fesurau, y rhoddai un o'i fysedd er mwyn dwyn yn ol foesau cymdeithas i'r hyn oeddynt yn nechreuad ei deyrnasiad. Y mae hi yn rhy ddiweddar! Tywysogion a phobl, swyddwyr a gwerin, ydynt wedi hir gydchwerthin am ben llwon, sarhau y nef, a gwneyd i'r ddaear ruddfan o dan eu drygioni. Y gwladweinydd cyfrwys, y cadfaenor gwrolfryd, a wylant eu cyfeusdra. Tybiant eu hunain yn llawn mor gymwys, a chanddynt lawn cymaint o hawl i lywodraethu ag sydd gan eu brenin. Nid yw anrhydedd a ffyddlondeb ond enwau gweigion—ni welant unrhyw reswm paham y dy-lent gael eu rhwymo ganddynt. Nid oes ganddynt unrhyw wrthwynebiad i drosedd, ond yn unig y perygl cysylltedig ag ef. Y mae y cyfeusdra yn brofedigaethus—gall enill coron, ac os metha yn yr anturiaeth, y mae wedi hen ddysgu cell-wair ag angeu.

'Felly y syrthiai, ac y teilwng syrthiai, gwladwriaeth heb grefydd.

'Buasai angen arnaf am esgusodiad fy narllenyddion Crist-nogol am osod o'ch blaen y ddelw hon o ddrygioni a thrueni cenedl, pe buasai y ddelw yma yn ffrwyth dychymyg yn unig—ond nid felly y mae. Nid yn unig, byddai bywyd personol a chymdeithasol, y fath ag a ddysgrifiais, yn ganlyniad naturiol ac anocheladwy i waith cenedl o bobl yn ymroddi i fod yn hollol ddigrefydd, ond profodd hanesiaeth y byd mewn llawer o esiamplau, bod holl ranau y dysgrifiad wedi eu cywir gyflawni, er nad oes genym enghraifft o wladwriaeth yn cyhoeddi ei hunan yn annuwiad, ond yn unig un esiampl arswydus, a-hyny yn ein hamser ein hunain. Eto, bu yr agwedd ymarferol o ddynesiad at y cyflwr yma mewn llawer o enghreifftiau yn fawr a dychrynlyd, a'r canlyniadau yn llawer mwy dychrynlyd na dim a gynhygiais ddysgrifio.*'

* Dr. Smith's sermon 'On the necessity of Religion for the well-being of a Nation.'—p. 10, 11, 212, 213, 214.

Edryched anffyddiaeth ei hunan yn y drych hwn. Edryched anffyddiaid ar ganlyniadau naturiol ac uniongyrchol eu hegwyddorion. Sylwant ar ôl eu cerddediad yn mhob man lle y cawsant ddim rhwysg, a pha beth a welant? Golygfeydd rhy ddychrynlyd i'w dal, drychiolaethau rhy ofnadwy i'w dysgrifio. Pwy byth a all wrando ar y fath yma yn ymhoni yn eu dyngarwch, yn proffesu mai hwynt-hwy yw prif golofnau a charedigion rhyddid ag iawndrefn—mai anffyddiaeth yw yr unig feddyginiaeth i drueni y byd, a'r unig foddion i'w adferu i hapusrwydd a gwynfyd? Ha! gwridwch a chywilyddiwch; a bydded i effeithiau ymarferol eich egwyddorion, yn mhob man lle y cawsant eu profi, gau eich geneuau am byth mwyach. Rhoddwch i ni Babyddiaeth, Mahomed-aeth, neu Baganiaeth, yn hytrach nag anffyddiaeth. Y mae dylanwad ei hegwyddorion yn wenwyn marwol i bob trefn a dedwyddwch gwladol a chymdeithasol.

'Gallem ofyn i bleidwyr anffyddiaeth,' medd yr enwog R. Hall, 'pa beth yw'r gynddaredd sydd yn eu cynhyrfu i ddadymchwelyd Crist'nogaeth? Ai am eu bod wedi cael allan well trefniant? I ba rinweddau y mae eu hegwyddorion yn ffafriol? Neu, a oes un rhinwedd yn bod, yr hon na ddarfu i Grist'nogion ei hymarfer i raddau mwy o berffeithrwydd nag unrhyw un o'u plaid hwy y gallant fostio o hono? A gawsant hwy allan ardderchocach rheol bywyd, neu well gobaith erbyn angydd, na'r hyn a ddatguddia yr Ysgrythyr? Uwchlaw y cwbl, pa beth yw yr honiadau ag y mynent seilio arnynt eu hawliau i fod yn arweinyddion y bobl: neu y rhai sydd yn eu hyfâu i ddysgwyl y bydd i ni fathru profiadau oesau, ac ymrwrthod â chrefydd â dystiwyd gan rës o wyrthiau a phrophwydoliaethau, yn yr hon y cafodd miloedd o'n cyndadau noddfa yn mhob trallod, a chysuron yn awr angydd—crefydd a addurnwyd gan y graddau uchaf o sancteiddrwydd nodwedd, a dysgleirdeb talentau; yr hon a gofrestra yn mhlith ei dysgyblion enwau Bacon, Newton, a Locke, gogoniant eu rhyw; ac i'r hon yr oedd y dynion anrhydeddus hyn yn ei chyfrif yn fraint i gyssegru iddi ffrwythau diweddaf a goreu eu hathfylith anfarwol.

'Uwchlaw y cwbl, eu hawyddfryd gwalleofus, eu sel lofruddiog i ddileu yr ystyriaeth o Dduwdod, a raid gynhyrfu

syndod a dychryn. A ydyw y drychfeddwl o Lywydd perffaith a hollalluog yn annymunol i unrhyw nwyd neu reddf ddiniwed, neu yn attalfa i unrhyw weithred neu fwriad ag na byddai yn gywilyddus i'w harddel? Dduw trag'wyddol, pa beth y mae dy elynion yn amcanu! Pa beth a all fod yr anturiaethau hyny o euogrwydd a drygioni, y rhai, er mwyn dyogelwch eu cyflawnyddion, ydynt i gael eu cuddio mewn tywyllwch, yr hwn y rhaid i lygad y nefoedd beidio edrych i mewn iddo! Ddynion truenus! Hoffant fod yn blant damwain, mewn cariad ag annhrefn cyffredinol; y rhai y mae eu dedwyddwch yn gynnwysedig yn y gred nad oes un bod yn dyst o'u hamcanion; a'r rhai ydynt yn teimlo eu hunain yn ddyogel, yn unig am y tybiant eu bod yn breswylwyr byd amddifad o dad i ofalu amdano!

'Wedi fy arwain gan natur y testun i ystyried yn benaf y modd y mae anffyddiaeth yn effeithio ar gyflwr gwladwriaethau er eu handwyo, y mae yn fwy angenrheidiol eich rhybuddio yn erbyn y camgymeriad marwol hwnw o gyfrif crefydd yn unig fel peiriant gwladol-lywodraeth, ac i ad-alw eich ystyr-iaeth o fod y pwys sydd i ni fel *personau* ynddi yn llawer mwy nag ydyw i ni fel *cymdeithas gasgledig*, ac yn llawer llai mewn ystyr dymhorol na thragwyddol. Y dedwyddwch a gyfrana yn y bywyd hwn ydynt fendithion a wasgara o ddeutu y ffordd ar ei thaith tnag anfarwoldeb. Y sefyllfa ddyfodol hono o fodoliaeth y mae yn ei hegluro, ac i'r hon y mae ei haddewidion a'i thrugareddau yn tueddu er ein parotoi, ydyw dyben olaf cymdeithasan dynol, terfyn olaf a gwrthrych ein sefyllfa bresenol o fodoliaeth; mewn cydmariaeth i'r hon nid yw holl chwyldröadau cenhedloedd a holl gyfnewidiadau amser ond ysgeifn a dibwys.'

Gwelwch gan hyny ddwyfoldeb Crist'nogaeth yn ymddangos yn eglur yn nylanwad ei hegwyddorion ar gyflwr ac amgylchiadau y gwledydd hyny a fendithiwyd a'i goleuni, mewn gwrthgyferbyniad i'r gwledydd ereill ag y mae rhyw grefydd arall yn addefedig, a chyflwr y wlad hono y tafiwyd bras olwg drosto, yn yr yspaid hwnw o amser ag y bu heb un math o grefydd yn broffesedig ganddi, i.e. pan yn profesu ymwrthodiad hollol a phob math o honi. Ni a welwn fod Paganiaeth, Mahomedaeth, a Phabyddiaeth, neu ryw ffurf arall o Grist-

'nogaeth lygredig, yn dwyn gyda hwynt annhrefn a thrueni, yn teyrnasu i farwolaeth iawndrefn a dedwyddwch cymdeithasol: ac er hyny, bod hyd yn od y gau grefyddau hyny i'w dewis o flaen anffyddiaeth a didduwiaeth, yr hon a brofodd, mewn llawer o esiamplau y byddai iddi deyrnasu nid yn unig i farwolaeth pob trefn, rhinwedd, a dedwyddwch cymdeithasol, ond hefyd i farwolaeth bodoliaeth y gymdeithas neu y wladwriaeth ei hun, ond iddi gael digon o amser i weithio allan duedd ymarferol ei hegwyddorion i'w llawn berffeithrwydd.

Ni olygir yma bod gau-grefyddau, neu grefydd lygredig, yn amgenach na hollol ymwrthodiad a phob rhith o grefydd, ddim pellach na chyda golwg ar gyfwr gwladol cymdeithas. Gyda golwg ar nodwedd moesol personol a chyfwr ysprydol dyn, y mae *gau* grefydd, proffes ragrithiol o *wir* grefydd, a hollol ymwrthodiad a *phob math* o grefydd yn hollol andwyol y naill fel y llall. Ac wrth edrych ar y peth ynddo ei hun, heb ystyried y canlyniadau i'r gymdeithas, y mae yn anhawdd penderfynu, fe allai, pa un waethaf, ai y rhagrithiwr ffals, a wnelo broffes ffuantus o grefydd pan y mae ei galon yn ei ffeiddio, ynte yr annuwiad cyhoedd a gyffeso ei hollol ymwrthodiad a hi a'i holl rwymedigaethau. Y mae y naill yn arwain i'r llall. Gwelsom yn y crybwylliadau blaenorol am helynt annedwydd Ffrainc, bod Pabyddiaeth yn arwain i anffyddiaeth, ac anffyddiaeth i annuwiaeth, ac annuwiaeth i hollol ddinystyr pob trefn a dyogelwch cymdeithasol.

Unig obaith byd truenus, gyda golwg ar ei drefn a'i ddedwyddwch cymdeithasol a thymhorol, yw crefydd Crist. Wrthi hi yn unig y dysgwylia y caethwas truan am ryddhad o'i gadwynau. Am dani hi y dysgwylia miloedd babanod China ac India, i dyneru calonau eu rhieni a'i dylanwad nefolaidd, fel eu coffeident yn eu mynwesau ac eu magont ar eu gliniau, yn lle eu tafu gyda chalonau didosturi yn aberthau i afonydd a bwystfilod. Wrth ei dyfroedd hi y dysgwylia gweddwon Hindwstan am ddiffodd y gynud a'u llysg hwy yn aberthau byw yn angladdau eu gwyr. Ati hi y eyfeirir ocheneidiau trengawl yr aberthau twylledig o dan rodau *Juggernaut*, fel yr unig drefniant y gellir dysgwyl iddo lwyddo i ddryllio yr olwynion sydd yn awr yn eu dryllio hwy. Y mae nodedd

wedi pallu oddiwrth y cyfreithiau a'r awdurdodau gwladol; ac er pan y mae Prydain yn llywodraethu ar y rhanau hyny o'r byd, y mae ei gweinyddiad, er cywilydd iddi, wedi bod yn fwy o gefnogaeth nag o ataliad i'r fath drueni echrys!

DOSP. II.

Yr ydym bellach yn myned yn mlaen oddiwrth y gwrthgyferbyniad o gyflwr gwahanol wladwriaethau, a rhagoreldeb dylanwad egwyddorion Crist'nogaeth yn ei effaith ar foesau ac arferion cymdeithas yn gyffredinol, ar yr eiddo pob trefniant arall, i wrthgyferbyniad bucheddau ag ymarweddiadau personau neullduol, yr hon ydyw y gangen nesaf o'r profion ymarferol o'i dwyfoldeb. Proffeswyr a chredinwyr, pa grefydd bynag a geir yn rhagori mewn rhinwedd, gweddeiddra, a sancteiddrwydd nodwedd, a ymddygant fwyaf priodol a theilwng, gyda mwyaf o gysondeb â synwyr, ac âg egwyddorion a syniadau cyffredin y natur ddynol yn ngwahanol amgylchiadau bywyd, ydynt drwy hyny yn rhoddi prawf ymarferol mai y grefydd hono, dan ddylanwad yr hon eu dysgwyd i ragori ar ereill, yw yr un wirioneddol a dwyfol.

Bu llawer iawn o uchel-honwyr i rinweddau yn y byd, ffrostient bethau mawrion iawn, torent allan reolau ymarferiad a dybient hwy yn berffaith gynllun o rinwedd, a ffugient eu cadw a'u hymarfer: ond erbyn y nesâom atynt, i wneyd prawf o honynt, cawn weled yn fuan bod yr egwyddorion a osodent i lawr yn gyfeiliornus a diffygiol, a hwythau eu hunain yn ddiffygiol yn eu hwyneb.

Darllenydd y Testament Newydd, wrth ddarllen *Actau* xvii. 18, a gaiff ddarfod i rai philosophyddion o'r Epicureaid ac o'r Stoiciaid ymddadleu a Phaul. Y darllenydd ymofyngar a ofyna yn naturiol, Pwy, a pha beth, oedd y rhai hyn? Yn awr, yr Epicureaid a'r Stoiciaid oeddynt ddwy sect wahanol o philosophyddion Paganaid yn mhlith y Groegiaid. Y flaenaf yn ddylynwyr i un Epicurius, yr hwn a sefydlodd y blaid hono, ac a osododd i lawr ei hegwyddorion a'i rheolau. Y Stoiciaid oeddynt ddysgyblion un Zeno, athronydd ac

athraw ysgol doethineb yn nhir Groeg. Y blaid hon oedd yr uchaf ei bôst ynghylch rhinwedd o'r un blaid Baganaid; ac hwyrach y cafwyd mwy o rywbeth *tebyg* i rinwedd yn rhai o'i dysgyblion nag a gafwyd mewn un blaid Baganaid arall. Haerent y gall dyn fod yn gwbl ddedwydd yn y bywyd hwn, trwy fod yn rhinweddol, pa beth bynag fyddo ei amgylchiadau—bod holl amgylchiadau a dygwyddiadau allanol bywyd yn bethau islaw sylw, ac na allant effeithio ar ddedwyddwch y doeth a'r rhinweddol—nad ydyw unrhyw boen a gofid corphorol yn ddrwg mewn un modd; ac y bydd y dyn doeth yn ddedwydd yn nghanol arteithiau a phoenau, oblegid mai rhinwedd yn unig yw dedwyddwch. Dygent yr egwyddor hon i'r eithafion pellaf yn eu hysgrifeniadau, ac ymdrechent yn egniol i'w gosod allan mewn ymarferiad, drwy geisio ymddangos yn eithaf diystyr a dideimlad yn mhob amgylchiad trallodus a phoenus. Ceisient guddio eu teimladau, ac ymddangos yn hollol ddiystyr yn wyneb marwolaethau perthynasau a chyfeillion, a than gystuddiau a phoenau corphorol. Ond er ceisio perswadio eu hunain ac ereill i gredu hyn, a cheisio ymddangos fel hyn, profent ynddynt eu hunain eudeb a ffuantrwydd eu hegwyddorion; ac nid oedd bosibl lai, oblegid yr oedd eu hegwyddorion hyn yn gwrthdaro holl egwyddorion ac elfenau cyfansoddiad y natur ddynol, ac felly yn anymarferadwy i'r natur hòno.

Weithiau, ymddengys yn eu hysgrifeniadau bethau a barrant i ni ar y golwg cyntaf feddwl yn uchel iawn am eu hegwyddorion, a'u llwyr ymostyngiad i ewyllys Duw; ond fel yr elom yn nes atynt, cawn weled nad ydyw y cwbl ond ymchwydd hunanol, uchel-fost goegfalch, a chyndynrwydd ymroddgar, yn cyfodi oddiar syniadau annheilwng am Dduw a'i lywodraeth, ac am danynt eu hunain.

'Edrych i fynu at Dduw,' medd Epictetus, un o athronyddion enwocaf y blaid hon, 'Edrych i fynu at Dduw, a dywed, Gwna y defnydd a weli di yn oreu o honof fi o hyn allan—yr wyf fi o'r un meddwl a thi—yr wyf yn alluog i unrhyw beth a osodech di arnaf.'

Nid oeddynt byth yn dysgu bod gofidiau a thrallodau bywyd yn geryddon dwyfol am bechod—ni sonient air am y ddyledswydd o ymostwng mewn edifeirwch dan alluog law Duw

yn y cyfryw amgylchiadau. Yn hytrach yr oedd eu hathrawiaeth yn cau hyn allan, gan nad oeddynt yn ystyried gofidiau a thrallodau bywyd yn ffrwythau a chanlyniadau pechod. 'Yr ymostyngiad hwnw i ewyllys Duw,' medd Dr. Leland, 'yr hwn a wna y fath ymddangosiad mawreddog yn ysgrifeniadau y Stoiciaid, a'r hwn a fynych ganmolwyd fel prawf o dduwiolfrydedd meddwl, a ymddengys, os chwilir i mewn yn briodol iddo, yn dra gwahanol mewn llawer o bethau i'r ymostyngiad addfwyn a gostyngedig hwnw i ewyllys Duw ag y mae Crist'nogaeth yn ei ofyn. Stoiciaeth a gymhella dymer ddideimlad dan ofidiau. Cyndynrwydd Yspryd ydyw, yr hwn sydd ry falch i blygu yn wyneb adfyd, ac a gyfyd oddiar y dybiaeth nad ydyw unrhyw drallod allanol yn ddrwg, eu bod yn bethau o natur hollol ddibwys, nad oes genym ni ddim i ofalu yn eu cylch, a bod gan y meddwl ynddo ei hun, heb unrhyw gymhorth oddiwrth neb arall neu oddiwrth obaith am ymwared a dedwyddwch mewn byd i ddyfod, allu digonol i ddiystyru a gorthrechu y dygwyddiadau gwaethaf a ddychon ein cyfarfod. Yr ymroddiad Stoicaidd hwn, a'i ystyried yn fanwl, ni âd le i ymbil am waredigaeth rhag trallodau, neu i ddeisyfiadau gostyngedig at Dduw am eu symud neu eu hesmwythau. Y mae gan hyn yn wir ymddangosiad o fawrfrydigrwydd meddwl anorchfygol, yr hyn sydd yn dueddol i'n dallu ar yr olwg gyntaf; ond nid ymddengys yn gydweddol â'n sefyllfa a'n hamgylchiadau yn ein cyflwr presennol, nac ychwaith âg amcan Duw. Os ydywefe yn anfon trallodau a phrofedigaethau arnom, rhaid i ni dybied mai ei ewyllys ydyw i ni gymeryd ystyriaeth deimladwy o honynt, fel ag i beidio diystyru a gwneuthur yn ysgafn o'i geryddon a'i rybuddion, megis pe byddent bethau na pherthynant i ni: felly, ni all sefyll danynt mewn annheimpladrwydd diystyr fod yn ymddygiad priodol ac yn gydffurfiad ag ewyllys Duw. Gymaint cysonach â rheswm a dynoliaeth ydyw yr ymroddiad a gymhellir yn yr Ysgrhythrau, ac o'r hwn y rhoddodd ein Harglwydd Iesu Grist i ni yr esiampl berffeithiaf? Goddef trallod ydyw gydag yspryd amyneddgar, ond gyda thymer ac agwedd meddwl tyner ac ymostyngar. Y mae yn caniatâu i ni ddangos teimladau galarus yn yr amgylchiad, ac i weddio am symudiad neu esmwythad ein gofid, ond mewn hollol

ymostygiad o'n hewyllysiau ein hunain i ewylltys Duw, heb rwygnach na beio ar yr un o'i oruchwyliaethau. Y mae yn ein dyegu i edrych arnynt, fel yn dygwydd yn aml, nid yn unig fel profedigaethau, i ddwyn ein ffydd a'n hamynedd a rhinweddau ereill i ymarferiad, ond hefyd fel arwyddion o'r anffoddlonrwydd dwyfol yn ein herbyn o herwydd ein beiau, ac wedi eu hamcanu er ein darostwng a'n rhoddi ar y ffordd briodol i ddiwygio ein ffaeleddau ac adenill y ffafrddwyfol. Ni all y doethwr Stoicaidd edrych arnynt yn y golygiad hwn, gyda phriodoldeb, yn ol ei egwyddorion. Ei ymroddiad ef sydd gydsyniad âg-ewylltys Duw, yn hytrach nag ymostyngiad iddi. Ymddengys bod yr ymroddiad a ddysgir gan y Stoicaidd yn rhan o'r ddyfais a gynllunient er dal i fynw y rhyddid a'r hunanddigonoldeb hwnw ag y mae holl amcan eu cyfandraeth i godi dynion iddo.*

Llefarai rhai o honynt am danynt eu hunain yn y dull mwyaf bostgar a chwyddedig. Heraclitus, athronydd enwog yn eu plith, a lefarai fel hyn am dano ei hun—'Yr wyf yn rhagorol mewn doethineb: mi a gyflawnais lawer o lafur anhawdd: mi a orthrechais bleserau; mi a orfodais uchelgais: mi a orchfygais gyfoeth: mi a ymdrechais yn erbyn ac a ddarostyngais lyfrdra a gweniaith. Nid oes a wnelo serthedd ac aaghymedroldeb a mi—y mae ar dristwch fy arswyd, y mae ar ddigofaint fy ofn i. Am y pethau hyn y'm coronwyd—nid gan Eurystheus, fel y coronwyd Hercules, ond genyf fi fy hun, fel ag yr wyf yn feistr arnaf fy hun, a than fy llywodraeth fy hun. *Ni adeiladaf fi allorau i ereill, ond ereill i mi.*' Gwelwn fel yr oedd eu hegwyddorion yn eu harwain, yn eu cedi i ben pinacl hunanoldeb—y fath ddylanwad afach ar eu tybiau a'u hymadroddion! Pa mor wahanol y llefarai apostol Iesu Grist am dano ei hun, o dan ddylanwad ei egwyddorion ef? 'Eithr trwy ras Duw yr ydwyf yr hyn ydwyf; a'i ras ef yr hwn a rodwyd i mi, ni bu yn ofer: ond mi a lafuriais yn helaethach na hwynt oll; ac nid myfi chwaith, ond gras Duw yr hwn oedd gyda myfi. Mi a ymdrechais ymdrech deg, mi a orphenais fy ngyrfa, mi a gedwais y ffydd. O hyn allan, rhoddwyd coron eyslawnder i'w chadw i mi, yr hon a

* 'Leland on the Christian Revelation'—Vol. ii. p. 139.

rydd yr Arglwydd, y Barnwr cyfiawn, i mi yn y dydd hwnw, ac nid yn unig i mi, ond i bawb a garant ei ymddangosiad ef.' Yn awr, pa mor ddirmygus yr ymddengys bôst chwyddedig y Stoic, wrth ei chydmaru ag ymfrost oruchelwech, bonedd-igaidd, ëon, ond hunanymwadol y Cristion? Ac ymddengys rhagoroldeb y trefniant Crist'nogol ar yr un Stoicaidd, yr hwn a gydnabyddir fel yr un Paganaid goren, yn rhagoroldeb ymarferol y Cristion ar y Stoic.

Onid clywch eto ychydig o ymadroddion dysgawdwr y blaid hon. Plotinus, athraw enwog yn eu plith, a ddysgai, 'nad yw y dyn doeth a rhinweddol yn cael ei fino gan ddim tu allan iddo ei hunan—nad ydyw yn ystyried angeu marwolion, dinystr ei wlad, neu unrhyw drychineb cyffredinol, o unrhyw bwys mawr; ac na all na'i adfyd ei hun neu eu gyfeillion a'i berthynasau agosaf, leihau ei ddedwyddwch mewn un gradd—ei fod yn rhydd oddiwrth bob ofn, yn ymddiried ynddo ei hun, ac na all un drwg byth ei gyfarfod. Epictetus, y rhagoraf o'r holl athrawon Stoicaidd, wedi crybwyll am lawer o bethau gofidus, megis rhyfeloedd, dymchweliad dinasoedd, dinystr ar fywydau dynion, a'r cyffelyb, a ofyn, 'Pa bwys mawr sydd yn hyn oll? Dim yn y byd. Pa bwys mawr sydd yn marwolaeth lluaws o ychen, lluaws o ddefaid, neu mewn llosgi neu dynnu i lawr luaws o nythod Ciconiaid neu wenoliaid? Y mae y pethau yn hollol gyffelyb—dystrywir cyrph dynion a ddistrywir cyrph ychen a defaid—llosgir tai dynion a llosgir nythod neu dai yr adar. Pa beth sydd yn bwysig neu ddychrynlyd yn hyn oll?' 'Llefaru yn y fath fodd am drychinebau mawrion,' medd Dr. Leland, 'sydd yn fwy prawf o ddiffyg dynoliaeth, nag o wir fawrfrydigrwydd meddwl; ac nid yw yn cydweddu yn dda â gwir ewyllys da tuag at ddynolryw neu y gwladgarwch haelfrydig hwnw y gwnelai y Stoiciaid wedi y cwbl ymhoniad uchel o hono.

Y dysgawdwr a enwyd ddiweddaf a ymdrecha fwrw heibio holl groesau a thrallodau bywyd fel pethau anheilwng o unrhyw sylw. 'Bu farw plentyn,' medd efe. 'Pa beth?' 'Bu farw plentyn!' 'Dim mwy na hyny?' 'Dim.'—'Collwyd llong!' 'Pa beth?' 'Collwyd llong!' 'Dim mwy?'—'Efe a gymerwyd i garchar!' 'Pa beth?' 'Efe a gym-erwyd i garchar!' 'Dim ond hyny.' 'Nid yw annedwydd-

wch a gofid o herwydd y cyfryw achlysuron ond peth a ychwanega dyn iddo ei hun. Trefnodd Jupiter nad ydyw y pethau hyn ynddynt eu hunain yn ddrygau mewn un modd; ac efe a agorodd i chwi ddrws, pa bryd bynag y byddo y pethau fel hyn yn eich anfoddio. Dos allan, ddyn, a phaid a chwyno.'

'Yma,' medd Leland, 'ni all y darllenydd lai na sylwi, ei fod ef yn llefaru am y pethau hyn gyda'r fath ddiystyrwch, fel pe na byddent ddim yn y byd i feddwl am danynt, ac na ddylent beri i ni y gofid lleiaf, ar yr un pryd yn cydnabod yn y modd mwyaf anghyson ag ef ei hun, y gallant fod mor drallodus ag i wneuthur bywyd yn annyoddefol; ac yn yr amgylchiad hwnw, cynghora ddyn i roddi terfyn ar ei einioes er mwyn rhyddhau ei hunan oddiwrthyt.'

Yr un athronydd, mewn lle arall, a ddywed, 'A ydyw y ty yn mygu? Os ydyw yn oddefadwy, mi a arosaf i mewn: os ydyw yn ddrwg iawn, mi a âf allan; oblegid, rhaid i chwi gofio bob amser bod y drws yn agored. Os nad ydyw dyoddef yn werth eich amser, y mae y drws yn agored; ond os ydyw, dygwch ef yn dawel. Cofiwch y prif beth, bod y drws yn agored. Na fyddwch yn waelach na phlant; ond fel y gwnant hwy ddywedyd, pan wedi blino yn chwareu, 'Ni chwareuwn ychwaneg,' felly gwnewch chwithau yn yr achos yma ddywedyd, Ni chwareuaf ragor, ac ewch ymaith; ond os arosych, peidiwch a chwyno.' Drachefn medd efe, 'Nid yw ymgrogi yn boen annyoddefol; oblegid, mor gynted ag y barno dyn ei fod yn rhesymol iddo wneyd, efe a â ac a ymgroga.'

Yr ardderchog ymerawdwr, Marcus Antoninus, yr hwn hefyd oedd Stoic, oedd yn gymwys o'r un golygiadau ag Epictetus yn y mater hwn. 'Dylai dyn farnu yn bwylllog mewn perthynas i'r mater hwn,' meddai ef, 'sef pa un a ddylai efe ymadael a'r bywyd hwn, ynte peidio.'

Dengys y dyfyniadau uchod bod gan y blaid hon, er yr holl ragoriaethau a berthynent iddi, yr egwyddorion mwyaf anghyson a'u gilydd, ac â y natur ddynol, ag oedd yn bosibl eu dychymygu; a'u bod, yn lle arwain i wir rinwedd, yn tywys i'r tiroedd pellaf oddiwrthi. Eu dylanwad naturiol ar eu offeidwyr oedd eu dwyn i dybiaeth fawr ac uchel am eu holl-

ddigonedd eu hunain, i dybied eu hunain yn ogyfuwch a Duw; a mynych ganfyddir y fath syniadau am danynt eu hunain yn eu hysgrifeniadau.

Hefyd, pa beth a all fod yn fwy anghyson na maentumio nad yw holl groesau a gofidiau y bywyd hwn yn werth y sylw a'r ystyriaeth leiaf, ac nad yw y dyn doeth yn teimlo dim-oll oddiwrthyt fel ag i'w wneyd yn annedwydd ei feddwl yn y mesur lleiaf: a heuru ar y llaw arall y gall dyn yn gyfreithlawn roddi terfyn ar ei einioes, ac y dylai wneuthur hyny, os bydd ei drallodau yn annyoddefol iddo—heuru nad oeddynt ddim yn y byd, ac addef y gallent fod yn gyfryw a gyfreithlonai hunan-laddiad er ymryddhau oddiwrthyt? Ac, fel yr oeddynt yn anghyson yn eu hegwyddorion, yr oeddynt felly hefyd yn eu hymarferiadau: neu ynte, yr oedd eu hymarferion yn gyson a'u hegwyddorion anghyson. Ymegniant isefyll fel delwau dideimlad mewn trallodau a dyoddefiadau, a rhoddent drachefn derfyn ar eu bywydau er cael ymwared oddiwrth ofidiau; y rhai a ddiystrent fel pethau islaw eu sylw yn eu hathrawiaeth, ac er hyny a addefant yn yr un athrawiaeth eu bod yn ddigon i gyfreithloni, a pheri bod y fath weithred yn ddyledswydd! Zeno, sylfaenydd y blaidd hon, a derfynodd ei fywyd a'i ddwyllaw ei hun, o herwydd dygwydd syrthio wrth ddyfod o'i ysgol, a thori ei fys, yr hyn a barai fawr ofid iddo. Cleanthes, athraw Stoicaidd arall, a wnaeth yr un peth oblegid dolor poenus yn y gorchfanau (*gums*). Cato hefyd, athronydd enwog arall o'r blaidd hon, a wnaeth yr un peth. Tir yn difa ei breswylwyr ydoedd Stoicia. Egwyddorion yn arwain eu hathrawon a'u dysgyblion i hunan-laddiad, y weithred fwyaf gwrthnaturiol, ydoedd egwyddorion Stoiciaeth. Eu dylanwad uniongyrchol ydoedd i wneyd dyn yn bren crin mewn cymdeithas, i wywo a lladd pob teimlad o dynerwch a chyd-oddefgarwch, yr hwn sydd mor werthfawr mewn deiliaid cymdeithas resymol—gwneyd y naill yn hollol farbariad i'r llall—llofruddio dyn i gymdeithas, ac yn y diwedd ei droi yn llofrudd iddo ei hun. Gosodent i lawr egwyddor, na allant blygu ac ystwytho y natur ddynol ati, am ei bod yn hollol groes i'w chyfansoddiad anianol, a chan hyny, trefnent osodiad arall er ymddial arni am ei chyndynrwydd anhyblyg drwy ei dinystrio a'u dwyllaw eu hunain.

Epictetus, a enwyd o'r blaen, mewn hollol anobaith uwch ben ei egwyddorion, wedi yr holl fôst fawr yn eu cylch, a lefara yn y dull nodedig a ganlyn, 'Dangoswch i mi Stoic,' medd efe, 'os medrwch gael gafael arno. Chwi a ellwch yn wir ddangos mil a fedrant adrodd ymresymiaadau Stoiciaid. Dangoswch i mi ryw un wedi ei ffurfio yn ol yr egwyddorion a broffesa—dangoswch i mi un yn glaf ac yn ddedwydd, yn marw ac yn ddedwydd, yn alltud ac yn ddedwydd, tan waradwydd ac yn ddedwydd. Dangoswch i mi y cyfryw: oblegid, yn enw y nefoedd, yr wyf yn hiraethu am weled Stoic. Dangoswch i mi un sydd rywbeth yn debyg i'r nodwedd hwn. Gwnewch y ffafr hon â mi: na wrthodwch i hen wr gael golwg a fawr ddymunai, yr hon na chafodd erioed hyd yma.'

O'r goreu! Trwy gymhorth yr Ysgrhythrau a'r grefydd Grist'nogol ni a ddangoswn y cyfryw un neu y cyfryw rai. Dangoswn rai yn nghanol adfyd a phrofedigaethau, yn teimlo oddiwrthynt fel dynion eraill, ac eto yn ddedwydd. Dangoswn saint cleifion 'ar eu gwelyau,' ac yn y cyflwr hwnw yn canu 'arderchog foliant eu Duw'—yn rhodio 'glyn cysgod angen, heb ofni niwed'—rhai yn cymeryd eu hyspeilio o'r pethau oedd ganddynt, yn llawen, er mwyn yr egwyddorion a gredasent—yn crwydro mewn crwyn defaid a geifr ar hyd creigiau ac ogofeydd y ddaear, yn ddidim, yn gystuddiol, ac yn ddrwg eu cyflwr, ac eto yn ddedwydd o ran eu meddyliau—rhai yn gorfoleddu mewn gorthrymderau, yn canu ac yn moliaunu mewn carcharau. Gwahodddwn yr hen Stoic i edrych ar yr arwr Crist'nogol, i'w ddylyn ef ac i'w weled, 'mewn blinderau, mewn gwialenodiau dros fesur, mewn carcharau yn aml, mewn marwolaethau yn fynych, mewn teithiau yn fynych, yn mheryglon llif-ddyfroedd, yn mheryglon lladron, yn mheryglon gan ei genedl ei hun, yn mheryglon gan y Cenhedloedd, yn mheryglon yn y ddinas, yn mheryglon yn yr anialwch, yn mheryglon ar y môr, yn mheryglon yn mhllith brodyr gau. Mewn llafur a lludded, mewn anhunedd yn fynych, mewn newyn a syched, mewn ymprydiau yn fynych, mewn anwyd a noethni'*—pethau a fuasent wedi gyru Stoic i ymgrogi cyn myned trwy eu haner; ac eto, hwn wedi

* 2 Cor. xi. 23—27.

'dysgu bod yn foddlon'* yn eu canol oll; ïe, 'yn y pethau hyn oll yn fwy na choncwerwr trwy yr hwn a'i carodd!' Dyga egwyddorion Crist'nogaeth eu cofeidwyr yn fuddugol a gorfoleddus drwy amgylchiadau, y rhai y gadawai Stoiciaeth ei dysgyblion hi i ymollwng i ddigalondid, anobaith, ac i apelio at y cortyn neu y gwpanaid wenwyn fel y noddfa olaf! Y rheol ymarferol a osodir i lawr yn yr Ysgrythyrau gyda golwg ar adfyd a chroesau bywyd, a'r hon sydd yn gwbl groes i'r hon a ddysgid gan yr athronyddion crybwylledig, ydyw hon, 'Fy mab, na ddirmyga gerydd yr Arglwydd, ac nac ymollwng pan y'th argyhoedder ganddo'—'Na ddirmyga, mewn anystyriaeth a dideimladrwydd Stoicaidd; 'ac nac ymollwng' i ddigalondid, anobaith, a hunan-laddiad Stoicaidd, yr ochr arall.

Er y rhoddir y flaenoriaeth i'r blaid hon, o ran moesau a rhinwedd, ar un blaid arall o grefyddolion Paganaid, eto, cyhuddir ei phen campwyr oll yn mron o'r anfoesolrwydd a'r drygau ffeiddiaf: ac nid oedd eu hegwyddorion yn gwahardd celwydd, anghymedroldeb, godineb, nac hyd yn ôd Sodiaeth, a drygau cyffelyb, ond yn hytrach yn tafu cochl drosynt; a cheir y rhan fwyaf o'r dysgawdwyr eu hunain yn euog o honynt.

Y mae yn deilwng o sylw, mor amrywiol a gwrthwynebol i'w gilydd ydoedd egwyddorion a rheolau moesol gwahanol ddoethion y byd Paganaid, gyda golwg ar brofedigaethau a chroesau bywyd. Dywedir am Confucius, cyn-athraw China, ei fod yn wastad yn dangos yr arwyddion dyfnaf o alar a thristwch ar farwolaeth perthynas neu gyfaill, ac ar yr achlysur o farwolaeth ereill hefyd. Yr oedd yn hen ddefod yn y wlad hono fod i amser galar am rieni barhau dros dair blynedd; yr hon a gadwai efe gyda'r manylrwydd mwyaf. Ceryddodd un o'i ddysgyblion am heuru y dylesid lleihau yr amser. Canmolai ymddygiad ymerawdwr, yr hwn a guddiasai ei hun dros dair blynedd yn yr ardd frenhinol mewn llwyn gerllaw i'r lle y claddesid ei dad, ac a ymroisai mor hollol i'w alar ac i beidio cymeryd un sylw o achosion y llywodraeth na chymdeithasu ag un dyn yn yr yspaid hwnw o

* Phillipiaid iv. 11.

amser. Dywedai Confucius, bod yr hen frenhinoedd, y rhai yr oedd efe yn eu mawr barchu, yn arfer gwneyd felly; a bod llyfr y swyddau yn dysgu, bod, pan fyddo y brenin farw, i'r mab a'r etifedd roddi ei hunan i fynu i alar am dair blynedd, a chyflwyno achosion y llywodraeth am yr amser hwnw yn hollol i ddwyllaw gweinyddwr, i lywodraethu yn ei le. Dyma y ddau eithafiad pellaf sydd yn bosibl oddiwrth eu gilydd, rhwng yr egwyddorion a'r rheolau a sefydlai y Stoiciaid a'r eiddo Confucius, a hyny gyda golwg ar yr un amgylchiadau—a rhwng y ddau eithafiad yma yr hwylia y Bibl ei lwybr; cymer y tir canol, a rhydd gyfarwyddiadau gyda golwg ar yr amgylchiadau dan sylw, ag nad ydynt ar un llaw yn anymarferadwy i'r natur ddynol—nad ydynt yn cynyg nag yn tueddu at ddinystrio a dadymchwelyd elfenau ei chyfansoddiad; ond ydynt, ar y llaw arall, yn tueddu at iawn lywodraethiad yr holl deimladau, ac i'w cadw o fewn terfynau priodol a gweddaidd dan bob amgylchiad. 'Yn amser gwynfyd bydd lawen, ond yn amser adfyd ystyria; Duw hehefyd a wnaeth y naill ar gyfer y llall.* 'Byddwch lawen gyda'r rhai sydd lawen, ac wylwch gyda'r rhai sy'n wylo.† 'Na thristewch fel ereill, y rhai nid oes ganddynt obaith am y rhai a hunasant,' &c.‡ Y mae yn caniatâu llawenhau a thristau yn ol y byddo ein hamgylchiadau ein hunain a'r eiddo ein gilydd, ac nid eu dwyn chwaith i'r graddau hyny a fyddont yn niweidiol i'n cyfansoddiad a'n hiechyd.

Y mae y gwahaniaeth mawr a phwysig canlynol rhwng rheolau ymarferol yr Ysgrythyr a'r eiddo y dysgawdwy rhag-grybwylledig: sef, bod yr eiddo hi, tra yn amcanu at roddi hollol a llwyr atalfa ar holl *egwyddorion a thueddiadau llygredig* calon dyn, yn gosod iau esmwyth a baich ysgafn ar elfenau a theimladau hanfodol y cyfansoddiad dynol: tra y mae yr eiddynt hwythau yn caniatâu eu llawn ryddid yn gyffredin i nwydau a thueddiadau llygredig y natur ddynol, ac yn gosod y gaeth-reolaeth drymaf ar reddfau a theimladau *priodol y natur* ei hun. Ac oddi yma, sef y gwahaniaeth yn natur yr *egwyddorion a'r rheolau*, y mae fod y fath wahan-iaeth rhwng *ymarferiadau a bucheddau Crist'nogion* cywir a

* Preg. vii. 14.

† Rhuf. xii. 15.

‡ 2 Thea. iv. 13.

gwirioneddol ar y rhai hyny a feithrinid yn yr egwyddorion y bwriwyd golwg arnynt. Egwyddorion ydynt y gwreiddiau; a'r ymaferiadau cyfatebol ydynt y ffrwythau a gynhyrcha eu dylanwad. I'r egwyddorion eu hunain yr ydym i edrych am y *prawf mewnol* o'u hansawdd, megis y sylwyd mewn lle arall o'r gwaith hwn; ac i fuchedd ac ymarwedd-iad eu coffeidwyr yr ydym i edrych am y *prawf ymarferol*, o honynt. Yr egwyddor ei hun ydyw y pren, a'r ymarferiad ydyw y ffrwyth. Y mae pob egwyddor yn cynhyrchu ei ffrwyth mewn ymarferiad o'r un natur a hi ei hun, i'r graddau ac y caffo afael a dylanwad ar y galon, er ei dwyn dan ei llywodraeth. Gwelsom fod y pren a tecaf a impiwyd ac a feithrinwyd yn ngardd philosophyddiaeth ddynol, yn cynhyrchu grawn gwylltion a surion oll; ac nad oes 'swp o rawn i'w fwyta' i'w gael nes y delom i 'Eden gardd Duw,' i winllan yr Ysgrythyrau sanctaidd, lle y mae'r holl goed yn 'berwinwydd o'r iawu had oll.' Nid oes ond celwydd, twyll, anghyfiawnder, anghymedroldeb, godineb, cyhenuau, llofruddiaethau a hunanladdiadau, &c. yn tyfu ac yn ffrwytho, yn cael magwraeth a meithriniaeth yn mhob man dan dylanwad yr egwyddorion a blannodd doethineb ddynol. Rhaid i ni ddyfod i eglwys y Duw byw, cyn y cawn yr afalau a'r almonau, yr egin grawn a'r aroglau per, 'ffwythau yr Yspryd,' y rhai 'yw cariad, llawenydd, tangnefedd, hir-ymaros, cymwynasgarwch, daioni, ffydd, addfwynder, dirwest: yn erbyn y cyfryw nid oes deddf:'* y rhai a dyfant ac a feithrinir dan dylanwad egwyddorion gair Duw. 'O herwydd paham, wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt.'†

DOSP. III.

Os trown ein golwg oddiwrth Epicureiaid a Stoiciaid—oddiwrth Epictetus a Confucius, at anffyddiaeth ac anffyddiaid, nid ydym ond megis meibion Israel gŵnt yn teithio o anialwch Sin i anialwch Sinai; yr ydym fyth mewn 'tir diffaeth a phyll-

* Gal. v. 22, 23.

† Math. vii. 20.

au lle y mae seirph tanlyd, ac yscorpionau, a syched lle nad oes dwfr'—o anialwch Paganiaeth i anialwch anffyddiaeth, lle y mae ansawdd ddiffaeth y tir, ansawdd afach yr awyr, yn farwolaeth i bob dim hyfryd i'r golwg, lle ein siomir gan ymddangosiadau teg o ddyfroedd gloewon o bell; ond erbyn nesau atynt, diflanant yn darth drygsawrus gan ein gadael i ddiffoddi mewn syched: a phwy yn y fath s-fyllfa a wrthodai 'eira Libanus, yr hwn sydd yn dyfod o graig y maes, a'r dyfroedd oerion sydd yn dyfod o le arall.' Cawn lawer o ymddangosiadau ac addewidion teg gan anffyddwyr; digon o ymfrost wyntog a chwyddedig, fel y gellid dysgwyl oddiwrth yr olwg a'r swn mai y rhai hyn mewn gwirionedd ydynt 'rai rhagorol y ddaear,' a hâd pob rhinwedd yn tyfu i lawn berffeithrwydd yn yr ardd hon: ond, O anffyddwyr! a beidiwn ni wedi y cwbl a'ch cael 'megis sychedig, neu fel dyfroedd a ballant?' Yr olwg a gawsom o'r blaen ar eich hegwyddorion a bâr i'n gobaith fod yn wanaidd iawn am nemawr o rinwedd ymarferol yn eich plith.

Dywed Paine y daw 'dynion trwy goffeidio anffyddiaeth i fyw yn fwy cyson a moesol na than ddylanwad unrhyw drefniant arall'—pe gadawsai allan y gair *moesol* o'i frawddeg, ac ymfoddloni ar ddywedyd 'byw yn fwy cyson' yn unig, buasem yn caniatu i Mr. Paine ei osodiad: oblegid fel y sylwa Mr. Ffwler yn ei atebiad iddo, 'rhaid addef bod gan y Crist'nogion goreu eu hanmherffeithderau, y rhai ydynt gynifer o anghysonderau, pan trwy dderbyn ei gyngor ef y deuent i fod yn hollol a digymysg ddrygionus.' Ond gyda golwg ar fyw yn fwy moesol, os gall Mr. Paine fathu rhyw newydd o foesau, o'r hon y byddai cariad at Dduw wedi ei fwrw allan, ac anghymedroldeb, anlladrwydd, balchder, rhegfeydd, llwon, celwyddau, a rhagrith, yn rinweddau, mae yn debygol y gallai wneyd ei haeriad yn dda. Cynhyrchodd egwyddorion anffyddiaeth ymarferiadau hollol deilwng o honnt eu hunain. 'Herbert, Hobbes, Shaftesbury, Woolston, Tindal, Chubb, a Bolinbroke,' medd Dr. Dwight, 'ydynt oll yn euog o'r rhagrith brwnt o broffesu cariad a pharch i Grist'nogaeth pan nad oedd ganddynt un amcan arall mewn golwg

• Jeremiah xviii. 14.

amgen na'i dadymchwelyd. Y fath broffes ffuantus, a'r fath drais ar wirionedd a gonestrwydd mewn Crist'nogion, a gawsai eu datgan i'r byd gan yr ysgrifenydd hyn eu hunain fel y bradychiad gwrthunaf o egwyddor a gweddeidd-dra. A ydyw yn llai gwrthun ynndynt eu hunain? Y mae pob rhagrith yn fflaidd, ond ni wn am un mor fflaidd a'r hwn a ysgrifenydd mewn gwaed oer, gyda llawn ragfwrriad, gan wr o ddysg a thalentau yn cymeryd arno y nodwedd o ddysgawdwr moesol a chrefyddol. Y mae gwirionedd yn rhinwedd perffaith amlwg a llawn hysbys, ac a ddeallir yn eithaf da gan bob dyn o synwyr cyffredin. Ni all fod dim amheuaeth mewn perthynas i wirionedd a chelwydd, un camgymeriad mewn gwahaniaethu rhwng duwioldeb a phenboethedd, rhwng cynhildeb a chrintachrwydd, haelioni ac afradlonedd. Trosedd, gan hyny, sydd bob amser yn ysgelerder adnabyddus, bwriadol, a rhagbenderfynedig. Mewn moment o brofedigaeth ddisymwth, awr o ruthr annysgwyliedig, neu derfysg brawychdod disyfyd, gall y dyn goreu, hwyrach, gael ei dafu i unrhyw bechod; ond efe, yr hwn a all draethu ffalsedd oddiar ragfwrriad, ac amcan pennodol, ac heb unrhyw brofedigaeth ddisymwth i'w gynhyrfu, nid yw bell o gyrhaedd perffeithrwydd llygredigaeth.

'Y mae moesau llygredig Rochester a Wharton mor adnabyddus fel nad rhaid gwneyd sylw arnynt. Yr oedd Woolston yn gablwr tra nodedig. Ceisiai Blount gan ei chwaer ynghyfraith ei briodi, ac o herwydd iddi nacau, saethodd ei hun. Tindal ydoedd ar y cyntaf yn Brotestant, yna trodd yn Babydd; ac yr oedd ar yr un pryd yn nodedig am bob math ar halogedigaeth, ac yn llwyr amddifad o egwyddor. Dywedir iddo farw a'r weddi hon yn ei enau, 'Os oes Duw yn bod, dymunwn iddo gymeryd tregaredd arnaf.' Ysgrifennai Hobbes ei *Leviathan*, i bleidio achos Charles y cyntaf; ond wedi gweled Charles yn afwyddiannus, efe a'i troes, cyn ei argraffu er amddiffyniad i Cromwell, megis y bostiai efe ei hun wedi hyny wrth Arglwydd Clarendon. Nid oedd gan Morgan unrhyw barch i wirionedd, fel y mae yn amlwg oddiwrth ei ddyfyniadau twyllodrus o'r Ysgrythyrau, yn gystal a'i ragrith brwnt yn cymeryd arno fod yn Gristion yn yr ysgrifeniadau hyny ag y llafuria i ddymchwelyd Crist'nogaeth.

Voltaire, mewn llythyr sydd eto ar gael, a geisiai gan ei gyfaill D'Alembert i ddywedyd celwydd noeth-amlwg drosto, drwy wadu nad efe oedd awdwr y Geiriadur Athronyddawl. Hysbysai y llall yn ei ateb ddarfod iddo wneuthur ei gais. Profesai yn ddifrifol iawn ei fod yn grediniwr o'r fydd gatholig, er ar yr un pryd ei fod yn ameu bodoliaeth Duw.*

Collins, er ei fod yn anghredwr o wirionedd Crist'nogaeth, a dderbyniai Swper yr Arglwydd er mwyn swydd yn y wladwriaeth. Gwnaeth Shaftesbury yr un peth; ac y mae yr un peth wedi cael ei wneyd gan gannoedd o anffyddiaid ar ei ol. Eto, dyma'r dynion sydd yn sôn cymaint am ragrith Crist'nogion, am gysondeb a moesoldeb, a gwneuthur eu cyd-ddynion yn ddedwydd! Ai trwy ragrithio a dywedyd celwydd, a chyflawni pob anwiredd yn unchwant, y gwnant eu cydgreaduraid yn ddedwydd? Ond i derfynu y gofrestr ddu—Yr oedd Godwin, yn ol ei addefiad ei hunan, nid yn unig o gymeriad anllad ei hun, ond yn amddiffynwr digywilydd anlladrwydd. Am Paine, yr oedd yn nodedig fel tyngwr a rhegwr, a meddwyn—crefydd fyddai ei hoff destun pan wedi meddwi.

A dyna, fy narllenydd, i chwi fer a bras olwg ar fywydau apostolion a dysgawdwyr anffyddiaeth. Chwi a welwch fel y mae eu hymarferion yn gyson a'u hegwyddorion, ac fel y maent yn condemnio yr egwyddorion hyny. Wele, ei hathrawon doethion, dysgedig, athronyddion yn eu hoed! Nid edrych y buom yn awr ar wladwriaeth gyfan, ar werin teyrnas, megis Ffrainc; ond ar bersonau, ar bigion anffyddiaeth, ar dadau y blaid—a pha beth a gawsom? Rhagrith, twyll, celwydd, anghyfiawnder, anlladrwydd, godineb, llwon, meddwod, a hunan-laddiad. Hwyrach y geill yr wrthddadl godi yn meddwl y darllenydd, bod y pethau hyn i'w cael yn mhlith Crist'nogion hefyd—bod rhai a elwir yn Grist'nogion yn euog o'r holl bethau a nodwyd sydd wir. Ond, dylid cofio mai Crist'nogion mewn enw yn unig yw y cyfryw, na allant fod yn Grist'nogion mewn gwirionedd. Y mae y fath bethau yn hollol anghyson a hollol wrthdarawol i'w hegwyddorion. Ni all dyn fod yn Gristion a bod yn euog o honynt; ond nid felly gydag anffyddiaeth—nid yw yr hwn sydd euog o'r holl

* Dwight's Infidel Philosophy.

ffieidd-dra a goffawyd, yn troseddu ei hegwyddorion hi. Y maent yn anffyddiaid diffuant a chyson er byw ynddynt. Ffrwythau a chynhyrch naturiol ei hegwyddorion ydynt: pan o'r tu arall y mae Crist'nogaeth wedi bod yn foddion effeithiol er adferiad miloedd a miliynau o'r fath nodweddau, a'u gweuthur yn eirwir, gonest, sobr, diwair, cyfiawn, a duwiol, yn y byd sydd yr awr hon. Y mae y fath gyfnewidiad yn mucheddau dynion wedi cael ac yn cael ei effeithio ger bron llygaid y byd yn mhob oes a gwlad lle y bu ac y mae moddion Crist'nogaeth yn cael eu gweinyddu. 'Nid mewn congl y gwnaed' neu y gwneir hyn; ond pethau cyhoeddus ac amlwg i bawb yn mhob ardal a chym'dogaeth Grist'nogol ydynt. Cyfnewidiad yn mucheddau a moesau dynion ag na effeithiwyd dim o'i gyffelyb trwy rym cyfraith, na thrwy ddylanwad egwyddorion unrhyw drefniant arall erioed; ac y mae pob cyfnewidiad o'r fath yma yn brawf ymarferol, amlwg, ac agos at ddeall pob dyn a fyddo yn dyst o hono, o ddwyfoldeb yr egwyddorion sydd yn nerthol weithredu er ei effeithio. Pe ysgrifenedd llonaid gwlad o lyfrau i haeru mai llyfr o gelwyddau a thwyll yw y Bibl, mai crefydd sydd yn llygru ac yn drygu y byd yw Crist'nogaeth, y mae yr effeithiau ymarferol a'i dylunant er gwelliant ar foesau a bucheddau dynion yn ddigon o atebiad. Y mae gan Grist'nogaeth ei miloedd tystion byw y dydd heddyw ger bron y byd, y rhai y gall gyfeirio eu golygon at holl ffosydd budron llygredigaeth ac anfoesrwydd, a dywedyd wrthynt, 'Hyn a fu i rai o honoch chwi, eithr chwi a olchwyd, eithr chwi a sancteiddiwyd, eithr chwi a gyfiawnhawyd, yn enw yr Arglwydd Iesu,' &c.

'Pan haerwn bod anffyddiaeth yn ddigymhelliad i'r dosparth uchaf a phuraf o rinweddau,' medd yr enwog R. Hall, 'yr ydym yn cael ein cefnogi gan ffeithiau yn gystal a chan resymeg. Byddai yn ddrwg genym lwytho ein gwrthwynebwyr â gwaradwydd anhaeddianol. At ba hanesiaeth, at ba dystiolaeth, yr apeliant am brofion o sawreddusrwydd moesol wedi ei ddangos gan ei ddisgyblion?'

I ba le yr edrychwn am gofnodau o ardderchawgrwydd neu rinwedd annuwiiaidd? Nid ein bod am eu cyhuddo o anweithgarwch: y maent yn ddiweddar wedi llenwi y byd a swm eu gorchestion; gorchestion o natur wahanoliawn i rinwedd mae'n

wir, ond rhai a fyddant o fythol goffadwriaeth, a'r rhai ydynt yn ymddangos mewn goleu truenus.

'Os ydyw yr achos mewn dadl i gael ei benderfynu trwy ymresymu, mae buddugoliaeth Crist'nogaeth yn gyfryw nad ellir ychwanegu ati; os trwy apelio at awdurdod esiamplau, pa beth sydd gan ein gwrthwynebwyr a dâl ci ddangos? Pa le y mae anffyddiaid o'r fath foesau pur a dihalog, y fath onestrwydd diysgog, a'r fath haelfrydedd äang, ag y byddem mewn perygl o gael ein llithio i gofleidio eu trefniant gan eu hesiamplau? I ba guddfëydd o drueni, i ba ddyfngelloedd o ofid, y darfu i'w dyngarwyr erioed dreiddio a dysgyn i esmwythau rhwymau, a lliniaru gofidiau y carcharor digymorth? A pha lwythau barbaraidd yr ymwelodd eu hapostolion erioed? A pha hinsoddau pellenig y darfu iddynt erioed ymweled, er taenu egwyddorion rhyddid a bendithion gwar-eiddiad? Neu, a ewyllysiant yn hytrach dynu yn ol oddiwrth yr honiadau anghyffredinol hyn o haelfrydedd, fel rhai sy'n eu golwg hwy yn afreoleiddiwch a ffoledd, (oblegid gwyddom fod anffyddiaid yn elynion penderfynol i bob math o benboethedd) a gosod eu nodwedd i ddybenu ar eu gorchestion gwladwriaethol, ar eu hegnion i adfywio rhiaweddau cymdeithasol mewn gwladwriaeth suddedig i annhrefn, i atal penrhyddid, i ostegu cynddaredd a therfysg gwerin wrthryfelgar, a rhagflaenu y dychrynëydd annocheladwy cysylltedig & chwyldroad, drwy daenu ysbryd dyoddefgarwch, tosturi, addfwynder a chyfiawnder yn mhlith y deiliaid? Medda'n gwrthwynebwyr ar ddigon o gallineb o leiaf, os nad digon o weddeiddra i gilio yn ol rhag y prawf hwn.'

Rhoddir esiamplau tra nodedig o allu moesol gair Duw yn nghyfnewidiad calonau a bucheddau pechaduriaid gan y Parch Jacob Abott, yn ei '*Gristion ieuanc*,' er eglurhad ar y mater sydd mewn llaw: a chan eu bod mor briodol a gwasanaethgar i'm hamcan presenol, mor ddyfyrus ac adeiladol, rhoddaf bigion o honynt yma wrth derfynu y sylwadau ar y gangen hon.

HANES TROSEDDWR YN NGHARCHAR.

'Rai blynyddau yn ol, yr oedd dyn yn byw yn nhalaeth ———, yr hwn a gaf fi ei alw W. Yr oedd yn adyn o nodwedd drygionus, ac yn aros gyda dyn arall mwy drygionus nag ef ei hun.

'Yr oedd meist'r W. mewn ymrafael a dyn arall, a cheisiai ganddo ei ladd ef. Ymdrechai dros bump neu chwech mis ei anog, ond yn aflywyddianus: dangosai W. radd o anmhenderfyniad yn y peth, yr hyn a galonogai ei feistr drygionus i barhau i'w anog; gwyddai am un a'i cynhorthwyai yn effeithiol i lwyddo gyda W. i gyflawni y gyflafan farwol, sef gwirod.

'Wedi iddo yfed y dogn *rum*, efe a aeth, a gorweddodd i lawr i gysgu mewn llwyn o goed, lle y disgwyliai am gyfleusdra i gyflawni y llofruddiaeth. Yu mhen ychydig amser, daeth dyn arall, yr hwn a gyflogasid i gynnorthwyo yn y gwaith hwn ac a'i deffrodd ef, gan ddywedyd wrtho, 'Os meddyliwn am wneyd rhyw beth hefyd, gwell i ni wneyd yn awr.' Ar hyn cododd W. i fynu, ac aethant ill dan yn nghyd. Pan ddaethant i gyraedd eu gwrthrych, saethodd J. ato; ac yna cymerai ei gydymaith y drull a churai ef o ddeutu ei ben nes ei orphen.

'Crogwyd dau am y weithred hon a dedfrydwyd W. i garchar am lîr amser.

'Pan ddaeth W. i'r carchar, yr oedd yn eithaf anwybodus. Ni wyddai yn iawn pa beth oedd ei oedran, ac ni allai ddarllen. Pa fodd bynag, perthynai i'r carchar hwnw ddysgawdwr crefyddol ffyddlon, yr hwn a wyddai mai y Bibl yn unig ydyw y moddion i ddiwygio y fath nodweddau truenus, ac felly gosodai ef yn eu dwylaw yn uniongyrchol wedi y deuent yno. Arferai ddysgu y rhai na allent ddarllen. Y wers gyntaf, fyddai y gair cyntaf yn y Bibl, *Yn*.

'*Yn* yw y gair yna,' dywedai yr athraw. 'A ellwch chwi ddweyd pa nifer o llythyrenau sydd ynddo?' 'Dwy,' atebai y carcharor. 'Ië,' meddai yr athraw—'gelwir y llythyren gyntaf, *y*; yr ail *n*—y mae y llythyrenau hyn yn aml iawn yn cael eu harfer—edrychwch chwi a ellwch gael *n* arall yn y ddalen hon.'

'Yna edrychai y carharor yn graff iawn ar hyd y llinellau, nes y caflai afael yn y llythyren. Os gwnelai gamgymeriad, a dangos *m* neu *r* yn lle *n*, eglurai ei athraw y gwahaniaeth iddo, a galwai ei sylw yn fwy manwl at wir ffurf yr *n*. Eglurai hefyd y gwahaniaeth rhwng *n* fel prif llythyren a mân llythyren, gan hysbysu ei ysgolhaig iddo ddysgwyl canfod yr

nefechan yn aml iawn. Yna, gadawai ef, gan ei anog i chwilio am gynnifer o'r llythyrenau hyn ac a allai erbyn y deuai i ymweled ag ef y tro nesaf.

'Y wers nesaf fyddai y gair nesaf o'r adnod: ac fel hyn elai yr ysgolhaig yn mlaen yn raddol, gan silliadu ei lwybr, hyd oni ddysgai ddarllen drosto ei hun. Cynhygiodd y dull ymagyda W. Dechreuodd arni, ac aeth yn mlaen yn llwyddiannus yn y gwaith. Daeth yn fuan yn alluog i ddarllen yn dda, ac fel y daeth gwirioneddau gair Duw adref at ei feddwl, cynhyrchasant eu priodol effeithiau. Arweiniasant ef i ganfod ei bechodau, ac i'w teimlo; ac arweiniasant ef at y Gwaredwr am faddeuant—cyfnewidiwyd ei holl nodwedd.

'Ymwelodd boneddwr ag ef yn y carchar, ac, wedi ymddyddan âg ef ynghylch y trosedd y traddodasid ef i garchar o'i herwydd, gofynodd iddo, 'W., pa fodd y mae y trosedd hwn, ynghyd a'ch pechodau ereill, yn ymddangos i chwi?' 'Yn fawr iawn!' ebe efe. 'Pan ddechreuais gyntaf adfyfyrio ar fy mhechodau yn fy nghell, gwelais fy mhechodau mor fawrion, fel y teimlais na allwn gael maddeuant. Daeth fy fhysgawdwr rhyw ddiwrnod a gofynodd i mi pa beth oedd fy nhrosedd—dywedais iddo. 'Y mae yn un o'r troseddau trymaf,' ebe yntau, 'ond cofiwch bechod Dafydd—maddeuwid iddo ef. Gweddiwch ar Dduw, a rhoddwch eich hyder ynddo, a chwi a gewch orphwysfa i'ch enaid.' Dywedodd wrthyf hefyd, os na allwn ddarllen, yr ymwelai ef â mi yn fy nghell, ac y rhoddai fi ar y ffordd. Bydd yn dda genyf am dano tra byddo anadl ynof. Ymdrechai fy mherswadio i droi at Dduw am drugaredd, ac eto yr oedd genyf amheuaeth, gan fod fy mhechodau mor ysgeler, pa un allaswn gael maddeuant. Gadawodd y capelydd fi yn fuan, a thywelltais fy nghalon ger bron Duw am iddo gymeryd trugaredd arnaf—ond, po mwyaf a weddiwn, mwyaf truenus i gyd oeddwn yn myned.

'Y dydd nesaf daeth Mr. B. i ymweled a mi, a gofynais iddo ddarllen pennod. Fel y mynai Duw iddi fod, trodd i *Esay* lv., 'O deuwch i'r dyfroedd bob un y mae syched arno, i'e, yr hwn nid oes arian ganddo; deuwch, prynwch win a llaeth,' &c. darllenodd yn mlaen hyd y geiriau, 'Gadawed y drygionus ei ffordd a'r gwr anwir ei feddyliau a dychweled

at yr Arglwydd, ac efe a gymer drugaredd arno, ac at ein Duw ni, o herwydd efe a arbed yn helaeth—oblegid nid fy meddyliau i yw eich meddyliau chwi, ac nid eich ffyrdd chwi yw fy ffyrdd i, medd yr Arglwydd. Canys fel y mae y nefoedd yn uwch na'r ddaear, felly uwch yw fy ffyrdd i na'ch ffyrdd chwi, a'm meddyliau i na'ch meddyliau chwi.' Cefais galonddid mawr yn y geiriau hyn i barhau i weddio.

'Yn mhen noson neu ddwy wedi hyn, daeth y capelydd ataf i'm cell a gofynodd i mi pa fodd yr oeddwn yn teimlo? Dywedais wrtho fod fy mhechodau yn fwy nag y gallwn eu dyeddef, mor euog, mor orthrwim. 'Yr ydym oll yn greaduriaid euog,' eb efe, 'ac ni allwn gael ein hachub os nad awn at Dduw yn enw Iesu Grist; os dysgwyliwn gael ein hachub, rhaid ein hachub trwy waed a chyfiawnder Iesu Grist.' Yna mi a gymerais gysur. 'Y pechodau a gyflawnasoch,' eb efe, gan fyned yn mlaen, 'oeddynt yn erbyn eich cyd-greaduriaid y mae yn wir, ond yn llawer mwy yn erbyn Duw.' Ni feddyliais o'r blaen eu bod yn taro yn erbyn Duw—pan ymadawodd a mi, aethum i weddi drachefn—ni allwn fwyta dim y diwrnod hwnw.

'Adgofiais yn yr amser hwnw y peth a ddywedasai gweinidog wrthyf ryw dro—pa bryd bynag y cawn ryw un i ddarllen pennod i mi, am i mi alw am *Salm* li. Nid oedd neb i'w gael y pryd hwnw i'w darllen i mi; pa fodd i gael hyd iddi, nis gwyddwn, a gweddiais—'O Arglwydd, ti a wyddost fy mod yn anwybodus. Nid oes dim yn anhawdd i ti. Rhynged bodd yn dy olwg, O Arglwydd, i ddangos i mi y bennod hono, fel y darllenwyf ac y deallwyf hi.' Codais o weddi, ac aethum at y Bibl. Dechreuais yn y *Salm* gyntaf, a thröais drosodd, gan gyfrif pob *Salm*, ac ymddangosai fod Duw gyda mi—a daethum hyd yr unfed-ar-ddeg-a-deugain. Gallwn ddarllen ychydig, a dechreuais silliadu *t-r-u-g-a-r-h-a*, &c. Edrychais dros y *Salm*, a silliedais a darllenaais hi.

'Pan ddaethum at y geiriau, 'Gwared fi oddiwrth waed,' tarawyd fi yn sud, ni allwn ddywedyd rhagor yr amser hono—syrthiais ar fy ngliniau, a gweddiais ar i Dduw gymeryd trugaredd arnaf er mwyn Crist. Ond yr oeddwn yn myned yn fwy-fwy truenus—baich fy mhechodau oeddynt yn myned drymach drymach.'

'Y cyfryw ydyw y dysgrifiad a rydd y troseddwr truan o'r gofid y dygwyd ef i'w deimlo gan yr ystyriaeth o euogrwydd, yr hon y buasai y Bibl yn foddion i'w hargraffu ar ei feddwl. Parhaodd yn y sefyllfa hon am beth amser, hyd nes o'r diwedd, fel y dywed efe ei hun, pan un diwrnod yr oedd yn gweddio yn ei gell, symudwyd baich ei euogrwydd. Teimlodd y gallai obeithio am faddeuant trwy Iesu Grist. Yr esmwythad a ddygodd y gobaith hwn i'w feddwl, ydoedd fel yr ymddengys, yn annysgrifiadwy. Terfynai W. ei adroddiad yn y geiriau hyn—

'Byth wedi hyn, bu y lle hwn yn debycach i balas i mi, nag i garchar; y mae pob peth yn myn'd yn mlaen yn gysurus. Yr wyf yn deall fod genyf galon dwyllodrus, ond dywed Iesu wrthyf, os bydd arnaf eisiau doethineb, ei fod yn barod bob amser i gyfrannu, os bydd i mi fwrw fy holl ofal arno, a pheidio anghofio gweddio. Fy ngweddi nos a boreu ydywar i mi gael cymhorth i ddal ati: 'Os byddaf farw yma, Arglwydd, gad i mi farw yn dy freichiau; y mae genyfachos mawr i fendithio y carchar hwn, a phob careg ynddo.'

● 'Wedi i mi ysgrifenu yr hanes uchod, bum yn ymddyddan a boneddwr, yr hwn a deimla ofal mawr am sefyllfa carcharau, a gofynodd i mi, a ymwelswn erioed â charchar Charlestown, Massachusetts? Dywedais, nad do.

'Os deuoch drosodd gyda mi ar fore Sabbath,' eb efe, 'i ymweled a'r Ysgol Sabbathol a ffurfiwyd yno, cewch weled nerth moesol y Bibl yn llawer eglurach nag y gellwch trwy unfhyw un enghreiff fel hon.'

'Derbyniais y cynyg gyda llawenydd. Sefyllfa y carchar sydd gerllaw yr afon Charles. Cyrhaedda buarth y carchar hyd at fin y dwfr, er cyfleustra i lwytho a dadlwytho y badau, y rhai a drosglwyddant gerig. at adeiladaeth, oblegid mai dyna brif orchwyl y carcharorion.

'Pan y daethom at y ddôr haiarn yn wyneb yr adeilad, gwelem amryw foneddion a ddaethent o Bristol, i weini fel athrawon yn yr Ysgol Sabbathol, yn dysgwyl am gael eu gollwng i mewn.'

'Wedi i'r holl garcharorion fyned i'r Capel, agorwyd y drws nesaf allan gan ddor-geidwad, ac aethom oll i mewn. Yr oedd mynedfa drwy y canol—o bob tu i hon yr oedd eis-

teddleoedd wedi eu haner lenwi o garcharorion. Yr oedd y capelydd mewn areithfa yn y pen pellaf, a'r athrawon ar bob llaw iddo, y rhai a ddaethent i gynhorthwyo y dynion anneddydd i ddysgu darllen a deall Gair Duw.

'Yr oedd golygfa nodedig ac effeithiol ar y gynnulleidfa. Oni buasai eu gwisgoedd, anghofiaswn mai mewn carchardy yr oeddwn. Yr oeddynt oll wedi eu gwisgo mewn brethyn garw, o ddau liw, un tu yn goch, a'r llall o ryw liw arall.

'A ydyw yn bosibl, meddwn ynof fy hun, bod y dynion hyn oll wedi dyfod yn nghyd yn wirfoddol y bore hwn i ddarllen a myfyrio gair Duw? Ond dyna oedd y ffaith. Allan o ddau neu dri chant, yr oedd y naill haner wedi arfer dyfod yn nghyd yn wirfoddol ar foreuau Sabbathau, i fyfyrio y llyfr sydd yn datgan rhâd faddeuant am bob pechod.

'Agorodd y capelydd yr Ysgol drwy weddi. Yna eglurodd i'r athrawon mai y cynllun oeddynt i'w gymeryd, ydoedd yn unig gwrando y carcharorion yn darllen y Bibl, ac egluro ei gynwysiad iddynt. Dymunodd arnynti gyfyngu eu hymddyddanion yn hollol at yr achos hwn, ac archai i'r carcharorion beidio gofyn, ac i'r athrawon beidio ateb, unrhyw ofynion perthynol i faterion ereill. Yna cysläi yr athrawon o amgylch yr ystafell, gan roddi dosbarth bychan dan ofal pob un. Dygwyddodd i dri ddyfod dan fy ngofal i.

'Agorais y Testament Newydd, a gadewais iddynt ddarllen ar gylch; ac ni welais fyfyrwyr yn ymddangos yn fwy gostyngedig erioed. Yr oedd yn dra hynod i sylwi ar y awyddfryd a amlygid yn eu hwynebpryd, fel ag yr oedd yr amrywiol wirioneddau, y rhai oeddynt y fath newyddion da iddynt hwy, yn cael eu dwyn dan sylw. Darllenasom ddamhegiou y ddafad a'r drull arian cyfrgolledig.*

'Sylwai un o'r carcharorion, wedi amlygu hoffder neillduol yn y damhegiou, bod y Bibl yn ymddangos yn llyfr gwahanol iawn iddo ef yn awr i'r peth ydoedd o'r blaen.

'Pa fodd yr ymddangosai gynt i chwi?' gofynnwn iddo. 'O, arferwn ei ddiystyru. Byddwn yn rhyfeddu paham yr oedd cymaint yn cael ei wneyd o hono,' eb efe. 'Wel a ydyw eich golygiadau am dano wedi newid yn awr?' 'O

* Luc xv.

ydynt,' eb efe, 'Yr wyf wedi fy llwyr argyoeiddi mai gair Duw ydyw.' 'Pa beth a achosai i chwi ei anghredu gynt?' 'Ai dylanwad cymdeithion drwg oedd yr achos?' 'Wel Syr, i fod yn onest, anwybodaeth ydoedd. Nid oeddwn wedi ei ystyried. Darllenaswn ychydig yma a thraw o hono, ond nid yn ystyriol, ac mewn iawn yspryd.' 'Beth a'ch dygodd i newid eich golygiadau amdano?' 'Ni newidiais fy ngolygiadau nes y daethum i'r carchar hwn. Carcharwyd fi am rai dyddiau ar fy mhen fy hunan, pan y daethum gyntaf i mewn, heb un llyfr arall ond y Bibl; ac adgofiais am deulu Crist-nogol gyd a'r hwn y buaswn yn trigo gynt, y rhai a ymddangosent i mi eu bod yn mwynhau mwy o wir ddedwyddwch na neb personau ereill a adwaenwn, arweiniodd hyny fi i feddwl y gallasai bod rhyw beth mewn crefydd. Felly meddyliais y buaswn yn chwilio y Bibl o ddirif, a chefais ef yn llyfr tra gwahanol i'r hyn y tybiaswn i ei fod. Cymerais hoffder mawr ynddo—ac o'r diwedd, darfu i weinidog bregethu pregeth yma oddiar y testun, 'Pa beth a wna fel yr etifeddwyf fywyd trag'wyddol?' Ac yr wyf yn hyderu, ddarfod i hono fy arwain at y Gwardwr. Yr wyf yn gobeithio ac yn hyderu fy mod wedi rhoddi fy nghalon mewn gwirionedd i fynu i Dduw.'

'Dywedais wrtho ei fod wedi peri mawr hyfrydwch i mi, a'm bod yn gobeithio y byddai iddo barhau yn ei yrfa Grist-nogol, ac i gael y Bibl yn ffynhonell cysur a dedwyddwch tra byddai byw.'

'Pan ddaethum gyntaf i'r lle hwn,' eb efe, 'yr oeddwn yn meddwl ei bod yn o galed i gael fy nghau i fynu yma dros gyhyd o amser. Pa fodd bynag, y mae fy amser agos a dyfod i fynu. Caf fyned yn rhydd yn mhen ychydig wythnosau, ond os arweuiwyd fi mewn gwirionedd i ganfod a gadael fy mhechodau, ni chaf byth achos i ofidio ddarfod i mi gael fy nwyn yma.'

'Rhoddodd y capelydd rybudd ar hyn, ei bod yn amser terfynu y gwasanaeth, ac ni ellais gael nemawr o ymddyddan a'r lleill. Dywedodd un o honynt wrthyf, ddarfod iddo ef gael ei ddwyn i fynu gan rïeni duwiol, ac iddo ddarllen y Bibl pan yn blentyn, 'ond er mwyn boddio fy rhieni yn unig y gwnawn hyny,' medd efe, 'ni thalwn unrhyw sylw iddo. Yr wyf wedi ei gael yn dra gwahanol er pan ddaethum i'r lle hwn.'

‘Cefais wedi hyny bod lle da i obeithio bod y tri trosedd-wyr hyn, wedi gwir edifarhau am bechod, a’u dwyn i fwynhad o heddwch tuag at Dduw.

‘Y mae enghreifftiau cyffelyb i hyn, yn dyfod i’w cael yn fynych iawn mewn carcharau, lle y neillduir y trosedd-wyr oddiwrth eu gilydd, ac eu gadewir yn agored i ddylanwad Gair Duw. Bu yr effeithiau yn y carchar a nodwyd yn dra hynod. Rhifedi y carcharorion, y rhai a fuasant unwaith yn 375, a leihawyd o dan ddylanwad y trefniant hwn, i 225, ac y maent ar leihad yn barhaus.

‘Ar ddiwedd yr Ysgol, y carcharorion ag oeddynt ynddi a rodiasant allan, ac a ddychwelasant yn ol yn fuan gyda’r holl garcharorion ereill, yn rhes hir, i’r addoliad cyhoeddus. Yr oeddynt yn llonaid y capel. Anerchodd y pregethwr hwynt ar gymedroldeb; ac fel yr oedd efe yn egluro iddynt natur gwirod poethion, a chanlyniadau yr ymarferiad o hono, gwrandawent gyd a’r sylw mwyaf dyfal-awyddus. Yr oedd Bibl yn llaw pob un, ei unig gydymaith yn ei gell unigol. Tybiwn ei bod yn anmhosibl i ddyn edrych ar y gynnulleidfa hono, a deall eu hamgylchiadau, a gwybod mai y Bibl yn unig a ddefnyddiasid fel moddion i’w hadferu i iechyd moesol, a pha mor lwyddiannus a fuasai, ac ameu wedi y cwbl, pa un ai bod y llyfr mewn gwirionedd wedi ei anfon o’r nefoedd ai peidio.

‘Wedi terfynu y moddion, rhodiai y carcharorion yn ddisparthiadau, pob dosparth tan ofal ceidwad, yn ol i’r adeilad fawr yn yr hon yr oedd eu celloedd.

‘Pan ddaethom i’r fynedfa yn y rhan isaf, yr oedd y dosp-eirth carcharorion yn myned i mewn, y naill ar ol y llall, i’w cellau priodol. Cauai pob un o honynt y drws mawr ar ei ol. Elai y ceidwad heibio wedi i bob carcharor o’u dosp-eirth fyned i mewn i’w gell, a chloent hwynt i mewn; ac wedi i’r blaid olaf o’r carcharorion fyned oll o’r golwg, a’r bollt ddiweddaf swnio wrth rygnu i’w le, dychwelai y ceid-waid y naill ar ol y llall—wedi hyny yr oedd hollol ddystaw-rydd yn teyrnasu.

‘Er ei bod yn awr yn nghanol dysglaer brydnawn yn mis Mai, yr oedd yn llwyd dywyll rhwng y muriau hyn; a byddai yn anhawdd i un ddiruad bod mwy na dau cant o’r carcharor-

ion hyn yn nghyraedd llais un dyn: oblegid y mae trefniad yr adeilad y fath, fel y gall pob carcharor glywed y Capel-ydd, pan yn cyflawni y gwasanaeth crefyddol yn y fynedfa. Efe a saif yno, heb ganfod cymaint ag un or personau y bydd yn eu hanerch ac a ddarllena y bennod, ac offryma y weddi hwyrol yn nghlywedigaeth cannoedd; a phob carcharor yn ei gellar ei ben ei hun a glyw drwy y ffenestri rathellog, lais rhyw un anweledig iddo, yn egluro gair Duw, neu yn ei arwain yn ei ddeisyfiadau at orsedd gras am faddeuant o'i bechodau, a chymwysder i'r nefoedd.

'Fel ag yr oeddym yn sefyll mewn arfyfyr yn yr olygfa hon, un o swyddogion y carchar a ddywedai wrth fy ngydymaith,—'Pa mor wahanol ydyw hyn i'r pethau a arferem eu gwled a'u clywed yn yr hen garchar!' 'A oes rhyw gyfnewidiad mawr,' gofynwn innau, 'yn y carcharorion er pan symudwyd hwy?' 'O, oes,' eb efe—'pan oeddynt yn yr hen adeilad, ac yn cael eu cloi i fynu amryw ynghyd yn yr un ystafell, nid oedd dim ond tyngu a rhegu, a thwrf a chablu i'w glywed drwy y nos. Fel y byddent yn cynddeiriogi yn erbyn crefydd, a'r Bibl, a gweinidogion? Yn awr y mae yma deulu llonydd a heddychol.

Aethom allan o'r diwedd. Ceidwad a chleddyfwrth ei ystlys a llawddryll wrth ei wregys, a gauodd ac a gloôdd y drws ar ein hol, a dychwelasm i'n cartrefi:

'Yn awr, os oedd un peth yn sefyll yn amlycach i'r sylw na'r holl bethau ereill yn yr olygfa hon, hyn ydyw, bod yr effeithiau hyn wedi en gweithio drwy offerynoldeb y Bibl. Sylwedd y trefniant yn syml yw hyn, sef atal dylanwadau niweidiol y naill garcharor ar y llall drwy eu gwahanu oddiwrth eu gilydd, a gosod y Bibl yn agored o'u blaenau: Gwneid hyn gyda thynnerwoh a chydymdeimlad y mae yn wir, ond eto y mae yn eithaf amlwg mai gair Duw ydoedd y feddyg-iniaeth a gymwysid. Mor ddiambheuol ydyw awdurdod y llyfr hwn fel ag y mae awdurdodau y wladwriaeth, yn gweithredu yn unig oddiar y dymuniad i waredu y wladwriaeth rhag niweidiau oddiwrth ddynion drygionus, yn gosod Bibl ar draul y cyhoedd, yn nghell pob carcharor, a ddedfrydir yno am dro-sedd.

'Y cyfryw ynte ydynt rai o effeithiau y Bibl ar y nodwedd

dynol. Meddyliais mai y ffordd oreu, mewn trefu i ddangos grym moesol y llyfr hwn mor ddynodol ag y byddai bosibl, fuasai dyfynu fel hyn ei weithrediadau mewn rhai achosion neullduol, ond byddai yr ymresymiad yn dra diffygiol pe gadawn ef yn y lle hwn; oblegid pe na byddai y fath amgylchiadau ond ahfynych ni phrosent ond ychydig. Ond nid ahfynych ydynt. Y mae yn awr yn wasgaredig dros wyneb ein gwlad luaws dirfawr, y rhai a ddychwelwyd oddiwrth bob gradd a math o eaogrwydd, i geisio maddeuant trwy y Gwar-edwr.*

Y mae y fath esiamplau yn llythyrat canmoliaeth i'r Bibl, rhagorach nag a all neb byth eu hysgrifenu ag inc a phapur, Y Bibl yn ei waith ydyw. 'Bachgen a adwaenir wrth ei waith;' felly yr adwaenir crefydd. Adwaenir Paganiaeth wrth ei gwaith: ac adwaenir anffyddiaeth wrth ei gwaith hithau: felly hefyd yr adwaenir Crist'nogaeth.

DOSP. IV.

Cawn osod i lawr rai enghreifftiau nodedig er dangos fel y bu yn 'allu Duw' er dychweliad ac iachawdwriaeth rhai personau allan o'grafangau damniol anffyddiaeth; y rhai ydynt esiamplau tra hynod fel profion ymarferol o rym ac awdurdod dwyfol ei hegwyddorion.

Y cyntaf a deilynga ei nodi yw yr enwog Iarll Rochester. 'Yr oedd y boneddwr hwn' medd un ysgrifenydd, yn nodedig yn ei ddydd, fel gwr mawr mewn synwyr a thalentau, ac fel pechadur mawr; ac yn ei glefyd diweddaf fel un mawr ei edifeirwch. Felly y dysgrifir ef gan yr Esgob Burnet, yr hwn oedd yn dra adnabyddus o hono, ac oedd yn gweini iddo ar ei wely marwolaeth,

'Yr oedd wedi cyrhaedd gradd anghyffredinol mewn annuwioledeb—buasai yn ddadleuydd gwresog dros annuwiaeth.

* Abbot's Young Christian.

Yr oedd wedi ymdrybaeddu yn nyfnderau halogedig aeth a gwneuthur rhinwedd a chrefydd yn destynau dirmyg a gwatwar. Ond pan, fel yr afradiawn yn yr efengyl, y daeth ato ei hun, llanwyd ei enaid â dychryn, a gwasgwyd oddiwrho yr edliwiadau llymaf iddo ei hunan.

Yr oedd yn ei olwg ei hunan yr adyn gwaethaf y tywynasai llewyrch haul erioed arno! A dywedai yn fynych y dymunasai fod yn gardotyn neu yn gaethwas mewn cadwynau yn hytrach na bod iddo dreulio y fath fywyd i ddigio a dianrhdeddu Duw.

'Pan ar daith i orllewin Lloegr, ryw gymaint o amser cyn ei gystudd diweddaf, bu yn dadleu yn erbyn Duw a chrefydd gyda gwresogrwydd anarferol; ond nid heb deimlo hyd yn od y pryd hwnw, golyn cydwybod anniddig yn ei fynwes.

'Un diwrnod, mewn cyfarfod annuwiaidd yn nhy pendefig o urddas, cymerodd y swydd o fod yn ben campwr anffyddiaeth, ennillodd uchel ganmoliaeth y cyfarfod. Ond yma drachefn danodai ei gydwybod iddo, a dywedai wrtho ei hun, 'Dduw da! pa fodd y gall dyn, yr hwn sy'n gweled gweithredoedd rhyfeddol y Duwdod, ac sydd yn meddu ar y defnydd c'i synwyr—pa fodd y gall y cyfrywun herio ei Greawdwr!'

'Pa fodd bynag, gwisgodd yr argyhoeddion hyn yn raddol ymaith, ac ni chafodd ei lwyr argyhoeddi a'i wir ddychwelyd fel y crybwyllwyd eisioes, hyd ei gystudd diweddaf, yr hwn a barbaodd o ddeutu naw wythnos. Y pryd hynny gwelodd ysgeler ddrygioni pechod, ac y cafwu werthfawrogrwydd Iawn Crist, ar yr hwn y sylfaenodd ei obaith am faddeuant. 'A allaf fy math i,' meddai, 'fwynhau llawenydd y nefoedd? O waredwr galluog, byth ni byddai yn bosibl, ond trwy dygariad anfeidrol a'th haeddiant! O, byth ond trwy rinweddau dy waed!'

'Yr ysgrythrau y rhai a fuasant mor fynych yn wrthrychau ei ddirmyg, yn awr a ddaethant i fod yn wrthrychau ei hoffder: yr anghysonderau a'r gwrthuni ymddangosiadol, a ddychmygid gan ddynion o feddyliau a barnau llygredig, a ddifanasant, fel ag y daeth i dderbyn y gwirionedd yn y cariad o hono. Esay liii, yr hon a fynyuch ddarlleuid iddo

gan Mr. Parsons, a fu yn fendithiol iawn iddo. Wrth ei chydmaru a hanes dyoddefiadau y Gwardedwr, gwelai gyflawniad prophwydoliaeth a draddodasid amryw oesau yn flaenorol, a'r hon a gadwai yr Iuddewon, y rhai a gablent yr Iesu, yn eu dwylaw hyd y pryd hwn, fel llyfr ysprydoledig. Addefai wrth yr Esgob Burnet ei fod pan yn gwranddo ei darllen, ' yn teimlo dylanwad mewnlol megis ffrwd o oleuni yu ymdywallt i'w feddwl, yr hwn a'i goleuodd ac a'i hargyoeddodd yn y fath fodd, nad allai ei wrthwynebu mwyach; oblegid bod gan y geiriau y fath awdurdod, yr hwn a saethai fel pelydr i'w feddwl, fel nid yn unig yr argyoeddwyd efe gan y rhesymau a welai mewn perthynas i'r mater, y rhai oeddynt yn rhoddi boddlonrwydd i'w ddeall, ond gyda gallu, yr hwn a'i cymhellai mor effeithiol, fel byth wedi hyny y credai mor gadarn yn ei waredwr, a phe buasai yn ei weled 'ef a'i lygaid yn y cymylau.

'Darllenid y bennod hono mor fynych iddo, fel y dysgodd hi oll yn ei gof, 'ac aeth tros ran sawr o honi,' meddai yr Esgob, 'mewn ymddiddan gyda mi, gyda math o hyfrydwch nefolaidd, gan adrodd wrthyf ei fyfyrododau arni—yr wyf yn cofio rhai o honynt. 'Pwy a gredodd i'n hymadrodd?' 'Yma' meddai ef, y rhagddywedir y gwrthwynebiad a gaffai yr efengyl oddiwrth adynod truenus fel fi.' 'Nid oes na phryd na thegwch iddo; pan edrychom arno, ni bydd pryd fel y dymunem ef.' Oddiwrth y geiriau hyn sylwai, 'parodd gwaeledd ac iselder ei ymddangosiad i ddynion ffolion ei ddirmygu, oblegid nad ymwisgai yn y fath ynfyd ddull ag a hoffent hwy.' Gwnaeth lawer o sylwadau cyffelyb; gan ymhelaethu ar lawer o'i hymadroddion, a chymwyso amryw ranau at ei achos ei hun. 'O fy Nuw,' meddai unwaith, a all y fath greadur a myfi, yr hwn a wadodd y fodoliaeth, ac a ddirmygodd dy allu, fod yn gymeradwy yn dy olwg? A all fod trugaredd a madd-
euant i'm bath i! A gydnebydd Duw y fath adyn?'

'Yr oedd ei ffydd yn gorphwys ar Grist yn unig am iachawdwriaeth, a mynych y gweddiai am i Dduw ei chadarnhau: llefai allan, 'Arglwydd yr wyf yn credu, cymhorth fy anghrediniaeth.'

'Rhoddodd y pendefig edifeiriol hwn lawer o brofion o ddiffuantrwydd ei ffydd, a gwirionedd ei ddychweliad; yn

mhlith y rhai y mae ei fawr ddymuniad i atal effeithiau ni-weidiol ei ysgrifeniadau a'i esiamplau blaenorol, yn deilwng o sylw nodedig. Rhoddodd stars gaeth i'r personau ag yr oedd wedi gadael ei bapurau dan eu gofal, ar fod i'w holl ysgrifeniadau halogedig gael eu traddodi i'r tân, a dymunai ar bawb ag oeddynt yn bresenol wneuthur ei ddymuniad hwn yn hysbys i'r byd, fel y gwybyddai pawb pa mor llym y cer-yddasid ef gan Dduw am ei bechodau, gan gydnabod ar yr un pryd, y buasai ei ddyoddefiadau yn eithaf cyfiawn pe bu-asant ddengwaith yn drymach. Addefai ddarfod i gystudd-iau blaenorol ei fywyd, beri iddo ffurfio rhai penderfyniadau gweiniad i ddiwygio, ond yn bresenol bod ganddo olwg wa-hanol ar bethau, a'i fod yn awr yn gweithredu oddiar eg-wyddorion gwahanol; ac yn fyr, ei fod yn teimlo y fath gas-ineb at bob pechod, fel na chyflawnai un drwy wybodaeth iddo, er enill teyrnas.

'Anfonodd genhadwriaethau difrifol at ei hen gymdeith-ion mewn drygioni, a rhoddai y rhybuddion mwyaf difrifol i'r rhai a ymwelent ag ef. Wrth un penefig yn neillduol, dywedaf, 'O, gwyliwch na byddo i chwi mwy ddirmygu Daw, Duw eiddigus yw efe, ac efe a ymwel a chwi am eich pech-odau; a gobeithiaf y bydd iddo gyffwrdd a'ch calon mewn trugaredd, megis y gwnaeth a mi. Bum i a chwithau yn gyf-eillion a chydbechaduriaid am hir amser gynt: o ganlyniad, yr wyf yn cymeryd yn fwy hyf arnoch. Darfu i ni gam-gymeryd yn ein tybiau, yr oedd ein golygiadau yn dwyll-odrws a di-sail, gan hyny, caniatad Duw i chwi edifeirwch!' Gwelai yr un gwr dranoeth drachefn, ac meddai wrtho, 'Hwyrach fy mod wedi eich anfoddloni drwy fy hyfdra gyda chwi ddoe; geiriau gwirionedd a sobrwydd a leferais.' A chan daro ei fynwes a'i law, efe a ddywedai, 'Yr wyf yn go-beithio y cyffyrda Duw a'ch calon.'

'Yn wybodus o'r graig, ar yr hon y tramgwyddasai efe ei hun, amlygai ddymuniad cryf na byddai i'w fab byth droi allan yn un o'r ffraethwyr halogedig hyny, a ymfalchiant yn eu gwaith yn gwadu Duw, a gwatwar crefydd: ond y byddai iddo ddyfod yn wr gonest a chrefyddol; ac ar fod i'w holl deulu gael eu haddysgu yn ofn Duw. oeddi ereill, a dangos iddynt eu perygl, os parhant yn an-

‘Yn mhellach, fel na byddai neb o’r rhai hyny ag y buasai yn offeryn i’w hudo i bechod golli y budd o’i edifeirwch, efe a law-nododd y dadgyffesiad a ganlyn, a gorchymynodd iddo gael ei gyhoeddi i’r byd—

‘Er budd i’r rhai oll a hudwyd i bechod gan fy esiampl a’m cefnogaeth, yr wyf yn gadael i’r byd fy natganiad diweddaf hwn, yr hwn wyf yn ei wneuthur yn mhresenoldeb y Duw mawr, yr hwn sydd yn gwybod dirgelion y calonau oll, a cher bron yr hwn y bydd i mi gael fy marnu; fy mod o waelod fy enaid yn ffeiddio ac yn casau holl ystod fy mywyd drygionus blaenorol, ac yn meddwl na allaf byth fawrhau digon ar ddaioni a gras Duw, am roddi i mi ystyriaeth briodol o’m hopiniynau niweidiol a’m harferion drygionus; yn y rhai y bum i byw gynt heb obaith, ac heb Dduw yn y byd: bum yn elyn cyhoedd i Grist, yn difenwi Ysbryd y gras i’r graddau eithaf: a’r dystiolaeth benaf o’m caredigrwydd tuagat fy hen gyfeillion a allaf roddi ydyw, eu rhybuddio yn enw Duw, os oes ganddynt unrhyw ofal am ddedwyddwch eu heneidiau anfarwol, na byddo iddynt mwyach gellwair â phechod, na dirmygu crefydd bur a gogoneddus fy Ngwaredwr byth fendigedig! drwy haeddedigaethau yr hwn yn unig, yr wyf fi, y penaf o bechaduriaid, yn gallu gobeithio eto am drugaredd a maddeuant, Amen.

‘J. ROCHESTER.’

‘Arwyddwyd yn mhresenoldeb

‘ANN ROCHESTER,
‘R. PARSONS.

‘Mehaf. 10eg, 1680.’

‘Yr ydym yn awr yn dychwelyd at brofiad y pendefig dychweledig hwn yn ei oriau diweddaf, ac i sylwi ar nerth crefydd yn ei dylanwad ar ei feddwl, yn yr amgylchiad pwysig. Nid ymddangosai bod ganddo un dymuniad i fyw, ond yn unig i ddwyn tystiolaeth i wirionedd ei edifeirwch, a gogoneddu Duw. ‘Os bydd i Dduw fy arbed,’ meddai, ‘y chydig yn hwy, gobeithiaf y bydd i mi ddwyn gogoniant i’w enw, i’r graddau y darfu i mi ei ddianrhydeddu, yn fy holl fywyd blaenorol; ac yn enwedig drwy ymdrech argy-

edifeiriol, a dywedyd wrthynt pa mor rasol yr ymddygodd Duw tuag ataf fi.'

'O ddeutu tri neu bedwar diwrnod cyn ei farwolaeth, dywedodd, 'Yn awr mi a gaf farw. Ond O! pa fath ogoniant annhraethadwy wyf yn ganfod; pa lawenydd tu hwnt i ddysgrifiad na dirnadaeth, wyf yn deimladwy o hono! Yr wyf yn awr yn sicr o drugaredd Duw tuag ataf, trwy Iesu Grist. O! fel yr wyf yn hiraethu am farw, a bod gyda fy Ngwar-edwr!'

'Fel hyn y bu farw yr esiampl nodedig yma o ras achubol, Gorph. 26eg, 1680, yn y 34ain flwyddyn o'i oedran. Yroedd bywyd wedi ei dreulio ymaith drwy ei hir gystudd ac effaith buchedd benrhydd a drygionus, fel y rhoddodd ei gyfansoddiad y ffordd rhag blaen. Gwelwn eiriau yr apostol, 'Lle yr amlhaodd pechod, y rhagor amlhaodd gras,' yn cae eu cyflawni yn hynod ynddo. Y mae yr hanes a gyhoeddwyd gan yr Esgob Burnet yn rhoddi dysgrifiad helaethach o'i ddychweliad, a'r amrywiol ymddyddanion ar bethau dwyfol a fusasai rhyngddo ag ef, dan y titl, '*Rhai pigion o fywyd a marwolaeth John, Iarll Rochester*, am yr hwn yr oedd gan y diwedd-ar Ddr. Johnson feddyliau mor uchel, fel y dywed am dano, 'Dylai y beirniaid ei ddarllen o herwydd ei dlynsni, y philosophydd er mwyn ei ymresymiau, a'r sant er mwyn ei dduwiol-frydedd.'

Yr esiampl nesaf a goffawn ydyw un William Rose, tabyrddwr, (*drummer*) a berthynai i'r 59 gatrawd o wyr traed, yr hwn a fu farw yn Berhampore, yn yr India Ddwyreiniol, yn Ionawr, yr 8fed, 1821. Ganwyd a dygwyd ef i fynu yn Nottingham, gan riëni crefyddol. Wedi iddo adael ty ei dad ac ymuno a'r fyddin, dinystrwyd y naill egwyddor dan ar ol y llall o'i galon, a llanwyd hi a llygredigaeth; nes na adawyd un rhithyn o'i nodwedd blaenorol heb ei ddyfetha; a darfu iddo yn fuan ddyfod yn gydradd, os nid rhagori ar y rhan fwyaf o'i gymdeithion mewn drygioni.

'Fel y dealler ei nodwedd yn well, y mae yn angenrheidiol dynodi rhai o'r pethau hynotaf perthynol iddo, yn ystod y rhan fwyaf o'i fywyd. Yr oedd yn dueddol iawn i arfer rhegfeydd. Arferai yn fynych y llwon mwyaf dychrynlyd, y fath a barent i'r rhai na fyddent wedi arfer clywed y fath

iaith, arswydo a brawychu. Cysylltai enw sanctaidd Duw a phob peth a ddywedai yn mron—arferai ef yn fynych mewn ffordd o ddirmyg, ac yn aml iawn hefyd fel moddion i osod allan ei nwydau digofus, a'i gynddaredd yn erbyn y sawl a'i digient. Yr oedd yn beth cyffredin ganddo i alw ar yr Hollalluog Dduw i'w fellgithio ef ei hunan, a'i gyd-greaduriaid, ac i ddwyn tystiolaeth i gelwydd. Y mae yn anhawdd dirnad pa beth a all fod yn fwy sarhad ar Greawdwr y bydoedd na hyn. Yr ydym yn cydnabod ei fod yn anfeidrol sanctaidd, ac yn deilwng o'r parch uchaf; a galw ar ei enw yn y modd difrifol yma, i fod yn dyst o bob peth bychan a dibwys, neu i weinyddu y melldithion mwyaf dychrynlyd a allo ein meddyliau digofus ni ddychymygu, ydyw cellwair a'r hwn sydd yn ofnadwy mewn mawredd, ac o flaen yr hwn y cuddia angelion eu hwynebau, ac y cryna cythrenliaid.

'Yr oedd William Rose yn nodedig mewn drygau ereill hefyd, y rhai ydynt warthrudd y natur ddynol: ond ffynhonell y cwbl ydoedd ei anffyddiaeth penderfynol. Trinai grefydd gyd a'r dirmyg a'r diystyrwch mwyaf; ni allai oddef clywed darllen dim ag a fyddai a'r duedd grefyddol lleiaf ynddo. Yr oedd y Bibl yn wastad yn wrthrych gwawd yr anffyddiad hwn; mathrodd ef tan ei draed yn ngwydd llawer o dystion, gan ei alw yn gasgliad o gelwyddau. Yfodd yn ddwfn o egwyddorion gwenwynig Paine, ac ymdrechai eu taenu yn mhlith ei gymdeithion. Galwai Iesu Grist a'r apostolion yn haid o dwyllwyr.

'Ond er holl halogrwydd ac anffyddiaeth y dyn ieuangc hwn, daeth i fod yn gôf golofn hynod o drugaredd Duw, a rhoddodd dystiolaeth foddhaol ddarfod iddogael ei wneuthur yn 'greadur newydd.' Yr amgylchiad rhag-barotoawl i ddychweliad yr afradlon hwn ydoedd afiechyd hir-nychol ar yr afu—(*liver complaint*) fel ag yr oedd ei afiechyd yn cynhyddu, dygwyd ef i'r yspyty (*hospital*) yn Berhampore, ar y cyntaf o Hydref, 1820. Ymwelodd cenhadwr â'r yspyty yn mhen ychydig ddyddiau gwedi, a thra yr oedd yn ymddyddan ag un o'r cleifion, clywai yr ochenaid ddwysaf ychydig oddiwrtho, yr hon a arwyddai ei bod yn codi o galon un ag oedd yn llethedig gan wewyr mewnol, a phoen corphorol: caafyddai y truan, ac elai i ymddyddan ag ef. Yr oedd

ei gyfansoddiad wedi ei fawr anmharu gan yr afiechyd, ac yr oedd ei boenau yn dra llymion; ond nid ymddangosent ond bychain mewn cydmariaeth i ddychrynsfeydd ei feddwl. Yr oedd llaw Duw yn drom arno: yr oedd ei lygaid wedi eu hagog yn rhy ddiweddar, fel y tybiai ef, i ganfod ei wir sefyllfa. Pan yr oedd mewn iechyd, ac angeu yn ymddangos yn mhell, gallai herio rhybuddion cydwybod; ond nid felly yn awr. Os oedd Duw yn bod, gwyddai y byddai iddo ei gospi ef. Os oedd y grefydd Grist'nogol yn wirionedd, rhaid y buasai yn ei gondemni^o ef; ac fel Belsassar, yr oedd ei nerth wedi myned, a'i liniau yn curo yn nghyd gan ofn a dychryn. Yn awr, gwelai y ddedryd yn cael ei hysgrifenu yn ei erbyn, 'Ti a bwyswyd yn y clorianau, ac a'th gaed yn brin.' Ni allai ei egwyddorion anffyddiog, na digrifwch ei gymdeithion mewn drygioni, weinyddu unrhyw gysur i'w enaid brawychus. Gwaeddai allan yn ddibaid, 'Arglwydd, trugarha wrthyf—Arglwydd, bydd drugarog wrthyf!' Gwr ieuanc duwiol, ag oedd yn yr yspyty yr un amser, yn awyddus os oedd bosibl i weinyddu rhyw gymhorth iddo, a symudodd ei wely i ymyl Rose dlawd, fel y gallai ymddyddan ag ef. Gofynodd iddo, pa beth oedd yn peri ei fod mor annedwydd, ac i wacddi am drugaredd yn y fath fodd? I'r hyn yr atebai y truan gofidus, 'Yr wyf yn gwaeddi am drugaredd oblegid fy mod wedi pechu mor arswydus; ac yr wyf yn galw ar Grist, oblegid 'nad oes enwarall dan y nefoedd trwy yr hwn y gallaf fod yn gadwedig.' Dirmygwn ef gynt, ond pe byddai yr holl fyd yn fy meddiant yn awr, mi a ymadawn ag ef yn ewyllysgar am y gobaith lleiaf o'i ffafr, neu am amser i edifarhau.' Dywedai y gwr ieuanc crybwylledig wrtho, er ei anogaeth, am gariad anfeidrol Duw yn maddeu i'r penaf o bechaduriaid, trwy iawn Crist; yr hwn a fu farw, 'y cyfiawn dros yr anghyfiawn,' er heddychu gelynyion â Duw; a bod Iesu Grist wedi ei eneinio 'i rwymo y rhai ysig o galon, i roddi rhyddid i'r caethion, ac agoriad carchar i'r rhai sydd yn rhwym.' Pan glywai hyn, yr oedd megis pe buasai peilydryn o obaith yn lloni ei feddwl tywyll anobeithiol, ac atebai gyda dagrau, 'Y mae fy euogrwydd yn fawr, ond mi a obeithiaf yn ei drugaredd, ac a bwysafar ei addewidion. Yr wyf yn gwybod y bu fy mywyd yn groes i'w gyfraith sanet-

aidd, a'm bod yn haeddu marw; ond efe a ddywedodd, 'Pwy bynag a ddel, nis bwriaf ef allan ddim.'

'Er yr amser y daethai i deimlad o'i gyflwr fel pechadur colledig, yr oedd cyfnewidiad amlwg i'w weled yn ei holl ymddygiad a'i ymddyddanion, fel ag yr oedd pawb a'i hadwaenent yn rhyfeddu wrtho. Edrychai ar ei fywyd blaenorol gyda gofid, cywilydd, a hunan-ffeiddiad. Ni charai ymddyddan am ddim ond yn nghylch iachawdwriaeth, a pha beth a wnai i fod yn gadwedig. Yr oedd ei olygiadau wedi hollol gyfnewid. Yr oedd arno yr awr hon gywilydd o'r pethau yr ymgoneddai ynddynt o'r blaen; a'r pethau a ddiystyrai gynt, a werthfawrogai yn bresenol uwchlaw pob peth. Yr oedd y cenhadwr a arferai ymweled ag ef yn cael ei fawr foddhau yn ei olygiadau ar fawr-ddrygedd pechod, fel ag y mae yn taro yn erbyn Duw daionus, sanctaidd, a chyfiawn; ac yn ei ffydd ostyngedig yn haeddedigaethau y Gwardedwr. Ymddangosai yn 'cymeryd gafael yn y gobaith a osodid o'i flaen,' yn gyffelyb ag y gwna dyn ar foddi gymeryd gafael ar unrhyw beth yn ei gyrhaedd i'w gadw rhag suddo.

'Dychon rhai o'r cyfryw, a'i hadwaenent yn nghanol ei ddrygioni, anghredu y gallai dyn mor halogedig a chaled, ddyfod mewn mor lleied o amser i fod yn fath ddysgybl addfwyn a phrofiadol i Grist: i hyn gellir ateb, ei fod yn nhymor boreuaf ei fywyd wedi cael y fantais o fwynhau llawer o rag-orfreintiau crefyddol, a bod Yspryd Duw yn nerthol weithio ynddo. Gwelir hyn yn mbellach yn ei ddywys alar am bechod; ei rybuddion difrifol i'w gyd-bechaduriaid; ei amynedd, ei hyfrydwch mewn pethau ysbrydol; ac yn ei ffydd, ei obaith, a'r tangnefedd a fwynhâai yn ei funudau olaf. Weithiau pan mewn mawr boenau, torai allan, 'Pa beth yw yr oll wyf yn ei ddyoddef mewn cydmariaeth i'r hyn a haeddais? A beth ydyw mewn cydmariaeth i'r hyn a ddyoddefodd Crist drosof? Dim!' Bryd arall, dywedodd, 'Condemnir llawer y dydd diweddaf, ac yn sicr yr wyf fi yn haeddu bod yn un o honynt!' Sylwai ei gyfaill, na chedwir neb ar gyfrif eu haeddiant eu hunain; bod pawb yn euog; a phawb a feddant olygiadau priodol ar eu nodweddau, a'u tybiant eu hunain y penaf o bechaduriaid. 'Gwir, gwir,' eb efe, 'ond ni wyddoch chwi fawredd ac amledd fy nhroseddau i; ac hyd

yr awr hon, yr wyf yn teimlo fy nghalon yn galed.' Yna torai allan mewn gweddi, 'O Arglwydd tynera fy nghalon galed! Na âd i mi dwyllo fy hunan!' Pan adgofwyd iddo unwaith ddarfod iddo gofleidio egwyddorion Paine; 'Ië,' eb efe, 'yr wyf yn cofio hyny gyda gofid, ddarfod i mi erioed gael fy hudo gan y fath dwyll. Darllenais lawer o lyfrau, ond pa mor anwybodus ydwyf o wirioneddau y Bibl!

'Yr oedd ei ddyoddefgarwch yn hynod—er y byddai y symudiad lleiaf yn] peri iddo boen dirfawr, ni chlybuwyd cymaint a gair o achwyn ganddo. Yr oedd ei rybuddion i ereill i ochelyd llwybrau pechod yn bwysig ac effeithiol. Cyfarchai un o'i hen gymdeithion gyda rhyfeddol ddirifoldeb unwaith, 'Edrychwch arnaf fi,' eb efe, 'agwelwch y cyflwr isel a phoenus y'm dygwyd iddo; ac yn y fath gyflwr a hwn yr ydych chwi yn meddwl darparu erbyn byd trag'wyddol. Digon i mi yn awr ydyw dyoddef fy mhoenau corphorol.' Yna, erfyniai arno gyda dagrau i beidio oedi edifeirwch hyd awr angeu, ond ymroddi i geisio yr Arglwydd mewn bywyd ac iechyd.

'Gofynwyd iddo un bore a gawsai efe gysgu; 'Na ddo,' eb efe, 'bum yn dal cymdeithas a Duw drwy y nos, a chefais bleser mawr. Yr wyf yn dysgwyl bod yn effro heno hefyd, ac y mae yn llawen genyf feddwl pa mor hapus a fyddaf, pan fyddo pob peth yn dawel, i mi gael myfyrio ar yr iachawdwriaeth sydd yn Nghrist, heb ddim i'm haflonyddu. Ni fu yn alluog i fyned i addoliad cyhoeddus o ddechreuad ei glefyd; yr oedd yn teimlo yn ddwys iawn o herwydd hyny—gofynai ei gyfaill oedd yn gwylio arno iddo unwaith, 'A ellwch chwi fy hepcor i tra fyddwyf yn myned i'r cyfarfod?' 'Gallaf, gallaf,' eb efe, 'ni fynwn i chwi beidio a myned hyd yn od i achub fy mywyd—ai nid yw yn bosibl i minau ddyfod? Ni theimlais erioed y fath ddymuniad ag wyf yn deimlo yn awr am fwynhau addoliad cyhoeddus.'

'Unwaith, pan yn ymgynnal ar fynwes ei gyfaill i symud yn y gwely, dywedai, 'Yr wyf mewn poen fawr, ond Crist yw fy nghymhorth a'm cysur; a phe gallwn ymbwyso arno ef mor gyflawn ag yr wyf yn awr arnoch chwi, byddwn yn berffaith ddedwydd. Pan ar un diwrnod y teimlid cynhyrfiad daeargryn, ac y rhedai pawb a allent o'r lle am eu diogelwch,

gofynwyd iddo wedi i'r cyffro fyned drosodd, pa fodd yr oedd ei feddwl yn ymdaro yn yspaid amser y dychryn, 'Yr oedd fy meddwl,' eb efe, 'wedi ei sefydlu ar Grist, fy unig obaith a'm noddfa.'

'Gofynwyd iddo ychydig cyn ei farwolaeth, a oedd yn teimlo yn ddedwydd? 'Ydwyf,' meddai, 'yr wyf yn edrych ar Iesu, oblegid nid yw ei ffyddlondeb ef yn pallu.' Parhaodd hyd ei funudau olaf mewn helaeth fwynhad o ddyddanwch yr iachawdwriaeth.

Terfynwn y profion hyn gyda'r ychydig fyr hanesion canlynol—

Dau foneddwr yn amser teyrnasiad Sior yr II, sef Arglwydd Littleton, a Gilbert West, Ysw. a gofleidiasant egwyddorion anffyddiaeth; a chytunasant a'u gilydd i ysgrifenu traethawd bob un o'i phlaid. Er gwneuthur hyn yn effeithiol, barnasant yn angenrheidiol, yn gyntaf, i wneuthur eu hunain yn fwy cydnabyddus a chynwysiad y Bibl. Ond wrth ei chwilio, pa fodd bynag, argyoeddwyd y ddau o'u camsyniadau; cofleidiodd y ddau y grefydd Grist'nogol yn ddiarwybod y naill i'r llall. Ysgrifenasant bob un ei lyfr o blaid ei dwyfoldeb; un, sef yr eiddo Arg. Littleton, yn sylfaenedig ar hanes troedigaeth Paul; a'r llall, yr eiddo Mr. West, ar Adgyfodiad Crist. Bu y ddau feirw mewn heddwch.

Athanagoras, athronydd enwog yn Athen yn yr ail ganrif, oedd yn llawn rhagfarn a gelyniaeth yn erbyn y grefydd Grist'nogol, fel ag y penderfynodd ysgrifenu yn ei herbyn: ond wrth fanwl-chwilio i'r ffeithiau ar y rhai y seiliwyd hi, i'r dyben i gasglu defnyddiau i wneuthur ei ruthr bwriadol arni, argyoeddwyd ei feddwl o'i gwirionedd gan nerth anwrthwynebol ei thystiolaethau: ac yn lle ysgrifenu yn ei herbyn yn ol ei fwriad cyntefig, ysgrifonodd draethawd rhagorol o'i phlaid.

Soame Jenyns, Ysw. aelod seneddol dros Gaergrawnt, wedi bod o hono dros amryw flynyddau yn rhwydau anffyddiaeth, a methu cael esmwythder i'w feddwl ar y tir hwnw, a ymroddodd i chwilio a phrofi sylfeini ei egwyddorion. Gwelodd ei gamsyniad, dygwyd ef i gredu yn y Gwardwr, ysgrifonodd lyfryn bychan mewn amddiffyniad i Grist'nogaeth, dau yr enw 'Golwg ar brofion mewnol y grefydd Grist'nogol.'

yr hwn sydd un o'r traethodau goreu a ysgrifenyd ar y gangen hono.

Mr. Oliver, meddyg enwog yn Bath, ydoedd anffyddiad gwresog iawn hyd o fewn ychydig i'w farwolaeth. Gwelodd yntau ei gamsynied, a galarai o herwydd ei ymddygiad blaenorol gyda chalon ofidus a drylliog iawn; bu farw mewn hyder cryf am drugaredd Duw drwy haeddedigaethau y Gwardwr hwnw a gablasai am lawer o flynyddau. 'O,' meddai, 'na allwn ddadwneyd yr holl ddiffaethdra a wnaethum. Yr oeddwn yn fwy llafurus i wenwyno meddyliau dynion ag egwyddorion anffyddiaeth nag braidd y gall fod un Cristion i daenu athrawiaethau Crist.'

Y Cadfridog Dykern, yr hwn a dderbyniodd glwyf marwol yn mrwydr Bergen, yn yr Almaen, yn y flwyddyn 1759, ydoedd wedi cael holl fanteision dygiad i fynu mewn dysgeidiaeth; ac yn feddiannol ar dalentau gorwych fel gwladweinydd yn y cyngor, a rhyfelwr ar y maes; ydoedd gyda hyny yn anffyddiad ymroddedig mewn buchedd a phroffes, hyd y pryd y cafodd y clwyf marwol yn y frwydr grybwylledig: Yn ystod ei nychdod, pa fodd bynag, effeithiwyd cyfnewidiad trwyadl yn ei feddwl, a bu farw mewn llawn sicrwydd ffydd, gan orfoleddu yn iachawdwriaeth yr efengyl, a mawr ryfeddu y cyfnewidiad a weithiasai gras dwyfol yn ei enaid.

Gallasid lluosogi niferoedd o enghreifftiau o'r un natur; ond gwasanaetha y nifer a ddetholwyd i ddangos y mater mewn llaw, cystal a phe buasem yn coffau yr oll a allesid eu cael. Gwel y darlennydd yn yr esiamplau uchod, nerth egwyddorion Crist'nogaeth yn enill y buddugoliaethau llawnaf a gogoneddusaf ar galonau ag oeddynt yn llawnion o'r rhagfarn cryfaf, a'r elyniaeth fwyaf ymroddedig yn eu herbyn— yn diarfogi y gelynyon, pan oeddynt, fel y gwelsom mewn rhai esiamplau, yn cynull eu nerthoedd, ac yn ymbarotoi i wneyd rhuthr egniol arnynt, ac yn gwneuthur cyfeillion a phleidywyr gwresog, galluog, a ffyddlon o'r caseion hyn. Gwelsom bersonau o bob graddau a sefyllfaoedd yn cael eu codi yn gof-golofnau y fuddugoliaeth hon ar faes Crist'nogaeth, Iarll urddasol Rochester, Arglwydd Littleton, y rhai oeddynt wyr y llys; ac oddi yno i lawr hyd W. Rose dlawd yn elusendy y cleifion; athronydd dysgedig Athen; meddyg

cyfarwydd Bath; maes-lywydd gwrol-ddewr y cyfandir, ydynt oll wedi eu dyrchafu fel 'meini coron, yn fanerau' ar dir yr efengyl, yn dwyn y prawf ymarferol egluraf a chadarnaf o'i gwirionedd a'i dwyfolder.

DOSP. V.

YN awr, fy narllenydd, yr ydym yn myned i edrych ar elynion a chyfeillion yr efengyl yn marw. Gadewch i ni, yn y lle cyntaf, gymeryd golwg ar helynt ei gelynion yn yr amgylchiad difrif;—'Braw a'i brawycha ef o amgylch, ac a'i gyr i gymeryd ei draed.'

Gyda chamrau gofalus, a chalon ofnus, yr ydym yn bresenol yn nesau i ystafell lle y gorwedda ar fin trancedigaeth, elyn Duw, dirmygwr y Gwardwr, a gwadwr yr Ysgrythyr-
au. Y mae arswyd yn tafu iasau a barant i'r gwaed sefyll yn llonydd, a chyflym redeg—fferu a berwi bob yn ail cythrym yn ein gwythienau, fel ag yr ydym yn agoshau at yr olygfa! Prin y meddwn ar ddigon o wrol-frydedd meddwl i beidio troi yn ol, ond awydd gweled y diwedd, megis Pedr gynt, a bâr i ni araf dynu yn mlaen. Ond, pa fodd bynag, ni a awn, ac yn gyntaf ni a gymerwn olwg ar ddiwedd ymarweddiad Voltaire, archanghredadyn Ffrainc, a'r hwn y dygwyd ei enw i mewn i'r gwaith hwn amrywiol weithiau o'r blaen.

'Yn ystod ei ymweliad diweddaf a Paris,' medd yr hanesydd, 'pan oedd yn uchder eithaf ei rwysg a'i anrhydedd, yn wrthrych uchel-glod gorphwyllog y chwareu-dy, y tarawyd ef gan law rhagluniaeth, ac y terfynodd ei yrfa mewn anobaith a gwarth.

'Dechreuodd ei afiechyd olaf mewn gwaed-lifant prysur ac ofnid yn fuan fod ei ddiwedd yn nesau. Prysurai ei gymdeithion D. Alembert, Diderot, a Marmontel, ato, i'w gysuro a'i galonogi yn yr amgylchiad; ond ni chawsant amgen na bod yn dystion o'u gwarth eu hunain a'r eiddo yntau. Cyn-ddaredd, hunan-gondemniad, cabledd, anobaith, oeddynt oll wedi cyd-gyfarfod i nodweddu diwedd gyrfa yr annuwiad truenus. Ni chynhygiodd ei gymdeithion mewn annuwiaeth

a drygioni i wadu gwirionedd y dysgrifiad a roddir o ddiwedd truenus ei yrfa. Ni feiddiodd un o'r cyfrwys ddynion hyny erioed haeru bod cymaint ag un arwydd o ddiysgogrwydd neu dawelwch wedi cael ei amlygu gan y prif wron yn ystod y tri mis hyny o amser, wedi ei goroniad yn y chwareu-dy hyd ei farwolaeth!

'Yn ei ddychweliad o'r chwareu-dy, a phan oedd yn myned i ymbarotol at ymgais er enill canmoliaeth ychwanegol, y rhybuddiwyd Voltaire bod ei hirfaith yrfa o annuwiaeth yn tynu tu a'i therfyn.

'Rhoddodd ar ddeall yn nyddiau cyntaf ei glefyd, a hyny er gwaethaf holl ymdrechiau ei gyfeillion annuwiadd a dyrent o'i gylch, y dymunai yn awr droi at y Duw hwnw a gablasai mor fynych. Galwai am offeiriad i weinyddu iddo elfenau coffadwriaeth am yr hwn y tyngasai ryfel yn ei erbyn, ac yr arferai ei alw 'Yr Adyn.' Arferai derfynu ei lythyrâu at ei gyfeillion a'r geiriau '*Crush the Wretch,*' 'Llethwch yr adyn,' gan feddwl Crist. Wrth deimlo ei anhwylddeb yn cynyddu a'i ddiwedd yn agosau, ysgrifennai at yr Abad Gaultier, i ddeisyfu arno ymweled ag ef mor gynted ag y byddai bosibl. Yn mhen ychydig ddyddiau drachefn, ysgrifennai y mynegiad canlynol yn mhresenoldeb yr Abad, yn nghyd ag Abad Mignot, ac Ardalydd de Villevieille.

'Myfi, yr hwn y mae fy enwisod, wyf yn datgan, fy mod drwy gael fy nghystuddio er ys pedwar diwrnod bellach, a cholliant gwaed, ac yn yr oedran o 84, yn hollol analluog i fyned i'r eglwys, a darfod i'r parchedig periglor St. Surplice weled yn dda, yn ychwanegol at ei weithredoedd rhinweddol oll, i anfon ataf Abad Gaultier, offeiriad, Mi a gyffesais iddo ef! Ac os gwel Duw yn dda fy nerbyn, yr wyf yn marw yn y sanctaidd eglwys Gatholig, yn yr hon y'm ganwyd; gan obeithio y bydd i drugaredd ddwyfol ganiatau maddeuant i mi o'm holl ffaeleddau. Os darfu i mi erioed waradwyddo yr eglwys, yr wyf yn erfyn maddeuant gan Dduw a chan yr eglwys hefyd am hyny. Yr ail o Mawrth, 1778.

(Arwyddwyd) 'VOLTAIRE.

'Yn mhresenoldeb Abad Mignot, fy nai, a'r Ardalydd de Villevieille, fy nghyfaill.

'Wedi i'r ddau dyst arwyddo eu henwau wrth y mynegiad uchod, ychwanegai Voltaire yr hyn a ganlyn.—'Gan ddarfod i'm cyffeswr, Abad Gaultier, fy hysbysu y dywed rhyw blaid o bobl y byddai i mi yn fy marwolaeth ardstio yn erbyn pob peth a wnaethum yn fy mywyd, Yr wyf yn arddatgan na ddywedais i erioed y fath beth, ac nad yw hyn ond hen ffug-chwedl a briodolid i lawer o ddysgedigion enwocach na mi!' Ai nid oedd y datganiad uchod yn brawf adnewyddol o'i ragrith parhaus? Oblegid yr oedd yn euog o'r rhagrith atgas hyd yn od yn nghanol ei ymdrechadau yn erbyn Crist'nogaeth, i dderbyn y sacrament yn rheolaidd, ac ymarfer defodau crefyddol ereill, yn unig er mwyn cael mantais i wadu ei anffyddiaeth os cyhuidd ef o honi.

'Caniaatodd Voltaire i'r datganiad uchod gael ei ddwyn at beriglor St. Surplice, ac at archesgob Paris, i gael eu barn hwy am dano. Erbyn i'r Abad Gaultier ddychwelyd gyda'r ateb, yr oedd braidd yn anhosibl iddo gael mynedfa at y dyoddefydd truenus. Ymdrechai ei hen gyfeillion a'u holl egni er atal eu pen campwr i berffeithio ei ddadgyffesiad. Cauasent bob mynedfa ato yn erbyn yr offeiriad, yr hwn yr anfonasai Voltaire ei hun am dano. Yr oeddynt yn gwyltio ac yn sicrau pob peth yn ei erbyn. Dros y gweddill o'i ddyddiau yr oedd yn barhaus naill ai mewn cynddaredd neu orphwylldra.

'Wedi hyn, ni chafodd D. Alembert, Diderot, ac yn nghylch ugain o'r un tylwyth, byth ddyfod i'w olwg ond i fod yn dystion o'i drueni ef a'u gwarth eu hunain. Rhegai a melldithiai hwynt yn fynych, 'Ewch ymaith!' meddai wrthynt, 'Chwi a'm dygasoch i i'm cyflwr presenol! Ewch ymaith! Gallaswn i wneyd heboch chwi, ond ni allasech chwi wneyd dim hebof fi! A pha anrhydedd truenus a enillasoch i mi!'

'Yna, canlynai yr adgof dychrynlyd o'i fywyd annuwaidd. Yr oedd yn ysglyfaeth i ddychryn, gofid ac anobaith, yn gweddio ar, ac yn cablu bob yn ail, y Duw hwnw y treuliasai hir fywyd o wrthryfel penderfynol i'w erbyn. Unwaith clywid ef yn uchel lefain, 'O Grist! O Grist! O Iesu! Yr wyf wedi fy ngadael gan Dduw a dynion!' Yr oedd ei hen arwyddair, 'Llethwch yr adyn,' megis pe buasai wedi ei ys-

grifenu ar galchiad pared ei ystafell; yn ofer y tröai ei wyneb draw, yr oedd megis o flaen ei lygaid yn mhob awr; yr oedd trwst yr ymadrodd hwnw yn ofnadwy yn ei glustiau ef.

'Yr oedd yr amser yn awr yn nesau i'r adyn annedwydd ymddangos ger bron brawdle yr hwn a gablasai. Mr. Troughin, ei feddyg, pan alwyd ef i mewn ato i weinyddu rhywgymhorth iddo, a giliai yn ei ol o'r ystafell mewn dychryn, gan ddywedyd, 'Y mae marwolaeth anfyddiad yn un ddychrynllyd, mewn gwirionedd!' A'r maes lywydd De Richelieu a fföai oddiwrth ochr y gwely, gan ddywedyd bod yr olygfa yn rhy ofnadwy i'w dal!

'Pan ddaeth Dr. Troughin gyntaf ato, cafodd ef yn y dychrynfeydd mwyaf, yn llefain, 'Yr wyf yn wrthodedig gan Dduw a dynion!' Yna gan droi at y meddyg, dywedai, 'Y doctor, mi a roddaf i chwi baner fy eiddo os rhoddwch i mi chwe mis o amser i fyw.' Atebai y meddyg, 'ni ellwch fyw chwech wythnos.' 'Yna,' ebai Voltaire, mi a gaf fyned i uffern, a chwithau i'm canlyn!' Fel hyn y trengodd pencampwr yr anfyddiaid diweddar. A feiddia un o honynt ddywedyd, 'Marw a wnelwyf o farwolaeth Voltaire, a bydded fy niwedd fel yr eiddo yntau?'

'O'r hanesion a adawyd i ni am ddyddiau diweddaf y rhai a'n blaenasant i fyd arall,' medd Simpson, 'y mae amryw yn fwy arswydus, ond ychydig yn fwy addysgiadol na'r hyn a roddir dan ei law ei hunan gan y diweddar ddawnwych Iarll Chesterfield. Y mae yn brawf eglur pa fath greadur tlawd ydyw dyn, er yr holl ragoriaethau a all gyrhaeddyd, pan yn ymddifad o'r wybodaeth a'r profiad a'r cysuron hyny a ddychon gwir grefydd yn unig eu rhoddi; a pha fath ffyliaid gwallcof ydyw y dynion hyny a wastraffant eu hamser heibio i ymlid ar ol meluswedd buchedd.

'Mi a fwynheais, medd yr ysgolhaig clodwych hwn, o holl bleserau y bywyd yma; ac o ganlyniad, mi a adwaen eu gwagedd, ac nid wyf yn galaru eu colli. Yr wyf yn eu prisio yn ol eu gwir werth, yr hwn mewn gwirionedd nid yw ond bychan iawn. Y mae y rhai anmhrofiadol bob amser yn eu prisio yn rhy uchel. Nid ydynt hwy yn gweled ond y tu

allan yn unig, a dellir hwynt gan eu dysgleirdeb rhithiol, ond bum i y tu hwnt i'r llèni yn eu profi drosof fy hunan. Y mae yn dybiaeth gyffredin a'r hon, fel llawer o'r cyfryw dybiau, sydd yn un eithaf anghywir, na all y rhai hyny a dreuliasent fywyd moethus neu fasnachol, fod byth yn dawel a llonydd mewn sefyllfa o ymneullduad ac unigolrwydd: pan yr wyf fi yn barnu mai hwyntwy yw yr unig bobl a allant, os byddant yn feddiannol ar synwyr a gallu i adfyfrio. Gallant edrych yn ol, heb eiddigeddu, ar yr hyn y maent oddiar wybodaeth a phrofiad yn diystyru; tra y mae ereill yn dyheu ar ol peth nad ydynt adnabyddus o hono. Yr wyf yn edrych ar yr oll a aeth heibio fel ar un o'r breuddwydion uthrawl hyny a achlysurir gan *opium*; ac ni ewyllysiwn mewn un modd ail gymeryd y ddogyn anymunol, er mwyn y breuddwyd gwamal. Wrth ddywedyd nad wyf yn teimlo galar am yr hyn a aeth heibio, nid wyf yn golygu fy mod yn ddieuog, oblegid ni fu bywyd masnachol erioed, llawer llai un o feluswedd, yn fywyd o ddiniweidrwydd. Ond y mae lle i obeithio y bydd i Dduw, yr hwn sydd yn wybodus o nerth y nwydau dynol, ac o wendid y rheswm dynol, yn hytrach fadden yn drugarog, na chospi yn gyfiawn y ffaeiddau a gydnabyddir. Mi a fum mor ddrygionus ac mor ofer, er nad mor ddoeth, â Solomon: ond yn awr o'r diwedd yr wyf yn ddigon doeth i deimlo ac ardystio gwiredd ei sylwad—mai gwagedd a gorthrymder ysbryd yw pob peth. Ni chanfyddir ac ni theimlir y gwirionedd hwn byth yn briodol ond trwy brofiad; y mae profiad yn yr achos hwn yn llwyr anghenrheidiol er argyhoeddiad, er dichon y bydd hyny ar draul peth moesoldeb.

'Y mae fy iechyd bob amser yn wael, er weithiau yn waeth ac weithiau yn well: a'm byddardod a'm hymddifada o gysuron cymdeithas y rhai a'fwynhâ pobl ereil yn eu cystuddiau. Hyn chwi a welwch sydd yn ddiweddiad anhapus a blinderus i'm bywyd; ond rhaid i mi addef hefyd, ei fod yn fath o gyfartaliad i bleserau gorwyltton a dychymyngol y rhan flaenorol o hono. Yr wyf yn ystyried fy hen ddyddiau truenus presenol fel ad-daledigaeth gyfiawn am ffoleddau, heb ddywedyd pechodau, ieuencid. Ar yr un pryd, yr wyf yn ddiolchgar nad wyf yn teimlo y poenau arteithiol a deimlir

yn fynych yn nyddiau diweddf bywyd ; ac yr wyf yn lled addaw im' fy hun y caf ymadael yn esmwyth—ond yr wyf yn sicr gydag ymroddiad. Ni all fy arosfa yn y byd hwn fod yn faith eto ; Duw, yr hwn a'm gosododd yma yn unig a wyr pa bryd y bydd iddo fy ngalw allan o hono ; ond pa bryd bynag y gwna, mi a ufuddhaf yn ewyllysgar i'w orchymyn ; yr wyf yn dysgwyl am dano, dan ddeisyf trugaredd fy Nghreawdwr ac arswydo ei gyfiawnder. Rhaid i'r goreu o honom ymddiried i'r cyntaf ac ofni yr olaf.

' Yr wyf yn meddwl nad oes arnaf ofn diwedd fy ngyrfa ; ond mi allaf ateb drosod fy hun, pan y delo angeu yn bur agos ac yn bur sicr. Oblegid pan y mae un yn gweled angeu yn agosau, dywedod y dynion goreu a gwaethaf a fynnon, ystyr-iaeth ddifrifol iawn ydyw. Y briodoledd ddwyfol o drugaredd, yr hon a rydd i ni gysur, ni all beri i ni anghofio y briodoledd o gyfiawnder, ac ni ddylai chwaith ; yr hyn a raid gymysgu peth ofn gyda'n gobaith.

' Nid yw bywyd yn faich nag yn bleser i mi. Pan fedd-lyliwyf, pa fodd bynag, am weddill fy oes dlawd, yr wyf yn edrych arno fel baich a raid ddyfod bob dydd yn drymach drymach, o herwydd cynnydd naturiol gwendidau corphorol, cymdeithion arferol blynyddau a dyddiau henaint. Dywed fy rheswm wrthyf y dylwn ddymuno fy niwedd ; ond greddf, yr hon sydd yn aml yn gryfach na rheswm, ac hwyrach yn aml yn ei lle, a bwr i mi arfer pob moddion er oedi amser fy ymddattodiad. Y teimlad mewdol hwn yn unig a bwr i mi oddef beichiau bywyd gydag amynedd ; oblegid yr wyf yn sicrhau i chwi nad oes genyf unrhyw obeithion pellach oddi-wrt ho : ond yn y gwrthwyneb, llawer o ofnau. Ni allai un o'r Anarchoriaid yn y Thebais gynt fod yn fwy diawydd i fywyd nag wyf fi. Yr wyf yn edrych arno fel peth nad oes genyf fi ddim a wnelwyf âg ef ; ac hyd yn od pan feddlyliwyf am yr hyn a welais, a glywais ac a wnaethum, prin y gallaf berswadio fy hun bod holl faldorddus helyntion a phleserau y byd yn ddim angen na dychymygion—ond ymddangosant nad oeddynt ond breuddwydion nosweithiau blinion. Nid yw y golygiad hwn, diolch i Dduw, yn fy ngwneuthur yn drallodus na phruddglwyfus. Yr wyf yn gweled ynfydrwydd a ffolineb dynolryw heb sorian nag anynadrwydd. Dymunwn

eu bod yn ddoethach, ac o ganlyniad yn well nag y maent.'

'Dymafywyd,' medd Mr. Simpson, 'dyma gydnabyddiaeth siomedigaethus, a dyma ddiwedd tlawd a llechgïaidd y dyn o ddygiad i fynu goreu yn ei oes.' Dim un gair am Gyfryngwr! Efe a gydnabydda ei ffaeleddau yn wir, ond eto yn y fath fodd ag i esgusodi ei euogrwydd. Gallem dybied mai hen athronydd Paganaid, yr hwn ni chlywsai air o sôn erioed am enw Iesu Grist ydoedd. Pa mor fychan a thlawd ydyw dyn yn y cyflwr mwyaf coethedig, heb grefydd!'

'Yr hwyr trwm, o flaen marwolaeth yr ardderchog Altamont,' medd Dr. Young, 'yr oeddwn i gydag ef: nid oedd neb arall yn bresenol ond ei feddyg, a chyfaill iddo yr hwn a fawr garai, a'r hwn a wenwynasai âg egwyddorion anffyddiaeth.'

'Yr ydych chiwi a'r meddyg wedi aros yn rhy ddiweddar,' eb efe, 'nid oes genyf fi na bywyd na gobaith. Yr ydych yn amcanu at wyrthiau—mynech godi y marw!'

'Y mae y nefoedd yn drugarog' meddwn wrtho. 'Ydyw,' oedd ei ateb, 'neu ni allaswn i fod mor druenus. Pa beth na wnaeth er fy mendithio a'm hachub? Bum yn rhy gryf i Hollalluogrwydd. Mi a ddinystriais fy hun!'

'O! y Gwardwr bendigedig,' meddwn wrtho, 'Peidiwch! peidiwch!' meddai, 'yr ydych yn fy nghlwyfo i! Dyma y graig ar yr hon yr wyf yn dryllio! Mi a wedais ei enw!'

'Gan wrthod gwrando dim arnaf fi, na chymeryd dim gan y meddyg, efe a orwedda i ddystaw, mor belled ac y gadawai picellau llymion gofid iddo, nes y tarawai yr awr-lais: yna llefai gyda nerth, 'O! Amser! Amser! A ydyw yn iawn i ti fel hyn daro dy lofrudd hyd y galon? Pa fodd yr wyt yn dïangc am byth—mis—O am un wythnos! Nid wyf yn gofyn am flynyddau, er y byddai oes yn rhy fer at y gwaith sydd genyf fi i'w wneuthur.'

'Ni allwn wneuthur gormod,' ebe fi, 'y mae y wobr yn y nef mor fawr.'

'Cymaint a hyny mwy yw fy nhrueni i,' ebe yntau, 'y mae wedi ei cholli! Y mae wedi ei cholli! Y mae y nefoedd i mi yn waeth nag uffern.'

'Yn fuan wedi hyn cynhygiais fyned i weddi. 'Gweddiwch chiwi, y rhai a fedrwch weddio,' eb efe, 'ni weddiais i

erioed, ni fedraf weddio, ac nid oes angen arnaf i weddio. Ai nid yw y nefoedd o'm tu eisoes? Y mae yn cyd-dystio a'm cydwybod—ei ddyrnodiau trymaf nid ydynt ond eiddo yr eiddof fy hun.'

'Ei gyfaill, wedi ei ddwys effeithio erbyn hyn, ni allasai ymatal oddiwrth ddagrau (ac yn wir pwy a allasai?)—gyda'r edrychiad mwyaf serchiadol, efe a ddywedai,

“Cadw y dagrau yna i ti dy hunan. Paid a wŷlo drosof fi—y mae hyny yn greulon. Pa beth a ddychon fy mhoeni yn fwy.'

'Yna ei gyfaill, wedi ei lwyr orchfygu gan ei deimladau, a fynasai ei adael.

“Na aros,' eb efe, 'gelli di obeithio eto. Gan hyny, gwrando fi. Mor wallcofus y gwnawn i siarad! Ac mor ynfyd y gwrandewit ac y credit dithau! Ond edrych ar fy nghyfiwr presennol fel atebiad llawn i ti ac i minau. Y mae y corph hwn yn llawn o wendid a phoen; ond fy enaid, fel pe codid ef i fynu gan ddirboen i fwy o nerth a bywiogrwydd, sydd yn llawn alluog i ymresymu—yn llawn nerthol i ddyoddef. A'r hwn sydd fel hyn yn buddugoliaethu rhwng cildanedd marwoldeb, sydd anfarwol yn ddiau. Ac mewn perthynas i hanfodiad Duwdod, ni allai dim llai na Holl-alluogrwydd beri i mi deimlo fel ag yr ydwyf.'

'Yr oeddwn ar gyfarch y cyffesydd anewyllysgar hwn, ar ei waith yn datgan dwy brif egwyddor ei gredo, yr hyn a wesgid oddiwrtho gan arteithiau cystudd, pan y'm hataliai mewn modd tra chyffrous, gan ddywedyd,

“Na, na, gadewch i mi fyned yn mlaen, nid oes genyf fawr o amser i fyw. Fy nghyfaill anrheithiedig, fy enaid fel fy nghorph a orwedda mewn dinystr; yn ddarnau gwasgaredig o feddwl drylliog: hunan-gondemniad am a aeth heibio a deif fy meddwl ar yr hyn sydd i ddyfod. Arswyd gwaeth o'r hyn sydd i ddyfod a'i tery yn ol at yr hyn a aeth heibio. Pe teimlit haner pwys y mynydd a orwedd arnaf fi, ti a ymrysonit a'r merthyr am ei 'stange, ac a fendithit y nef am y fflamau—nid yw y rhai hyn yn fflamau tragwyddol; nid yw hwnw yn dân anniffoddadwy.'

'Pa mor ddwys y'n heffeithid gan ei eiriau! Ond yn llawer mwy yn fuan wedi hyn. Gyda pha fath olwg orphwyllog

y fath edrychiad, o anobaith y llefai allan, 'Fy egwyddorion a wenwynasant fy nghyfaill; fy afradlonedd a dlododd fy mhlentyn; fy nrahamusdra a lofruddiodd fy ngwraig! Ac a oes uffern arall? O! dydi gabledig, ac eto dirionaf Arglwydd Dduw! Uffern ei hun sydd yn noddfa, os cuddia hi fi rhag dy wg.'

'Pallodd ei synwyr yn fuan wedi hyn. Ei ddychymyg brawychus a barai iddo draethu pethau rhy ddychrynlyd i'w hail-adrodd, na'u banghofio. A chyn cyfodiad yr haul, yr oedd y llawen, yr ieuangc, yr ardderchog, yr athrylithgar, y coethedig, ond, y truenusaf Altamont wedi trengu.'

Rhydd Mr. Cumberland yn yr *Observer*, un o'r banesion pruddaf a mwyaf galarus a adroddwyd erioed, am foneddwr o egwyddorion anffydddaidd, yr hwn a eilw efe Antitheus. 'Yr oeddwn yn ei gofio,' medd efe, pan oedd yn uchder ei rwysg, yn ben-campwr ei blaid: mawrygid, caulynid, a chanmolid ef gauddynt yn gyffredinol. Addefai ei gyfeillion ei fod yn lled benrhydd ei foesau, ond beth er hynny, yr oedd y creadur gonestaf ar wyneb y ddaear. Nid oedd wiw gwadu nad oedd yn lled rydd yn ei olygiadau; ond nid oedd ei burach a'i ffyddlonach yn y byd. Adwaenwn ddynion o'r nodweddau sobraf, a arferent edrych dros ei ystranciau, o herwydd ei fod mor ddyddau a medrus—yr oedd yn anhosibl digio wrtho. Yr oedd pob peth yn myned yn mlaen yn hwylus gydag ef, ac ymddangosai fod Antitheus yn uwchder anrhydedd a llwyddiant dynol, pan darawyd ef yn ddisymwth â'r anhwylddeb mwyaf peryglus. Yr oedd y pryd hwn mewn palas oedd gahiddo yn y wlad, a dygwyddai yr amser yma fod ei hunan, yr hyn oedd yn beth tra anarferol iddo ef. Nid oedd ganddo wraig a theulu; ac o holl luaws ei gyfeillion, ni ddygwyddai bod un yn agos ato y pryd hwn. Galwyd meddyg ag oedd yn byw yn y gymydogeath o'i wely yn nyfader y nos, i ddyfod ato gyda phob brys. Cafodd ef yn eistedd yn ei wely, yn cael ei gynnal gan glustogau, a'i wyneb-pryd yn llawn dychryn; yn ymdrechu am ei anadl fel pe buasai yn ngafaelion marwolaeth, ei waed-gur (*pulse*) yn afreolaidd, ac ar brydiau yn curo mor gyflym fel na ellid braidd eu cyfrif. Anfonai ei weinyddwyr o'r ystafell, a gofynai mewn pryder mawr i'r meddyg, a oedd yn meddwl ei fod mewn perygl?

‘Rhaid i mi ddywedyd yn onest wrthydh,’ ebai y meddyg. ‘eich bod mewn perygl mwyaf.’ ‘Paham felly! Paham felly! a ydych yn meddwl fy mod yn marw?’ ‘Y mae yn ddrwg genyf ddweyd, y mae pob arwyddion o hyny.’ ‘Anmhosibl! rhaid i chwi beidio a gadael i mi farw: ni allaf feiddio marw: O! y Doctor, achubwch fi os gellwch.’ ‘Y mae eich sefyllfa y fath, Syr, nad yw yn fy ngallu i, nag un dyn arall eich achub, ac yr wyf yn meddwl na chyflawnwn fy nyledswydd, pe daliwn unrhyw obeithion siomedig o’ch blaen yn y munndau hyn, y rhai, os nad wyf yn cam-gymeryd, na allant fod yn fwy na digon i chwi sefydlu unrhyw amgylchiadau bydol, neu ryw bethau ereill, a ddychon fod ar eich meddwl.’ ‘Y mae fy meddwl yn llawn dychrynfeydd,’ eb efe, ‘Yr wyf yn analluog i ymbarotoi erbyn marw,’ yma syrthiai mewn pangfa o ofid, yr hyn a ganlynid a chawod o ddagrau. Gweinyddid-cysurlyn (*cordial*) iddo, ac adfywiodd i ryw radd, a chan droi at y meddyg, yr hwn a ddaliai ei fys ar ei waed-gur, gofynai yn frawychus iddo, ai nid oedd yn canfod gwaed ar y lleni cyferbyniol, ger traed y gwely. Nid oedd yno ddim i’w weled, a sicrhau y meddyg iddo nad oedd hyny ddim ond ei ddychymyg ef. ‘Yr wyf yn ei ganfod yn eglur,’ ebai yntau, ‘ar ddull llaw dyn: ymddangosodd drychiolaeth arswydus i mi. Fel ag yr oeddwn yn gorwedd yn effro yn fy ngwely heno, cymerais yn fy llaw lythyr cyf-aill i mi, yr hwn sydd wedi marw, gyda golwg ar symud ymaith ryw feddyliau a barent anesmwythdra i mi. Yr oeddwn yn meddwl ei fod ef yn philosophydd mawr, ac enillwyd fi i’w olygiadau. Cefais fy mherswadio, gan ei resymau ef, yn nghyd a’ m calon fy hun, na all fod amgylchiadau annhrefnus y byd drygionus hwn yn cael eu llywodraethu gan Fod cyfiawn, doeth, a darbodus, a deuthum i feddwl nad oes y fath fod; a bod yn rhaid i fywyd a gynhyrchid gan ddamwain, derfynu mewn dyddymdra. Dyna yw cynwysiad ym-resymiad y llythyr hwnw, a’r cyfryw oeddynt y meddyliau a weithient yn fy mynwes pan ymddangosodd drychiolaeth fy anwyl gyf-aill ger fy mron, a chan symud lleni fy ngwely safai gyferbyn a mi, gan edrych yn ddirif-ddwys arnaf am gryn amser. Suddai fy nghalon ynof yn yr olwg arno, oblegid yr oedd ei wyneb-pryd yn welwaidd ac yn orlawn o

ddychryn, a'r fath wedd-ddelwad o ing na allaf byth ei ddysgrifio. Yr oedd ei lygaid wedi eu sefydlu arnaf, ac o'r diwedd, efe a lefai, gan ysgwyd ei ben yn ofidus—'Och! och! yr ydym mewn cyfeiliornad dinystriol!' a chan ymaflyd yn y lleni a'i ddwyllaw, efe a'u hysgydwai yn arswydus, yna diflanai. Yr wyf yn tystio i chwi ddarfod i mi weled a chlywed y pethau hyn; ac edrychwch, y mae ol gwaedlyd ei law wedi ei adael ar y lleni!'

Yn mhen ychydig wedi adroddiad y pethau hyn, bu Autitheus farw mewn poenau a dychrynfeydd dirfawr.

'Ychydig amser yn ol,' medd y Parch. Mr. Hervey, mewn llythyr at gyfaill, 'Galwyd fi i ymweled a boneddwr truan, oedd wr o'r cyfansoddiad naturiol cryfaf, a llawenaf ei dymher, a adnabum erioed. Ond yr amser yr ymwelais ag ef, O, fel yr oedd y gogoniant wedi ymadael. Nid oedd mwyach yn fab llawenydd fel yr arferai fod, ond yn dihoeni, yn nychu ymaith, ac yn gwywo dan law geryddol Duw—ei aelodau yn egwein a chrynedig; ei wyneb-pryd yn athrist a gwelw; a'r ychydig anadl oedd yn weddill ganddo, yn cael ei anfon allan mewn ocheneidiau galarus—ei gorph a brysurai i'r llwch i letya yn y dystaw fodd, ardal tywyllwch anrheithiol—ei enaid ar fyned at Dduw, yr hwn a'i rhoes ef, ac ymbarotol i ehedeg ymaith i'w sefyllfa drag'wyddol ac anghyfnewidiol! Pan aethum i'w ystafell, ac eistedd ar ei wely, efe a dafiai y golwg mwyaf awyddus arnaf, a dechreuai lefaru gystal ag yr oedd yn alluog—'O! na buaswn ddoeth, na wybuaswn hyn, nad ystyriaswn fy niwedd! Ha, Mr.—, y mae angeu yn curo wrth fy nrws: yn mhen ychydig oriau eto, mi a dynaf fy anadliad olaf, ac yna, y farn, y farn ofnadwy. Pa fodd y gallaf ymddangos, yn anmharod fel yr wyf, ger bron yr Hollwybodol a'r Hollalluog Dduw? Pa fodd y gallaf oddef dydd ei ddyfodiad?' Pan grybwyllais, yn mysg llawer o bethau ereill, am y sancteiddrwydd hwnw, a wawdiasai efe mor fynych, efe a atebai, 'O! y sancteiddrwydd hwnw yw yr unig beth yr wyf yn awr yn hiraethu am dano: ni feddaf ar eiriau i ddywedyd i chwi pa mor uchel yr wyf yn ei brisio. Mi a ymadawn yn llawen a'm holl etifeddiaeth, er mor helaeth ydyw, ie, a'r byd pe meddwn ef, er ei feddu. Y mae fy llygaid yn awr wedi eu hagoryd; yr wyf

yn gweled yn amlwg pa bethau sydd ag ardderchogrwydd ynddynt. Pa beth sydd yn y lle yr wyf ar fyned iddo ond Duw? Neu pa beth sydd ddymunol ar y ddaear ond crefydd? 'Ond pe byddai i'r Duw hwn eich adferu eto i iechyd,' meddwn i, 'a ydych yn meddwl y byddai i chwi newid eich dull blaenorol o fyw?' 'Yr wyf yn galw nefoedd a daear yn dystion,' eb efe, 'y llafuriwn am sancteiddrwydd, fel y byddaf yn fuan yn ymdrechu am fywyd. Gyda golwg ar gyfoeth a phleserau, a chaumoliaeth dynion, yr wyf yn eu cyfrif yn sorod a sothach, na allant wneyd mwy tuag at fy nedwyddwch na'r manblyf sydd ar y llawr. O! pe byddai i'r barnydd cyfiawn wneyd un prawf arall o honof! Pe arbedai fy mywyd am ychydig amser eto, yn mha agwedd y treuliwn y gweddill o'm dyddiau! Ni feddyliwn am un gwaith arall, amgen na pherffeithio fy hun mewn sancteiddrwydd! Pa beth bynag a dueddai at hyny, pob moddion o ras, pob cyfleustra at gynydd ysprydol, a fyddai yn anwylach i mi na miloedd o aur ac arian. Ond, och! Pa ham yr wyf yn hudo fy hunan gyda dychymygion hoff? Y mae y penderfyniadau goreu yn awr yn ddiwerth, oblegid eu bod yn rhy ddiweddar. Y mae y dydd yn yr hwn y dylaswn weithio drosodd, ac yr wyf yn gweled nos dychrynlyd yn agosau, yn dwyn gyda hi niwl tywyllwch yn dragywydd. O hyn allan, Gwae fi! Mi a wrthodais pan oedd Duw yn galw—pan oedd ef yn gwa-hodd, ymesgusodwn inau. Yn awr gan hyny yr wyf yn derbyn taledigaeth fy ngweithredoedd: y mae dychrynfeydd yn dyfod arnaf; yr wyf mewn ing a chyni eisoes, ac eto nid yw hyn ond dechreuad gofidiau! Nid ymddengys eto beth a fyddaf, ond yn sicr byddaf ddinystriol, colledig, a thragwyddol druenus.'

'Yr olygfa ddirif-ddwys hon a welais a'm llygaid—y geiriau hyn, a llawer ychwaneg o'u cyffelyb, a glywais a'm clustiau; ac yn fuan wedi hyny, canlynais gorph y boneddwr anedwydd i'r gladdfa.'

'Yr anrhydeddus Francis Newport, yr hwn a fu farw yn y fl. 1692, a gawsai ei ddwyn i fynu mewn dysgeidiaeth a chrefydd. Wedi treulio pum mlynedd yn y brif ysgol, cyflwynwyd ef i gael addysg yn y gyfraith. Yma syrthiodd i ddwyllaw anffyddiaid, collodd ei holl argraffiadau crefyddol

a daeth yn anffyddiad ei hun, ac yn un o'r nodweddau gwaethaf; ymunai â chymdeithas o ddihirod, y rhai a ymgasglent at eu gilydd yn wastadol i'r dyben i anog ac addysgu y naill y llall mewn drygioni. Aeth yn mlaen yn y dull hwn am amryw flynyddau, nes o'r diwedd y dygai ei arferion anghymedrol afiechyd a chystudd arno, yr hwn a adfywiai ei argraffiadau crefyddol blaenorol ar ei feddwl, yr hyn a ddylynid gan ddychrynfeydd annhraethadwy. Yr oedd ei boenau mor angherddol nes y chwysai yn foddfa. Mewn naw niwrnod o amser, dygid ef o sefyllfa o iechyd cryf, i gyflwr o fawr lesgedd a gwendid; drwy ystod yr holl amser, yr oedd ei iaith yr un fwyaf arswydus a all calon ddychymygu. Unwaith, pan yn edrych ar y tân, efe a dorai allan, 'O! na chawn orwedd i rostio ar y tân acw am gan mil o flynyddau, er pwr-casu heddwch Duw, ac i gael fy nghymodi ag ef drachefn! Ond dymuniad diffrwyth ac ofer ydyw; miliynau o flynyddau ni'm dygant yn nes i ddiwedd fy mhoenau nag un awr fer. O dragwyddoldeb! dragwyddoldeb! pwy all osod allan yn briodol yr ymadroddion, Yn oes oesoedd!'

'Aeth yn mlaen yn y dull hwn, nes y darfu ei nerth; ac wedi adgaffael ychydig anadl, gyda'r fath ochenaid uchel a dychrynlyd, ac na allesid braidd gredu iddi ddyfod allan o fynwes dyn, efe a lefai allan, 'O! annyoddefol boenau uffern a damnedigaeth!' ac felly bu farw. Sefydlodd marwolaeth y fath ffurf ar ei wedd, megis pe buasai y corph, er yn farw, yn deimladwy o eithafoedd poenau.'

Mr. Hobbes, y soniwyd am dano yn achlysurol yn y gwaith hwn o'r blaen fel un o athrawon anffyddiaeth y deyrnas hon, er y gallai gyda'i gyfeillion siarad yn rhyfygus a chellweirus am Dduw a byd arall, pan ar ei ben ei hun, yr oedd yn ysglyfaeth i ofnau ac arswyd. Yn ei ddyddiau olaf, ni allai ddyoddef clywed son am farw. Bu fyw uwchlaw deg-aphedwar-ugain mlynedd. Ei eiriau diweddfaf oeddynt, pan welai na allai fyw yn hwy, 'Mae yn dda genyf ynte i gael twll i gripio allan o'r byd trwyddo.' Ac er ei holl uchel honiadau i ddysgeidiaeth a gwybodaeth, anesmwythder ei feddwl a'i gwasgai i gyffesu pan oedd yn tynu tua diwedd ei yrfa, ei fod 'ar gymeryd ei naid i dywyllwch.'

Ysgrifeniadau yr hen bechadur hwn a wenwynasant Iarll

Rochester, a llawer o foneddigion ereill o'r talentau gwychaf yu y wlad hon, fel yr addefai y pendefig hwnw wedi ei ddychweliad.'

Ymdrechai yr anffyddiad nodedig Hume i dreulio ei ddyddiau olaf mewn cellwair a chog-ddigrifwch. Addefai na ddarllenasai y Testament newydd erioed gyda dyfalwch. Penderfynai farw fel y buasai fyw, yn wadwr crefydd. Yn fyr, bu farw 'fel y mae yr ynyd yn marw.'

'Yn nghylch dyddiau diweddaf T. Paine, nid oes nemawr wybyddiaeth ar gael; ei 'weddillion truenus a gladdwyd yn marwolaeth' yn nghyffandir America. Yr oedd er ys blynyddau wedi ymroddi i bob math o halogedigaeth bywyd—yn adyn di-barch a di-gymeriad: yr oedd y byd megis wedi blino arno, ac yn barod i'w hysio allan; ac efe a ymadawodd heb hiraeth am dano.

Galleid lluosogi yr hanesion am farwolaethau truenus anffyddiaid, hen a diweddar, nes chwyddo llyfr o gryn faint-ioli: ond terfynwn gydag un hanesyn eto am oriau diweddaf pendefig urddasol, yr hwn, er nad yw yn gwbl amlwg ei fod yn anffyddiad professedig, eto a fuasai byw yn rhy debyg iddynt. Gosodir ei brofiad yn ei eiriau ei hun, ysgrifenedig mewn llythyr at gyfaill iddo, ychydig amser cyn ei farwol-aeth.

'Anwyl Syr,—Cyn y derbynioch hwn, bydd fy sefyllfa dragwyddol wedi ei sefydlu gan Farnydd yr holl ddaear. Yn mhen ychydig ddyddiau o bellaf, hwyrach, cyn pen ychydig oriau, y ddedryd annocheladwy a gyhoeddir, yr hon a'm cyfyd naill ai i uchelderau dedwyddwch, neu a'm sudda i ddyfnderau trueni. Pan fyddoch chwi yn darllen y llinellau hyn, byddaf fi, naill ai yn gruddfan dan ddirboenau bythol a nobaith, neu yn gorfoleddu mewn cyflawnder o lawenydd.

'Y mae yn anmhosibl i mi draethu agwedd bresennol fy meddwl, y mawr ansicrwydd yr wyf yn ymryson ag ef! Nid oes geiriau a ddychon ddarlunio grym a bywiogrwydd fy amgyffredion. Y mae pob amheud yn gwisgo agwedd wgus, a llwyr orthrechid fi oni bai rhyw belydrynau gweiniaid o obaith, y rhai a saethant drwy y tywyllwch arswydawn! Pa dafod a all draethu gwasgfa enaid rhwng yr eithafion o anfeidrol lawenydd, a thragwyddol drueni? Yr wyf yn tafu

fy antur olaf am dragwyddoldeb, ac yn crynu gyda golwg ar y canlyniad pwysig.

‘Dduw daionus! Pa beth a fum yn ei wneuthur! Pa hudoliaeth a’m daliodd! Pa mor wallcof y treuliais fy mywyd! Pa beth y bum yn ei gylch, pan oedd yr haul yn ei yrfa, a’r sêr yn eu cylchoedd yn bentyŷa eu goleuni, hwyrach, yn unig i’m goleuo i golledigaeth.

‘Ni ddeffrôais erioed hyd yn bresennol. Nid wyf ond newydd ddechreu cymeriad bod rhesymol. Hyd y munudau hyn, nid oedd genyf ond dirnadaeth gyfeiliornus am bob peth yn natur. Mi a redais ar ol cysgodion, porthais fy hun â breuddwydion, bum yn trysori llwch, ac yn dyfyru fy hun â gwynt a gwagedd. Yr wyf yn edrych yn ol ar fy mywyd a aeth heibio, ac, oni bai y cofion am ei euogrwydd a’i halogrwydd, y mae oll yn wag-nod, perffaith wag-nod. Gallaswn bori gydag anifeilïaid y maes, neu ganu gyda phreswylwyr adeiniog y goedwig, i lawer gwell dyben na dim y bum byw iddo. Ac O! oni bai rhyw obaith gwan, milwaith mwy dedwydd a fuaswn i gysgu gyda llwch y dyffryn, heb erioed glywed llais yr Hollalluog, na deffro i fywyd ar ei orchymyn.

‘Ni ddarfu i mi erioed amgyffred yn briodol ddifrifoldeb fy sefyllfa hyd yn bresennol. Mi a edrychwn ar angeu yn fynych, gan ei watwar ar faes yr ymdrech, a chyda bost ynfyd heriwn ei ddychrynfeydd gyda gwroldeb mor anifeilïaid a’r eiddo y march rhyfel; rhuthrwn i’r frwydr gan chwerthin ar y wayffion ddysglær a llawenychu wrth lais yr udgorn, heb feddwl am un sefyllfa tu hwnt i’r bedd, na’r frawdle fawr o flaen yr hon y rhaid i mi ymddangos—

‘Lle dygir i’r goleu fy nîrgel enogrwydd,

A’m holl amgylchiadau i berffaith amlygrwydd.

Hyn sydd yn arfogi angeu a’i holl ddychrynfeydd, neu mi a allwn eto watwar ofn, a gwenu yn wyneb y teyrn tywyll. Nid rhoddi i fynu fy anadl, nid bod yn dragwyddol annheimladwy, ydyw y meddwl a’m brawychai; yr arswydus ‘*wedi hyny*,’—y rhyw beth tu hwnt i’r bedd, ydyw yr hyn a bâr i mi gilïo yn ol. Y sylweddau mawrion hyny, y rhai yn oriau digrifwch a gwagedd a drinwn fel drychiolaethau, fel coegfreuddwydion dynion ofer-goelus; y rhai hyn a neidiant yn mlaen ac a’m wynebant yn awr yn eu heglurder mwyaf braw-

ychus. Fy nghydwybod ddeffröedig a deimla rhyw faint o'r dialedd tragwyddol hwnw a heriwn gynt.

'I ba uchelderau o wallcofrwydd y mae yn bosibl i'r natur ddynol gyrhaeddyd! Pa ynfydrwydd ydyw cellwair ag angeu, i chwerthin ar ddamnedigaeth, i chwarae a chadwyn-au tragwyddol, a dyfyru dychymyg â golygfeydd y trueni uffernol! Pe na byddai dim anñuwiaeth yn y rhywogaeth hwn o gellwair, byddai mor anmhriodol ag a fyddai ceisio dyfyru cyfaill ar wely angeu, drwy gyrchu digrif-was ato, neu adrodd coeg-chwedl wrtho. Ymddengys pob peth yn natur fel yn gwaradwyddo y gwamalrwydd hwn mewn dynion. Y mae yr holl greadigaeth, ond dyn, yn ddifrifol; dyn, yr hwn sydd ganddo yr achos mwyaf i fod felly, tra y mae ganddo amgylchiadau o dragwyddol ganlyniadau yn dybynu ar y bywyd byr a brau hwn. Gallai adyn condemniedig fyned tu a'r dienyddle dan ddawnsio gyda'r un priodoldeb ag y mae y rhan fwyaf o ddynolryw yn myned gyda'r fath sirioldeb anystyriol tu a'u beddau.

'O! fy nghyfaill, gyda pha ddychryn yr wyf yn adgofio yr oriau hyny o wagedd a dreuliasom yn nghyd! Dychwelwch fomentau a gollwyd ac a esgeuluswyd! Pa fodd y gwerthfawrogwn chwi uwchlaw y trysorau dwyreiniol! Gadewch i mi fyw fel y mendwy, gorphwys ar y ddaear oer, cyfeillachu mewn bythod, pe cawn unwaith eto sefyll yn ymgeisydd am y goron anfarwol, a chael ail brawf am ddedwyddwch nefol.

'Chwi weigion fawr-wychderau llys! Chwi ditlau sein-fawr, a thrysorau darfodedig! Pa beth ydych o werth yn bresennol? Pa gysur, pa esmwythad a ellwch roddi? Mia gefais fynedfa ysplenydd; i'r bedd yr wyf yn marw mewn teyrn-wychder, yn llesgau dan ortho goreuredig; yr wyf yn trengu ar glustogau tyner man-blüog; yn cael fy ngweini yn ofalus gan fy ngweinidogion a'm meddygon—fy ngharedigion a och-eneidiant, fy chwiorydd a wylant, fy nhad'oedranus a gryma dan bwys llwyth o flynyddau a gofid; fy anwyl briod, yn welw a dystaw, a ymdrecha guddio iing ei meddwl; fy nghyfaill, yr hwn a garwn fel fy enaid fy hun, a etyl ei alar, ac a'm gedy er cuddio ei ddirgel dristwch. Ond O! pa un o'honynt oll a etyb i'm gwýso at y frawdle fawr? Pa un

honynt a'm gwystla o ddalfa angen? Pwy a ddysgyn i gar-char tywyll y bedd yn fy lle? Yma y byddant oll yn fy ngadael, wedi cyflawni rhyw wag seremoni uwch ben y dywarchen ddifywyd; yr hon, hwyrach, a orwedda mewn gwychedd, pan fyddo fy enaid, fy unig ran deimladwy, yn sefyll yn grynedig, hwyrach, ger bron ei Farnwr. Fy nghyf-eillion galarus, y mae yn bur debygol, gyda difrifoldeb mawr a osodant y corph dideimlad i orwedd mewn cromgell orwech, ac yn ysgrifenedig arni,—

'YMA GORWEDD YR ARDDERCHOG'—

(Ond pe gallai yr ysgerbwd marwol lefaru, efe a atebai yn fuan)

'GELWYDDOG FYNOR,—PLE?

NID OES OND LLWCH GWAEL YN GORWEDD YMA.

'Pan fyddo rhyw folawd wenhieithus yn cael ei datgan ar fy nghladdedigaeth, gallaf fi hwyrach fod yn gwrando fy nghyfiawn ddedryd gollfarnol o flaen barn-fainc uwch, yn fy niofrydu i dragwyddol warth. Ond yr wyf yn treiglo fy hun ar rād drugaredd Duw trwy anfeidrol haeddedigaethau y Gwaredwr. Yn iach fy anwyl gyfaill nes y cyfarfyddom yn myd yr yspryoedd.'

Wel fy narllenydd hoff tybiaf eich bod yn barod i achwyn arnaf am eich dal cyhyd, ach bod yn barod er ysmeityn ddiānc allan o'r ystafelloedd tywyllion a dychrynlyd hyn! Oni allasech dybio bod tōnan tanlyd llynclyn colledigaeth yn cael eu cynhyrfu gan anadl yr Hollalluog yn ymdori i fynwesau y truenusion diobaith yr ochr yma i angen? Cyn ymadael, aroswech funud i gymeryd adolwg fer arnynt, i'r dyben i ffurfio a sefydlu eich barn am ansawdd yr egwyddorion a'r bywyd a arweinient i'r fath ddiwedd anhapus. Pwy oeddynt, y rhai y buom yn edrych ar eu diwedd? Dysgedigion, anianyddion, doethion eu hoes, pendefigion urddasol, gan mwyaf: rhai a gawsent lawer o fanteision, dygiad da i fynu; rhai a berchid ac a anrhydeddid fel y dynion o'r doniau a'r talentau gwychaf. Gelynon Duw, dirmygwyr ei air, a gwadwyr crefydd, oeddynt oll; a gwelsom pa fodd yr ymdarawsant yn eu diwedd. Un yn ymgynnddeiriogi, yn ceisio gweddio, ac yn cablu bob yn ail; yn ceisio dyhuddo ei gydwybod anniddig

A'r rhagrith ffaidd hwnw, a arferasai ar hyd ei hir fywyd— yn ewyllysio cael cymod a chymorth y Duw a'r grefydd, ac y treuliasai ugeiniau o flynyddau i'w dirmygu a'u gwadu. Un arall yn ceisio llechian allan o'r byd, dan gochli ei deimladau ofnus, ac ymdrechu dangos ei fod yn marw yn ymroddgar a thawel, ac er hyny yn methu. Ereill yn trengu yn ysglyfaeth i'r dychrynfeydd mwyaf ofnadwy; yn dysgrifio eu teimladau a'u trueni mewn iaith ry arswydus bron i'w darllen a'i gwranddo. Un arall yn rhuthro i dragwyddoldeb dan geisio cellwair a chwarae ág angygu, gyda chryfder o anystyriaeth, na allai hyd yn od marwolaeth ei hun mo'i dori! A'r diweddfaf oll yn marw yn yr ansicrwydd a'r ofnau mwyaf, gan ddarlunio ei fywyd blaenorol a'i deimladau marwol, mewn iaith mor gref, a dull mor doddedig, ag a 'yr galon graig i wylo,' gan adael i ni yn unig ryw wreichionen fechan iawn o obaith am ei gyflwr. Ië, dyna ddiwedd ymarweddiad y dynion a dybient eu hunain yn rhy wybodus a doethion i wneyd amgen ddefnydd o'r ysgrythyrau, na bod yn wrthrychau eu dirmyg a'u cellwair—cyfrifent gredinwyr Crist'nogaeth yn ddyuion penweiniaid, ofergoelus, a llwfr-galon. Ond och! Y mae eu dysg a'u gwybodaeth, eu gwrolder a'u nerth, oll yn pallu; a mynent agos oll yn angygu ffoi am gysgod dan aden y grefydd yr ymladdasent yn ei herbyn yn eu bywyd. Onid oes yma brawf teg o rym dwyfolder a gwirionedd y grefydd oedd yn buddugoliaethu fel hyn ar ei gelynyon? Ni theimlodd Elias nn och na gofid wedi iddo wawdio a dirmygu grefydd ac addolwyr Baal: ni ddarfu i'r apostol Paul byth edifarhau a galaru wrth farw ddarfod iddo ymdrechu a'i holl egni yn erbyn crefyddau paganaidd Groeg a Rhufain; a pham yr oedd gelynyon a dirmygwyr Crist'nogaeth yn llewygu mewn gofid, yn suddo mewn ofn a dychryn, fel y gwelsom hwynt, os nad yw y grefydd hon o wreiddyn a tharddiad uwch nag un grefydd arall! Pa beth ond llaw ddwyfêl ac anweledig a wasgai ar eu cydwybodau nes tynu oddiwrthynt y fâth gyffesiadau! Mor dlawd yw anffyddiaeth yn wyneb angygu! 'Dangoswch i mi grefydd,' medd un, 'a lyn wrthyf yn mhob tymor, mewn llwyddiant ac adfyd, mewn iechyd ac afiechyd, mewn bywyd ac angygu. Ni roddwn frwynen am grefydd na wna ond yn unig gwasanaethu tymor, pan y

byddo haul llwyddiant yn llewyrchu ar fy nghamrau, ac a'm gedy pan fyddwyf yn sefyll mewn mwyaf o angen am ei chynhorthwyon. Dyma yn hollol fel y mae anffyddiaeth, fel y profodd llawer er eu gofid eithaf, pan y deuai tragwyddoldeb yn agos, ac ymagor o flaen eu golygon synedig.'

Egwyddorion na ddaliant yn angeu nid ydynt werth eu dal, eu taenu a'u hamddiffyn, mewn bywyd. Gwelsom fod y rhai dan sylw yn troi yn fustl chwerwedd, ac yn wenwyn aspiad o fewn ymysgaroedd y rhai a'u llyncasant. Y mae diwedd ymarweddiad y blaenoriad a draethasant ac a heuent yr egwyddorion hyn yn esiampl deilwng o sylw ac ystyriaeth y rhai sydd yn dylyn eu hol. Y mae eu hochain anobeithiol ar eu gwelyau marwolaeth, gellid meddwl, yn ddigon i beri i'w hegwyddorion gael eu harswydo a'u ffeiddio fel y llofruddion gwaethaf ac adgasaf. Ni ellir dywedyd am y cyffredin o'r dosparth yma o annuwiolion, eu bod heb 'rwymau yn eu marwolaeth.' Deuwch allan, ynte, fy narllenydd, deuwch allan o swm y dychrynfeydd uffernol hyn, dan weddio gyda y Salmydd, 'Na chasgl fy enaid gyda phechaduriaid, na'm bywyd gyda'r aflan.'

Awn etoi edrych pa fath yw diwedd ymarweddiad y cristion.

DOSP. VI.

'Ystyr y perffaith, ac edrych ar yr uniawn, canys diwedd y gwr hwnw fydd tangnefedd.'

Yr ydym yn awr yn myned i edrych pa fodd yr ymdarawai rhai o gredinwyr ac amddiffynwyr egwyddorion y Bibl a Christ'nogaeth, yn yr un amgylchiad ag y gwelsom anffyddiaeth yn gollwng ei charedigion i soddi i ddyfnderau trueni anobaith: ac os oeddym o'r blaen megis ar rag-ddor uffern, yr ydym yn awr yn myned i borth y nefoedd.

Y patriarch Jacob, wrth farw, pan yn ngoleuni yspryd prophwydoliaeth y galluogwyd ef i ganfod helyntion ei hiliogaeth yn yr holl oesau dyfodol, a phan nad oedd yn gweled nemawr ddim i'w gysuro oddiwrthynt hwy, á dynai lonaid o

ei enaid o ddyddanwch o'r addewid am y Messia i ddyfod ; ac a ymollyngai i fyd arall â holl oglud ei feddwl arni :—
'Am dy iachawdwriaeth di y dysgwyliais, Arglwydd.'

'Dyma eiriau diweddaſ Dafydd mab Jesse—a dywedodd y gwr a osodwyd yn uchel, eneniog Duw Jacob, a pheraidd ganiadydd Israel. Duw Israel a ddywedodd wrthyf fi, Craig Israel a ddywedodd, Bydded llywodraethwr ar ddyinion yn gyfiawn, yn llywodraethu mewn ofn Duw ; Ac efe a fydd fel bore oleuni, pan gyfodo haul foregwaith heb gymylau, fel eginyn a dyf o'r ddaear, gan lewyrchiad yn ol gwlaw. Er nad yw fy nhy i felly gyda Duw ; eto cyfamod tragwyddol a wnaeth efe a mi, wedi ei luniaethu yn hollol ac yn sicr ; canys fy holl iachawdwriaeth a'm holl ddymuniad yw ; er nad yw yn peri iddo flaguro.*

Stephan, cyn-ferthyr yr oruchwyliaeth Grist'nogol, pan oedd ei elynion yn rhuthro yn unfryd arno, ac yn ei labyddio, a 'ostyngodd ar ei liniau, ac a lefodd a llef uchel, Arglwydd, na ddod y pechod hwn yn eu herbyn, Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a hunodd.†

Paul yr apostol, pen campwr Crist'nogaeth, wedi llafurio, ymdrechu, ac ymorchestu o hono i bregethu a thaenu efengyl Crist yu y byd, a dyoddef pob anmharch, dirmyg, gwaradwydd, a chystudd er ei mwyn, ydoedd fwy na choncwerwr yn niwedd eioes. 'Mi a ymdrechais ymdrech deg ; mi a orphenais fy ngyrfa ; mi a gedwais y ffydd. O hyn allan rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi, yr hon a rydd yr Arglwydd, y Barnwr cyfiawn, i mi yn y dydd hwn ; ac nid yn unig i mi, ond hefyd i bawb a garant ei ymddangosiad ef.†

Gellid llenwi cyfrolau mawrion lawer â hanes marwolaethau dedwydd a gwynfydedig Crist'nogion : ond yr amcan yma ydyw crynhöi ychydig o ffeithiau gwrth-gyferbyniol i'r dosparth arall o hanes marwolaethau truenus anffyddwyr, fel esiamplau gwahaniaethol yn unig ; gan hyny, dewiswn rai o'r personau hyny a fuont yn eu hoes yn ymdrechwyr glewion 'o blaid y ffydd a roddwyd unwaith i'r saint,' ac yn erbyn egwyddorion anffyddiaeth, a'r rhai y gwnaed defnydd o'u henwau a'u gweithiau yn y traethawd hwn.

* 2 Sam. xxiii. 1—5.

† Act vii. 60.

‡ 2 Tim. iv. 7, 8.

Joseph Addison, Ysw. oedd ddadleuwr medrus a chadarn yn ei ddydd dros ddwyfoldeb yr Ysgrythyrau a'r grefydd Grist'nogol. Ychydig cyn ei farwolaeth, efe a anfonai am foneddwr ieuanc, yr hwn oedd gâr agos iddo, i ddyfod ato; a phan ddaeth, edrychodd arno, a dywedodd wrtho, 'Edrychwch gyda pha fath dawelwch y gall Cristion farw.'

Dr. John Leland, wedi treulio hir a llafurus fywyd yn ngwasanaeth yr efengyl, drwy ei phregethu, ac ysgrifenu o'i phlaid yn erbyn lleng o ymosodwyr arni a gododd i fynu yn ei amser, ac a oedd yn ddiameu yn un o'r amddiffynwyr dysgedicaf, medrusaf, a mwyaf llwyddiannus a gymerodd y gwaith mewn llaw erioed—terfynodd ei oes mewn tangnefedd, dywedai ychydig cyn marw, 'Yr wyf yn gadael fy nhystiolaeth o blaid gwirionedd Crist'nogaeth. Addewidion yr efengyl ydynt fy nghynhaliaeth a'm cysur—hwy yn unig sydd yn rhoddi tawelwch i'm henaid yn wyneb angen. Nid oes arnaf ofn marw. Y mae efengyl Crist wedi fy nyrchafu uwchlaw arswyd marwolaeth, oblegid, 'Mi a wn fod fy Mhrynwr yn fyw.'

Y diweddar Barch. A. Ffwler, un arall o ddifflwynwyr gwresog a chadarn y grefydd Grist'nogol yn wyneb ymosodiadau haerllug Paine ac eraill arni; wedi treulio o hono fywyd llafurus iawn yn ngwinllan ei Arglwydd, mewn pregethu, ysgrifenu, a theithio llawer er lledaenu ei deyrnas yn y byd, a fu farw yn y profiad o obaith gwynfydedig yr efengyl yr ymdrechasai o'i phlaid. Y Parch. Mr. Toller, gweinidog yr eglwys annibynol yn Kettering, y dref ag yr oedd Mr. Ffwler hefyd yn weinidog gyda'r Bedyddwyr, a ddywed am dano yn y bregeth angladdol a draddododd iddo, yn mysg llawer o bethau ereill, 'Yr wyf yn terfynu drwy sylwi nad wyf yn cyd-daro ag ef mor llawn mewn un pwngc, pa un bynag ai yn ei ysgrifeniadau y rhai a ddarllenais, neu y pregethau a glywais ganddo, neu yn yr ymweliadau a'r ymddyddanion a gefais ag ef—mewn dim, nid yw fy nheimlad mor llawn gytun ag ef ag yn nhymer ei ysbryd yn awr ei farwolaeth. Pe buasai yn ymadael yn llawn gorfoledd a llawenydd, gallaswn ddywedyd, 'O boed i mi farw o farwolaeth fuddugoliaethus y cyfiawn hwnw! Ond buasai hynny yn fwy bron nag a allaswn hyderu am dano yn fy achos fy hun. Agwedd ei feddwl

yn ei ddiwedd ydoedd, os gallaf ei ddynodi felly, yn ol fy nghalon fy hun, *Efe a fu farw yn bechadur edifeiriol wrth droed y groes.* Ar fy ymadawiad olaf oddiwrtho, ysgydwaes law ag ef ddwy waith, heb ddysgwyl ei weled mwyach. Bussem byw yn gytun am lawer o flynyddau yn yr un dref: a hyderaf y cawn gyfarfod a'n gilydd eto ryw ddiwrnod. Yr wyf yn meddwl mai y peth diweddaf a ddywedodd wrthyf fi, oedd, 'Gan ddysgwyl am drugaredd ein Harglwydd Iesu Grist i fywyd tragwyddol.' Dywedai wrth weinidog ieuanc 'Nid wyf yn profi rhyw orlawnder o lawenydd crefyddol, ond y mae genyf obaith yn nerth yr hwn y gallaf ymsuddo yn dawel i dragwyddoldeb.' 'Gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwynt.'

Y mae y sôn am farwolaethau dedwydd Crist'nogion trwy drugaredd yn beth mor gyffredin ac adnabyddus i holl ddarllenwyr y fath lyfr a hwn, fel y mae yn hollol ddiangenrhaid lluosogi enghreifftiau o honynt; gan hyny, ni a awn y'mlaen i derfynu y bennod hon ag ychydig sylwadau adolygiadol ar y pethau a gynhwysa.

Yn gyntaf, Cymerasom fer a bras olwg ar ddylanwad ac effeithiau gwahanol grefyddau ar wahanol ranau o'r byd, o ran ei amgylchiadau gwladwriaethol a moesol. Gwelsom fel y mae yn cael ei andwyo a'i ddygn-gnoi rhwng cîl-ddannedd twyll a dychymygion cyfeiliornus—fel y mae pob crefydd o ddyfais a dychymyg ddynol yn ddinystriol i iawn drefn a chysur cymdeithasol, yn gyru eu heiddunwyr (*votaries*) i'r graddau pellaf bron oddiwrth weddeidd-dra, rheswm, ac iawnfoes, i gyflawni y gweithredoedd mwyaf ysgeler, oddiar gamsyniol ystyriaeth o ddyledswyddau. Aberthant eu babanod, llosgant eu gweddwon, offrymant eu gilydd, ac weithiau eu hunain, yn rhydd a gwirfoddol, o dan rym dylanwad ofergoelus eu crefyddau. Cyflawnir gweithredoedd bryntaf y tywyllwch fel ordinladau crefyddol yn ngwasanaeth ac addoliad delwan ac eulunod. Y mae eto yn agos i chwe chan miliwn, ond odid, o drigolion y byd, sef uwchlaw hanner nifer ei holl gyfaneddwyr, yn rhwym yn llyffetheiriau anwybodaeth ac ofergoelion gau grefyddau, yn gruddfan dan yr ieuau a osododd dychymygion eu henafiaid a'r eiddynt eu hunain ar eu gwarau. Y cenedloedd hyn ydynt yn 'ymboeni am

wagedd.' Dan y rhwymau hyn y mae ymerodraeth äang-fawr China yn gwâr-grymu, fel na all mewn modd yn y byd ymuniawni; yr hon ei hunan, a gynwys uwchlaw tri chant a thri-ugain miliwn o eneidiau; sef mwy na'r drydedd ran o boblogaeth yr holl ddaear—agos oll yn baganiaid, ac eulun-addolwyr!

'Yr olwg ar gynifer o filiynau,' medd y cenhadwr Gutzlaff, 'yn ymbalfalu mewn eithaf tywyllwch, sydd arswydus iawn. Nid yw y Chinäid fel cenedl yn ymddifad o synwyr cyffredin, ac y maent, gan hyny, yn ddigon hysbys o ynfydrwydd eulun-addoliaeth. Y maent yn dibrisio ac yn dirmygu y pethau a addolant, ac er hyny yn ymlynu wrth ofergoelion gydag ymroddiad cryf a phenderfynol. Nid yw yn beth a ellir ei ddsygwyl y bydd iddynt hwy eu hunain byth ymysgwyd o'r rhwymau, a dychwelyd at y Duw byw.'

Gwelsom y drych druenus sydd ar uwchlaw baner can mil-iwn o'n cyd-ddeiliaid yn India dan ddylanwad niweid-fawr y grefydd Hindwaidd, yr hon, yn ol y darluniad a rydd un o'i dysgawdwyr ei hunan o honi, fel y dangoswyd o'r blaen, ydyw y peiriant gwaethaf er achosi annhrefn, anghysur, a distryw cymdeithas a osodwyd erioed wrth ei gilydd. Cawsom hefyd fantais i weled na all y byd sefyll wrth ei gilydd heb ryw fath o grefydd. Er mor anrheithiol ac echryslawna yw effeithiau dylanwad eu twyll-grefyddau ar amryw o genhedloedd eulun-addolgar y ddaear; er dyfned yr archollion a dorant yn mynwes cymdeithas, ymddengys na allai un math o lywodraeth sefyll i fynu, un ddelw o gymdeithas hanfodi yn mron ar y ddaear, heb fod yn seiliédig ar gydnabyddiaeth o ryw fath o grefydd. Nid cydnabyddiaeth o grefydd trwy ei sefydlu a'i gorfodi ar y deiliaid a grym cyfraith wladol a olygir, oud fod y bobl yn cael eu dysgu a'u dwyn i fynu i barchu crefydd, ac edrych arni fel peth cyssegredig. Dygasom brawf gresynus o'r gwirionedd hwn. Buom yn edrych ar un wlad wedi blino ar grefydd, ac yn penderfynu ei bwrw ymaith yn llwyr, a chladdu ei henw a'i hordinhadau mewn anghof; yn ymdrechu dileu ei holl argraffiadau allan o'r tir, a golchi ymaith bob parch iddi o bob mynwes. Deuai anfyddiaeth ac annuwiaeth yn mlaen, gan gynyg ei gwasan-aeth ac addaw perffeithio trefn a hapusrwydd y genedl, a

gwnaethant y genedl annedwydd hono yn esiampyl fyth-gofiadwy i holl genhedloedd gwareiddiedig y ddaear! Y mae y prawf hwnw wedi dangos fod y cynhygiad yn rhy ddychrynlyd i ail-ymyryd ag ef.

Yn ail, Ni a welsom ac a brofasom o'r ochr arall, fod crefydd ein Harglwydd Iesu Grist, yr hon a ddatguddir yn yr Ysgrythyrau sanctaidd, yn gwasgaru dylanwadau bendithfawr ac iachâol ar gyflwr gwladwriaethol a chymdeithasol y byd, yn mhob gwlad ag y mae wedi cael gwneuthur prawf o honi. Rhaid priodoli cymaint o iawn-drefn wladol a chy-sur cymdeithasol ag y sydd heddyw mewn mwynhad gan y teulu dynol, i'w dylanwad hi yn unig. Y mae ei goleuni wedi gyru ymaith lawer o arferion a defodau ofergoelus a chreulon o bob gwlad ag y tywynodd arni. Y mae dylanwad ei hegwyddorion sanctaidd fel glyd yn cydio dynion wrth eu gilydd, fel aelodau cymdeithas wladwriaethol, nes y mae rhyw raddau o adferiad wedi ei effeithio drwyddi yn gyffredinol ar gyflwr y dosparth hwnw o'r byd ac y cafodd fantais i ymwneyd ag ef. Yna y mae yn chwynu ac yn diwreiddio y drain a'r mieri, a'r llyisiau gwenwynig a dyfant yn anialdir dynoliaeth ddyrŷwiedig; y mae yn plannu, yn dyfrhau, ac yn meithrin pob pren firwythlawn a theg yr olwg; yn atal drygau a llygredigaethau rhag tori allan yn eu llawn rym a'u hanferthwch; yn esmwythau gofidiau, yn gwellau moesau, yn llinaru tymherau dynion, fel ag y mae pob dosparth a gradd yn y gymdeithas, pob teulu a phob person ag y daeth ei dylanwad i gyffwrdd ag ef, wedi derbyn rhyw gymaint o les a budd oddiwrthi. Gwelsom hefyd mai ei bendithion achlysurol yn unig yw y rhai hyn—bod ganddi amcan anfeidrol uwch, a rhoddion a bendithion anhraethol werthfawrocach. Y mae yn myned drwy y byd yn gyffelyb i'r modd yr aeth ei sylfeinydd bendigedig o'i blaen. Amcan ei ddyfodiad ef oedd 'ceisio a chadw yr hyn a gollasid,' 'rhoddi ei einioes yn bridwerth dros lawer—fel na chollid pwy bynag a gredo, ond caffael o hono fywyd tragwyddol.' Ond wrth gyrchu at yr amcan mawr hwnw, ar ei daith wrth fyned yn mlaen, rhoddai lygaid i'r deillion, clustiau i'r byddarion, traed i gloffion, iechyd i gleifion; heuai fendithion a chymwynasau tymhorol i gyrph acamgylchiadau

presennol dynion, fil myrddiwn, yn achlysurol wrth gyrchu yn mlaen i weithio allan iachawdwriaeth i'w heneidiau. Buasai y cwbl eraill yn nghyd yn dolyben rhy annheilwng i ber-son o'i fawredd a'i urddas ef i ymddangos yn y cnawd er ei fwyn; ond yr oeddynt fel bendithion yn cael eu gweinyddu a'u cyfranu yn achlysurol, yn ychwanegu at ogoniant ac urddas ei genhadwriaeth. Dylanwad cyffelyb i'r hwn a effeithid gan Grist mewn modd gwyrthiol, ar gysuron ac amgylchiadau tymhorol dynion, a effeithia y grefydd fendigedig sydd yn dwyn ei enw arni, drwy ddylanwad ei goleuni a'i hegwyddorion. Ceisio a chadw eneidiau yw ei phrif amcan hithau, goleno llygaid meddyliau dynion, symud o deyrnas y tywyllwch, eu dwyn o feddiant Satau at Dduw; bywhau, cymodi, cyfiawnhau, sancteiddio, a gogoneddu yn y diwedd, yw gwreiddiol amcan ei chenhadwriaeth oruchel: ac wrth gyrchu at yr amcanion hyn, y mae yn gwasgaru y bendithion tymorol ereill y crybwyllwyd am danynt, a llawer na chrybwyllwyd hefyd.

Yn drydydd, Ni a welsom hefyd wahanol effeithiau egwyddorion athroniaeth genhedlig, ac anffyddiaeth, a'r eiddo Crist'nogaeth, ar fucheddau a bywydau eu harddelwyr professedig—fel y rhagora nodwedd y Cristion ar yr eiddo y Stöic a'r anffyddiad; a'r rhagorach cynhaliaeth a chysur a rydd ei grefydd iddo ef yn ngofidian a thrallodion bywyd, nag a allant hwy dynu oddiwrth egwyddorion eu profes—nad yw holl ymfrost seinfawr y pagan a'r anffyddiad, o'u gwrol-der a'u mawr-frydedd meddwl, ond megis 'cymylau a gwynt heb wlaw.' Disfanai yn fwg 'fel brasder wyn' pan eu dygid i'r prawf; tra o'r tu arall, y gwelem y Cristion gostyngedig ac iselfryd yn ymgynnal yn siriol ar egwyddorion ac addewidion ei gred, yn nghaol tymhestloedd a llifeiriant o drallodau; yn nofio yn ddiangol dros yr afonydd a'r dyfroedd dyfnion, yn y rhai y suddai y Stöic a'r anffyddiad, ac y darfyddai am danynt.

Yn bedwerydd, Canfuasom drachefn esiamplau o rai budd-ugoliaethau gogoneddus a enillodd ein crefydd sanctaidd ar rai o'i gelynnion crysaf, cyfrwysaf, a medrusaf. Gwelsom hi yn myned i'r llys brenhinol, yn dwyn oddi yno brif ategion anffyddiaeth—yn ystwytho, yn plygu, ac yn darostwng calon

falch a gelymol Rochester i ufudd-dod i'r Ceidwad a ddat-guddiai hi, ond a gablai efe gynt: yn dwyn y tafod ffraeth-lym hwnw, a 'anelasid fel bwa i gelwydd' a chabledd, i dy-wallt casedd a dirmyg chwerw-frwnt ar ei henw a'i hordin-hadau—ei ddwyn, meddwn, drosodd i'w gwasanaeth ei hun, i'w chanmol a'i chlodfori, ac i foliannu y nefoedd am dani! Buom yn edrych arni yn goruwch-lywodraethu ysgrifell un o Arglwyddi y cyfrin-gyngor, er dwyn allan dystiolaeth ar-dderchog o blaid ei gwirionedd a'i dwyfoldeb, yn hollol groes i fwriad yr ysgrifenydd pan yn ymaflyd ynddi. Buom yn dystion o'u gwaith yn myned i'r yspyty a'r carchardy, ac yn gwellau moesau, nodweddau, ac eneidiau y truenusion tlodion yno; gan ddatod rhwymau eu hanwiredd, a'u 'creu o'r newydd yn Nghrist Iesu i weithredoedd da.'

Yn bumed, ac yn olaf oll, buom dystion o'i grym dwyfol yn dirwasgu cydwybodau ei gelynyon yn awr angeu i'r fath raddau, ag a roddai i ni brawf ymarferol ger bron ein llygaid, megis, o wirionedd ei thystiolaeth o fod uffern i gospi y drygionus mewn byd iddyfod; canfyddem ei bod wedi dechreu enyn yn eu mynwesau, ac ymdorai ei hiaith arswydus mewn ymadroddion agos rhy ddychrynlyd i'w hysgrifenu, eu darllen, neu eu gwrando! Ac o'r tu arall, gwelsom ei hegwyddorion nefolaidd yn cynnal ac yn cysuro eu credinwyr a'u hamddiffynwyr yn yr un amgylchiad; yn eu llenwi naill ai a hyder sanctaidd neu dawelwch meddwl, a'u galluogai i edrych yn mlaen tua byd arall, naill ai mewn per-lewygfeydd o lawenydd, neu ynte gyda gobaith cysurlawn o fythol wynfydedigrwydd. Yn awr, ddarllenydd, 'Pa beth a ddywedwn ni wrth y pethau hyn?' Y mae y pethau hyn yn dywedyd yn uchel wrthym ni; ac yn sicr ni ddylem nin-au fyned trostynt yn ddisylw, heb ganiatau iddynt eu llawn ddylanwad ar ein meddyliau.

A allwn ni edrych ar y byd yn ngafael ei afiechyd a'i bla mawr, yn ymdrabaeddu ar wyneb maes ei drueni, a bod yn ddideimlad drosto? Pa effaith y mae y wybodaeth o fod ei filiynau yn cael eu llusgo i angeu gan ei dwyll-grefyddau hudoliaethus, yn ei gael ar ein calonau? A oes dim ar ein dwylaw ni, sydd yn meddu goleuni a moddion gwybodaeth amgenach, i'w wneuthur er eu gwaredu hwy? Y mae Crist-

nogaeth yn grefydd ag y sydd am weithio ei hunan drwy yr holl fyd, drwy genhedlu a meithrin yspryd cyhoeddus, teimladwy, tosturiol, a haelionus, yn y rhai ag ydynt yn feddianol ar ei rhagorfreintiau, fel ag y byddont yn ewyllysgar yn eu hestyn a'u cyfranu i'r rhai sydd yn amddifaid ac mewn angen o honynt. Y mae wedi ei hamcanu a'i threfnu drwyddi oll at effeithio a dwyn hyn oddi amgylch. Ar yr egwyddor o gariad ac ewyllys da y sylfaenwyd ac y gosodwyd hi i fynu yn y byd. Yr amlygiad penaf ac egluraf erioed o yspryd cyhoeddus y Duwdod oedd ei waith yn anfon ei 'Thywysog a'i pherffeithrwydd' ar y genhadwriaeth yma i'r byd hwn; 'Felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe.' Yr holl egwyddorion a bregethodd, a'r esiamplau a adawodd Iesu Grist, ydynt yn cyd-dueddu at ladd hunan-gais y galon ddynol, ei helaethu ei hëangu, a'i gwneuthur o'r un ddelw ag ansawdd foesol â chalon Duw. Clywodd, dysgodd, a derbyniodd yr egwyddorion hyn gan y Tad, daeth oddiwrth y Tad a'r ddsgeidiaeth a'r egwyddorion bendigaid hyn ganddo, i'r byd—pregethodd, dysgodd, ac ymarferodd hwynt ynddo; addysgodd ei ddsygyblion ynddynt, a gadawodd hwynt dan eu gofal i'w taenu ar wyneb y ddaear, fel, 'megis yr anfonodd y Tad ef i'r byd,' yr anfonodd yntau hwythau i'r byd, fel y byddai iddynt genhedlu eu rhywogaeth yn mynwesau dysgyblion newyddion, a'r rhai hyny drachefn i daenu eu dylanwad iachusol bob un yn ei gylch priodol ei hun, nes y byddai iddynt, fel lefain, weithio eu heffithiau drwy yr holl gelwrn blawd, a throi pob calon i'r un ansawdd o ran tymher a theimlad moesol a hwy eu hunain, a thrwy hyny ber cyfnewidiad hollol a thrwyadl yn egwyddorion, barnau, ac ymarferion moesol y byd oll, 'creu nefoedd newydd, a daear newydd.' Traddododd Iesu Grist y gofal yma i'w ddsygyblion yn y gorchymyn olaf a roddodd iddynt, 'Ewch i'r holl fyd—pregethwch yr efengyl i bob creadur.' Rhoddodd i'w gofal fyd llawn o bla, afiechyd, a thrueni; anfonai hwynt i ganol heintiau marwol o ofergoelion a llygredigaethau; byd ag yr oedd drygsawr ei weliau crawnllyd yn dyrchafu hyd y nefoedd: rhoddodd yn eu dwylaw efengyl yn cynnwys darpariaeth feddyginiaethol gyflawn ac addas at ei gyflwr a'i angen, gan ymddiried iddynt y

gweinyddiad o honi ato. Daeth i'r byd ei hunan i fod yn Weinydd (*executor*) o lythyr-cymun, neu ewyllys, ei dad; y gogoniant a roddes ei dad arno ef, a roddes yntau ar ei eglwys, drwy ei gwneyd hithau yn weinydd ei ewyllys, neu ei lythyr-cymun, yntau. Rhoddodd y Tad bob peth i'w law a'i feddiant ef er mwyn yr eglwys, rhoddodd yntau ei bob peth i'r eglwys er mwyn y byd: rhoddodd ei dangnefedd iddi hi, fel y byddai iddi fyned ag ef i'w gyhoeddi ar hyd a lled y ddaear. Dysgwylia iddi fod, pob aelod o honi, yn wrol ac yn gyflawn ymroddgar i'r gwaith mawr hwn; ei bod yn yfed o'i yspryd ef, i deimlo, tosturio, ac ymaberthu er cyflawni y dyben goruchel yma. Ddarllenwyd hawddgar! A dderbyniasoch chwi gariad y gwirionedd a'r grefydd sanctaidd hon? Chwi a addysgwyd yn ei hegwyddorion; chwi a ddarllenasoch hanes bywyd a marwolaeth Mab Duw; dygwyd chwi i fynu yn nghanol rhagorfreintiau ei deyrnas—ond a brofasoch chwi eu dylanwad ar eich calon, yn ei hëangu, ac yn ei helaethu, nes mai eich prif ddymuniad ydyw am i'r byd oll gael ei fendithio a'r efengyl ogoneddus hon, y rhyddid, y tangnefedd, a'r bendithion ereill y mae yn gyfranu? Ni wella y byd byth o hono ei hun, ac nid oes dim a'i gwella chwaith ond-yr efengyl: ni all yr efengyl ei wella os na anfonir hi iddo; a phwy a'i denfyn, os na wna y rhai ag y mae hi yn eu meddiant? Y mae wedi ei chymwysu at gyfiwr ac angen y byd, yn druenus a thlawd fel y mae; yn dal allan wrthrychau cyfaddas a digonol i lenwi ddymuniadau helaethaf y galon ddynol; yn alluog i'w wneuir yn gysurus yn y bywyd hwn, ac yn ddedwydd yn yr hwn tha fydd.

PENNOD VII.

BER OLWG AR AGWEDD GREFYDDOL Y BYD—EI BRIF GREFYDDAU—

YN GYNTAF, PAGANIAETH—BYR DDYSGRIFIAD O

Y AIL, MAHOMETANIAETH—PRIF EGWYDDORION Y GREFYDD HONO—Y GWLEDYDD LLE Y'I PROFFESIR.

YN DRYDYDD, IUDEWAETH—CREDO ADDEFEDIG Y GENEDL YN BRENNOL—SYLWADAU AR WASGARIAD, HELYNTION, A PHARHAD Y GENEDL.

YN BEDWERYDD, CRIST'NOGAETH—TRI DOSPARTH CYFFREDINOL YR EGLWYS GRIST'NOGOL.—

1. Eglwys Groeg, ei chredo a'i llygriadau. 2. Eglwys Rhufain, ei gwaith yn gwardd darllen yr Ysgrhythrau yn yr iaith gyffwrdd—ei phrif ddryeodd—lluosowgrwydd Pabyddion yn amrywiol wledydd Ewrop a rhanau ereill o'r byd.
3. Protestaniaeth neu wrthdystiaeth—egwyddor sylfaenol y ddywygiad, mal y Bibl yn unig sydd o awdurdod mewn crefydd—yr eglwysi Protestanaidd oll yn addef hyn—ymdrechiadau yr eglwysi Protestanaidd i ladaenn Crist'nogaeth yn y byd—Cymdeithasau cenhadol—y Morafiaid—y Bedyddwyr—Llundain—y Wesleyaid—yr Eglwys Sefydledig—swm cyllidau y gwahanol Gymdeithasau yn 1840—Tafien o enwau lleoedd a phoblogaeth Ymerodraeth Drefedigaethol Prydain Eawr—Sylwadau.

NID anfuddiol, nac amherthynasol i'r gwaith hwn, fyddai i ni fwrw golwg fer, mewn ystyr ychydig wahanol i ddiim a roddasom o'r blaen, dros ansawdd grefyddol y byd yn y fan hon. Dospertthir crefyddau y byd yn gyffredin, i bedair—yr un Baganaid, Iuddewaidd, Mahometanaidd, a Christ'nogol. Y grefydd Baganaid, fel y cawsom achlysuron i sylwi o'r blaen, ydyw eulun-addoliaeth; dynion mewn anwybodaeth o'r gwir a'r bywiol Dduw, yn parchu ac yn ymgrymu o flaen delwau o gerfiad celfyddyd eu dychymyg a'u dwylaw eu hunain.

Dospertir Paganiaeth yn dair cangen—y gyntaf, a ellir yn briodol ei galw y ffug-chwedlog, (*fabulous*) yn cynwys dychymygiion annorphen anianyddiaeth, duwinyddiaeth, a nodweddau y duwiau: i'r rhai y priodolant bob math o ymarferion. Cyhuddai yr addolwyr eu duwiau hyn o fod yn lladron, llofruddion, meddwon, godinebwyr, a phob math o ddrwg-weithredwyr. Condemnid y dduwinyddiaeth hon gan y rhai doethaf o honynt, fel un annheilwng a thwyllodrus.

Yr ail cangen, a ellid ei galw yr un anianyddol neu naturiol; yr hon a ddysgid gan y doethion a'r athronyddion, y cyfeiriwyd atynt o'r blaen. Y rhai hyn a gondemniant grefydd ffug-chwedlog y beirdd, ac a wisgent eu duwinyddiaeth ar ffurf weddeiddiach a mwy rhesymol. Dysgent bod Un gwir a gouchaf Dduw, ond ei fod yn rhy oruchel i sylwi ar nac ofalu am achosion y byd hwn; ac o ganlyniad, dyfeisient ryw îs-dduwiau, y rhai a osodent yn gyfryngwyr rhwng y Bod goruchaf â dyn, &c.

Y drydedd, yr hon a elwid y wladol, a sefydlid gan lywodraethwyr a deddf-roddwyr: perthynai hon i'w duwiau, eu temlau, eu hallorau, eu haberthau, a defodau eu gwasanaeth crefyddol; cyflwynid y gofalon hyn i'r offeiriaid a awdardodid gan y llywodraeth; a rhwymid y deiliaid i dalu ufudd-dod ac ymostyngiad iddynt; ac felly, cyd-wëid crefydd a chyfansoddiad y ffurf-lywodraeth. Tybir, fel y rhagrybwyllwyd, fod yn agos i bum can miliwn o drigolion y byd yn gorwedd eto yn nrygioni eulun-addoliaeth.

Iuddewaeth. Cynwysir y grefydd Iuddewaidd, fel ei harddelir yn bresennol gan y genedl annedwydd a gwasgaredig hono, yn y tair-erthygl-ar-ddeg canlynol, y rhai a grynhowyd gan Rabbi Moses Ben Marmon, Iuddew dysgedig o'r Aipht, yn yr unfed-ganrif-ar-ddeg. Cydnabyddir yr erthyglau hyn fel eu cred gyffredinol.

I. Yr wyf yn credu, gyda ffydd ddiysgog, mai y Creawdwr, (bendigedig fyddo ei enw!) ydyw llywodraethwr a gwneuthurwr yr holl grëaduriaid, ac mai efe yw yr hwn a wnaeth, sydd yn gwneyd, ac a wna bob peth.

II. Yr wyf yn credu, gyda ffydd ddiysgog, bod y Creawdwr, (bendigaid fyddo ei enw!) yn UN, ac nad oes unoliaeth

cyffelyb i'r ciddo ef; ac mai efe yn unig, ein Duw, yw yr hwn oedd, sydd, ac a fydd.

III. Yr wyf yn credu, gyda ffydd ddiffuant, bod y Creawdwr, (bendigaid fyddo ei enw!) yn Fod ysbrydol, heb gorph na rhanau; nad ydyw yn cael ei gynwys gan y cynheddfau hyny a gynwysant wrthrychau corphorol; ac nad oes un ddelw na chyffelybiaeth o hono.

IV. Yr wyf yn credu, gyda ffydd ddiffuant, mai y Creawdwr, (bendigaid fyddo ei enw!) yw y cyntaf a'r diweddaf.

V. Yr wyf yn credu, gyda ffydd ddiffuant, mai y Creawdwr, (bendigaid fyddo ei enw!) sydd yn unig yn deilwng o addoliad, ac nad oes neb arall yn deilwng ond efe.

VI. Yr wyf yn credu, gyda ffydd ddiysgog, bod holl oraclau y proffwydi yn wirionedd.

VII. Yr wyf yn credu, gyda ffydd ddiffuant, bod prophwydoliaethau Moses, ein hathraw, (heddwch fyddo iddo) yn wirionedd pur; ac mai efe oedd tad yr holl ddyinion doethion a fuant o'i flaen ef, ac a ddaethant ar ei ol ef.

VIII. Yr wyf yn credu, gyda ffydd ddiffuant, bod holl gyfraith y gorchymynion, y rhai sydd genym ni yn awr yn ein dwylaw, wedi eu rhoddi trwy Moses, ein hathraw—heddwch fyddo iddo.

IX. Yr wyf yn credu, gyda ffydd ddiffuant, na bydd i'r gyfraith hon gael ei chyfnewid, ac na ddaw un gyfraith arall oddiwrth y Creawdwr—bendigaid fyddo ei enw!

X. Yr wyf yn credu, gyda ffydd ddiffuant, bod y Creawdwr, (bendigaid fyddo ei enw!) yn gwybod holl weithredoedd plant dynion, a'u holl feddyliau, megis yr ysgrifenyd, 'Efe a gyd-luniodd eu calon hwynt, ac a ddeall eu holl amcanion.'

XI. Yr wyf yn credu, gyda ffydd ddiffuant, y bydd i'r Creawdwr, (bendigaid fyddo ei enw!) wobrwyo yn ddaionus yr hwn a gadwo ei orchymynion ef, ac y cospa efe yr hwn a'u troseddo.

XII. Yr wyf yn credu, gyda ffydd ddiffuant, yn ymddangosiad y Messia, ac er y dychon iddo oedi, eto myfi a ddysgwyliaf yn amyneddus am dano bob dydd nes y daw.

XIII. Yr wyf yn credu, gyda ffydd ddiffuant, y bydd adfywhad i'r meirw yr amser y rhyngo bodd i'r Creawdwr,

(bendigaid fyddo ei enw!) a mawryger ei goffadwriaeth yn oes oesoedd!

Y maent yn ymlynu wrth, ac yn ymarfer â defodau goruchwyliaeth Moses, mor belled ag y caniaata eu sefyllfa wasgaredig ac anfanteisiol iddynt. Eu gwasanaeth crefyddol sydd yn gynwysedig, gan mwyaf, yn narllen y gyfraith yn eu synagogau, yn nghyd ag amrywiol weddïau. Nid ydynt byth yn aberthu wedi dinystriad eu teml, a'u gwasgariad o'u gwlad. Y maent yn mynychadrodd ffurfiau o ddiolchiadau a mawliadau i Dduw, nid yn unig yn eu gweddïau, ond ar bob achlysuron. Y maent yn cyrchu i'r synagog i weddio dair gwaith yn y dydd. Y maent yn gwahardd pob math o regfeydd, nag arfer galw ar un o enwau Duw, ond ar achos pwysig a chyfreithlawn. Ymgadwant oddiwrth y bwydydd gwaharddedig yn y gyfraith Lefiticaidd; o herwydd hyny, ni fwyânt ddim ond a drinir ganddynt hwy eu hunain, ac yn ol eu dull eu hunain. Gwadant gyflawniad y prophwydoliaethau yn mherson Crist, gan haeru bod y Messia eto heb ymddangos—gwrthodant y Testament Newydd, o ganlyniad: ac 'hyd y dydd heddyw, pan ddarllenir Moses, y mae y gorchudd yn aros ar eu calon hwynt.'

Y mae parhad yr Iuddewon fel cenedl neuillduedig yn y byd drwy yr holl oesau yn un o'r pethau hynotaf yn hanes yr oesoedd. Sylwai ysgrifenydd yn y *Fraser's Magazine* yn ddiweddar iawn, fel y canlyn—

'Rhaid bod sefyllfa anianyddol, moesol, a chymdeithasol bresennol yr Iuddewon, yn wyrth. Ni allw edrych arni gydag un golwg arall. Pe buasent wedi parhau er dechreuad oes Crist'nogaeth hyd yn bresennol mewn cyflwr gwladwriaethol cyffelyb i'r Chineaïd, wedi eu murio oddiwrth y gweddill o deulu dyn, ac o herwydd eu hunanoldeb cenhedlaethol, a'u gwrthwynebiad i bob elfenau dyeithriol, yn nghyd a serch-ymlyniad annorchfygol wrth eu defodau a'u harferion gwladol eu hunain, gan gaeth warafun a llwyr ymgadw oddiwrth bawb a phob peth tramor, ni buasem yn gweled ym maint o ddirgelwch yn gyd-blethedig a'u bodoliaeth fel cenedl. Ond nid dyma eu cyflwr hwy: pell iawn oddiwrtho. Nid ydynt nac yn genedl unedig ac amuiblynol, nac yn dalaeth gyfunol o wladwriaeth. Y maent wedi eu rhisglo

eu gwasgaru, a'u tori yn ddrylliau, ond yn gyffelyb i ronynau gwasgaredig o arian byw, greddf a nerth at-dyniad, megis, yn honi carenydd i'w gilydd, a'u gwna bob amser yn barod i ymuno ac ymgymgu. Ni all eu daeryddiaeth, eu harfau, eu doethineb, a'u gwlad-ddysg, roddi cyfrif am ei hanfodiaeth. Amser, hinsawdd, a defodau, ydynt hefyd yr un mor analluog i symud y dryswch. Nid yr un o'r pethau hyn ydynt, nag a allant fod yn wreiddiau eu parhâd. Y maent wedi eu gwasgaru dros bob talaeth o'r byd preswylidig: y maent wedi byw o dan bob math o lywodraeth: cyfranogasant o nawdd cyfreithiau cyfiawnion, ac o lym-dostedd rhai creulon a gwyr-draws, a buont dystion o ddechreuad a diweddiad y naill a'r llall: dysgasant bob tafod-iaith, a buant fyw yn mhob lledred. Bu eira Lapland yn eu fferu, a haulwres Affrica yn eu dyddfu hwynt. Yfasant o'r Tiber, y Thames, yr Iorddonen, a'r Mississippi. Yr ydym yn cael gafael ar Iuddeu yn mhob canrif, yn mhob gradd o hydred a lledred. Nid oes un genedl arall dan y nefoedd felly ond hon. Yr ymerodraethau ardderchocaf a syrthiasant, ac a gladdasant y dynion a'u sefydlasai hwynt; ond bu yr Iuddeu byw yn nghanol y dinystr, yn gof-golofn fywiol, annystrwywiadwy. Dadweiniodd erledigaeth y cleddyf, a goleuodd y ffagod, darfu i sêl ofergoelus Pabyddiaeth, a barbariaeth Mahometanaidd, eu taraw gyda llymder diarbed. Gweinyddodd cyfreithiau cospawl a dwfn ragfarnau arnynt y cerbyddon anghyfiawnaf, ac er hyn oll y maent yn byw ac yn bodeli.

'Y mae Israel, yn gyffelyb i'r berth ar fynydd Horeb gynt, wedi bod yn llogsi gan dân, ac eto heb ei difa. Pendefigaeth yr Ysgrythyr ydynt, wedi eu hamddifadu o'u hurddau—tywysogion dan ddirmyg. Babiloniad, Shartiad, Atheniad, Rhufeiniad, ydynt enwau adnabyddus mewn hanesyddiaeth yn unig, eu cysgodau yn unig ydynt yn ymsymud yn y byd, ac yn ysgwyd eu hadenydd, megis ar ei gofrestrau—ond rhodia Iuddeu ar bob hêol, preswylia yn mhob dinas, cynniweiria yn mhob arian-dy a chyfnawid-dy, a rhydd amrywiad i undoniaeth pob cenedl ar y ddaear. Y mae y rhywogaeth hon wedi etifeddu treftadaeth anfarwoldeb, ei difodiad a'i chyd-gymysgiad a chenhedloedd ereill yn anmhosibl. Yn

gyffelyb i aberau tarddedig o'r un ffynhonell wreiddiol, a chyfansoddedig o ddwfr o ansawdd a natur briodol iddo ei hun, rhedasant yn mlaen gyda phob ffrwd, heb ymgymysgu â hi, na chael eu llychwino a'i lliw, na chyfranogi o'i blas: rhedasant drwy bob gwlad dan y nefoedd yn neillduedig a gwahanedig oddiwrth bawb. Y genedl Iuddewig, hwyrach, ydyw y dystiolaeth fwyaf nodedig y dydd hwn, o wirionedd yr oraclau sanctaidd. Y mae yn anhosibl rhoddi cyfrif am eu bodoliaeth parhaol, ar unrhyw seiliau, ond y rhai a amlygir yn ngair y gwirionedd. Y mae eu nodwedd cyfredinol a phersonol mor hynodol ag ydyw eu hamgylchiadau. Yr isel-waeledd mwyaf dirmygus, a'r balchder mwyafannyoddefol—diraddiaeth caethwasaid, ac eto, cydwybodolrwydd amlygedig o urddas brenhinol offeiriadaeth—tynu, twyllo, gwasgu, crafangu, yn eu holl fasnach a'r byd, heb fod dim yn rhy isel ganddynt i'w wneuthur, na dim yn rhy aflan ganddynt i ymasfyd ynddo a'i godi, os bydd o ryw enill iddynt; ac er hyn drachefn yn y synagog, yn edrych yn ol dros amryw filoedd o flynyddau at henafiaeth, mewn cyferbyniad i'r hon nad yw yr eiddo ein tywysogion a'n harglwyddi ond megis er doe. Cyfrifant, yn gyfiawn hefyd, Abraham, Isaac, a Jacob, fel eu cyndadau enwog, ac ehedant yn mlaen ar adenydd ffydd, gobaith, ac addewid, at y dydd hir-ddysgwylidig amdanu, pan y bydd iddynt hwy, ag ydynt yn awr yn dywysogion yn ngwisgoedd caethion, ddyfod i gael eu datguddio felly mewn gwirionedd, dan yr oruchwyliaeth fwyaf gogoneddus. Y mae y bobl hyn yn wyrth barhaus, yn adsain fywiol o eiriau sanctaidd y nef—o genhedlaeth i genhedlaeth.'

Bernir bod yr Iuddewon yn awr mor lluosog ag oedd-ynt pan yn ngwlad Canaan; oddeutu saith miliwn o rifedi: yr hon sydd ffaith dra hynod, pan ystyriom, yr erledigaethau a'r difrodiadau echrydus a fu arnynt laweroedd o weithiau yn holl wledydd eu gwasgariad. Y maent wedi bod yn wrthrychau dirmyg a thrais drwy yr holl oesau yn mysg agos i bob cenedl dan y nef, ac eto yn cadw heb leihau o ran eu nifer! 'Bydded i ni gymell Crist'nogaeth iddynt,' medd un ysgrifenydd, 'fel ag y cynhygiodd Crist hi iddynt. Gosodwn ger eu bronau eu prophwydoliaethau eu

unain; a dangoswn y cyflawniad o honynt yn Nghrist. Canmolwn eu casineb at eulun-addoliaeth. Boed i ni ddangos iddynt ddymunoldeb ein crefydd, yn ein tymherau a'n bucheddau. Na fydded i ni byth gyfyngu ar eu rhyddid gwladol, na chynyg treisio eu cydwybodau.'

Mahometaniaeth. Sylfaenydd y grefydd hon, fel y mae yn hysbys i'r darllynydd, ydoedd Mahomet, yr hwn a flodeuodd yn y chweched ganrif. Ei amcan professedig, fel y dywedai, ydoedd, adferu crefydd bur yn mysg dynolryw; yr hen grefydd a broffesid gan Adda, Nöa, Abraham, Moses, y prophwydi, ag Iesu. Ffurfiodd lawer o weledigaethau rhyfeddol; hönai ddal cyfrinach a'r angelion, a'i fod wedi derbyn y Coran, yr hwn yw Bibl ei ganlynwyr, oddiwrth Dduw, ar wahanol amserau, trwy genhadaeth yr angel Gabriel. Y mae wedi ei glytio at ei gilydd o wahanol ac amrywiol ddefnyddiau, peth o'r Hen Destament, a pheth o'r Newydd, peth o'r llyfrau Apocryphâidd, a llawer iawn o'r traddodiadau a'r dyfeisiau dychymygol a ddelid gan Iuddewon a Christ'nogion dyrywiedig yn yr oes hönö; a llawer iawn hefyd o ddychymygion y gau brophwyd ei hun. Ac felly y mae Mahometaniaeth yn glytwaith o grefydd yn cynwys yuddi lawer o egwyddorion, rhai da, a rhai drwg, fel ar y cyfan, gellir ei hystyried y deryn mwyaf meistrolgar o dan yr enw crefydd, er hudo a thwyllö dynolryw, o'r un a gynhygiwyd erioed i sylw dynion. Gellid symio i fynu egwyddorion Mahometaniaeth, fel eu dysgir yn y Cöran, yn y pethau canlynol.

Yn gyntaf, Nad oes ond un Duw, ac mai efe yn unig yw gwrthrych addoliad.

Bodoliaeth angelion sanctaidd—gofyna y Coran grediniaeth iaeth ddiysgog o hyn, a chyhoedda yn anffyddiad pwy bynag a wado neu amheuo y peth. Darlunia hwynt yn fodau gogoneddus ac ardderchog iawn, yn meddu ar fath o gyrph, erëedig o dân, ond nad ydynt nac yn bwyta nac yn yfed, nac yn lluosogi; eu bod ar wahanol ac amrywiol ffurfiau, yn cyflawni gwahanol ac amrywiolswyddi; rhai yn moliannu Duw mewn amrywiol ddulliau ac agweddau—ereill yn eiriol gydag ef ar ran dynolryw—a rhai ar waith yn ysgrifenu i lawr fucheddau a gweithredoedd plant dynion; ereill yn cario gorseddfaingc Duw o'r naill fan i'r llall, a phethau cyffelyb.

Yn drydydd, Mewn perthynas i ddatguddiad dwyfol, dywed y Coran, ddarfod i Dduw roddi datguddiadau o'i ewyllys yn ngwahanol oesau y byd mewn ysgrifen i amrywiol brophwydi; rhifedi y llyfrau sanctaidd hyn, medd efe, ydoedd cant a phedwar: deg o'r rhai hyny a roddwyd i Adda, deg-a-deugain i Seth; deg-ar-hugain i Enoch; deg i Abraham; a'r pedwar ereill, y rhai oeddynt pum llyfr Moses, y Salmau, yr Efengyl, a'r Coran, a roddwyd i Moses, Dafydd, Iesu, a Mahomed; a'r olaf ydoedd i fod yn seliad y prophwydoliaethau, fel nad oes un datguddiad mwyach i'w ddsygwyl.

Yn bedwerydd, Dywed, ddarfod i Dduw anfon dau cant a phedair-mil-ar-hugain o brophwydi i'r byd ar wahanol amserau, yn mysgr y rhai yr oedd tri chant a thri-ar-ddeg o honynt yn apostolion anfonedig gyda chenhadwriaethau penodol er adferu dynolryw oddiwrth anffyddiaeth ac ofergoelion; a dygodd chwech o honynt gyfreithiau neu oruchwyliaethau newyddion i'w sefydlu yn y byd; y rhai oeddynt y naill yn dyfod yn lle y llall, fel pan ddeuai apostol a goruchwyliaeth newydd, bod tymhor yr un flaenorol ar ben—y rhai hyn oeddynt Adda, Noa, Abraham, Moses, Iesu, a Mahomed.

Yn bumed, Adgyfodiad y meirw, barn gyffredinol, gwobr a chosp mewn byd i ddyfod, ydynt hefyd yn erthyglau credo y Mahometan. Y mae crug anferth o ddychymygion am nefoedd ac uffern yn y Coran, ond ni waeth eu gadael yno. Proffesir y dwyll grefydd hudoliaethus hon hyd y dydd heddyw, gan y Tyrciaid, y Persiaid, ac amrywiol genhedloedd ereill yn Affrica, a dwyreinbarth Asia. Gosododd Mahomed ei Goran ar flaen ei gleddyf, a phob cenedl a ddarostyngai a nerth y cleddyf, a orfyddent ymostwng i egwyddorion y Coran; ac fel y bu yn llwyddiannus iawn yn ei ryfeloedd, a'i ddylynwyr hefyd ar ei ol am lawer o oesau, nid yw yn beth mor ryfedd ddarfod i'r grefydd hon lwyddo ac ymdaenu fel ag y darfu iddi.

Y mae gan ei ddylynwyr hyd heddyw y parch mwyaf i'w prophwyd—efe yw eu Cyfryngwr rhyngddynt a Duw, a thrwy rinwedd ei ddylanwad ef yn y nefoedd y dysgwylant am bob bendith, llwyddiant a dedwyddwch amserol a thragwyddol

ac y maent yn gyffredin yn ofalus iawn i ymgadw at ei reol, gosodedig yn y Coran.

Crist'nogaeth. Yr ydym wedi traethu eisioes ar Gristnogaeth, gan ymdrechu dangos y profion o ddwyfoldeb ei tharddiad fel yr unig wir grefydd; a chawsom achlysuron i edrych i mewn i ansawdd a nodwedd foesol ei hegwyddorion, a natur ei dylanwad ar gyflwr gwladwriaethol, cymdeithasol, ac ysprydol y byd; fel nad rhaid ychwanegu dim ar y pethau hyny eto yn y lle hwn. Y mae y rhai a arddelant Grist'nogaeth fel eu crefydd yn wahanedig i dri dosparth cyffredinol, sef Eglwys Groeg, Eglwys Rufain, a'r Eglwysi Protestanaidd. Eglwys Groeg, neu eglwys y dwyrain, a ymwahanodd oddiwrth Eglwys Rufain neu Eglwys y gorllewin yn y bumed ganrif. Yr oedd dirgelwch yn yr anwiredd wedi dechreu gweithio er ys hir flynyddau cyn hyny, pan ddaeth uchelgais ac ysbryd tra awdurdodol i reoli yspredoedd yr esgobion a blaenoriad yr eglwysi, ac y dechreasant ddringo at fawredd daearol, ac ymawdurdodi y naill ar y llall. Honai esgob Rhufain ei hun yn ben ar holl esgobion yr eglwysi yn gyffredinol yn y dwyrain a'r gorllewin. Pan gydnabyddwyd esgob Caercystenyn yn ail Batriarch Crist'nogaeth, gan gynghor cyffredinol Caercystenyn O. C. 381, a Chalcedon, 451, gyda'r dealltwriaeth ei fod yn nesaf mewn gradd ac awdurdod i esgob Rhufain, cynhyrfodd hyny eiddigedd yr olaf tuag at y blaenaf, rhag mai y cam nesaf a fyddai honi cydraddoliaeth: cymyddodd yr oerfelgarwch, ac aeth y rhwyg waeth-waeth rhyng-ddynt a'u gilydd. Ac yn y flwyddyn 482, torodd yr ymranniad allan, a dechreasant esgymuno eu gilydd; ac ni arddelai eglwysi y dwyrain a'r gorllewin rnedeb a'u gilydd mwyach.

Y mae eglwys Groeg yn mron mor hollol lygredig a drywiedig o ran egwyddorion ei ffydd, ag ydyw eglwys Rhufain; ond mewn un peth, y mae yn anfeidrol ragori arni, sef ei bod yn caniatau ac yn anog rhydd ddarlleniad o'r Ysgrythyrâu yn yr iaith gyffredin: felly nid yw yr euogrwydd mawr hwnw sydd ar ei chwaer orllewinol, sef, o 'ddwyn agoriad y gwybodaeth,' yn gorwedd arni hi. Y mae yn dal dwy ffynhonnell o athrawiaeth, fel ei chwaer Rufeinig, sef y Bibl a thraddodiad y tadau. Proffesir yn un goruchel barch i'r

naill a'r llall. Cynwysir dan y pen olaf, sef traddodiad, yr holl athrawiaethau a gymeradwyid gan y tadau Groegaidd yn unig, ac yn neillduol, Ioan o Damascus, a'r eiddo y saith gynghor cyffredinol. Y mae yr un modd ag eglwys Rhufain hefyd yn dal athrawiaeth y saith Sacrament a thraws-sylweddiad, ond yn caniatâu y cwpan i'r llëygon. Patriarchiaid Caercystenyn, Alexandria, Antioch, a Jerusalem, ydynt benau yr eglwys hon. Y mae yr holl offeiriaid neu y gweinidogion dan awdurdod y naill neu y llall o'r rhai hyn. Y mae Mahometaniaeth wedi cyfyngu llawer ar derfynau eglwys Groeg; difeddiannodd hi agos o'i holl sefydliadau yn Asia ac Affrica, ac o lawer yn Ewrop hefyd; ond enillodd gryn lawer ar y llaw arall, pan yn y flwyddyn 988, y gosodwyd hi yn grefydd sefydledig Rwsia; yn yr hon y mae yn parhau yn ei hawdurdod hyd yn bresennol.

Am yr eglwys Rufeinig, neu Babaid, afreidiol fyddai yn y lle hwn ddywedyd ond ychydig; y mae hi eisoes mor adnabyddus, ac mor enwog yn ei dychymygion cyfeiliornus, ei hathrawiaethau gau, ei hyspryd a'i gweithrediadau erledigaethus a gwaedlyd, nes y mae ei henw wedi myned yn ddiareb drwy yr holl ddaear. Diododd a meddwodd yr holl genhedloedd a 'gwin llid ei godineb;' meddwodd ei hunan, 'ar waed y saint, a gwaed merthyron Iesu.' O fod yn forwyn bur i Grist, aeth yn butain,' yn 'fwystfil,' ac yn anghrist. Ymddyrchafodd esgob Rhufain i orsedd brenhin Sion; 'eisteddodd yn nheml Duw, gan ymddyrchafu goruwch pob peth a elwir yn dduw, a chan ei ddangos ei hun mai Duw ydyw.' Prif hanfod, gwreiddyn, a pherffeithrwydd twyll a drygedd yr eglwys hon ydyw ei bod yn cadw yr Ysgrythyrau sanctaidd oddiwrth y werin yn eu hiaith gysefin, gan wahardd iddynt yn bennodol i ddarllen a chwilio gair Duw drostynt eu hunain, a gosod allan y Bibl fel llyfr per-yglus i bobl gyffredin i ymarfer ag ef: drwy yr hyn y'llwyddodd i gloi gwledydd a theyrnasoedd Ewrop yn ngharchar anwybodaeth a thywyllwch am oesau lawer; ac y mae yn cloi cannoedd o filoedd o eneidiau gwerthfawr dan ddylanwad ei damniol dwyll hyd y dydd heddyw. Y ddyfais o gadw gair Duw o ddwylaw y bobl, a'u perswadio i goelio na pherthynai i neb ond i'r offeiriaid ei ddarllen a'i esponio, yn

ddiameu oedd yr un fwyaf ofnadwy a melldithiol a genhedlwyd rhwng angel a dyn syrthiedig erioed. Crist'nogaeth wedi troi yn Anghristiaeth, a ddaeth i fod y flangell dostaf, y peiriant mwyaf dinystriol i eglwys Dduw ac eneidiau dynion, o'r un a luniwyd ac a osodwyd i fynu gan uffern ar y ddaear. Y mae y grefydd hon wedi ymdaenu dros ranau helaeth iawn o'r byd, ac yn cael ei phroffesu gan lawer mwy o ddysgyblion nag sydd gan un ffurf arall o Grist'nogaeth; pe priodol fyddai ei galw yn Grist'nogaeth.

Gyda golwg ar Ewrop, y hi yw y sefydledig a'r unig grefydd yn Itali, Spaen, a Portugal; a chrefydd sefydledig Austria, a'r Iseldiroedd Ffrengig; a'r un modd yn Sicily, Sardinia, a'r nynsoedd ereill yn mor y canoldir, ar gyffiniau Itali a Spaen. Y mae hwyrach naw o bob deg o drigolion Ffrainc yn Babyddion. Yn Poland, a thrwy holl diriogaethau treftadol Awstria, y mae yr un modd: ac y mae yn debygol bod mwy na haner trigolion taleithiau ereill yr Almaen yn Babyddion. Y mae eu nifer uwchlaw pedair miliwn yn Hungary yn unig; ac y mae oddeutu yr un nifer yn Prwsia hefyd. Yn nheyrnas Hanofer hefyd y maent yn dra lluosog. Yn yr Iwerddon y mae eu rhifedi yn agos i dri am un i bob enwad arall yn nghyd; y mae eu nifer yn Lloegr uwchlaw tri chan.mil; ac yn Scotland uwchlaw deng-mil-a-deugain. Y mae y grefydd Babaidd yn sefydledig hefyd mewn saith o'r taleithiau Swissaidd. Yn Holland, ac yn nhaleithiau Protestanaidd Switzerland; yn nghyd a Rwsia, y mae llawer o honynt. Y mae rhyw nifer i'w cael yn Sweden a Denmarc hefyd; ac yn nhaleithiau Ewropaidd yr ymerodraeth Dyrcaidd y maent yn lluosocach nag y tybir yn gyffredin eu bod.

Y mae llawer iawn o ddeiliaid Twrci yn Asia hefyd yn Babyddion. Y mae llawer iawn o honynt yn Syria, Mesopotamia, a'r America. Ceir rhai yn Persia. A thrwy Hindoostan a pharthau deheuol eraill Asia, Siam, Cochin China, Tonquin, ac yn ymerodraeth äangfawr China ei hun, y maent yn dra lluosog. Y mae y grefydd hon hefyd yn sefydledig yn llawer o nynsoedd y dwyrein-for. Anfonir cenhadau i China o Goleg St. Joseph, yn Macao. Dengys adroddiad gweithrediadau y genhadaeth hon am y fl. 1810, bod y pryd

hyny yn China, Tonquin, Cochin China, Siam, 14 o esgobion, 7 o ficeriaid apostolaidd, 34 o genhadon Ewropaidd, 234 o offeiriaid brodorol, a phum cant a phedwar-ugain a phump o filoedd (584,000) o Babyddion.

Yn Affrica drachefn, y mae y grefydd Babaidd wedi ymdaenu dros lawer o wledydd eang, heb sôn am Madeira, ac ynysoedd y Cape de Verd; trigolion y rhai ydynt oll yn Babyddion. Y mae rhan fawr o breswylwyr Lōango, Congo, ac Angola, yn ymlynu wrth athrawiaethau eglwys Rufain. Yr un peth a ellid ei ddywedyd hefyd am amryw deyrnas oedd yn nwyreinbarth y cyfandir hwnw; sef, Moranga, Mozambique, Tranguebur, a Melinda. Yn Guinea hefyd, ac yn nhaleithiau Mahometanaidd y gogledd, a'r Aipht, y maent yn lled liosog.

America. Y mae trigolion holl gyfandir deheuol America yn mron, yn cynwys y cynfrodorion a dysgynyddion yr ymfudwyr Ewropaidd, yn profesu eu hunain yn aelodau o'r eglwys Babaidd. Yr un grefydd a broffesir drwy'r holl sefydliadau Hispaenaidd yn yr Amerig ogleddol, a chan Hispaeniaid a Ffranciaid yr orllewinol Irdia, a chan dair rhan o bedair o drigolion Canada, lle y mae yn grefydd sefydledig.

Y maent yn lluosogi yn gyflym yn nhaleithiau gogledd yr Amerig, drwy fod cymaint o ymfudo yno o Ewrop bob blwyddyn: bernid bod eu rhifedi yno uwchlaw chwe chan mil er ys amryw flynyddau bellach; diau eu bod yn llawer lluosocach yno erbyn hyn.

Hysbysai calendar eglwysig Rhufain am y fl. 1822, bod rhifedi y Cardinaliaid y pryd hwnw yn bedwar a deugain, a bod nifer yr archesgobion, patriarchiaid, ac esgobion perthynol i'r eglwys hon drwy yr holl fyd, yn bum cant a deg-a-deugain.

Protestaniaeth neu Wrthdystiaeth. Rhoddwyd yr enw hwn ar y diwygwyr yn amser Luther, ac ereill, o herwydd iddynt ffurfio *protest* neu wrthdystiad yn erbyn penderfyniad yr ymerawdwr Charles y pumed a chymanfa Stires; yn datgan eu bod yn apelio yr achos mewn dadl i farn eynghor cyfredinol. Y mae yr enwad hwn er ys oesau bellach yn cael ei gymhwyso at yr holl eglwysi diwygiedig.

'Y Bibl,' medd Chillingworth, 'yw crefydd y Protestau-

iaid.' Proffesa pob eglwys Brotestanaidd gydsyniad a'r darnodiant hwn o'i chrefydd, pa mor bell bynag y mae rhai o honynt wedi dyrywio oddiwrth ei sylwedd a'i gynwysiad. Proffesir mai y Bibl ac mai y Bibl yn unig i'w rheol a maenprawf eu ffydd a'i hymaferion crefyddol; ac yn sicr cynnwysa hyn enaid gwir ddiwygiad. Enaid a hanfod dyrywiad a llygredigaeth eglwys Rufain oedd ei gwaith yn cadw ac yn cuddio yr Ysgrythyrau oddiwrth y werin, a dal a gosod traddodiadau dynol i fynu mewn gogyfuwch awdurdod mewn crefydd â gair Duw.

Y mae yr eglwysi Protestanaidd wedi ymwahanu i lawer iawn o wahanol bleidiau ac enwadau, ac y mae rhyw gymaint o wahaniaeth golygiadau ar athrawiaeth a llywodraeth eglwysig rhyngddynt oll a'u gilydd; ond y maent agos oll yn un yn eu cydnabyddiaeth o oruchel ac unig awdurdod gair Duw fel maenprawf eu ffydd a'u hymarferion crefyddol; ac yn cyduno, gan mwyaf o honynt, i daenu yr Ysgrythyrau, ac i ddadleu dros hawl pob dyn i'w darllen a'u chwilio yn ei dafodiaith briodol ei hun. Danoda eglwys Rufain yr ymraniadau hyn i'r eglwysi diwygiedig, gydag ymffrost fuddugol, gan ymorchestu ym ei hunoliaeth ei hunan fel prawf mai hi yw y wir eglwys lân Gatholig. Ond pa werth yw ei hundeb, tra mai tywyllwch ac anwybodaeth yw ei sail? Tawelwch ac undeb y fynwent a'r bedd ydyw; undeb marwol-aeth a marwolion ydyw; ac felly yn waeth yn ei natur a'i effeithiau nag ydyw holl ymraniadau ac ymbleidiau yr eglwysi gyda'u gilydd.

DOSP. II.

OND i ddychwelyd: Y mae y datganiad mai 'y Bibl yn unig yw crefydd Protestaniaid,' yr un o ran sylwedd a'r hyn a ddywedodd Crist ei hun;—*'Ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys*: a chan ein bod eisoes wedi cynyg profi dwyfolder a gwirionedd y llyfr sanctaidd hwn, a'i osod allan fel yr unig wir gyfarwyddwr mewn crefydd, nid amherthynasol fyddai

rhoddi byr hysbysiad yn y lle hwn am ymdrechiau y rhai hyny a'i harddelant fel llyfr dwyfol, yn cynwys holl egwyddorion eu cred a'u bucheddiad, tuag at ei daenu ef a'i egwyddorion yn mhlith eu cyd-ddynion.

I'r Morafiaid yn ddiâu y perthyna'r anrhydedd o flaenori a rhagori yn y brif ddyledswydd hon a berthyn i ddysgybllion Crist. Y Morafiaid ydynt blaid o Grist'nogion a darddodd megis cangen o eglwys Groeg yn y nawfed ganrif: ymsefydlasant gyntaf ar eu penau eu hunain yn mhentref Herrnhut, yn Morafia: ac o herwydd hyny gelwid hwynt yn Herrnhutiaid. Dyoddefasant ystormydd mawrion o erledigaethau olynol, oddiwrth gynddaredd yr eglwys Rufeinig, yn Morafia, Bohemia, a thaleithiau ereill o ymerodraeth yr Almaen. O ran eu hegwyddorion, y maent yn honi mai yr Ysgrythyr sanctaidd yn unig yw maen-prawf gwirionedd; y maent yn ymlynu wrth y ffurf o egwyddorion a ddysgid gan Luther, Melancthon, ac eraill o'r diwygwyr Protestanaidd, yn ol fel y mae yr egwyddorion hyny yn cael eu gosod allan yn nghyffes Augsburg. Credant nad ydyw teyrnas Crist wedi ei chyfyngu o fewn terfynau rhyw un blaid neullduol; ac ystyriant eu hunain, er eu bod yn unedig fel un corph neu eglwys weledig, eto mewn undeb ysprydol, yn rhwymyn cariad Crist'nogol, a'r holl rai ag ydynt yn cael eu dysgu gan Dduw, ac yn perthyn i eglwys gyffredinol Crist, pa faint bynag ydyw y gwahaniaeth rhyngddynt a'u gilydd mewn pethau o is bwys.

Dechreusant waith y genhadaeth yn y fl. 1692, pryd y planasant y sefydliadau cenhadol canlynol. Yn nysoedd yr India Orllewinol a berthynent i lywodraeth Denmark. Yn St. Thomas; Herrnhut newydd a Niskey. Yn St. Croix; Freidensberg, Freidensthal. Yn St. Gan; Bethany, ag Emäus. Yn 1733; yn Greenland; Herrnhut newydd, Litchenspels, a Lichtenau. Yn 1734; yn America Ogleddol; Fairfield. Yn Canada uchaf, Gosen ar fin yr afon Muskingum. Yn 1736; yn Mhenryn gobaith da (*Cape of good hope*) Bavians Roof. Yn 1738; yn Americ ddeheuol; yn mhlith y caethion negroaidd yn Paramariboa Sommelsdyk yn mhlith y negroaidd rhyddion yn Bombay, gerllaw yr afon Samaria; ac yn mhlith yr Indiaid brodorol ger llaw yr afon Cor-

entyn. Yn 1754; dau sefydliad yn Jamaica, yn mhlwyf St. Elizabeth. Yn 1756; yn Antigua; yn *St. John's, Grace Hill, a Grace Bay*. Yn 1760; gerllaw Tranquebar yn yr India ddwyreiniol; Bretheren's gardens. Yn 1764; ar du-eddair Labrador; Nain, Okrak, Hobedale. Yn 1765; yn Barbadoes, Saron, ger llaw Bridgetown. Yn 1765; yn y parth o Asia a berthyna i Rwsia—hefyd yr un flwyddyn St. Kits, a Bassetere. Yn 1789; yn Tobago; Signal Hill (adnewyddwyd yn 1798.)

‘Y sefydliadau mwyaf blodeuog yn bresenol, ydynt rhai Greenland, Antigua, St. Kitts, Ynysoedd Danaidd yr India Orllewinol, a Pheyrhyn gobaith da. Y mae golwg obeithiol hefyd ar eu sefydliadau yn mhlith Indiaid Amerig ddeheuol ac yn mysg yr Esquimanx Ar gyffiniau Labrador a Barbadoes. Gwnaethant ymdrechadau gorchestol a chanmoladwy, ond aflwyddianus, i anfon yr efengyl i ranau ereill o'r byd. Yn 1735, anfonasant genhadau i blith y Laplandiaid a Sanroediaid; yn 1737, a thrachefn yn 1768 i gyffiniau Guinea; yn 1738 i blith y Negroaid yn Georgia; yn 1739, at y caethion yn Algiers; yn 1740, i Ceylon; yn 1747, i Persia; yn 1742, i'r Aifft.

Sefydlwyd cymdeithas gan y Morafiaid yn Llundain er taenu yr efengyl yn mhlith y Paganiaid mor gynnar a'r flwyddyn 1751, er cydweithrediad mwy effeithiol gyda'r cymdeithasau a nodwyd, ac er gofalu am y cenhadau a ddygwyddent basio trwy Lundain ar eu mynediad i'w lleoedd appwyntiedig. Adnewyddwyd y gymdeithas hon, wedi bod o honi dan beth dryswch ac anfantaision, yn 1766, pan y cymerodd ofal y genhadaeth ar gyffiniau Labrador yn hollol arni ei hun; gyda pharhau i gynhorthwyo y cenhadaethau ereill mor bell-ed ag y mae yn ei gallu, yn neullduol y rhai ydynt o fewn tiriogaethau tramorawl Prydain. Gan nad oedd unrhyw fasnach na thramwy rheolaidd rhwng ein llywodraeth a chyffiniau Labrador, parotöodd y gymdeithas lestr fechan i drosglwyddo angenrheidiau bywyd i'r cenhadau yno unwaith yn y flwyddyn; ac yma ni allwn lai na gweled, a chydabod gyda diolchgarwch, ddaionus law Duw, am ei nodded drosglwyddo cenhadau a'r genhadaeth hon, fel yn yr holl yspaid maith o tua deng-mlynedd-ar-hugain, ag y mae y llong fechan hon

wedi bod yn tramwy i'r parth pellenig hwnw o'r byd na ddygwyddodd un anffawd iddi er ei hatal i gyfleu yr angenrheidiau yno bob blwyddyn, er bod y parth hwnw yn greigiog ac yn llawn o rew oesol, a mordwyaeth yn dra pheryglus yn yr holl gyffiniau.

'Sefydwyd cymdeithas gyffelyb yn Amsterdam yn y flwyddyn 1746, yr hon a adnewyddwyd yn 1793, yn Feist, gerllaw Utrecht. Cymerodd y gymdeithas hon ofal neull-duol y genhadaeth yn y Penrhyn Gobaith Da. Sefydlasant gymdeithas er taenu yr efengyl yn mhlith y cenedloedd yn Ngogledd America yn 1787, yr hon a fu yn dra ymdrechgar er cynhorthwyo y genhadaeth yn mysg yr Indiaid. Y mae y tair gymdeithas hyn yn ymdrechgar iawn, ac yn gwneuthur yr oll a allant i gynnal a chynhorthwyo yr holl genhadaethau rhâg-grybwylledig; ac y mae yr Arglwydd wedi helaeth fendithio llafur eu cariad.

'Yr oedd nifer y dychweledigion, a rhai dan addysg yn yr amrywiol sefydliadau hyn, yn y flwyddyn 1833, o ddeutu pymtheng-mil-a-deugain ag un cant a deg-a-deugain, (55,150) a nifer y cenhadau, yn nghylch cant a thriugain a thri (163).'

Fel hyn y mae yr enwad parchus ac anrhydeddus yma o Grist'nogion wedi rhoddi esiampl ogoneddus, a theilwng o efelychiad eu cyd-ddeiliaid 'yn nheyrnas ac amynedd Iesu Grist.' Hwynthwy oedd y rhai cyntaf a deimlodd nerth a dylanwad commissiwn ein Hiachawdwr i fyned 'i'r holl fyd, a phregethu yr efengyl i bob creadur!' Y mae eu cyflawn ymrôad i waith y genhadaeth, eu haberthau haelionus tuag ato, eu llafur difin a'u dïysgogrwydd yn wyneb anhawsdrau a digalondid, yn mhell uwchlaw canmoliaeth. Na phalled i'r Morafiaid wr i sefyll ger bron Duw yn dragywydd. Parhâed eu plant, a sicrhâer eu hâd ger bron Duw byth.

Y mae yr Eglwys Sefydledig wedi ymddangos yn gynnar ar y maes cenhadol. 'Y gymdeithas er lledaeniad yr efengyl mewn gwledydd Tramor,' medd y byr adroddiad 'Cymreig o'i gweithrediadau am y fl.1840, 'a ffurfiwyd yn y fl.1647, a chorphorwyd hi gan y brenhin William III, i gynnal offeiriaid a darparu tuag at addoliad Duw, yn mhlanfeydd, trefedigaethau, a gweithfeydd tramor Lloegr.' Caniatawyd y Freinlen (*charter*) ar gais Archesgob Caergaint (Dr. Tenison)

esgob Llundain, ac esgobion ac urddasolion ereill yn yr eglwys, ac a law-arwyddwyd, Mehefin 16, 1701. Felly, mae'r gymdeithas wedi bod yn llafurio yn y maes a bennodwyd iddi er ys cant a deugain mlynedd ond un, a thros gan mlynedd cyfan y hi oedd yr unig gymdeithas genhadol yn perthyn i eglwys Lloegr. Fel y sefydlwyd hi ar y cyntaf drwy ymdrechïadau pennaethiaid yr eglwys, felly y mae wedi cael ei dwyn yn mlaen ar egwyddorion eglwysig, ac mewn manol ymlyniad wrth reolau dysgyblaethol yr eglwys. Y mae pob esgob o eglwys gyfunol Lloegr a'r Iwerddon, wrth ei swydd, yn aelod o'i chyfeisteddfod parhaus, ac ni chytunir ar un peth o bwys heb gydsyniad a chymeradwyaeth Archesgob Caergaint, llywydd y gymdeithas.

'Y rhai a bennodir ar gynhygiad y gymdeithas i fod yn genhadon, ydynt, yn union fel y mae'r offeiriaid yn y wlad hon, yn ddarostyngedig i awdurdod yr esgob, gan yr hwn yr aufoir hwynt i'r gwahanol leoedd y bônt i lafurio ynddynt.

'Gellir dywedyd mai 'maes' llafur y gymdeithas yw 'y byd,' gan fod ganddi awdurdod i estyn ei gweithrediadau i ba wlad bynag y bo masnach Brydain yn agor drws iddi; ond y mae ei chenhadon yn llafurio yn benaf yn y pedwar dosparth mawr canlynol o'n hymerodraeth drefedigaethol.

1. Y rhan o ogledd America ag sy'n perthyn i Brydain.

Er yr amser y daeth America yn annibynol, y mae'r gymdeithas wedi bod yn llafurio yn nhaleithiau Canada uchaf ac isaf, Nova Scotia, Brunswic newydd, Newfoundland, Ynys y tywysog Edward, Penrhyn Breton a Bermuda.

2. India orllewinol. 3. India. 4. Awstralia.

'Dyna bedwar prif ddosparth gweithrediadau'r gymdeithas; ond ni chyfyngir hwynt i'r rhai hyn. Y mae ganddi ddau o genhadon er ys tro yn neheubarth Affrica, ac y mae yn ddiweddar wedi penderfynu cynhorthwyo i gynnal un yn New Zealand, ac un yn neheudir Awstralia.'

Sefydlwyd cymdeithas genhadol arall mewn undeb a'r eglwys sefydledig yn y fl. 1800, dan yr enw 'Cymdeithas Genhadol yr Eglwys.' Y mae ganddi sefydliadau cenhadol yn ngorllewin a deheubarth Affrica; ar gyffiniau Môr y Canoldir, a chyffiniau China. Yn ngogledd, dehau, a gorllewin India; yn Bombay, Ceylon, ac Awstralia; yn nghyd ag

ynnysoedd yr India orllewinol, ac yn mysg Indiaid gogledd-orllewin America.

Y mae gan yr Eglwys Sefydledig hefyd gymdeithas arall dan ei nodded, 'Y gymdeithas er taenu Crist'nogaeth yn mblith yr Iuddewon,' yr hon a sefydlwyd yn y fl. 1808, ac y mae ffrwythau daionus wedi cyfodi eisoes oddiwrth ei hymdrechiadau, yn nychweliad cryn nifer o'r hen genedl i fwydd Crist.

Sefydlwyd Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr yn y fl. 1792, dan yr enw 'Cymdeithas y Bedyddwyr neullduol, er taenu yr efengyl yn mysg y cenhedloedd.' Anfonodd y gymdeithas hon genhadau allan i'r India ddwyreiniol, lle y buant yn llafurus a llwyddiannus iawn, yn neullduol mewn cyfseithu yr Ysgrythrau i lawer o ieithoedd a changen-ieithoedd y dwyrain. Y mae gan y gymdeithas hon sefydliadau blodeuog a llwyddiannus iawn yn nhiriogaethau Prydeinig yr India orllewinol hefyd, yn neullduol yn Jamaica, lle y llafuria yr enwog genhadwr Knibb ac ereill. Nid oedd gan y gymdeithas hon sefydliadau cenhadol ond yn y ddwy India yn unig hyd y flwyddyn 1840, pan y penderfynodd y cyfarwyddwyr ar sefydlu cenhadaeth yn neheubarth Affric, ac y mae cenhadau newydd gael eu happwyntio i fyned yno. Y mae gan y gymdeithas gant a phedwar-ugain-a-thair o sefydliadau, pedwar-ugain o genhadon Ewropaidd, a chant a thri o athrawon brodorol yn eu cynhorthwyo.

Cymdeithas Genhadol Llundain a sefydlwyd yn y fl. 1795, i'r dyben o daenu y wybodaeth o Grist yn mysg y Paganiaid. Ei hegwyddor sylfaenol a gynnwysir yn y datganiad canlynol. 'Gan fod undeb Crist'nogion o wahanol enwadau yn beth i'w fawr ddymuno er dwyn yn mlaen y gwaith mawr o efengyleiddio y byd, ac fel y galler cau allan, os yw bosibl, bob achlysur o anghydfod mewn amser dyfodol, cyhoeddir mai egwyddor sylfaenol y gymdeithas genhadol hon, ydyw, Nid anfon Presbyteriaeth, Annibyniaeth, Esgobyddiaeth, nag unrhyw ffurf arall o drefn a llywodraeth eglwysig, y'nghylch y rhai y geill fod gwahanol farnau yn mhlith dynion cydwobodol, ond anfon efengyl ogoneddus y Duw bendigedig i blith y cenhedloedd; a gadael (fel y dylai gael ei adael) i feddyliau y rhai a alwo Duw i gymdeithas ei Fab yn eu plith,

i ddewis drostynt eu hunain y ffurf-lywodraeth eglwysig a ymddangoso fwyaf cydunol a gair Duw yn eu golwg.'

'Er bod cyfansoddiad y gymdeithas yn hollol rydd gyda golwg ar ffurf-lywodraeth eglwysig,' medd y *Congregational Calendar*, 'eto, prif ac agos unig ffynhonell ei chymborth, gyda golwg ar foddion arianol a phleidwyr, ydyw yr eglwysi cynulleidfaol.'

Y mae y Trefnyddion Calфинаidd Cymreig hefyd wedi cydweithredu mewn undeb a'r gymdeithas hon o amser cyntaf ei sefydliad hyd yn bresennol.

Y mae gan Gymdeithas Genhadol Llundain feusydd äang iawn o'i blaen i'w llafurio; y manau cyntaf y bwriodd ei chryman i mewn, ydoedd, Ynysoedd y Môr Mawr Deheuol; lle y mae llwyddiant mawr iawn wedi bod ar lafur ei chenhadau—llawer o ynysoedd ydynt wedi bwrw eu heulunod ymaith yn hollol, ac wedi troi oddiwrthynt i 'wasanaethu y gwir a'r bywiol Dduw, ac i ddysgwyl am ei Fab ef o'r nefoedd, sef Iesu.' Yn un o'r ynyscedd hyn, Eromanga, y syrthiodd yr anfarwol Williams yn ferthyr anrhydeddus i achos y genhadaeth; yr hwn yn ddiau oedd un o'r cenhadau mwyaf anturiaethus, gwrol-ffydig, ymroddgar, a llwyddianus, a anfonwyd allan i'r byd wedi dyddiau yr apostolion. Y mae y gymdeithas hon yn cadw llygad pryderus ar China fawr hefyd, ac yn llawn awyddus i anfon ei milwriaeth yno i ymdrech ag awdurdodau tywyllwch, anwybodaeth, a rhagfarnau ei miliynau trigolion. Y mae ganddi amrywiol genhadau ar y trothwy yn disgwyl agoriad drws, fel y caffont fyned i mewn; y mae llawer iawn o waith rhag-barotöawl wedi ei gyflawni eisoes, er pan ddarfu i'r enwog genhadwr Dr. Morrison, drwy ddirfawr ymdrech a llafur, ddysgu eu hiaith, a chyfieithu yr Ysgrhythrau iddi. Y mae y milwyr a'r arfogaeth yn barod, ond y mae drws y fynedfa i mewn hyd yma yn gauedig. Gellir dywedyd yn briodol iawn bod y Gwardwr yn sefyll wrth ddrws yr ymerodraeth äang hono ac yn curo. A phwy a wyr na ddybena yr ymryson anhapus presenol sydd rhwng ein llywodraeth ni a'r llywodraeth Chineaidd, nid yn unig yn agoriad drws mas'nach rhwng y ddwy wlad, ond hefyd yn agoriad y drws i genhadon hedd i fyned i mewn i gyhoeddi cenhadwri y cymod i'r miliynau trigolion

O fewn pedair blynedd yn ol, sefydlwyd cymdeithas genhadol arall gan yr Annibynwyr, o dan yr enw 'Cymdeithas Genhadol y Trefedigaethau,' (*The Colonial Missionary Society*,) i'r dyben i anfon cenhadon i lafurio yn benaf y'mhlith y Negröaid rhydd-freiniedig yn nhrefedigaethau (*colonies*) Prydeinig yr India orllewinol; ac y mae y genhadaeth hon eisoes wedi bod yn dra llwyddiannus.

Yn y fl. 1814, sefydlwyd cymdeithas hefyd dan yr enw 'Cymdeithas er efengyleiddio yr Iwerddon,' (*The Irish Evangelical Society*.) Yn ei chyfarfod blynyddol diweddaf, gwnaed peth cyfnewidiad yn ei chyfansoddiad, drwy gymeradwyaeth unfrydol o'r penderfyniad canlynol:—

'Gan fod cyllid y gymdeithas er efengyleiddio Iwerddon wedi deilliaw er ys amryw flynyddau yn mron yn hollol oddiwrth Annibynwyr, a bod gweithrediadau y gymdeithas wedi bod o nodwedd gynnulleidfäol, oddigerth ychydig iawn o eithriadau bychain, y mae yn ymddangos i'r cyfarfod hwn, bod cysondeb a chyfiawnder yn galw am fod y gymdeithas mewn enw yr hyn a fu mewn gwirionedd o ran ei gweithrediadau er ys hir amser; a bod y cyfarfod hwn, gan hyny, yn penderfynu bod i'r gymdeithas o hyn allan gael ei galw 'Y gymdeithas er efengyleiddio Iwerddon, mewn cyssylltiad ag undeb cynulleidfaol Lloegr a Chymru.' Mynegai yr adroddiad am y flwyddyn hon, bod ei llafurwyr yn cynwys gweinidogion eglwysi, cenhadau teithiol neu gyffredinol, yn nghyd a'r rhai a änt o amgylch i ddarllen yr Ysgrhythrau o dy i dy, y rhai ydynt oll yn cael eu cynnal gan y gymdeithas, yn ddeugain mewn rhifedi.

Cymdeithas Genhadol y Wesleyaid, a sefydlwyd yn neu o ddentu y fl. 1817, dan yr enw 'Cymdeithas Genhadol y Trefnyddion Wesleyaid.' Y mae ymdrechadau cenhadol y gangen liosog hon o'r eglwys Grist'nogol wedi bod yn fawrion, helaethion, a llwyddiannus iawn. Y mae gan y gymdeithas hon genhadau yn lafurio mewn llaweroedd o feusydd gyda ffyniant mawr. Dengys yr adroddiad am y flwyddyn ddiweddaf, bod nifer y prif sefydliadau cenhadol yn ddau cant a phump-a-deugain; nifer y cenhadau, yn dri chant ac un-ar-ddeg-a-thriugain, yn cael eu cynhorthwyo gan ddwy fil, tri chant, ac un-a-thriugain o egwyddorwyr a darllenwyr yr

Ysgrythyrau; uwchlaw tri chant o athrawon cyflogedig; ac o ddeutu pedair mil o athrawon rhad: ac o dan eu gofal, ddeunaw mil a thriugain a phum cant a phedwar o aelodau, neu gymunwyr.

Y mae y gymdeithas rymus a gweithgar hon wedi penderfynu eleni ar sefydlu cenhadaeth newydd yn Ashantee, yn mherfedd-dir Affric; yr hon sydd yn wlad lawn o drigfarau trawster, barbaraid, creulon, ac isel-raddiol i'r eithaf o ran moesau ac arferion ei thrigolion.

Y mae cymdeithasau cenhadol grymus ac ymdrechgar yn America hefyd, a rhanau ereill o'r byd; ac mewn gwirionedd, y mae yr eglwys Grist'nogol yn dyfod yn fwyfwy teimladwy o'i rhwymedigaeth tnaag at y byd; yn dyfod i wisgo y nodwedd o eglwys genhadol yn fwy-fwy bob blwyddyn: ei theimlad, ei hymdrechion, a'i haelioni yn y gwaith gogoneddus yn myned yn mlaen ar gynydd parhaus; ei chymdeithasau duwiol-frydig, Crist'nogol, a dyngarol, o hyd yn amlhau; nifer ei cenhadau yn lluosogi; a'i chyllidau hefyd yn cyd-gynhyddu. Y cymdeithasau cenhadol a grybwyllwyd yn nghyd a 'Chymdeithas y Biblau Brytanaidd a Thramor,' yn yr hon y cyduna pob plaid deilwng o'r enw plaid Grist'nogol, er dwyn ei hamcan gogoneddus i ben, o 'anfon gair Duw, heb na nôd nag esponiad,' i bob gwlad ac yn mhob iaith dan y nefoedd; y rhai hyn, meddaf, a 'Chymdeithas y Traethodau crefyddol,' a chymdeithasau ereill o'r cyffelyb, ydynt gynnifer o beiriannau wedi eu codi gan yr eglwys Grist'nogol i ymosod ar deyrnas y tywyllwch, i fwrw i lawr gestyll dychymygion a rhagfarnau, i dynu i lawr offergoelion a fagwyd mewn tywyllwch ac anwybodaeth, y'nglyd a 'phob uchder sydd yn ymgodi yn erbyn gwybodaeth, ac addoliad y gwir Dduw, ac i gaethiwo meddyliau y byd i ufudd-dod' y Crist a ddatguddia yr efengyl. Y cymdeithasau daionus hyn ydynt rag-argoelion o gyfnewidiad gogoneddus ar gyflwr ac agwedd foesol y byd. Y maent yn gynnifer o offerynau yn llaw rhagluniaeth ddwyfol i ddwyn oddi amgylch gyflawniad o addewidion gair y gwirionedd yn sefydliad teyrnas a llywodraeth y Messia yn gyffredinol ar y ddaear—yn arwyddion o sicrwydd dinystriad teyrnas y tywyllwch yn nhyniad i lawr y colofnau o anwybodaeth, ofer-

goelion, rhagfarnau, y dychymygion a'r cyfeiliornadau sydd yn eu dal i fynu. Y maent yn nerthol weithio er tynu i lawr yr hen nefoedd a'r hen ddaear, ac er gosod i fynu 'nefoedd newydd, a daear newydd' yn eu lle. Gogoniant a harddwch y gwahanol gymdeithasau hyn, ydyw, eu bod wedi eu sefydlu, ac yn cael eu cynnal a'u dwyn yn mlaen ar egwyddor wirfoddol. Y maé achos y genhadaeth Grist'nogol yn ymdaith yn amllder ei rym moesol ac ysprydol ei hun. 'Y gareg,' ydyw, 'yr hon a dorwyd, nid á llaw' awdurdodau a chyfreithiau dynol a gwladol, ac sydd yn treiglo hefyd ar yr un egwyddor ag y torwyd hi, ac yn marlurio y delwau yn ei ffordd, ac yn myned yn ei threigliad yn fynydd mawr. Crist'nogaeth yn cael ei dangos yn ei gwaith ydyw; ffrwyth ei dylanwad ar feddyliau a chalonau deiliaid ei gweinidogaeth, yn tori allan mewn aberthau haelionus a gwirfoddol bob blwyddyn, er lledaeniad ei hegwyddorion bendigaid yn mhlith dynion. Prawf ydyw o'r gwerth ag y maent hwy eu hunain yn ei weled ac yn brofi ynddi, nes eu cynhyrfu mewn teimlad o dosturi dros, a chariad at eu cyd-ddynion sydd hebddi. Rhaid i'r anffyddiad dewi wrth edrych ar y pethau hyn; ni chaiff le i ddanod na heuru bod gallu gwladol a chyfreithiol yn angenrheidiol er taenu Crist'nogaeth yn y byd; rhaid iddo weled mai y hi yw yr unig grefydd a all ymsymud ac ymledaenu yn ei nerth priodol ei hunan.

Y daflen ganlynol a ddengys amser sefydliad, nifer cenhadau, a swm derbyniadau y rhan fwyaf o'r cymdeithasau a nodwyd, y flwyddyn ddiweddaf.

Methais gael gwybod beth oedd swm derbyniadau y gymdeithas olaf a enwir yn y daflen ganlynol, a rhoddais swm derbyniadau y flwyddyn o'r blaen gyferbyn a'r tair cyntaf yn y daflen, o herwydd bod mynegiadau (*reports*) y cymdeithasau hyny am y flwyddyn hon heb ymddangos eto. Erbyn rhoddi y cwbl yn nghyd, gwelir bod y swm o bedwar cant a phump-a-deugain o filoedd, chwe chant ag un-a-deugain o bunnau, un swllt a dwy geiniog, (*P445,641 1s. 2c.*) wedi eu casglu mewn un flwyddyn gan Grist'nogion y deyrnas hon yn unig, at yr un dyben gogoneddus o efengyleiddio y byd.

	Sefydlwyd	Nifer y Cenadon.	Derbyniadau yn 1839.		
			£.	s.	d.
Y Gymdeithas er taenu yr efengyl mewn parthau tramor, - -	1701	254	30,046	12	0
Cymdeithas Genhadol yr Eglwys, -	1800	104	90,901	8	4
Cymdeithas er taenu Crist'nogaeth yn mhlith yr Iuddewon, - -	1808		18,554	12	8
Cymdeithas Genhadol y Bedyddi- wyr, - - - - -	1792	183	Yn 1840.		
Cymdeithas Genhadol Llundain, -	1795	607	19,217	13	0
Cymdeithas Genhadol y Wesleyaid,	1817	371*	94,954	9	8
Cymdeithas y Trefedigaethau—An- nibynwyr, - - - - -	1836		80,550	13	3
Cymdeithas er efengyleiddio Iwerdd- on, - - - - -	1814	40	3,600	18	0
Cymdeithas Biblau Brytanaidd a Thramor, - - - - -	1804		2,569	11	4
Cymdeithas Traethodau Crefyddol,	1799		105,255	2	11

Nid yw y rhai uchod ond ychydig allan o lawer o gymdeithasau a sefydliadau daionus sydd yn ein gwlad—gwnaed sylw mwy neullduol o'r rhai uchod, o herwydd eu bod yn dangos eglwys Grist'nogol Prydain yn yr oŵg hawddgar, o un yn 'edrych nid yn unig ar yr eiddo ei hun, ond ar yr eiddo arall hefyd'—yn gofalu am gyflwr ysprydol a thragwyddol y byd. Y mae y lluaws o gymdeithasau ereill sydd yn y wlad hon, gwaith y rhai ydyw gwellau cyflwr a moesau ei thrigolion ei hun, fel cynifer o law-forwynion yn gweini yn achosion y ty gartref; tra y mae y lleill fel gwahanol gymdeithion o fasnachwyr, yn gyru y nwyfau cartrefol i farchnadoedd tramor. Tra y mae yr eglwys Grist'nogol fel hyn 'yn cynnal gair y bywyd' gartref, y mae hefyd yn ei anfon i'r byd newynllyd a thlawd sydd yn marw hebdo.

Nid oes un wlad dan y nefoedd yn meddu y fath ddylanwad a Brydain ar gyflwr a helyntion gwladwriaet ol a moesol y byd. Y mae ei dylanwad a'i heffeithioldeb ar y byd yn

* Y mae 2361 o gynhorthwyr neu Athrawon brodorol hefyd yn cael eu cynnal gan y gymdeithas hon.

gyffelyb i'r eiddo awrgloch (*clock*) mawr tref, ar yr awrglych man yn y tai. Y mae efe yn rhagflaenor ac esiampl iddynt hwŷ; trefna pob ty ei awrgloch wrth ei reol ef. Rhaid fod rhyw ddybenion goruchel gan ragluniaeth ddwyfol yn rhoddi y fath lywodraeth a dylanwad ar y byd yn nwyllaw ynysig fechan fel hon.

Y mae llawer o'n darllenwyr, ond odid, yn anhysbys o hel-aethrwydd ymerodraeth drefedigaethol Prydain. Dylai pob dyn fod yn hysbys yn hanesyddiaeth ei wlad ei hun: ac i'r dyben i gyfleu golygfa gryno ger bron llygaid y darllenydd o äangder awdurdod lywodraethol ein gwlad, cyfodais y daflen isod o'r '*Colonial Magazine*,' yn yr hon y ceir enwau y lleoedd, a rhifedi trigolion y trefedigaethau Prydeinig yn ngwahanol barthau y byd.

EWROP.

Gibraltar, ei phoblogaeth, 15,000. Malta, 109,730. Gozo, 16,534. Corfu, 65,106. Cephalonia, 63,197. Zante, 35,348. Santa Maura, 17,175. Ithaca, 9,654. Cerigo, 8,707. Paxo, 5,064. Heligoland, 2,200.

ASIA.

Bengal, 40,025,000. Agra, 32,005,000. India tu draw i'r Ganges, 1,000,500. Madras, 15,010,000. Bombay, 8,010,000. Ceylon, 1,259,000. Penang, 33,500. Talaeth Wellesey, 22,000. Malacca, 33,162. Sincapore, 22,000.

AUSTRALIA.

Deheudir Cymru newydd, 85,000. Tir Van Diemen, 45,000. Australia Orllewinol, 52,500. Australia Ddeheuol, 103,000. Ynys Norfork, 1,300.

AFFRICA.

Penrhyn Gobaith Da, 150,000. Mauritius, 90,000. Seychelles, 7,500. St. Helena, 5,000. Ascension. Siera Leone, 35,100. Gambia, 5,050. Cape Coast Castle, 8,010. Accra, 5,005. Dix Cove, 2,000. Annamboe, 3,002.

GOGLEDD AMERIG.

Canada Isaf, 605,000. Canada Uchaf, 410,000. Brunswic

New, 124,000. Nova Scotia, 150,000. Cape Breton, 30,300. Prince Edward, 33,100. Newfoundland, 75,000. Tir Hudson Bay, 103,000.

AMERIG DDEHEUOL.

Demerara, 48,000. Esequibo, 27,150. Berbice, 24,560. Honduras, 8,794. Ynysoedd Falkland, 25.

INDIA ORLLEWINOL.

Jamaica, 361,490. Y Caymans, 1,600. Trinidad, 39,045. Tobago, 13,198. Grenada, 20,99½. St. Vincent, 26,200. Barbadoes, 100,000. St. Lucia, 15,000. Dominica, 18,660. St. Kitts, 23,133. Montserrat, 7,000. Antigua, 35,060. Barbuda, 1,500. Nevis, 10,000. Anguilla, 2,000. Ynysoedd Tortola, 7,731. New Providence a'r Bahamas, 22,000. St. George a'r Bermudas, 8,500.

Cynwysa yr ymerodraeth drefedigaethol hon, ddwy filiwn, cant a phedair-ar-bymtheg o filoedd, saith cant a dwy-ar-bymtheg, (2,119,717) o filldroedd ysgwar o dir; a chan miliwn, chwe chant a naw o filoedd, tri chant a phymtheg-a-thriugain (100,609,375) o drigolion. Am y llunaws dirfawr yma o eneidiau y mae gan yr eglwys Grist'nogol yn Mrydain gyfrifoldeb neullduol. Y maent wedi eu rhoddi iddi megis gan ragluniaeth ddwyfol yn etifeddiaeth, i'w porthi a bara y bywyd, a'u gwisgo a gwisgoedd iachawdwriaeth. Y mae ganddi ddrysau agored i fyned atynt, ac y mae y berthynas wladwriaethol sydd rhyngddi â hwynt, fel cyd-ddeiliaid yr un goron, yn cyfansoddi perthynas, rhwymedigaeth a chyfrifoldeb moesol arni ar eu rhan. Fel y mae gallu gwladol Prydain wedi eu darostwng dan warogaeth ei chyfreithiau, boed i'w gallu a'i grym moesol hithau yr un modd ddarostwng eu meddyliau a'u hewyllysiau i ufudd-dod i gyfreithiau Brenhin Sion, fel y byddo i holl ddeiliaid yr un lywodraeth wladol a daearol, fod yr un modd yn gyd-ddeiliaid o'r un lywodraeth a chyfreithiau ysprydol a nefol.

Y mae yn wirionedd trahynod a chysurus, bod mwy wedi ei wneyd yn nghorph y deugain mlynedd diweddfaf er efengyl-eiddio y byd a'i lenwi a gwybodaeth gogoniant y gwir a'r bywiol Dduw, nac a wnaed yn holl ystod y canrifoedd blaenorol er dyddiau yr apostolion hyd y cyfnod hwn. Er sefydl-

iad cymdeithas y Biblau yn 1804, cyfieithwyd yr Ysgrhythyrrau i lawer o ieithoedd a changen-ieithoedd y byd, y rhai na buasai gair Duw erioed yn llefaru gair ynddynt o'r blaen. Cyn hyny nid oedd ond rhanau o hono yn unig i'w gael mewn ychydig o ieithoedd y ddaear. Y mae y gymdeithas wedi gwasgaru dros deuddeng miliwn o gopïau o air Duw yn y gwahanol ieithoedd hyny er dechreuad ei gweithrediadau hyd yn bresenol! Gellir edrych ar weithrediadau y deugain mlynedd hyn a dywedyd, 'mor fawr y cynhyddodd gair Duw ac yr amlhaodd!'

Y mae 'gair yr Arglwydd wedi rhedeg yn dra buan' mewn cymariaeth i bob esiampyl sydd genym erioed o'r blaen yn ei holl hanesyddiaeth. Y mae yn wir iddo ymdaenu gyda chyflymdra anghyffredinol yn y pregethiad o hono yn yr oes apostolaidd, pan yr aeth y 'gyfraith' gyntaf 'allan o Sion, a gair yr Arglwydd o Jerusalem.' Ond a chydmaru yn ystyriol weithrediadau y deugain mlynedd apostolaidd & gweithrediadau y deugain mlynedd diweddf, hwyrach nad gormod fyddai dywedyd fod y diwygiad hwn ar y cyfan yn rhagori ar y diwygiad hwnw, er ei fod mewn rhai pethau yn mbell iawn yn ol iddo. Nid oedd gair ysgrifenedig Duw gan y cenhadau hyny i'w wasgaru yn y gwledydd a'r ieithoedd y pregethent ynddynt; nid oeddynt hwy ond yn ei egluro drwy bregethiad yn unig i'r cenedloedd; yr oedd diffyg yr eglwysi yn cael ei wneuthur i'fynu mewn rhan drwy y llythyrau a ysgrifennai yr apostolion atynt; ond nid oedd yr holl dystiolaeth yn nghyraedd y rhan fwyaf o honynt. Ond yn ngweithrediadau presenol yr eglwys er lledaenu Crist'nogaeth yn y byd, y mae yr holl dystiolaeth ddwyfol ganddi i'w rhoddi yn nwyllaw ei chenhadau, a moddion a darpariaeth gyfaddas i'w galluogi i'w chyflwyno i bob iaith a phob ymadrodd; ac y mae hwn yn foddion rhagorach nag oedd gan yr apostolion er sicrhau Crist'nogaeth mewn meddiant parhâol o'r gwledydd hyny ag y mae yn cael ei dwyn i mewn iddynt. Yr oedd y ddawn i lefaru a thafodau, ac i gyflawni gwyrthiau a rhyfeddodau nerthol, yn fanteision gan eglwys yr oes apostolaidd, nad ydynt yn meddiant yr eglwys bresenol a'i chenhadau: ond er hyny, y mae y manteision sydd yn nwyllaw yr eglwys yn awr yn tra rhagori â'r y rhai hyny: pethau a

roddodd Pen yr eglwys iddi am dymor, a phethau tra angenrheidiol i'r tymor hwnw, oedd y tafodau a'r gwrthiau, ond pethau wedi eu gosod oeddynt 'hyd amser y diwygiad,' nes y gosodid pethau gwell yn eu lle. Y mae yr argraff-wasg ei hunan yn fwy gwasanaethgar i daenu gwybodaeth o'r efengyl yn y byd, na holl wyrthiau yr apostolion. Y mae y gwelliant anhygoel sydd wedi bod ar holl gangheni celfyddyd a gwybodau, y cyflymdra rhyfeddol a'r hwn y teithir ar dir a dwfr, ac y trosglwyddir nwyfau o'r naill gwr i'r llall o'r ddaear yn rhoddi mantais annhraethol ragorach er cyflym daenu yr efengyl yn y byd, na'r ddawn o lefaru â thafodau a roddid i'r apostolion a'r eglwysi gynt. Y mae yr hen sylw, 'nad yw yr Arglwydd erioed wedi cymeryd dim oddiar ei eglwys, heb roddi iddi beth fyddai gwell yn ei le,' yn dal yn wirionedd yn holl ffeithiau ei hanesyddiaeth: ac felly yn yr ystyriaeth dan sylw. Yr oedd holl elfenau y celfyddydau naturiol mewn bod y pryd hyny yn gystal ag yn awr; ond yr oedd y *wybonaeth* angenrheidiol i ddwyn yr elfenau yn nghyd er ffurfio y peiriauau, yn guddiedig oddiwrth lygaid pob dyn byw, hyd yn od yr apostolion eu hunain; ac felly yr oedd peiriant goruwch-naturiol y gwrthiau yn angenrheidiol at wasanaeth yr eglwys, er cyflawni y diffyg o beiriant naturiol y celfyddydau. Gellir yn briodol ddywedyd bod peiriannau gweithio yr eglwys yn gyflawnach a chrysfach yn yr oes bresenol, nag yn yr oes apostolaidd. Y mae y peiriant moesol, fel y gellid ei alw, wedi ei osod wrth ei gilydd yn gyflawn oll, heb ddim yn eisiau: dirgelwch Duw, sef y datguddiad ysgrifenedig, wedi ei orphen; holl athrawiaethau gras wedi eu datguddio a'u sefydlu, fel nad oes na thystiolaeth, na gorchymyn, addewid, na bygythiad, eto i gael eu hychwanegu. Y mae gan yr eglwys ddatguddiad perffaith, cyfan a chyflawn, o feddwl ac ewyllys Duw yn ei dwylaw, i wynebu ar y byd. Y mae y peiriant anianyddol hefyd, sef celfyddydau, cymdeithasau, a darpariadau o bob math, ac i ateb pob perwyl, yn cael ei osod wrth ei gilydd gyda brys a chyflymdra rhyfeddol y dyddiau hyn; ac y mae gan yr hwn sydd yn dysgu gwybodaeth i ddyn, er cael allan ddirgeledigaethau gwahanol elfenau y greadigaeth, yn rhoddi doethineb a dyfais iddo i allu ffurfio cynlluniau i osod y naill elfen i weithredu ar y llall er gwas-

anaethgarwch cyffredinol; y mae ganddo, meddaf, ei ddybenion doethion a gogoneddus ei hunan, i gael eu dwyn i ben drwy y pethau hyn oll. Y mae yn cyfrannu yr holl ddoniau hyn, yn gosod y ddoethineb hon yn ymysgaroedd dynion, er mwyn ei achos a'i deyrnas ei hun yn y byd; fel y byddont yn îs-wasanaethgar i'w eglwys i brysuero ei buddugoliaethau ar y ddaear. Y mae eglwys yr oes hon yn mwynhau holl fanteision ymdrech yr oesau blaenorol; yn myned i mewn i lafur yr eglwys apostolaidd—y mae eu pregethau, eu llythyrâu, eu sêl a'u hesiamplau, ger bron eu llygaid; hanes eu hymdrechion, eu dyoddefiadau, a'u gwyrthiau, yn agored o'i blaen, yn nghyd a llaweroedd o gyfleusderau a manteision nad oedd yn eu meddiant hwy; a chyda yr holl ragorach manteision hyn, gellir sicrhau y byddai ei llwyddiant yn llawer mwy cyflym a chyflawn nag y bu y llwyddiant hwnw, pe byddai hi wedi ymwisgo a sêl, duwioldeb, haelfrydedd, ac ysbryd gweddi yr eglwys honno gynt. Y mae yn ddiameu nad yw y nerthoedd neu yr elfenau ysbrydol hyn, ag oedd ynt yn addurno nodweddi yr eglwys y pryd hwnw a'r fath ogoniant tra rhagorol, mor amlwg a nerthol i'w canfod yn ngweithrediadau yr eglwys Grist'nogol yn bresennol. Sêl, haelfrydedd, cariad at Grist, ac at yd colledig, ysbryd gweddi, a hollol ymroddiad i wasanaeth ei Harglwydd, oedd fel agerdd holl-nerthol, yn gweithio ac yn gyru llestr yr eglwys yn mlaen gyda chyflymdra anhygoel, yn erbyn gwyntoedd a llanw creulon o wrthwynebiadau. Yr oedd y pethau hyn mewn mesur mawr yn cyflenwi llawer o ddiffygion ac anfanteision y llafuriai danynt. Yn awr, pe meddyliem fod yr eglwys wedi dyfod i'r un ardymer foesol ag yr oedd y pryd hyny, ei chariad at Grist, a'i sêl dros ei ogoniant wedi enyn i'r un grym angerddol—ei haelfrydedd, a'i haberthau, i'r un graddau ac oddiar yr un egwyddorion—ei hundeb a'i ffydd mewn gweddi, i'r un nerth ac addfedrwydd; ac ystyried ei nerth mewn cyfoeth a rhifedi yn awr, rhagor oedd yn amser yr apostolion, yn nghyd a'r holl fanteision rhag-grybwyll-edig, ag ydynt wrth ei llaw ac yn barod at ei gwasanaeth; diau nad gormod dywedyd y byddai ei buddugoliaethau yn ganwaith mwy prysur nag y buont erioed, ac na byddai ond ychydig amser yn cymeryd meddiant o'r byd oll.

Y mae y buddugoliaethau a enilla Crist'nogaeth yn bresenol yn y byd yn fwy gogoneddus hefyd, mewn ystyriaeth, na'r buddugoliaethau apostolaidd. Nid oes ganddi yn awr un cymhorth allanol a gweledig i'w chefnogi—un wyrth yn apeliad at synhwyrâu corphorol dynion—dim ond wynebu ar y byd yn nerth ei hegwyddorion, ei thystiolaethau, a'i datguddiadau, apeliadau at gydwybod, deall, a holl alluoedd moesol y meddwl dynol, gan ymddibynu ar ddylanwad dwyfol, dirgelaid, ond holl effeithiol Ysbryd y gwirionedd i effeithio trwyddo er rhoddi genedigaeth newydd i fyd o bechaduriaid. Felly, er bod angenrheidrwydd anheborol am weinidogaeth y gwyrthiau ar sefydliad cyntaf Crist'nogaeth, er profi ei dwyfoldeb, ac fel gweinyddion i lenwi y diffyg o bethau rhagorach, yr oedd terfyniad eu goruchwyliaeth yn ddiameu, nid yn gerydd ar, nac yn golled i'r eglwys, ond yn hytrach yn ffafr a mantais iddi; gan fod eu diffyg yn cael ei gyslenwi gan drefniant o foddion gwell, er ateb dybenion ei sefydliad yn y byd.

Os gwrthddadleuir nad oedd y celfyddydau hyn yn adnabyddus yn amser terfyniad y gwyrthiau, nac hyd yn mhen llawer o oesau wedi hyny, ac o ganlyniad bod yr eglwys am gannoedd o flynyddau wedi terfyniad oes y gwyrthiau yn amddifad o wasanaeth y celfyddydau hyn, ac felly na allai eu bod wedi eu bwriadu er llenwi y diffyg o honynt—yr wyf yn ateb, mai tymor fföedigaeth yr eglwys i'r diffaethwch oedd y tymor hwnw, ac nad oedd mewn cyfleusdra i weithio y pryd hyny; sefyll ar ei hamddiffyniad yr oedd, ac nid ydoedd mewn cyflwr ac amgylchiadau i wneuthur ymosodiad ar y byd, er helaethu ei therfynau ynddo: ond ar doriad y diwygiad Protestanaidd allan, dechreuodd y celfyddydau fiaguro. Mor gynted ag y dechreuodd yr eglwys ymddangos ar y maes mewn agwedd filwraidd, i adnewyddu ei rhuthr-gyrch ar egwyddorion cyfeiliornus a llygredigaethau y byd, dygodd y celfyddydau allan beiriannau ddigon at eu gwasanaeth—mor gynted ag y daeth angen arni am danynt, wele hwynt yn barod at ei llaw.

Torodd y diwygiad Protestanaidd allan yn Germany tua'r flwyddyn 1519, pan y cyhoedd-arddelodd Luther ei hollol ymneillduad oddiwrth eglwys Rufain; ac o'r flwyddyn fyth-

gofiadwy a byth-fendigedig honno, yr ydym i ddyddio dechreuad goruchwyliaeth newydd, megis, ar y byd—toriad gwawr fechan yn nghanol nos o dywyllwch fel y fagddu a orchuddiasai yr holl genhedloedd am lawer cant o flynyddau; a'r hon, o hyny hyd yn bresennol, sydd wedi parhau i gynhyddu a myned rhagddi, gan ymlid y nos o'i blaen a llewyrchu yn fwy-fwy tanbaid a dysgleiriol: a diau mai argynydd yr â nes ei myned yn ganol-ddydd cyffredinol dros y byd oll.

Dechreuwyd y gelfyddyd o argraffu, tua'r flwyddyn 1440, oddeutu tair-blynedd-a-deugain cyn geni y diwygiwr Luther; a thair-blynedd-ar-ddeg-a-thriugain cyn genedigiaeth y diwygiad Protestanaidd. Un o'r enw Coster o Haerlem oedd tad cyntaf y gelfyddyd; ac un John Guttemberg a ddug i mewn amryw welliadau ynddi; ac un arall o'r enw John Schoeffer, o Mentz, a'i dygodd i fwy o berffeithrwydd; ac y mae llawer o welliadau wedi bod arni o hyny hyd yn bresennol. Fel hyn yr oedd rhagluniaeth ddwyfol wedi bod yn codi offerynau i ddechreu, gwella, a pherffeithio y gelfyddyd amhrisiadwy hon, ychydig amser cyn dwyn i fodoliaeth yr offeryn mawr a blaenaf ag oedd wedi ei fwriadu ganddi i dywallt y fath firwd nerthol o oleuni drwy y peiriant hwn ar gyflwr y byd.

“O bob adfywiad crefyddol a wyddom am dano,” medd Mr. Douglas, o Cavern, “y diwygiad Protestanaidd oedd yr un a ddygid yn mlaen gyda lleiaf o genhadau o'r un: er fod yr achos o hyn yn ddigon amlwg, ni chymerwyd digon o sylw o hono, er ei ddangos fel y dylasid. Pob adfywiad blaenorol ar grefydd a effeithid drwy ymdrechion personol cenhadau. Taenwyd y diwygiad hwn yn benaf drwy ysgrifeniadau; pe amgen, ni allasai byth dreiddio mor gyflym ag y gwnaeth i wahanol wledydd Ewrop, pan yr oedd yr holl rym gwladol ac eglwysig wedi ymgyngreirio yn ei erbyn. Efe oedd yr amlygiad mawr cyntaf o alluog nerth argraffyddiaeth: ac hefyd, gan ei fod yn rhuthr annysgwyladwy; nid oedd unrhyw foddion wedi eu paratoi er gwrthsefyll ei ymgyrch. Ymddangosai ddarfod i weithrediad peiriant mor newydd, ac mor alluog, osod heibio am dymor ddefnyddiad pob moddion ac ymdrechion ereill; ac yr oedd meddwl y

cyhoedd eisoes wedi ei gynhyrfu a'i ddeffroi, yn barod i gyfarch, gyda mawr awyddfryd a chrossaw, doriad gwawr newydd o ryddid gwladol a chrefyddol.

“Y mae y cenhadau, gyda medrusrwydd a diwydrwydd mawr, yn gwneuthur defnydd o'r peiriant nerthol ag y sydd yn cyfnewid agwedd foesol y byd, sef yr argraff-wasg.

“Achlysurwyd y diwygiad Protestanaidd gan draethodau; a phob cyfnewidiad arall a effeithiwyd er y pryd hwnw, yn grefyddol a gwladwriaethol, a ddygwyd oddi amgylch gan y cenhadau cyflym ac effeithiol hyny, y rhai, yn gyffelyb i Hermes adeiniog yr henafiaid gynt, ydynt yn cynniwair yn ddi-ataliad, dros foroedd a chyfandiroedd. Y mae gweithrediadau Cymdeithas y Traethodau Crefyddol yn un o ryfeddodau ein hoes. Y mae ei thraethodau bychain yn cael eu bwrw yn gawodydd ar bob gwlad; ac os nad ydynt yn llawn mor hyawdlaidd a geiriau Ulysses, eto, yn gyffelyb i'r eiddo ef, y maent yn disgyn mor drwchus ag eira Ionawr; ac ni allwyd, hyd yma, lwyddo i gael unrhyw foddion i roddi ataliad ar ei heffeithiolaeth. Nid oes iaith nac ymadrodd lle ni chlybnwyd eu lleferydd hwynt, ac nid ymddengys bod unrhyw derfynau i'w gweithrediadau, oddigerth yr hyn sy'n gosod terfynau i bob ymdrechion dynol—diffyg digon o foddion arianol.”

Y mae holl ddiffygion yr eglwys Grist'nogol er cyflawni ei hanturiaeth ogoneddus o ddychwelyd y byd at Dduw, yn gwbl ac yn hollol ynddi hi ei hunan. Y mae ganddi drefniant o foddion moesol perffaith gyfaddas i'r dyben. Y mae “Cyfraith yr Arglwydd yn berffaith i droi”—y weinidogaeth efengylaidd yn berffaith gymwys i agoryd llygaid a dychwelyd dynion. Sicrhâi yr hwn y mae “pob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear” yn ei law, y byddai gyda hi “bob amser hyd ddiwedd y byd,” tra y byddai hi yn arferyd ei foddion gosodedig ef, mewn ufudd-dod i'w orchymyn, ac yn ol ei gyfarwyddyd. Nid diffyg moddion, na diffyg dylanwadau i effeithio y llwyddiant yw yr achos na buasai y byd wedi ei enill at Grist. Y mae peiriannau celfyddyd hefyd mor gyflawn, fel nad oes un rhwystr nac atalfa, o herwydd unrhyw ddiffyg o'r natur yma, ar ei ffordd i efengyleiddio yr holl fyd. Y mae morwriaeth wedi “parotoi ffordd i'n

Duw ni drwy anial-foeroedd y byd," yn "palmantu priffyrdd" dros yr eigionau, i bob cyfandir ac ynys ar wyneb yr holl ddaear—digion o elfenau defnyddiol yn barod i argraffu cynnifer o Fiblau ag sydd o drigolion yn yr holl fyd: "Weithian y mae pob peth yn barod." Y mae Duw yn barod—y Bibl a'r efengyl yn barod—Iesu Grist a'r Ysbryd Glau yn barod—yr angelion, y celfyddydau, a'r byd hefyd. "Yr ynysoedd a ddysgwylant am ei gyfraith ef." Y mae y meusydd eisoes yn "wynion i'r cynhauaf." "Cyfyngir" ar yr eglwys, ar ei llwyddiant, "yn ei hymysgaroedd ei hun." Y mae yr holl ddiffyg yn ei helfenau mewdol—ei chariad, ei sel, ei ffydd, ei hymröad i'r gwaith, ac yn neull-duol ei haelfrydedd.

Y dyfyniad canlynol allan o annerchiad cyfarwyddwyr Cymdeithas Genhadol Llundain, yr hwn a ymddangosodd yn y *Drysorfa Efengylaidd* am y mis hwn, Ionawr, 1841, a rydd brawf nerthol o wirionedd y sylw uchod.

"Y mae yn awr ger bron y cyfarwyddwyr yr apeliadau dwysaf a thaeraf am genhadau o lawer o fanau; a phe buasai eu moddion yn caniatâu, gallasant anfon allan *fwy na hanner cant o lafurwyr* yn ychwanegol i feusydd nad oes eto un llafurwr i'w gael ynddynt, neu i feusydd ereill ag ydynt eisoes yn wynion i'r cynhauaf. Ond o herwydd diffyg cyllid, ac o herwydd hyny yn unig, ni ellir cydsynio a'r ceisiadau hyn—rhaid gadael y meusydd äang a gobeithiol hyn heb eu diwyllio.

"Ac fel y mae rhagluniaeth ddwyfol yn agoryd o'u blaen feusydd helaeth a dymunol o lafur, felly hefyd, y mae llawer o aelodau ymroddgar o'n heglwysi yn cael eu cymhell gan gariad Crist a chariad at eneidiau dynion, yn dra awyddus i gael eu hanfon allan i'r gwaith pwysig a sanctaidd hwn: ond teimla y cyfarwyddwyr eu hunain yn analluog i dderbyn eu gwasanaeth.

"Er amser cyfarfod blynyddol diweddaf y gymdeithas, gorfawyd gwrthod mwy nag ugain o ymgeiswyr cenhadol, o herwydd diffyg moddion i'w hanfon i'r gwaith, ac o herwydd hyny yn unig.

"Y mae sefyllfa bresennol cyllidau y gymdeithas, nid yn unig yn atal lluosogiad cenhadau, ac äangiad y genhadaeth,

ond y mae y cyfar yddwyr dan yr angenrheidrwydd i ychwanegu, a hyny gyda'r gofid a'r pryder dwysaf, os nad ychwanegir cyllid blynyddol y gymdeithas, gorfyddir hwynt i alw adref rai o'r brodyr a anfonasant allan at y Paganïaid, ac i adael y meusydd ag y maent wedi dechreu llafurio ynddynt.

“Cymbhella y cyfarwyddwyr yr hysbysiad hwn o amgylchiadau y gymdeithas, yn y modd dwysaf, at ystyriaeth fwyaf difrifol ei chyfeillion yn y brif-ddinas, a'r wlad oll. Canlyniad naturiol ei llwyddiant ydyw y dryswch hwn ar amgylchiadau y gymdeithas; nid ei dianrhydedd, ond prawf o'i ffyddlondeb; nid yw yn un achos o gynhuddiad, er ei fod yn galw am ofal, ac yn anogaeth i sêl gynhyddol. Pa mor wahanol, pa mor alarus fuasai ein hachos, pe buasai diffyg dynion ffyddlon i'r gwaith; neu pe buasai y cenhadwr ymroddgar yn cael ei gau allan, ac yn methu cael drws o ddyfodfa at y lluoedd sydd yn trengu o eisiau gwybodaeth; neu pe buasai Duw yn gwrthod coroni ein hymdrechion tlodion a bendith! Y mae cyfeillion ffyddlawn y gymdeithas wedi bod yn hir eiriol gyda Duw am ddadymchweliad caethwasiaeth, a dyddymiad ofergoelion, deffrôad y Cenedloedd, a dychweliad y byd; ac atebwyd eu gweddïau yn nghynydd llafur y gymdeithas, a helaethiad ei llwyddiant. Ac ai ni fydd i haelfrydedd yr eglwysi gydredeg a symudiadau rhagluniaeth, a galwadau y byd Paganïaid? Y tlodion, hyd eithaf eu gallu, i.e, ac uwchlaw eu gallu, ydynt wedi profi eu cariad haelfrydig at yr achos sanctaidd hwn: ond a ddarfu i'r cyfoethogion wneuthur yr hyn a allasant. Gydag ychydig o eithriadau, nid yw cyfraniadau blynyddol y goludogion at achos mawr y genhadaeth prin yn helaethach na'u cyfraniadau at unrhyw achos elusenol. Diau fod arwyddion yr amserau, gyda golwg ar y genhadaeth Grist'nogol, yn gofyn i bob dyn gyfranu yn ol fel y llwyddodd Duw ef.”

Dygyddodd i mi weled y cyfarchiad uchod pan oeddwn newydd ysgrifenu y sylwadau blaenorol, ac o herwydd ei fod yn ateb mor bwrpasol, fel eglurhad arnynt a chyfnerthiad iddynt, cyflëais hwynt ger bron y darlennydd yn y lle hwn. Y maent yn eglur-ddangos y ffaith neu yr egwyddor a fwrïedid ei sefydlu—sef, bod rhagluniaeth ddwyfol mewn dar-

otoi y ffordd, agoryd drysau, darparu cyfleusderau—y'mlaen llaw i'r eglwys bob amser, a bod dylanwadau yr Yspryd yn cydgerdded â hi er effeithio llwyddiant ei llafur i bob man ag y wyneba hi iddo. Y mae rhagluniaeth yn myned o'i blaen, ac yn agoryd drysau o fynedfa iddi at y cenedloedd, ac yn dywedyd wrthi, Tyred. Y mae yr Yspryd yn cydfyned gyda hi i mewn iddynt, i lwyddo ac arddel ei hymdrechiadau.

PENNOD XI.

CYFARWYDDIADAU I DDARLLEN A DEAL YR YSGRYTHYRAU.

“Chwiliwch yr Ysgrythyrau.” “A ddarlleno, ystyried.”

CENFYDD y ddarllenydd mai un o brif amcanion y traethawd hwn ydyw profi ddwyfoldeb y llyfr sanctaidd a'r grefydd a ddatguddia, drwy osod ger bron grynhodeb o'r amrywiol dystiolaethau ag ydynt yn cadarnhau ac yn dangos hyny. Etyb cyhoeddiad a darlleniad y llyfr ddyben i'r graddau yr arweinio ystyriaethau y ddarllenyddion at y mater hwn, ac y cynhorthwyo hwynt i'w ddirnad, ac i sefydlu eu crêd yn ei wirionedd. Diau bod cannoedd o ddarllenwyr y Bibl yn Nghymru a rwydd broffesant grediniaeth yn ei ddwyfoldeb, heb ganddynt un rheswm i'w rodidi am y gobaith sydd ynddynt. Y maent wedi clywed hyny, ac y mae y cyffredinolrwydd o'r wlad yn addef hyny; ac felly cymerir y peth yn ganiatâol, heb fyned i'r drafferth i chwilio ac edrych i mewn i'r mater. Nid ywy fath grediniaeth oeraidd â hon, o un gwerth moesolac ymarferol—ffydd farw ac ofer ydyw. Ni all gynhyrchu byth yn y meddwl y duwiol barch a'r crynedig deimlad wrth air Duw ag sydd yn gweddu i'w ddwyfol urddas. Gall y fath grediniwr â hwn o'i ddwyfoldeb gellwair uwch ei ben, chwareu a'i fgygythion, diystyru ei dystiolaethau a'i addewidion, a byw mewn tawel anufudd-dod i'w holl orchymynion. O'r tu arall, y mae crediniaeth o'i ddwyfoldeb, a godo oddiar ystyriaeth, dirnadaeth, ac argyhoeddiad meddwl, yn sicr o gynhyrchu rhyw gymaint o barch cydwybodol i'r Ysgrythyrau sanctaidd yn y fynwes: ac effeithio i'r un graddau ar y fuchedd hefyd. Hwyrach nad oes dim yn fwy andwyol yn ei dylanwad ar ein

gwlad, na'r ffydd ganiatâol rag-grybwylledig. Byddai y rhai ydynt yn ymfoddloni arni yn ysglyfaeth barod i anffyddiaeth, pedygwyddai iddynt fyned i gyraedd ei dylanwad. Ni byddai unrhyw atalfa arnynt, ond yn unig y rhagfarn a fagodd dygiad i fynu yn eu mynwesau. Proffesai eu rhieni a'u hathrawon, cyfeillion a gerid ac a berchid ganddynt, barch i'r Bibl fel llyfr dwyfol, ac y maent hwythau yn eu dilyn; ond pan welant bod anffyddiaeth yn addaw rhyddid iddynt i ddilyn eu tueddiadau a'u pleserau, ac yn datod rhwymau cyfrifoldeb, buan iawn y torent dros ben eu hen ragfarnau, ag y cofleidient y fath egwyddorion dymunol.

Byddai crediniaeth yn nwyfoldeb yr Ysgrythyrau, oddiar ymchwiliad ac argyhoeddiad barn, o'r tu arall, yn gadernid meddwl, er ei gadw yn sefydlog a dianwadal yn wyneb ymosodiadau. Y mae y cyfryw yn credu oddiar reswm, ac nid yn haeru oddiar ragfarn; ac y mae rheswm yn *egwyddor* sefydlog, pan nad yw rhagfarn ond *teimlad* anwadal.

Effeithiai y fath grediniaeth hefyd, yn gyntaf, *Er cynhyrchu a chynhyddu awyddfryd meddwl i ddarllen a chwilio yr Ysgrythyrau*. Ni allwn deimlo mwy o awydd i ddarllen a chwilio y Bibl na rhyw lyfr arall oni byddwn yn wir grediniol o'i ragoroldeb dwyfol. Y mae y naill ddyn yn caru gwybod meddwl a barn ei gyd-ddyn am dano ei hun, ac ar unrhyw achos o bwys a fyddo yn dal perthynas ag ef; a pha uchaf a fyddo enw a nodwedd unrhyw wr mewn gwybodaeth a doethineb, mwyaf i gyd a fydd yr awydd i ymgynghori ag ef, ac i wybod ei feddwl a'i farn: y mae awyddfryd meddyliau ymofyngar am weithiau awduron, yn cyfodi i'r graddau o enwogrwydd y byddo 'r awdwyr wedi cyrhaeddyd—hyderir mwy yn y naill na'r llall i'r graddau y tybir ei ragoriaeth. Pa faint mwy o awyddfryd, ynte, a deimlid yn gyffredinol i chwilio yr Ysgrythyrau, pe byddai crediniaeth resymol a sefydlog yn meddyliau dynion eu bod yn cynwys gwir feddwl Duw—yn cynwys barn ddigyfeilorn ac anffaeledig y Jehofa tragwyddol am bethau agydynt, yu dal perthynas bwysig ac uniongyrch â chyflwr, nodwedd, ac amgylchiadau pob dyn? Oni ellir tybied y byddai llawer mwy o "geisio allan o'lyfr yr Arglwydd a darllen," nag y sydd? Gyda pha fanylwydd y darllenid yr hanesyddiaeth

hono, pe y credid mai y Duw digelwyddog fyddai yr hanesydd—y tystiolaethau a'r egwyddorion hyny, ag y byddai y meddwl yn argyoeddedig eu bod yn cynwys gwir olygiadau a theimladau y Duwdod.

Yn ail, *Rhwymai y gydwybod i deimlo parch i'r Ysgrythyrau.* Y mae yn beth dychonadwy bod cydwybod dyn yn parchu peth ag y mae ei galon yn gasau: a bod ei galon yn caru yr hyn y mae ei gydwybod yn gondemnio—ond yr hyn na byddo ei galon yn garu, na'i gydwybod yn barchu, sydd hollol ddiystyr ganddo. Diau fod yn bosibl y ceir rhai dynion yn argyoeddedig eu barn o ddwyfoldeb yr Ysgrythyrau, ag nad ydynt er hyny "wedi derbyn cariad y gwirionedd fel y byddont cadwedig;" eto y maent yn nês i "deyrnas Dduw" na'r bobl hyny ag ydynt yn ddirmygus a diystyr o air yr Arglwydd, ac yn cyfrif "pethau mawrion ei gyfraith fel dyeithr beth." Y mae y gydwybod yn rhwym o deimlo math o barch i'r Bibl i'r graddau y byddo yn argyoeddedig mai gair Duw ydyw. Yr oedd Saul yn "ofni Dafydd eto yn fwy," wedi iddo weled bod yr Arglwydd gydag ef; ond yr oedd yn ei gasau ar yr un pryd: felly y mae y gydwybod yn ofni y Bibl eto yn fwy, po mwyaf argyoeddedig fyddo mai gair yr Arglwydd ydyw, er y gall y galon gasau ei egwyddorion: ond o'r ddau, gwell yw yr hwn y mae ei gydwybod yn parchu yr Ysgrythyrau fel gwirionedd dwyfol, er na byddo ei galon yn eu caru, na'r hwn sydd yn hollol amddifad o'r naill a'r llall. Yr oedd Herod yn ofni ac yn *parchu* Ioan fedyddiwr fel gwr cyfiawn, ac efe a wnai lawer o bethau oddiar y parch a'r ofn hwnw, er nad oedd yn ei garu fel gwr cyfiawn. Effeithia parch cydwybodol i'r Ysgrythyrau er atal cyflawniad llawer o bechodau, a gweddeiddio llawer ar fucheddu ac ymddygiadau dynion, er na bydd eu calonau yn serchu ac cofeidio eu hegwyddorion.

Yn drydydd, *Y mae crediniaeth o ddwyfoldeb yr Ysgrythyrau, oddiar argyoeddiad rhesymol y farn, yn effeithio fel rhag-barotod ar y galon i blygu ac ufuddhau i'w hawdurdod.* Yr ydym yn darllen ddarfod i lawer o'r Iuddewon gredu yn Nghrist, yn nwyfoldeb ei anfoniad a'i genhadwri, y rhai, er hyny, na roddasant ufudd-dod iddo drwy ei gyffesu a'i

arddel, o herwydd bod eu hofnau yn gryfach na'u ffydd ; neu, eu bod yn ofni dynion yn fwy nag yr oeddynt yn ofni Duw : ond dilys yw, na ufuddhâodd neb o'i galon iddo, heb y grediniaeth hon am dano. Ni chyffesodd neb ef yn Arglwydd ac yn Grist, gan anturio i wyneb y peryglon cysylltedig a'r fath broffes, ond y rhai hyny ag oeddynt yn gyn-taf wedi eu llwyr argyhoeddi o'r gwirionedd hwnw am dano. Yr oedd argyhoeddi eu barn am dano yn anheborol angenrheidiol er eu dwyn i ufuddhau iddo. Ni enillwyd calon un dyn erioed i ufuddhau i'r gwirionedd heb yn gyntaf enill ei farn a'i gréd, pa faint bynag o farnau a chydwybodau a enillwyd i gyd-dystiolaethu ag ef, heb i'w calonau gael eu henill i'w garu ac ymostwng iddo.

Etyb y gwaith hwn ddyben da a phwysig, er ei holl ddi-ffygion a'i amherffeithderau, os bydd yn foddion i gynhyrchu a dyfnhau argraff grediniol yn meddyliau ei ddarllenwyr o ddwyfoldeb yr Ysgrythyrau sanctaidd—os, wedi edrych drosto, y teimlant fwy o awydd i chwilio y Bibl, a mwy o barch iddo oddiar argyhoeddiad dwysach o'i ddwyfol-ysprydoliaeth. Y mae y budd a ddeillia oddiwrth ddarlleniad pob llyfrau dynol yn cyfateb i'r gradd y codant ogoniant y llyfr dwyfol i olwg y meddwl.

Wedi sefydlu y meddwl a'r farn mewn perthynas i ddwyfoldeb deddf-lyfr ein crefydd, a pharatoi ein hunain i'w ddarllen, ei chwilio, a'i barchu, fel y cyfryw, y peth nesaf i amcanu ato ydyw deall yr egwyddorion y mae yn gynnwys. Dychon un ddeall profion ei ddwyfoldeb, o leiaf rai o hon-ynt, heb ddeall egwyddorion y llyfr ei hun. Gall un fod yn hollol argyoe ddedig o ddwyfoldeb yr Ysgrythyrau, drwy sylwi yn unig ar y profion ymarferol, yr effeithiau a wél eu bod yn cael eu cynhyrchu drwy ei ddylanwad, neu y profion allanol, y gwyrthiau, a chyflawniad ei ragddywediadau—dychon i sylw ar y naill neu y llall o'r profion hyn gynhyrchu llawn argyhoeddiad barn o ddwyfol-ysprydoliaeth y llyfr sanctaidd, heb nemawr iawn o ddirnadaeth yn y deall am wir ystyr a meddwl y Gair. Gellid nodi rhai a fuant ddadl-euwyr grymus a champus iawn dros ddwyfoliaeth y Bibl, a roisant ddigon o brofion ar yr un pryd nad oeddynt yn deall nemawr iawn o'i egwyddorion.

Cyssegrir gweddill y ben nod hon i osod i lawr ryw gynnifer o ystriaethau neu egwyddorion cyffredinol, mewn ffordd o gyfarwyddiadau i ddarllenwyr ieuainc i ddeall meddwl y gair dwyfol.

DOSP. II.

Ienenctid yr Ysgolion Sabbathol! Bwriadwyd y llyfr hwn er eich addysg a'ch hyfforddiant chwi yn neullduol. Llauer gwr ieuanc gobeithiol a fagwyd ar fronau yr Ysgol Sabbathol yn Nghymru, a symudwyd gan amgylchiadau a galwedigaethau bywyd i'r naill neu y llall o drefydd mawrion a phoblogaidd Lloegr, lle y daethant i gyrhaedd crafangau anffyddiaeth, a syrthiasant braidd yn ddiarwybod yn ysglyfaeth i'w hegwyddorion, gan eu bod yn hollol ddibarotôad i'r rhuthr, heb erioed gael y fantais i wybod dim yn flaenorol am eu rhesymau a'u gwrthddadleuon, ac heb un darian amddiffynol i ddiffoddi y picellau tanllyd. Dychon y daw llauer o honoch chwithau i gyfarfod yr un amgylchiadau; a chyflwynir y llyfryn hwn, yn nifyg ei well, i eich sylw, gydag amcan i wreiddio a sefydlu eich meddyliau yn y mater pwysig o ddwyfoldeb y llyfr a gynwysa egwyddorion y grefydd eich addysgir ynddi. Byddai dda genyf yn mhellach allu rhoddi rhyw gyfarwyddiadau buddiol a fyddent yn gymhorth i chwi i ddeall "yr Ysgrythyr lân." Un peth ydyw bod yn gyfarwydd â *geiriau* y Bibl, a pheth arall yw bod yn gyfarwydd â'i *feddwl*: gall y naill fod heb y llall. Gallech draddodi côf-ranau helaeth iawn o'r gair; bod yn hysbys iawn o'i ymadroddion, â gallech fod mor gyfarwydd â mynegair yn llyfrau, pennodau, adnodau, a geiriau yr Ysgrythyr, ac er hyny yn anwybodus iawn o'i hystyr a'i hegwyddorion mawrion. Ac ar y llaw arall, gall un fod yn dra diffygiol mewn cofio y *geiriau a'r ymadroddion* ac yn dra chyflawn o wybodaeth a deall yn *egwyddorion* y gair. Gan y blaenaf mae y wisg, ond gan yr olaf mae y sylwedd—y mae ffurf yr ymadroddion iachus gan y naill, ond y mae yspryd yr ymadroddion gan y llall. Ni fynwn er dim i chwi *feddwl* fy mod

am ddiystyru a beio y rhai ydynt yn gofiaduron geiriau yr ysgrythyrau, na, pell iawn oddiwrth hyny; po mwyaf cyfarwydd â hwynt, gorau oll: pe byddai yr holl air sanctaidd wedi ei ystorio yn y côf, da iawn; ond mynwn i chwi uno y ddau yn nghyd; a'r hwn sydd felly, yn ddiâu yw yr ysgrythyrwr cyflawn: ac i'r dyben i eich cynhorthwyo yn hyn, cynhygiat i'ch ystyriaethau dri dosparth o egwyddorion hyfforddiadol. Chwennychwn, yn mlaenaf, gymhell i'ch sylw rai ystyriaethau rhâg barotöawl.

Yn gyntaf, *Darllenwch y Bibl bob amser dan yr ystyriaeth mai gair Duw ydyw.* Bob tro yr agorwch ef, meddyliwch eich bod yn myned i ddal cymundeb a'r Duwdod—i ddarllen meddyliau a theimladau ei galon—eich bod yn myned i droi ac edrych ar y weledigaeth fawr hon, a bod 'y tir yr ydych yn sefyll arno yn ddaear sanctaidd!' Cofiwch mai 'Duw a lefarodd yr holl eiriau hyn,' a'i fod ef wedi 'mawrhau ei air uwchlaw ei enw oll,' a'i fod yn eiddigus iawn dros anrhydedd ei air, ac yn dysgwyl iddo gael ei barchu, 'nid fel gair dyn, ond fel y mae yn wir air' iddo ef. Bod yr holl air hwn wedi ei ysgrifenu er ein haddysg, ein hyfforddiant, a'n sancteiddiad ni—i fod yn gyfarwyddwr ein crêd a'n buchedd, yn rheol ein bywyd, ac yn rheol ein barniad yn y dydd olaf.

Yn ail, *Cofiwch bod yn anheggorol angenrheidiol deall yr Ysgrythyrau, mewn trefn i gael llês oddiwrth y darlleniad o honynt.* Gellwch eu darllen drosodd lawer gwaith heb gael dim lleshâd oddiwrthynt, os heb eu deall: ni ellwch weled gogoniant a phrydferthwch moesol eu hegwyddorion—credu eu tystiolaethau, nag ymarferyd eu rheolau, heb eu deall. 'Gwna i mi ddeall, a chadwaf dy gyfraith,' medd y Salmydd. Yr oedd y Saducëaid 'yn cyfeiliorni yn fawr,' nid am nad oeddynt yn *darllen*, ond am nad oeddynt yn '*deall* yr Ysgrythyrau.'† Gwrthodai yr Iuddewon dderbyn y Messia, nid o herwydd nad oeddynt yn *darllen* prophwydoliaethau yr Hen Destament ag oeddynt yn cyfeirio ato, ond am nad oeddynt yn '*adnabod* lleferydd y prophwydi.'‡ 'Dallwyd eu meddyliau hwynt; canys hyd y dydd heddyw, y mae yr

* Salm exix. 34.

† Marc xlii. 24.

‡ Act. xliii. 27.

un gorchudd, wrth ddarllen yr Hen Destament, yn aros heb ei ddatguddio; yr hwn yn Nghrist a ddilëir. Eithr hyd y dydd heddyw, pan ddarllenir Moses, y mae'r gorchudd ar eu calon hwynt.* Onid oes lle i ofni bod cannoedd yn Ysgolion Sabbathol ein gwlad yn darllen yr Ysgrythyrau bob Sabbath yr un modd, a'r gorchudd ar eu calon—tra y mae geiriau y bywyd trag'wyddol yn agored ac eglur ger bron eu llygaid, bod eu meddyliau am y llen a'u hystyr a'u harwyddocâd ysbrydol? Pa beth yw fyr achos o fod cynifer o ieu-entid mawr ac aml-freintioeg ein gwlad yn gelyd ac annuw- iol, ond eu bod yn cau eu llygaid rhag gweled, eu clustiau rhag clywed, a'u calonau rhag deall, a throi a'u meddygin- iaethu.† 'A wyt ti yn deall y pethau yr wyt yn eu dar- llain?' ebai Phylip wrth yr Eunuch o Ethiopia; gan arwyddo na allasai gael unrhyw lës oddiwrthynt heb eu deall. Ewyl- lysiwn ofyn yr un peth i chwithau, 'A ydych yn deall y pethau yr ydych yn eu darllain?' Os nad ydych o leiaf yn awyddu ac yn ymdrechu eu deall, y mae yr amser a dreulir i ddarllen yn cael ei dreulio yn ofer.

Yn drydydd, *Ymdrechwch yn wastad i gyrhaedd y wybodaeth hono o'r Ysgrythyrau sanctaidd a'ch gwnelo yn fwy-fwy gostyngedig ac iselfryd, yn fwy defnyddiol ac yn well dynion yn mhob ystyriaeth.* Na fydded i chwi byth ymgyrhaedd am wybodaeth yn unig er mwyn eich cymhwyso eich hunain i fod yn siaradwyr a dadleuwyr mawrion—'Gwybodaeth sydd yn ymchwyddo' yw hono. Ac 'os yw neb yn tybied ei fod yn gwybod dim, ni wyr efe eto ddim, fel y dylai wybod.' Na cheisiwch byth fod yn ddoeth uwchlaw yr hyn a ysgrif- enwyd: 'Ymdrafferthu i geisio gwybod pethau nad ydynt wedi eu datguddio, ac na byddech ddim gwell er eu gwybod—ynfyd ac annysgedig gwestiynau—pethau sydd yn magu ymrysonau.' 'Chwedlau ac achau anorphen, y rhai sydd yn peri cwestiynau yn hytrach nag adeiladaeth dduwiol'—'hal- ogedig ofer-sain, a gwrthwyneb wybodaeth, a gam enwir felly.' 'Ymryson yn nghylch geiriau, yr hyn uid yw fudd- iol i ddim, ond i ddadymchwelyd y gwranda-wyr.'§ Y mae

* 2 Cor. ii. 14, 15. † Act. xxviii. 27. § 1 Tim. i. 4. a vi. 23. a 2 Tim. ii. 2, 3.

treulio amser i ymholi, Beth oedd enw tad Melchisedec—O ba le y cafwyd digon o ddwfr i orchuddio'r ddaear yn amser y dylif—Pa beth a ysgrifennodd yr Arglwydd Iesu a'i fys ar y ddaear—Beth oedd y swmbwl a roddwyd yn nghnawd Paul—a lluaws o'r cyffelyb, yn 'ynfyd ac annysgedig gwestiynau:' nid ydynt wedi eu hamlygu i ni, ac felly ni allwn eu gwybod, ac ni byddem ddim gwell er eu gwybod. Gadewch bob peth yn y fan y gedŷ y Bibl ef; gadawodd ef Melchisedec 'heb dad, heb fam, ac heb achau:' gadewch chwithau ef felly. Ni ddywed yr hanesyddiaeth sanctaidd, pa fodd y cafwyd digon o ddwfr yn amser y dylif i orchuddio mynyddoedd uchaf y ddaear; na ofelwch chwithau yn nghylch gwybod y peth na ofalodd yr Yspryd Glan ei amlygu. Dywed yr efengylwr ddarfod i'r Arglwydd Iesu ymgyrnu, ac ysgrifennu a'i fys ar y ddaear, ond ni ddywed pa beth a ysgrifennodd, ac ni's gall neb byth wybod, er bod yn ddigon hawdd llunio mil myrdd o ddychymygon. Ymfynwch hob amser am wybod a deall yr hyn a ddywed yr Ysgrythyr, ac nid yr hyn a adawodd hebe ei ddywedyd; y wybodaeth a fyddo yn tueddu at sancteiddio y galon, yn 'dda i adeiladu yn fuddiol.' Byddwch yn hyn yn gyffelyb i'r ceiliog yn y ffug-chwedl, yr hwn, un diwrnod wrth grafu y domen am ei ymborth, a ddygwyddodd ganfod perl yn dysgleirio yn danbaid, gan edrych arno, ac heb wybod pa beth i'w wneuthur ag ef, ysgydwai ei esgyll, a dywedai rhyngddo ag ef ei hun, 'Yn wir yr wyt yn ymddangos yn brydferth iawn, ond ni wn i yn y byd pa beth wyt yn geisio yn y fan yma; yr wyf yn rhwydd addef, fy mod i o archwaeth hollol wahanol, a byddai un gronyn maethlawn o haidd yn fwy dewisol genyf na'r holl berlau sydd dan haul.' Y cymhwysiad oddiwrthi ydyw hyn—'Dylem wneuthur dewisiad o bethau angenrheidiol o flaen pethau gorychion; cysuron a bendithion rhagluniaeth, o flaen pethau ysplenydd cywreingarwch a dychymyg: nid ydym i reoli ein bywyd wrth frys, ond yn ol rheswm.' Gwnewch chwithau egwyddor y ceiliog yn gyfarwyddyd gwastadol i chwi yn eich ymfynion am wybodaeth.

Yn bedwerydd, *Ymdrechwch yn wastad i gadw eich meddwl yn agored i argyhoeddiad, ac i ymostwng yn ystwyth i awdurdod y gwirionedd, pan eich argyhoedder o hono.* Hwyrach

nad oes un teimlad cryfach ei ddylanwad ar y meddwl na rhagfarn bleidiol; ac yn sicr nid oes un yn fwy ataliol i rydd rediad buddugol y gwirionedd: nid oes un ychwaith ag y llithra y meddwl yn rhwyddach i'w afael; y mae yn cael ei gymeryd i mewn ganddo yn ddiarwybod hollol iddo ei hun. Prin y goddef hwn i'w ddeiliaid edrych na gwrando ar ddim a fyddo yn groes i opiniynau y blaid hono ag y mae wedi gogwyddo ati. Y mae pob peth a ddywedir dros y golygiadau hyny yn ardderchog iawn yn ei olwg, a phob ymresymiad a ddyger yn eu herbyn, yn ffol ac ynfyd. Ymryddhewch oddiwrth yr yspryd cul-frwnt hwn. Y mae y naill a'r llall o honoch mewn cysylltiad, neu yn teimlo gogwyddiad at y naill blaid grefyddol neu y llall: teimla pob un o honoch fwy o gariad at, a mwy o zêl dros ryw un neu arall o honynt: nid oes niwed yn hyn ynddo ei hun; ni's gall, ac am hyny, ni's dylai fod yn amgen: ond y perygl yw, rhag i'ch cariad at y blaid fyned yn gryfach na'ch cariad at y gwirionedd: ac os felly, bydd yn atalfa effeithiol ar eich ffordd i gynhyddu yn y wybodaeth o hono. Gesyd hwn chwi ar waith i chwilio, nid 'beth yw gwirionedd,' ond beth yw credo y blaid y perthynwch iddi; chwi a chwiliwch y Bibl, nid i'r dyben o gael allan y gwirionedd, ond am adnoddau a geiriau a dybioch fyddo ffafriol i'r golygiadau a nodweddant eich hoff-sect. Llywodraether eich holl ymofynion am wybodaeth, eich ymchwiliadau ysgrhythrol, gan gariad goruchaf at y gwirionedd; na adewch i Galfiniaeth, nac Arminiaeth, Troch-yddiaeth na Thaenelliaeth, Esgobyddiaeth na Henaduriaeth, nac Annibyniaeth, na chyffes, nag erthyglau, na dim arall a berthyn i na phlaid, na phobl, nac enw, fod yn gloffrwymanau ar eich meddyliau: eich arwydd-air gwastadol a fyddo—

'BETH YW GWIRIONEDD?' 'Pa beth a ddywed yr Ysgrhythyr?' 'Beth yw meddwl Duw?' A byddwch barod i ollwng y blaid a'r sect i fyned gyda'r gwynt, os rhaid, gan aberthu pob rhagfarn flaenorol a allasai eich bod yn teimlo drosti hi a'i daliadau, i oruwch-awdurdod y gwirionedd. Chwi a deimlwch hon yn wers galed i'w dysgu; os ymosodwch arni, chwi a brofwch yr ymroddiad mwyaf egniol yn angenrheidiol i ddyfod iddi; ond os unwaith y llwyddwch i'w meistrodi, chwi a fwynhewch fudd anhraethol oddiwrthi; teimlwch eich

meddwl yn anadlu mewn awyr arall, eich enaid mewn hinsawdd o ardymer hollol wahanol i'w sefyllfa gynt—rhydd y symudiad fywioggywydd ac iechyd drwy eich holl gynheddfau, ac edrychwch ar eich cyflwr blaenorol fel sefyllfa o gaethwasiaeth isel-wael, mewn cydmariaeth i'ch cyflwr presennol o ryddid a mwynhad.

Yn bumed, *Ewch i mewn bob amser i faes ymfyniad gydag yspryd annibynol: h. y.* Chwiliwch a bernwch bob peth dros-och eich hun. 'Pob un drosto ei hun a rydd gyfrif i Dduw:' ac os rhaid i chwi sefyll yn y farn dros-och eich hun, mynwch chwilio a barnu dros-och eich hun ar eich ffordd tuag yno. Nid oes gan neb hawl i gymeryd y rhagorfraint hon oddi-arnoch, ac nid oes genych chwithau chwaith hawl i'w throsglwyddo i ddwyllaw na Phab, na llys, na chymanfa, allan o'ch dwyllaw eich hun: rhoddwyd hi i chwi, a gelwir chwi i gyfrif am y defnydd a wnaethoch o honi. Nac ymddiriedwch i ddirprwywyr o wyr llên na llëyg i ffurfio cyffes a chredo i chwi. Y mae maes gwirionedd mor rydd ag agored o'ch blaen chwi ag ydyw i ereill. Na chymerwch ddim i fynu yn ganiatâol fel gwirionedd am fod hwn neu arall yn ei ddywedyd: nid yw y ddadl eu bod hwy yn fwy dysgedig a gwybodus na chwi, yn rheswm digonol dros i chwi esgeuluso chwilio y peth dros-och eich hun. Yr oedd Paul yn fwy dysgedig, gwybodus, a duwiol na neb o'r Berëaid; eto, cenmyl yr Yspryd Glau y bobl hyny fel boneddigion, am na chymerent ddim yn ganiatâol a ddywedid gan apostol, ond y 'chwilient beunydd yr Ysgrythyrau a oedd y pethau hyn felly.' Defnyddiwch bob cynhorthwyon dynol cyrhaeddadwy i chwi er deall y gwirionedd, ond yn wastad yn yr yspryd annibynol hwn. Yr yspryd dioglyd o ymddiried i farnau a golygiadau ereill sydd wedi bod i raddau helaeth yn achos i gadw y werin mor belled yn ol mewn gwybodaeth. Nid oes gan y rhai hyn, mewn gwirionedd, unrhyw farn o'r eiddynt eu hunain; ni wyddant yn y byd pa beth y maent yn gredu, ond fel y clywant eu hathrawon yn dywedyd, neu, nes y tröant i chwilio eu herthyglau neu eu llyff cyffes. Y mae eu barn am bob peth dan lywodraeth ac wrthi ewyllys ereill—eu holl gredo wedi 'ei ddysgu allan o atirawiaeth dynion.' Pe symudid hwy allan o gyrhaedd eu hathrawon

a'u llyfr cyffes, byddent heb na barn na chred, byddent hwy mewn un wlad, a'u ffydd a'u crefydd mewn gwlad arall: a byddai raid iddynt naill ai ymroddi i ddechreu ymofyn a barnu drostynt eu hunain, neu ymroddi i fyw ar gredo ddrylliog gynwysedig o hyny o ddarnau ymadroddion a ddaliasant yn eu côf! Na fyddwch chwi felly: cedwch eich barn a'ch credo dan eich dylanwad a'ch llywodraeth eich hun: un a fyddo wedi ei ffurfio drwy ymchwiliad gofalus a diragfarn, a'i thynu allan genych chwi eich hunain o ffynhonell bur y gwirionedd; un a fyddoch yn ei dwyn gyda chwi yn eich mynwes i bob man, yn argraffedig, nid ar bapur ag inc, ond 'ar lechau cnawdol y galon.' Cofiwch fyned bob amser at y Bibl yn yr yspryd hwn.

Yn chweched, *Gochelwch yspryd costogaidd anffaeledig-rwydd.* Cofiwch o hyd eich bod yn ffaeledig ac yn agored i fethu. Na fyddwch brysur i feio a chondemnio tybiau a barnau ereill a fyddant yn gwahaniaethu oddiwrth yr eiddoch chwi. Ystyriwch yn wastad bod gan ereill yr un hawl i farnu drostynt eu hunain ag sydd genych chwithau; a byddwch yr un mor barod i'w chaniatau iddynt, ag ydych i'w defnyddio eich hun. Meddyliwch y gallai mai hwynt-hwy sydd yn eu lle, ac mai chwi sydd yn methu. Cofiwch fod dynion mwy dysgedig, call, a duwiol, nâ chwi, wedi camsynied. Ceidw hyn chwi yn addfwyn a gostyngedig, ac yn barod i dderbyn argyhoeddiad a goleuni newydd: tra y gwna yr yspryd arall chwi yn drahâus, anghydoeddefol, ac ystyfnig, i gyndyn-ymlynu wrth eich tybiau eich hunain; ac ni chaiff na goleuni nag argyhoeddiad le i dywynu i mewn i'ch meddyliau. Na feddyliwch byth eich bod wedi cyrhaedd perffeithrwydd mewn un gangen o wybodaeth ysgrythyrol, ond byddwch fyw yn wastadol mewn ymofyniad am gynydd, am wybod mwy, a gwybod yn well. Y mae pethau newydd o hyd o'ch blaen i eu gwybod, ac y mae o hyd eisiau gwybod y pethau hen yn well. Adolygwch yn fanwl bob cam a roisoch; cedwch gyngor y gwr doeth yn wastadol o flaen eich meddwl; 'Ystyria lwybr dy droed a threfner dy holl ffyrdd yn uniawn.'

Yn seithfed, *Uwchlaw pob peth ceisiwch arweiniad a dysg-ediaeth Yspryd y gwirionedd.* Tra yn gochelyd ymddiried dim i dybiau ereill, heb en chwilio yn ofalus drosoch eich

hun, ar un llaw, gochelwch ymddiried i'ch deall eich hun-
 ain yn annibynol ar arweiniad a dysgeidiaeth yr Yspryd a
 lefarodd y gwirionedd, ar y llaw arall: yn dy holl ffyrdd
 cydnebydd ef, ac efe a hyfforddia dy lwybrau.' Y mae yr
 Yspryd Glan yr un mor alluog a pharod i'ch dysgu chwi,
 ac i'ch tywys i'r gwirionedd, i adnabod a deall y gwirionedd,
 ag ydyw i ddysgu a chyfarwyddo y dysgedigion a'r dauwin-
 yddion penaf. Y mae genych chwi yr un addewidion am
 dano ag sydd ganddynt hwythau, er diau mai yr hwn sydd yn
 teimlo ac yn gweddio mwyaf am ei gael a dderbynia y mes-
 urau helaethaf o hono. Codwch eich golwg bob amser ato
 ef wrth nesau at ei air, 'Datguddia fy llygaid fel y gwel-
 wyf bethau rhyfedd allan o'th gyfraith di—Tywysed dy
 Yspryd daionus fi i dir uniondeb.'

Dan ba anfanteision bynag yr ydyth yn gorfod llafurio am
 wybodaeth, rhagor sydd yn meddiant eraill, y mae y brif
 fantais hon mor helaeth yn eich meddiant chwi a neb. Tra
 y gall ereill alw cynhorthwy llawer o awduron ac esponwyr
 dysgedig i'w helpu, gellwch chwithau alw am gymhorth yr
 'Yspryd sydd yn chwilio pob peth, i.e, dyfuoion bethau Duw
 hefyd," yn gystal â hwythau. Os na ellwch droi i chwilio yr
 ieithoedd yn y rhai yr ysgrifenydd yr Ysgrhythyrau yn
 wreiddiol, er ceisio help i'w deall, fel y gall rhai, gellwch
 droi ato ef, dan ysprydoliaeth yr hwn y lefarwyd ac yr
 ysgrifenydd hwynt, meddwl yr hwn y maent yn gynwys,
 am ei oleuni a'i addysg i ddeall ei feddwl ynddynt. Gell-
 wch hyn, meddaf, yn gystal a'r dynion mwyaf cyfarwydd
 mewn dysgeidiaeth. Na thybiwch fy mod, wrth ddywedyd
 fel hyn, yn amcanu bychanu a dibrisio dysgeidiaeth; na, pell
 iawn oddiwrth hyny: teimla yr ysgrifenydd ei amddifad-
 rwydd o fod yn gyfarwydd yn yr ieithoedd yr ysgrifen-
 wyd meddwl Duw ynddynt yn wreiddiol, yn golled ddwys
 iddo: ac nid ydym i ddysgwyl y bydd i'r Yspryd Glan
 wneuthur y diffyg hwn i fynu mewn modd gwyrthiol, ac ni
 ddylem ofyn iddo chwaith ein dysgu i ddeall ieithoedd na buom
 erioed yn eu dysgu yn y drefn gyffredin, fel y dysgai yr
 apostolion gynt; ond yr hyn y chwenychwn ei osod ar ddeall
 yw, mai gwell yw yr annysgedig a fyddo yn dybynu ar ac yn
 cael ei arwain gan yr Ysbryd Sanctaidd, na'r mwyaf ei ddysg-

eidiaeth a bwyso ar, ac a ymddiriedo yn ei dysgeidiaeth yn unig, fel ei gyfarwyddwr mewn pethau dwyfol, gan esgeuluso ymofyn am 'yr eneniad oddiwrth y Sanctaidd hwnw,' fel y gwybyddo bob peth. Ond y ddau yn nghyd yn sicr ydyw y goreu, oblegid nid oes genym sail i ddysgwyl dysgeidiaeth yr Ysbryd ond yn ol graddau ein llafur a'n manteision.

Gyda gwylder mawr y dymunwn grybwyll yr ystyriaeth ganlynol yr hon sydd er ys hir amser wedi cael cryn le ar fy meddwl: ewyllysiwn ei chyfleu ger bron yn y dull gostyngedig ag sydd yn gweddu i wr o'm bath i. Ni chymeraf arnaf haeru yn sicrhâol, ond gofynaf fel dysgybl, gan droi am ychydig oddiar fy llwybr fel un yn cynyg cyfarwyddo rhai ieuangach mewn gwybodaeth na mi fy hun, at y rhai hyny o ddarllenwyr y traethawd hwn ag y cyfrifwn hi yn fraint i gael eistedd wrth eu traed i dderbyn addysg—y peth yw hyn. Ai ni allai bod weithiau ormod o bwys yn cael ei roddi gan feirniaid dysgedig, wrth gynyg egluro ac esponio y llyfr dwyfol, ar ystyr geiriau ac ymadroddion yn yr ieithoedd gwreiddiol, ac ar yr angenrheidrwydd o fod yn gyfarwydd yn yr ieithoedd hyny mewn trefn i ddeall egwyddorion yr Ysgrythyrau? Ac oni allai fod gormod o feirniadu ar y cyfieithiad hwn ac arall weithiau? Oni ddefnyddiai yr efengylwyr a'r apostolion gyfieithiad Groeg y deg-a-thrugain o'r Hen Destament, yn hollol fel ag yr oedd, heb wneuthur un cyfnewidiad, na sylw, na beirniadaeth, arno? Oni roddwyd, drwy hyny, sel yr un awdurdod ddwyfol wrth y cyfieithiad hwn ag y sydd wrth yr Ysgrythyr yn yr iaith yr ysgrifenydd hi? Diau na wnaethai y cyfieithwyr hyny, er nad oes genym hyd y gwn i, unrhyw sail i dybied eu bod hwy, mwy na chyfieithwyr yr Ysgrythyrau i ieithoedd ereill, dan arweiniaid anffaeledig yr Yspryd, fel yr ysgrifenydd sanctaidd—diau, meddaf, na wnaethant gam ag, na thrais ar, un o egwyddorion mawrion y llyfr sanctaidd, er hwyrach y gallasant gael geiriau ereill llawn-mor briodol a dealladwy i'w gosod allan. Ni fu un beirniad dysgedig erioed yn fwy galluog na'r apostol Paul i adolygu gwaith cyfieithwyr, ond erioed ni ddarfur iddo wneyd.

Ai ni ellir cysglu oddiwrth y ffeithiau hyn, bod yr ysprydoliaeth ddwyfol a gynhyrfodd ac a gyfarwyddodd y dyn-

ion sanctaidd a lefarasant ac a ysgrifenasant y llyfr cyss-egredig yn yr ieithoedd gwreiddiol, wedi cynhyrfu a chymhwyso dynion i'w gyfieithu hefyd, ac yn goruwch-ofalu am fod i'w *egwyddorion* gael eu trosglwyddo yn ddigyfnewid i'r ieithoedd y gwisgid hwynt â'u geiriau? Hwyrach y dychon cyfieithiad fod yn ffyddlon a chywir, o ran trosglwyddiad yr *egwyddorion*, er y gallai na byddai y cyfieithwyr yn deall y cyfryw *egwyddorion* eu hunain—y mae yn ddigon eglur nad oedd yr ysgrifenywyr sanctaidd eu hunain bob amser yn deall ystyr a meddwl llawer o bethau a draethent ac a ysgrifentent. Yr oedd y gair sanctaidd wedi ei fwriadu gan ei Awdwr tragwyddol i gael ei droi a'i drosglwyddo i bob iaith a phob ymadrodd. 'Ai i'r Iuddewon' a'r Groegwyr, y ddwy genedl yr ysgrifenywd gair Duw yn eu heithoedd ar y cyntaf, y mae efe yn Dduw yn unig? Yn wir y mae efe i'r cenhedloedd ereill hefyd; a chan ei fod yn Dduw i'r cenhedloedd ereill hefyd, yn gystal ag iddynt hwythau, yr oedd ganddo fwriad grasol yn ddiammau i'r holl genhedloedd gael yr un ragorfraint oruchel o feddiannu ei air a'i ewyllys datguddiedig yn eu heithoedd priodol eu hunain, a'i gael hefyd yn ddigon dilwgr i fod o ran ei *egwyddorion* yn brawfröol anffael-edig o wirionedd dwyfol. Y mae y Bibl yn llyfr i bawb fel eu gilydd, yr Iuddew a'r cenhedl-ddyn, y cyfoethog a'r tlawd, gwreng a bonheddig, dysgedig ac annysgedig—cydfeddiant cyffredin dynolryw ydyw—gall pob dyn ar y ddaear ddywedyd am dano, 'Fy llyfr i ydyw;' gan hyny, oni ellir tybied iddo gael ei osod allan yn wreiddiol yn gydunol â'r amcan hwnw mewn geiriau, yn fwy gyda golwg ar eu hystyr arferedig a chyffredin, nag ar eu hystyrion gwreiddiol, yr hyn na allai ond dynion dysgedig eu holrhain?

Y mae yn sicr y dychon i ddynion, er gwasanaethu dybenion pleidiol, ymasyd yn y gorchwyl pwysig o gyfieithu yr Ysgrythyrau, a'u lluniaru at eu golygiadau eu hunain, yn gystal ag y gallasai adysgrifenywyr copïau o honynt gynt, adael allan, cyfnewid, neu ddodi i mewn, ranau yn ol eu mympwyau hwythau—ond, onid oes genym yr un amddiffyn rhag y naill yn bresenol ag oedd gan y tadau rhag y llall gynt—drwy osod dynion cymhwys i gydmaru y naill a'r llall â'r copi gwreiddiol?

Y mae arnaf ofn yn fy nghalon rhag dar fod i mi, wrth ddwyn i mewn y mater hwn, ysgrifenu dim mewn un modd a ymddengys yn debyg yn ngolwg neb fel pe yr ewyllysiwn fychanu dysgeidiaeth a dysgedigion, a beirniadu beirniaid : ni ddymunwn ymddangos ger bron fy nghydwladwyr yn y diwyg hwnw ar un cyfrif ar wyneb y ddaear; buasai tybied fy hun yn alluog a chymwys i sefyll mewn barn ar waith y dynion ag sydd yn teilyngu cymaint oddiar law y byd crefyddol, yn falchder a rhyfyg anfaddeuadwy yn fy math i. Y mae y beirniaid, drwy chwilio i wreiddiau yr ieithoedd gwreiddiol, wedi dwyn trysorau gwerthfawr o wybodaeth i oleuni, ag yr oedd pyrth barau annatodadwy rhyngom ni a hwynt. Ond dan yr ystyriaeth mai 'rhydd i bob barn ei lafar,' mai hawlfraint berthynol i'r dysgedig a'r annysgedig, yn gystal a'u gilydd, ydyw dywedyd, ysgrifenu, ac argraffu eu meddyliau, os mynant, anturiais inau ollwngallan y lled amheupon uchod ag ydynt wedi hir letya yn fy meddwl, sef y gallai fod gormod o bwys wedi cael ei roddi gan feirniaid weithiau ar ystyr *brïodol* geiriau yn yr ieithoedd yr ysgrifenyd yr Ysgrythyrau wrth eu deongli: ac ai nid yn eu hystyr *gyffredin* y defnyddiai yr ysgrifenywyr sanctaidd yr ymadroddion yn benaf. Nid hwyrach y tueddaut feddwl rhyw '*Grito Biblicus*' i gymeryd y mater mewn llaw, a dangos hefyd pa un a oes gan y werin annysgedig drwy gyfrwng cyfieithiad gonest, agoriad yn ei law i fyned i mewn at holl *egwyddorion* y datguddiad dwyfol. Ag a ydyw y cyfryw gyfieithiad i'w ystyried yn ddigon o faen-prawf gwirionedd, ai nad yw? A all y Cristion annysgedig yn yr ieithoedd gwreiddiol apelio ato er profi, pwyso, a mesur pob egwyddorion ac athrawiaeth a gymheller arno, ai nad all! Nid oes ganddogystal mantais a'r llall sydd yn alluog i chwilio y Bibl yn yr ieithoedd hyny yw y pwnc, ond pa un a ydyw yr un rhyw o fantais ganddo, er yn ddiffygiol yn y graddau o honi, ag sydd gan y llall.

Wedi crwydro o honof fel hyn oddiar fy llwybr cychwynedig a phriodol, brysiac bellach i redeg yn ol iddo. Cofiwch fy narllenwyr ieuainc pa le y gadewais chwi—gallaf fod yn hyf a rhydd heb ofni camsynied, wrth eich cynghori i daer geisio goleuni ac arweiniad yr Ysbryd Glan i'ch cynnorthwyo i iawn ddeall y gair sanctaidd, wrth eich anog i beidio byth

a myned mewn yspryd hunan-ddigonol uwch ben pethau mawrion a dyfnion Duw. Ië, 'os gwaeddi ar ol gwybodaeth; os cyfodi dy lef am ddeall; os ceisi hi fel arian, os chwili am dani fel am drysorau cuddiedig; yna y cei ddeall ofn yr Arglwydd ac y cei wybodaeth o Dduw. Canys yr Arglwydd sydd yn rhoi doethineb: allan o'i enau ef y mae gwybodaeth a deall yn dyfod. Y mae ganddo yn nghadw i'r rhai uniawn wir ddoethineb: tarian yw efe i'r sawl a roddiant yn uniawn. Y mae efe yn cadw llwybrau barn ac yn cadw ffordd ei saint. Yna y cei di ddëall cyfiawnder a barn ac uniondeb, a phob llwybr daionus.*

Yn wythfed, *Cofiwch hefyd mai unig ddyben teilwng ymofyniad am wybodaeth a deall yn egwyddorion ac athrawiaethau y gair ydyw, er mwyn eu cadw a'u cyflawni; ac mai ffordd dda i gynhyddu mewn gwybodaeth ydyw gosod mewn ymarferiad yr hyn sydd yn barod mewn meddiant.* Nid yw stôr fawr o wybodaeth nemawr na dim gwerth mewn gwirionedd, oni bydd yn cael ei dwyn allan mewn ymarferiad. Pa ddyben daionus a ddichon gwybod egwyddorion crefydd ei ateb, os na byddwch yn byw wrth ac yn ol yr egwyddorion hyn? Y mae y wybodaeth hon yn gyffelyb, fel y dywed y gwr doeth am feddiannau y cybydd, 'Cyfoeth wedi ei roddi i gadw yn niwed i'w berchenog! oblegid, 'Y gwas a wybu ewyllys ei Arglwydd ac a wnaeth bethau yn haeddu ffonodiau, a gurir â llawer ffonod!'

'Os ewyllysia neb wneuthur ei ewyllys ef, efe a gaiff wybod am y ddysgeidiaeth mai o Dduw y mae,' ebe Crist, gan arwyddo mai y ffordd oreu i ychwanegu gwybodaeth ydyw gwneuthur yr hyn a wyddom eisoes: neu, mai yr unig ffordd i gyrraedd gwybodaeth fywiol a phrofiadol o rym a dwyfoldeb egwyddorion crefydd, ydyw eu gosod mewn ymarferiad. 'Deallais yn well na'r henuriaid,' medd Dafydd, 'am fy mod yn cadw dy orchymynion di.' Edrychwch am eich bod yn cynhyddu mewn defnyddioldeb yn gyfatebol i'ch cyhydd mewn gwybodaeth, a bod eich llafur am wybod a deall mwy, yn codi oddiar awyddfryd i wneuthur mwy o ddaioni.

Yn nawfed, '*Gan brynu'r amser.*' Y mae yn fyr ac yn werthfawr, gwnewch y defnydd goreu o hono; ieuencyd yw

haf-dymor eich oes, yr amser mwyaf manteisiol o'ch bywyd i gynhyddu gwybodaeth; os byddwch fyw i fyned yn hen, 'dyddiau blin, a blynyddoedd na bydd i chwi ddim dyddanwch ynddynt,' fydd y dyddiau a'r blynyddoedd hyny. Y mae cynheddfau y meddwl yn adfeilio gyda'r corph; rhaid i chwi fyw y dyddiau hyny ar y trysor a gasgloch yn awr, fel ag y mae y gwenyn yn byw yn y gauaf ar y mel a gasglasant yn yr haf: cymerwch addysg oddiwrthynt. 'Pwy o honoch a wrendy hyn, a ystyr ac a glyw erbyn yr amser a ddaw.' Os bydd y pethau hyn genych, hwy a barant 'na byddoch na segur na diffrwyth,' os mabwysiedwch yr egwyddorion yma, os hwyliwch eich camrau i feusydd gwybodaeth dan eu dylanwad.

Awn yn awr yn mlaen at ddosparth arall o'egwyddorion, er cyfarwyddyd pellach yn y ffordd i ddeall egwyddorion mawrion gair y gwirionedd.

DOSP. II.

WEDI ymdrechu awchlymu a rhagbarotoi ein meddyliau at y gorchwyl o geisio deall yr Ysgrythyrau, drwy gymhell arnynt yr ystyriaethau cynhwysedig yn y tudalenau blaenorol, gadewch i ni yn awr symud yn mlaen at rai egwyddorion cyffredinol a allant ein cyfarwyddo a'n hyrwyddo i fyned yn mlaen yn llwyddiannus gyda'r gwaith. O'r blaen yr oeddym megis yn sefyll ar y lân i ymddiosg, yn awr yr ydym yn myned i'n bwrw ein hunain i'r môr mawr gyda'r egwyddorion hyny; yr oeddym yn gyffelyb i long yn y porthladd, yn llwytho ei chlod, yn trin ei rhaffau, yn trefnu ei chelfi, ac yn parotoi ei hunan i'r fordaith; yn awr yr ydym megis llestr fyddai yn codi ei hangorau ac yn lledu ei hwyliau, gan ddechreu mesur ei gyrfa tua rhyw borthladd pell-enig; boed i ni yn awr gymeryd yr egwyddor a ysgrifennai yr apostol ar fanerau yr Hebreaid, yn arwyddair—'Am hyny, gan roddi heibio yr ymadrodd sydd yn dechreu rhai meun gwybodaeth, awn rhagom at berffeithrwydd.' Y

mae 'dyfnder golud gwybodaeth a doethineb' datguddiedig Duw o'n blaen, y pethau hyny na ddaethant erioed ac na ddaethent byth i galon dyn—y mae y pethau hyn wedi eu datguddio i ni yn yr Ysgrythyrau trwy yr Yspryd.

Edliwiai Paul i'r Hebreaid, 'bod, pryd y dylasant fod yn athrawon o ran amser, arnynt eisiau dysgu iddynt beth yw dechreuad egwyddorion ymadroddion Duw,' neu egwyddorion cyntaf y Gair sanctaidd. Yn awr, y mae'r awgrymiad apostolaidd hwn yn rhoddi i ni agoriad i nodweddiad y llyfr sanctaidd, yr hyn a ellir ei ystyried fel y peth cyntaf sydd yn angenrheidiol ei wybod mewn trefn i'w iawn ddeall. Gadewch i ni, gan hyny, ei gymeryd yn gyntaf dan sylw yn y lle hwn. Yr hyn a olygaf ydyw, Bod y crybwylliad uchod o eiddo'r apostol yn cynwys mai llyfr o egwyddorion yw y Bibl—mai ymadroddion yn cynwys egwyddorion ynddynt yw 'ymadroddion Duw,' a bod iawn ddeall y Bibl yn gynwysedig mewn dysgu gwybod ac adnabod yr egwyddorion hyny.

Mewn trefn i gynyg taflu ychydig oleuni ar hyn, dangoswn

1. Beth a ddeallir wrth egwyddor.

2. Natur egwyddorion y llyfr sanctaidd.

3. Rhai o'i brif egwyddorion, a'r modd yr ydym i'w casglu allan o hono.

1. Beth ydym i ddeall wrth egwyddor. Egwyddor, yn ystyr briodol y gair wrtho ei hun, ydyw, cyn-rëol, rheol gyntaf unrhyw beth, cynllun a sail i weithio wrtho ac arno. Llythyrenau wedi eu cyfleu yn ddosparth priodol ydynt yn cyfansoddi egwyddor neu gyn-rëol iaith—ac wrth yr enw egwyddor y dynodir y dosparthiad cyntaf o lythyrenau genym ni yn ein hiaith.

Wrth egwyddor, yn yr arferiad fwyaf cyffredin o'r gair genym ni, yr ydym yn deall rhyw wirionedd hanfodol, ag y mae gwirioneddau ereill i'w casglu a'u tynu oddiwrtho—sylfaen, rheol, neu gymhelliad gweithredu. Peth dïegwyddor yw peth heb sail dano, na rheswm drosto. Egwyddorion gau ydynt bethau nad oes hanfodiad gwirioneddol iddynt ond yn nychymygion dynion yn unig, mympwyau a dyfeisiau amddifaid o sylwedd a gwirionedd. Gan hyny, nid ydynt egwyddorion yn yr ystyr briodol. Yn awr, wrth ddywedyd mai llyfr o egwyddorion yw y Bibl, yr ydym yn golygu ei

fod yn cynwys gwirioneddau hanfodol, ei fod yn ddatguddiad o sylweddau neu bethau fel y maent yn sicr a dilys.

2. Natur egwyddorion y Bibl. Wrth son am natur unrhyw beth, byddwn yn golygu rhyw, math, neu ansawdd y peth hwnw ynddo ei hun. Y mae egwyddorion o amrywiol a gwahanol naturiaethau neu fathau—egwyddorion anianyddol neu naturiol, egwyddorion celfyddyd a gwyddoniaeth, ac egwyddorion moesol ac ysprydol. Y mae holl natur fawr i gyd yn gweithredu ar yr egwyddorion sefydlog a dianwadal a osododd y Creawdwr anfeidrol ynddi. Cylch-gyfnewidiad rheolaidd tymhorau y flwyddyn, dydd a nos, llanw a thrai y môr, tyfiad y gwellt a'r llysiâu, dysgyniad y gwlaw a'r eira, rhuad y gwynt a'r taranau, &c. ydynt oll yn cymeryd lle yn ol egwyddorion cyson a rheolaidd: 'gosododd ddeddf,' neu egwyddor, 'ac nis troseddir hi.' Y mae yr egwyddorion yn amrywio yn ol amrywiaeth cyfansoddiad a graddau y pethau y perthynant iddynt. Egwyddoriâu anianyddol ynte, ydynt egwyddorion gwaith Duw fel Creawdwr; ac y maent i'w cael allan drwy chwilio y gwaith ei hun. Wrth chwilio a myfyrio y gwaith y cafodd Newton ac ereill afael yn llawer o honynt, ag y dygodd drwy hyny bethau mawrion a chuddiedig o'r blaen, i oleuni.

Egwyddorion celfyddyd drachefn ydynt holl egwyddorion gwaith dyn. Y mae i bob celfyddyd ddynol ei hegwyddorion priodol ei hun—morwriaeth, cerddoriaeth, &c. ydynt a'u hegwyddorion yn perthynu iddynt: ac fel hyn y mae pob celfyddydwr yn gweithio yn ol cyn-rëolau neu egwyddorion ei gelfyddyd. Ail-egwyddorion, neu gasgliadau wedi eu tynu oddiwrth egwyddorion natur, yw holl egwyddorion celfyddyd a gwyddoniaeth (*science*). Y mae holl waith celfyddyd dyn wedi ei dynu allan o waith y Gweithydd mawr cyntaf—ni ddygodd celfyddyd un egwyddor newydd i fod, ond cyd-gasgla wahanol bethau at, a gesyd hwy mewn modd cymhwys wrth, eu gilydd, nes y cynhyrchir y peth neu yr effaith a ddymunid. Yr oedd yr egwyddorion yn wreiddiol yn y pethau o'r blaen—ni chynhyrchasid byth yr effeithiau hyny, fe allai, oni buasai llaw celfyddyd; ond ni allasai llaw celfyddyd byth beri iddynt gymeryd lle, oni bai fod yr egwyddorion yno o'r blaen—eu gweithio allan mewn ffurfiau pennodol

a wnaeth celfyddyd. Y mae y naill gelfyddyd yn ddybydol ar y llall, a'r cwbl yn gyd-ddybydol ar y gwaith gwreiddiol : y mae holl-waith y creadur, fel y creadur ei hun, yn ddybydol ar waith y Creawdwr. Er enghraifft, yr wyf fi yn ysgrifenu y llunellau hyn—y mae ysgrifenu yn gelfyddyd ; ac y mae y gelfyddyd hon yn ffrwyth celfyddyd arall. Yr oedd gwneyd y papur, yr inc. a'r ysgrifell yn gelfyddyd, ac yr oedd yn rhaid cael y naill a'r llall cyn y gallasid ysgrifenu, ond yr oedd yn rhaid cael defnyddiau cymhwys at bob un o honynt cyn y gallasid eu cael. Darpariaeth natur oedd defnyddiau addas i'r perwyl, a chydgyhmwyso y rhai hyny at eu gilydd a wnaeth llaw celfyddyd : felly, pob celfyddyd y mae ei hegwyddorion gwreiddiol a sylfaenol yn natur y pethan y gweithreda arnynt.

Ond i'r dosparth olaf a nodwyd ; sef, egwyddorion moesol yw egwyddorion y Bibl. Nid ydym i droi iddo ef i chwilio am egwyddorion natur a chelfyddyd : nid oes ynddo ond cyfeiriadau achlysurol at y rhai hyny, heb unrhyw amcan neu llduol i'n haddysgu ynddynt, ond ceidw ein golwg uwchlaw natur a chelfyddyd : *h. y.* nid ydym i droi i'r Bibl i chwilio allan egwyddorion seryddiaeth, morwriaeth, physygyrfaeth, &c. Y mae egwyddorion ei ddysgeidiaeth ef o natur ac ansawdd wahanol : ei gyfeiriadau achlysurol at weithiau natur a chelfyddyd ydynt i'r dyben o egluro a dangos ei bethau a'i egwyddorion priodol ei hun : a llefara yn wastad am y pethau hyny yn ol fel y maent yn taro golwg, heb fyned i mewn i'w deddfau a'u hegwyddorion : y mae yr ystyriaeth hon am y llyfr sanctaidd yn anheggorol angenrheidiol i fod yn un sefydlog yn meddwl ei fyfyrwyr, fel y gwybyddopt o ba natur yw y ddysgeidiaeth y maent i'w thynu allan o hono.

Wrth y gair *moesol* yr ydym yn deall, yr hyn a berthyn i fuchedd ac ymddygiad, rheol a maenbrawf i farnu gweithred a buchedd wrthi, pa un ai beius ai rhinweddol ydyw. Y mae yr holl Fibl yn ddeddf neu reol foesol, ei holl egwyddorion yn egwyddorion moesol, wedi eu cyfaddasu at alluoedd ac amgylchiadau dynion fel gweithredyddion moesol : yn eu golygu nid yn unig fel creaduriaid rhesymol ond hefyd fel creaduriaid dyrywiedig ac euog ; a chyda golwg arnynt yn y epyllfa olaf a grybwyllwyd, yn benaf oll, y rhoddwyd ef i ddynion. Hyn a'n harwain at y sylw nesaf.

3. Rhai o brif egwyddorion y Bibl, a'r modd yr ydym i'w casglu allan o hono. Gan, fel y sylwyd, fod y datguddiad ysgrifenedig wedi ei roddi i'r byd yn ei gyflwr dyrywiedig ac andwyol drwy bechod, gellid dysgwyl mai trefn ei adferiad yn ol at Dduw, i'w gymod, a'i heddwch, a'i wasanaeth, a fyddai yr egwyddor fawr a redasai drwyddo oll; ac felly y mae. Dangoswyd o'r blaen mai llwybr adferiad y byd pechadurus drwy gyfryngdod ac iawn Crist yw prif-bwne mawr yr holl Fibl—mewn gair, athrawiaeth yr iawn yw canol-bwynt yr Ysgrhythrau. Yr oedd holl gysgodau ac aberthau goruchwyliaeth yr Hen Destament yn ei rhag-osod allan, holl brophwydoliaethau ac addewidion y rhol ysprydoledig yn cyfeirio ati—yn nghylch hon yr 'ymofynodd ac y manwl-chwiliodd y prophwydi, gan ymfyn pa bryd neu pa ryw amser yr oedd yr Yspryd Glan yr hwn oedd ynddynt, yn ei fynegi, pan oedd efe yn rhag-dystiolaethu dyoddefaint Crist a'r gogoniant ar ol hyny.' Pa ran bynag o'r llyfr dwyfol a ddarlener, dylem ddylyn esiampyl y prophwydi i ymfyn a manwl chwilio pa berthynas y mae yn ddal a'r brif egwyddor fawr hon. I'r dyben yma, rhaid cydmaru yn fanwl y ddau Destament a'u gilydd, fel y galler gweled y modd y mae y ddau dyst yn dwyn yr un dystiolaeth, yn cadarnhau eu gilydd, ac yn talfu goleuni y naill ar y llall. Gellid dyfod i mewn i'r brif egwyddor hon yn y dull canlynol.

Wrth graffu ar hanesyddiaeth yr Ysgrhythrau, ni a welwn fod cyfran fechan, megis rhagymadroddiad byr yn nechreudad y llyfr, yn cynnwys bras adroddiad am greadigaeth y nefoedd a'r ddaear a'u holl luoedd hwynt—ychydig yn fanylach yn nghylch creadigaeth dyn, byr ddysgrifiad o'i gyflwr a'i sefyllfa gyntefig, yn nghyd a'i gwmp a'i gyflwr syrthiedig—mewn canlyniad i hyn, dygir i'r golwg drefn ei adferiad trwy Gyfryngwr. Wedi hyny, y mae'r hanesyddiaeth sanctaidd yn myned yn mlaen, wedi byr grybwyll hanes rhai personau hynod yn yr oes gyntaf, i ddysgrifio dwfn lygredigaeth a thrueni y byd yn ei gyflwr dyrywiedig, hyd nes tynodd arno ei hunan ddinystyr hollol a chyffredinol, ond yr wyth enaid a waredwyd yn yr arch. Drachefn, rhydd fer olwg ar agwedd y byd newydd, ail bobliad ac ail lygriad y ddaear hyd amser Abram. Wedi dwyn Abram i mewn, ceidw yr hanesyddiaeth

olwg bennodol arno, gan droi oddiwrth y gweddill oll o ddyn-olryw a'i ddylyn ef yn ei holl symudiadau, heb gymeryd sylw o neb arall, ond yn unig i'r graddau ag y byddai amgylchiadau Abram yn gydblethedig ag ambell un o honynt: a'r unig reswm am hyn ydyw; mai efe oedd i fod yn gyndad y Messia—mai ' yn ei had ef y bendithid holl genhedloedd y ddaiar.' Rhydd i ni ychydig o hanes genedigaeth, nodwedd, ac amgylchiadau Ismael, mab y forwyn gaeth; ond wedi genedigaeth Isaac, mab yr addewid, ceidw ei golwg arno a'i gafael ynddo, gan esgeuluso Ismael wedi hyny, ar ol ei anfon i Arabia, a byr ddangos fel y cyflawnwyd y rhagfynegiad am dano ynddo ef ei hun a'i hiliogaeth.

Rhydd hanes amgylchiadau Isaac hyd enedigaeth Jacob ac Esau; ac yn ol y rhagfynegiad am danynt cyn eu geni, ' Yr hynaf a wasanaetha yr ieuangaf,' rhydd hanes di-freintiad Esau, a chadarnhâd cyfammod Abraham ac Isaac â Jacob. Wedi anfon Esau i fynydd Seir, gedy ef yno, a dychwela yn ol at helyntion Jacob a'i deulu, â gyda hwynt i'r Aipht; erys yno gyda hwy yn holl orthrymderau eu caethiwed, gan esgeuluso amgylchiadau pob cenedl arall, ond yn unig i'r graddau y deuent i berthynas âg helyntion y teulu hwn. O'r diwedd dwg hwynt allan o'r Aipht drwy y môr a'r anialwch i'r wlad a addawsid drwy lw i'w tadau hwynt. Yr edi eu sefydlu yno, ceidw gyfrif manwl o'u helyntion, eu crefydd, eu dyrwiadau, eu cyfyngderau, a'u gwaredigaethau.

Wedi ymraniad y deg llwyth oddiwrth y ddau yn nechreud teyrnasiad Rehoboam mab Solomon, rhydd hanes y ddwy deyrnas yn gyfochrog hyd gaethgludiad y deg llwyth gan frenhin Assyria, pan y gwnaed pen ar deyrnas Israel yn hollol ac am byth. Gedy'r hanesyddiaeth y deg llwyth o hyn allan, heb wneuthur nemawr o sylw o honynt, a dychwela yn ol at lwyth Juda, a theulu Dafydd, am mai o'r llwyth a'r teulu hwn yr oedd y Shilo i gyfodi. Dylyna hwynt yn ffyddlon yn eu holl amgylchiadau, nes o'r diwedd eu dwyn yn gaethion i Babilon, lle y gedy hwynt am ddeng-mlynedd-a-thriugain: wedi hyny, dychwel hwynt yn ol drachefn i'w gwlad eu hunain, lle yr ail-adeiladant eu dinas, a'u teml, a'r lle y maent i aros mwyach hyd nes yr ymddengys y gwrthrych mawr sydd yn llygad yr hanesyddiaeth o ddechreud y

llyfr: ac yn y goleu hwn yr ydym i edrych ac i ddeall egwyddor fawr hanesyddiaeth yr Ysgrhythrau sanctaidd. Dengys y Testament newydd gyflawniad llythyrenol o'r cwbl yn ngenedigaeth a bywyd Iesu Grist.

2. Trefn addoliad a gwasanaeth Duw dan oruchwyliaeth y Testament cyntaf. Y portreiaid manwl a roddodd yr Arglwydd i Moses yn y mynydd, o'r tabernacl, ei gyssegroedd a'i ddodrefn, ac o ddull a threfn y gwasanaeth dwyfol a ddygid yn mlaen ynddo; pwy oedd i weinyddu, a pha fodd yr oeddynt i weinyddu ynddo; pa greaduriaid oeddynt i fod yn aberthau, a pha fodd yr oeddynt i gael eu haberthu. Trwy waed y purid pob peth wrth y gyfraith, er dangos mai 'heb ollwng gwaed nid oes maddeuant.' Yr oedd pob ymweyd a Duw dan yr oruchwyliaeth hono yn cael ei ddwyn yn mlaen drwy waed ac aberth. Esponia yr apostol yn ei lythyr at yr Hebraeid, yr holl osodiadau hyn yn eu perthynas â gwaed ac aberth y Cyfryngwr—mai 'cysgodau o ddaionus bethau a fyddent' oeddynt oll: a'u bod oll wedi cael eu perffraith gwblhau yn ei farwolaeth ef. Fel hyn yr oedd yr hanesyddiaeth ysgrythyrol, fel y sylwyd, yn rhag-olygu y person oedd i ymddangos i wneuthur iawn dros bechodau y byd; a holl wasanaeth gwaedlyd y tabernacl, a'r cysgodau, i rag-osod allan y dull a'r modd yr oedd i wneuthur yr iawn yma, pan y deuai; mai 'ymddangos i ddileu pechodau drwy ei aberthu ei hun' a wnai.

3. 'Dyoddefaint Crist, a'r gogoniant ar ol hyny,' ydyw prif fater y prophwydoliaethau. Nid ydynt yn gwyro oddiwrth y prif bwnc hwn, ond cymaint a welai doethineb anfeidrol yn angenrheidiol yn wyneb gwahanol amgylchiadau yr amseroedd. Priodol y dywedai yr apostol, 'I hwn y mae yr holl brophwydi yn dwyn tystiolaeth.' Yn awr y casgliad naturiol a dynir drwy gyd-ystyried yr holl lyfr sanctaidd, a chyd-gymarau ei holl ranau a'i ddosparthiadau a'u gilydd, ydyw, mai y brif egwyddor neu athrawiaeth fawr a osodir allan ynddo, yw aberth ac iawn Mab Duw.

Y mae holl egwyddorion ereill y llyfr sanctaidd yn cael eu hegluro ynddo mewn cysylltiad a'r brif egwyddor hon; i.e. y maent yn gynnwysedig ynddi. Y mae gogoniant y nodwedd dwyfol, fel Duw 'r gwirionedd, cyfiawn, sanctaidd,

doeth, cariadlawn, grasol a thrugarog, yn cael ei amlygu yn anfeidrol anrhydeddus, 'Hwn a osododd Duw yn iawn—i ddangos ei gyfiawnder ef, drwy faddeuant y pechodau a wnaethid o'r blaen—fel y byddai efe yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhau y neb sydd o flydd Iesu'*—yn hyn y mae cariad; nid am i ni garu Duw, ond am iddo ef ein caru ni, ac anfon ei Fab i fod yn iawn dros ein pechodau ni.† Y mae natur a chadernid y llywodraeth ddwyfol—grym ac anrhydedd y ddeddf—natur ysgeler pechod—cyflwr andwyol ac anobeithiol y byd o'i ran ei hun drwy bechod—holl egwyddorion dyledswydd dyn fel pechadur—ffordd ogoneddus Duw yn gyson a'r hyn oll ag ydyw, a'r hyn oll a ddywedodd—holl egwyddorion ei lywodraeth—iawnderau y deiliaid, &c. i dderbyn yn gymodlawn, maddeu yn drugarog, ymgeleddu yn raslawn, sancteiddio yn berffaith, a gogoneddu yn gyfiawn, bob pechadur a dry ei wyneb ato mewn edifeirwch—yr holl egwyddorion hyn a gyd-lewyrchant mewn gogoniant yn athrawiaeth fawr yr iawn.

Gesyd yr Ysgrythyrau allan fel hyn fod holl iachawdwr-iaeth dyn yn gwbl oll yn yr iawn—yr iawn yn bob peth yn y nefoedd i Dduw, ac yn bob peth ar y ddaear i ddyn—yn brif bwnc y datguddiad dwyfol, gweinidogaeth yr efengyl, a gweinidogaeth yr Yspryd—yn brif athrawiaeth yn y moddion i ddychwelyd y byd i edifeirwch, yn unig sail derbynriad a chyfiawnhâd yr euog edifeiriol ger bron Duw: ac yn drugareddfa ar yr hon y cymer y Jehofa ei safle yn ngolwg ei gyfraith, ei lywodraeth, a'i ddeiliaid, i weini ei gymwynasgarwch tuagat fyd o bechaduriaid gwrthryfelgar, ac i estyn llaw o gymod a chariad at bob gwrthryfelwr edifeiriol a dychweledig, yn gystal a rhoddi yr un cynhygiad didwyll a diffuant ger eu bronau oll.

Fel hyn y mae deall mai athrawiaeth yr iawn yw prif-egwyddor y Bibl, yn allwedd i roddi agorfa i fyned i mewn iddo: ac y mae iawn-ddeall yr egwyddor hon yn rhoddi agoriad i'r holl egwyddorion ereill. Heb olygu iawn fel canolbwynt a chalon yr Ysgrythyr, ni bydd genym un seren i gyf-

* Rhuf. ili. 25, 26.

† 1 Ioan iv. 9.

arwyddo ein myfyrdod ar ei fordaith, a'i dywys i borthladd iawn ddëongliad. Os gadawn yr iawn allan o hono, bydd y cwbl o'n blaen yn gymysgfa ddiystyr, gadewir ni i grwydro ar hyd-ddo fel mewn anialwch heb ffordd ; ac os golygiadau camsyniol a fydd genym am natur ac ansawdd y brif egwyddor hon, rhaid y byddwn i raddau yn gamsyniol ein golygiadau ar bob egwyddor ysgrythyrol arall.

Dywedasom mai egwyddorion moesol ydyw egwyddorion y Bibl ; gall fod ychydig sylwadau eglurhâol eto yn angenrheidiol ar hyn.

Y mae dylanwadau dwyfol yn cerdded drwy holl egwyddorion anianyddol a greddfyl y greadigaeth a'r creaduriaid, er cadw cyson-drefn barhaol yn y naill ddosparth a'r llall. Yr afael a geidw y llaw Hollalluog, drwy egwyddorion sefydlog a phriodol i'w cyfansoddiad, sydd yn cynnal ac yn dyogelu y bydoedd yn eu cylchoedd a'u trôadau heb ymollwng nac ymddyrsu ; a'r un llaw, drwy egwyddorion y greddfau a osododd yn eu natur, sydd yn cadw pob creadur yn ei elfen briodol ei hun : hon a geidw y pysg yn y dyfroedd, a'r adar yn yr awyr, &c. Nid oes y gradd lleiaf o foesoldeb yn y pethau hyn. Y mae yma fawr brydferthwch i'w ganfod, ond nid prydfferthwch moesol ydyw. Nid oes un rhinwedd yn ngwaith yr haul yn codi ac yn machlud bob bore a hwyr, y môr yn llenwi ac yn treio yn barhaus a rheolaidd, yn ngwaith y pysgodyn yn ymgadw yn ei elfen briodol, &c. nid ufuddod oddiar ystyriaeth o ddyledswydd yw eu hufudd-dod hwy : nid ydynt yn ngafael egwyddorion llywodraeth foesol, a phe torent y cyfreithiau y maent danynt, ni byddai drwg moesol yn hyny.

Fel ag nad oes dim o natur foesol yn egwyddorion llywodraethiad bydoedd a chreaduriaid mudion y greadigaeth, felly nid oes dim o natur anianyddol na greddfyl yn dyfod i'r byd moesol. Egwyddorion i ddal gafael ar feddyliau a galluoedd moesol creaduriaid rhesymol ydyw y rhai hyn. Llywodraeth yn cael ei dwyn yn mlaen yn hollol drwy ymresymu, gorchymyn, bygwth, addaw, anog, cymhell, &c. ydyw hon, lle y gadewir y deiliaid yn hollol rydd i gyd-ffurfio, neu anghydfurfio, fel ag y mae y naill yn rhinwedd, a'r llall yn fai ynddo. Yn awr, cynhwysa y Bibl egwyddorion o'r natur

yma, ac y maent i'w cael yn mhob ffurf ynddo; weithiau mewn gorchymynion pennodol; mewn apeliadau at reswm a chydwybod; mewn anogaethau a chymhellion; ac weithiau mewn ffordd o gasgliad oddiwrth ei wahanol ranau; a'r cwbl o honynt, fel y sylwyd eisoes, yn dal perthynas a'r iawn, fel y mae holl redwelïau y corph yn dal perthynas a chysylltiad â'r galon.

Drwy egwyddorion o'r natur yma, y gweithia y dylanwad dwyfol ar feddyliau angelion a saint yn y nefoedd, er eu cadw mewn cyflwr o ufudd-dod a dedwyddwch; a thrwy yr unrhyw egwyddorion y gweithia er dychwelyd ac adferyd byd pechadurus yn ol i lwybr ufudd-dod a happusrwydd; ac nid yw rhyddid y naill na'r llall yn cael ei ddiystrio.

Os ydyw y gosodiadau uchod yn gywir, y maent yn ein harwain i dynu y casgliadau canlynol o angenrheidrwydd, sef,

Yn 1. Mai drwg moesol yw pechod, ac nid peth o natur anianyddol a greddfol.

2. Mai mesur o natur foesol ydyw yr iawn. Meddyginiaeth o'r un ansawdd a'r afiechyd, ac felly yn gymwys a phriodol ynddo ei hun er ei symud. Cyfrwng i ddangos nodwedd moesol Duw mewn gogoniant wrth gynyg a gweinyddu heddwch a maddeuant i droseddwy'r ei gyfraith, i ddangos grym a chadernid ei lywodraeth wrth bardynu gwrthryfelwyr edifeiriol, i gynhyrchu argraffiad moesol ar feddyliau y deiliaid o annhraethol ddrwg pechod, er cadw y naill rhagddo, a dychwelyd y lleill oddiwrtho.

3. Mai cyfnewidiad moesol ydyw cyfnewidiad cyflwr pechadur, a osodir allan drwy ymadroddion cydmariaethol, megis 'geni drachefn' &c. yn y Bibl, ac mai dylanwadau moesol yn unig sydd yn ei effeithio. Fel hyn, nid oes dim o natur anianyddol a greddfol yn perthynu i'r gweinyddiad hwn.

Profed fy narllenwyr y ffordd hon o chwilio a myfyrio y Bibl—ei chwilio a'i fyfyrio, fel llyfro egwyddorion ysprydol, yr hwn y mae athrawiaeth yr iawn drwy farwolaeth Mab Duw yn brif egwyddor ynddo a'i holl egwyddorion eraill yn derbyn grym a chyfnerthiad oddiwrthi, ac nid wyf yn ameu na bydd i lawer o honynt gael golwg newydd a gwahanol i ddim a gawsent o'r blaen arno.

Yn wyneb yr ystyriaeth hon o'r Bibl, fel llyfr yn cynnwys egwyddorion moesol, yr ymddengys ei werth moesol i'r byd. Y mae gwerth yr hen Destament wedi darfod gyda'r oruchwyliaeth hono, os nad egwyddorion moesol ac anghyfnawidol sydd yn cael eu dal allan ynddo. Os cymerir y ddau Destament a'u gilydd, ac os caiff tystiolaeth y newydd ei derbyn am yr hen, bydd pob amheuaeth yn nghylch hyn yn diflanu. Gwelir bod y ddau yn dal allan yr un a'r unrhyw egwyddorion; nad oedd un cyfnewidiad yn cymeryd lle yn yr elfenau moesol dan bob cyfnewidiad a fu ar y goruchwyliaethau, neu y dull o'u gosod allan. Cyfnewidiai y goruchwyliaethau allanol yn ol amgylchiadau yr amserau, ond arosai yr egwyddorion fyth yr un. Llyfrau Moses ac epistolau Paul ydynt yn trin ac yn gosod allan yn gymwys yr unrhyw egwyddorion, ond mewn gwisgoedd a dullwedd tra gwahanol. Y naill mewn aberthau, cysgodau, bwydydd, diodydd, ac amryw olchiadau a seremonïau, &c. a'r llall heb ddim o'r pethau hyny, ond gan gyfeirio at Grist fel sylwedd, dyben, a diwedd y defodau hyny oll: bod iawn yn anhebgorol angenrheidiol er maddeuant oedd prif-athrawiaeth ysgrifeniadau deddfwr mawr Israel, ac apostol mawr y cenhedloedd. Yr oedd pob datguddiad a roddodd Duw o hono ei hun dan yr hen Destament, yn cael ei wneuthur mewn cyfamod drwy aberth, ac yr oedd yn mhob cyfamod hefyd yn dyfod a rhyw oleuni newydd i'r golwg ar egwyddorion mawrion y drefn gyfryngol; ac yn fynych cysylltid rhyw seremoni neu ddefod arwyddocaol berthynol i'r egwyddor a ddygasid i'r golwg. Pan adnewyddodd y cyfamod âg Abraham, gan'addaw bod yn Dduw iddo ef ac i'w had, gorchymynodd yr enwaediad i fod yn arwydd o hyny, i ddangos fod yr un berthynas rhwng Duw yn ei drefn a'i gyfamod, â'i blant, babanod yn gystal a rhai mewn oedran, ag oedd rhyngddo âg yntau; ac y byddai yr un rhyddid a hawl iddynt yn ei ragorfreintiau. Yn niwedd yr oruchwyliaeth hono, darfu tymor yr enwaedu, yn gystal a thymor yr aberthu; ond y mae yr egwyddor yr oedd yr enwaediad yn sêl wrthi yu aros fyth yn anghyfnawidol. 'Gwnaethpwyd Iesu Grist yn weinidog i'r enwaediad er mwyn gwirionedd Duw, er mwyn cadarnhau yr addewidion a wnaethpwyd i'r tadau.' Gallesid ychwanegu enghreifftiau, ond

gwasanaetha yr un uchod cystal a llawer er eglurhad o'r mater. Ceidw Paul yn neillduol y mater yma mewn golwg yn y rhan fwyaf o'i lythyrau, sef dangos mai yr un egwyddorion yn hollol oedd yn ngoruchwyliaeth Moses a goruchwyliaeth Crist—mai cadarnhau yr egwyddorion hyny, ac nid eu dirymu a'u cyfnewid, a wnaethai y Messia—mai yr un efengyl a bregethid ganddo ef, ac a bregethasid gan Moses a'r prophwydi gynt—ei fod yn efengylu yr un addewid, neu egwyddor i'r cenhedloedd, ac a gawsai ei hefengylu i'r tadau dan yr oruchwyliaeth o'r blaen—na adawsid dim o'r yspryd a'r sylwedd heibio, wrth adael y ffurfiau a'r seremonïau heibio—bod gweinidogaeth y Testament newydd yn fwy rhagorol, nid am ei bod yn cynwys gwell egwyddorion, ond am ei bod yn eu hegluro yn llawnach ac mewn modd symlach, goleuach, a mwy manteisiol.

Fel hyn, y mae gwerth parhâol yr holl lyfr yn cael ei amlygu, y ddau Destament yn gwasanaethu ac yn cyferthu eu gilydd; ni ellir iawn ddeall y naill, ond yn ngoleuni y llall—profi dwyfoldeb y Testament newydd, drwy ei gysondeb a'i gyd-drawiad a'r hen Destament; 'Wrth gael tystiolaeth gan y ddeddf a'i prophwydi' y deallwn egwyddorion a dybenion gosodiadau yr hen Destament, yn yr esponiad llawnach ac eglurach a rydd y newydd arnynt, wrth gael tystiolaeth gan yr efengylwyr a'r apostolion. At Ysgrythyrau yr hen Destament y cyfeiriodd Crist yr Iuddewon, i brofi ei honiadau ef am dano ei hun fel Messia wrthynt; ac atynt hwy hefyd yr apeliai yr apostolion i brofi gwirionedd a dwyfoldeb yr athrawiaeth a bregethent. Nid oedd gan Paul un gyffes ffydd arall ond yr 'holl bethau sydd yn ysgrifenedig yn y ddeddf a'r prophwydi';* a dyma hefyd oedd sylwedd ei weinidogaeth, 'Gan dystiolaethu i fychan a mawr, ac heb ddywedyd dim amgen nag a ddywedasai y prophwydi a Moses y deuent i ben; y dyoddefai Crist,† &c.

Arfeir rhanu yr egwyddorion hyn i ddau ddosparth, sef egwyddorion athrawiaeth, ac egwyddorion ymarferiad—cred a buchedd. Egwyddorion athrawiaeth ydynt yn cynwys y

* Act. xxiv. 14.

† Act. xxvi. 22.

pethau hyny mewn crefydd ag ydynt i'w deall a'u credu, y rhai a elwir weithiau yn wirioneddau sylfaenol crefydd. Egwyddorion ymarferol ydynt reolau dyledswydd a buchedd; y fath ag a geir yn mhregeth Crist ar y mynydd, yr hon sydd yn gorph cyflawn o dduwinyddieth ymarferol. Y mae yn wir bod holl egwyddorion athrawiaethol y Bibl yn dal perthynas ag ymarferiad, bod tuedd ymarferol yn mhob un o honynt, oblegid nid egwyddorion llesg a meirwon mohonynt, ond 'Ysbryd a bywyd' ydynt oll; athrawiaeth yn ol duwioledeb ydyw yr holl athrawiaeth: ond nid ydynt yn dal perthynas uniongyrchol âg ymarferiad, fel y mae'r lleill: yr ydym yn cael ein gadael i gasglu eu tuedd ymarferol oddiwrth ansawdd yr egwyddorion hyny, tra y mae y lleill yn nodi allan lwybr dyledswydd yn uniongyrchol o'n blaen. Cawn enghreifftiau apostolaidd o'r dull yma o ddwyn allan duedd ymarferol egwyddorion athrawiaethol yr Ysgrythyr. Er siampl, Defnyddiai'r apostol Ioan yr athrawiaeth fawr am gariad Duw yn anfon ei Fab i'r byd, i'r dyben i brofi a dangos rhwymedigaeth Crist'nogion i garu Duw a charu eu gilydd. 'Yr ydym ni yn ei garu ef, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni. Yn hyn y mae cariad, nid am i ni garu Duw, ond am iddo ef ein caru ni, ac anfon ei Fab i fod yn iawn dros ein pechodau. Anwylyd, os felly carodd Duw, ninnau hefyd a ddylem garu ein gilydd.' Dyna y casgliad a dynir oddiwrth y gwirionedd mawr am gariad Duw tuagatom ni; yr effaith a ddylai gael arnom ni, sef ein dwyn i garu Duw, a charu ein gilydd.

Cyn myned yn mbhellach, i'r dyben i gyfleu mewn dull cryno sylwedd y sylwadau blaenorol ger bron myfyriwr ieuanc o'r Ysgrythyrau, tybiwn ein bod yn codi y gofynion canlynol oddiwrthynt ac yn cyflwyno atebion allan o honynt iddynt yr un modd.

G. Pa fath lyfr ydyw y Bibl?

A. Llyfr o egwyddorion moesol ydyw.

G. Beth ydych yn ddeall wrth egwyddor?

A. Egwyddor yw cynsail—cyn-reol—neu wreiddyn peth.

G. Beth yw egwyddor foesol?

A. Rheol i gyfarwyddo cred a bywyd crefyddol wrthi—i farnu gweithredoedd ac ymddygiadau wrthi—er profi pa un ai beius ai rhinweddol a fyddont.

G. Beth ydych yn deall wrth egwyddorion anianyddol?

A. Y deddfau drwy y rhai y mae y gallu dwyfol yn cynnal ac yn llywodraethu y bydoedd.

G. Beth yw greddf?

A. Y duedd briodol i natur a chyfansoddiad pob creadur, drwy yr hon eu llywodraethir ac eu cedwir yn eu helpenau priodol eu hunain.

G. Beth yw y gwahaniaeth sydd rhwng yr egwyddorion hyn ag egwyddorion moesol?

A. Y mae egwyddorion neu ddeddfau natur yn ymaffyd yn ac yn effeithio ar fater neu ddefnydd yn unig; a greddf yn llywodraethu ysgogiadau creaduriaid di-enaid, fel nad yw deiliaid y naill na'r llall yn gweithredu oddiar gydwbybodol-rwydd, neu ystyriaeth o ddyledswydd: ond egwyddorion moesol ydynt yn amcanedig er llywodraethu meddyliau, teimladau, a bucheddau creaduriaid rhesymol, drwy orchymynion a chymhelliadau, heb eu treisio na dinystrio eu rhyddid.

G. O ba fath nodwedd yw egwyddorion moesol yr ysgrythyr?

A. Y maent yn gyfaddas at gyflwr ac amgylchiadau byd o greaduriaid rhesymol wedi dyrywio oddiwrth Iduw, ac oddiar lwybr dyledswydd ac ufudd-dod iddo, er ei adferu a'i ddychwelyd yn ol.

G. Pa un gan hyny yw y brif egwyddor ynddo?

A. Athrawiaeth yr iawn drwy ddyoddefaint ac angeu Mab Duw.

G. Pa fodd y gellwch brofi hyny?

A. 1. Drwy ystyried hanesyddiaeth y llyfr sanctaidd fel ag y mae yn gadael heibio y gweddill o ddynolryw, oddigerth yn achlysurol, gan ddylyn helyntion ac amgylchiadau y genedl hono ag yr oedd y Messia i hanu o honi.

2. Yr oedd trefn addoliad, a'r gwasanaeth dwyfol, yr aberthau a'r cysgodau Iuddewig dan yr hen Destament, wedi eu hamcanu yn bennodol ac amlwg i ddyngu a gosod allan y brif egwyddor hon.

3. Yr athrawiaeth hon ydoedd prif fater yr holl brophwydoliaethau, 'Dyoddefaint Crist, a'r gogoniant ar ol hyny.'

4. Hon ydyw prif fater hanesyddiaeth yr efengylwyr, pregethau, a llythyrau yr apostolion.

G. Pa egwyddorion neullduol y mae y brif egwyddor hon yn eu dysgu, yn ol fel y mae yn cael ei gosod allan yn yr ysgrythyrau?

A. Y mae yn amlygu nodwedd Duw, nodwedd pechod, a sefyllfa andwyol dyn fel pechadur.

G. Pa olwg a rydd ar nodwedd Duw?

A. Y mae yn dangos ei anfeidrol gariad a'i ras, yn trefnu y fath ddarpariaeth i gynyg a gweinyddu maddeuant i droseddwyr ei gyfraith, ac arddangos ei gyfiawnder, amddiffyn gogoniant ac iawnderau ei lywodraeth, cadarnhau y ddeddf, a chondemuio pechod wrth wneyd hyny, yn nghyd a chynhyrchu arswyd pechu, a chasineb at bechod yn meddyliau yr holl ddeiliaid.

G. Pa olwg a rydd ar nodwedd pechod?

A. Fel y drwg mwyaf ysgeler ac ofnadwy, gan na allai dim llai na marwolaeth Mab Duw ateb y dyben o wneuthur iawn drosto.

G. Pa olwg a rydd ar gyflwr dyn fel pechadur?

A. Fel yn hollol andwyol ac anobeithiol o'i ran ei hun, ond ar gyfrif teilyngdod yr iawn yn garcharor gobeithiol, a chynhygiad didwyll o gymod a maddeuant ar ei ddychweliad a'i edifeirwch, yn cael ei osod o'i flaen.

G. Pa gasgliadau yr ydych yn eu gwneuthur oddiwrth hyn?

A. 1. Mai drwg o natur foesol yw pechod, trosedd yn erbyn deddf a llywodraeth foesol; ac mai nid llygredigaeth anianyddol neu naturiol ydyw.

2. Mai iawn o natur foesol ydyw iawn Crist, o'r un natur a'r llywodraeth y troseddasiid i'w herbyn, a'r drwg a ddaethai i mewn iddi, ac nid taliad o natur fasnachol ydyw. Darpariaeth i Dduw osod allan ei gyfiawnder wrth faddeu, ac i ddwyn y troseddwyr i agwedd briodol i dderbyn maddeuant.

3. Mai cyfnewidiad moesol ydyw ail-enedigaeth, ac mai dylanwadau moesol sydd yn eu effeithio.

4. Yr ydym yn honi hefyd, gan nad oes dim o natur foesol yn llywodraethiad y greadigaeth a'r creaduriaid di-enaid, nad oes dim o natur anianyddol a greddfól chwaith yn perthyn i weinyddiadau y llywodraeth foesol tuag at feddyliau ac ymddygiadau rhesymol.

G. Pa bethau yn mhellach ydych yn ddeall mewn perthynas i egwyddorion y Bibl?

A. Nad oes un egwyddor foesol a osodir allan yn yr hen Destament, wedi ei galw yn ol na'i chyfnewid dan y newydd, ond bod y dull o'i gosod allan wedi ei newid yn ol amgylchiadau gwahanol yr amserau.

2. Gan hyny, bod y ddau Destament fel dau dyst yn dwyn yr un dystiolaeth, ac yn dysgu yr un gwirioneddau.

3. Mai yn ngoleuni y naill y gellir deall y llall, ac mai un rëol fawr i ddeall meddwl ac egwyddorion y gair sanctaidd ydyw, cydmaru y ddau yn ofalus a'u gilydd.

G. Pa fodd yr ydych yn dosparthu egwyddorion y Bibl?

A. I ddau ddosparth; sef, egwyddorion athrawiaethol, ac egwyddorion ymarferol.

G. Pa rai ydynt yr egwyddorion athrawiaethol?

A. Seiliau crefydd, y rhai ydynt yn wrthrychau uniongyrchol yn dal perthynas ag ymarferiad.

G. Pa rai ydynt yr egwyddorion ymarferol?

A. Y rhai hyny ag ydynt yn dangos ac yn cymhell dyledswydd mewn modd uniongyrch a phennodol, megis, pregeth Crist ar y mynydd.

G. A ydyw egwyddorion athrawiaethol y Bibl o natur ymarferol?

A. Ydynt oll; yr ydym i gasglu i ba ymarferiad y maent yn arwain, drwy ystyried eu hansawdd a'u tuedd briodol.

DOSP. IV.

Y MAE yr ystyriaeth yr ymdrechwyd dadleu drosti yn y dosparth blaenorol, mai egwyddorion o natur foesol ydyw yr eiddo y Bibl, yn taflu goleuni ar ein llwybr, ac yn rhwyddhau y ffordd o'n blaen, wrth i ni fyned rhagom at ei ymadroddion cydmariaethol; oblegid os caniateir mai egwyddorion moesol neu ysprydol yw ei holl egwyddorion, rhaid i ni edrych ar yr holl ymadroddion a'r cyffelybiaethau sydd yn-

ddo, drwy y rhai y gosodir allan ei egwyddorion, nid yn ol eu hystyr a'u harwyddocâd cyffredin, pan eu cymhwysir, at wrthrychau naturiol, ond yn ol ystyr egwyddorion y llyfr ei hun. Hwyrach na fu dim erioed braidd yn foddion i gymylu a thywyllu athrawiaethau y gair sanctaidd yn fwy na chymeryd ei ymadroddion cydmariaethol yn eu harwyddocâd llythyrenol a chyffredin.

Yr ymadroddion cydmariaethol y cyfeirir atyt yn benaf yn y fan hon, ydynt y geiriau hyny, neu y ffigurau a ddefnyddir i osod allan gyflwr a sefyllfa dyn trwy bechod, a'i adferiad trwy ras.

Gyda golwg ar y dysgrifiad a roddir o'r blaenaf, cyflwr dyn trwy bechod, defnyddir y geiriau, gwan, anallu, marw, &c. i'w osod allan: a chymerir y fath eiriau yn fynych yn eu hystyr lythyrenol a chyffredin, ac nid cydmariaethol a moesol; *k.y.* eu bod yn gosod allan gyflwr dyn trwy bechod mor hollol amddifad o alluoedd a chymhwysderau naturiol i ufuddhau a gwneyd ei ddyledswydd, ag ydyw y marw naturiol i gyfodi, rhodio, llefaru, a chyflawni unrhyw o alwedigaethau bywyd.

Yn awr, y mae yr ystyriaeth faenorol am foesoldeb egwyddorion y Bibl yn ein harwain i ddeall yn wahanol am ystyr yr ymadroddion dan sylw. Os, fel y sylwyd, mai drwg o natur foesol yn unig yw pechod, yna ni effeithiodd ar gyfansoddiad anianyddol neu naturiol y pechadur, ni ymddifadodd ef o unrhyw allu neu gymhwysder angenrheidiol i ufuddhau a chyflawni ei ddyledswydd. 'Y diffyg o dan yr hwn y mae y dyn anianol yn aros,' medd Dr. Paine, 'sydd ddiffyg o natur foesol, a diffyg o natur foesol yn unig. Ni pheidiodd Adda a bod yn berffaith ddyn, mewn ystyr anianyddol, pan y daeth yn bechadur. Ni cholodd unrhyw allu naturiol, neu gymhwysedd, ag y sydd yn gwahaniaethu natur dyn rhagor yr eiddo anifail; ond collodd yr egwyddor sanctaidd o gariad at Dduw, yr hon a röoleiddiai weithrediaid ei holl alluoedd naturiol, ac a'i tueddai i gyssegru y cwbligogiant Duw. Nichollodd eiddoalltwriaetha'iewyllys, neu ei serchiadau, ond collodd y tueddfryd i ddefnyddio y galluoedd hyn yn ngwasanaeth ei Grëwr. Y mae o bwys mawr i ni gadw yr ystyriaethau hyn yn ein meddyliau, oblegid y mae rhai yn rhoddi y fath ddysgrifiad o athrawiaeth y

cwmp, ag sydd yn llwyr ddadymchwelyd euogrwydd a chyfrifoldeb dyn. Haera rhai ei fod wedi colli ei ryddid—haeriad nad yw ddim llai gwrthyn yn ngolwg pwy bynag a ystyrio pa beth y mae yn gynnwys, nag a fyddai yr haeriad ddarfod iddo golli ei reswm; a bod llywodraeth foesol Duw yn bresenol yn cael ei gweinyddu tuag at fyd o wallcofaid.*

Wrth yr ymadroddion, gwendid, anallu, marw, a'r cyffelyb, y rhai a ddefnyddia y Bibl i ddysgrifio cyflwr dyn trwy bechod, yr ydym i ddeall, diffyg tuedd, archwaeth, cariad, ewyllys at, ac ymroddiad i'r hyn 'sydd dda, a'r hyn a gais yr Arglwydd ganddo,' ac nid unrhyw ddiffyg mewn cymhwysderau a galluoedd naturiol i'w gyflawni. 'Teyrnasodd pechod i farwolaeth' pob rhinwedd foesol ac ysprydol yn ei galon, ond gadawodd ef yn berffaith ddyn o ran ei alluoedd a'i gymhwysderau naturiol, ac fel hyn y mae ei euogrwydd a'i gyfrifoldeb yn aros. Y mae y diffygion moesol a grybwyllwyd yn farwolaeth foesol ac ysprydol, mewn gwirionedd: oblegid, bywyd moesol ac ysprydol ydyw ystyriaeth o ddyledswydd, tueddfryd, ewyllys, ac ymroddiad meddwl i'w chyflawni.

O ganlyniad, y mae yr ymadroddion 'creu o newydd,' bywhau, a'r cyffelyb, a arferai y Bibl i osod allan adferiad pechadur trwy ras ac yspryd Duw, i'w deall a'u cymeryd yn yr un ystyr; yn arwyddo, nid creadigaeth galluoedd newyddion, neu gyfnewidiad anianyddol, ond cyfnewidiad ar ansawdd foesol y meddwl; adferiad tuedd sanctaidd yn yr ewyllys i ufuddhau a gweithredu yn sanctaidd. Pan y mae cybydd yn dyfod yn haelfrydig, nid yn ei allu a'i foddion y bu y cyfnewidiad, yr oedd y rhai hynny ganddo o'r blaen, ond bu y cyfnewidiad yn nhymer, nodwedd, ac ansawdd ei feddwl. Gallasai fod yn hael o ran moddion o'r blaen, ei unig anallu ydoedd diffyg tymer haelfrydig, a dylanwad y dymer wrthgyferbyniol, sef yr un gybyddlyd, ar ei feddwl. Ni allai am na fynai. Pan y mae y fath gyfnewidiad yn cymeryd lle, y mae, mewn ystyr briodol i'r golygiad dan sylw, yn greadur newydd, yn dilyn bywyd newydd, dan lywodraeth

* Dr. Paine's Lectures on Divine Sovereignty, page 26.

egwyddor newydd. Yr oedd gynt yn farw i bawb ond iddo ei hun, y mae yn awr yn fyw fel aelod defnyddiol o'r gymdeithas y perthyna iddi. Felly pechadur adferedig trwy ras; dyn, creadur newydd ydyw, nid mewn ystyr lythyrenol, neu naturiol, yr un yn hollol yn yr ystyr hon, ond mewn ystyr foesol y mae yn un arall, o ran egwyddorion llywodraethol ei galon, a nodwedd cyhoeddus ei fywyd. Yr oedd gynt yn 'farw mewn camwedd a phechod,' yn ddi-ewyllys, di-archwaeth, a di-duedd at yr hyn sydd dda; y mae yn awr wedi ei fywhau, yn ymhyfrydu yn, ac yn caru y pethau ag yr oedd o'r blaen yn hollol ddiystyr o honynt.

Yr ydym fel hyn i gymhwyso y rheol-brawf hon at holl ymadroddion ffiguraid yr Ysgrythyr. Y mae gogoniant a dedwyddwch y nef, poenau a thrueni uffern, yn cael eu dysgrifio bob amser drwy ymadroddion ffiguraid. 'Teyrnas, gorsedd, coron, telyn, palmwydd, ffynhonau bywiol o ddyfroedd,' &c. ydynt ddysgrifiadau y Bibl o urddas, gogoniant, dedwyddwch, a llawnder y nefoedd. 'Pwll diwaelod, llyn yn llosgi o dân a brwmstan, pryf nad yw yn marw, tân nad yw yn diffodd,' &c. ydynt yr ymadroddion a ddefnyddia i osod allan sefyllfa druenus y colledigion. Ond yr ydym i ddeall y naill a'r llall yn arwyddocaol o ddedwyddwch a thrueni meddwl; ac nid ydym i feddwl fod yn y naill na'r llall, na gorseddau, coronau, telynu, na thân, na brwmstan, na phryf, yn ol ystyr briodol y geiriau: benthycir y cyfryw ymadroddion gan mai trwyddynt y trosglwyddir y drychfeddyllian mwyaf bywiog a grymus i ni yn ein sefyllfa bresenol am ddedwyddwch a phoen: ni all ein meddyllian ni yn ein sefyllfa bresenol godi yn uwch yn eu syniadau am ogoniant a dedwyddwch, nag at deyrnas, gorsedd, a choron, &c. nag amgyffred am boenau mwy arteithiol nag a effeithia yr elfen dân; gan hyny, defnyddiai ysprydoliaeth ddwyfol yr ymadroddion a drosglwyddent i ni y drychfeddylliau cryfaf a mwyaf tueddol i'n heffeithio wrth osod y pethau hyn ger ein bronau. Dylem gofio ar yr un pryd nad yw y fath ymadroddion yn gosod allan ond delweddau gweiniaid o'r ddwy sefyllfa ddyfodol mewn cydmariaeth i'r hyn ydynt mewn gwirionedd. Y mae y nefoedd yn dra rhagorol, y tu hwnt i ddim a ddywed hyd yn od y Bibl ei hun am dani; ac uffern yn dra

ofnadwy, y tu hwnt i'r dysgrifiad a rydd pob ymadroddion o honi; ond llefara y Bibl yn yriaiith gryfaf am y naill a'r llall a allem ni amgyffred.

Mewn cysylltiad a'r byr sylwad uchod ar eirian ffiguraidd y Bibl, priodol fyddai ychwanegu ychydig nodiadau mewn perthynas i ddamhegion hefyd. Y mae dameg a chydmariaeth o'r un rhyw a dull o lefaru mewn ystyr, ond bod dameg yn cynwys histori gyflawn i osod allan fater neu feddwl, pan nad yw ymadrodd cydmariaethol ond un gair neu ffigyr, fel y gwelir yn y sylwadau blaenorol ar y cyfrif hwn: nid priodol ydyw galw un gair ffiguraidd yn ddameg.

Dameg ydyw gwirionedd neu addysg yn cael ei drosglwyddo drwy gyffelybiaeth wedi ei thynu oddiwrth naill ai ffaith adnabyddus yn natur, hanesyddiaeth, neu arferiad a defod wladol, neu ynte ddyfaliad neu dybiaeth o amgylchiad neu ddygwyddiad. Daw holl ddamhegion Crist dan y naill neu y llall o'r nodweddau uchod. Damhegion yr hauwr, yr hedyn mwstard, a'r surdoes, &c. ydynt seiliedig ar ffeithiau adnabyddus yn ol trefn a gosodiad natur—damhegion y winllan a'r llafurwyr, y deng morwyn, a'r cyffelyb, ydynt wedi eu tynu oddiwrth arferion a defodau y wlad a'r oes hono—damhegion y ddafad golledig, y dryll arian colledig, a'r mab afradlon, &c. ydynt wedi eu tynu oddiwrth amgylchiadau neu ddygwyddiadau yn cael eu dyfalu fel pethau a allasant gymeryd lle.

Y mae yn amlwg mai dyben Crist wrth arfer y dull hwn o lefaru ydoedd egluro, ac nid dirgelu, y gwirionedd: gwelai mai y ffordd fwyaf effeithiol i enill sylw ac ystyriaethau ei wrandawyr at egwyddorion teyrnas nefoedd ydoedd eu gosod allan ar ddamhegion, neu gyffelybiaethau, oddiwrth bethau adnabyddus iddynt, am fod tuedd neullduol yn y dull hwn i gyffroi yspryd ymofyniad yn y bobl—'llefarai wrthynt ar ddamhegion,' am 'yn gweled y gwelent ond ni chanfyddent, ac yn clywed y clywent ond ni ddéallent,' am fod eu calonau wedi eu brasau: *h. y.* am eu bod, o herwydd hwydrwymedd eu meddyliau, yn anmharod ac anghymwys iawn i dderbyn addysg mewn unrhyw ddull arall: rhoddai iddynt 'laeth i'w yfed, ac nid bwyd cryf,' am eu 'bod yn anghyfesin a gair cyfiawnder.'

I ddëall ystyr a meddwl dameg, rhaid i ni edrych ar ba achlysur y llefarwyd hi. Llefarai Crist y rhan fwyaf o'i ddamhegion oddiar ryw amgylchiad neu achlysur pennodol, i gyfleu addysg foesol i'w wrandawyr oddiwrtho; ac y mae dal sylw ar achlysur llefariad unrhyw ddameg yn help i ddeall ei hystyr. I ddëall rhai o honynt, o leiaf i weled eu grym, eu priodoldeb, a'u prydfferthwch, y mae yn angenrheidiol bod yn gydnabyddus i raddau ag arferion a defodau y gwledydd dwyreiniol, am fod amryw o'r damhegion wedi eu tynu oddiwrthynt. Rhoddai y llyfr a elwir, '*Hanes y Defodau Dwyreiniol,*' a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn Gymraeg gan y Parch. E. Griffith, Abertawy, gymhorth mawr at hyn.

Rhaid i ni gofio hefyd mai rhyw un egwyddor neu addysg sydd gan bob dameg yn benaf mewn golwg. Gallwn dynu addysgiadau ereill oddiwrthi, ond nid ydym i briodoli iddi fel ei gwir ystyr ond yr egwyddor hono ag sydd ganddi hi mewn golwg. Y mae damhegion yn fynych wedi eu dirdynu yn ddychrynllyd gan ffol ysprydolwyr, wrth gymeryd arnynt eu hesponio: rhoddwyd iddynt ystyriaethau na feddyliodd calon Iesu Grist erioed am eu cyfleu ynddynt pan yn eu llefaru: a'r gwrthunaf o bob gwrthuni yw gwaith dynion yn ceisio gwneyd y llyfr ysprydoledig yn fwy ysprydol nag ydyw. Rhydd Buck, yn ei Eiriadur Duwinyddol, yr esiampl hynod a ganlyn o'r coegddull adgas hwn o esponio, neu yn hytrach o ddirdynu dameg. 'Y dyn yn myned o Jerusalem i Jericho, ydyw Adda yn erwydro yn anialwch y byd hwn—y lladron oeddynt yr ysprydion drwg—yr offeiriaid oedd cyfraith Moses—y Lefiad ydyw gweithredoedd da—y Samariad daionus ydyw Iesu Grist—y ddwy geiniog ydyw gwerth yr iawn—yr olew a'r gwin ydyw gras, &c.'

'Pa ystyr na ellid roddi i ddameg,' medd yr ysgrifenydd, 'os gosodir dychymyg ar waith i lanw lle rheswm ac iawn bwyll! A pha dywyll eiriau ac oraclau paganaid a allent fod yn fwy cymwysaidd, neu y gellid rhoddi mwy o amrywiaeth ystyriaethau iddynt, na'r Bibl, ond caniatâu y dull hwn o'i drin. Nid yw ond esgus druenus a ddefnyddia rhai o'r dëonglwyr hyn, eu bod yn gwneyd y Bibl yn fwy adeiladol ac yn llawnach o ystyr, wrth ei esponio yn y dull hwn. A ydyw yr ysgrhythrau gan hynny i gael eu gwneuthur yn fwy boddfawr a

llawnach o ystyr nag y gwnaeth Duw hwynt; neu i gael eu diwygio gan ddyfais y dëonglwr, fel ag i'w gwneuthur yn fwy adeiladol nag y gallai yr Yspryd Glan eu gwneyd? Os oes ymddangosiad o dduwiolfrydigrwydd yn y fath ddëongliadau, ymddangosiad ydyw y cwbl. Ymddengys gwir dduwiolfrydedd, a gostyngeddwydd, yn llawer mwy, wrth dderbyn yr ysgrythyrau fel y maent, a'u hesponio mor syml a chywir ag y goddefa rheolau iaith, yn hytrach nag wrth gynyg gwellaau a diwygio y datguddiad a roddodd Duw.'

Onid fel y mae gwaethaf y modd, nid y ddameg a nodwyd yw yr unig un a roddwyd ar arteithglwyd dychymyg, ac a ddïaelodwyd yn y dull uchod. I bwy bynag y perthyn y gwarthnod o fod y cyntaf yn y camwedd hwn, nid efe oedd y diweddaf; canlynodd lluaaws yn yr un llwybr, nes rhyngddynt y dirdynwyd yr holl ddamhegion a rhanau ereill o'r Bibl yn yr un modd.

Onid i ddychwelyd yn ol at y ddameg, ystyrier hi yn ol y cyfarwyddyd cyntaf a osodwyd i lawr, sef oddiar ba amgylchiad neu achlysur y llefarwyd hi; ac y mae ei hystyr yn amlyg a hawdd ei ganfod. Cawn mai achlysur y ddameg ydoedd gwaith rhyw gyfreithiwr yn temtio Crist, drwy ofyn pa beth a wnaei er etifeddu bywyd tragwyddol, a chan ewyllysio ei gyfiawnhau ei hun a ofynai, 'A phwy yw fy nghymydog?' 'Rhyw ddyd oedd yn myned o Jerusalem i Jericho, ac a syrthiodd yn mysg lladron, &c.' ac wedi dysgrifio yr ymgabledd a wnaeth y Samariad trugarog ag ef, cymhwysai Crist yr addysg at y cyfreithiwr gan ddywedyd, 'Dos a gwna dithau yr un modd.' Yr hyn a amcenir gan hyn yn y ddameg ydyw egluro a chymhell y rhinwedd o wir ddyngarwch: mai tosturi, yn tori allan yn gymwynasgarwch ac ymgeledd i unrhyw gydgreddur a welont mewn angen a thrueni ydyw; yr hyn a osodir allan yn ymddygiad y Samariad, esiampl yr hwn a ganmolir fel un deilwng o efelychiad. Dyfalu, neu dybio amgylchiad a wnaei Crist yma, er gwasanaethu mewn ffordd o eglurhad ar yr egwyddor hon sef dyngarwch, yn wyneb yr amgylchiad hwnw; a golygai y ddameg i wasanaethu neu weinyddu addysg ar y mater hwnw yn unig; ac nid oedd yn meddwl am arwain y cyfreithiwr na neb arall o'i wrandawyr, nac o ddarllenwyr yr ysgrythyrau chwaith, at Adda a'i ysprydion

drwg, &c. drwy y ddameg hon—gellid yn ddiâu dynu rhai addysgiadau ereill oddiwrthi heb wneyd trais a hi, a gallem dybio bod yr Arglwydd Iesu am awgrymu i ni y gall y rhai uchaf eu swydd yn yr eglwys, a'r rhai y dysgwylid mwyaf o rinweddau crefyddol oddiwrthynt, brofi eu hunain a mawr siomedigaeth i'r rhai a'i hadwaenant yn hollol amddifaid o egwyddorion y grefydd a gymerasant arnynt ei dysgu i ereill; ac y gall yr un amgylchiad fod yn foddion i ddwyn i'r goleu egwyddorion a theimladau rhinweddol rhyw berson neu bersonau, nad oedd, fe allai, neb erioed wedi dysgwyl y cyffelyb oddiwrthynt: ond nid oes genym awdurdod i osod yr addysgiadau hyn i lawr fel gwir a phriodol amcan ac ystyr y ddameg, ond fel casgliadau oddiwrth y dull pennodol y mae yr egwyddor a ddynodwyd yn cael ei gosod allan ynddi.

Sylwer yn mhellach, bod naill ai yr achlysur a grybwylla yr hanes wrth ddwyn y ddameg i mewn, neu ynte y cymhwysiad a wnai Crist o honi ar ei diwedd, neu ryw awgrymiad a roddai ynddi, i wasanaethu fel agoriad i ni fyned i mewn i'w hystyr a'i hamcan penaf. Amlygai mai ei brif amcan yn nameg y deng morwyn ydoedd cymell y ddyledswydd o wyliaðwriaeth, drwy y byr gymhwysiad a wnai o honi ar ei diwedd, ' Gwiliwch gan hyny, gan na wyddoch na'r dydd na'r awr y daw Mab y dyn.'

Wrth fyfyrion bob dameg, a phob rhan arall o'r gwirionedd yn gystal, rhaid i ni gofio mai am y gwir feddwl y dylem chwilio meddwl Duw, ac nid myfyrion pa beth a ellid ei feddwl a'i dychmygu oddiwrthynt. Gellid meddwl a dychmygu unrhyw beth, neu bob peth, yn mron, fel y dangoswyd eisoes, ond pa les a wna pentwr o ddychmygion? o'r ddau, gwell yw yr hon nad oes ganddo un meddwl ar y Bibl na'r hwn sy'n ymlwytho a gau syniadau am dano. Gwir feddwl y Bibl ei hun a wna wir les i'n meddyliau ni. Y mae yn anhosibl i ni beidio gwneuthur cam a niwed i'n heneidiau ein hunain, os gwnawn gam a'r ysgrythyrau, dywed Pedr fod ' yr annysgedig a'r anwastad yn gwyrddroi yr ysgrythyrau i'w dinistr eu hunain.' Y mae adnabyddiaeth o wir feddwl yr ysgrythyr yn wir wybodaeth, tra nad yw pentwr o gam-ddeongliadau ond ' gwrthwyneb wybodaeth a gamenwir felly,' ac ni all gwyrddroi dim fod mor beryglus a niweidiol a gwyrddroi yr ysgrythyrau, a

chasglu dychmygion oddiwrth y llyfr ag sydd wedi ei fwriadu i fwrw i lawr;’ dim yn fwy anweddaidd a sarhaus na cheisio gan air Duw lefaru yr hyn nad yw yn ei feddwl. Nid yw camgymeryd a cham-esponio deddfau ac egwyddorion natur ond o fychan bwys, mewn cydmariaeth i dychmygu a cham-egluro y Gair sanctaidd. Y mae yn sicr mai yn ngoleuni gwybodaeth gywir o ddeddfau anian y gwelir doethineb, prydferthwch; a gogoniant gwaith y Creawdwr oreu: felly hefyd y gwelir gwerth a gogoniant yr ysgrythyrau. Y mae gwir wybodaeth o’r blaenaf yn peri dylanwad er gwellau a diwygio y celfyddydau, tra y mae cynydd gwir wybodaeth o egwyddorion y Bibl yn effeithio er gwellau a diwygio moesau; y naill yn fanteisiol mewn ystyr dymhorol yn unig, ond i’r graddau y mae yn is-wasanaethgar i’r llall, yr hon sy’n fanteisiol mewn ystyr dymhorol ac ysprydol hefyd. Y mae gwybod egwyddorion anian yn abl i wneyd dyn yn ddoeth i’r byd hwn; tra y mae ‘gwybod yr ysgrythyr lân yn abl i’w wneuthur yn ddoeth i iachawdwriaeth.’

Dylem gofio yn wastad, wrth ymarfer a’r Bibl a cheisio ei ddeall, ein bod i ddefnyddio ein rheswm, synwyr cyffredin, ac nid ymollwng dan dywysiad dychymygion. Nid oes ynddo un egwyddor, tystiolaeth, neu ddatguddiad, gallwn fod yn sicr, ag y sydd yn groes i wir reswm a synwyr: er ei fod yn bwrw dychmygion y galon ddynol i lawr, nid yw yn bwrw rheswm dynol i lawr. Y dyn ei hun ydyw awdwr dychmygion, ond Duw, awdwr y llyfr sanctaidd, ydyw awdwr deall a rheswm dyn: gan hyny, sicr ydyw nad oes dim yn y naill yn groes i’r llall; ond bod y naill yn gyfaddas i’r llall. Er fod yr ysgrythyrau yn cynnwys datguddiad uwchlaw rheswm, *h. y.* pethau na allasai rheswm a doethineb ddynol byth eu cael allan, doethineb nad adnabu neb o dywysogion na doethion y byd hwn eto, nid yw y pethau hyny mewn un modd yn groes i reswm. Y mae y dystiolaeth ddatguddiedig o honynt yn ei chanmol ei hun wrth bob cydwybod rheswm dynol. Gau hyny, y mae rheswm i’w ymarfer wrth chwilio yr ysgrythyrau, ac ni buasai mwy o gymhwysder mewn dyn i dderbyn datguddiad o feddwl Duw, nag sydd yn yr anifail, ond fel y mae wedi ei gynhyssaeddu a’r gallu hwn o reswm, i farnu, deall, a dirnad pethau y dystiolaeth, gallu achymhwysder ag y mae yr anifail yn amddifad o hono.

Gan hyny, drachefn, Y mae pob dëongliad o'r gair sanct-aid, a ymddangoso yn wyneb ffeithiau sicr ei fod yn wrthdrawiadol i reswm cyffredin yn gyfryw un ag y gellir yw ddi-berygl ei wrthod fel un anghywir a chyfeiliornus. 'Nid yw Duw awdwr anghydfod, ond trefn.' Sylwyd mewn lle arall o'r gwaith hwn, mai un o nodau dwyfoldeb y llyfr sanctaidd ydyw ei gysondeb a natur, lleferydd creadigaeth a rhagluniaeth Duw : a cheisiwyd dangos nad oes dim yn y datguddiad diweddaf, sef y Bibl, yn groes i'r cyntaf, sef tystiolaeth gweithredoedd yr un Duw ; eu bod yn cyd-dystiolaethu yr un peth, ac yn cadarnhau eu gilydd am bob peth, mor belled ag y mae y datguddiad cyntaf yn cyrhaeddyd, ond bod yr olaf yn myned yn mlaen gan ddwyn i'r golwga thystiolaethu am bethau newyddion na ddatguddiesid o'r blaen. Felly yr un modd gyda golwg ar yr achos dan sylw ; y mae holl waith Duw mewn perffaith gyd-gordiad a chysondeb a'u gilydd—dim yn ngair y dystiolaeth a ôfyna i mi ymwrthod a'm rheswm cyn y gallwyf ei dderbyn a'i gredu : ac os dëonglir rhyw ran o hono felly, os dangosir iddo ystyr ac arwyddoedd drwy haeriadau am ystyr wreiddiol y geiriau, neu ryw ddull arall o esponio, os, meddaf, y gelwir arnaf i blygu i, a derbyn unrhyw ddëongliad, ag y gwelwyf ei fod yn milwrio o angenrheidrwydd, yn erbyn synwyr cyffredin a phriodoldeb pethau, dywed fy rheswm a'm cydwybod wrthyf mai fy nyledswydd ydyw gwrthod y fath syniadau fel rhai anghywir, ac ymofyn am olygiadau ar air Duw, a fyddont yn rhesymol, ac heb filwrio yn erbyn un o'r elfenau hyny yn y galon ddynol ag y mae Duw yn awdwr o honynt. 'Dywedyd yr wyf fel wrth rai synwryol ; bernwch chwi beth yr wyf fi yn ei ddywedyd,'* medd Paul wrth y Corinthiaid, ac felly y gellir dywedyd am yr holl air.

Hyderaf fod yr hyn a ddywedwyd o'r blaen am yr angenrheidrwydd anhebgorol am arweiniad a dysgeidiaeth yr Yspryd glan, er cael syniad a dirnadaeth ysprydol a sancteiddiol o'r gwirionedd, yn ddigonol i atal pawb o'm darllenwyr i dybied yn y fan hon fy mod yn golygu fod rheswm, ynddo ei hun, yn ddigonol gyfarwyddwr i air y gwirionedd : yr unig beth yr

wyf yn dadleu drosto yma ydyw, fod gair y gwirionedd yn berffaith gyson a rheswm yn mhob peth, nad oes dim croes i reswm ynddo, nas gallaf ac na ddylwn dderbyn un dëongliad ar athrawiaeth, egwyddor, na gosodiad a gynwys y llyfr sanctaidd, ag y byddo fy rheswm yn ei wrthdaro. Rhaid i mi yn gyntaf oll gael fy argyioeddi o'i resymoldeb cyn y gallwyf gredu ei gywirdeb.

Crybwyllwn rai pethau fel enghreifftiau eglurhaol. Y mae yr ystyriaeth o'r hyn sydd briodol, cyfiawn, ac uniawn, yr hon sydd i raddau yn annilëadwy argraffedig ar lech pob cydwybod dyn, yn tystio mai anghyfiawnder a chreulondeb fyddai gofyn gan creadur wneuthur peth ag nad oes ganddo allu, cymhwysder, na moddion i'w gyflawni—ei fygwth a'i gospi am beidio a gwneyd yr hyn oedd amhosibl iddo. Yr ystyriaeth hon o angenrheidrwydd a gondemnia bob ymddygiad o'r fath yn mhob gweinyddiad o lywodraeth ddynol; a'r casgliad annocheladwy ydyw, nad yw y fath egwyddor yn perthyn i weinyddiad y llywodraeth ddwyfol: ni all un ddyfais mewn bodoliaeth ei chysoni a chyfiawnder a rheswm—a 'Pha beth? Ai anghyfiawn yw Duw, yr hwn sydd yn dwyn arnom ddi-gofaint? Na atto Duw! Canys wrth hyny, pa fodd y barna Duw y byd!' 'Oni wna Farnydd yr holl ddaear farn,' neu uniondeb? 'Nid yw yr Arglwydd yn gweled yn dda wneuthur cam a gwr yn ei fater.'

O ganlyniad, y mae y dëongliadau hyny a roddir ar yr ymadroddion a ddefnyddia yr Ysgrythyr i ddysgrifio cyflwr dyn, a'u gesyd allan fel yn hollol amddifad o'r galluoedd a'r cymwysderau angenrheidiol i gyflawni yr hyn a ofyna yr un Ysgrythyr fel dyledswyddau ganddo, yn rhwym o gael eu gwrthod genyf fel camolygiadau ar air y gwirionedd, ac yn fyngyru i ymofyn am ddeongliad arnynt a gyd-darawo a'r ystyriaeth o uniondeb, rhesymoldeb, a chyfiawnder pethau: ag a fyddo felly yn gyson a nodwedd Duw fel Barnydd cyfiawn a dïalydd anghyfiawnder. Cymerwyd golwg ar amryw o'r cyfryw ymadroddion yn flaenorol yn y bennod hon.

Drachefn, a llefaru fy nheimlad personol fy hun, ni all fy rheswm a'm cydwybod gymeradwyo fel deongliad cywir un a fyddo yn rhwymo cyflawniad unrhyw un o ymarferiadau crefydd mewn dull nad ydyw yn bosibl ei ddylyn yn mhob rhan

o'r ddaear ac ar bob tymor o'r flwyddyn fel eu gilydd—dull ag y byddo iechyd a bywyd y deiliaid yn cael eu peryglu mewn rhai amgylchiadau yn mhob gwlad ar unrhyw dymor o'r flwyddyn—ac hefyd, dull o gyflawniad ag y byddo y perygl lleiaf ynddo i unrhyw anweddeidd-dra cywilyddus ddygwydd, er cyffrôad ar nwydau, mantais i elynion crefydd ei gwaradwyddo a'i dirmygu, ac felly gynhyrchu effeithiau hollol wahanol i'r hyn yw amcan profsedig crefydd Crist. Datgana'i sylfaenydd Crist'nogaeth yn y modd mwyaf pennodol mai ei ewyllys ydoedd i'w grefydd ef gael ei thaenu drwy yr holl fyd, bod i'w hegwyddorion gael eu pregethu a'i hordeiniadau gael eu gweinyddu yn mhob cwr o'r ddaear : a gwyddai yr hwn a daenasai 'y gogledd ar y gwagle' yn dda am hinsawdd a sefyllfa preswylwyr y rhan hono o'r ddaear. Ai nid rhesymol gan hyny y casgliad, na ddarfu iddo arosod unrhyw faich ar warau ei ddysgyblion ar nas gallent ei ddwyn—nad oes un gosodiad a berthyn i'w grefydd wedi ei rwymo o ran dull ei gyflawniad ag na ellir rhoddi ufudd-dod iddo yn mhob cwr o'r byd? Yn mhellach, nid oedd yr un o osodiadau crefydd o dan yr hen oruchwyliaeth, yr hon oedd iau galed a baich trwm mewn cydmariaeth i'r newydd—nid oedd yr un o osodiadau hon, meddaf, yn peryglu bywyd nac iechyd ei deiliaid mewn un modd, nac ar un amgylchiad : ac nid priodol iawn fyddai galw goruchwyliaeth ac y byddai ymarferion yn perthynu iddi, ac yn cael eu rhwymo ganddi ar ei deiliaid ag y byddai iechyd llawer a bywydau amryw o honynt mewn perygl o fyned yn ebyrth iddynt—nid priodol iawn, meddaf, fyddai galw y gyfryw oruchwyliaeth a hono yn iau esmwyth, a 'baich ysgafn,' a hyny mewn golwg gyferbyniol i oruchwyliaeth arall, ag nad oedd yr un o'i defodau yn gosod neb o'i deiliaid yn y perygl yma.

Gan fod holl athrawiaethau ac egwyddorion Crist'nogaeth yn tueddu yn uniongyrchol at sancteidrwydd calon a buchedd, diau fod ei holl ymarferion allanol wedi eu bwriadu gan ei sylfaenydd i gael eu gweinyddu mewn dull ag na fyddai agored i gynhyrchu effeithiau cwbl wrthwyneb i ansawdd foesol y grefydd ei hun. Yr ydym, debygwn i, i gymeryd ein cyfarwyddo yn ffurfiad ein barn ar unrhyw achos dadleuol a berthyn i grefydd, ei hathrawiaethau a'i hordinhadau, gan

ystyriaeth bwylllog o briodoldeb a rhesymoldeb pethau, arweddiad (*bearing*) y naill olygiad a'r llall ar holl egwyddorion crefydd yn gyffredinol, ac amgylchiadau dynolryw yn mhob cwr o'r ddaear, ac ar gymhwysder y peth ynddo ei hun, &c. mae fwy na chan ystyr briodol y geiriau yn yr iaith wreiddiol, a ddefnyddir i osod allan y mater mewn dadl: a pha rai o'r cyfryw eiriau nad oes dadl di-ddiwedd yn nghylch eu priodol ystyr rhwng y dynion mwyaf eu dysg a'u manteision? Y mae y pethau a grybwyllwyd yn rhy bwysig i'w haberthu i ystyr briodol gair, hyd yn od pe na byddai un ddadl yn nghylch ystyr y gair hwnw; oblegid dywed oracl mawr ddysgeidiaeth Roegaidd yr oes hon, Dr. Winer, o Germany, yr 'arferir amryw eiriau Groeg gan ysgrifenywyr y Testament Newydd, gyda chyfeiriad uniongyrchol at y gyfundrefn Grist'nogol. Ystyrier yn benaf y geiriau *gweithredoedd ffydd, credu yn Nghrist, cyfiawnhau, etholedig, yr etholedigion, y saint* (am Grist'nogion), *apostol, efengyleiddio rhyw un, a chymhwysiad o'r gair Baptismo at fedydd.*' Dywed y gwr enwog uchod fod i'r geiriau hyn yn y Testament Newydd ystyrion newyddion a gwahanol i'r hyn a berthynai iddynt o'r blaen, a rhaid oedd i'r ysgrifenywyr sanctaidd naill ai bathu geiriau newyddion, neu roddi ystyrion newyddion i hen eiriau, i osod allan egwyddorion a phethau crefydd newydd i'r byd. Sicr iddynt gael eu dysgu i ddewis y dull symlaf.

Ymdrechwch, gan hyny, fy narllenwyr ieuaingc, i gyraedd golygiadau rhesymol ar egwyddorion crefydd y gwirionedd, heb ymfoddloni ar ddychymygion a mympwyau. Defnyddiwch eich rheswm a'ch synwyr bob amser uwch ben y Bibl, gan ymfyn, nid pa ystyr a ellid roddi i'r rhan hon ac arall o'r gair sanctaidd, ond beth ydyw gwir feddwl yr Yspryd ynddynt.

Cofiwch fod y Bibl i gyd, fel y crybwyllwyd o'r blaen, yn rhesymol, 'mai rhesymol wasanaeth' ydyw yr holl gyfiawniadau a'r dyledswyddau a ofyna—mai po goreu y dealloch y Bibl, mai mwyaf a welwch o gysondeb a rhesymoldeb ei eg-

* Gwel "Bedyddiwr"—rhif. 2. tu dal. 41.

wyddorion ; a pho fwyaf o reswm a fydd genych i'w roddi dros y gobaith sydd ynoch, goreu oll. Ni ddeil dychymygi-
ion, mympwyau, tymherau, sêl heb wybodaeth, &c. yn wyneb
ymosodiad a phrawf ; gwnaed gelynyion crefydd ddatgudd-
iedig wawd o honoch, pe dygwyddai i chwi syrthio yn eu
ffordd, os na byddai genych arfau rheswm yn eich dwylaw.
Cofiwch y cyngor apostolaidd, ' Byddwch barod bob amser i
ateb i bob un a ofyno i chwi reswm am y gobaith sydd yn-
och gydag addfwynder ac ofn.'* Nid oes dim mor deilwng
i fod yn wrthrych gweithrediad ein synwyr, ein rheswm, a'n
holl alluoedd meddyliol uwch ei ben, er ei ddeall a'i ddirnad,
ag ydyw gair Duw : y mae yn cynwys elfenau doethineb ag
y mae y graddau uchelaf o fodau rhesymol yn sefyll mewn
gwastadol fyfyrdod uwch eu penau ; yn cynwys egwyddor-
ion a fyddant beth bynag yn brif, os nid yn unig destunau
myfyrdod y dyrfa gadwedigol yn oes oesoedd yn y byd a
ddaw. ' Oni ysgrifenisais i ti eiriau ardderchog o gyngor a
gwybodaeth,' medd y gwr doeth, ' i beri i ti adnabod sicr-
wydd geiriau gwirionedd ; fel y gallit ateb geiriau gwirion-
edd i'r neb a au fonant atat.'†

Wedi'r cyfan, dylem ystyried fod y datguddiad dwyfol yn
cynwys pethau ag ydynt yn gorwedd y tu hwnt i gyffiniau
rheswm a deall dynol ; ffeithiau yn cael eu tystio, nad oes
un rheswm wedi ei roddi pa fodd na pha ham y maent felly ;
ac na allwn, ac na ddylem chwaith chwilio nac ymofyn am y
rheswm o honynt ; nid yw yn perthyn i'n cyfrifoldeb eu
gwybod, yr ydym i ymostwng yn dawel i awdurdod y dyst-
iolaeth ddwyfol am danynt, gan fod yn gwbl sicr genym fod
gan Dduw ei resymau drostynt, ac nad yw yn perthyn i neb
ond iddo ef eu gwybod, onide buasai wedi eu datguddio, ac
y datguddia hwynt eto yn y byd arall, os bydd amgylchiadau
deiliaid ei lywodraeth yn y byd hwnw yn galw am hyny. Y
mae rhyw bethau fel hyn yn ei air a'i ragluniaeth na's
gwyddom ni yr awr hon, ond a gawn eu gwybod ar ol hyn—
rhyw bethau fel hyn a ddywedant wrth reswm a dirnadaeth
ddynol, megis, ' Lle yr wyf fi yn myned ni elli di yr awr hon
fy nghanlyn,' ' Hyd yma y deui ac nid yn mhellach.' Y mae

* 1 Pedr v. 15.

† Diar. xxii, 20, 21.

dirgelwch y 'pa fodd a'r pa ham' yn guddiedig yn Nuw, 'Yr hwn sydd yn gweithio pob peth wrth gyngor ei ewyllys ei hun.' Y mae y rheswm pa ham a pha fodd y dylem ni wneyd yr hyn oll y mae Duw yn ei orchymyn, yn ein cyrhaedd, a dylem fynu ei wybod : ond am y pethau ereill, yr ydym i gymeryd gair Duw am danynt a thewi.

Am y pethau hyn y canai Calfin,—

'Y pethau sy'n rhy ddwfn i'w canfod,
Ac na roddwyd in' eu gwybod,
Yn y rhai'n mae gwych ddysgeidiaeth,
Ddysgo i ni 'n hanwybodaeth :
Taer fanyl-gais hŷf am ddeall,
Math yw hwn o wallcof anghall.

A Grotius y llinellau canlynol,—

'Yr hwn i'w ddeall manwl a fyn y cyfan oll,
Ac nis gall foddlon addef fod yn ei ddoniau goll ;
Rhyw farnwr tra anfedrus, a gau fesurwr yw ;
O hono 'i hun a'i anian, can's y Goruchaf Dduw
A fyn i wael farwolion, a'u profiad bach a'u dawn,
Amgyffred ond ychydig, rhyfeddu llawer iawn.
Y rhai fo'n uwch am hedeg, inae eu camsynied ffol—
Yn arwain camsyniadau diffeithiach ar eu hol :
Can's hwnw na chyffeso fod dim na wŷr is nef,
A thwyll rhaid iddo borthi ei anwybodaeth gref ;
Mae'n hela rhwng cymylau ryw gysgod gwael ei lun ;
Yn poenus odinebu a'i dybiau gwyllt ei hun,
Bydd hwnw yn fwy tawel, fe gyfeiliorna lai,
Fo boddlon ar yr addysg berthynol i'r fath rai ;
Ac ni chais wybod hyny na roddwyd yn ei ran :
Mae bod heb ddeall weithiau yn ddeall nad yw wan.'

DOSP. V.

Y MAE yn angenrheidiol, yn mhellach, mewn trefn i ddeall yr Ysgrythyrau, i gael allan beth yw amcan neillduol pob llyfr. Y mae y gwirionedd datguddiedig yn yr hen Destament a'r newydd i'w ystyried fel cyfan-gorph cyd-gysyllt-

edig, wedi ei gyd-gorphori a'i gyd-grynhöi er ateb rhyw brif amcan mawr a oedd mewn golwg gan ddoethineb a gras dwyfol yn ei ffurfiad a'i roddiad i'r byd: tra ar yr un pryd. megis y corph, y mae iddo wahanol ac amrywiol aelodau, ac i bob aelod y perthyna ei swydd a'i gwaith priodol; er bod swydd a gwaith y naill aelod yn wahanol i swydd a gwaith y llall, y maent oll yn cyd-weithredu er gwasanaeth a buddioldeb y corph, a'r naill mor angenrheidiol a'r llall iddo: nid ydynt yn eiddigeddu wrth eu gilydd, ac ni all yr un ddywedyd wrth y llall, 'nid rhaid i mi wrthyt:' y maent oll yn rheidiol i'w gilydd, ac oll yn rheidiol i'r corph.

Felly y mae y Bibl yn gorph ac iddo aelodau lawer. Y mae pob llyfr yn aelod o'r corph hwn; ac y mae i bob aelod o gyfan-gorph y gwirionedd dwyfol ei swydd a'i ddyben pennodol: ac y maent oll fel aelodau y corph dynol yn cydwasanaethu eu gilydd: ac fel na ellir tori ymaith un o'r aelodau naturiol heb niweidio ac anurddo y corph, felly ni ellir tori na bwrw ymaith un o'r llyfrau canonaidd, heb niweidio a hacru cyfan-gorph y datguddiad dwyfol.

Y mae gan hyny i bob llyfr yn y gyfrol sanctaidd ei le, ei swydd, a'i amcan pennodol, a byddai yn fuddiol iawn i bob darlennydd a mysfrydd o'r Ysgrythyrau, i bob dosparth yn yr ysgolion Sabbothol, i gymeryd yn fater ymofyniad ac ymchwiliad, Pa beth yw dyben neullduol pob un? ac wedi unwaith gael gafael yn hwn, rhoddai oleuni a chyfarwyddyd iddynt i fyned yn mlaen i ddeall yr amrywiol ranau a'r cysylltiadau perthynol i bob aelod; neu, a dyosg y gydmariaeth, i ddeall yr hyn oll a draethir mewn unrhyw lyfr yn eu cysylltiad a'u perthynas a phrif amcan y cyfryw.

Er enghraifft, dosparthwn y Testament newydd yn bedair rhan, yr Efengylau, Actau yr Apostolion, yr Epistolau, a'r Datguddiad. Amcan yr Efengylau ydyw arddangos Sylfaenydd mawr Crist'nogaeth yn ei ddyfodiad i'r byd, ei fuchedd, a'i athrawiaeth yn y byd, a'i farwolaeth iawnol dros y byd, yn nghyd a'i adgyfodiad o feirw a'i ymadawiad a'r byd yn ei esgyniad gogoneddus i'r nef, 'fel y cyflawnai bob peth.' Amcan llyfr yr Actau ydyw dangos Crist'nogaeth yn ei gwaith—ei heffeithiau grymus ar y byd, er ei oleuo, ei ddychwelyd, a'i buro; ac wrth wneyd hyn, arddengys nodwedd, yspryd,

llafur, a threfniadau y briodferch, sef yr eglwys, megis y gosodasai yr efengylau allan o'r blaen, yr eiddo y priod-fab, sef Crist. Amcan yr Epistolau drachefn, ydoedd adeiladu yr eglwysi a alwesid o'r byd, drwy bregethiad yr apostolion, mewn gwybodaeth iachusol o bur athrawiaethau'r efengyl, a phob llythyr yn trin y gangen neillduol hono o'r athrawiaeth ag y byddai amgylchiadau pennodol yr eglwys yr ysgrifened ef ati yn gofyn, a chymhell arni y dyledswyddau hyny a fyddent yn fwyaf angenrheidiol yn ol ei nodwedd a'i sefyllfa, a'r cynghorion, a'r ceryddon, a'r cyfarwyddiadau neillduol y byddai galwad yn y naill a'r llall am danynt; ac i fod felly gyda'u gilydd yn gorph cyflawn o dduwinyddiaeth athrawiaethol ac ymarferol i'r eglwys hyd ddiwedd amser.

Amcan y Datguddiad drachefn, ydoedd, 'i hyspysu i'w wasanaethwyr y pethau sydd raid iddynt ddyfod i ben ar fyrder:' rhoddi awgrymiadau i'r eglwys am amser dyfodol, y tywydd ystormus, y profedigaethau a'r cystuddiau, y nghyd a'r llwyddiant a'r cysuron y mae i ddisgwyl am danynt yn ngwahanol dymhorau amser.

Dau o'r dosparthiadau uchod, ni chynwysant ond un llyfr bob un; a'r ddau arall a gynwysant amryw lyfrau, o dan ddwyllaw amryw ysgrifenydd. Y pedwar efengylwr a ysgrifened hanes yr un gwrthrych, crybwylla bob un y pethau neillduol hyny a darawsent ei sylw ef, ac yn y dull a'r modd ag yr oeddynt wedi ymddangos iddo, ac wedi ei ddeall ganddo; ac felly, o angenrheidrwydd, crybwylla y naill yn fynych yr un pethau a'r llall, a phob un ychydig yn wahanol i'w gilydd yn y geirwedd iad a'r dull o osod y peth allau. Y mae yn debyg na adroddodd dau hanesydd erioed, pan yn cofnodi yr un hanes, unrhyw amgylchiad yu yr un geiriau a dull; y mae y ddau yn haneswyr ffyddlon, cywir, a gonest, hanesiaeth y ddau yn wirionedd, ond pob un yn dywedyd y gwirionedd yn ei ddull ei hun, ac yn ei gwisgo yn ol ei ddawn, ac a'r geiriau dewisedig ganddo ei hun.

Rhydd hyn, fe allai, gyfrif am yr ychydig wahaniaeth sy rhwng y naill efengylwr a'r llall pan yn cofnodi yr un amgylchiadau. Nid yw y gwahaniaeth hwn a welir rhyngddynt a'u gilydd yn milwrio dim yn erbyn y ffaith o'u bod yu ys-

grifenu dan ysprydoliaeth ddwyfol anffaeledig. Y mae yn eithaf amlwg, yn nrych ysgrifeniadau yr hen Destament a'r newydd, bod yr Yspryd Glan yn gadael i bob un o'r ysgrifenywyr sanctaidd i osod allan ei feddwl a'i egwyddorion ef, sef yr Yspryd, yn ei iaith, yn ol ei ddawn, ac yn ei briodddull ei hunan, sef yr ysgrifenydd. Yr hyn a wnai yr Yspryd ydoedd rhoddi y meddwl a'r mater, i gael ei wisgo a'i osod allan yn ngeiriau a dull yr ysgrifenydd: ac felly y mae cymaint o wabaniaeth rhwng priod-ddull yr ysgrifenywyr sanctaidd a'u gilydd, er eu bod oll dan arweiniad ac ysprydoliaeth yr un Yspryd, ac sydd rhwng priod-ddull unrhyw ysgrifenyddion cyffredin a'u gilydd. Yr oedd gan yr ysgrifenywyr ysprydoledig eu ffordd eu hunain o osod eu meddyliau allan, yn gystal ag ysgrifenywyr ereill, gan bob un ei chwaeth naturiol a phriodol ei hun, a gadawodd ysprydoliaeth ddwyfol ei lawn ryddid i chwaeth a phriod-ddull pob ysgrifenydd, i osod i lawr y gwirioneddau datguddiedig iddynt yn ffordd a dull naturiol pob un o feddwl, ac o draethu ei feddwl; a diau bod y llyfr sanctaidd o herwydd hyn yn gymhwysach i gyfleu gwirionedd at sylw cydwybod, deall, a chalon pob math ar ddyn, na phe buasai oll wedi ei ysgrifenu yn hollol yn yr un dull, ac yn unffurf o ran ei gyfansoddiad.

Y mae pob un o'r efengylwyr hefyd yn crybwyll rha'i pethau na chrybwylla y llall am danynt: cofnoda pob un y pethau hyny a darawsent ei sylw a'i ystyriaeth ei hun yn benaf; ac nid oeddynt oll wedi cael yr un manteision i weled a chlywed a'u gilydd, 'a'r hyn a welsent ac a glywsent' oeddynt yn fynegi. Ysgrifennai Ioan ei efengyl ar ol y tri arall; a chan ei fod yn ddiau wedi eu gweled, cyn ysgrifenu ei hun, gallesid disgwyl y buasai yn amrywio mwy oddiwrthyt nag ydynt hwy oddiwrth eu gilydd; ac felly y mae: dygir yn ei efengyl ef lawer o bethau newyddion yn mywyd ac athrawiaeth yr Arglwydd Iesu i'r golwg, nad oeddynt wedi eu crybwyll gan y tri arall. Fel hyn y mae y pedwar gyda'u gilydd yn gwneyd i fynu un dystiolaeth gyflawn a chryno am fywyd a marwolaeth Prynwr mawr y byd; a byddai yn orchwyl difyrus a buddfawr i ddarllenyddion y Bibli gydmaru

y pedwar efengylwr a'u gilydd, sylwi ar ddull pob un, ac ymofyn am weled a gwybod eu cysondeb a'u gilydd.

Dïau fod llawer wedi darllen yr efengylau lawer gwaith drosodd mor ddi-feddwl a di-ystyr, fel nad ydynt erioed wedi sylwi bod anghysonderau ymddangosiadol rhwng y naill a'r llall weithiau yn y dull y cofnodant yr un amgylchiadau : ac ereill yn eu darllen i'r dyben i chwilio am anghysonderau er mwyn cael mantais a dadl yn erbyn dwyfol ysprydoliaeth yr ysgrifenywyr a'r grefydd Grist'nogol ; ac felly nid yw y naill na'r llall yn darllen er mwyn cael allan y gwirionedd : nid ydynt, ac nid allant ddeall yr hyn y maent yn ddarllen : nid ydynt yn cael, ac nid allant gael unrhyw fudd oddiwrth y fath ddarlleniad. Y mae y naill yn darllen yn anystyriol, a'r llall yn darllen yn faleisus. Y mae yr Ysgolion Sabbothol wedi bod yn offerynol i raddau helaeth, i gael y cyffredin yn y wlad i ddarllen yr Ysgrythyrau, y peth sy eisiau eto, ydyw cael y darlennyddion i feddwl a sylwi ar yr hyn y maent yn ddarllen, fel y deallont feddwl ysprydoliaeth y gair fel ag y maent yn adnabod y geiriau sydd yn eu gosod allan.

Drachefn, gyda golwg ar yr epistolau, y mae yn angenrheidiol, mewn trefn i ddeall beth ydyw prif amcan a chyfeirnod pob un, i chwilio allan beth oedd amgylchiadau a nodwedd yr eglwys yr ysgrifenedid ati ? Pwy oeddynt y personau a gyfansoddent y gymdeithas ? Ai Iuddewon ai Cenhedloedd—ai ynte cymysg o Iuddewon a Chenhedloedd ? Beth ydoedd amgylchiadau y gyfryw eglwys ar y pryd ? A oedd rhyw fater neu faterion yn destunau dadl yn eu plith, ac os oedd, pa rai oeddynt ? &c. Y mae y pethau hyn oll i'w casglu oddiwrth gorph y llythyr a gymerir dan sylw, ac wedi y gwneled hyn, y mae yn lled hawdd dyfod i'r penderfyniad, pa beth ydyw prif fater ac amcan yr epistol.

Cymerwn y llythyr at y Rhufeiniaid fel enghraifft. Cyfansoddid yr eglwys hono, nid o Rufeinywyr yn ystyr wladwriaethol yr ymadrodd, ond o rai a breswylent yn y ddinas hono, Iuddewon a Chenhedloedd : ei haelodau, gan hyny, oeddynt ddychweledigion ieuainc oddiwrth Iuddewaeth a Phaganiaeth ; ac yr oedd cryn lawer o nawsgenhedlaethol,

a rhagfarnau, a thraddodiadau eu crefyddau gynt yn nglyn a'r naill a'r llall; er eu bod wedi cyfnewid o ran eu cyflwr a'u cydgyfansoddi yu un dyn newydd yu Nghrist. Felly, oddiar gweddillion Iuddewaeth yn aros yn un, a gweddillion paganiaeth yn y llall, sef yr Iuddewon a'r Cenedloedd, yr oedd yn naturiol i ddysgwyl y buasai gradd o anghydweddiad a dadleuaeth yn cyfodi mewn cymdeithas gyfansoddedig o'r fath ddefnyddiau. Yr oedd yr Iuddew yn dueddol i ddiystyru y Groegwr ar gyfrif ei ragoriaeth ei hun fel hâd Abraham, a deiliad y cyfammodau, y ddeddf, a'r addewidion; yr hyn drachefn a barai i'r Groegwr eiddgeddu a chenfigenuwrth yr Iuddew. Amcan pennodol yr epistol, gan hyny, ydoedd difa gweddillion yr elfenau drygionus hyn yn mynwesau y ddwyblaidd, a dwyn yn mlaen i aeddfedrwydd a pherffeithrwydd yr undeb ag oedd wedi dechreu cael ei ffurfio rhyngddynt. Gwna hyn drwy ddangos fod yr Iuddew a'r Groegwr yr un yn hollol o ran eu cyflwr. ysprydol rhyngddynt & Duw; y ddau dan bechod, a'r ddau yn anobeithiol fel eu gilydd o'u rhan hwy eu hunain: er fod 'llawer o ragoriaeth i'r Iuddew,' a 'llawer o fudd o'r enwaediad,' o ran rhagorfreintiau, nad oedd dim rhagoriaeth yn sefyllfa y cyflwr ger bron Duw—bod cyfiawnhad trwy weithredoedd deddf mor anghyrhaeddadwy i'r Iuddew ag i'r cenedl-ddyn, a bod y cyfiawnder a ddatguddia'r efengyl yn cael ei gynnyg a'i gymbell i'r naill yn gystal ag i'r llall—bod pob gwahaniaeth rhyngddynt yn awr wedi ei ddileu—bod y cyfiawnder sydd drwy fwydd Crist yn rhad i ac ar bawb a gredant, canys nid oes gwahaniaeth—bod 'yr un Arglwydd ar bawb yu oludog i bawbar sydd yn galw arno.' Dengys fod yr efengyl a'r grefydd ag yr oeddynt yn awr yn gredu ac yn broffesu yn myned dan wraidd ac yn cymeryd ymaith bob gwahaniaeth a fuasai rhyngddynt gynt, a'u bod yn cydgyfarfod yn un corph, yn hollol gydwestad a'u gilydd. Er cyfiawni yr amcan hwn, eglura yr athrawiaethau mawrion o hollol lygredigaeth dynolryw drwy bechod, a chyfiawnhad rhad drwy aberth ac iawn Crist: cyfyd ac etyb wrthddadleuon yr Iuddew a'r Groegwr, a chymhella arnynt y ddyledswydd o gyd-ddwyn a chydoddef a'u gilydd.

Wrth yr un rölol yr ydym i gael allan a deall beth yw prif amcan pob epistol arall.

Er deall meddwl rhyw gyfran neillduol o unrhyw epistol, rhaid yw edrych arno yn ei gysylltiad a choroph y llythyr, ac fel y mae yn gwasanaethu er ateb y prif amcan ynddo. Rhaid cymeryd pob adnod yn ei chysylltiad a'r cyd-destynau dechreu yn mhen llinyn yr ymresymiad, a'i ddilyn yn ofalus i'r pen arall; ac felly gwelir yn hawdd ystyr y naill yn ei pherthynas a'r lleill, pan y gall fod yn anmhosibl canfod ei gwir ystyr ac edrych arni ar ei phen ei hun.

Pan gyfarfyddir ag ymadrodd neu air a fyddo yn ymddangos yn dywyll, rhaid defnyddio yr un reol eto; chwilio i'r cysylltiadau, ymdrech i ddeall y mater a fyddo yn cael ei drin: rhydd hyn oleuni ar ystyr yr ymadrodd tywyll. Os methir cael boddlonrwydd felly, rhaid edrych beth yw ystyr yr un ymadrodd mewn manau ereill o'r Bibl, ac yn neillduol yn mha ystyr y defnyddir y gair mewn manau ereill gan yr un ysgrifenydd yn gyffredinol, ac yn neillduol yn y llythyr a fyddo dan sylw. Gall fod yr ystyr y byddo'r awdwr yn defnyddio gair yn eglurach ac yn haws ei ganfod yn y naill fan na'r llall, oddiwrth y cysylltiad y byddo ynddo.

Yn awr, gadawaf y bräs grybwylliadau di-addurn blaenorol i sylw ac ystyriaeth y darllenwyr. Hyderaf y gallant fod yn fuddiol i ryw raddau fel cyfarwyddyd i ymfynwyr ieuainc am wybodaeth a dealltwriaeth o'r gair sanctaidd: ac od oes tuedd ynddynt at hyny, cymeraf yn ganiataol ei fod yn iawn am lawer o ddiffygion ac amherffeithrwydd a ddychon darlennydd cyfarwydd a deallus eu gweled ynddynt. Hyderaf nad oes ynddynt ddim o duedd niweidiol, i gam-arwain yr anghyfarwydd, a'i yru ar gyfeiliorn oddiar lwybr dealltwriaeth.

Gallwn gasglu oddiwrth yr holl ystyriaethau blaenorol yn nghyd, bod llafur ac ymdrech mawr, diwydrwydd, gosfal, a dyfal barhad diffino yn angenrheidiol er cyrhaedd gradd helaeth a da o wybodaeth ysgrythyrol. Y mae y ddoethineb hon yn rhy uchel i'r döfial, yr esgeulus, a'r döiog, i gael gafael arni. Y mae yn angenrheidiol rhoddi holl alluoedd y meddwl ar waith, a'u cadw yn wastad ar waith mewn trefn i'w

chyrhaeddyd a chynhyddu ynddi. Y mae trysorau gwerthfawrocaf y ddaear yn anhaws eu cael na'i phethau cyffredin; ni cheir ei glô, ei hefydd, ei harian, ei haur, a'i pherlau, mor hawdd ag y ceir ei cherig, a'i chlai. Rhaid cloddio i mewn iddi, tori drwy ei chreigiau, i gael gafael yn y mwn a'r trysorau gwerthfawr. Cydmara y gwr doeth ymofyniad am wybodaeth i lafur y mwnwr yn ymofyn am drysorau cuddiedig y ddaear; a rhydd hanes am y llafur blin a gymerasai efe ei hun yn ei ymchwiliad am dani: ond elai yn mlaen yn ei lafur dan ddylanwad yr ystyriaeth, 'bod yr enaid heb wybodaeth nid yw dda,' bod gwybodaeth yn werth cyssegru amser, a chymeryd trafferth ynyr ymofyniad am dani. Y mae ymadroddion Jesus mab Sirach, yn hynod o ddestlus a chymwysiadolar y mater hwn; 'A myfi eto yn ieuanc cyn fy mhwylllo, mi a ofynais ddoethineb yn eglur yn fy ngweddi. O flaen y deml y gweddiâis i am dani hi, ac hyd y diwedd y ceisiaf hi. Ië, o'r blodeuyn, nes aeddfedu'r grawnwin, yr ymhyfyrododd fy nghalon ynddi, fy nhroed a rodiodd yn uniawn; mi a'i holrheiniais hi o'm hieuenctid. Mi a ostyngais ychydig ar fy nghlust, ac a'i derbyniais hi, ac a gefais lawer o ddysg. Mi a eulhum rhagof ynddi hi; am hyny, i'r hwn a roddes i mi ddoethineb y rhoddaffi ogoniant. Oblegid mi a roddais fy mryd ar wneuthur ar ei hol hi, a dylyn daioni; ac felly ni'm gwaradwyddir. Fy enaid a ymdrechodd a hi, ac mi a fum ddiwyd yn fy ngweithred-oedd. Mi a estynais fy nwyllaw tua'r nef i fynu, ac a ddeallais beth oedd fod heb ei hadnabod hi. Mi a gyfarwyddais fy enaid ati hi, ac a'i cefais hi mewn puredd: cefais fy nghalon wedi ei chysylltu a hi o'r dechreuad; am hyny ni'm gwrthodir. Fy nghalon a gafodd helbul yn ei cheisio hi: am hyny mi a gefais gyfoeth da. Yr Arglwydd a roddes dafod yn wobr i mi, a mi a'i moliannaf ef a hwnw. Nesewch ataf fi, o annysgedig, ac arhoswch yn nhy athrawiaeth. Pa ham yr ydych chiwi yn oedi? neu beth a ddywedwch chiwi am hyn, gaa fod ar eich eneidiau chiwi syched mor ddirfawr? Mi a agorais fy ngenau, ac a leferais, Prynwch hi i chiwi heb arian. Gostyngwch eich gyddfau tan yr iau, a derbynied eich enaid athrawiaeth; hawdd yw ei chael hi. Gwelwch

a'ch llygaid gymeryd o honof fi boen, a chael o honof im' fy hun esmwythdra mawr. Mynwch gyfrau o addysg am nifer mawr o arian, a chwi a feddiennwch aur lawer drwyddi hi. Gwnewch eich gwaith mewn pryd, ac efe a rydd i chwi eich gwobr yn ei amser.”*

Y mae yr hyn a fu dan ein hystyriaeth hefyd yn ein dysgu bod mor angenrheidiol i ni wrth reol a threfn, ag ydyw i ni wrth lafur ac ymdrech, er cynhyddu ein gwybodaeth. Dechreu y gwaith yn y pen, a myned yn mlaen gydag ef wrth ac yn ol egwyddorion trefn reolaidd. Gall dyn ymosod a'i holl egni ar orchwyl, a dal ato gyda dyfalwch a llafur mawr, os na bydd yn deall ei waith, yn gweithio wrth reolau y gelfyddyd, gall ei holl lafur fod yn waeth na di-lês. Y mae yn bosibl darllen a chwilio yr Ysgrythyrau gydag ymroddiad a dyfalwch mawr, ymboeni ac ymdrech llawer i geisio eu deall, a bod yr holl lafur yn waeth nag ofer, o ddiffyg cymeryd yr egwyddoriôn priodol yn gyfarwyddyd yn y gorchwyl. Gallai dyn anllythyrenog gymeryd llyfr, a dymuno bod yn alluog i'w ddarllen, a threulio llawer o amser uwch ei ben, gyda dyfalwch mawr, i geisio gwneyd allau ei gynwysiad, ond ni byddai byth ddim nes; ni ddaw byth yn alluog i ddarllen yn y dull yma, rhaid iddo ddysgu yn ol rheolau y gelfyddyd, dechreu gyda'r llythyrenau yn yr egwyddor, a dyfod yn mlaen i sillebu, &c., mewn trefn i ddyfod yn ddarllenydd: a rhaid i'r meddwl yr un modd, yn ei ymchwil am wybodaeth, fod dan ddysgyblaeth rheol ac egwyddorion priodol, cyn y gall fyth symud cam yn mlaen ynddi. Go-beithiaf y bydd i ddarllenwyr y traethawd hwn sylwi yn fanwl ar y cynghorion hyn a gyflwynir yn ostyngedig i'w sylw, yn eu holl ymchwiliadau am ddoethineb, ac y byddant drwy hyn yn feddiannol ar y trysor hwn sydd yn fwy ei werth nag aur coeth lawer.

Wrth derfynu y mater hwn, Dymunwn drwy y cyfarwyddiadau blaenorol i estyn y Bibl i ddwyllaw fy narllenyddion ieuainc, fel y byddo iddynt ei chwilio, ei ddar-

lleu, a'i fyfyrig, gyda mwy o awyddfryd ac egni am ei wybod a'i ddeall. Ac os cenhedla fwy o barch i'r Ysgrythyrau sanctaidd yn eu meddyliau—mwy o syched am adnabod y meddwl dwyfol ynddynt—ac os cânt ryw radd o gymhorth oddiwrth yr hyn a gynhygiwyd i'w hystyriaeth yn y tu-dalenau hyn, i fyned i mewn i drysorau y gair datguddiedig, bydd llafur ysgrifenydd a darllenydd y llyfr yn ateb dyben teilwng o amser y naill a'r llall.

PENNOD XII.

HANES Y BIBL.

Nid annifyrus nac anfuddiol i'r darllenydd anghyfarwydd fyddai byr grynhodeb o hanes y llyfr yr ymdrechwyd profi ei ddwyfol-darddiad—y ceisiwyd gosod allan ogoniant ac ardderchawgrwydd ei dystiolaethau a'i egwyddorion, ac y cynhygiwyd rheolau a chyfarwyddiadau i ddeall ei gynhwysiad, yn rhanau blaenorol y traethawd hwn. Iê, pa hanes a ddychon gyd-raddu o ran y parch a deilynga, a hanes y llyfr sydd yn cynwys meddyliau a bwriadau calon y Duwdod, yr hwn a 'fawrhaodd efe ei hun uwchlaw ei enw oll'—yr hwn a fynega ei nodwedd, a'i brif weithredoedd, ac a ddengys wir gyflwr a sefyllfa dyn, ac a ddwg 'fywyd ac anllygredigaeth i oleuni' ger ei fron. Llyfr a fu yn wrthrych cymaint o sylw, ymchwiliad, a dadl, yn ngwahanol oesau y byd; un ag y mae y dynion goreu o ran eu cymeriad moesol, dyfnaf eu dysg a'u gwybodaeth yn y gwahanol oesau a'r gwledydd, wedi ei barchu a'i fawrhau uwchlaw pob llyfr arall, tra y byddai dynion penrhydd a halogedig eu bucheddau yn ei gasau a'i ddirmygu, ac yn gwneuthur eu goreu, er yn aneffeithiol, i'w gael allan o'r byd. Llyfr a wrthsafodd ymosodiadau creulon myrdd o elynion cyfrwys, maleisus, medrus, dysgedig, a doniol, heb brofi unrhyw niwed; ond a ddaeth allan o bob ffwrn danllyd boeth y tafwyd ef iddi, fel aur. Gwywodd y gwellt a godasant i geisio ei dagu, ond efe, 'gair ein Duw ni, a safodd ac a saif byth.' Llyfr ag sydd yn cynhyrchu y fath effeithiau mawrion a rhyfeddol ar gyflwr gwladwriaethol, cymdeithasol, a moesol y byd; ag y mae y fath barotôadau mawrion yn awr ar droed i'w gyfieithu, ei argraffu, a'i anfon

at bob llwyth ac iaith a chenedl o ddynion ar wyneb yr holl ddaear—un ag sydd i lenwi y byd a'i egwyddorion a'i ddy-lanwad—a fydd yn brawf-rëol penderfyniad cyflwr a sefyllfa dragwyddol y byd yn y dydd diweddaf—ac a estyn ei ddy-lanwad i oesau diddiwedd y byd a ddaw!

Ezra yr Offeiriad wedi y dychweliad o Babilon, dan gyfarwyddyd ysprydoliaeth ddwyfol yn ddiameu, a gasglodd yn nghyd lyfrau yr her Destament, ac a'u cyhoeddodd yn un llyfr yn y drefn ag y maent genym ni yn bresennol. Bernir ddarfod iddo ychwanegu rhai ymadroddion mewn rhai manau, er gwneuthur y synwyr yn eglurach. Yr oedd gofal yr Arglwydd am gadwraeth ei air i'w weled yn amlwg iawn yn amgylchiadau y caethiwed hwnw. Collodd yr Iuddewon lawer iawn o bethau y pryd hyny—collasant eu teml, a'r Shechina, a'r arch; ond gofalwyd am lyfr y gyfraith. Yn nghanol y dyrywiad, y llygredigaeth, a'r eulun-addoliaeth ag yr oedd y genedl yn gyffredinol wedi syrthio iddynt; ac yn nghanol y diuistr a fu arnynt, ar eu dinas, a'u teml, dyogelwyd y llyfr. Yr oedd gan ragluniaeth ddwyfol ryw offerynau wedi eu darparu i gymeryd gofal am dano; rhai ag oeddynt yn ei gadw, yn ei ddarllen, yn ei garu, ac yn ei wneuthur, pau oedd corph y genedl yn ddiystyr o hono. Wedi i Cyrus brenin Persia gyhoeddi rhyddid i'r genedl i ddychwelyd adref o wlad eu caethiwed, cyhoeddodd Ezra yntau ryddid i air y dystiolaeth ddwyfol, drwy gasglu y bobl yn nghyd i'w ddarllen yn eu clywedigaeth o'r boreu hyd yr hwyr; a *chopio* y llyfrau sanctaidd, a'u cyhoeddi yn gyfrol mewn dull gwahanol i'r hyn a fuasant o'r blaen. Dosparthodd Ezra y llyfr yn dair rhan. Y dosparth cyntaf a elwid y Gyfraith; yn cynwys pum llyfr Moses. Yr ail, y Prophwydi; yn cynwys Joshua, Ruth, Samuel, y Brenhinoedd, a'r Cronicleau, Ezra, Nehemiah, Esther, Job, Esay, Jeremiah, Ezeziel, Daniel, a'r deuddeg prophwydi lleiaf, fel eu gelwir. Y trydydd dosparth a elwid Yr ysgrifeniadau sanctaidd: yn cynwys y Salmau, y Diarhebion, y Pregethwr, a Chaniad Solomon. Defnyddiai Crist a'r apostolion y dosparthiad yma o'r hen Destament, 'Y Gyfraith, y Prophwydi, a'r Salmau.' Gwnaed peth cyfnewidiadau yn y dosparthiad cyntaf gan ryw un neu ryw rai o'r dysgawdwy'r Iuddewig. Y prophwydi yn ddau

ddosparth; y cyntaf yn cynwys Joshua, y Barnwyr, Samuel, a'r Brenhinoedd. A'r prophwydi olaf ydynt Esay, Jeremiah, Ezeziel, a'r deuddeg prophwydi lleiaf. A'r trydydd dosparth, 'Yr ysgrifeniadau sanctaidd,' yn cynwys y Salmau, y Diarhebion, Job, Pregethwr, Caniad Salomon, Ruth, Galarnad Jeremiah, Esther, Daniel, Ezra, Nehemiah, a'r Croniclau. Rhenid pum llyfr y Gyfraith, gan Ezra, fely tybir, yn bedair-arddeg-a-deugain o ddosparthiadau. Amcan y rhaniad hwn ydoedd, fel y darllenid un gyfran yn y gwasanaeth dwyfol bob Sabbath, ac y darllenid yr holl gyfraith drosti felly unwaith bob blwyddyn, yr hon, sef y flwyddyn Iuddewig hwyaf a gynwysai y nifer hyny o Sabbothau; a'r flwyddyn na chynwysai ond deuddeg-a-deugain o Sabbothau, hwy a unant ddau ddosparth yn nghyd i'w ddarllen ar y pryd.

Y dosparthiad o'r Bibl yn bennodau, fel y mae genym ni, sydd yn llawer diweddarach na'r llall. Priodola rhai y gwaith hwn i un Stephan Langton, archesgob Caergaint, yn nheyrnasiadau Ioan a Harry y trydydd: ond gwir awdwr y gwaith ydoedd mynach o urdd Dominic, a elwid Hugo de Sancto Caro, yr hwn a flodeuodd oddeutu *B. A.* 1240. Ysgrifennodd esboniad ar y Bibl, a lluniodd y Ddangoseg (*Concordance*) cyntaf. Gan mai amcan y gwaith hwn ydoedd rhoddi cyfarwyddyd eiddo rhwyddhau y gwaith o ddyfod o hyd i unrhyw gyfran neu ymadrodd o'r Ysgrhythyr, gwelodd yn angenrheidiol i ranu y llyfrau yn ddosparthiadau. Y dosparthiadau hyn ydynt y pennodau, fel y maent yn bresennol genym ni: ond ni wnaed adraniadau o'r pennodau i adnodau y pryd hyny. Yr adraniad hwn o adnodau, fel y mae ein Biblau ni yn bresennol, a gyflawnwyd gan Rabbi Iuddewig dysgedig, o'r enw Mordecai Nathan, yn 1445. Gwnaeth y ddau, Cardinal Hugo, a'r Rabbi Mordecai, wasanaeth gwerthfawr a defnyddiol i'r byd drwy eu llafur hwn. Benthyciai yr Iuddewon raniad y llyfrau sanctaidd yn bennodau gan y Crist'nogion, a benthyciai y Crist'nogion yr adraniad o'r pennodau yn adnodau, gan yr Iuddewon; ac y mae Iuddewon a Christ'nogion yn cyd-fwynhau y budd.

Cawn yn nesaf daflu golwg fer dros y llyfrau sanctaidd, yn ol trefn y dosparthiad cyntaf a grybwyllwyd—

Y dosparth cyntaf yw *Y Gyfraith*;—sef, llyfrau Moses, Genesis, Exodus, Leviticus, Numeri, a Deutoronomium.

1. *Genesis*: Cenhedliad, neu cenhedlaeth; am fod y llyfr hwn yn cynwys hanes cenhedlaethau y nefoedd a'r ddaear, &c. Ysgrifenydd ef gan Moses yn yr anialwch, fel y tybir, wedi bod o hono gyda Duw yn y mynydd, lle y bernir iddo dderbyn gorchymyn a chyfarwyddiadau i'w gyfansoddi. Mwy tebygol iddo dderbyn defnyddiau y llyfr drwy ddatguddiad gan Dduw, nag iddo eu casglu oll o'r traddodiadau a gawsent eu trosglwyddo am danynt o oes i oes o ddyddiau Adda hyd ei ddyddiau ef; neu, o leiaf, fod y pethau ag yr oedd y traddodiad am danynt yn ddiffygiol, neu wedi ei golli, yn cael eu gwneyd i fynu drwy ddatguddiad uniongyrch. Hwn yw y llyfr hynaf yn y byd. Cynwysa hanesyddiaeth dros 2369 o flynyddoedd; o ddechreuad y byd hyd farwol-aeth Joseph. Rhydd i ni olwg hanesyddol ar luaws o gyn-tesgion. Y dydd cyntaf—y dyn cyntaf, a'r wraig gyntaf—y drwg cyntaf, a'r addewid gyntaf—y llofrudd a'r merthyr cyntaf—y celfyddydwr cyntaf—y ganiad a'r brophwydol-iaeth gyntaf—ffurfiad yr eglwys gyntaf—y llong gyntaf, a'r rhyfel gyntaf, &c.

Y prif bethau yn hanesyddiaeth y llyfr hynod hwn ydynt, creadigaeth y byd, creadigaeth dyn, ei gwmp, a'i adferiad—llygredigaeth yr hen fyd a'i ddinystr trwy ddylif—gward-igaeth Noa, a'i deulu, a'r creaduriaid yn yr arch—ail bobliad y byd newydd—adeiladaeth Babel, cymysgiad yr ieith-oedd a gwasgariad dynolryw—galwad Abram, a'r cyfammod rhwng Duw ag ef a'i hâd—dinystr Sodom a Gomora drwy dân o'r nefoedd—helyntion tenlu Abraham hyd eu mynediad i'r Aiff, a marwolaeth Joseph. Y personau sydd yn llewyrchu yn hynod mewn rhinwedd a duwioldeb ynddo, ydynt Abel, Enoch, Noa, Melchisedec, Abraham, Isaac, Jacob, a Joseph. Y mae yn dangos y ddau hâd yn eu hyspryd a'u nodwedd priodol, fel ag yr oedd yr clyniaeth a gyhoeddwyd a fyddai—hyngddynt a'u gilydd yn tori allan yn barhaus, y blinder a gai hâd yr addewid oddiwrth blant y cnawd: trodd Cain yn erlidiwr yr eglwys yn nheulu Adda; Cham yn nheulu Noa; Ismael yn nheu'u Abraham; Esay yn nheulu Isaac, a brodyr Joseph yn nheulu Jacob. I symio y cwbl yn fyr, y mae

hanesyddiaeth y llyfr dan sylw yn myned yn mhell tu ol i hanesyddiaeth pob llyfr arall, yn cludo dygwyddiadau boreuaf amser i waered gyda'i dreigliad, gan beri iddynt ymddangos eto megis ger bron ein llygaid: yn cadw cofiadwriaeth o bethau mwyaf pwysig hanesyddiaeth yn fyw; y rhai, hebdo, a fuasant o angenrheidrwydd a'u cofiadwriaeth wedi ei chladdu mewn tragwyddol dywyllwch. 'O bell y cymer ei wybodaeth,' ac i wneuthurwr y bydoedd y rhydd gyfiawnder. Ceir ynddo mewn un ymadrodd yr addewid ag sydd yn cynwys sylwedd yr holl efengyl, yr holl Fibl, a'r holl wir bregethu a fu yn y byd erioed. Prophwydoliaeth, ag oedd yn edrych o oes foruol y byd drwy gaddug yr holl oesoedd dyllynol, ac yn canfod hyd oes a dydd diweddaf amser: rhydd esiamplau er egluro egwyddorion da a drwg, y rhai ydynt o hyny hyd yn bresennol i'w gweled yn gweithio eu hunain allan yn y byd. Yn annibynol ar yr ystyriaeth o'i ddwyfoldeb, y mae ei orhenafiaeth, a'r materion a gynwysa, yn galw am ein parchedigaeth fwyaf diffuant: cysyllter y pethau hyny a'i ddwyfol awdurdod, y mae ei werth a'i deilyngdod yn ymddangos yn fwy fyth.

2. *Exodus*—Mynediad allan. Ymadawiad neu fynediad yr Israeliaid allan o'r Aifft, ydyw un o brif benau yr hanesyddiaeth a gynwysa. Rhydd olwg ar amgylchiadau y genedl o amser marwolaeth Joseph, hyd gyfodiad i fynu y babell yn yr anialwch, o flwyddyn *O.B.* 2369, hyd *O.B.* 2514, sef, yn nghylch 145 o flynyddoedd.

Yn ei arweiniad i mewn i'r llyfr hwn, dywed yr enwog espouwr Mathew Henry, bod 'Moses, wedi iddo, yn y llyfr o'r blaen, grynhoi, cadw, a throsglwyddo i ni hanesiaeth yr eglwys tra y buasai yn hanfodi mewn teuluoedd neullduol, yn dyfod yn mlaen yn yr ail lyfr hwn, i roddi haes ei chynydd hyd nes y daeth yn genhedlaeth fawr; ac fel y mae y llyfr o'r blaen yn ein cynhysgaeddu a'r trefniadau teuluaidd goreu, bod y llyfr hwn yn gosod o'n blaenau y trefniadau gwladwriaethol rhagoraf. Y mae dechreuad y llyfr o'r blaen yn dangos y modd y flurfiodd Duw y byd iddo ei hun; a dechreuad y llyfr hwn yn dangos y modd y lluniodd efe Israel iddo ei hun; a'r ddau i 'fynegi ei foliant.' Yno gwelwn greadigaeth y byd mewn hanesiaeth, yma gwelwn brynedigaeth y

byd mewn cysgodau. Yr oedd ffurfiad Israel yn bobl neull-duol yn greadigaeth newydd. Megis ag y cyrchwyd y ddaear oddi tan y dyfroedd ar y cyntaf, ag y cafodd ei phrydferthu a'i llenwi wedi hyny; felly Israel yn gyntaf a ddygwyd allan o gaethiwed yr Aiffit gan fraich Hollalluogrwydd, ac yna a fendithiwyd a chyfraith a thabernacl Duw.

Rhydd y llyfr hwn i ni, yn gyntaf, Gyflawniad yr addewidion a wnaethid o'r blaen i Abraham, *pen. i.—xix.* Ac yna, yn ail, Sefydliad yr ordinhadau ag oeddynt i gael eu harfer-yd a'u cadw gan Israel, *pen. xx.* hyd xli.

Y mae mwy o gysgodau o Grist yn y llyfr hwn, fe allai, nag yn un arall o lyfrau yr hen Destament: oblegid am dano ef yr ysgrifennodd Moses, *Ioan v. 46.* Y mae llwybr dyn i heddwch Duw, i ddyfod i gyfamod a chymundeb ag ef drwy Gyfryngwr, yn cael ei osod allan yma mewn amrywiol ddulliau; ac y mae o help a defnydd mawr i ni, er eglurhad ar y Testament newydd, fel ag y mae y newydd yn gymhorth i ni ddeall yr hen.

3. *Lefticus*; a elwir felly, o herwydd mai yn nghylch swyddau a gwasanaeth y Lefiaid y mae yn traethu yn benaf. Yn niwedd y llyfr o'r blaen, cawn babell y gwasanaeth dwyfol wedi ei gosod i fynu; ac yn y llyfr hwn, natur a threfn y gwasanaeth ag oedd i gael ei ddwyn yn mlaen ynddi. Megis, y gwnaed y babell ei hun yn ol y portreiad a'r cyfarwyddyd dwyfol, felly yr oedd pob peth a wneid yn y babell i fod yn ol yr un cyfarwyddyd. Yr unig amgylchiadau y rhydd y llyfr hwn hanes am danynt, ydynt cyssegriad yr offeiriad i'w swydd; cospedigaeth Nadab ac Abihu, meibion Aaron, am offrymu tân dyeithr; a mab Shelomith am gabledd. Gellid galw yr epistol at yr Hebreaid yn esponiad cyflawn ar y llyfr hwn.

4. *Numeri*—rhifedi. Am fod rhifedi meibion Israel yn cael ei grybwyll mor aml ynddo—hanes eu teithiau, trefn a rhifedigion eu llwythau sydd yn cymeryd i fynu y rhan fwyaf o'r llyfr. Cynwysa eu hanes o ddechreu yr ail mis o'r ail flwyddyn wedi eu hymadawiad o'r Aiffit, hyd yr unfed-misar-ddeg o'r ddeugeinfed flwyddyn, sef dros 38 o flynyddoedd. Yspryd cyndyn, grwgnachlyd, anniolchgar, a gwrthryfelgar Israel, hir amynedd, daioni, a maddeugarwch Duw, ydyw y

ddwy brif egwyddor fawr sydd yn ymddangos yn amlwg yn holl ffeithiau hanesyddiaeth y llyfr hwn: a'r pethau hyn oll a ysgrifenyddyd fel ag y dywed yr apostol, 'er ein haddysg ni.'

5. *Deutoronomium*; yr ail gyfraith, neu ail gyhoeddiad o'r gyfraith, gyda chwanegiadau mewn rhai manau fel ag y byddai amgylchiadau yn gofyn. Cynwysa y llyfr yr ail adroddiad a wnaeth Moses i'r plant, o'r deddfau a'r barnedigaethau a dderbyniasai gan, ac a draddodasai dros Dduw, i'w tadau wrth fynydd Sinai, y rhai a gawn yn y tri llyfr blaenorol i hwn.

Dechreuwa y llyfr gydag adgoffiad o'r amgylchiadau mwyaf hynod a ddygwyddasent yn eu taith drwy yr anialwch, er pan ymadawsent oddiwrth fynydd Sinai. Gwneir y cymhwysiad mwyaf nerthol yn *pen. iv.* oddiwrth yr amgylchiadau hyn, er paratoi meddyliau y bobl i dderbyn yr hyn oedd i ganlyn, sef deddfau a barnedigaethau yr Arglwydd, neu yr ail adroddiad o honynt. Wedi eu cyhoeddi yn y pennodau canlynol, ymdrechai Moses i rwymo y bobl mewn ufudd-dod iddynt, drwy gyhoeddiad o'r melldithion ofnadwy a ganlynent anufudd-dod ar un llaw, a'r bendithion daionus a ganlynent wrandawriad ac ufudd-dod ar y llaw arall: ac amcanai i beri i'r pethau hyn oll i lynu ac aros yn eu côf a'u meddyliau drwy y gân dra rhagorol a ddysgai iddynt, yr hon a geir yn *pen. xxxii.* Ac yna, wedi bendithio y llwythau, 'bu farw Moses gwas yr Arglwydd.' Cymerodd yr holl bethau a gynhwysir yn y llyfr hwn le, mewn oddeutu dau fis o amser. Mor llafurus, ffyddlawn, a ffrwythlawn, oedd dyddiau olaf bywyd anrhydeddus Moses!

Y mae hanesyddiaeth y pum llyfr yn cyrhaeddyd o ddechreuad amser hyd y flwyddyn cyn Crist, 1451, sef dros yspaid 2553. Ysgrifenyddyd y cwbl gan Moses, yn yr anialwch, oddigerth y bennod olaf o *Deutoronomium* yr hon a gynwys hanes ei farwolaeth a'i gladdedigaeth, a'r hon a ddodwyd i mewn, fel y tybia rhai, gan Joshua ei olynydd.

Yr ail ddosparth yw y *Prophwydi*. Y cyntaf o'r dosparth ydyw llyfr Joshua. Pa un ai efe ai rhyw un arall a'i hysgrifennodd sydd amheus. Rhydd hanes mynediad Israel i

wlad yr addewid, wedi bod o bonynt yn crwydro yn yr anialwch ddeugain mlynedd, i ddwyn cosp eu hanwireddau; eu llwyddiant, a'u buddugoliaethau ar eu gelynion—rhaniad y tir wrth goelbren yn etifeddiaeth i'r llwythau—siars olaf Joshua i'r genedl, ei farwolaeth a'i gladdedigaeth ef ac Eleazar mab Aaron yr archoffeiriad. Cynwysa y llyfr hwn hanesyddiaeth y genedl o farwolaeth Moses hyd farwolaeth Joshua, sef yspaid tua deg-ar-hugain o flynyddoedd.

2. *Y Barnwyr*: yn cynwys parhad o hanes y genedl wedi ei sefydliad yn ngwlad Canaan, a marwolaeth Joshua, am yspaid 300 o flynyddoedd. Yma cawn ddrych o'u helyntion crefyddol a gwladwriaethol—meibion Israel yn 'gwneyd yr hyn oedd ddrwg yn ngolwg yr Arglwydd'—yr Arglwydd yn eu gwerthu i ddwyllaw eu gelynion, y rhai a'u gorthryment yn dôst—meibion Israel yn llefain ar yr Arglwydd—yn-tau yn codi Barnwr iddynt, yr hwn a'u gwardai o law eu gelynion—a'r un pethau drosodd a throsodd drachefn—dyrywiadau a diwygiadau—cospedigaethau a gwaredigaethau, y naill ar gyfer y llall, mewn cylch-gyfnewidiad parhaus drwy ystod y cyfwng maith hwnw o amser. Wedi yr holl addewidion, y deddfau, a'r barnedigaethau a gawsent, y rhyfeddodau mawrion a welsent, y gwaredigaethau hynod a brofasent, o'u dyfodiad o'r Aifft hyd eu sefydliad yn Nghanaan, buasem yn dysgwyl cael llawer gwell golwg arnynt o ran eu hagwedd grefyddol a gwladol nag ydym yn gael yn y llyfr hwn: ni allwn lai na'i ddarllen dan ddylanwad teimladau a gobeithion siomedig; ond dyma wir ddelw y natur ddynol. Tybir ysgrifenu y llyfr gan Samuel.

3. *Ruth*. Y llyfr hwn a rydd hanes amgylchiadau un teulu neillduol, yr hyn a ddysg i ni bod sylw gan ragluniaeth ddwyfol ar amgylchiadau teuluoedd a phersonau, yn gystal ag ar amgylchiadau cenedl a gwladwriaeth yn gyffredinol. Dygwyddodd yr amgylchiadau a goffeir yn y llyfr hwn yn nyddiau y Barnwyr; ni ddywedir yn nyddiau pa un—rhai a farnant yn nyddiau Ehwd, ereill mai yn nyddiau Debora; ereill mai yn nyddiau Gideon. Gallai fod llawer o bethau mor hynod ynddynt en hunain, wedi dygwydd yn amgylchiadau llawer o deuluoedd, ag a goffeir yma am amgylchiadau Elimelec a Naomi; ond yr oedd un peth yn ddiâu yn peri

i'r llyfr hwn gael ei gananeiddio yn mysg llyfrau yr Ysgrythyr, sef, dychweliad Ruth y Môabes at grefydd, ac i wlad Israel, ei hundeb priodasol a Böaz, a thrwy hyny ddyfod yn un o gyn-famau y Messia, fel ag y buasai ei henw a'i hanes yn angenrheidiol i fod yn hysbys, pan ddeuai yr efengylwr i gofrestru achau y Gwardedwr. 'Yn nychweliad Ruth y Föabes, a'i dyfodiad i linach y Messia,' medd Henry, 'yr ydym yn cael awgrym o alwedigaeth y cenedloedd yn yr amser priodol i gymdeithas ein Harglwydd Iesu Grist.' Tybir mai Samuel a ysgrifennodd y llyfr hwn hefyd.

4. *Llyfr cyntaf Samuel.* Cynwys hwn hanesyddiaeth tua 120 o flynyddau, o amser genedigaeth Samuel hyd amser marwolaeth Saul. Ysgrifennwyd y pedair-pennod-ar-hugain cyntaf gan Samuel ei hun, y mae'n debygol; a'r pennodau ereill hyd ddiwedd y llyfr gan Nathan a Gad y gweledyddion, fel y tybir. Rhydd hanes gweinidogaeth Eli—drygioni a dinystr ei feibion—amgylchiadau daliad a dygiad yr arch i dir y Philistiaid—ei dychweliad yn ol—goruchwyliaeth farnol Samuel—cyfnewidiad ffurf-lywodraeth wladol Israel, o werin-lywodraeth i unbenaeth—eneiniad a dyrchafiad Saul y brenhin cyntaf i'r orsedd—ei wrthodiad, a dewisiad Dafydd yneile—amgylchiadau Dafydd wedi hyny hyd farwolaeth Saul.

5. *Ail lyfr Samuel;* sydd yn barhad o hanesyddiaeth y cyntaf—yn cynwys yn benaf, hanes bywyd a theyrnasiad Dafydd—ei lwyddiant a'i fuddugoliaethau ar ei holl elynion, ei gwmp gofidus, a'i adferiad, ei drallodion blinion yn ei deulu, &c. 'Ymddengys yma,' medd Henry, 'mewn llawer o bethau, yn fawr iawn, yn dda iawn, yn anwylyd y nef; eto rhaid addef bod ei anrhydedd yn dysgleirio yn danbeidiach yn ei Salmau nag yn hanes ei fywyd.'

6. *Dau lyfr y Brenhinoedd;* ydynt yn cynwys hanes gwladol a chrefyddol y genedl o amser marwolaeth Dafydd hyd y caethgludiad i Babilon; yspaid uwchlaw pedwar cant o flynyddoedd. Yn yr hanes a roddir am deyrnasiad Salomon, yr ydym yn canfod y genedl yn haf-dymor ei llwyddiant, mewn amgylchiadau mwy cysurus nag y buasai cyn hyny, ac nag y bu byth wedi hyny. Yn niwedd ei deyrnasiad, ymdaena cwmwl du dros ei nodwedd ef, ac amgylchiadau y wladwriaeth; canlynir ei farwolaeth a hanes rhwygiad y frenhiniaeth

yn ddwy, a dylynir wedi hyny hanesiaeth teyrnasoedd Israel a Juda, a'u brenhinoedd, hyd caeth-gludiad y deg llwyth i Assyria, a'r ddau arall i Babilon. Nodweddiad brenhinoedd Israel sydd yn ddu i gyd oll, heb fan glan na chyfan arno : a brenhinoedd Juda, teulu Dafydd, yn gymysgedig o dda a drwg. 'Gellir rhoddi dysgrifiad o nodweddau brenhinoedd Juda, yn fyr, fel y canlyn,' medd Henry, 'Dafydd y duwiol-frydig, Solomon y doeth, Rehoboam yr ehyd, Abia y gwrolfrydig, Asa yr uniawn, Jehosaphat y crefyddol, Jehoram y drygionus, Abazia yr halogedig, Ioas y gwrthgiliwr, Amasia y rhyfygus, Uzzia y galluog, Jotham yr heddychol, Ahaz yr eulun-addolwr, Hezeciah y diwygiwr, Manasse yr edifeiriol, Amon yr erlidiwr, Josia y tyner galon, Jehoiakim, Jehoiachin, a Zedecia, oll yn ddrygionus. Nifer y rhai da a drwg sydd agos yn gyfartal, ond yr oedd teyrnasiadau y rhai daionus yn hir yn gyffredin, a'r eiddo y rhai drygionus yn fyr. Oddiar yr ystyriaeth hon, nid oedd cyflwr Israel mor ddrwg yn ystod yr amser hwn, ag yr ymddengys ar y golwg cyntaf ei fod. Yn gymysgedig a hanes y brenhinoedd hyn, cawn hanes bywydau y ddau brophwyd mawr Elias ac Eliseus, a'u gweithredoedd nerthol, yr anrhydedd mawr a roddodd Duw arnynt yn eu bywydau ac wedi hyny ; un, drwy ei gymeryd i'r nefoedd heb brofi marwolaeth, a'r llall, drwy fywchau corph wedi ei farwolaeth, pan gyffyrddai a'i esgyrn.

7. *Dau lyfr y Cronicl* ; ydynt gan mwyaf, yn ail-adroddiad o'r hyn a geir yn llyfrau y Brenhinoedd, yn nghyd ag amrywiol bethau yn achlysurol ag nad ydynt ar lawr yn y llyfrau hyny ; megis, yr achau o Adda hyd Ddafydd, yn y pennodau cyntaf o'r Cronicl cyntaf ; a threfn y gwasanaeth crefyddol a sefydlodd Dafydd, yn *pen.* xxv. a xxvi. o'r un llyfr. Y dyb gyffredin yw, mai Ezra a ysgrifonodd y llyfrau hyn, wedi y dychweliad o Babilon.

8. *Esay.* Tymor gweinidogaeth y prophwyd hwn ydoedd dyddiau Uzzia, Jotham, Ahaz, a Hezecia, brenhinoedd Juda. Bernir iddo orfueddu y diweddaf, sef Hezecia, a chael ei fferthyru yn nechreud teyrnasiad gwaedlyd Manasse ei fab. Gosodir ef yn mlaenaf o'r prophwydi ; nid am ei fod y cyntaf o ran amser ; oblegid yr oedd Hosea, Joel, Amos, ac

Obadia ychydig o'i flaen : ond o herwydd bod ei brophwydoliaeth yn helaethach na'r eiddo y lleill oll, a mwy o'r hwn y mae yr holl brophwydi yn dwyn tystiolaeth iddo ynddi, nag a geir yn un o'r lleill. Gelwir ef yn gyffredin, y prophwyd efengylaidd, a chan rai o'r henafiaid, y pumed efengylwr : hwyrach y buasai mor briodol ei alw yr efengylwr cyntaf.

Dywed y traddodiad Iuddewig fod Esaia yn nai fab brawd i'r brenhin Uzzia ; ymddengys, pa fodd bynag, ei fod yn wr pendeigaid, ac yn aml yn y llys yn amser Hezecia ; a sylwa beirniaid, fod ei iaith a'i briod-ddull o gyfansoddi ac ysgrifenu yn burach a boneddigeiddiach na'r prophwydi ereill yn gyffredin. Y mae ei feddyliau a'i ddarluniadau yn gryfion a goruchel annghyffredinol weithiau. Y mae rhan gyntaf y brophwydoliaeth yn llawn o argyhoeddion, ceryddon, a bygythion yn erbyn Juda a Jerusalem am eu hamryw bechodau, yn nghyd ag ambell addewid a chyhoeddiad grasol yn tori allan yn awr ac eilwaith, megis pelydrau tywyniad haul rhwng dau gwmwl tywyll. Cyfeirir at ddau amgylchiad neu lludol perthynol i Jerusalem, sef rhuthr bygythiol Senecherib a'i fyddin, yn amser Hezecia, a'r caethgludiad i Babilon ; rhoddir sicrwydd o amddiffyniad a dyogelwch rhag y blaenaf, a dedwyddol ymward allan o'r olaf. Yn mhell cyn diwedd y llyfr, y mae awyrgylch y brophwydoliaeth yn clirio, y cymylau yn chwalu ymaith, y deheu-wynt yn chwythu yn araf, a'r haul yn tywynu yn ei lawn ogoniant yn uchder y nefoedd. Wedi dysgrifio amgylchiadau y groes, yn *pen.* liii. 'llenwir gweddill y brophwydoliaeth â'r 'gogoniant ar ol hyny,' yn llwyddiant yr eglwys, pregethiad yr efengyl, galwedigaeth y cenedloedd, a mawr gogoniant y dyddiau diweddfaf.

9. *Jeremia.* Yr oedd rhai prophwydi rhwng Esaia a Jeremia ; dau o leiaf, sef Habacuc a Nahum ; cyflëir ei brophwydoliaeth ef yn nesaf i Esaia, o flaen yr eiddo ei gyntefigion o ran amser, o herwydd yr un rheswm ag y gosodwyd prophwydoliaeth Esaia o flaen ei flaenafiaid yntau ; sef am ei bod yn helaethach.

Am y prophwyd hwn, sylwa Henry, 'ei fod wedi dyfod i'w swydd yn fore, parhau ynddi yn hir, o ddeugain i haner

can mlynedd—ei fod yn argyhoeddwr llym—yn brophwyd wylofus—ac o herwydd hyn y mae yn debygol y meddyliai y rhai a dybient mai un o'r prophwydi gynt oedd y Gwardwr, ei fod yn debycach i Jeremia nag i un o'r lleill, yn wr 'gofidus a chynhefin a dolur.' Yr oedd hefyd yn brophwyd erlidiedig: dyoddefodd fwy o erlidiau mae'n debygol nag un o'r prophwydi ereill.' Cafodd ei osod i farwolaeth gan ei genedl ei hun yn ngwlad yr Aifft, fel y bernir.

Y mae y brophwydoliaeth hon yn fwy seml a di-addurn na'r eiddo Esaia, fel ag y mae ei faterion yn gyffredin yn gofyn iddi fod. Y mae y teimladau puraf yn fynych yn rhedeg allan yn yr iaith a'r ymadroddion mwyaf toddedig. Y mae y prophwyd yn ein dwyn ymaith gydag ef yn ddiarwybod i ni, nes y byddom yn cael ein llenwi a chyd-ymdeimlad tosturiol ag ef, ac na allwn lai na chymysgu ein dagrau a'r eiddo ef. Yr oedd yn wr cynen ac ymryson i'r holl genhedloedd, fel y dywedai, a 'phawb o honynt yn ei fell-dithio:' rhan fawr o'i waith ydoedd cymysgu phioleidiau barnedigaethol i Juda, ac i'r holl genhedloedd oddi amgylch; 'traddodai ambell bregeth efengylaidd iawn, y rhai ydynt yn ei brophwydoliaeth yn gyffelyb i ambell ddiwrnod tesog a hyfryd yn nghanol tymor cymylog ac ystormus.

Amseriad ei weinidogaeth, ydoedd dyddiau Josia, Jehoiachim, a Zedecia, brenhinoedd Juda. Dechreuodd brophwydo tua naw-mlynedd-ar-hugain cyn y caethgludiad; a pharhaodd yn ei swydd am oddeutu deuddeg neu bymtheng mlynedd o leiaf wedi hyny.

10. *Ezeciel.* Traddododd ac ysgrifonodd Ezeziel ei brophwydoliaeth yn Babilon. Yr oedd yn un o'r gaethglud a ddygasid yno gyda Jehoiachim brenhin Juda; felly yr oedd ef yn prophwydo yn Chaldea a Babilon yr un amser ag yr oedd Jeremiah yn Juda a Jerusalem. Bu yn llenwi ei swydd am uwchlaw yr ugain mlynedd cyntaf o'r caethiwed. Barna rhai mai efe yw yr hwn a elwir gan Pythagoras, 'yr Athronydd Groegaidd, Nazaratus Assyrius,' yr hwn a gyd-nabydda'r athronydd hwnw fel ei athraw, ac y dywed ei fod yn arferol o wrando ei ddarlithiau. Pa fodd bynag, y mae yn sicr bod y ddau yn byw yn nghylch yr un amser. Dywed traddodiad Iuddewig, ddarfod iddo gael ei osod i far-

wolaeth drwy ei labyddio gan y gaethglud yn Babilon, o herwydd ei ffyddlondeb a'i onestrwydd yn eu rhybuddio a'u hargyhoeddi. Hanesydd Arabaidd a ddywed ddarfod iddo gael ei roddi i farwolaeth, a'i gladdu yn meddrod Shem, mab Noa.

Mewn perthynas i'r brophwydoliaeth, y mae ynnddi ddyfroedd dyfnion iawn, llawer o weledigaethau, arwydd-luniau, a damhegion: 'rhyw bethau anhawdd eu deall,' ond y cymhwysiadau yn eglur a bywiog. Nid yw y brophwydoliaeth yn yr ystyr yma yn gyffelyb i'r dyfroedd y rhydd hanes am danynt yn *pen.* xlvii. y rhai oeddynt yn feision ar y cyntaf, ac yn dyfnhau yn raddol nes myned 'yn ddyfroedd nofiadwy, yn afon nas gellid myned drwyddi;' ond y mae dyfroedd y brophwydoliaeth yn ddyfnach yn yr ymylau nag ydynt yn y canol: yn nechreu a diwedd y llyfr y mae y pethau anhawsaf eu deall a'u hamgyffred.

Yn gymysg a cheryddon a bygythion, cawn yn y llyfr hwn llawer o gyhoeddiadau a galwadau graslawn, llawer o addewidion efengylaidd, amryw o brophwydoliaethau gwerthfawr am y Messia, a llwyddiant ei deyrnas yn y dyddiau diweddfaf.

11. *Daniel.* Daniel, megis Ezeziel, a dderbyniodd ei swydd a'i urddau yn ngwlad y caethiwed: efe ag Ezeziel oeddynt yr unig ddau o'r prophwydi a gyflawnasant eu gweinigogaeth allan o wlad Israel. Prophwydodd Daniel yn mlynnyddoedd olaf y caethiwed, fel y gwnaethai Ezeziel yn ei ddechreuad; ac fel hyn yr oedd y weinigogaeth yn cael ei pharhau yn mhlith yr Iuddewon: er eu bod wedi eu bwrw allan o'u gwlad, ni fwriodd yr Arglwydd mo honynt yn llwyr allan o'i olwg. Yr oedd Daniel yn wr anrhydeddus iawn yn y wladwriaeth; dyrchafwyd ef, o herwydd ei ddoethineb a'i rinweddau, o sefyllfa isel caethwas i'r sefyllfa uchaf yn llysoedd a chynghorau tri o'r penaduriaid galluocaf a welodd y byd erioed, sef Nebuchodonozor, Darius, a Cyrus.

Ni chydnabyddai llawer o'r Rabbiniaid Iuddewig mo Daniel fel prophwyd; o herwydd hyny, gosodent y llyfr hwn, yn nosparth yr Ysgrifeniadau Sanctaidd. Eu rhesymau dros hyny oeddynt, o herwydd yn un peth, meddant, na bu fyw bywyd isel a marweiddiedig, megis Jeremia, a rhai ereill o'r

prophwydi, ond bywyd tywysogaidd ; ei fod yn brif weinidog y llywodraeth : ond ni wasanaetha y rheswm hwn, oblegid yr ydym yn cael ddarfod iddo gael ei erlid megis y prophwydi ereill, ac yn ymwadu & mwynderau bywyd yn gymaint ag un o honynt, *pen. x. 3.* Rheswm arall a roddant ydyw, ei fod wedi ysgrifenu ei lyfr mewn gwlad baganaidd, a chael ei weledigaethau yno, ac nid yn ngwlad Israel ; ond oddiar y rheswm hwn, rhaid ymwrthod ag Ezeziel hefyd fel prophwyd. ‘Ond y gwir achos yw,’ medd Henry, ‘ei fod yn llefaru mor eglur am amser dyfodiad y Messia, fel na all yr Iuddewon osgoi na gochelyd yr argyhoeddiad o hono ; o ganlyniad, nid ydynt yn dewis clywed am dano. Geilw Josephus ef, ‘y mwyaf o’r prophwydi.’ Tybir iddo farw yn Susan, brenhinllys Persia, mewn oedran teg, ac anrhydedd mawr.

Y mae y llyfr yn ddau ddosparth ; y chwe pennodau cyntaf o hono yn hanesyddol a hawdd eu deall, a’r gweddill yn brophwydoliaethau gan mwyaf am helyntion yr Iuddewon dan unbenaethau y Persiaid a’r Groegiaid, hyd ddyfodiad y Messia. Y mae dadymchweliad ymerodraeth Persia gan Alexander Fawr, rhaniad ei frenhiniaeth yntau rhwng ei dywysogion ar ol ei farwolaeth, nodweddau a rhyfeloedd brenhinoedd Syria a’r Aifft, amgylchiadau yr Iuddewon yn yr amseroedd hyny, ymddangosiad y Messia yn y byd, &c. yn cael eu gosod allan mor fanwl yn y brophwydoliaeth hon, a phe buasai yn hanesyddiaeth o honynt wedi i’r pethau ddygwydd ; yr hyn a barai i’r cablwr Porphyry haeru mai twyllwr oedd Daniel yn byw, ac yn ysgrifenu wedi i’r amgylchiadau hyn fyned heibio. Y mae llawer yn y brophwydoliaeth am lwyddiant a chynydd teyrnas y Messia, cyfodiad a chwymp Rhufain wladwriaethol ac Anghristaidd. Bu Daniel fyw yn ei swydd fel dyn cyhoeddus a phrophwyd, o leiaf tair-blynedd-ar-ddeg-a-thriugain.

Daw yn nesaf dan sylw y deuddeg prophwydi lleiaf, a elwir felly, nid o herwydd bod eu hysgrifeniadau yn ddim llai eu hawdurdod a’u gwerth na’r eiddo y prophwydi ereill, neu eu bod yn llai yn nghyfrif Duw na’r lleill, ond am eu bod yn fyrach.

‘Y mae genym le i feddwl,’ medd Henry, ‘ddarfod i’r

prophwydi hyn bregethu cymaint a'r lleill, ond na ddarfu iddynt ysgrifenu cymaint, fel nad oes cymaint o'u pregethau ar gael. Ni ddarfu i lawer o brophwydi ardderchog ysgrifenu dim, ac ereill ond ychydig, y rhai, er hyny, oeddynt dra defnyddiol yn eu dydd. Ac felly yn yr eglwys Grist'nogol, bu ynddi lawer o lampau tanllyd a llewyrchus, y rhai nad adwaenir gan eu holafiaid wrth eu hysgrifeniadau; ac eto, nad oeddynt mewn un modd islaw mewn talentau, doniau, a defnyddioldeb, yn eu hoes eu hunain, i'r rhai sydd a'u henwau yn adnabyddus fel ysgrifenwyr. A rhai na adawsant ond ychydig ar eu holau, ac na wnaethant nemawr o sôn am danynt fel awdwyr, oeddynt er hyny, yn ddynion mor werthfawr a'r ysgrifenwyr penaf.' Am y deuddeg prophwydi hyn dywed Jesus mab Sirach, 'felly bendigedig fyddo coffadwriaeth y deuddeg prophwyd, ac ireiddied eu hesgyrn o'u lle; canys hwy a gysurasant Jacob, ac a'u gwaredasant a gobaith sicr.'*

Y blaenaf o'r deuddeg yw *Hosea*, yr hwn hefyd oedd y cyntaf oll o'r prophwydi ag y mae eu prophwydoliaethau yn ysgrifenedig. Yr oedd wedi dechreu prophwydo yn ol yr amseryddiaeth a rydd ein Biblau ni (ar ymyl y ddalen) o ddeutu pum-mlynedd-ar-hugain o flaen Esaia. Dywed yr Iuddewon mai gwr o lwyth Issachar ydoedd, ac iddo brophwydo am oddeutu deng-mlynedd-a-phedwar-ugain.

Rhagfynegodd ddadymchweliad teyrnas y deg llwyth yn hir cyn iddo gymeryd lle; ac yr oedd yn fyw i weled cyflawniad ei brophwydoliaeth yn amser brenhin o'r un enw ag ef ei hun.

Y mae prophwydoliaethau hwn yn dra gwahanol i'r lleill oll, ymadroddion byrion, a chynhwysfawr, cyffelyb i ddiarhebion Solomon ydynt. Nid yw yn dywedyd gair wrth neb ond Israel a Juda yn unig. Argyhoeddi, ceryddu, rhybuddio, ac anog i edifeirwch a dychweliad yw amcan ei weinidogaeth. Y mae ynddo lawer o'r ymadroddion mwyaf bywiog, cyffrös ac effeithiol. Sylwir fod y prophwydi Jeremia ac Ezeziel wedi benthyca amryw o ymadroddion y prophwyd hwn.

2. *Joel*. Nid yw yn sicr pa amser y blodeuodd y pro-

* Eccl. xlix. 10.

phwyd hwn, gan nad yw enwau y brenhinoedd a deyrnasent ar Israel a Juda yn amser y brophwydoliaeth yn cael eu crybwyll, fel y gwneir yn nechreu y rhan fwyaf o'r prophwydi. Y dyb gyffredin yw, mai tua'r un amser ag Amos yr ydoedd, oblegid y llefara am yr un farnedigaeth drwy locustiaid, sychder, a thân, ag y llefara Amos am dani; yr hyn sydd yn rhoddi lle i feddwl eu bod yn ymddangos tua'r un amser, Amos yn Israel, a Joel yn Juda.

Y brophwydoliaeth a gynwys ddysgrifiad grymus o offerynau barnol Duw i ymweled a'r wlad am ei phechodau, sef y locustiaid; a dysgrifiad o'r distryw a'r anrhaith a wneid ganddynt ar y wlad—galwad uchel a thaer ar y genedl i edifarhau ac ymostwng, gyda sicrwydd o dderbyniad ac arbediaeth grasol, os dychwelent: a'r brophwydoliaeth egluraf a geir yn yr hen Destament am dywalltiad a goruchwyliaeth yr Yspryd Glan ar eglwys y Testament newydd, yr hyn yn ol esponiad yr apostol Petr, a gyflawnwyd ar ddydd y Pentecost—ac yn y diwedd, gyhoeddiad o ddinystr gelynion yr eglwys, a sicrhâd o'i pharhâd a'i llwyddiant hithau drwy breswyliaid gwastadol yr Arglwydd ynddi.

3. *Amos*. Ymddangosodd y prophwyd hwn fel y rhagrybwyllwyd, ychydig o flaen Esaia, a'r un amser a Hosea, ond ei fod yn ieuangach. Prophwydodd yn nheyrnas Israel yn amser Uzzia brenhin Juda, Jeroboam yr ail, mab Joas, brenhin Israel. Bugail ydoedd wrth ei alwedigaeth; heb gael ei ddwyn i fynu yn un o ysgolion y prophwydi, fel yr ymddengys oddiwrth ei ymadroddion wrth Amasia, offeiriad Bethel, *pen.* vii. 14. Gall yr Arglwydd alw a chymhwyso y neb a fyno at ei waith: cymerai Esaia a Daniel o'r llys, Jeremia ac Ezeiel o blith yr offeiriaid, a Dafydd ac Amos o blith y bugeiliaid.

Y mae Amos yn dechreu ei weinidogaeth drwy gyhoeddi bygythion yn erbyn y cenedloedd cymydogaethol, ag oedd-ynt elynion i Israel, ac wedi hyny, yn dyfod adref i argyhoeddi Israel am eu heulun-addoliaeth, eu hanniolchgarwch am, a'u cam-ddefnydd o gymwynasau a gwaredigaethau dwyfol—eu hanymostyngiad cyndyn dan geryddon—yn eu galw i edifeirwch a diwygiad—yn rhagfynegi eu dinystr, os na ddychwelent, ac yn terfynu yn debyg i Joel, mewn addew-

idion o osodiad i fynu deyrnas y Messia, a'i llwyddiant cyffredinol yn y byd.

4. *Obadia.* Pwy oedd Obadia, nid yw yn hysbys; barn amryw o'r tadau oedd, mai Obadia gwas Ahab, yr hwn a guddiodd gant o brophwydi yr Arglwydd rhag cynddaredd Jezebel ydoedd; ond haera ereill gyda mwy o debygolrwydd ei fod yn ddiweddarach.

Dyma y brophwydoliaeth leiaf o'r cwbl, yn cynwys ond un bregeth daranlyd yn erbyn Edom, am ei thrahausder a'i chreulondeb yn erbyn Israel. Wrth ei darllen, yr ydym yn gweled cymylau tewion barnau Duw yn ymgasglu uwch ben, ac yn ymdori ar fynydd Seir, a'r haul yn tywynu yn siriol ar fynydd Sion. 'Ond ar fynydd Sion y bydd ymwared.'

5. *Jona.* Yr oedd Jona yn gyd-oeswr ag Amos, fel y gellir casglu oddiwrth 2 *Bren.* xiv. 25.; oblegid yr oedd yn prophwydo yn amser Jeroboam yr ail. Y mae y llyfr hwn yn fwy o hanesyddiaeth nag o brophwydoliaeth, y rhag-fynegiad byr am gwmp Ninife yw yr unig brophwydoliaeth sydd ynddo. Y mae yr hanes yn ddrych nodedig i ddangos bychandra dyn a mawredd Duw, cyfyngder, culni, a chyn-dynrwydd yspryd y creadur, ac amynedd, tosturiaethau, a maddengarwch y Creawdwr. Os Jona, fel y tybir, ydoedd ysgrifenydd yr hanes, diau bod arno gywilydd o hono wrth edrych arni, ac wrth feddwl y buasai yn cael ei ddarllen yn mhob oes o'r byd. Cafodd y fraint, er cymaint ei ystranciau drwg, o fod y cysgod hynotaf o gladdedigaeth ac adgyfodiad Crist, o'r un o fewn yr hen Destament.

6. *Micah.* Prophwydai Micah yn yr un amser ag Esaia: dechreuai ychydig flynyddau wedi dechreuad gweinidogaeth y prophwyd hwnw. 'Juda a Jerusalem,' oeddynt wrthrychau neu lludol gweledigaeth Esaia; y mae gweledigaeth neu weinidogaeth y prophwyd hwn yn cymeryd y ddwy deyrnas, Israel a Juda, neu Samaria a Jerusalem, i mewn. Y mae prophwydoliaethau Micah ag Esaia yn debycach i'w gilydd nag unrhyw ddwy ereill; y rhan flaenaf o'r ail bennod o Esaia, a'r rhan flaenaf o'r bedwaredd o Micah, ydynt agos yn hollol yn yr un geiriau. Y mae gweinidogaeth y prophwyd hwn o'r un ansawdd a dull a'i gyd-brophwydi yn gyffredin; argyhoeddi pechodau, a phregethu edifeirwch, gan ei gymell ag

addewidion grasol am dderbyniad a maddeuant. Ceir ynddo lawer am Grist a llwyddiant ei deyrnas yn y byd.

7. *Nahum*. Y cwbl a gawn am y prophwyd hwn ydyw ei enw a'i breswylfod: 'Nahum yr Elcosiad; un o drigolion Elcosa, tref yn Galilea, medd Jerom. Pa bryd yr oedd yn byw hefyd, sydd anhysbys; yr amser mwyaf tebygol, oddiwrth lais y beannod gyntaf, ydyw dyddiau Hezecia, cyn dyfodiad Senacherib yn erbyn Jerusalem: gellid casglu ei fod yn rhagfynegu y rhuthrgyrch hwnw, ac yn addaw amddiffyn ac ymwared rhagddo.

Testun ei brophwydoliaeth ydyw cwmp Ninife, y ddinas fawr, a dadymchweliad llywodraeth Assyria. Y mae yn ei osod allan yn y darluniad mwyaf cyffrous a nerthol. Dylina ei destun o'r dechreu i'r diwedd, heb droi oddiwrtho tua'r llaw ddehau na'r llaw aswy; a chyflawnwyd ei brophwydoliaeth i'r llythyren.

8. *Habacuc*. Nid oes i'r prophwyd hwn dad na mam nag achau yn yr hanesyddiaeth sanctaidd; ond y mae dychymyg dyn bob amser yn dyfod yn mlaen ac yn llenwi y diffygion hyn. Y mae yr Iuddewon wedi dychymygu mai mab y Surnamees, hono yr hwn a fywhawyd gan Eliseus, ydoedd Habacuc. Myn ereill ei fod yn llawer diweddarach, yn byw yn nheyrnasiad Manasse, pan oedd drygioni a llygredigaeth yn diliwio'r wlad, yr hwn a'i phrysur aeddfedai i'r farn o gael ei goresgyn a'i chaethgludo gan y Caldeaid, yr hon a ragfynega y prophwyd hwn. Y mae yr holl brophwydoliaeth yn cyfeirio at yr amgylchiad yma. Y mae y prophwyd hwn yn cymysgu gweddïau a'i brophwydoliaeth yn fynychach nag un o'r lleill.

9. *Sephania*. Rhoddir achau ag amser gweinidogaeth y prophwyd hwn i lawr; yr oedd yn gyd-weinidog â Jeremia yn amser Josia, brenhin Juda.

Prif fater ei brophwydoliaeth yw, goresgyniad Juda a Jerusalem gan y Caldeaid. Y mae yn gosod achosion y difrod hwnw ger bron wynebau ei bobl yn onest a ffyddlon iawn, yn eu rhybuddio bod y farn yn agos agos, ac nad oedd un ddyfais na gallu a'i hataliai. Wedi'r taranau cryfion a ruant drwy yr holl brophwydoliaeth agos, y mae cawod o wlaw bras a maethlawn yn disgyn yn ei diwedd; addewidion

o rasmusol ddychweliad, a llwyddiant mawr, y rhai ydynt yn eu llawn gynhwysiad i gael eu dwyn i ben yn llwyddiant ysprydol yr eglwys efengylaidd.

10. *Haggai*. Yr oedd y naw prophwyd o'r blaen oll yn byw o flaen y caethiwed, rhai o honynt lawer iawn o flynyddau; yr oeddynt agos oll yn rhagfynegi am dano. Y prophwyd hwn a Zecharia oeddynt yn byw ac yn prophwydo wedi y dychweliad o Babilon. Dechreuodd y ddau tua'r un amser, o gylch deunaw mlynedd wedi y cyhoeddiad o ryddid a roddodd Cyrus i'r genedl, yn yr ail flwyddyn i Darius Hystaspes; Haggai, yn y chweched mis, a Zecharia yn yr wythfed.

Amcan gweinidogaeth Haggai ydoedd ceryddu y gaethglud ddychweledig am eu hesgeulusdod o deml Dduw, pan oeddynt yn llafurus a diwyd gyda'u tai a'u hachosion eu hunain. Yr oedd adeiladaeth y deml wedi ei ddechreu rai blynyddau cyn hyn, ac wedi ei adael heibio mewn digalonddid o herwydd gwrthwynebiadau cenfigenus y Cenhedloedd cymydogaethol. Yr oedd anfoddlonrwydd Duw yn amlwg ar holl lafur dwylaw y bobl y pryd hyn, a dengys Haggai iddynt mai eu hesgeulusdra hwn o dy Dduw oedd yr achos o hono. Y mae yn eu hanog i ymafiyd yn y gwaith yn ddi-oedi, ac wedi iddynt ddechreu arno, yn eu cysuro i fyned yn mlaen âg addewidion o nawdd ac amddiffyniad dwyfol, ac yn neillduol yr addewid o Grist. Sicrhau iddynt, pa gymaint bynag islaw y deml gyntaf mewn mawrwychedd a gogoniant ymddangosiadol oedd y ty presenol, y buasai ei ogoniant mewn gwirionedd yn fwy na'r llall, o herwydd y buasai i Arglwydd y deml ei hun ymddangos yn fuan ac anrhydeddu y ty hwn a'i bresenoldeb. Tarawai y brophwydoliaeth hynod hon holl obeithion a dysgwyliaidau yr Iuddewon am Fessia i ddyfod â gwywdra bythol, ped ystyrient hi. Y mae yu gosod allan mor eglur ag y dychon geiriau, y byddai iddo ymddangos yn amser yr ail deml; felly, rhaid fod y Messia hwnw a addawyd i'w tadau wedi ymddangos, neu nad ymddengys byth: ac os ymddangosodd, rhaid mai Iesu o Nazareth ydoedd.

11. *Zecharia*. Yr oedd cyd-darawiad dyben yn ngweinidogaeth y prophwyd hwn i'r eiddo ei gyd-lafurwr Haggai, ond

y mae ei brophwydoliaeth ef yn llawer helaethach, a'i ddull yn hollol wahanol; y mae yn cynwys hefyd lawer o destunau ac yn traethu ar amryw o faterion, heblaw mater gweinidogaeth y llall. Ceir yma amryw weledigaethau, yn y rhai y mae rhyw bethau celyd ac anhawdd eu deall—llawer yn eglur am Grist, ac am yr eglwys, dyoddefiadau Crist a'r gogoniant ar ol hyny, a dyoddefiadau yr eglwys a'i llwyddiant hithau; mewn gair, llawer o efengyl.

12. *Malachi*. Dyma y diweddfaf oll o brophwydi yr hen Destament. Ni roddir ond ei enw yn unig, dim ynghylch ei dylwyth na'i wlad, a chan hyny dyma faes gwych i ddychymyg, a bu yn brysur iawn ynddo, a chasglodd gnydau o'i ffrwythau allan o hono. Myn ddychymyg rhai mai angel o'r nefoedd ydoedd, gan mai ystyr y gair *Malachi* yw angel neu genad; ereill mai *Ezra*; ereill mai *Mordecai*; ac ereill mai gwr o lwyth *Zabulon* oedd ac iddo farw yn ieuanc.

Y mae y prophwyd hwn yn ceryddu yr Iuddewon yn llym am eu hesgeulusdra o *wasanaeth* y deml. Ceryddai *Haggai* a *Zecharia* hwy am esgeuluso *adeiladu* y deml, a *Malachi* am ei halogi drwy esgeuluso ei *gwasanaeth*, neu ei gyflawni yn hanerog a rhagrithiol. Ac fel mai efe oedd i fod yn olaf o'r prophwydi, llefarai yn oleuach ac eglurach am y *Messia*, nag un arall o'r prophwydi, gan hysbysu ei fod ar ymddangos, ac y deuai yn ddisymwth, ac y byddai ei ddyfodiad yn danlyd ac annyoddefol iawn i ryw rai.

III. Yr *Haggiographia*, neu *Ysgrifeniadau Sanctaidd*.

Job. Gosodir *Job* yn y dosparthiad diweddfaf a wnaeth yr Iuddewon o'r llyfrau canonaidd, yn rhestr yr *Ysgrifeniadau Sanctaidd*, yn nghyd a'r *Croniclau*, *Ezra*, *Nehemia*, *Esther*, a *Daniel*: ond yn y dosparthiad cyntaf, cyflëir ef yn nosparth *ysgrifeniadau* y prophwydi.

Pa amser yr oedd *Job* yn byw, sydd ansicr; y dyb fwyaf cyffredin ydyw, mai rhwng amser marwolaeth *Joseph* a genedigaeth *Moses*: nid ymddengys y dystiolaeth a rydd *Duw* am dano, 'Nid oes gyffelyb iddo ar y ddaear,' mor briodol i unrhyw gyfnod arall o amser. Ni ellir penderfynu chwaith pwy oedd *ysgrifenydd* y llyfr; rhai a haerant mai *Moses*, a rhai mai *Job* ei hun, a rhai mai *Elihu*; ond gallwn fod yn hyderus yn hyn, sef, pwy bynag a'i *hysgrifennodd*, ei fod yn

cael ei arwain a'i ddysgu gan Ysrydoliaeth Duw, ac yna nid yw o nemawr bwys i ni pwy ydoedd.

Cenhedl-ddyn oedd Job, ac felly ei gyfeillion; nid oedd gwir grefydd wedi llwyr ddiffoddi yn mysg y Cenhedloedd yn yr amser hwn: a gallai fod gan yr Arglwydd lawer o dystion cywir drosto mewn llawer o wledydd, yn erbyn eulun-addoliaeth a llygredigaethau y byd, y pryd hwnw, heblaw had Abraham, er nad oes genym hanesion am danynt. Wele Job a'i gyfeillion yn ddyinion mawrion mewn duwioldeb, yn llewyrchu fel sêr o'r maintioli mwyaf yn nghanol y nos a'r fagddu a oedd yn gorchuddio y ddaear yr amser hono.

Cynwysa y llyfr—

Yn gyntaf, Hanes Job yn ei lwyddiant, lle y crybwyllir ei wlad, Us, un o barthau dwyreiniol Arabia, yn gorwedd gerllaw Caldea, ac Euphrates; nid yn mhell o Ur y Caldeaid, o'r lle y galwesid Abraham allan, fel y tybir—ei grefydd, yn wr cyfiawn a duwiol, &c.—ei gyfoeth helaeth a'i uchafiaeth, yn 'fwyaf o holl feibion y dwyrain.' Y mae yn dra thebygol ei fod yn brif swyddog, neu dywysog y wlad hono.

Yn ail, Hanes Job yn ei adfyd, ei dlodi, a'i gystudd—y dadymchweliad mawr a disymwth a brofodd, lle y crybwyllir yr hyn a fu yr achlysur o hono, sef, malais a dygasedd gelyn Duw a daioni tuag ato, o herwydd ei grefydd—y caniatâd a gafodd gan Dduw i ddinystrio meddiannau, plant, ac wedi hyny iechyd Job—y modd y gwnaeth hyny—yn nghyd a'r modd duwiol a dyoddefgar yr ymddygodd Job yn ei dywydd blin ac adfydus.

Yn drydydd, Y ddadl a gyfododd oddiar yr amgylchiadau hyn rhwng Job a'i gyfeillion, yn nghylch goruchwyliaethau rhagluniaeth ddwyfol, lle yr haerai Eliphaz, Bildad, a Sophar, bod yr amgylchiadau a gyfarfuant Job yn brawf sicr o'i fod yn rhagrithiwr annuwiol: ac y dadleuai Job o'r ochr arall fod y dynion gwaethaf yn aml yn llwyddiannus yn y byd, a'r dynion goreu yn cyfarfod a thrallodion mawrion. Yn nesaf, y mae Elihu yn dyfod yn ganol-wr rhyngddynt, ac yn beio y ddwyblaid—cyfeillion Job am ei farnu yn euog heb ei brofi, a Job ei hun am lefaru yn rhy hyf am ffyrdd Duw, a chyfiawnhau gormod arno ei hun. Yn ddiweddfaf oll, y

mae yr Arglwydd ei hun yn ymresymu â Job, yn ei alw i gyfrif am rai o'i ymadroddion, nes y mae Job yn cywilyddio, yn ymostwng, ac yn edifarhau mewn llwch a lludw ger ei fron.

Yn bedwerydd, Adferiad Job—lle y crybwyllir am y cerwydd a gafodd ei dri chyfaill gan Dduw—Job yn gweddio drostynt—dychweliad ei gaethiwed yn fwy na'i ddechreuad, drwy ddyblu ei feddiannau, ei blant, a'i hiliogaeth—a'i farwolaeth mewn oedran teg, yn llawn o ddyddiau.

Y mae y llyfr i gyd yn brydyddiaeth, ond y ddwy bennod gyntaf, a'r un ddiweddfaf. Y farddoniaeth a gynwysa y syniadau mwyaf aruchelwych a grymus am fawredd Duw, &c. a ddychon iaith a geiriau osod allan. Pwy bynag yw awdwr y gân arwraidd hon, gellir yn hawdd ei dangos fel deryn o orchestwaith wedi ei chyfansoddi yn mbell cyn dyddiau Homer, yr arch-fardd Groegaid, ac o'r fath deilyngdod ac ardderchowgrwydd na ddaeth un o honynt byth i'w gydraddu.

Y mae y llyfr hwn yn drysor tra gwerthfawr, fel esponiad ar lyfr rhagluniaeth—fel y mae yn gof-golofn o wir dduwinyddiaeth a duwioldeb yn ngwlad y cenhedloedd yn nyddiau boreuol y byd—yn gosod ger ein bron gysgod nodedig o Grist yn ei ddarostyngiad, ei ddyoddefaint, a'i ddyrchafiad—ac esiampl neullduol i'r Cristion i'w ddylyn mewn dyoddef adfyd a chroesau yn amyneddgar a thawel. 'Wele, dedwydd yr ydym yn gadael y rhai sy dyoddefus. Chwi a glywsoch am amynedd Job, ac a welsoch ddiwedd yr Arglwydd.'*

Ezra—Offeiriad ac ysgrifenydd cyfraith Duw ; 'efe oedd ysgrifenydd cyflym yn nghyfraith Moses, yr hon a roddasai Arglwydd Dduw Israel,' medd yr hanes am dano.† Cododd yn ddiwygiwr mawr a gwresog wedi y dychweliad o Babilon. Gwnaeth wasanaeth mawr, nid yn unig i'w genedl a'i genhedlaeth ei hun, ond hefyd i eglwys Dduw a'r byd, dros bob cenhedlaeth ac oes, drwy grynhôl y gyfrol sanctaidd y'ng hyd a chyflenwi a'i bin ei hun yr adwyon a'r diffygiadau ag oedd-ynt wedi eu gadael ynddynt gan yr ysgrifenydd cyntaf, neu

* Iago v. 11.

† Ezra vii. 6.

eu copiŵyr. Dïau mai yr un Ysprydoliaeth ag a gynhyrfasai ac a gyfarwyddasai yr ysgrifenyddys sanctaidd o'r blaen, a gynhyrfodd ac a gyfarwyddodd yr ysgrifenydd hwn i gasglu yn nghyd, adolygu, a threfnu yr ysgrifeniadau hyny, fel y byddent yn gymwys o ran trefn, iaith, a dullwedd, i'w cyhoeddi i'r byd.

Y llyfr a gynwys, hanes dychweliad y gaethglud o Babilon—hanes adeiladaeth yr ail deml, a'r gwrthwynebwyr a gwrthwynebiadau i'r gwaith—dyfodiad Ezra i Jerusalem—a'r diwygiad mawr y bu yn offerynol i'w ddechreu a'i ddwyn yn mlaen yno.

Nehemiah. Efe oedd drulliad i frenhin Persia, ac yn wr anrhydeddus yn ngolwg ei Arglwydd. Nid yw hysbys o ba lwyth yr oedd, ond y mae yn amlwg ei fod yn Israeliad yn wir, yn wr na allai fwynhau llawnder ac esmwythfyd ei hunan yn Susan, brenhinllys Persia, tra yr ydoedd ei frodyr yr Iuddewon mewn adfyd a thlodi yn Jerusalem. 'Yn fy nghyfrif i,' medd Henry, 'y mae Ezra yr ysgrifenydd, a Nehemiah y Tirshatha, er na ddarfu i'r naill na'r llall o honynt erioed wisgo coron, llywyddu byddin, goresgyn unrhyw wlad, na chwaith yn enwog fel athronyddion, neu areithwyr; eto, gan fod y ddau yn wyr mawrion mewn gweddi a duwioldeb, ac yn dra defnyddiol i eglwys Dduw ac achos crefydd yn eu hoes, y maent yn fy nghyfrif i, meddaf, yn llawer mwy dynion, ac yn anrhydeddusach, nid yn unig, na'r maes-lywyddion Rhufeinaidd, ond na Xenophon, Demosthenes, neu Plato ei hun, rhai oedd yn byw o ddeutu yr un amser â hwy, yn oleuadau ac addurniadau gwlad Groeg.'

Rhydd y llyfr hanes, iselder cyflwr yr Iuddewon a Jerusalem wedi dychweliad y gaethglud, ac iselder meddwl a theimlad Nehemiah o herwydd hyny—ei ddyfodiad i Jerusalem, a'i waith yn dechreu ac yn dwyn yn mlaen adeiladaeth mŷr y ddinas, a'r gwrthwynebiadau cryfion a gafodd oddiwrth elynion—ei waith yn barnu ac yn ysgafnau beichiau y bobl, yn gorphen y mur, yn cyfrif y bobl—y diwygiad crefyddol mawr y bu yn foddion i'w effeithio drwy weddio, darlleniad y gyfraith, ac ymgyfamodi—a'i ymdrech a'i lwyddiant i buro y genedl oddiwrth amryw lygredigaethau, a drwg arferion. Rhai a'i galwant yn ail lyfr Ezra. nid o herwydd

mai efe a'i hysgrifenodd, ond o herwydd ei fod yn barhâd o hanes y llyfr hwnw, ac mewn cysylltiad dylunol iddo. Hwn yw y llyfr hanesyddol diweddfaf, fel Malachi y llyfr prophwydoliaethol diweddfaf, o'r hen Destament.

Esther. Mordecai, y mae yn llwyr debygol, ydoedd ysgrifenydd y llyfr hwn. Fel ag mae y ddau lyfr blaenorol yn rhoddi hanes amgylchiadau yr Iuddewon a ddychwelasant i Judea a Jerusalem, rhydd y llyfr hwn hanes amgylchiad nodedig y bu yr Iuddewon a arosasant yn ol, ag oeddynt yn wasgaredig ar hyd amrywiol daleithiau ymerodraeth Persia, ynddo. Er nad yw enw Duw Israel yn argraffedig yn y llyfr, y mae ei law a'i waith yn amlwg iawn yn yr hanes a gynwysa, yn gwneuthur i 'gynddaredd dyn ei foliannu, ac yn gwahardd gweddill ei gynddaredd'—yn dyddymu amcanion y cyfrwys, fel na allai ddwyn dim i ben—yn gwaredu ei bobl mewn ffordd annysgwylidwy o safu y dinystr yr oedd eu gelynyon ar ei ddwyn arnynt, ac yn ei ddatroi ar ben y cynlluniwr o hono, fel y bu yn noddfa, yn nerth, yn gymhorth bore iawn a hawdd ei gael iddynt yn y cyfyngder hwn. 'Oni buasai yr Arglwydd, yr hwn a fu gyda ni, y gall Israel ddywedyd yn awr.'

Y Salmu. Gellid galw y llyfr hwn yn enaid yr hen Destament—analdiadau gwir grefydd. Y llyfrau o'r blaen, gan mwyaf, a gynwysent hanes amgylchiadol a helyntion tymhorol yr eglwys—a hwn ei helyntion a'i hamgylchiadau mewnol ac ysprydol—myfyrdodau duwiol ar nodwedd a gweithredoedd Duw fel Creawdwr, llywodraethwr, a Duw iachawdwriaeth—adroddiad o brofiadau trallodus yr enaid duwiol mewn ymdrechadau ag anghrediniaeth, ofnau, amheunon, a drygau ysprydol ereill—gweddiau taerion, gafaelgar, a ffyddiog, yn wyneb gwahanol amgylchiadau a phroffedigaethau—caniadau melysion o foliant a diolchgarwch am waredigaethau a bendithion tymhorol ac ysprydol. Y maent yn llawnion o Dduw, yn llawnion o Grist, ac felly yn llawnion o efengyl; yn llawnion o athrawiaeth, addysgiadau, hyfforddiant, cysuron, ac o bob peth angenrheidiol i wneuthur y llyfr yn drysor o'r fath werthfawrocaf i'r eglwys ac i bob Cristion ar y ddaear hyd ddiwedd amser.

Dafydd, peraidd ganiedydd Israel, a gyfansoddodd y rhan

fwyaf o lawer o honynt. Priodolir amryw o honynt i Asaph, y pen cerddor yn ngwasanaeth y deml yn nyddiau Dafydd; un i Moses, a rhyw ychydig o honynt a gyfansoddwyd gan ryw un neu ryw rai wedi y dychweliad o Babilon.

Diarhebbion. 'Solomon, mab Dafydd, a brenhin Israel,' y cyfoethocaf o frenhinoedd a'r doethaf o ddynion, a lesarodd ac a ysgrifennodd y Diarhebbion hyn. Y mae y llyfr hwn yn dra gwahanol ei ddullwedd i'r holl lyfrau blaenorol a dyllynol, oddieithr Hosea; yn ymadroddion byrion cynhwysfawr, wedi eu cyfaddasu a'u trefnu oll er gweinyddu addysgiadau mesol ac ymarferol. Megis ag y mae llyfr y Salmau yn gymborth a chyfarwyddwr i ni yn y cyflawniad o'n dyledswyddau crefyddol, gweddïo a moliannu Duw yn bersonol, yn deuluaidd, a chynnulleidfaol, rhydd y llyfr hwn gyfarwyddiadau er iawn drefn buchedd ac ymarweddiad, drwy wrthgyferbynu ymddygiad rhinweddol â beius, gan argymell y naill a gwahardd y llall. Y maent yn cynwys egwyddorion a rheolau iawn foes a rhinwedd i bob gradd, amgylchiad, a sefyllfa—yn fuddiol i addysgu a hyfforddi mewn cyfiawnder—yn deilwng o Dduw, yn dda a buddiol i ddynion.

Pregethwr. Y bregeth a gynwys olygiadau a theimladau Solomon yn ei hen ddyddiau—yr hyn a brofasai efe yn ei oes, drwy yr hyn y daethai i adnabod y byd, i adnabod y natur ddynol yn gyffredinol, ac i'w adnabod ei hun yn neullduol; yr hyn a'i galluogai ac a'i cymhwysai i ffurfio a datgan ei farn yn y pethau hyny, er rhybudd ac addysg ereill: yr hon a gynwysir yn yr ymadroddion hynod, 'Gwagedd o wagedd, gwagedd yw'r cwbl,' a'r rhai a adroddir drosodd a throsoedd drachefn yn y bregeth.

Y mae yn dra amlwg mai yn mlynnyddau olaf ei fywyd, wedi adferiad o'i gwmp gwarthus, yr ysgrifennodd Solomon y bregeth hon: a dyma'r unig dystiolaeth sydd genym am ei adferiad, oblegid gedy yr hanes ef yn hollol yn y tywyllwch.

Wedi iddo adolygu y byd yn ei holl orchwyllion, ei helyntion a'i fwynderau, a'i brofi yn wagedd, a rhoddi darluniad cywrair o'r natur ddynol yn ei mynediad drwyddo, o dynerwch blodeuog ei hieuenctid hyd wywdra a difaniad ei henaint, terfyna ei bregeth gyda chymhwysiad byr, priodol, a nerthol

oddiwrth y cwbl, yn yr hwn y gesyd allan ogoniant a rhagoroldeb gwir grefydd fel yr unig beth o wir a sylweddol werthfawrogrwydd. 'Swm y cwbl a glybuwyd yw, Ofua Dduw, a chadw ei orchymynion; canys hyn yw holl ddyled dyn.'

Caniad Solomon. Ymddengys Solomon ar faes y datguddiad dwyfol yn y llyfrau a ysgrifeuwyd ganddo, dan dri nodwedd, Diarhebwr, Pregethwr, a Chaniedydd. Cyfansoddodd fil a phump o ganiadau, ond nid oes ond yr un hon ar gael.

Sylwa Henry, fod y gân hon o eiddo Solomon yn dra anhebyg i ganiadau ei dad Dafydd; nad yw enw Duw yn cael ei grybwyll ynddi, nad oes cyfeiriad ati yn y Testament newydd, nad ydym yn cael dim o ansawdd crefydd naturiol ynddi, nag o dduwiol-frydedd; ac nad ydyw chwaith yn cael ei dwyn ger bron fel gweledigaeth, nag unrhyw nod arall o ddatguddiad dwyfol uniongyrchol, a bod mor anhawdd ei gwneyd yn arogl bywyd i fywyd, ag un rhan o'r gair sanctaidd, ac i'r rhai a'i darllenant gyda meddwl cnawdol, a serchiadau llygredig, ei bod yn beryglus o droi yn arogl marwolaeth i farwolaeth; y mae yn flodeuyn o'r hwn y tynant wenyw yn allan; ac o herwydd hyn y cyngorai y dysgawdwy'r Iuddewig eu dynion ieuanc i beidio a'i ddarllen hyd nes y byddent yn ddeg-ar-hugain oed, rhag ofu iddynt drwy gamddefnyddio yr hyn sydd ynddo ei hun yn bur a sanctaidd, i enyn fflaman chwant â than o'r nefoedd, yr hwn a fwriedid at wasanaeth yr allor yn unig.

Ond diameu mai 'am Grist ac am yr eglwys,' y traetha y gân; yr undeb, y caredigrwydd, sydd rhyngddynt a'u gilydd, rhagoriaethau a gogoniant y naill a'r llall. Wrth ei golygu yn yr ystyr yma, gwelir y priodoldeb o'i galw yn 'Gan y Caniadau,' a phriodoldeb yr arwyddluniau a'r cydmariaethau a ddefnyddir i osod allan ragoriaethau ei gwrthrychau. Rhodder unrhyw gymhwysiad neu ystyr arall iddi, golyger nad ydyw yn dal un berthynas â, na bod ganddi un golygiad ar Grist a'r eglwys, mai nid yr undeb a'r anwylder ysprydol hwn yw testun y gân, yna, nid yw yn 'Gân y caniadau' mwyach, oddieithr mewn anghymwysedd a gwrthuni llawer o'i chydmariaethau, ac hyd yn ôd anweddeidd-dra ac anianoledl llawer o'i hymadroddion. 'Pan y byddom yn

ymosod at fyfyrlo y llyfr hwn,' medd y duwiol Henry, 'rhaid i ni nid yn unig ddyosg ein hesgidiau, megis Moses a Joshua ac hyd yn ôd anghofio bod genym gyrph, oblegid bod y lle y sangwn arno yn ddaear sanctaidd, ond rhaid i ni, megis Ioan, ddringo i fynu, lledu ein hadenydd, cymeryd ehedfan uchel, hyd nes drwy ffydd a chariad puraidd yr elom i mewu i'r sanctaidd sancteiddiolaf, oblegid 'nid oes yma onid ty i Dduw, a dyma borth y nefoedd.'

Galarnad Jeremia. Cawsom o'r blaen achlysur i sylwi ar brophwydoliaeth olaf yr hen Destament, yn Malachi, a'i hanesyddiaeth olaf, yn Nehemia; wele eto yr olaf, o ran amser ei chyfansoddiad, o'i ganiadau, oddigerth un neu ddwy o Salmau byrion, a gyfansoddwyd wedi caethiwed Babilon.

Wedi i Jeremia brophwydo dinystr Jerusalem, a chaethgludiad y genedl i Babilon, cafodd fyw i weled cyflawniad manwl ei brophwydoliaeth; ac ar ol i hyny gymeryd lle, tywalltodd deimladau gofidus ei feddwl uwch ben y difrod yn y dull mwyaf cyffrôs a thoddedig, fel y gwelir yn y ganiad alarus hon. Yr oedd o ddefnydd mawr yn ddiâu i'r eglwys yn Babilon, er ei dysgu i weled a theimlo drygedd y dyrywiad a'r pechodau hyny a dynasant y dirmyg arni, a chyfiawnder Duw yn ei geryddon; ac yn rhoddi ymadroddion yn ei genau, i osod allan ei chyffwr a'i theimladau dan y ceryddon hyny. Y mae yr un modd er rhybudd ac addysg yr eglwys yn mhob oes.

Gan ein bod wedi rhoddi dosparthiad o'r Testament newydd, a sylwi ychydig ar ei gynwysiad mewn lle arall yn y gwaith hwn, di-angenhaid ydyw ychwanegu yn bresennol.

Yr ydym yn awr, fy narllenydd, yn tynnu tua diwedd hyn o lyfryn, wedi bod yn tremio ychydig ar hyd meusydd natur a datguddiad—a chymeryd bras olwg ar belyntion moesol y byd—yn profi egwyddorion doethion y cenedloedd—anffyddiaid ein gwlad ein hunain, a'r eiddo y Bibl sanctaidd—yn ceisio dangos a phrofi anhebgorol angen y byd am ddysgawdwr a dysgeidiaeth oruwch-naturiol i'w arwain allan o dywyllwch a thrueni—yn ymdrechu profi drwy lawer o resymau, fod Ysgrythyrau yr hen Destament a'r newydd a hwyntwy yn unig yn cynwys y fath ddatguddiad ag oedd ar y byd

angen am dano, a'i fod yn dwyn nodau diymwad o ddwyf-
 folder—cymerasom olwg ar ansawdd a nodwedd egwydd-
 orion y llyfr dwyfol hwn, gan gymeryd y fantais i nodi allan
 rai o'i brif egwyddorion; a chynhygiasom rai cyfarwydd-
 iadau cynhorthwyol i'w ddarllen a'i ddeall. Yn ddiweddaf
 oll, edrychasom yn fyr dros nodwedd ysgrifenyddwyr ac ysgrif-
 eniadau yr hen Destament, gan daflu cip olwg ar gynhwysiad
 ac amcan pob llyfr. Cofied y darlennydd o hyd mai llyfr o
 egwyddorion ysprydol yw y Bibl, a bod yr amgylchiadau a'r
 ffeithiau, a phob peth oll a gofnodir gan bob un o'r ysgrifen-
 wyr sauctaidd, wedi eu dethol gan ddwyfol ysprydoliaeth er
 egluro, gosod allan, a dysgu yr egwyddorion hyny. Dychon
 ddarfod i lawer o amgylchiadau mor hynod ynddynt eu hun-
 ain ddygwydd yn amserau y naill a'r llall o'r dynion sanct-
 aidd a ysgrifenasant y gyfrol ysprydoledig, a'r rhai a gof-
 nodir ynddi—bod llawer o bregethau y prophwydi, y rhai nad
 ydynt ar lawr yn y Bibl, mor bur a dwyfol ynddynt eu hun-
 ain a'r rhai ydynt wedi eu traddodi ar ei ddalenau, &c. ond
 yn ddiâu, detholwyd y rhai mwyaf priodol i wasanaethu er
 ateb amcan a dyben yr Yspryd yn ei roddiad i'r byd. Boed
 ninau ei dderbyn, ei gredu, ei barchu, a'i ddefnyddio, 'nid
 fel gair dyn, ond fel y mae yn wir yn air Duw.' 'A chyn-
 nifer a rodiant yn ol y rheol hon, tangnefedd arnynt, a thru-
 garedd, ac ar Israel Duw. Amen.'

PENNOD XIII.

Y BIBL YN UNIG BROFIEDYDD CRED, A RHEOL BUCHEDD.

“AT Y GYFRAITH, AC AT Y DYSTIOLAETH.”

ADDAWYD yn yr hysbysiad cyhoeddedig o'r llyfryn hwn y traethid ychydig ar ddigonolrwydd a pherffeithrwydd y gair dwyfol fel unig réol ffydd ac ymarferiad ; cyflawnir yr adduned hono mewn ychydig sylwadau yn awr, cyn terfynu.

Cyn myned i mewn i'r mater hwn, gall fod rhai nodiadau rhag-arweiniol yn angenrheidiol ; oblegid fod peth gwahaniaeth golygiadau yn mysg Crist'nogion mewn perthynas iddo ; neu o leiaf felly y'nghylch y golygiadau a gyflwynir i sylw ar y mater yn y llinellau canlynol.

Er mwyn mantais i'r darllenydd i ddeall yn well pa beth yw yr hyn y sefir drosto ar un llaw, a'r hyn a wrthwynebwr ar y llaw arall, yn y pwnc dan sylw,

Sylwer yn gyntaf, Nad ydys, wrth haeru mai y Bibl yw unig reol ffydd a llywodraeth yr eglwys, yn gwadu hawl gyfreithlawn, unrhyw enwad o Grist'nogion, cymanfa o weinidogion, eglwys neu gymulleidfa, neu ynte berson neillduol perthynol i unrhyw gangen o eglwys Crist, i ffurfio a chyhoeddi mynegiad, neu gyffes o'u golygiadau ar athrawiaethau y datguddiad dwyfol, ac ar réolau dysgyblaeth a llywodraeth eglwysig. Dylai fod gan holl weinidogion, swyddogion, ac aelodau yr eglwys eu golygiadau cydwychodol ar y pethau hyn, ac nid oes neb, hyd y gwn i, yn gwadu nac yn ameu hawl gyfreithlawn cyfundeb o eglwysi, eglwys, neu berson neullduol, i gyhoeddi a datgan eu golygiadau yn y ffurfa'r dull a ddewisont. Y mae yr holl eglwysi Protestanaidd wedi gwneuthur hyny.

Ni all fod un ddadl na gwrthwynebiad i gyffes ffydd, fel y cyfryw, mwy nag i ryw lyfr arall ar dduwinyddiaeth; gan hyny, nid yn nghylch cyfreithlondeb ffurfio a chyhoeddi golgygiadau ar y gwirionedd sydd i'w gredu a'r llywodraeth sydd i'w gweinyddu gan ac yn eglwys Crist, y mae y ddadl.

Yn ail, Yr ydys yn addef yn mhellach ei bod yn rhesymol, yn deg, ac yn ngwyneb rhai amgylchiadau yn gwbl angenrheidiol, i unrhyw gyfundeb o Grist'nogion, neu eglwys neullduol, i osod allan yn gyhoeddus eu credo, neu eu golygiadau ar athrawiaethau crefydd, a threfn eglwysig. Dychon i gyfundeb o Grist'nogion, neu eglwys neillduol, gael eu camddarlunio a'u camgyhuddo drwy briodoli iddynt olygiadau ac opiniynau y rhai na byddont mewn un modd yn eu dal a'u cyhoeddi, a gall y cyfundeb neu yr eglwys gael eu mawr niweidio yn eu nodwedd a'u hamgylchiadau drwy hyny; bu y cyfryw beth lawer gwaith, a gall fod eto: ac y mae yn ddyledus ac angenrheidiol, yn wyneb y fath amgylchiadau, i gyfundeb neu eglwys gamgyhuddedig i osod allan a chyhoeddi crynodeb o'r egwyddorion a gredir neu a amddiffynir ganddynt. Ymddengys mai hon yw yr unig ffordd y gallant wneuthur cyfiawnder â hwy eu hunain, ac â'r werin ag sydd mewn perygl o gael ei chamarwain yn ei thybiau am danynt. Cyn belled â hyn, ni ddychon fod un gwrthwynebiad rhesymol i gyhoeddi erthyglau, credo, cyffes, neu fynegiad o'r egwyddorion ag y byddo plaid o Grist'nogion neu eglwys yn cytuno i'w dal a'u proffesu. Ni all fod cyhoeddi llyfr o erthyglau ar ffurf a than yr enw 'Cyffes Ffydd,' heb un amcan na dyben mewn golwg ond a grybwyllwyd, fod yn ddim mwy o ddianrhydedd i'r Bibl, nag ydyw cyhoeddi unrhyw lyfr arall ar ryw gangen neu ganghenau o dduwinyddiaeth.

Ond, yn drydydd, Yr hyn ac wrthwynebir a y dadleuir yn ei erbyn ydyw, gwneuthur erthyglau neu gredo o gyfansoddiad dynol yn ddeddf a chyfraith, i fod yn amod cymundeb eglwysig, yn rhwymyn unffurfiaeth barn, yn faen prawf gwirionedd a chyfeiliornad i gyfundeb o Grist'nogion. Arosod unrhyw erthyglau neu gyffes heblaw y gair dwyfol fel deddf yn eglwys Crist, drwy naill ai awdurdod wladol neu gymanfa'ol, neu unrhyw ffurf arall o awdurdod a ddychon fod, neu a ddychon godi eto—dyma yr hyn a olygir

yma yn 'dra-awdurdodi ar etifeddiaeth Dduw,' yn sarhad ar awdurdod Crist fel unig frenhin a phen ei eglwys, yn wadiad ymarferol o ddigonolrwydd y Bibl fel unig ddeddf-lyfr teyrnas nefoedd, ac yn wadiad effeithiol o egwyddor sylfaenol y diwygiad Protestanaidd, sef, mai y Bibl yn unig yw crefydd Protestaniaid. Y mae pob un a broffeso ei gyd-syniad a'r datganiad uchod, yn proffesu hollol ymwrthodiad a phob traddodiad a gosodiad dynol fel peth o ddim awdurdod mewn crefydd, ac yn llawn gydnabod awdurdod yr Ysgrhythrau fel unig ddeddf-lyfr athrawiaeth allywodraeth yr eglwys. Rhaid fod pob erthyglau a chredöau a arosodir fel amodau cymundeb eglwysig yn brofiedyddion i apelio atynt er penderfynu cywirdeb neu anghywirdeb golygiadau personau neu eglwysi wrthynt—y delir allan bod llywodraethiad yr eglwysi i gael ei weinyddu yn unig yn ol y rhöolau gosodedig hyny—rhaid fod hyn, meddaf, yn gloddio dan sylfaen yr adeiladaeth Brotestanaidd, yn Wrth-brotestaniaeth, ac yn ymwadiad ar unwaith â'i hegwyddor sylfaenol. Y mae y broffes a'r ymddygiad yn gwrthdaro eu gilydd, y broffes yn Brotestanaidd, a'r ymddygiad yn rhywbeth arall.

Nid yw y ddadl a ddygir yn mlaen gan bleidwyr awdurdod cyffesion, a chredöau, sef, bod awdurdod y Bibl yn cael ei gydnabod, yn eu herthyglau, ac mai allan o'r Bibl y tynwyd hwy, &c. yn tycio dim mewn gwirionedd: haera pob plaid o Grist'nogion drwy Ewrop a'r byd, ag sydd o berchen cyffes argraffedig, yr un peth. Pa beth a ddychon fod yu fwy amlwg nag ydyw, mai sylwedd pob erthyglau a chyffes yw golygiadau y person neu y personau a'i cyfansoddent, y senedd neu y Gymanfa y cytunid arni ynddi, y gosodid sêl ei hawdurdod wrthi i'r dyben i roddi grym cyfraith ynddi. Golygiadau y dynion hyny ar y Bibl, meddaf, yw y gyffes; a'r golygiadau hyny a wneir yn gyfraith a rheol i dderbyn i mewn, baruu yn, a bwrw allan o'r eglwys, wrthi: ac felly y mae awdurdod ddwyfol y gair noeth yn cael ei osod o'r neulldu a'r golygiadau dynol ar y gair, cynwysedig mewn erthyglau neu greddo a basiwyd gan uail ai senedd wladol neu gymanfa eglwysig, yn cael eu gosod i fynu yn ei le, a holl aelodau y cyfundeb hwnw yn cael eu rhwymo, cyn belled ag y cyrhaeddo yr awdurdod i rwymo, i gredu a

chyffesu y golygiadau hyny. Wrth erthyglau y credo y cyfiawnheir neu y condemnir yn ddiwahaniaeth pob athrawiaeth a syniad fel gwirionedd neu gyfeiliornad. At y gyffes a'r credo, ac nid 'at y gyfraith a'r dystiolaeth,' yr apelir er terfynu pob dadl ac ymryson a ddychon gyfodi yn nghylch pwnc o athrawiaeth neu fater o ddysgyblaeth. Fel hyn y mae anffaeledigaeth golygiadau y credo yn cael ei ddal allan yn y modd mwyaf pennodol mewn ymarferiad, er fe allai na feiddiai un blaid gyhoedd hōni hyny mewn geiriau, a'i ddal allan mewn profies. Hwyrach nad oes nemawr blaid Brotestanaidd a feiddiai fyned mor bell a haeru nad allai un fod yn Gristion ac yn dduwiol o ran ei gyflwr, ag a fyddai ar yr un pryd yn barnu yn wahanol mewn amryw bethau i'w chredo sefydledig hi. Gallai ymosyn am aelodaeth eglwysig gyda hi, neu fod eisoes yn aelod, ac wedi cyfnewid yu ei farn, ond er cael lle i feddwl yn dda am ei gyflwr 'wrth ei chyfraith hi, fe ddylai farw,' *h. y.* dylai gael ei wrthod neu ei fwrw allan, o herwydd nad yw yn gallu parablu ei Shibboleth yn groew. Os derbynir, neu os goddefir ef i fod yn aelod, y mae y gyfraith yn cael ei gosod o'r neulldu; os ymddygir yn ol y gyfraith tuag ato, *g* mae, yn ol ei haddefiad ei hun, yn gwrthod un ag y mae ganddi le i farnu, a dderbyniodd 'Crist i ogoniant Duw; ac a ydyw yn debyg fod yr eglwys hono, neu y cyfundeb hwnw o Grist'nogion yn rhyngu bodd i Grist wrth wrthod derbyn i mewn, neu fwrw allan, un ag y mae efe wedi ei dderbyn i'w deyrnas a'i ffafr? Ni ellir tybied. Y mae pob cyfundeb ac eglwys ag a fyddo wedi ymlyfetheirio yn ngosodiadau credöau dynol, yn rhwym o fod bob amser yn agored i'r dryswch a'r perygl hwn. Os gofynir dim fel amod cymundeb Crist'nogol, heblaw; cyffes darostyngiad yr ymgeisydd i awdurdod ddwyfol y Bibl noeth—dim i barhau ei hawl yn ei aelodaeth heblaw rhodiad 'yn ol y rheol hon'—y mae y blaid neu yr eglwys hon yn anturio ei hunan i wyneb y perygl mawr o gau drws ei chymundeb weithiau yn erbyn rhai fe allai ag y 'trefnir iddynt helaeth fynediad i mewn i dragwyddol deyrnas ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist,' tra, ond odid, yn cadw o'i mewn ac yn gwahodd at ei bwrdd, rai o'r llawer y dywed efe wrthynt 'yn y dydd hwnw, Nid adnabum chwi erioed, ewch ymaith oddiwrthyf.'

Dadleuir weithiau, bod hawl gan bob plaid a chymdeithas i lunio ei herthyglau a sefydlu ei threfniadau a rheolau ei llywodraeth eglwysig ei hun, yn y dull y gwelo yn dda; ac os bydd aelodau y gymdeithas ei hun yn cyduno ac yn boddloni iddynt, nad oes gan neb hawl nac achos i'w beio am hyny. Y mae hyn yn eithaf gwir am bob cymdeithas wladol a dyngarol, cymdeithasau nad yw Iesu Grist yn ben iddynt fel y mae i'w eglwys, ag nad oes yn ngair Crist egwyddorion a rheolau perthynol iddynt wedi eu rhoddi: ond y mae yr eglwys Grist'nogol yn gymdeithas hollol wahanol yn ei natur a'i chyfansoddiad. Y mae yr eglwys yn ddarostyngedig i Grist, a'i eiddo ef yn unig fel ei phen a'i brenhin, ac y mae efe fel ei phen a'i brenhin wedi sefydlu ei deddfau a'i rheolau; rhoddodd dystiolaeth i'w selio a chyfraith i'w rhwymo 'yn mhlith ei ddysgyblion,' ac ni all fod gan gymdeithas a'i galwo ei hun ar ei enw ef, yr unrhyw awdurdod yn yr ystyr yma ag sydd gan gymdeithasau ereill. Y mae ei '*thystiolaeth*,' egwyddorion ei ffydd, a'i '*chyfraith*,' rheol ei llywodraeth, wedi eu '*selio*' a'u 'rhwymo' ynddi gan ei phen a'i pherchenog, a'i gwaith hi ydyw chwilio allan feddwl y dystiolaeth, ac ymdrechu deall y gyfraith, mewn trefnu i gredu y naill, ufuddhau a gweinyddu y llall; ac nid ffurfio tystiolaeth a chyfraith o'i golygiadau ei hun, a gosod y rhai hyny i fynu drwy awdurdod senedd neu gym-anfa, a galw ar ei holl aelodau dan boen esgymundod i'w credu ac ymostwng iddynt. Y mae y ddadl o fod gan y gymdeithas Grist'nogol yr un hawl ag sydd gan gymdeithasau ereill yn yr achos dan sylw, yn arwain i'r canlyniadau mwyaf dinystriol i'w heddwch a'i phurdeb; yn agoryd y drws ar unwaith i drais a thraddodiadau dynol ddyfod i mewn yn genllif dinystriol iddi, i ddadymchweliad gorsedd-fainc Crist o'i mewn, ac i hollol osod o'r neulldu yr awdurdod a'r llywodraeth y mae ei air ef i gael ynddi fel ei deddf a'i rheol.

Dadl arall a ddefnyddir er cyfiawnhau gosodiad ffurf bennodol o gredu yn amod a rhwymyn undeb eglwysig, ydyw fod y peth yn fanteisiol ac angenrheidiol er atal cyfeiliornadau ac ymrianiadau yn yr eglwys; cadw purdebathrawiaeth, undeb ac unfurfiaeth mewn barn, drwy rwymo holl aelodau

y cyfundeb wrth yr un ffurf, ac yn yr un farn. Ond pa bryd ac yn mha le erioed yr atebodd y dybenion hyn? ac os atebodd hwynt, onid yw y fath undeb ac unfurfiaeth ynddo ei hun yn waeth hyd yn od nac ymrysonau ac ymraniadau? Undeb yn cael ei effeithio a'i gynnal ar draul llethu yspryd ymchwil ac ymofyniad ydyw, deddf i geisio atal rhydd weithrediad y meddwl ydyw. Heddwch ac undeb o'r natur yma, nid yw o ddim mwy gwerth na'r heddwch, yr undeb, a'r unfurfiaeth, sydd rhwng preswylwyr dyffryn cysgod angeu a'u gilydd; gan hyny y mae y feddyginiaeth, yn waeth na'r pla. Ond gofynwn eto, Pa le y ceir y fath undeb? Yn mha le y bu y fath osodiadau yn effeithiol i atal cyfeiliornadau, ac ymraniadau yn yr eglwys? Yn mha eglwys neu gyfundeb y buont yn effeithiol i gynnal undeb barn a golygiadau? Mewn unrhyw un erioed fymryn pellach na'r pryd y dechreuai dynion chwilio, meddwl, a barnu drostynt eu hunain. Cymmerwn eglwys sefydledig ein gwlad fel esiampl, yr hon sydd ganddi ei deugain erthygl ond un, 'A gytunwyd arnynt gan Arch-esgobion, ac Esgobion y ddwy dalaith, a'r holl Eglwyswyr, yn y Gymanfa a gynhaliwyd yn Llundain, yn y flwyddyn 1562, er mwyn gochelyd amrafael opiniynau, a chadarnhau cysondeb yn nghylch gwir grefydd. A ail-brintiwyd trwy orchymyn ei Fawrhydi, gyda'i frenhinol *Ddeclarasiwn* o'u blaen hwynt.' Dyna fel y dywed y rhaglith i'r dywededig *Ddeclarasiwn*, a chan fod y *Declarasiwn* hwn yn ddernyn mor dra hynod, ac ond odid y rhan fwyaf o'm darllenwyr yn dra dyeithr iddo, mi a'i cyflëaf ef ger bron yn y lle hwn.

DECLARASIWN Y BRENHIN.

GAN ein bod wrth ordinhâd Duw, yn ol ein cyfiawn ditl, yn Ymddiffynydd y ffydd, a Goruwch-lywiawdr yr eglwys, yn ein Harglwyddiaethau hyn; yr ydym yn cyfrif yn dra chytunol i'n swydd frenhinol hon, a'n zël grefyddol ein hun, gadw ac amddiffyn yr eglwys a roddwyd dan ein gofal, yn undeb gwir grefydd ac yn nghwlmw tangnefedd; ac nid dyoddef i ymddadleuon an-angenrheidiol, amrafaelion, neu gwestiynau, gyfodi, a'r a allont fagu ymryson yn yr eglwys a'r wladwriaeth. Tybiasom, gan hyny, ar bwyll ystyriol, ac wrth gyngor cyuifer o'n Hesgobion ag a e'llid yn gyfleus eu

galw yn nghyd, yn gymwys i wneyd y *declarasiwn* sydd yn canlyn—

“Fod erthyglau Eglwys Loegr, y rhai a gymeradwywyd ac a awdurdodwyd hyd yn hyn, a’r rhai y darfu i’n heglwyswyr yn gyffredin ddodi eu dwylaw wrthynt, yn cynwys gwir athrawiaeth Eglwys Loegr, yn gytunol â gair Duw ; y rhai yr ydym gan hynny yn eu sicrhau ac yn eu cadarnhau ; gan orchymyn i’n holl ddeiliaid caredig barhau yn yr unfurf hono o broffes, a gwahardd yr anghydfod lleiaf oddiwrth y dywededig erthyglau ; y rhai, i’r dyben hynny yr ydym yn gorchymyn eu printio o newydd, a chyhoeddi ein *declarasiwn* hwn gyda hwynt.

“Ein bod yn Oruwch-lywiawdwr Eglwys Loegr ; a bod, os cyfyd dim ymryson yn nghylch y llywodraeth oddi allan, am Orchymynau, Canonau, a Gosodedigaethau ereill, pa rai bynag yn perthyn iddi—i’r eglwyswyr yn eu cymanfa, eu trefnu a’u gwastadlu, wedi cael cenad yn gyntaf dan ein sêl lydan i wneuthur felly, a ninnau yn cymeradwyo eu hordinhadau hynny, a’u gosodedigaethau ; tra na wneler un o honynt yn wrthwyneb i gyfreithiau a defodau y deyrnas.

“Bod, o’n gofal tywysogol, i’r gwyr eglwysig wneuthur y gwaith sydd briodol iddynt, yr Esgobion a’r eglwyswyr o amser bwy gilydd mewn cymanfa ar eu hufudd ddymuniad, a gânt genad dan ein sêl lydan i ymgynghori yn nghylch, a gwneuthur yr holl gyfryw bethau ag a weler yn eglur ganddynt, ag y cytunom ni â hwynt, a berthyn i sefydlog barhâd athrawiaeth a dysgyblaeth Eglwys Loegr y sy’r awr hon yn safadwy : oddiwrth yr hon ni ddyoddefwn ni ddim newid- iad neu ymadawiad yn y radd leiaf.

“Ein bod am yr amser presennol, er darfod codi rhai am- rafaelion drwg, eto yn ymgysuro yn hyn, ddarfod i’r holl eglwyswyr o fewn ein teyrnas, bob amser yn ewyllysgaraf ddodi eu dwylaw wrth yr erthyglau gosodedig hyn ; yr hyn sydd reswm i ni eu bod hwy oll yn cytuno yn ngwir, arferol, a llythyrenol feddwl y dywededig erthyglau ; a bod hyd yn ôd yn y pynciau manylaid hynny, lle mae’r amrafaelion pre- sennol yn sefyll, pobl o bob math yn cymeryd fod erthyglau Eglwys Loegr drostynt ; yr hyn sydd reswm yn mhellach

eto, nad oes neb o honynt yn chwennych ymadael a'r erthyglau safadwy hyn.

“Y mynwn, gan hyny, yn yramrafaelion manylaidd ac anedwydd hyn, y rhai, dros gynifer cant o flynyddoedd, ac mewn amrafael amseroedd a manau, a fuont yn waith i eglwys Crist i'w wneuthur, adael heibio bob manylaidd chwilio yn mhellach, a chau i fynu yr ymddadleuon hyny yn addewidion Duw, fel y gosodir hwynt allan yn gyffredin i ni yn yr Ysgrythyr lân (Ha'r Ysgrythyr Lan! Pa le y buost ti yr holl amser hwn?) a meddwl cyffredin erthyglau Eglwys Loegr yn ei hol hi! ac na chaffo neb o hyn allan na phrintio na phregethu i wyro'r erthyglau mewn un modd, eithr ymostwng iddynt yn eu meddwl eglur a chyflawn, ac ni chaiff roi ei syuwyr neu ei ddehongliad ei hun i fod yn feddwl i'r erthyglau, eithr eu cymeryd yn ystyr y llythyren a'r gramadeg.

“Bod, os rhydd rhyw ddarllenyydd cyhoedd yn un o'n dwy brif-ysgol, neu ryw ben neu feistr coleg, neu neb arall yn un o honynt, ryw ystyriaeth newydd i un o'r erthyglau, neu ddarllain ar gyhoedd, trefnu, neu gynnal un ddadl gyhoeddus, neu oddef cynnal un o'r cyfryw mewn un wedd yn un o'n dwy brif-ysgol, neu 'n colegau yn neullduol, neu, os pregetha un difynydd yn y prif-ysgolion, neu brintio dim yn un wedd, yn amgen nag a wastadlwyd eisoes mewn cym-anfa trwy ein cydsyniad brenhinol; iddo ef, neu hwy, y troseddwy, fod dan bwys ein hanfoddlonrwydd, a barn yr eglwys yn ein commissiwn eglwysig, yn gystal & neb arall, ac nynt a fynuwn weled gwneuthur cospedigaeth addas arnynt.”

Os nad yw y *declarasiwn* uchod yn llefaru iaith y bwystfil, yn llawn o eiriau cabledd a mawrhydri, atolwg pa beth a all fod yn fwystfilaidd, yn fawrhydri, ac yn gabledd? Y mae arogl brwmstanaidd y pydew diwaelod, a drewdod anghristiaeth yn codi yn dawch gwrthwynebus oddiwrth bob ymadrodd o'i fewn! Dyn marwol, yr hwn a all fod yr angenfil mwyaf drygionus yn y deyrnas yn hõni bod yn 'Oruwch lywiawdr yr eglwys,' i drefnu ei holl faterion, i roddi cyfarwyddiadau i'w holl weinidogion pa fodd i gredu, a pha beth i'w bregethu, yn ceisio gosod ei orseddfainc i fynu yn

nghydwybodau yr holl addolwyr, i lywodraethu holl ysgogiadau eu meddyliau yn ol ei feddwl a'i ewyllys ei hun. Ond gan nad yw yn perthyn yn uniongyrchol i'r mater mewn llaw, i ni gymeryd golwg ar y *declarasiwn* hynod hwn yn y dull yma, ni a ymataliwn. Wrth edrych drosto, tybiwn fod fy narllenydd yn barod i feddwl a dywedyd, 'Wel! yma yn ddiau y mae perffaith unfurfiaeth ac undeb barn ac athrawiaeth; yma, o fewn cyfundeb yr eglwys hon, y mae 'undeb ysbryd yn nghwlwm tangnefedd' wedi ei gadw yn ddi-halog; yma, lle rhwymir corph ac enaid, tafod a chalon yr holl weinidogion, & chadwyn fawr o ddengain torch ond un, a hyny gan awdurdod gorsedd-fainc Prydain, ac y selir y rhwymiad o'r fath sicraf, & sêl lydan fawr y llywodraeth—yma, yn ddiau ynte y mae pawb o'r brodyr yn un, heb neb yn tynu yn groes; yn meddwl, yn credu, yn teimlo, ac yn llefaru yr un pethau; yma, lle y mae erthyglau a chredôau wedi eu tynu a chytuno arnynt gan gymanfa o esgobion ac eglwyswyr, ac wedi ei gwneuthur yn gyfraith frenhinol hefyd, a'r cwbl i'r pwrpas pennodol i atal pob ymddadleuon, ymrysonau, a gwanol farnau ar bynciau crefydd o hyn allan byth.' Nage, fy narllenydd; nage, nid yma!—ond yma, wedi y cwbl, y mae cymysgbla waeth na'r un Aiffiaidd, o bob barnau ac opiniynau ag y sydd yn y byd yn mron—yma y mae cymysgedd o bob athrawiaethau, mwy amrywiog na chymysgedd ieithoedd Babel! Er fod pob tafod a bregetha o fewn y cylch dan sylw wedi cyffesu yn ol y *declarasiwn*, pob deheulaw o honynt wedi arwydd-nodi yr erthyglau, a dyfod felly dan rwymyn cadara y cyfamod undeb; eto, yma, o fewn cylch y gadwyn hon o undeb, yn weinidogion i'r eglwys hon, y ceuch Antinomiaid, uchel ag isel Galfiniaid, Arminiaid, Morganiaid, Milenariaid, Southcottiaid, Irfingiaid, Puseyaid, neu Babyddiaid, Undodiaid, ac Anffyddiaid! ac od oes rhyw *eidiau* ereill i'w cael yn rhyw-le, y maent i'w cael yma! Y mae y *declarasiwn* yn ein hysbysu yn bennodol mai amcan uniongyrchol ffurfiad yr erthyglau, eu pasio mewn cymanfa, a'u cyhoeddi, ac yntau fel *Bull* o'u blaen, ydoedd terfynu ymrysonau a sicrhau undeb ac unfurfiaeth barn yn yr eglwys; ac os methodd y cynhyg hwn a chyrhaedd ei amcan, a chanddo y fath fanteision—holl awdurdod y llywodraeth wladol

i'w gefnogi a'i rymuso, ofer iawn fydd dysgwyl y bydd i'r un credo na chyffes arall, mewn unrhyw gyfundeb arall, lwyddo i ateb a chyrhaeddyd y dyben byth. Trowch eich wyneb i bob eglwys a chyfundeb sydd ag erthyglau neu gredo ar ei helw, yn amod cymundeb, ac yn gyfraith ei ffydd, a chewch yr un prawf o ran sylwedd, er nad i'r un graddau, o hollol fethiant y cynllun i gyrhaedd yr amcan.

Y mae yn beth rhyfedd, ddarfod i'r drych-feddwl o fod angen am gaerau o waith llaw, ac o'r adeiladaeth ddynol yma, i ddyogelu gwirionedd dwyfol, a theyrnas ysprydol Crist, rhag cyfeiliornadau ac anghytundeb mewn barn, ddyfod i galon neb erioed. Gweddïai Iesu Grist ar fod ei ddysgyblion ef yn un mewn undeb o'r un natur a'r undeb oedd rhyngddo ef a'r Tad, 'Fel y byddont oll yn un, megis yr wyt ti, y Tad ynof fi, a minnau ynot ti; fel y byddont hwythau un ynom ni:'* ac ychwanega ei fod wedi rhoddi iddynt yr hyn oedd yn angenrheidiol er ffurfio a pharhau yr undeb hwn; 'A'r gogoniant a roddaist i mi a roddais iddynt hwy, fel y byddont wedi eu perffeithio yn un:' ac wrth sylwi ar y rhanau blaenorol o'r weddi, cawn weled beth a olygai wrth y gogoniant hwn a roddodd iddynt er eu perffeithio yn yr undeb yma,—'Canys y geiriau a roddaist i mi a roddais iddynt hwy,'† a thrachefu, 'Myfi a roddais iddynt hwy dy air di;‡ ac fel y datganai yn eglur ei feddwl a'i ewyllys yn y mater, nad oedd dim i fod yn rheol nac yn rhwymyn yr undeb hwn ond ei air ef, yn noeth fel ag yr oedd efe ei hun yn ei rod-di; ac nad oedd ei ddysgyblion ef i dderbyn nac ymostwng i unrhyw awdurdod ond yr eiddo ef, megis ag nad oedd yntau ei hun fel Cyfryngwr a gwas y Tad, wedi cydnabod awdurdod nag ymostwng i ewyllys neb arall ond efe. Undeb seiliedig ar erthyglau neu gredo cytunedig aranynt mewn llys neu gymanfa, wedi eu hawdurdodi gan *declarasiwn* brehinol neu gymdeithasfâol, ni allai fod o'r un natur ac ansawdd a'r undeb hwnw y soniai Crist am dano, ac felly nid oes dim gwir werth ynndo, pe gellid ei gael. Y mae geiriau Crist ei hun, sef yr Ysgrythyr lân, mor eglur a phenderfynol ar holl faterion ffydd a dysgyblaeth yr eglwys, ag y

* Ioan xvii. 21, 22.

† adn. 6.

‡ adn. 14.

dychon, ac y mae angen, iddynt fod ; a heuru fod angen erthyglau neu gredo, wedi eu geirio yn fwy eglur a phendant er gosod allan athrawiaethau yr efengyl, na'r dull eu gosodir yn y geiriau a ddysgid gan yr Yspryd Glan, sydd yn rhywbeth tebyg iawn i gabl-draith ar ddoethineb ddwyfol. A ydyw yn ddychonadwy llefaru yn fwy eglur a phendant am Dduwdod Crist—Iawn—Cyfiawnhâd trwy ffydd, &c. nag y llefara ysprydoliaeth ddwyfol ei hun? Ac os na lwydda tystiolaethau noethion a phendant yr Ysgrythyr i gadw Sosiniaeth a Morganiaeth o'r cyfundeb Crist'nogol, gwaeth nag ofer fydd ceisio eu murio allan ag erthyglau a chredöau o ddynol gyfansoddiad.

Dadleuir fod pob un yn cymeryd ei ryddid i roddi ei ddeongliad a'i esponiad ei hun ar eiriau y Bibl. Gwir ; ac y mae pob un yn cymeryd yr un rhyddid gydag erthyglau a chredöau hefyd. Esponiai y diweddar esgob Tomline erthyglau eglwys Loegr yn Arminaidd, gan haeru yn dalgryf mai yr athrawiaeth Arminaidd yw eu gwir feddwl ' yn ol ystyr y llythren a'r gramadeg.' Y diweddar Barch. T. Scott, enwog esponiwr y Bibl, yn ei atebiad iddo, a'i hesponient yn Galfinaidd, gan haeru yr un mor ëon ag yntau mai yr athrawiaeth hono a gynhwysent. Newman a Pusey, duwinyddion prif-ysgol Rhydychain, a'i hesponiant yn Babaid, o leiaf nad oes ynddynt ddim yn groes i athrawiaethau anferthaf yr eglwys hono ! Ac y mae prawf pellach o hyn mewn dadl ag y sydd yn cynhyrfu y byd y dyddiau hyn yn nghylch deed a chyffes—dim llai na phedwar neu bump o wabanol farnau ac olygiadau ar yr un erthygl. Hhaera un mai y peth hwn ydyw meddwl rhyw ymadroddion, a haera y llall nad yw yn cynwys hyny mewn modd yn y byd, ond mai peth arall hollol wabanol ydyw y meddwl, ac nid oes tebyg y bydd terfyn buan ar yr haeru. Onid yw yn bryd bellach i ryw un godi ei lef nes y clywo yr holl eglwysi Crist'nogol—AT Y GYFRAITH, AC AT Y DYSTIOLAETH ; ONI DDYWEDANT YN OL Y GAIR HWN, HYN SYDD AM NAD OES OLEUNI YNDDYNT.* Y gyfraith a'r dystiolaeth hono a rwymwyd ac a seliwyd drwy orchymyn ac awdurdod uwch na'r eiddo un llys na chymanfa

wladol a dynol, i fod yn unig a bythol reol barn, cred, a buchedd, yn mhlith dysgyblion Crist; fel y byddai iddynt fyned ati i chwilio ac ymofyn am ei feddwl a'i ewyllys yn mhob peth a berthyn i wasanaeth a threfniadau ei dy a'i deyrnas.

Y mae arosodiad erthyglau a chredöau fel prawf deddfau uniongrediaeth yn taro yn uniongyrchol at fywyd rhyddid y meddwl, ac yn gwahardd iddo chwilio a barnu drosto ei hun, ac felly yn ei yspeilio o un o'r iawnderau gwerthfawrocaf a fedd fel bod rhesymol a chyfrifol. Ni chaiff neb yn y cymundeb hwnw chwilio'r Ysgrhythrau drosto ei hun, na mabwysiadu un golygiad ar un athrawiaeth ond a roddir iddo yn y credo, pa un bynag ai gwirionedd ai cyfeiliornad fyddo egwyddorion y credo—nid oes ganddo mo'r help; rhaid iddo eu derbyn a'u profesu 'heb ymofyn dim er mwyn cydwybod.' Y mae pob gwybodaeth a goleuni newydd yn cael ei hollol a'i fythol gau allan, nid oes un o byngciau ffydd y credo i gael eu newid nac hyd yn od ymgynghori dim yn eu cylch byth! 'Ni chaiff neb,' medd y *declarasiwn*, 'roi ei synwyr neu ei ddehongliad ei hun i fod yn feddwl yr erthyglau, eithr eu cymeryd yn ystyr y llythyren a'r gramadeg.' Nid yw y fath ddatganiad a'r un uchod yn cynwys dim llai mewn gwirionedd na dihanfodiad y meddwl dynol ei hun; atal y meddwl i weithredu, fyddai gosod terfyn ar ei fodoliaeth resymol a chyfrifol. Y mae yn anhosibl iddo dderbyn na gwrthod, credu nac anghredu dim, heb rododi ei sylw, ei synwyr, a'i ddehongliad arno. Ond y mae 'twll yn y faled' wedi'r cwbl, yr hwn yr ymwthiodd llaweroedd o feddyliau drwyddo—'Ystyr y llythyren a'r gramadeg'—pa beth yw hwnw? Ni ddywed y *declarasiwn*; ac felly wedi'r holl lafur rhaid i'r meddwl roi ei synwyr ei hun ar waith i chwilio am dano, neu gymeryd yn ganiatâol nad yw ddim yn y byd, ac nad oes na meddwl nag ystyr o un math i erthyglau ei gred! Y mae y fath osodadau yn dywedyd ac yn gwrthddywedyd eu hunain ar yr un anadliad—y rhan olafo'r un ymadrodd yn dadymchwelyd y rhan gyntaf—deddf yn dedfrydu y meddwl i garchar a chaethiwed bythol, a'r un ddeddf a'i dwylaw ei hun yn tori twll yn mur y carchar hwnw i'r carcharor ddianc trwyddo, er yn wir yn cymeryd gofal i geisio ei sicrhau nad elo yn mhell,

drwy ei gadwyno â rhaff ddwygainc o 'lythyren a gramadeg!' Cyfraith yn cyhoeddi dedfryd marwolaeth ar feddwl anfarwol, ond ar yr un gwynt yn ei chyfnewid am alltudiaeth oesol i diroedd anffrwythlawn ac oerion y 'llythyren a'r gramadeg:' caiff fyw, ond rhaid iddo fyw ar yr hyn a allo sugno allan o'i erthyglau drwy y pibellau hyny.

'Y mae fy meddwl yn llwyr argyhoeddedig' medd ysgrifenydd galluog yn y *Christian Reformer*, 'bod sefydliadau gwladol o grefydd (neu yr hyn sydd yr un peth yn gymwys, cyn belled ag y mae y mater sydd genyf yn bresenol mewn llaw i'w ystyried) eglwysi ag y mae ganddynt gredöau arosodedig fel deddfau yn eu plith, eu bod, meddaf, yn sefydlu cyfeiliornad, drwy atal y meddwl i ymegniö drosto ei hun a gweithredu yn y modd a'r llwybr dyladwy. Y maent yn gosod un cyfeirnod i'r meddwl—yn nodi allan y llwybr ar hyd yr hwn y rhaid iddo fyned. Y mae arosodiad credo, o anghenrheidrwydd naturiol pethau, yn llyffetheirio y meddwl ac yn atal ymchwiliad. Os rhwymir fi i gredu, yn ol ffurf ysgrifenedig a phenodol, ysgrif a fyddo yn darnodi fy ffydd, yn gosod terfynau i wrthrychau fy nghred, ac yn rheoleiddio gweithrediadau fy meddyliau, A allaf fi deimlo fy hun yn rhydd i ymdreiddio i ddyfnderau y mater? Na! rhaid i mi nofio—ni wiw i mi ryfygu ymsoddi. Neu i newid y gydmariaeth, Os bydd llwybr fy ffydd wedi ei ddynodi allan, rhaid i mi rodio ar hyd-ddo—rhaid i mi beidio a meddwl edrych am lwybrau newydd i mi fy hun. Y cyfeirnod, yr hwn y gorfydd i'm meddwl o anghenrheidrwydd ei gymeryd yn yr achos yma, ydyw hwnw yn yr hwn y rhaid i mi geisio amddiffyn a chadarnhau y ffurfiau hyny a osodwyd i fynu gan fy eglwys gyda chymaint o zél a medrusrwydd ag a allaf alw i weithrediad. Rhaid i mi chwilio'r Ysgrhythrau, nid i geisio deall pa beth a ddywed yr ysgrifenydd, nid i gael allan feddwl yr Yspryd ac adnabod ewyllys Duw, yn annibynol ar egwyddorion fy nghredo ac ar osodiadau fy eglwys a thraddodiadau y tadau—ond er mwyn cael adnodau, y rhai drwy eu cywrain ddehongli, a wasanaethant i gynnal i fynu y ffydd hono ag yr wyf fi wedi ymgysylltu â hi. Rhaid i mi beidio ag anturio gosod allan unrhyw syniad newydd, a fyddo yn anghytunol a'r hên, pa mor wirioneddol bynag y byddo'n

ymddangos ei fod. Byddaf drwy hyny yn gosod fy hun yn agored ar unwaith i'r cyhuddiad arswydus o heresi. Acai nid yw hyn yn atal ymchwiliad, ac yn rhwystr i gynydd gwirionedd? Ai nid dyma yn hollol oedd yr hyn a attaliodd fynediad y celfyddydau yn mlaen dros lawer o ganrifau? Pa fodd y bu ddarfod i'r athronyddiaeth Aristotlaidd ffynu cyhyd, cadw y meddwl dynol mewn dalfa, llyffetheirio deall, a dal i lawr alluoedd y meddyliau cryfaf am gynnifer o flyneddau? Pa fodd? O herwydd y credid bod natur a'i drefniant ef yr un a'u gilydd, nad oedd ei ysgrifeniadau ef ddim amgen nac esponiad ar natur, a bod y rheolau a osodasai efe, yn gywir amlygiad o ddeddfau natur. Myfyrio ei weithiau ef, gan hyny, a deall ei reolau a'i egwyddorion, a gyfansoddent yr oll o athronyddiaeth. Ai nid oedd hyn yn caethrwympo enaid dyn yn nghadwyni trefniant tra-awdurdodol! Ai nid oedd yn gosod y dealltwriaethi weithredu mewn un ffordd benodol, sef i wneyd i bob peth yn natur blygu i'w drefniant ef! Diameu! Ac fel hyn y mae pob trefniant awdurdodol, pa un a'i duwinyddol a'i anianyddol a fyddo. Tra ei llywodraethir ganddynt, nid yw y dyn yn teimlo rhyddid i gyd-ymofyniad. Y mae rhag-ogwyddiad ei feddwl yn peri iddo gymeryd golwg unochrog ar bethau. Y mae yn llafurio i ddwyn pob feithiau i roddi eu cynhorthwy i'w drefniant. Y mae felly gyda phob credöau. Eu natur a'u tuedd annocheladwy ydyw. Ond ai ni all meddyliau grymus ryddhau eu hunain, ddryllio y llyffetheiriau, a thori y cadwynau? Och! nid yw ond rhag-orfaint ychydig iawn o nifer i allu gwneuthur hyn—rhai a wnant, ac yna a gyfrifir fel blaenoriaid yn y darganfyddiad newydd. Ond dychon i feddyliau mawrion a galluog iawn yn y cadwynau hyn, gredu yr athrawiaethau ynfytafa gwrthunaf. Y ffaith yw, ni chaniatawyd iddynt eu hameu erioed, hwy a'u sugnasant gyda llaeth eu mamau, ac ni chaniataent iddynt eu hunain i feddwl yn ddifrifol yn eu cylch am fomentbyth wedi hyny, ond gyda golwg i'w cadarnhau a'u ham-ddiffyn hwynt. Edrychid arnynt ganddynt fel gwirebau anwadadwy yn eu trefniant, egwyddorion yn eu credo, a darganfyddiad yr anghysondeb mwyafa gwrthunaf, ni wnai ddim ond deffroi eu galluoedd cryfion a'u gosod ar waith i geisio ei esponio ymaith, ac nid byth i ameu yr egwyddor ei hun.

Yna ni fuasai raid i ysgrifenydd diweddar synu cymaint, na dim oll yn wir, pa fodd y gallai dyn fel Sir Thomas More fod yn Babydd gwresog, ac y dewisai farw yn hytrach nag ymwrthod a'r athrawiaeth o draws-sylweddiad. Nid wyf byth yn rhyfeddu weled y dynion mwyaf yn ymlynu wrth y tybiau gwrthunaf. Y mae'n beth naturiol—canlyniad an-ocheladwy cyfundraeth ydyw. Y mae eu meddyliau wedi eu ffurfio dan eu dylanwad. Ni ellwch edrych i unrhyw gyfundraethau o opiniynau a gawsant helaeth dderbyniad crefyddol neu athronyddol, mewn amserau hen neu ddiweddar. heb ganfod y gwirionedd hwn yn argraffedig megis â haul-belydr. Hyn oll sydd ganlyniad credo sefydledig—dylanwad tyb addefedig ar y meddwl. Yr ysgrifenydd y cyfeiriais ato uchod a ddywed, 'Yr ymadrodd ysgrythyrol yr hwn a ddywed, 'Hwn yw fy nghorph,' sydd yn hollol yr un ag oedd bob amser, ac fel y bydd hyd ddiwedd amser; â'r ymadrodd hwn, yr hwn a barai i Sir Thomas More gredu athrawiaeth y traws-sylweddiad a ddichon ddylanwadu llawer o gyffelyb feddyliau eto i'w chredu.' Gwir, y mae yn hollol yr un; ond a ydyw yn canlyn y bydd iddo bob amser gael edrych arno yn yr un goleu! A fydd iddo bob amser ymddangos yn yr un golygiant? Na fydd. Pa ham? Oblegid edrychir arno mewn cysylltiad â thybiau tra gwahanol. Y rheswm, paham yr ymddengys ei fod yn cefnogi yr athrawiaeth o wir bresenoldeb corph Crist yn y Sacrament, ydyw, ddarfod i gredu osod yr ystyr hono iddo; a bod dysgyblion y credo, yn lle gwneuthur yr ymadrodd ei hun yn destyn ymchwiliad yn ei berthynas âg ymadroddion ereill, yn dal y dyb fel gwireb, neu wirionedd di-ddadl. Ni thybient erioed y gallai feddwl dim arall. Fel hyn y mae credöau sefydledig—pa un bynag ai Papaidd, Eglwys Loegr, a'i Henaduriaid a fyddont yn tywyllu y deall dynol, ac yn atal rhydd rediad y gwirionedd. Oni buasai y cyfundraethau äng ymdaenol hyn, y dylanwad marwola achosent, a'r hwn a weithredai er ataliad rhydd ymofyniad, yr wyf yn cwbl gredu y buasai duwinyddiaeth yn hir cyn hyn wedi ei dwyn i lawer mwy o eglurdeb a goleuni. Pa beth gan hyn y mae'r egwyddor wirfoddol yn ei wneuthur? Y mae yn gwneuthur y peth mawr hwnw sydd arnom ei eisiau—y mae yn diddyma credöau, yn tori cadwynau

rhagfarn, yn gosod y meddwl yn rhydd, ac yn cyfarwyddo yr holl alluoedd i chwilio y gwirionedd. Yr enaid wedi ei ryddhau ganddi fel hyn odditan lywodraeth hen dybiau sefydlog, a edrych i seiliau pethau—ni chymer ddim yn gania-taol nad yw o nodwedd anwadadwy gwireb—a ymwrthyd â phob awdurdod fel y cyfryw, mewn materion o ymchwiliad dealltwriaeth—ac a edrych i bethau fel y maent, ac nid fel y mae cymysgedd o feddyliau, a theimladau a manteision personol, wedi peri iddynt ymddangos.

'Y mae yr *Edinburgh Reviewer* yn arganmol perffeithrwydd y drefniadaeth Babaidd yn fawr, ac yn priodoli i hyn helaethrwydd a mawredd ei gallu, a llwyddiant ei hawdurdod. Ac y mae yn meddwl yn gywir—ond dyma yn hollol yr hyn sydd yn peri nid yn unig foel duwinyddiaeth yr eglwys hono yn aros yn sefydlog yn yr un man, ond hefyd bod dylanwad gwir grefydd wedi hollol ddisfanu ynddi—a chymeryd golwg gyffredinol arni. Y mae yr egwyddor wirfoddol mewn crefydd wedi ei bwriadu i ddadymchwelyd a dinystrio y fath drefniadaeth berffaith (fel ei gelwir) â hon. Y mae yn foddion cymwys i buro yr awyrgylch ddeallol yn gystal a'r un foesol, i chwalo y cymylau a'r niwl ag ydynt yn rhy hir wedi cau o amgylch ac atal rhydd ymofyniad crefyddol, ac i leuwi y cyfrwng drwy yr hwn yr ydym i edrych ar fwr-iadau ac amcanion mawrion Duw. Ymryson rhwng gwahand-ybiau a ddychon fod, ond yn yr ymryson hwnw, hollol ddadymchwelir gallu gwyrdrôawl rhagfarn; a daw gallu y gwirionedd allan wedi ymwisgo yn holl symledd ac urddas cynhenid ei nodwedd.'

Gyda mawr foddineb yr wyf yn dwyn i mewn yn y fan hon y sylwadau canlynol o eiddo y gwr enwog a chymeradwy hwnw yn mhlith pob enwad o Grist'nogion yn ein gwlad;—enwog a chymeradwy, meddaf, fel gweinidog, ysgrifenydd, a Christian, sef Dr. Harris, awdwr y llyfr hynod a elwir '*Mammon*.' Cymerwyd y sylwadau dylynol allan o'i draeth-awd rhagorol ar 'Undeb, neu yr eglwys ranedig wedi ei huno.' Wedi sylwi ar dra-awdurdodaeth yr eglwys Babaidd yn ei harosodiadau, dywed, yn *tu dal* 117, 'Y diwygwyr wedi eu hymarferyd a'r yspryd hwn o dra-awdurdodi yn yr Eglwys Rufeinig, a ddygasant gymaint o hono gyda hwy, er eu bod

yn gwaedu dan ei effeithiau, fel ag y mae y lefain yn parhau i weithio hyd y dydd heddyw yn mhob eglwys Brotestanaidd, i ryw raddau. Yn eglwys Loegr, darfu iddo ddal cynnifer o seremonïau yr eglwys Babaid, fel ag y darfu i laweroedd adael ei chymundeb. Oddi yma y cyfododd y blaid Buritanaidd, ac y tarddodd eu dyoddefiadau a'u halldudiad. Yn 1662, darfu iddo gyhoeddi y 'ddeddf o un-ffurfiad,' yn gofyn 'derbyniad a chydsyniad difrifol ei holl weinidogion a gosodiadau, y rhai oedd wrthwynebus gan lawer o honynt—y canlyniad fu, i ddwy fil o'i meibion galluocaf ymwahanu, ac anghyddfurfiaeth ddylyn. Y mae yr un yspryd i'w weled mewn gwahanol ffurfiau yn yr amrywiol bleidiau ag y mae anghyddfurfiaeth er y pryd hyny wedi ymwahanu iddynt, yn anghydfod, ac yn achosi rhwygiadau newyddion. Yma, ei hoff offeryn ydyw prawf (*test*)—offeryn, yr hwn, drwy gydgorphori tybiau neu llduol a dychmygion dynol gyda'r amodau ysgrhythrol o gymundeb Grist'nogol, a etyl lawer rhag dyfod i mewn, neu a'u gwna yn anesmwyth ac a'u cymhellha i ymadael ar ol iddynt ddyfod.

Yr un yspryd a saif ar drothwy St. Pedr, yn Rhufain, a chredo *Pius y IV.* yn ei law, gan anathemeiddio pob peth ag sydd yn wrthwyneb iddo, a'r hwn a saif wrth borth St. Paul yn Llundain, gan ofyn tanysgrifiad y 39 erthygl, a chydsyniad a'r defodau fel amod derbyniad i mewn: a saif hefyd wrth ddôr llawer Capel, gan ofyn i'r ymgeisydd i barablu Shibboleth y blaid oddi fewn, cyn y caniatêir iddo groesi y trothwy, neu y gall fod yn rhydd ddinesydd perthynol iddi. Y mae'n sefyll wrth ddrws yr areithfa; a dywed wrth y dyn, yr hwn a dreuliasai ei fywyd i bregethu 'Iesu Grist wedi ei groeshoelio,' ond heb ei 'awdurdod' ef, (sef yr yspryd hwn,) a'r hwn y mae ei goron yn y nefoedd yn llwythog o emau ei lwyddiant gweinidogaethol—efe a ddywed wrtho, meddaf, 'Dos i lawr, nid adwaen i mo honot, nid yw fy nôd i arnat—dyro le i un, yr hwn, er yn estron i wir grefydd, ag sydd hyd yn od yn gwadu athrawiaethau gras, sydd er hyny wedi rhoddi mwy nag iawn am yr holl ddiffyg yma, drwy ewyllysgar dderbyu fy nôd neu llduol i.' A chan gymeryd ei safle wrth fwrdd yr Arglwydd, y mae yn gwylio y wledd yn fwy eiddigus rhag y credadyn amddifad o'i nôd ef, nag anghred-

adyn a fyddo wedi ei selio ag ef. A pheth mwy, mewn rhai amgylchiadau, wedi i wr Duw fod yn tori bara y bywyd i'r gynulleidfa yn yr areithfa, cyfarfu yr yspryd hwn ag ef ar ei ffordd oddi yno at fwrdd yr Arglwydd, a gwaharddodd iddo nesau yn mlaen ato! Ac fel hyn y gwna y lle sanctaidd hwnw, yr hwn a ddylai fod yn gynhullfan i'r holl ffyddloniaid, yn fan i'w hatal at a'u gwahanu oddiwrth eu gilydd. Yno, lle y dylasai y rhai oeddynt ar wahan o'r blaen ddyfod yn un, y cyferfydd y rhai hynny oeddynt yn un hyd y pryd hwnw, ac y gorfydda hwynt i ymwahanu. Yn ngenau y porthladd hwnw, yn yr hwn y dylai yr holl eglwys hwylio ynŋghyd, ac angori mewn dyogelwch a thawelwch, y taflai ei farau ar ei draws, yr hwn na all neb fyned drosto ond yr hwn a ymostyngo i'w arweinyddiaeth a'i amodau ef. Da er mwyn yr eglwys, a da er mwyn y byd, ydyw fod awdurdod yr yspryd hwn yn terfynu ar y ddaear: oni bai hynny, pa mor fynych yr ataliai y Cristion anymostyngar iddo oddiwrth ei goron, yn ystafell cystudd; neu y rhwystrai ei fynediad i'r nefoedd, drwy osod wrth y trothwy ryw-beth mwy na ffug-sant, a gofyn mwy na 'cheiniog Pedr.' Ond efe, yr hwn y mae agoriadau y byd anweledig ganddo, a egyr ac nid yw neb yn cau, a gau ac nid yw neb yn agoryd.

'Yr arosodiad rhyfygus hwn o olygiadau dynion ar eiriau Duw,' medd Chillingworth, 'ac a'u rhwyma ar gydwybodau dynion gyda chospedigaethau cyferbyniol—yr ymholiad oferwael hwn, y gallwn ni lefaru pethau Duw yn well nag yn ngeiriau Duw ei hun; dwyfoli fel hyn ein dehongliadau ein hunain, a'u traws-gymell ar eraill, sydd yn unig ffynhonell o holl ymraniadau yr eglwys, a'r hyn sydd yn eu gwneuthur yn anfarwol; aflonyddydd cyffredin Crist'nogaeth ydyw, a'r hyn sydd yn rhwygo yn ddrylliau, nid pais, ond ymysgaroedd ac aelodau Crist. Cymerer ymaith y canolfuriau gwahaniaeth hyn, a byddant oll yn un yn fuan. Cym-erwch ymaith yr erlid, melldithio, llosgi, a damuio dynion am wrthod tanysgrifio i eiriau dynion fel geiriau Duw; Na ofynwch gan Grist'nogion ond yn unig credu Crist, ac i beidio a galw un dyn yn athraw ond efe yn unig; boed i'r rhai hynny a honant anffaeledigaeth, a'r rhai nad oes ganddynt unrhyw ditl iddo, ymwadu ag ef, a boed i'r rhai a ymwad-

ant ag ef, mewn geiriau, ymwader ag ef mewn gweithred a gwirionedd, a bydd pob peth yn dda.'

Y mae y nodiadau blaenorol yn dangos bod arosodiad erthyglau a dynol gredôau fel amodau cymundeb eglwysig, nid yn unig yn aneffeithiol i gyraedd eu hamcan profsedig o effeithio undeb Crist'nogol, ond yn gweithredu yn hollol ffordd arall, ' yn unig ffynhonell ymrysonau ac ymraniadau,' yn ol tystiolaeth Chillingworth, yr hwn oedd esgob o eglwys Loegr ei hun; ac felly rhaid eu bod yn brif felldithion yr eglwys Grist'nogol.

' Undeb, cyn y gall fod yn un parhaus,' medd Dr. Harris yn mhellach, ' a raid gael ei sefydlu ar oruchaf ac unig awdurdod gair Duw, ac ar hawl ddiymwad pob dyn i farnu drosto ei hun. Unrhyw gymdeithasfa yn yr eglwys, seiliedig ar egwyddorion na chydabyddant yr amodau hyn, neu a wnelant drais ar y naill neu y llall o honynt, pa mor unleisiol bynag y dychon y pleidiau a'u ffurfiont fod wrth ei fabwysiadu, sydd yn ddigon sicr o gael ei ddryllio yn gynt neu yn hwyrach, ac sydd yn debyg o fod yn achos ymrysonau hyd nes eu symudir.

' Os ydyw y Bibl yn air Duw, rhaid cydnabod ei holl-ddigonol a'i oruchaf awdurdod ar bob mater y traetha arno. Y mae darllen y gair hwn nid yn unig yn hawl-fraint, ond yn ddyledswydd pob bod dynol, yn hawl-fraint yn ei berthynas a'i gyd-ddynion, yn ddyledswydd yn ei berthynas â Duw. Ac os ei ddyledswydd ydyw darllen, y mae i'r un graddau yn ddyledswydd arno ddarllen gyda golwg ar ddeall ei gynwysiad, a gweithredu yn ol argyhoeddion ei gydwybod o'i ofynion. Y rwymedigaeth hon, fel y mae'n cyfodi oddiar awdurdod Duw dros ei greaduriaid, sydd, yn ol trefn naturiol pethau, y gyntaf oll; o ganlyniad, ni all unrhyw awdurdod ddynol ymyraeth yn gyfiawn â dyledswyddau ag ydynt yn ddyledus i Dduw yn flaenorol—ac fel y maent yn flaenorol, y maent hefyd uwchlaw ac yn bwysicach na phob dyledswyddau ereill; ni ddychon unrhyw allu dynol ryddhau dyn oddiwrthynt—y maent yn cymeryd gafael yn y llywydd a'r deiliaid yn gystal a'u gilydd; oblegid y maent yn golygu dynion fel bodau moesol a chyfrifol—perthynasau ag y maent oll yn cyd-sefyll ynddynt. Ac fel na all y rwymedigaeth

hon gael ei symud oddi arno gan unrhyw awdurdod ddaearol ni all efe ei hun chwaith ei throsglwyddo oddiwrtho i neb. Y mae yn enedigaeth-fraint na all efe werthu. Os na fydd ei olygiadau ar ewyllys Duw, a'r ufudd-dod a gyflwyno iddo yn ffrwythau argyhoeddiad ei gydwybod ei hun, yn deilliaw drwy ei ymchwil personol o'r Bibl, nid ydynt amgen na ffurfioledeb neu annuwiaeth. Nid yw ei gyfrifoldeb personol yn wir yn gwahardd iddo ddefnyddio y cynhorthwyon a ddyr deongliadau dynol ar y gair hwnw, ond yn hytrach yn ei gymhell i'w ddefnyddio; oblegid fel y mae y cyfryw ddeongliadau yn cael eu cyflwyno gyda rhesymau i'w canlyn, y mae fel hyn yn dyfod dan ystyriaeth ei farn; o ganlyniad, cyn belled ag y mae hyn yn myned, y mae yn cael ei adael yn gwbl i'w argyhoeddiad ei hun. A dychymygu y gallai ufudd-dod a darddai o unrhyw ffynhonell arall, fod yn gymradwy gan Dduw, sydd yr un peth a thybied y gall gael ei foddloni gan un nad oes ganddo un amcan i ryngu ei fodd ef—pan y mae dyn mor gyfrifol am ansawdd ei ufudd-dod professedig, ag ydyw am ei anufudd-dod: ac ni all ei ffydd a'i wasanaeth ymgylwyno ger bron Duw, fel amlygrwydd o gariad, ond yn unig mor belled ag y maent yn cymeradwyo eu hunain i gydwybod yr addolwr ei hun, fel yr hyn y mae gair Duw yn ofyn oddiwrtho.

' Y mae ffurfio a dylun ei argyhoeddiad personol ei hun, ac ewyllys ddatguddiedig Duw, yn hawl na ddychon un bod cynol ei amddifadu o honi, ac yn ddyledswydd orphwysedig arno, na all un gallu creedig ei ryddbau oddiwrthi.

' Goruchaf awdurdod gair Duw ar iawnderau cydwybod ydynt egwyddorion mawrion a symlion y Diwygiad Protestanaidd; a'r Protestant hwnw ag sydd yn eu hesgeuluso, sydd mewn effaith yn dywedyd, Gadewch i ni fyned eto yn ol i fynwes yr eglwys Rufeinig.

' Wrth weithredu yn gyson a'r egwyddorion hyn, ni fydd i ni gynyg at undeb, yr hwn a olyga unfurfaeth; yr hwn a esyd ymostyngiad i awdurdod, yn lle ymchwiliad am y gwirionedd—yr hwn a gais atal gwahaniaeth mewn barn drwy beidio caniatáu un math o farn. Ni a fyddwn yn eiddigus dros anrhydedd y Bibl, ac yn ofalus am iawnderau ereill i farnu drostynt eu hunain yn nghylch ei feddwl a'i ystyr, fel

amodau a gynwysant ein rhyddid a'n dedwyddwch ein hunain. Ni a ganiatawn i bob un y gwahaniaethau perthynol i'w enwad, ac eto, a'i derbyniwn fel crediniwr yn Nghrist.

'Yr egwyddorion dan sylw ydynt nid yn unig yn gwarafun pob cynhygiad at undeb ar draul rhyddid Crist'nogol, ond y maent yn tueddu yn rymus i gynhyrchu undeb cyd safadwy a'r rhyddid hwnw. Tybiwch nad oes ond ychydig nifer o Grist'nogion yn awr ar y ddaear, a'r rheini yn byw ar wahan, ac yn anadnabyddus o'u gilydd—tybiwch eu bod hyd yn ôd heb wybod fod y fath beth a datguddiad ysgrifenedig yn bod, ac mai cyfanswm eu cred athrawiaethol fyddai yn unig hyn, ddyfod Iesu Grist i'r byd i gadw pechaduriaid—tybiwch eu bod yn byw dan ddylanwad y gwirionedd sylfaenol ac achubol hwn, ac yn teimlo mawr awydd-fryd am gymundeb Crist'nogol, heb wybod yn y byd pa le i'w gael, a bod y Gwardwr, mewn trefn i gyflawni y dymuniad hwn, ac i'w cyd-gorphori yn gymdeithas, yn eu casglu yn nghyd at eu gilydd—golygwch eu bod yn gynhulledig fel hyn yn eu hanwybodaeth, y byddai iddo eu cyflwyno y naill i'r llall fel rhai yn cyd-ddymuno cymundeb Crist'nogol, ac yn cyflwyno y llyfr, gan ddywedyd, 'Wele, freinlen eich iachawdwriaeth oll; o fewn ei sanctaidd ddalenau chwi a ganfyddwch awdurdod, ie, orchymyn am y cymundeb yr ydych yn ei geisio. Ymfynwch, ac ymostyngwch i'w awdurdod oruchel yn mhob peth a berthyn i feithriniaeth y cyfryw gyd-gymdeithasiaeth; ac os bydd i wahaniaeth barn gyfodi mewn perthynas i ddehongliadaeth unrhyw ran o hono, edrychwch bob un ar eich gilydd fel rhai yn dilyn ei olygiadau cydwybodol ei hun ar y cyfryw awdurdod, a cherwch eich gilydd ar y cyfrif hwnw.' Ai ni themlent bod rhag-drefniadau yr undeb wedi eu penderfynu eisoes, yn y cyd-dderbyniad a wnaethent o'r llyfr? Ar y derbyniad cyffredinol o'r Bibl fel gair Duw, ac yn y gydnabyddiaeth o'i oruchaf awdurdod, yn nghyd a'r ddyledswydd sydd yn canlyn ar bob dyn i dilyn ei olygiadau cydwybodol ar ei gyfarwyddiadau; ar hyn, meddaf, y gosodir sylfaen, yr unig sylfaen ar yr hon y gellir adeiladu teml heddwch Crist'nogol.'

Fel hyn y mae ffurfio erthyglau a chredöau, a galw am dderbyniad ac ymostyngiad iddynt yn peri niweidiau anam-

gyffredadwy. Y mae y peth ynddo ei hun yn gabl-draith ar y doethineb a'r daioni dwyfol a lefarodd ac a roddodd yr Ysgrythyr yn ein dwylaw, drwy hōni fod awdwr neu awdwyr y cyfryw erthyglau neu gredo yn medru llefaru gwirionedd yn eglurach a symlach nag y llefarodd ysprydoliaeth Duw ef. Y mae dynion drwy hyn, fel y sylwai esgob Chillingworth, yn hōni anffaeledigaeth, ac yn dwyfoli eu tybiau eu hunain, yn neidio rhwng y gydwbybod a'i barnwr, ac yn cynhyg at yspeilio iawnderau y naill a'r llall. Y mae, tra yn proffesu effeithio undeb a heddwch yn yr eglwys, yn dyfod yn brif ffynhonell ymrysoniadau, cynhenau, a rhwygiadau; neu, os na byddant yn achosi y cyfryw bethau, y maent yn effeithio yr hyn sydd waeth, sef lladd yspryd barn ac ymchwil personol, ac yn rhwymo meddyliau yr holl gyfundeb yn ngefynau y gaethwasiaeth druenusaf. Y mae cyfansoddwyr y credo yn cymeryd eu cenad eu hunain i edrych a barnu dros ereill, nid yn unig yn yr oes hon, ond hefyd yn yr holl oesau a ddeuant, gan arwyddo nad oes i neb edrych & i lygaid ei hun, gweled mwy, na gweled dim yn amgen nag a welsant lwy, ond cymeryd pob peth ar eu hawdurdod, gan blygu ac ymostwng, credu a chyffesu, yn hollol ac yn unig fel y maent yn cael eu cyfarwyddo yn y gredo a osodir yn eu dwylaw, yn seliedig ag awdurdod cyfraith seneddol neu gymanfa eglwysig. Y mae y fath beth yn ysbeiliad o iawnderau meddwl bod cyfrifol ac anfarwol; a'r rhai a ymfoddlonant i roddi yr iawnderau hyn o'u dwylaw eu hunain, ydynt euog o anghyfiawnder ac anffyddlonddeb i'r ymddiried a roddwyd iddynt—derbyniasant hwynt, nid i'w gwerthu i ddwyllaw ereill, ond i farchnata & hwynt eu hunain. Nid oes gan un dyn fwy o hawl i drosglwyddo o'i law yr iawnderau hyn, nag sydd ganddo i roddi terfyn ar ei fywyd naturiol pan y myso; na chan neb arall fwy o hawl i'w cymeryd oddi arno, nag sydd gan y naill ddyn i gymeryd meddiannau neu einioes dyn arall.

Ni ddadlenodd un cynulleidfawr erioed yn wresocach a chadarnach yn erbyn arosodiadau dynol mewn crefydd, nag y darfu i'r dysgedig a'r enwog Dr. Hoadley, esgob Bangor, yn amser Sior y cyntaf. Y pigion canlynol a gymerwyd allan o lyfr a ysgrifennodd mewn atebiad i'r Dëon Sherlock, yr hwn a amddiffynai ddeddfau prawf a bwrdeisdrefi.

'Pan y mae Dr. Sherlock yn datgan,' medd efe, 'bod y rhai a ddaliant awenau y llywodraeth yn amser y diwygiad yn ddigon synhwyrol i wybod y buasai gadael llawn ryddid i bob dyn i wneyd y goreu o'i Fibl, heb unrhyw gyfarwyddyd nac ataliad, yn arwain yn union-gyrchol i ddryswch ac anhrefn, y mae yn cadarnhau mewn effaith, mai gogoniant ein llywodraeth ydyw, ddarfod iddi drefnu gosodiad cyfreithiol er atal pob dyn 'i wneyd y goreu o'i Fibl,' iddi sefydlu, nid cyfarwyddiadau yn unig, ond gwaharddiadau hefyd—efe a ddywed bod hyn yn dda er mwyn atal gwyllt-dybiau crefyddol. Yn awr, os gogoniant llywodraethwyr gwladol Eglwys Loegr, ydyw, eu gwaith yn darparu na chaiff Crist'nogion eu gadael 'i wneyd eu goreu o'r Bibl' mewn pethau crefyddol yn y wlad hon, yna rhaid mai gogoniant llywodraethwyr Pabaidd ydyw gwneuthur yr un peth mewn gwledydd Pabaidd, a llywodraethwyr Presbyteraidd yn y lleill. Yn ngolwg y blaenaf, y mae Protestaniaeth yr eglwyswr, yn dyb wallcof a ddeillia oddiar rydd ymarferiad o'r Ysgrythyrau, a'r un modd yn ngolwg yr olaf. Os felly, ai nid ydynt oll yr un fath a'u gilydd yn y golygiad hwn? a'u gogoniant yn waradwyddiant i'r hyn oll a ellir ei alw yn rhyddid Crist'nogol.

'Os ydyw gadael pob dyn yn rhydd a diataliad i wneuthur 'ei oreu o'i Fibl,' yn fath ddrwg annhraethol, o herwydd y cam-dybiau a ddeilliant oddiar anwybodaeth ac anghymwyder dynion i iawn-ddeall yr Ysgrythyrau; yn enw y nefoedd, Pa ham y ceisiwyd aflonyddu y byd a diwygiad erioed? Yn wir, ni fuasai ond breuddwyd neu ddelw o ddiwygiad heb y ddadl dros yr hawl-fraint gyffredinol hon i bob Cristion yn gyd-gyfartal. Os tardda y fath ganlyniadau niweidiol oddiwrth hyn, ag a gyfiawnhâ waharddiadau dynol a gwladol, Pa ham yr aflonyddwyd ar y gosodiadau Pabaidd, y rhai a fuasent yn atal y dryswch yn fwy effeithiol? A fydd i ni fel hyn watwar dynolryw, a dywedyd, bod y gosodiadau Pabaidd yn yr acbos dan sylw, yn wir yn ddrwg, ond yr eiddo Protestaniaid yn dda a defnyddiol iawn: bod gan Grist'nogion hawl i ymwrthod a phob rhwymedigaeth, onda osodom ni ein hunain arnynt; na all Pabyddion farnu pwy sydd yn alluog i wneuthur iawn ddefnydd o'r Ysgrythyrau, a phwy

nid ydynt, a'r cyffelyb. Y mae yn llawn bryd, debygaf fi, i ni adael heibio y fath dueddgarwch atom ein hunain yn yr achos hwn, a thafu y fath warthruddiad ar ein brodyr, rhag y daw y mwyaf anwybodus o honynt yn raddol i weled ein bod yn llefaru megis pe buasai y gosodiadau Pabaidd wedi eu symud er mwyn i ni gael lle i ddyfod yn mlaen i arglwyddiaethu ar eu crefydd, ac nid fel y byddai iddynt hwy fwynlau eu rhyddid.

'Mai nid rhydd a llawn ymarferiad diwahardd o'r ysgrythyrau gan bob dyn sydd yn cynhyrchu gwyllt boethion a ffolion dybiau cyfeiliornus, sydd eglur oddiwrth y ffaith, mai yn y gwledydd hyny, lle yr atelir y bobl yn hollol rhag darllen yr Ysgrythyrau y mae mwyaf o lawer o ddychymygion a ffol-dybiau ofergoelus. Pa mor luosog ydynt angenfilod penboethui yn mysg ysgrifenwyr cyfrinol yr Eglwys Babaidd? A pha fodd y mae yr ofergoelion gwrthun, a'r egwyddorion ffolion oll yn cael eu cynal a'u cadw yn fyw? O herwydd y diffyg o ganiatau y rhyddid hwn o lawn ymarferiad a'r Ysgrythyrau i'r bobl oll. Yn y lleoedd y mae y gwaharddiadau caethaf y ceir mwyaf o ffol dybiau am grefydd: o ganlyniad, ni ddychon fod rhydd ddefnydd o'r Ysgrythyrau yn arwain yn naturiol i'r peth ag sydd yn cynhyddu fwyaf lle nad ydynt yn cael eu defnyddio.

'Os bydd i neb rhyw un drwy gam-ddeall yr Ysgrythyrau syrthio i goleddu tybiau camsyniol, y mae y peth yn sefyll rhwng ei gydwybod ef ei hun â Duw barnwr y byd, yr hwn a roddodd iddo yr hawl hwn, er y gallai, neu er y tebygolrwydd y byddai iddo gamsynied wrth ei hymarfer. Ni ellir cyfiawnhâu y weithred o gymeryd ymaith hawl, atal neu gyfyngu ar hawl drwy awdurdod ddynol, a berthyn i ddynion drwy gyfraith ddwyfol, a berthyn iddynt fel creaduriaid cyfrifol a chymwys i grefydd: dan yr ystyriaeth hon nid oes gan ddeddfau dynol unrhyw awdurdodiad arnynt. Gallem, gyda mwy o gyfiawnder ac uniondeb, wahardd dynion i wneyd y defnydd goreu o'u llygaid neu o'u synwyr cyffredin yn eu galwedigaethau bydol, nag i beidio a gwneyd y defnydd goreu o'r gyfaith a gyhoeddai Duw i bawb ag y mae yn eu gallu ei chlywed.

'Mi gyngorwn y Dëon i ystyried pa fodd y planwyd Crist-

'nogaeth ei hun : a pha fodd y daeth gwir wybodaeth, yr hon sydd wrthwynebol i dywyllwch ac ofergoeldd mewn pethau crefyddol, i'r byd ar y cyntaf. Ai ni ddarfu i'r Gwaredwr alw ar bob dyn i edrych i mewn i'r honiadau a osodai ger ei fron, ac ymddiried ei achos i rydd ddewisiad pob dyn, pa un a ddeuai yn Gristion a'i peidio? Ai ni ddarfu i'w apostolion gymeradwyo y rhai hyny na fynent eu llywodraethu gan ddynol awdurdod, ond a chwiliant yr Ysgrythyrau mewn trefn i fod yn Grist'nogion, ar seiliau da, ac wedi hyny anog y rhai oeddynt yn Grist'nogion eisoes i brofi pob peth eu hunain? Ai nid yn y modd hwn y taenwyd gwirionedd yr efengyl, a'r wybodaeth o ewyllys Duw ar y cyntaf? A sonir am ryw waharddiadau ar y rhai a wnaethant y goreu o'r Bibl—oni uchel ganmolwyd hwy am hyny? Ac a all y moddion hyny, y rhai yn unig a dybid yn briodol i blanu Crist'nogaeth yn y byd, fod yn foddion i'w dinystrio yn mhlith dynion?

'Yr oedd y byd am amser y diwygiad wedi suddo mewn anwybodaeth cyffredinol, yr offeiriaid yn gystal a'r bobl, nid yn uniggyda golwg ar yr hyn a elwir llëenyddiaeth, ond hefyd gyda golwg ar wir Grist'nogaeth. Ystyrier yn gyntaf trwy ba foddion y dygwyd pethau i'r cyflwr truenus hwn, ac yna drwy ba foddion y symudwyd y drwg i raddau mawr yn y diwygiad. Yr ateb mewn gair byr yw hwn : yn hollol drwy gymeryd oddiar y bobl yr hawl yma o farnu drostynt eu hunain, yr uchelfraint hon a roddodd Crist yn llaw pob Cristion i'w hymarfer drosto ei hun, a thrwy ei threisio a'i doddi yn llaw un dyn, neu gyngor o ddynion i'w harfer dros ereill. Gwnaeth hyn bob ymfyniad personol yn beth ofer a pheryglus.

'Ond pan ddaeth y drygau hyn nid yn unig yn ganfyddadwy, ond hefyd yn deimladwy ac annyoddefol, pa fodd y meddyginiaethwyd hwy? Nid trwy bregethu hawl rhyw rai i farnu dros ereill mewn pethau crefyddol : nid trwy gyfyngu ar ryddid dynion i ymarfer a'r Ysgrythyrau; nid trwy ddistrywio'r uchelfraint a ymddiriedwyd yn nwyllaw pob Cristion : ond trwy alw ar bawb fel eu gilydd i chwilio yr Ysgrythyrau; eu gadael at eu llawn ryddid i ddewis eu cred a'u symundeb eglwysig drostynt eu hunain; rhydd ddatgan wrthynt y byddai i argyhoeddiion eu cydwybodau eu cyfiawnhau

yn eu gwaith yn gwneuthur felly : bod hawl ganddynt i benderfynu drostynt eu hunain : bod Crist wedi eu galw i'r llawn ryddid efengylaidd hwn, a'i fod yn sicrhau yr uchelfr faint hon i'w holl ganlynwyr, hawl i ddilyn goleuni eu cydwybodau eu hunain mewn crefydd : a'i bod yn ddyledswydd arnynt eu hymarfer. Hyn, a hyn yn unig, a ollyngodd belydrau y gwirionedd dwyfol i'r carchar uffernol hwnw o dywyllwch anwybodaeth, a choelgrefydd, yr hwn a wanhasai olygon, ac a gaethiwasai feddyliau dynolryw dros gyhyd o amser. Hyn a adfywiodd Grist'nogaeth megis o farw i fyw, drwy auron pawb at y ffynon a'r gwreiddyn, a hyn yn unig a sefydlodd wir wybodaeth yn lle tywyllwch, anwybodaeth, a chadwynau trais !

Dyna dystiolaeth ardderchog aelod, i'e, esgob o'r Eglwys Sefydledig, yn erbyn pob rhwymau trais, un arosodiad dynol mewn crefydd, a thros llawn a chyfartal rhyddid pob dyn fel eu gilydd i chwilio yr Ysgrythyrau drosto ei hun, ffurfio ei gred, a dilyn argyhoeddiadau ei gydwybod gan sicrhau nad oes yr hawl leiaf gan un dyn na chyngor o ddynion i gyfyngu arno yn yr achos hwn.

Y mae deddf-waharddiadau Pabaidd, ac arosodiadau eglwysi Protestanaidd, yn hollol o'r un egwyddor ac yspryd, er fod gwahaniaeth yn y ffurfa'r graddau. Gwahardda y ddeddf Babaid ei deiliaid i ddarllen gair Duw ; gwrthyd roddi y Bibl yn eu dwylaw, i'e, cymer ef o'u dwylaw, gan fygwth ei hesgymundod arnynt os ymyrantag ef. Yr arosodiadau o erthyglau a chredöau Protestanaidd, a roddant yr Ysgrythyr yn nwyllaw y bobl yn wir, a chymellant y darlleniad o hono, ond rhoddant y credo i'w ganlyn, gan ddywedyd, ' Dyma freinlen eich ffydd, cofiwch nid ydych i chwilio yr Ysgrythyrau mewn trefn i ymofyn pabeth na pha fodd yr ydych i gredu ; yr ydym ni wedi chwilio hyny drosoch, y mae eich credo wedi ei wneuthur yn barod eisoes i chwi, a'r modd y dywed efe wrthych, ' felly dywedwch, ac felly gwnewch, ' chwiliwch yr Ysgrythyrau wrth réol y credo, ac i'r dyben i chwilio am ymadroddion o hono i amddiffyn a chadarnhau ei erthyglau, os digwydd i chwi glywed rhyw un neu rai mor annuwiol ac ymosod yn eu herbyn.' Y blaenaf a wahardda ddarlleniad, a phob ymyraeth o un math o eiddo y bobl â gair y dystiolaeth ; a'r olaf, tra yn eu

hanog i ddarllen, a'u gwahardda i feddwl drostynt eu hunain uwch ei ben, ffurfio eu cred a dilyn goleuni eu deall a'u cydwybodau eu hunain. Dal meddyliau dynion yn nghaethiwed tra-awdurdod, *monopoleiddio* crefydd, eistedd yn nheyrngadair awdurdod ysprydol, &c. yw yspryd, egwyddor, ac amcan y naill a'r llall. Y ffurf Babaidd yn ddiâu o gadw y Bibl allan o'r golwg, yw yr un ddoethaf a sicraf o ateb y dyben. Ond y llall yw yr un ddiniweidiaf, o gymaint ag y mae yn rhoddi erfyn yn nghyraedd y rhai a rwymir yn garcharorion ganddi, â'r hwn y gallant lifio y gefynau, a thori y cadwynau, ac ymryddhau oddiwrthynt. Y mae carcharorion y ffurf Babaidd yn sicr ddigon, tra y medro eu cadw o olwg y Bibl, a'u hatal i'w ddarllen; ond nid yw y llall yn ddyogel uu diwrnod o'i charcharorion hi, tra yn caniatáu ac yn cymhell darlleniad o'r Ysgrythyr, na bydd iddynt, drwy ddarllen, ddyfod i weled eu hiawnderau o chwilio, meddwl, a barnu drostynt eu hunain, a phenderfynu mynu eu mwynhau.

Y gyntaf a furia y goleuni allan o'r carchar, fel na chaffo dywynu i mewn iddo; a'r olaf a ollwng y goleuni i mewn, ond a wahardda i'w garcharorion agoryd eu llygaid i'w dderbyn a'i fwynhau.

Drachefn, y gwahaniaeth rhwng credo a arosodir fel rheol a chyfraith â chredo a gyhoeddir yn unig fel hysbysiad neu fynegiad, yr hwn y dywedwyd am dano yn nechreu y benod hon ei fod yn hollol gyfreithlawn, ac mewn rhai amgylchiadau yn angenrheidiol, ydyw hyn, Cyflwynir hwn i sylw yn unig mewn ffordd o hysbysu yr hyn y mae cyfundeb o Grist'nogion neu eglwys, yn gredu ac yn amddiffyn fel gwirionedd—dywed ei gyfansoddwyr, 'Wele grynghodeb o'r egwyddorion a gredir yn ddiameu genym; yr ydym yn barnu yn ddoeth ac yn angenrheidiol eu cyhoeddi i'r byd yn y ffurf hon, fel y gallo pawb a chwenychont wybod pa beth yw ein hegwyddorion gael mantais deg i hyny. Cyn belled ag yr ydym ni yn medru deall, y rhai hyn ydynt y golygiadau a fabwysiedir gan eglwysi ein cyfundeb yn gyffredinol. Credwn y cydunent oll â'r sylwedd o honynt, er fe allai nad yn gwbl â'r ymadroddion, ac â'r modd y gosodir ambell feddwl allan. Ni olygir i'r ffurf yma fod yn rheol a deddf i un

eglwys, nag un aelod yn ein cyfundeb, ac ni ofynir gan un ymgeisydd am aelodaeth eglwysig yn ein mysg i'w dderbyu fel amod cymundeb. Pell oddiwrthym oedd bwriadu iddo fod yn gyfraith rwymedig ar Grist'nogion ein henwad yn yr oes hon, chwaethach yr oesau dyfodol. Yr ydym ni ein hunain, y rhai a'i cyfansoddent ac a gytunent arno, bob amser yn barod i dderbyn argyhoeddiad, ac i newid ein golygiadau ar y naill neu y llall o'r egwyddorion, os ymddangosant yn gamsyniol i ni. Dymunem i holl aelodau ein heglwysi, eglwysi ereill, i.e., a phawb, eu chwilio, a'u profi yn ofalus yn wyneb yr Ysgrythyr, cyn eu cymeradwyo, na'u condemnio. Ni fynem i neb rhyw un gymeryd dim a gaffo ynddynt yn ganiatâol fel gwirionedd, am ein bod ni yn dywedyd felly, ond i fesur yr holl egwyddorion â chorsen y gair, a phwyso pob gosodiad yn nghlorian y cyssegr, cyn derbyn na gwrthod dim ag sydd ynddo. 'Chwilier yr Ysgrythrau a ydyw y pethau hyn felly,' a pha beth bynag a ymddangoso yn y mynegiad hwn, i eglwys neu aelod, yn groes i oleuni eu cydwbybod ar air Duw, ein dymuniad ydyw ar fod i'r cyfryw ddylyn argyhoeddiad ei farn a'i ddeall ei hun ar y dystiolaeth ddwyfol, ac nid ymglymu mewn un modd wrth ffurf ein mynegiad hwn.'

Y mae yr olaf hwn yn talu teyrnged o barch ac anrhydedd i oruchel awdurdod y Gair datguddiedig, fel yr unig gyfraith arosodedig yn nheyrnas yr efengyl; ac yn gadael iawnderau cydwbybod heb eu cyffwrdd na'u treisio yn y mesur lleiaf. Nid yw yn dwyfoleiddio ac yn anffaeledigeiddio ei olygiadau ei hun mewn un modd. Nid yw yn atal un ymgeisydd i mewn, nac yn bwrw un aelod allan, o'r cymundeb eglwysig ar gyfrif ei anghydsyniad a'r naill neu y llall o'r egwyddorion cynwysedig ynddo, o ran y ffurf y gosodir hwynt allan ganddo.

Mai y Bibl, a'r Bibl yn unig yw deddf, neu reol awdurdodol ein cred a'n bucheddiad, sydd osodiad, debygid, ag y mae yn rhaid i ni addef, os ystyrir ei awdurdod ddwyfol, a dybenion uniongyrchol ei roddiad, yn nghyd a'i dystiolaethau pennodol am dano ei hun. 'Cyfraith yr Arglwydd sydd berffaith.' 'Yr holl ysgrythyr sydd wedi ei rhoddi drwy ysprydoliaeth Duw, ac sydd fuddiol i athrawiaethu, i

argyhoeddi, i geryddu, i hyfforddi mewn cyfiawnder, fel y byddo dyn Duw yn berffaith wedi ei berffeithio i bob gweithred dda.' Dyma gredo wedi ei rhoddi 'trwy ysprydoliaeth,' ym ddeddf a rheol athrawiaethu, argyhoeddi, ceryddu, a hyfforddi yn mhob peth da, ac felly nid oes lle i nag angen am un arall.

Wrth derfynu, dymunwn hysbysu nad ydys yn y sylwadau blaenorol yn amcanu cyhuddo pawb o'r personau a bleidiant ac a ymlynant wrth gredöau a chyffesion fel pethau cyfiawn ac anghenrheidiol, o fod yn euog mewn un modd o fwrriadu rhoddi y dñanrhydedd lleiaf i air Duw; dñameu fod llaweroedd o honynt yn ei garu ac yn ei barchu a'u holl galon, a'u bod yn cydwybodol olygu nad ydynt mewn un modd yn ei ddianrhydeddu yn eu gwaith yn arosod ac yn amddiffyn credöau, fel amod rhwymiad cymundeb Crist'nogol: y maent yn ddiâu mor gydwybodol yn amddiffyn hyn ag ydym ninau yn ei wrthwynebu. Y mae ein hargyhoeddiad ninau o ddrygedd a niweidiau annhraethol y fath arosodiadau, yn ein cyfiawnhau yn ein gwaith yn defnyddio y iaith gryfaf a ddychon gweddusrwydd Crist'nogol arferyd i gondemnio a gwrthwynebu yr egwyddor: credwn, ped ystyriai ein brodyr hyny yr achos yn deg a diragfarn, yn rhydd oddiwrth deimladau pleidiol, a serch-ymlyniad wrth hen ddefodau a thraddodiadau, yr ymysgydwent ac yr ymryddhäent yn ddiätreg oddiwrth y rhwymau hyn—y cyhoeddent Jubili o ryddid drwy holl eglwysi eu cyfundebau—y datodent rwymau tynion yr ieuau hyn oddi am yddfau yr holl aelodau, fel y gallent rodio yn sythion; a diâu genym ninau y byddai hyny yn argoel oreu am heddwch, cariad, undeb, a llwyddiant cyffredinol, a welodd eglwys Crist er dyddiau yr apostolion. Gwely darllynydd fod y syniadau hyn wedi eu cyhoeddi a'u cefnogi gan ddau wr enwog ag oeddynt yn llenwi y swydd uchelaf yn y cyfundeb Protestanaidd caethaf ar wyneb y ddaear; caethaf gyda golwg ar ei sel a'i ymroddiad i ddal i fynu osodiadau dynol mewn crefydd. Bu yr arosodiadau hyn, ac y maent eto, yn golynau yn nghydwybodau ac yn ddrain yn ystlysau a gobenyddiau llaweroedd yn y cyfundeb hwnw, a chyfundebau ereill hefyd; a byddant felly i barhâu hefyd hyd oni lwyr ymwrthodir a hwynt. Y maent yn atal-gloddiau rhwng

Crist'nogion a'u gilydd, yn atal rhydd gymundeb aelodau Crist y naill a'r llall, ac yn effeithio yn ddrwg a niweidiol yn mhob ystyr a golygiad. Pa heddwch a ellir dysgwyl yn yr eglwys Grist'nogol, tra fyddo hudoliaeth a dylanwad yr ardsodiadau hyn mor aml a chryfion yuddi? Brysied yr amser ag y byddo y llyfr dwyfol wedi dringo i'r orsedd yn Sion; yr amser ag y byddo hi yn edrych ac yn apelio ato fel ei hunig dywysog a'i chyfarwyddwr, pob meddwl yn rhy oleunedig, llednais a boneddigaidd i blygu nac ymostwng i unrhyw awdurdod bersonol na chymansfaol, ond i Crist yn ei air yn unig — 'yr holl feibion wedi eu dysgu gan yr Arglwydd,' ac nid crefydd wedi ei dysgu allan o athrawiaeth dynion; ac yna, 'Mawr a fydd heddwch ei meibion.' AMEN.

DIWEDD.



CLWYD-WASG,
 ARGRAFFWYD GAN THOMAS GEE,
 DINBYCH.

